

# CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Lewys Morgannwg · I

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU  
CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

*Cyfarwyddwr*

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT, FBA

*Golygydd y Gyfres*

Ann Parry Owen, BA, PHD

*Cymrodyr Ymchwil*

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA, MPHIL

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Barry James Lewis, MA, MPHIL, PHD

*Golygydd Ymgynghorol*

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, DLITT, FBA

*Bwrdd Golygyddol*

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

# GWAITH LEWYS MORGANNWG · I

golygwyd gan

A. CYNFAEL LAKE



ABERYSTWYTH  
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU

2004

h) Prifysgol Cymru ©, 2004.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 47 5 cyfrol 1

ISBN 0 947531 52 1 cyfrol 2

ISBN 0 947531 67X set o ddwy gyfrol

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

## Rhagair

Casglwyd cerddi'r bardd ynghyd gan E.J. Saunders a dyfarnwyd iddo radd MA yn 1922 am ei draethawd 'Gweithiau Lewys Morganwg'. Ychydig o sylw a gafodd Lewys yn y cyfamser gan feirniaid a haneswyr llên er bod modd dadlau ei fod yn un o feirdd pwysicaf yr unfed ganrif ar bymtheg. Cynnwys casgliad E.J. Saunders gant o gerddi Lewys Morgannwg ynghyd ag un cywydd serch y dylid ei briodoli i Dudur Aled a dau gywydd serch arall na ellir bod yn sicr bellach mai Lewys a'u canodd. Ni fu newid mawr yn ystod y pedwar ugain mlynedd diwethaf o safbwynt cwrpas canu'r bardd; saith gerdd yn unig a ddaeth i'r amlwg er pan gwblhaodd E.J. Saunders ei draethawd ymchwil yn nauddegau cynnar yr ugeinfed ganrif. Serch hynny, yr oedd dirfawr angen am gasgliad hylaw a fyddai yn rhoi cyfle i edrych o'r newydd ar ganu Lewys ac i ystyried yn wrthrychol ei briod le ymhlith beirdd cyfnod y cywydd.

Testun diplomatig a gynigiwyd yn 'Gweithiau Lewys Morganwg'. Yn unol ag arfer 'Cyfres Beirdd yr Uchelwyr', atalnodd y testun a'i ddiweddarau er bod nifer o ffurfiau Cymraeg Canol wedi eu cadw os oedd y gynghanedd neu'r odl yn dibynnu arnynt. Wrth olygu'r cerddi ceisiwyd seilio'r testun ar y ffynhonnell a oedd yn cynnig y darlleniadau gorau er bod y mesur a'r gynghanedd—a'r ystyr hefyd yn aml—yn mynnu bod darlleniadau o ffynhonnell neu o ffynonellau eraill yn cael eu hymgorffori ar dro yn y testun golygedig. Wrth restru'r ffynonellau ar ddiwedd pob cerdd rhoddwyd y flaenoriaeth bob tro i'r llawysgrif y pwyswyd drymaf arni wrth lunio'r testun. Cofnodwyd yr Amrywiadau yn orgraff y llawysgrif gyntaf yn ôl trefn yr wyddor. Dichon i lawer o'r darlleniadau gael eu llygru wrth i'r cerddi gael eu trosglwyddo ar lafar. Os bernid bod hynny wedi digwydd diwygiwyd y testun hyd yn oed os na fyddai i'r diwygiad warant lawysgrifol. Defnyddiwyd llythrennau eidalaid i ddynodi'r hyn a ychwanegwyd ac a newidiwyd—boed air neu lythyren unigol—wrth lunio'r testun. Rhestrir y darlleniadau amgen yn yr Amrywiadau a thrafodir yn y Nodiadau y diwygiadau a wnaethpwyd a cheisir eu cyfiawnhau. Dynoda'r bachau petryal fylchau yn y testun a dynoda [...] fod yr hyn sydd yn y llawysgrif bellach yn annarllenadwy.

Diogelwyd canu Lewys Morgannwg mewn rhyw gant a hanner o lawysgrifau. Un o ganlyniadau hynny yw bod llawer o'r geiriau unigol yn cael eu sillafu mewn mwy nag un ffordd: ceir *galant*, *galawnt*, *galont*, er enghraifft; *ffrins* a *ffrins*. Diau mai arfer neu fympwy copiwyd unigol sy'n cyfrif am lawer o'r ffurfiau hyn. Ceisiwyd cysoni sillafiad rhai geiriau ond

ni wnaed hynny yn ddeddfol am ei bod yn amlwg fod Lewys ei hun yn elwa yn gyson ar ei 'amlder Cymraeg'. Dengys y gynghanedd a'r odl fod rhaid wrth *dringo* a *tringo*, *henllwyth* a *henlwyth*, *rial* a *reiol*. Yn yr un modd manteisia Lewys ar y newidiadau a ddigwyddasai i'r iaith o ran ei harferion treiglo gan fod hynny drachefn yn caniatáu iddo rywffaint o ryddid ac ystwythder oddi mewn i ffiniau cyfyng mesur a chynghanedd. Dylid nodi, fodd bynnag, bod rhai ffurfiau a ddefnyddiwyd ganddo yn ymddangos yn wallus ac yn afreolaidd. Gelwir sylw at y cyfryw ffurfiau yn y Nodiadau.

Bu i mi elwa ar awgrymiadau a sylwadau nifer o gymwynaswyr a braint yw cael cydnabod fy niolch i Dr Cathryn Charnell-White, Dr Andrew Davies, Yr Athro Ceri Davies, Dr Bleddyn Owen Huws, Mr Daniel Huws, Dr Ceridwen Lloyd-Morgan, Yr Athro Ralph Griffiths, Mr M. Paul Bryant-Quinn a'r Athro Gruffydd Aled Williams. Carwn fynegi fy niolch i aelodau'r Bwrdd Golygyddol ac i'r Golygydd Ymgynghorol am eu sylwadau buddiol ac i staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru am eu cydweithrediad parod hwy. Fe'm rhyddhawyd am semestr o'm dyletswyddau yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Abertawe, pan oeddwn yn dechrau mynd i'r afael â gwaith Lewys Morgannwg, ac ni fuasai hynny'n bosibl heb gefnogaeth a chydweithrediad yr Athro Dafydd Johnston a'm cydweithwyr yn yr Adran. Mawr yw fy niolch iddynt hwythau. Y mae'r diolch pennaf yn ddyledus, unwaith yn rhagor, i Dr Ann Parry Owen, golygydd y gyfres, am ei gofal, ei hamynedd a'i chefnogaeth.

A. Cynfael Lake  
Hydref 2004

# Cynnwys

## RHAGAIRv

## BYRFODDAU

Llyfryddol .....	xi
Termau a geiriau .....	xxv

## GWAITH LEWYS MORGANNWG · I

RHAGYMDRODD.....	1
------------------	---

## TESTUN

1. Awdl foliant i Syr Edward Stradling, Sain Dunwyd.....	27
2. Cywydd i geisio heddwch Syr Edward Stradling, Sain Dunwyd.....	32
3. Awdl foliant i Domas Stradling, Sain Dunwyd.....	35
4. Awdl farwnad Syr Wiliam Mathau, Radur .....	38
5. Moliant Siors Mathau, Radur .....	43
6. Moliant Wiliam Mathau, Radur .....	46
7. Marwnad Marged Bawdrem .....	49
8. Moliant Syr Tomas Gamais, y Coety .....	52
9. Cywydd i erchi iechyd i fron Arglwyddes y Coety.....	54
10. Awdl farwnad Siôn Gamais .....	57
11. Moliant Crystor Fflemin, Trefflemin .....	62
12. Marwnad Arnallt Bwtler, Bryn-y-frân .....	65
13. Marwnad Watgyn Lochwr, y Sgêr .....	68
14. Awdl farwnad Ieuan ap Dafydd, Llangewydd .....	71
15. I ddeisyf cael Syr Edward Carn yn iach adref o Rufain.....	75
16. Moliant Crystor Twrbil, Pen-llin.....	78
17. Moliant Syr Rhys Mawnsel, Oxwich, pan oedd yn Iwerddon.....	81
18. Awdl farwnad Morys Sainsion.....	84
19. Moliant Edward Lewys, y Fan .....	88
20. Moliant Siors Herbert, Abertawe .....	91
21. Marwnad Rhys ap Siôn, Glyn-nedd .....	94
22. Awdl foliant i Leision, Abad Nedd .....	98

23.	Moliant Water Herbert, Sain Silian.....	104
24.	Marwnad Syr Siôn Rhaglan, y Carn Llwyd.....	108
25.	Marwnad Dafydd Cemais, Llancirwg.....	111
26.	Diolch i Wiliam Herbert am fantell.....	113
27.	Moliant Wiliam ap Siôn ap Tomas, Treowain.....	116
28.	Moliant Syr Wiliam Morgan, Pen-coed.....	119
29.	Moliant Syr Tomas Morgan, Pen-coed.....	122
30.	Marwnad Siôn ap Tomas ap Morgan, Caerllion.....	125
31.	Marwnad Tomas ap Syr Siôn Morgan, Machen.....	128
32.	Moliant Rolant Morgan, Machen.....	131
33.	Marwnad Mastr Harri Morgan.....	134
34.	Marwnad Syr Wiliam Herbert, Colbrwg.....	136
35.	Marwnad yr Arglwyddes Blaens.....	139
36.	Marwnad Wiliam Watgyn, Pen-rhos.....	141
37.	Moliant Tomas ap Wiliam, Pen-rhos.....	144
38.	Moliant Wiliam Siôn, Caerllion.....	147
39.	Marwnad Wiliam Siôn, Caerllion.....	150
40.	Moliant Siâms Gwnter, Porth-parc.....	152
41.	Moliant Rheinallt Powel, Berth Hir.....	155
42.	Awdl foliant i Harri, Arglwydd Herbert.....	158
43.	Awdl foliant i Harri, Iarll Caerwrangon.....	162
44.	Moliant Harri, Iarll Caerwrangon.....	166
45.	Moliant Harri, Iarll Caerwrangon.....	169
46.	Marwnad Harri, Iarll Caerwrangon.....	173
47.	Moliant Wiliam, Arglwydd Herbert.....	176
48.	Moliant Wiliam, Iarll Caerwrangon.....	179
49.	Moliant Wiliam, Iarll Caerwrangon.....	182
50.	Moliant Edward, Arglwydd Herbert.....	184

## NODIADAU

Cerddi 1–50.....	187
------------------	-----

## GWAITH LEWYS MORGANNWG · II

51.	Moliant Wiliam Fychan, Porthaml.....	345
52.	Marwnad Syr Wiliam Fychan, Porthaml.....	348
53.	Moliant Siôn Games, y Drenewydd.....	351
54.	Moliant Siôn ap Rhys, Aberhonddu.....	354
55.	Moliant Siôn ap Rhys pan wnaethpwyd ef yn farchog.....	357
56.	Awdl foliant i Syr Siôn ap Rhys, Aberhonddu.....	360



57.	Moliant Gruffudd Dwinn, Ystradmerthyr .....	363
58.	Awdl foliant i Ruffudd Dwinn, Ystradmerthyr .....	366
59.	Englyn i blas Gruffudd Dwinn, Ystradmerthyr .....	367
60.	Marwnad Hywel Penri, Glan-lais .....	368
61.	Marwnad Lewys ap Tomas a Gruffudd Llwyd, ei fab .....	371
62.	Marwnad tri brawd: Wiliam, Siôn a Thrahaearn Morgan .....	374
63.	Marwnad Syr Rhys ap Tomas .....	377
64.	Moliant Mastr Rhys Ieuanc .....	382
65.	Moliant Tomas ap Siôn, Abermarlais .....	385
66.	Awdl foliant i Water Defras, Arglwydd Fferes .....	389
67.	Moliant Rhisiart Defras .....	394
68.	Awdl foliant i Siôn Wgon, Cas-wis .....	397
69.	Moliant Siôn Wgon, Cas-wis .....	400
70.	Moliant Siôn ap Tomas ap Ffyllib, Pictwn .....	403
71.	Marwnad Siôn ap Tomas ap Ffyllib, Pictwn .....	406
72.	Moliant Huw Lewys, Tre'rdelyn .....	409
73.	Moliant Lewys Gwyn, Trefesgob .....	412
74.	Awdl foliant i Lewys Gwyn, Trefesgob .....	415
75.	I erchi gwartheg gan lawer o wŷr Morgannwg ar ran Lewys Gwyn, Trefesgob .....	416
76.	Marwnad Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn .....	419
77.	Moliant Pirs Mytwn, Alltmelyd .....	422
78.	Moliant Siôn Salbri, Dinbych .....	425
79.	Gofyn march gan Robert ap Rhys, Plasiolyn, dros Owain ap Syr Rhys .....	428
80.	Awdl farwnad Robert ap Rhys, Plasiolyn .....	431
81.	Moliant Cadwaladr ap Robert, Rhiwlas .....	435
82.	Moliant Siôn Wyn, Gwedir .....	438
83.	Moliant Robert Salbri, y Rug .....	441
84.	Awdl foliant i Domas Mostyn .....	444
85.	Moliant Huw Conwy, Bryneuryn .....	447
86.	Moliant Wiliam ap Wiliam, Cwchwillan .....	450
87.	Moliant Syr Wiliam Gruffudd, y Penrhyn .....	453
88.	Marwnad yr Arglwyddes Siân .....	456
89.	Moliant Edward Gruffudd, y Penrhyn .....	458
90.	Moliant Rhys Gruffudd, y Penrhyn .....	461
91.	Moliant Siôn Pilstwn, Caernarfon .....	464
92.	Moliant Syr Rhisiart Bwclai Hen .....	466

93.	Marwnad Tudur Aled.....	469
94.	Marwnad Iorwerth Fynglwyd .....	472
95.	Marwnad Rhydderch Dai Wëydd.....	475
96.	I Harri'r Wythfed am iddo briodi Ann Bwlen.....	478
97.	Awdl foliant i Harri'r Wythfed .....	481
98.	Moliant Harri'r Wythfed.....	485
99.	Awdl farwnad Harri'r Wythfed.....	491
100.	Moliant Illtud Sant .....	496
101.	I'r Grog yn Llangynwyd .....	500
102.	Moliant Mair o Ben-rhys.....	503
103.	Moliant Mair o Ben-rhys.....	506
104.	I'r Grog yn Llan-faes .....	510
105.	Hiraeth.....	516
106.	Gwayw serch.....	518
107.	Cwyn y bardd tlawd .....	521
	Atodiad i: Tynged y serchog.....	525
	Atodiad ii: Nychdod y bardd.....	528
	Atodiad iii: Englynion y ffydd .....	531
	Atodiad iv: Amryfal linellau a chwpledi.....	532
	Atodiad v: Englyn gan Forys Gethin i groesawu Lewys Morgannwg i Gaernarfon .....	535
	<b>NODIADAU</b>	
	Cerddi 51–Atodiad v .....	537
	<b>GEIRFA</b> .....	667
	Enwau personau.....	699
	Enwau lleoedd.....	707
	<b>LLAWYSGRIFAU</b> .....	713
	<b>MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU</b> .....	721
	<b>MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF</b> .....	725

# Byrfoddau

## Llyfryddol

Aberdâr	Llawysgrif yng nghasgliad Aberdâr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Abertawe	Llawysgrif yng nghasgliad Abertawe, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Arch Camb	<i>Archaeologia Cambrensis</i> , 1846—
B	<i>Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd</i> , 1921–93
Bangor	Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Cymru, Bangor
Bangor (Mos)	Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) ym Mhrifysgol Cymru, Bangor
BaTh	<i>Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban</i> , gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996)
BD	<i>Brut Dingestow</i> , gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
BDe	<i>Buched Dewi</i> , gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1965)
BL Add	Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
Bodewryd	Llawysgrif yng nghasgliad Bodewryd, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Bodley	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen
Bren Saes	<i>Brenhinedd y Saesson</i> , ed. Thomas Jones (Cardiff, 1971)
BRh	<i>Breudwyt Ronabwy</i> , gol. Melville Richards (Caerdydd, 1948)

- Brog Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- BT *Brut y Tywysogyon Peniarth Ms 20*, gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1941)
- BT (BR) *Brut y Tywysogyon ... Red Book of Hergest Version*, ed. Thomas Jones (Cardiff, 1955)
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- ByCyAt *Y Bywgraffiadur Cymreig 1941–1950 gydag Atodiad i'r Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1970)
- CA *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938)
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum*
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- CGD Bleddyn Owen Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c.1350–c.1630* (Caerdydd, 1998)
- CH William Gwyn Lewis, 'Astudiaeth o ganu'r beirdd i'r Herbertiaid hyd ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg' (Ph.D. Cymru [Bangor], 1982)
- CLC<sup>2</sup> *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)
- CLIH *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrwmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–93; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993–
- CMG *Cartae et Alia Munimenta quae ad Dominium de Glamorgancia pertinent* (6 vols., Cardiff, 1910)
- CO<sup>3</sup> *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans gyda chymorth Dafydd H. Evans (Caerdydd, 1997)

- CP G.E. Cokayne, *The Complete Peerage* (13 vols., London, 1910–40)
- CRC *Canu Rhydd Cynnar*, gol. T.H. Parry-Williams (Caerdydd, 1932)
- CSTB *Cywyddau Serch y Tri Bedo*, gol. P.J. Donovan (Caerdydd, 1982)
- CTC C.T. Beynon Davies, ‘Cerddi’r Tai Crefydd’ (M.A. Cymru [Bangor], 1973)
- Cy *Y Cymmrodor, The Magazine of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1877–1951
- Cylchg CHSFeir *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirion(n)ydd*, 1949–
- Cylchg HC *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 1960–
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939—
- Dafydd Benwyn: Gw Dafydd Huw Evans, ‘The Life and Work of Dafydd Benwyn’ (D.Phil. Oxford, 1981)
- Dan Llyfr ‘Daniel’ yn yr Hen Destament
- Dat ‘Datguddiad Ioan’ yn y Testament Newydd
- DGA *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*, ed. Helen Fulton (Llandysul, 1996)
- DGDG *Detholion o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1927)
- DGGD *Detholiad o Gywyddau Gofyn a Diolch*, gol. Bleddyn Owen Huws (Caernarfon, 1998)
- DLIM A. Cynfael Lake, ‘Gwaith Dafydd ap Llywelyn ap Madog, Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog, a Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan’ (M.A. Cymru [Abertawe], 1979)
- DMA *The Dictionary of the Middle Ages* (12 vols., New York, 1982–9)
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- DNB *The Dictionary of National Biography* (22 vols., London, 1908–9)

- DrOC *Drych yr Oesoedd Canol*, gol. Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen (Caerdydd, 1986)
- DWB *The Dictionary of Welsh Biography down to 1940* (London, 1959)
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3)
- L. Dwnn: HV *Heraldic Visitations of Wales*, ed. S.R. Meyrick (Llandovery, 1846)
- EANC R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)
- Ecs Llyfr ‘Ecsodus’ yn yr Hen Destament
- EEW T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923)
- EncB *Encyclopaedia Britannica* (24 vols., London, 1959)
- Études *Études celtiques*, 1936—
- EWGT *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Bartrum (Cardiff, 1966)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GBDd *Gwaith Bleddyn Ddu*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill o Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian M. Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996)
- GCH *Glamorgan County History* (6 vols., Cardiff, 1936–88)
- GDEp *Gwaith Dafydd Epynt*, gol. Owen Thomas (Aberystwyth, 2002)
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GDG<sup>3</sup> *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDGor *Gwaith Dafydd Gorlech*, gol. Erwain H. Rheinalt (Aberystwyth, 1997)

- GDID *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. A. Eleri Davies (Caerdydd, 1992)
- GDL1 *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- Geir Beibl *Geiriadur Beiblaidd*, gol. Thomas Rees, D. Francis Roberts, J.T. Evans, David Williams, Ifor Williams (2 gyf., Wrecsam, 1926)
- Gen Llyfr 'Genesis' yn yr Hen Destament
- GGDT *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*, gol. N.G. Costigan (Bosco) et al. (Aberystwyth, 1995)
- GGH *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990)
- GGI<sup>2</sup> *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGL1 *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
- GGM *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill*, gol. Nerys Ann Howells (Aberystwyth, 2001)
- GGrG *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*, gol. Rhiannon Ifans et al. (Aberystwyth, 1997)
- GHD *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GHS *Gwaith Hywel Swrdwal a'i deulu*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000)
- GIBH *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000)
- GIF *Gwaith Iorwerth Fynglwyd*, gol. Howell Ll. Jones ac E.I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GILIF *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lewys Aled*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2003)

- GILIV *Detholiad o Waith Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Vychan*, gol. J.C. Morrice (Bangor, 1910)
- Glam Hist *Glamorgan Historian*, ed. Stewart Williams (12 vols., Cowbridge, 1963–[1981])
- GLD *Gwaith Lewys Daron*, gol. A. Cynfael Lake (Caerdydd, 1994)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLIA *Gwŷr Llên Abertawe*, gol. Brynley F. Roberts (Llandybïe, 1982)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. Kathleen Anne Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn ‘Prydydd y Moch’*, gol. Elin M. Jones (Caerdydd, 1989)
- GMBr *Gwaith Mathau Brwmffild*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2002)
- GMRh *Gwaith Maredudd ap Rhys a’i Gyfoedion*, gol. Enid Roberts (Aberystwyth, 2003)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GO *L’œuvre poétique de Gutun Owain*, ed. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GOLIM *Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel*, gol. Eurys Rolant (Caerdydd, 1984)
- GP *Gramadegau’r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPB *Gwaith Prydydd Breuan, Rhys ap Dafydd ab Einion, Hywel Ystorm, a Cherddi Dychan Dienw o Lyfr Coch Hergest*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2000)



- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–2002)
- GPhE *Gwaith Syr Phylip Emlyn, Syr Lewys Meudwy a Mastr Harri ap Hywel*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2001)
- GRB *Gwaith Rhys Brydydd a Rhisiart ap Rhys*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1976)
- R.A. Griffiths: PW i R.A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277–1536* (Cardiff, 1972)
- R.A. Griffiths: RhT R.A. Griffiths, *Sir Rhys ap Thomas and his Family* (Cardiff, 1993).
- GSC *Gwaith Siôn Ceri*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)
- GSCMB ‘Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor’ (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1962)
- GSCyf *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd ‘Sypyn Cyfeiliog’ a Llywelyn ab y Moel*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998)
- GSH *Gwaith Siôn ap Hywel*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisiardyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GST *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (Caerdydd, 1980)
- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- Gwilym Tew: Gw Anne Elizabeth Jones, ‘Gwilym Tew: astudiaeth destunol a chymharol o’i lawysgrif, Peniarth 51, ynghyd ag ymdriniaeth â’i farddoniaeth’, (Ph.D. Cymru [Bangor], 1981)

- GWL ii *A Guide to Welsh Literature Volume II*, ed. A.O.H. Jarman and Gwilym Rees Hughes (Swansea, 1979)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddion Davies, yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor
- Gwysanau Llawysgrif yng nghasgliad Gwysanau, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Hafod Llawysgrif yng nghasgliad Hafod, yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- HCLI *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953)
- HG *Hen Gwndidau, Carolau, a Chwyddau*, gol. L.J. Hopkin-James a T.C. Evans (Bangor, 1910)
- HG Cref *Hen Gerddi Crefyddol*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1974)
- HGFM *The History of the Gwydir Family and Memoirs*, ed. J. Gwynfor Jones (Llandysul, 1990)
- Hist Mon J.A. Bradney, *A History of Monmouthshire from the coming of the Normans into Wales down to the present time* (4 vols., London, 1904–33)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- HW J.E. Lloyd, *A History of Wales* (London, 1912)
- Hywel Rheinallt: Gw Wendy Davies, ‘Testun beirniadol o waith Hywel Rheinallt’ (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1967)
- ID *Casgliad o Waith Ieuan Deulwyn*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1909)
- IGE<sup>2</sup> *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- Io ‘Yr Efengyl yn ôl Sant Ioan’ yn y Testament Newydd
- Iolo Aneurin Williams Llawysgrif yng nghasgliad Iolo Aneurin Williams, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- Iolo MSS *Iolo Manuscripts: A Selection of Ancient Welsh Manuscripts*, ed. Taliesin Williams (Llandoverly, 1848)
- IWJL Lucy Toulmin Smith, *The Itinerary in Wales of John Leland in or about the years 1536–1539* (London, 1906)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- J. Gwenogvryn Evans Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwenogvryn Evans, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- Job Llyfr ‘Job’ yn yr Hen Destament
- Jos Llyfr ‘Josua’ yn yr Hen Destament
- JPWM J.R.S. Phillips, *The Justices of the Peace in Wales and Monmouthshire 1541–1689* (Cardiff, 1975)
- J.R. Hughes Llawysgrif yng nghasgliad J.R. Hughes, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- KE Wm A. Shaw, *The Knights of England* (2 vols., London, 1971)
- KWL W.R.B. Robinson, ‘Knighted Welsh landowners, 1485–1558: a provisional list’, *Cylchg HC* xiii (1986–7), 282–98
- KWLC W.R.B. Robinson, ‘Knighted Welsh Landowners, 1485–1558: Corrigenda’, *Cylchg HC* xix (1998–9), 517–25
- LBS S. Baring-Gould and John Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)
- LCBS W.J. Rees, *Lives of the Cambro British Saints* (Llandoverly, 1853)
- Lewys Morgannwg: Gw E.J. Saunders, ‘Gweithiau Lewys Morganwg’ (M.A. Cymru [Bangor], 1922)
- LGC *Gwaith Lewis Glyn Cothi: The Poetical Works of Lewis Glyn Cothi*, ed. John Jones and Walter Davies (Oxford, 1837)

- LPFD *Letters & Papers, Foreign & Domestic of the Reign of Henry VIII* (21 vols., London)
- LPMG G.T. Clark, *Limbus patrum Morganiae et Glamorganiae* (London, 1886)
- LSEW *Lists of Sheriffs for England and Wales, Lists & Indexes No. IX* (Public Records Office, London, 1898)
- Luc ‘Yr Efengyl yn ôl Luc’ yn y Testament Newydd
- LIA *The Elucidarium ... from Llyvyr Agkyr Llandewi-vrevi, A.D. 1346*, ed. J. Morris Jones and John Rhŷs (Oxford, 1894)
- LICy *Llên Cymru*, 1950—
- LIDC *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llansteffan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LlyB *Llywelyn y Beirdd*, gol. J.E. Caerwyn Williams, Eurys Rolant ac Alan Llwyd (Gwasg Gwynedd, 1984)
- Marc ‘Yr Efengyl yn ôl Marc’ yn y Testament Newydd
- MArch Rice Merrick, *Morganiae Archaigraphia*, ed. Brian Ll. James (Barry Island, 1983)
- Math ‘Yr Efengyl yn ôl Sant Mathew’ yn y Testament Newydd
- MEnc Microsoft Encarta 97 Encyclopedia
- MFGLI *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Caerdydd, 1978)
- Mont Coll *Collections Historical and Archaeological ... by the Powysland Club*, 1868—
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MWM Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff and Aberystwyth, 2000)

- NBMM Eirian E. Edwards, 'Noddwyr y beirdd yn siroedd Morgannwg a Mynwy' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1970)
- NBSB Euros Jones Evans, 'Noddwyr y beirdd yn sir Benfro' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1972)
- NBSBM Tegwen Llwyd, 'Noddwyr beirdd yn siroedd Brycheiniog a Maesyfed' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1987)
- NBSD Robert Lewis Roberts, 'Noddwyr y Beirdd yn sir Drefaldwyn' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1980)
- NBSGaerf Eurig R.Ll. Davies, 'Noddwyr y beirdd yn sir Gaerfyrddin' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1977)
- NCE *New Catholic Encyclopaedia* (15 vols., Washington, 1967)
- NLWCM J.H. Davies, *The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts*, i (Aberystwyth, 1921)
- OBWV *The Oxford Book of Welsh Verse*, ed. Thomas Parry (Oxford, 1962)
- OCCL *The Oxford Companion to Classical Literature*, ed. M.C. Howatson (Oxford, 1989)
- OCD<sup>3</sup> *The Oxford Classical Dictionary*, ed. Simon Hornblower and Antony Spawforth (third ed. revised, Oxford, 1997)
- ODCC<sup>3</sup> *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed., Oxford, 1997)
- OED<sup>2</sup> *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989)
- p<sup>3</sup> William Owen-Pughe, *A National Dictionary of the Welsh Language* (third ed., Denbigh, 1873)
- PACF J.E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (Bangor, 1914)
- Panton Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- PFTA A. Cynfael Lake, 'Pedwar o Farwnadwyr Tudur Aled' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1994)
- RB *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, ed. J. Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1890)
- RC *Revue celtique*, 1870–1934
- RELI *Rhestr o Enwau Lleoedd*, gol. Elwyn Davies (Caerdydd, 1975)
- RM *The Text of the Mabinogion from the Red Book of Hergest*, ed. John Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1887)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J. Gwenogvryn Evans
- Rhisiart Fynglwyd, &c.: Gw M.E. Bassett, 'Gwaith Rhisiart Fynglwyd, Siôn Teg a Dafydd ap Siencyn Fynglwyd' (M.A. Cymru [Abertawe], 1983)
- Rhyddiaith Gymraeg i *Rhyddiaith Gymraeg Detholion o Lawysgrifau 1488–1609*, gol. T.H. Parry-Williams *et al.* (Caerdydd, 1954)
- 1 Sam 'Llyfr Cyntaf Samuel' yn yr Hen Destament
- 2 Sam 'Ail Lyfr Samuel' yn yr Hen Destament
- SC *Studia Celtica*, 1966—
- SCWMBLO vi F. Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford*, vi (Oxford, 1924)
- Siôn Brwynog: C Rose Marie Kerr, 'Cywyddau Siôn Brwynog' (M.A. Cymru [Bangor], 1960)
- Stowe Llawysgrif yng nghasgliad Stowe, yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- Tanybwllch Llawysgrif Tanybwllch, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- TCHNM *Trafodion Cymdeithas Hanes a Naturiaethwyr Môn*, 1913–
- TCHSDd *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 1952–
- THSC *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–
- TLIM G.J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948)
- TMC *Treigl y Marchog Crwydrad*, gol. D. Mark Smith (Caerdydd, 2002)
- Traeth *Y Traethodydd*, 1845–
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TYP<sup>2</sup> *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- Thelwall Llawysgrif Thelwall, yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1978)
- WCCR<sup>2</sup> Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (second ed., Cardiff, 1976)
- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- WG1 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- WG2 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983)
- G. Williams: RRW Glanmor Williams, *Renewal and Reformation Wales c. 1415–1642* (Oxford, 1993)
- Wrecsam Llawysgrif yng nghasgliad Wrecsam, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

W Surnames	T.J. Morgan and Prys Morgan, <i>Welsh Surnames</i> (Cardiff, 1985)
WWR <sup>2</sup>	H.T. Evans, <i>Wales and the Wars of the Roses</i> (new ed., Stroud, 1995)
Wy	Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
YB	<i>Ysgrifau Beirniadol</i> , 1965—
YCM <sup>2</sup>	<i>Ystorya de Carolo Magno</i> , gol. Stephen J. Williams (ail arg., Caerdydd, 1968)
YGIV	<i>Ystorya Gwlat Ieuan Vendigeit</i> , gol. Gwilym Lloyd Edwards (Caerdydd, 1999)
YSG	<i>Ystoryaeu Seint Greal</i> , gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1992)



*Termau a geiriau*

a.	ansoddair, -eiriol	f.	ffolio
adf.	adferf	<i>fl.</i>	<i>floruit</i>
amhff.	amherffaith	ff.	ffolios
amhrs.	amhersonol	Ffr.	Ffrangeg
amr.	amrywiad ar	g.	(c.) canrif; gwrywaidd
anh.	anhysbys	gn.	geiryn
ardd.	arddodiad, -iaid	gol.	golygwyd gan
arg.	argraffiad	grb.	gorberffaith
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	grch.	gorchymynol
At.	Atodiad	grff.	gorffennol
b.	benywaidd	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
ba.	berf anghyflawn	gw.	gweler
be.	berfenw	H.	Hen
bf. (f.)	berf, -au	h.y.	hynny yw
bg.	berf gyflawn	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
bg.a.	berf gyflawn ac anghyflawn	<i>id.</i>	<i>idem</i>
c.	<i>circa</i>	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
c. (g.)	canrif	ll.	lluosog; llinell
C.	Canol	Llad.	Lladin
C.C.	cyn Crist	llau.	llinellau
cf.	cymharer	llsgr.	llawysgrif
cfrit.	gradd gyfartal	llsgrau.	llawysgrifau
cmhr.	gradd gymharol	m.	mewnol; marw
Cym.	Cymraeg	myn.	mynegol
cys.	cysylltair, cysylltiad	n.	nodyn
d.e.	dan yr enw	neg.	negydd, -ol
d.g.	dan y gair	O.C.	oed Crist
dib.	dibynnol	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
Diw.	Diweddar	pres.	presennol
dyf.	dyfodol	prff.	perffaith
e.	enw	prs.	person, -ol
eb.	enw benywaidd	pth.	perthynol
ebd.	ebychiad	r	<i>recto</i>
ed.	<i>edited by, edition</i>	rh.	rhagenw, -ol
e.e.	er enghraifft	rhif.	rhifolyn, rhifolion
eg.	enw gwrywaidd	S.	Saesneg
eith.	eithaf	td.	tudalen
e.p.	enw priod	tt.	tudalennau
<i>et al.</i>	<i>et alii</i>	un.	unigol
<i>et seq.</i>	<i>et sequentes</i>	v	<i>verso</i>
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	vols.	volumes



## Rhagymadrodd

### *Ei ach a chyfeiriadau ato*

Cofnodwyd ach Lewys Morgannwg yn Peniarth 178,<sup>1</sup> casgliad o achau a luniodd Gruffudd Hiraethog tua'r un adeg ag yr enillodd ei radd yn ddisgybl pencerddaid.<sup>2</sup> Yn ôl yr ach honno yr oedd Lewys yn fab i Risiart ap Rhys ab Ieuan ap Hywel ap Rhys Fychan ap Rhys Foel ap Rhys Goch. 'Lewys Morgannwg', fodd bynnag, yw'r ffurf ar ei enw a arddelir bron yn ddieithriad yn y llawysgrifau sy'n cynnwys ei gerddi.<sup>3</sup> *Myvi lewys Morgannwc* a ysgrifennodd Lewys ei hun ar waelod trwydded Gruffudd Hiraethog,<sup>4</sup> a digwydd yr un enw ar dri achlysur yn y drwydded, ond *ll ap Rysiert* yw'r ffurf wrth droed cerdd 42 yn llawysgrif Peniarth 60, cerdd y barnai Gwenogvryn Evans y gallai fod yn llaw'r bardd.<sup>5</sup> Digwydd y ffurf *lhwelyn ap Rychart* drachefn yn llawysgrif Llansteffan 6, un o'r ffynonellau cynharaf sy'n cynnwys gwaith y bardd,<sup>6</sup> ond gwelir *lewys morganwc* wrth droed cywydd arall yn yr un llawysgrif.<sup>7</sup> Diogelwyd pedwar o'r cerddi yn llaw Syr Siôn ap Rhys, Aberhonddu, awdur *Yn y lhyvyr hwnn*.<sup>8</sup> Priodolodd ef y cywydd moliant i'r brenin Harri VIII i *Lewys ap Richard als morganwc*.<sup>9</sup>

Disgynyddion Einion ap Collwyn oedd teulu Lewys Morgannwg, a

<sup>1</sup> Pen 178, 41. Gw. hefyd WG1 302, 306; GRB vii. Y mae dwy ran i llsg. Pen 178; y gyntaf sydd yn llaw Gruffudd Hiraethog, a barnai Gwenogvryn Evans ddarfod ei llunio tua 1545, gw. RWM i, 991–4. Tra chamarweiniol, fel y sylwodd G.J. Williams yn TLIM 43, yw'r ach a roddir yn LPMG 188. Diau mai ar Pen 178 y seiliwyd yr ach a roddir yn LIGC 872D [= Wreccsam 1], 409. Codwyd y rhan fwyaf o'r deunydd sydd yn y llsg. hon o lyfrau Gruffudd Hiraethog, gw. RWM ii, 346–60. Ceir trafodaeth ar Lewys a'i yrfa yn TLIM 62–71 a chan Ceri W. Lewis yn 'The literary tradition of Morgannwg down to the middle of the sixteenth century', GCH iii, 515–21. Gw. hefyd ByCy 529 a CLC<sup>2</sup> 477.

<sup>2</sup> Enillodd y radd honno yn 1545/6, gw. CLC<sup>2</sup> 291–2; GGH xxiv–xxv; gw. hefyd y ffynonellau a restrir yn nhroednodyn 4.

<sup>3</sup> Yn y cofnod Saesneg yn LIGC 13166B, 47, sef y llyfr achau a ysgrifennodd Roger Williams tua 1614, nodir *Rys brydyth had sone named Rychard ye sayd Rychard had a sonne named llen ap Rychard the wch llen ap Rychard was named lewis morganwg in north wales*, ond yn y cofnod Cymraeg ar y tudalen blaenorol, nodir *o Rys brydyth y bv Rychard ap Rys y Rychard y bv llen ap Rychard yr hwn y elwid yn lewis morganwg*. Cyhoeddwyd y deunydd yn Iolo MSS 199–200.

<sup>4</sup> Pen 194. Argraffwyd y deunydd yn RWM i, 1021; GGH xxvi–xxvii; Rhyddiaith Gymraeg i, 46–7.

<sup>5</sup> RWM i, 437–40. Ond priodolir cerdd 104 yn yr un llsg. i *lewys morganwc*, gw. Pen 60, 27. Digwydd ail gopi o gerdd 42 yn Pen 113 ac megis yn Pen 60 fe'i tadogir ar *lhwelyn ap Risiart*, gw. Pen 113, 12.

<sup>6</sup> Cerdd 104; LlSt 6, 247.

<sup>7</sup> Cerdd 107; LlSt 6, 238.

<sup>8</sup> Cerddi 54–6, 98.

<sup>9</sup> LIGC 9048D, 21a.

pherthynai Marged, gwraig Rhisiart ap Rhys, a Gwenllïan, gwraig Rhys ab Ieuan, i'r un llwyth. Ni chynigir unrhyw wybodaeth am wraig Lewys nac am ei ddisgynyddion yn Peniarth 178, ond diogelwyd mewn llawysgrif arall enwau dau o blant Lewys a'u disgynyddion hwy.<sup>10</sup> Prin iawn yw'r cyfeiriadau cyfoes at Lewys ac nid yw'r cerddi, hwythau, yn datgelu fawr ddim amdano. Gwyddys fod ei dad a'i daid yn gysylltiedig â Thir Iarll<sup>11</sup> ac wrth farwnadu Iorwerth Fynglwyd, fe'i huniaetha Lewys ei hun â phrydyddion y cwmwd: *Ba ddyrnod bu ddoe arnom, /Beirdd Tir Iarll? Bu orddod drom.*<sup>12</sup> Yn ôl Thomas Wiliems, fodd bynnag, claddwyd Lewys yn *rhef y bont vaen*,<sup>13</sup> ac y mae hyn yn gyson â'r sylw a wnaeth Thomas Wilkins a oedd yn byw nid nepell o'r Bont-faen. *The sd Bard*, meddai tua 1657, *lived in Cowbridge by the Crosse there.*<sup>14</sup> Ond os yw'r dystiolaeth gyfoes yn dameidiog ac yn annigonol, y mae gan Iolo Morganwg ddigon i'w ddweud amdano. A barnu wrth y nodyn yn llawysgrif LIGC 13154A, trigai Lewys yn Bromyard yn swydd Henffordd pan luniodd y gyfres o englynion i'r ffydd, ac yr oedd mewn gwth o oedran erbyn hynny.<sup>15</sup> Ymhelaethodd mewn nodyn ar ddiwedd y cywydd i Illtud Sant:

Hodnant y gelwir yr afon fechan neu r nant y sydd yn rhedeg drwy Lanilltyd, Yr oedd Lewys Morganwg meddai Sion Bradford yn Ddistain ar diroedd Wiliam Herbert Iarll Rhaglan yn Llanilltyd yr hynn nid yw annhebygol canys yr oedd ef yn fawr iawn ei barch gyda r Iarll hwnnw ir hwnn (ac y mae felly fyth iw eppil) yr oedd Tiroedd helaethion a Phen Arglwyddiaith yn Llanilltyd, os felly nid rhyfedd ir Bardd fyned yn gyfoethog a phrynu tiroedd ac Arglwyddiaeth (Mannor) ym Mromiart (Bromyard) fal y gwelwch canys fal y dywaid Rhys Pengeldin y mae had Disteiniaid yn tyfu n frasdwf iawn ym mhob tir Ymofynner ai gwr o Lanilltyd oedd Llywelyn Brydydd Hodnant a fu nghylch y flwyddyn 1360. Jolo Morganwg.<sup>16</sup>

Mewn dalen yn ei law sy'n cofnodi anectodau am y beirdd, dilynodd Iolo'r trywydd ymhellach:

Fe fu llawer un or Prydyddion yn Ystiwardiaid i rai o Arlwyddi Rhial

<sup>10</sup> Yn ôl Pen 447, 11, yr oedd gan Lewys fab (Hywel) a merch (Cicill).

<sup>11</sup> GRB vii; TLIM 38–48.

<sup>12</sup> 94.23–4.

<sup>13</sup> BL Add 31055, 48<sup>v</sup>. Yn ôl y nodyn yn llaw Iolo yn LIGC 13139A, 62, *Lewys Morganwg a gladdyd yn Nhref y Bont Faen ym Morganwg dan ganol Porth y Gangell. yn ol ei ddmuniad ei hunan fal y caent bawb a gyrchaint ford yr allor ddarsang arno (Medd Llyfr Sion Bradford).*

<sup>14</sup> Card 3.464, 173; TLIM 63–4.

<sup>15</sup> *Lewys Morganwg ai cant pan oedd bedwar ugeinmlwydd a deg oed Ym Mromiart yn Sir Henffordd (o Lyfr Twm Rhobert)*, gw. Atodiad iii. Diolchaf i Dr Cathryn Charmell-White am alw fy sylw at y gerdd hon. Er i Iolo restru yn LIGC 13089E, 320 enwau 14 o feirdd a fu'n bresennol, meddai, mewn eisteddfod yn Llandaf yn y flwyddyn 1564, a Dafydd Benwyn, yn bymthegfed, yn farnwr amynt, nid oes sôn am Lewys Morgannwg ar yr achlysur hwn.

<sup>16</sup> LIGC 13125B, 290.

diweddfaf Morganwg fal y bu Lewys Glynn Cothi a Hywel Dafydd ab Ieuan ab Rhys a Gutto'r Glynn a Lewys Morganwg a Ieuan ab Owain ab Rhydderch ag eraill yn enwedig I'r Ieirll Siosbar, Herbert &c ag yr oedd iddynt Dy yn Llanilltyd fawr lle byddent yn byw ag yn bod yn enwedig ar amseroedd ar Ty a elwir y Cwrt ag yno yddoedd Lewys Morganwg yn byw pan wnaeth ef Cywydd Illtud Sant.<sup>17</sup>

Diau na ddylid llyncu'r cyfan hyn yn ddihalen o ystyried bod y cywydd i Illtud a welir yn LIGC 13125B yn cynnwys 16 llinell nas ceir yn y ffynonellau eraill, a bod y rhain yn cysylltu ffigurau megis Teilo, Cynog, Dewi a'r bardd Taliesin â'r sant—ymgais Iolo yn ddiau i ychwanegu at bwysigrwydd y ganolfan eglwysig yn Llanilltud. Diogelwyd yn llaw Iolo ddau gopi o awdl Lewys i Leision, abad Nedd, a chynnwys y rhain drachefn linellau y gellir bod yn weddol sicr mai Iolo ei hun a'u lluniodd. Yn ôl Iolo:

Llyma Awdl a gant Lewys Morganwg, Pencerdd y Tair Talaith, i Leision, Abad Glynn Nedd, ai dymunes, er dysgu goreuon yr hen fesurau Cerdd Dafawd i'r Prydyddion ieueinc a wahodded i Fonachlog Nedd i'r Cyfeistedd ar wyr wrth Gerdd Dafawd a fu yno yn Amser y Brenin Harri'r Seithfed, ag ar yr awdl honn y mae llawer o'r hên Fesurau gorchestol.<sup>18</sup>

Taniwyd dychymyg Iolo gan y modd y disgrifiodd Lewys yr abaty yn *unifersi Nedd* ac yn *ysgol hygyrch ysgolheigion*,<sup>19</sup> ac ymddengys fod yr hanesyn ar ddiwedd yr awdl yn llawysgrif LIGC 13100B yn rhoi cnawd am yr egrn sychion gwreiddiol.<sup>20</sup>

Perthynai Lewys Morgannwg i deulu o brydyddion er bod peth ansicrwydd ynghylch union arwyddocâd y disgrifiad a gynigiodd Gruffudd Hiraethog yn ei lyfr achau pan alwodd dad Lewys yn *Rissiant morgannwg*

<sup>17</sup> LIGC 13089E, 330. Cf. LIGC 13160A, 196: *Lewys Morganwg o Lanilltyd fawr ym Morganwg Bardd Siaspar Iarll Rhismwnt oedd ef, ag a gladdwyd yn y Bont faen. ef a wnaeth y Llyfr a elwir Telyn Arthur sef Dosparth ar fesurau Cerdd Dafawd, a Llyfr Cyfarwyddyd Gorchestol am holl Ynys Prydain*. Dywed Iolo iddo seilio un o'i drafodaethau ar 'Freiniau a Defodau Beirdd Ynys Prydain' ar ddeunydd a ddaeth o lyfr *Lewys Morganwg a'u casglwys o lawer o'r hen lyfrau*, gw. LIGC 13099B, 161. (Diolchaf i Dr Cathryn Charnell-White am y cyfeiriadau hyn.) Rhaid derbyn geirwiredd Iolo yng ngoleuni sylw Siôn Dafydd Rhys yn *Camrobrytanicae Cymraeaeve Linguae Institutiones et Rudimenta* 165: *A hynn olh a dhywawt Lewys Morgannwc, ag a'i scribhennodh am y dhau Eghlyn vchod ynn ei lybhr o'i law e'hûn*. Edrydd Gweirydd ap Rhys rai hanesion am gyswllt Lewys â Chadair Morgannwg, gw. *Hanes Llenyddiaeth Gymreig* (Liverpool, d.d.), 252–3: 'Yr oedd yn ddysgybl i Gwilym Tew yng 'Nghadair Morgannwg' yn y fl. 1460; i Meredydd ap Rhosser, yn 1470; i Ieuan Deulwyn, yn 1480; ac yn llywydd ei hun ar y 'Gadair' honno, yn 1500.'

<sup>18</sup> Gw. cerdd 22; BL Add 15003, 88<sup>f</sup>. Ailadroddir y nodyn yn yr ail fersiwn a gopiodd Iolo yn LIGC 13100B, 353, ond dyddiodd yr achlysur y *nawfed flwyddyn o'i goroned* [= 1518]. Ac ar ddiwedd yr awdl ychwanegodd y nodyn *Lewys Morgannwg Pencerdd y Tair Talaith ai cant, ger bronni Eisteddfod Gwyr wrth Gerdd Dafawd a wnaethpwyd ym Monachlog Nedd gan yr Abad Lleision (o Lyfr Lewys Hopkin)*.

<sup>19</sup> 22.86, 88.

<sup>20</sup> Gw. olnod cerdd 22.

*prydydd a phenkerdd*, a'i daid, Rhys Brydydd, yn *penkerdd o gelvyddydd kerdd davawd*.<sup>21</sup> I'r un teulu y perthynai Gwilym Tew<sup>22</sup> a'r cwndidwr Tomas ab Ieuan ap Rhys, wŷr Rhys Brydydd a chefnder Lewys.<sup>23</sup> Ysywaeth ni ddigwydd yr un cyfeiriad at Lewys yng nghanu'r beirdd hyn ac ni sonnir amdanynt hwy yn ei gerddi yntau. Un wedd ar weithgarwch beirdd Morgannwg yn ail hanner y bymthegfed ganrif a hanner cyntaf y ganrif ddilynol yw'r canu ymryson. Bu nawdd cartref Si n Stradling yn y Merthyr Mawr yn destun ymryson rhwng Iorwerth Fynglwyd a Rhisiart ap Rhys<sup>24</sup> ac ar ddau achlysur gwahanol bu Iorwerth yn ymryson â dau fardd arall—Wiliam Egwad a Siôn ap Hywel Gwyn—ynghylch nawdd yr abad Dafydd ym Margam.<sup>25</sup> Bu Rhisiart Fynglwyd, mab Iorwerth, yn ei dro yn ymryson â Syr Rhisiart Lewis a Morgan Elfael.<sup>26</sup> Ychydig o gerddi Siôn ap Hywel Gwyn a Lang Lewys, y 'clerwr llawen', chwedl G.J. Williams,<sup>27</sup> sydd ar glawr ond y mae'r cyfan, bron, yn gerddi ymryson.<sup>28</sup> Ni ddiogelwyd unrhyw gerddi ymryson o'r eiddo Lewys Morgannwg; gallai deunydd o'r fath fod wedi cynnig goleuni gwerthfawr ar ei ymwneud â'i gyd-brydyddion ym Morgannwg. Ond tybed a yw Iorwerth Fynglwyd yn ei enwi yn y gyfres o englynion a luniodd 'pan haerawdd y prydyddion iddo ef bobî moch bychain yn rhith cwingod ar ddydd ei fabsant yn Saint-y-brid'? Dychenir pedwar bardd yn y gyfres, sef Lang Lewys, rhyw Rhys Wilym a rhyw Robin. Nid annichon mai Lewys Morgannwg yw'r pedwerydd aelod o'r frawdoliaeth farddol a ddaw o dan ei lach:

Llywelyn geuddyn gywyddon gwaedlyd  
ac odlau hir wyddnon;  
mae naw bai'n y man y bôn  
ynglŷn yn ei englynion.<sup>29</sup>

Y mae'r englyn a ganodd Morys Gethin i groesawu Lewys Morgannwg i Gaernarfon yn fwy cadarnhaol ei gywair. Yn yr unig gerdd lle y cyferchir y bardd yn uniongyrchol, fe'i gelwir yn *cefn awengerdd cyfiowngan*,<sup>30</sup> a thelir teyrnged i'w awen yn y cywydd marwnad a luniodd Dafydd Benwyn i Risiart Fynglwyd. Dygir i gof y beirdd a gysylltied â Thir Iarll ac a ragflaen-

<sup>21</sup> Pen 178, 41; TLIM 42.

<sup>22</sup> Fe'i disgrifir yn llyfr achau Gruffudd Hiraethog yn frawd i Risiart ap Rhys Brydydd, ond gallai fod yn ewythr iddo, brawd ei dad, gw. TLIM 43–4; CLC<sup>2</sup> 303.

<sup>23</sup> CLC<sup>2</sup> 718–19; TLIM 122–4.

<sup>24</sup> GIF cerddi 33–4; GRB cerdd 17.

<sup>25</sup> GIF cerddi 31–2 (ymryson Iorwerth a Wiliam Egwad); cerddi 35–6 (ymryson Iorwerth a Siôn ap Hywel Gwyn).

<sup>26</sup> Rhisiart Fynglwyd, &c: Gw cerddi XXII–XXIV; XXX–XXXI.

<sup>27</sup> TLIM 59.

<sup>28</sup> MFGLI 2218 (Lang Lewys); 3457 (Siôn ap Hywel Gwyn).

<sup>29</sup> GIF 41.17–20. Barnai E.I. Rowlands mai Lang Lewys oedd hwn gan mai ef sy'n cael ei ddisgrifio yn yr englyn blaenorol. Nid ystyriodd y geill fod yma gyfeiriad at Lewys Morgannwg.

<sup>30</sup> Gw. atodiad v.

asai Rhisiart, ac yn eu plith ei dad, Iorwerth Fynglwyd, a Lewys Morgannwg *aml ei awen*.

Un ydoedd, awen odiaith,  
 O Dir Iarll, awdur y iaith.  
 Yn raddol yno yr oeddynt,  
 Yr holl feirddion gwychion gynt.  
 Merddin a ganodd mawrddysg,  
 Mae Taliesin, dewin dysg?  
 Mae Edyrn, mwy a adwen?  
 Mae Dafydd Ddu, bu yn ben?  
 Mae gwŷr Tir Iarll? Mae gair trwm?  
 Mae deugant? Mae y degwm?  
 Y mae yn och am y naill,  
 Mae Iorwerth? a mae eraill?  
 Mae Lewys aml ei awen,  
 Mawr gŵyn, gwalch Morgannwg wen?<sup>31</sup>

*Prydydd godidog yn amser harri wythfed* oedd Lewys yn ôl y disgrifiad yn Peniarth 119 ar ddiwedd y cywydd i'r grog yn Llan-faes,<sup>32</sup> ac er bod Gwilym Puw yn gresynu na wyddai pwy a ganodd y cywydd hwnnw, fe'i canmolodd yn hael: *Mae r cowydd yn odieth, Ac yn Gweddu Jr Goreu or Beirdd*.<sup>33</sup> Plesiwyd un o gopiŵyr cerdd 60 yn yr un modd. Ychwanegodd ar ôl y teitl 'Marwnad Howel Penrhi' y geiriau *a da ydi*.<sup>34</sup>

Ni ddiogelwyd yr un farwnad i Lewys Morgannwg ond gwelir ymhlith y lliaws cwpledi enghreifftiol ym mhapurau Iolo ddau ddarn yr honnir eu bod yn perthyn i ddwy farwnad a ganwyd iddo, y naill gan Ddafydd Benwyn:

Nid â yn y Wyddfa wenn  
 Un Llywiawdr well ei awen  
 Na gwr a wna fraint ar gerdd  
 Lwys bwnc ail Lewys Bencerdd.<sup>35</sup>

a'r llall gan Feurig Dafydd:

Naddai gerdd yn wydd gwirddysg  
 Naddiad per pob doethder dysg.<sup>36</sup>

<sup>31</sup> Rhisiart Fynglwyd, &c: Gw XLIII.67–80. Gw. hefyd Dafydd Benwyn: Gw cerdd 1.

<sup>32</sup> Cerdd 104.

<sup>33</sup> LIGC 4710B, 261. Ailadroddir y sylw ar ddiwedd yr ail gopi o'r cywydd sydd yn ei law yn LIGC 13167B, 164.

<sup>34</sup> CM 206, 131<sup>f</sup>.

<sup>35</sup> LIGC 13154A, 122.

<sup>36</sup> LIGC 13108B, 203. Codwyd nifer o'r cwpledi o gerddi hysbys, nifer ohonynt yn farwnadau i feirdd. Dyfynnir rhan o farwnad Huw ap Dafydd i Dudur Aled, cywydd nas diogelwyd yn llawysgrifau'r de, ac ar sail un darlleniad gellid tybio bod Iolo wedi codi'r dyfyniad o ffynhonnell a gollwyd erbyn hyn, gw. *ib.* 64–5. Gellid dadlau, felly, fod y marwnadau gan y ddau fardd o Forgannwg yn rhai dilys a gollasid yn llwyr pe na buasai am gymwynas Iolo, ond pwyll piau hi o

Y mae'r ffaith mai Lewys a lofnododd drwydded Gruffudd Hiraethog pan raddiodd hwnnw yn ddisgybl pencerddaid yn dystiolaeth gadarn mai mab Rhisiart ap Rhys oedd y bardd pwysicaf yng Nghymru yn ystod yr ugain mlynedd a ddilynodd eisteddfod gyntaf Caerwys (1523). Ef, yn sicr, yw bardd mwyaf toreithiog y tridegau a'r pedwardegau ac er na roddwyd llawer o sylw i'w waith, priodol ei osod yn gyfysgwydd â Thudur Aled, bardd cadeiriog yr eisteddfod gyntaf, a Gruffudd Hiraethog a fu farw cyn yr ail eisteddfod ond a adawodd farc annileadwy ar yr achlysur am mai ei ddisgyblion ef a raddiwyd yn 1567. Bu farw Tudur Aled yn fuan ar ôl yr eisteddfod gyntaf a gellid tybio bod y rhengoedd barddol wedi eu bylchu yn ddfrifol yn ugeiniau'r ganrif pan gollwyd nid yn unig fardd cadeiriog yr eisteddfod gyntaf, ac athro'r beirdd, ond hefyd Lewys Môn, Iorwerth Fynglwyd a'r bardd-offeiriad Syr Dafydd Trefor. Ymddengys mai Lewys Morgannwg a ddaeth i'r adwy ac fe'i disgrifir yn nhrwydded Gruffudd yn *penkerdd ac athro kerdd dafawd o vewn siroedd a thaleithiev Kymrv.*<sup>37</sup> Unwaith eto, prin iawn yw'r dystiolaeth am weithgarwch Lewys Morgannwg, yr athro. *Disgybl y lewys morgannwc* yw Gruffudd yn ôl y drwydded ond ni chyfeiriodd at ei athro yn ei gerddi ac ni chanodd ef farwnad. Awgryma'r farwnad a ganwyd i Risiart Fynglwyd ei fod yntau yn ddisgybl i Lewys ond unwaith yn rhagor ni ddiogelwyd unrhyw dystiolaeth am ymwneud yr athro a'r disgybl. A barnu wrth draethawd John Jones, Gellilyfdy, disgwylid i'r beirdd ddiogelu'r Tri Chof, sef yr iaith Gymraeg, hanes campau'r gorffennol ac achau'r bonedd. Cydnabu Gruffudd ei ddyled i'w athro gyda golwg ar y trydydd cof. Dangosodd P.C. Bartrum mai un hynodrwydd a berthynai i waith achyddol Gruffudd oedd ei barodrwydd i gydnabod ei ffynonellau. Awgryma sylwadau megis *Llyfr yr athro Lewys Morgannwg, Medd yr athro Lewys a per Lewys Morgannwg* yn llyfrau Gruffudd fod y ddau fardd mewn cyswllt â'i gilydd, a thebyg i Ruffudd dderbyn rhai o lyfrau ei athro.<sup>38</sup> Daeth llyfrau eraill i ddwylo dau o feirdd Morgannwg, ac i ddau o ddisgyblion Lewys, os gellir rhoi coel ar dystiolaeth Iolo Morganwg, sef Meurig Dafydd a Dafydd Benwyn. Nid yw Lewys Dwinn yn enwi Lewys pan yw'n sôn am yr *hen wyr briglwydion, o*

gofio ei fod yn dyfynnu tri chwpled o gywydd marwnad Lewys i Iorwerth Fynglwyd ynghyd ag un cwpled arall nad yw i'w weld yn un o'r llsgrau. hysbys, gw. nodyn brig cerdd 94. Yn yr un modd, dyfynnir dau gwpled o farwnad Siôn ap Hywel i Dudur Aled ond ni ellir tystio i ddilysrwydd yr ail, gw. LIGC 13108B, 203. Dangosodd G.J. Williams fod Iolo yn dyfynnu o'r cywydd yr honnodd i Feurig Dafydd ei ganu i Wiliam Egwad hefyd, gw. *Iolo Morganwg a Chywyddau'r Ychwanegiad* (Llundain, 1926), 108–9.

<sup>37</sup> Gw. troednodyn 4 lle y rhestrir y ffynonellau llawysgrif a phrintiedig sy'n cynnwys y drwydded. Barnai G.J. Williams fod Lewys yn athro *trwy rym komisiwn gras y brenin harri wythfed*, ond dadleuodd D.J. Bowen fod y geiriau hynny yn cyfeirio at yr hawl (er nad oes dim yn hysbys am yr union amgylchiadau) a gafodd Lewys a'r ddau gomisiynydd arall i ddyfarnu gradd i Ruffudd Hiraethog, gw. GGH xxvi–xxvii; TLIM 64–6.

<sup>38</sup> P.C. Bartrum, 'Genealogical sources quoted by Gruffudd Hiraethog', *Cylch LIGC* xxvi (1989–90), 1–9.



*brydyddion perffaith awduredig graddol oll y daethai ef ei hun ar ei traws,*<sup>39</sup> ond cynhwysir enw Lewys mewn rhestr o foneddigion llengar a beirdd yng nghopi Siôn Rhydderch o waith Dwnn:

Lewis Morganwg, Poet Lawrel, or Chiefe Musician; he hath written concerning the three provinces, and Meurig David, and David Benwyn, Glamorganshire, Poets, had his Books, and they were fairly written.<sup>40</sup>

Y mae lle i gredu mai Dafydd Benwyn a luniodd achres William Blethin, esgob Llandaf. Yn y penillion sy'n cyfarch y darllenwyd cydnabyddir dyled y bardd a'r achyddwr i'w ffynonellau. Dyma awgrym iddo yntau ddod o dan adain y bardd hŷn, fel yr awgrymodd Dafydd Huw Evans.<sup>41</sup>

This card one David Benwyn made ...  
 For that he hath his warrant good  
 of everie ones discente,  
 Collected out of Teylo's book,  
 on aunciente monumente.  
 Of Lewys of Morganwg Barde,  
 a searcher of Recordes ...<sup>42</sup>

### *Ei ddyddiadau*

Ar sail y canu a ddiogelwyd, nid oes unrhyw dystiolaeth fod Lewys yn canu yn ystod oes y brenin Harri VII (m. 1509), a rhaid trin y rhagair a luniodd Iolo Morganwg i'r awdl ar y pedwar mesur ar hugain yn ochelgar.<sup>43</sup> Yn y rhestr o enwau'r beirdd yng ngeiriadur Dr John Davies, Mallwyd, rhoddir Lewys Morgannwg yn ei flodau yn y flwyddyn 1520.<sup>44</sup> Ailadroddir y dyddiad ar chwe achlysur yn y llawysgrifau a theg tybio mai dilyn Dr John Davies a wnaed.<sup>45</sup> Ond diogelodd rhai o'r copiŵyr wybodaeth am gerddi unigol ac nid oes achos i'w drwgdybio. Yn wir, cofnodwyd dau ddyddiad yn

<sup>39</sup> L. Dwnn: HV i, 7. Perthyn y cofnod i'r flwyddyn 1586.

<sup>40</sup> L. Dwnn: HV i, 331, troednodyn 11. Ceir sylw i'r un perwyl yn LIGC 322E, 100 ac yn LlSt 156, gw. RWM ii, 733. Yn ôl y rhestr 'Achau Beirdd Morganwg' yn llaw Iolo Morganwg yn LIGC 13116B, 373, yr oedd y ddau hyn a Llywelyn Siôn yn ddisgyblion i Lewys, ac yr oedd Lewys yn ei dro yn ddisgybl i Iorwerth Fynglwyd.

<sup>41</sup> Dafydd Benwyn: Gw vi.

<sup>42</sup> Hist Mon iv/ii, 152.

<sup>43</sup> Gw. uchod td. 3.

<sup>44</sup> Gw. M.T. Burdett-Jones, '“Index Auctorum” Henry Salesbury ac “Authorum Britannicorum Nomina” John Davies', Cylch LIGC xxvi (1989–90), 353–60 (t. 358). Ni restrir Lewys ymhlith ffynonellau Henry Salesbury ond cyfeiriodd Thomas Wiliems at ei waith wrth iddo baratoi ei eiriadur, sef Pen 228 (a gopiwyd rhwng 1604–7), gw. *id.* '“Catalogus authorum Britannicorum” Thomas Wiliems', Cylch LIGC xxvii (1991–2), 109–110. Digwydd yr un dyddiad yn *Flores Poetarum Britannicorum*, gw. td. 75 yn argraffiad Robert Jones (Llundain, 1864).

<sup>45</sup> J 101 (cerdd 6); LlSt 30 (llsgr. a gopiwyd o dan gyfarwyddyd Dr John Davies, cerdd 45); LlSt 147 (cerdd 63); LIGC 1024D (cerdd 98); LIGC 13071B (cerdd 101); Tanybwlic (cerdd 105).

llaw'r noddwyr eu hunain. Dywed Gruffudd Dwnn am gerdd 57: *Lewys morgannwg ai kant nydolig pan oedd oed krist mil a hanner ag vn vlwyddyn a deigain*,<sup>46</sup> a thystia Siôn ap Rhys mai yn 1548 y lluniodd Lewys y cywydd i ddathlu ei urddo yn farchog.<sup>47</sup> Gresyn nad oes modd gwybod bellach pwy a gopiodd lawysgrif BL Add 14880 yn ystod hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg.<sup>48</sup> Diogelodd y copiwr anhysbys wybodaeth bwysig am dair cerdd. Rhoes y dyddiad 1551 wrth y cywydd marwnad i Siôn ap Tomas, Pictwn (cerdd 71), a hysbysir mai yn 1546 ac ar gais Syr Wiliam Herbert y canwyd yr awdl i Harri VIII.<sup>49</sup> Y mae peth aneglurder, serch hynny, gyda golwg ar y ddau sylw sydd yn gysylltiedig â'r farwnad i Lewys ap Tomas (cerdd 61). Yn ôl un sylw, canwyd y cywydd flwyddyn union cyn marw'r gwrthrych ond prin y gall hynny fod yn wir gan i'r bardd gydfarwnadu'r mab a fu farw 32 *dydd oi vlaen y tad*.<sup>50</sup>

Y mae'r marwnadau a ganodd Lewys yn rhoi syniad pur gywir am ddechrau a diwedd cyfnod ei weithgarwch. Diogelwyd 31 marwnad, sef ychydig dros chwarter ei holl waith a thua thraean ei holl gerddi defodol. Gellir cynnig dyddiadau pendant i un farwnad ar bymtheg a dengys y rhain fod y bardd yn canu dros gyfnod o ryw ddeng mlynedd ar hugain rhwng 1525 a 1553. Ac y mae lle i gredu bod yr un farwnad ar ddeg na ellir rhoi dyddiadau mor bendant iddynt yn perthyn i'r un blynyddoedd. Gedy hynny bedair marwnad sy'n llawer mwy anodd eu dyddio. Nid annichon fod y pedair hyn yn perthyn i ugeiniau'r unfed ganrif ar bymtheg, a phe bai mwy yn hysbys am y gwrthrychau a goffawyd yn y rhain, gellid dyddio dechrau cyfnod blodeuo Lewys yn fwy manwl ac yn fwy hyderus.<sup>51</sup>

O edrych ar y gwaith yn ei grynswth, nid oes yr un gerdd y gellir datgan yn ffyddiog iddi gael ei llunio ar ôl y flwyddyn 1558. Y mae'n bosibl fod Lewys wedi byw hyd chwedegau'r ganrif, ond gan mai saith cerdd yn unig o blith y 107 sy'n perthyn i'r pumdegau, gallai hynny awgrymu mai gweithgarwch ysbeidiol oedd clera i Lewys erbyn hynny. Ymddengys i Lewys deithio i sir Benfro yn 1551 i farwnadu Siôn Ffilyb, Pictwn (cerdd 71), ac efallai iddo farwnadu'r tri brawd yng nghyffiniau Cydweli (cerdd 62) yn ystod yr un daith. I Went a Morgannwg y perthyn y pum cerdd sy'n weddill a gallai'r bardd fod wedi eu llunio erbyn 1555.<sup>52</sup> Y mae'r sylw *dug a aned* yn peri tybio mai yn 1553, yn fuan wedi geni mab ac etifedd i Wiliam, Iarll Caerwrangon, y lluniwyd y cywydd moliant i Edward (cerdd 50) er na ellir

<sup>46</sup> Gw. Llst 40. Ailadroddodd yr wybodaeth yn LIGC 3063E: *y ddau gwpl gyntaf or kywydd awnaeth lewys morgannwg i ryffydd dwnn yw r hain pan oedd oed krist mil 5 ag vn a deigain*. Gwelir y dyddiad 1541 mewn tri chopi diweddarach, sef LIGC 728D; LIGC 16964A; Llst 133.

<sup>47</sup> *Lewys morgannwg ai kant 1548*, gw. LIGC 9048E; cerdd 55.

<sup>48</sup> Yn ôl J. Gwenogvryn Evans, 'The whole MS. evidently was written in S. Wales, if not in Dyved', gw. RWM ii, 1074.

<sup>49</sup> Gw. nodyn brig cerdd 97.

<sup>50</sup> Gw. nodyn brig cerdd 61.

<sup>51</sup> Cerddi 10, 36, 60, 88.

<sup>52</sup> Cerddi 6 (1553–8), 15 (c. 1555 a chyn 1558), 35 (1553–7), 49 (c. 1551), 50 (c. 1553).

profi hynny yn derfynol.<sup>53</sup>

Llawer mwy anodd, fel yr awgrymwyd, yw dyddio dechrau'r yrfa farddol. Y farwnad i Syr Rhys ap Tomas (cerdd 63) yw'r gerdd gynharaf y gellir rhoi dyddiad pendant iddi. Nid oes yr un gerdd arall y gellir ei dyddio yn bendant cyn 1525 er bod awgrym yn un o'r ddwy awdl i Harri Somerset i'w chysylltu â'r flwyddyn 1523. Er bod modd datgan yn hyderus bod chwe cherdd ddefodol arall, yngyhyd â'r marwnadau i Dudur Aled ac i Iorwerth Fynglwyd, yn perthyn i'r 1520au, tâl nodi bod dwy gerdd ar bynthegeg bellach a allai berthyn i'r un degawd er y gallent fod yn ddiweddarach. Y mae'r ansicrwydd ynghylch union ddyddiadau noddwyr y bardd yn golygu nad oes modd dyddio'r cerddi sydd ar glawr yn fanwl. Yr hyn sydd yn arwyddocaol yw fod Lewys, erbyn canol y dauddegau, wedi canu yn ei sir ei hun ac yn sir Gaerfyrddin, yn Rhaglan yng Ngwent ac yn sir Gaernarfon. Gallai hyn awgrymu ei fod eisoes wedi gwneud enw iddo'i hun fel bardd a'i fod yn canu erbyn 1520, fel y cynigiodd Dr John Davies, Mallwyd.

Y mae un peth arall y tâl ei grybwyll gyda golwg ar ddyddiadau'r cerddi. Diogelwyd un o'r ddwy awdl a ganodd Lewys i Harri, Iarll Caerwrangon, yn llawysgrif Peniarth 60 a barnai J. Gwenogvryn Evans y gallai fod yn llaw'r bardd ei hun.<sup>54</sup> Cynigiodd Daniel Huws y dyddiad 1510–15 ar gyfer y llawysgrif gyfansawdd hon a gallai hynny awgrymu bod Lewys yn canu ddeng mlynedd cyn blwyddyn marw Syr Rhys ap Tomas.<sup>55</sup> Os felly rhaid derbyn bod y cywydd i'r grog yn Llan-faes sy'n digwydd yn yr un llawysgrif yn perthyn i gyfnod cynnar yn hanes y bardd ynghyd â'r cywydd serch 'Cwyn y bardd tlawd' (cerdd 107) a ddiogelwyd mewn llawysgrif gynnar arall, sef Llansteffan 6.<sup>56</sup> Nid yw'n amhosibl fod yr wyth gerdd serch a chrefydd wrth enw'r bardd yn perthyn i'r un cyfnod.

### *Cwmpas ei ganu*

Diogelwyd 107 o gerddi Lewys Morgannwg. Gellir dosbarthu'r rhain fel a ganlyn:

<sup>53</sup> Sylwedolodd E.J. Saunders fod hon yn gerdd bwysig o safbwynt dyddio gweithgarwch y bardd. 'Awgrymaf fod Lewys Morgannwg yn ei flodau rhwng 1520 a 1565. Gan fod ei dad a'i dadcu yn benceirddiaid, ac ereill o'r teulu yn feirdd gwych, credaf i'r bardd ddechreu canu yn ieuanc. Ganwyd ef efallai tua 1500 neu 1495' [ychwanegwyd *neu 1495* mewn llawysgrifen], gw. Lewys Morgannwg: Gw, 22. Yr oedd E.J. Saunders yn llygad ei le wrth gydnabod bod G.T. Clark wedi cyfeiliorni wrth nodi i Syr Wiliam Fychan, Porthaml, gwrthrych cerdd 52, farw yn 1564 am fod Lewys yn y farwnad yn crybwyll Harri VIII a'r brenin Edward VI (m. 1553), ond eto, er gwaethaf yr wybodaeth gamarweiniol a gynigiwyd yn LPMG 241 ynghylch Syr Wiliam Fychan, mynnai gredu mai plentyn ifanc yn hytrach na baban a gyfarchwyd yng ngerdd 50. Dadleuodd ymhellach mai yn nhridegau'r ganrif y lluniwyd y cywydd i Edward Cam, gw. nodyn brig cerdd 15. Nid ymddegens iddo ystyried y posibilrwydd fod y gerdd yn perthyn i'r pumdegau.

<sup>54</sup> Cerdd 42; RWM i, 437–40.

<sup>55</sup> MWM 63. Hefyd 42.49–56n.

<sup>56</sup> MWM 63.

Mawl	63	Marwnad	31
Gofyn	4	Cymod	1
Crefydd	5	Serch	3

Y mae 12 o'r cerddi mawl yn awdlau a chwech o blith y 31 marwnad. Cywyddau yw'r gweddill ac eithrio'r un englyn yn y dosbarth cyntaf sy'n glod i gartref Gruffudd Dwnn yn Ystradmerthyr.

I noddwyr eu sir eu hunain y canai beirdd Morgannwg ond ar brydiau troent eu golygon naill ai tua'r dwyrain a'r gogledd-ddwyrain i siroedd Mynwy a Brycheiniog neu tua'r gorllewin—i sir Gaerfyrddin yn bennaf ond i sir Benfro yn achlysurol. Yr un yw'r patrwm yn achos Lewys ond bod y cerddi a ganodd ym mhob sir yn fwy lluosog. O'r 99 cerdd ddefodol, sef y cerddi mawl, marwnad, gofyn a chymod, perthyn 50 i siroedd Morgannwg a Mynwy, a chanwyd 71 o blith y 99 i noddwyr y ddwy sir hyn ynghyd â siroedd Brycheiniog, Caerfyrddin a Phenfro. Rhyw un gerdd o blith bob pump, felly, a ganwyd i noddwyr y siroedd eraill. Ni pherthyn yr un gerdd i Geredigion ac y mae'n bosibl nad ymwelodd Lewys o gwbl â'r sir honno; a barnu wrth awgrym John Leland, ni wyddai ryw lawer am ddaearyddiaeth y sir:

Aber Ayrton is a iii beneth Llanclere [Llan-llyr], and ther he goith into the maine. Peraventure Lleuys Morganne the barth was deceivid in this, taking it for Neuport.<sup>57</sup>

Ar y llaw arall perthyn 12 cerdd i Arfon a Meirion. At hyn canodd Lewys ar un aelwyd yn siroedd Trefaldwyn, Dinbych a Môn ac ar ddwy aelwyd yn sir y Fflint. Canodd hefyd bedair cerdd i'r brenin Harri VIII ond lluniwyd dwy ohonynt, fe ymddengys, ar gais noddwyr o Gymry.<sup>58</sup>

Gellid disgwyl y buasai mwy o gerddi yn perthyn i Forgannwg nag i nemor un sir arall ond mewn gwirionedd perthyn mwy o gerddi defodol i sir Fynwy nag i sir Forgannwg er mai'r canu i un teulu yn benodol sy'n troi'r fantol o blaid sir Fynwy. Yn ôl Eirian Edwards, 'Ychydig iawn a wyddom am draddodiad llenyddol Morgannwg a Gwent cyn y bedwaredd ganrif ar ddeg; yn wir gellir dweud am Went na feddai fywyd llenyddol fel y cyfryw yn y canrifoedd dilynol, beth bynnag am gyfnodau blaenorol'.<sup>59</sup> Y mae i Lewys le hynod o bwysig, felly, pan ystyrir diddordebau diwylliannol uchelwyr y sir.<sup>60</sup> Gellir chwyddo'r cyfanswm sy'n gysylltiedig â Morgannwg trwy gyfrif y cerddi crefyddol; perthyn pedair o'r pum cerdd grefyddol i Forgannwg a dwy o'r marwnadau i feirdd a cherddorion gan mai gwŷr o'r sir honno oedd Iorwerth Fynglwyd a Rhydderch Dai Wëydd. Nid amhriodol cysylltu'r farwnad i Dudur Aled â sir Gaerfyrddin gan iddo ddiweddu ei

<sup>57</sup> IWJL 51–2.

<sup>58</sup> Gw. nodyn brig cerddi 96, 97.

<sup>59</sup> NBMM 2.

<sup>60</sup> Gw. A. Cynfael Lake, 'Lewys Morgannwg a Gwent', *Dwned*, 10 (i ymddangos).

ddyddiau yng Nghaerfyrddin. Fe'i claddwyd, yn ôl tystiolaeth ei farwnadwyr, yn nhŷ'r Brodyr Llwydion yn y dref. Bu i'r farwnad a ganodd Lewys i Syr Rhys ap Tomas gylchrediad helaeth iawn a dyma un o'i gerddi mwyaf adnabyddus. Nid annichon mai Lewys ei hun a ddatganodd y gerdd yn ystod ei ymweliadau â'r de a'r gogledd. Bu farw Tudur a Syr Rhys tua'r un adeg. Yn rhyfedd, ni wyddai copïwyr y gogledd am farwnad Lewys i'w gydfardd ac yn llawysgrifau Morgannwg yn unig y diogelwyd hon.

Prif noddwyr Lewys, a barnu wrth y cerddi sydd ar glawr, oedd ieirll Caerwrangon. Canodd naw cerdd i dair cenhedlaeth ac ymddengys iddo ymwneud â'r teulu hwn dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain. Ond yr oedd iddo groeso cynnes ar aelwydydd eraill. Canodd i Ruffudd Dwnn, Ystradmerthyr, i Lewys Gwyn, Trefesgob, ac i Syr Siôn ap Rhys, Aberhonddu, ar dri achlysur ac i Siôn Wgon, Cas-wis, ar ddau achlysur. Cyfarchodd ddwy genhedlaeth o Stradlingiaid Sain Dunwyd a thair cenhedlaeth o Fatheuaid Radur. Canodd glodydd Syr Wiliam Gruffudd, y Penrhyn, a dychwelodd i'r gogledd ar ddau achlysur arall i foliannu dau o'i feibion. Canodd i chwech o Forganiaid sir Fynwy; perthynai tri i gangen Pen-coed a thri i gangen Machen. Cafodd Lewys achlysur i foli ac i farwnadu Wiliam Fychan, Porthaml, Wiliam Siôn, Caerllion, a Siôn ap Tomas, Pictwn. Ar y llaw arall, gwelir iddo ymweld â chynifer â 35 cartref lle y canodd ar un achlysur yn unig, ac y mae'n bur debyg fod nifer o gerddi Lewys wedi eu colli. Trafodir cadwraeth y canu isod a dangosir mai'r teuluoedd eu hunain a ddiogelodd lawer o'r cerddi.

Ni chafwyd anhawster wrth geisio adnabod noddwyr Lewys Morgannwg. Yr oedd i holl noddwyr y bardd le amlwg yn eu cymunedau ar gyfrif eu cyfoeth, eu gwaedoliaeth a'u swyddi. Bu Wiliam Gruffudd, y Penrhyn, yn Siambren Gwynedd rhwng 1508 a 1531, ac erbyn canol y tridegau yr oedd Rhisiart Bwclai, un arall o noddwyr y bardd, yn dal y swydd. Penodwyd Water Defras yn Brif Ustus siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi yn dilyn marwolaeth Syr Rhys ap Tomas er na ddaethai'r anrhydedd hwnnw i'w ran pan gyfarchodd Lewys ef. Gwasanaethodd Siors Mathau a Chrystor Twrbil yn siryfion Morgannwg ac felly Rheinallt Powel, Siôn Wgon, Siôn ap Tomas a Siôn Pilstwn yn eu siroedd hwythau. Digwydd enwau'r noddwyr yn gyson ymhlith yr ustusiaid heddwch a phenodwyd nifer ohonynt yn aelodau o amryfal gomisiynau. Ym mis Ionawr 1535, er enghraifft, dewiswyd ugain o wŷr amlwg Morgannwg ynghyd ag esgob Llandaf a'u gorchymyn i archwilio buddiannau'r tai crefydd yn yr esgobaeth. Yr oedd deg o'r ugain hynny ymhlith noddwyr Lewys Morgannwg. Teulu ieirll Caerwrangon oedd prif noddwyr Lewys, fel y gwelwyd. Diolch i nawdd a chefnogaeth Harri VII yn y lle cyntaf a'i fab Harri VIII ar ei ôl, daeth Charles Somerset a'i etifedd, Harri, yn ffigurau blaenllaw ym mywyd cyhoeddus Cymru yn hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg. Daeth swyddi di-rif yn Ne Cymru ac yn y canolbarth i ran y ddau iarll, a'r ddwy

bwysicaf yn eu plith oedd stiwardiaeth a siryfiaeth Morgannwg. Ychydig o bwyslais a roddir ar y gwasanaeth cyhoeddus hwn yng nghanu Lewys ond cyfleir pwysigrwydd y teulu mewn dull mwy anuniongyrchol. Dibynnai Harri ar lu o ddirprwywr a hwy a gyflawnai lawer o ddyletswyddau'r swyddi a ddaliai; hwy hefyd a reolai'r tiroedd helaeth a oedd yn ei feddiant. Yr oedd llawer o'r dirprwywr hyn ymhlith noddwyr y bardd. Bu Edward Lewys, y Fan, yn gwnstabl castell Caerffili, a bu Wiliam ap Siôn, Treowain, yn stiward arglwyddiaeth Rhaglan ac yn rysyfwr dwy faenor yn swydd Henffordd. Un o wasanaethyddion pwysicaf yr iarll oedd Water Herbert, Sain Silian, a fu'n ddirprwy-siryf Morgannwg.

Nid rhyfedd i G.J. Williams bwysleisio mai 'cyfaill yr awdurdodau gwladol ydyw Lewis'.<sup>61</sup> Ond er bod elfen o wirionedd yn y sylw, y mae ar yr un pryd yn gamarweiniol oblegid nid amhriodol fyddai'r sylw o'i gymhwyso at y rhan fwyaf o noddwyr y beirdd. Derbyniodd y dosbarth bonheddig y drefn wleidyddol ac ymroesant i wasanaethu'r goron naill ai yn uniongyrchol neu fel arall. Yr hyn sydd yn hynod ynghylch noddwyr Lewys yw fod cynifer ohonynt yn amlwg ym mywyd cyhoeddus ail chwarter y ganrif ac efallai fod hynny yn ei dro yn dweud llawer wrthym am statws y bardd ei hun ac am y galw am ei wasanaeth yn y de a'r gogledd.

Dylid cofio bod dwy ochr i'r geiniog. Dibynnai'r goron ar yr uchelwyr i sicrhau trefn a sefydlogrwydd a heb eu cydweithrediad hwy ni allesid gweithredu'r newidiadau a ddaeth, er enghraifft, yn sgil Deddfau Uno 1536–42. Ond o'u rhan hwythau gwyddai'r uchelwyr fod gwasanaethu'r goron yn dwyn manteision ac elw a bod y rheini yn y pen draw yn ddibynnol ar ffafr y brenin. Un arwydd o ewyllys da'r goron oedd y modd y caniatawyd i'r uchelwyr—a noddwyr Lewys yn eu plith—brynu'r eiddo a feddiannwyd pan ddiddymwyd y tai crefydd. Yn eironig, bu llawer o'r teuluoedd hyn, yn enwedig ym Morgannwg, yn gyndyn i gefnu ar yr Hen Ffydd ac awgrymwyd mai ar gyfer gwŷr megis Edward Somerset, Iarll Caerwrangon, Edward Stradling, Sain Dunwyd, a Thomas Lewys o'r Fan y darparodd Llywelyn Siôn a chopiŵyr eraill ym Morgannwg destunau rhyddiaith Pabyddol eu cywair megis y 'Gesta Romanorum' a 'Treigl y Marchog Crwydrad'.<sup>62</sup> Ni rwystrodd eu hymlyniad wrth yr Hen Ffydd ragflaenwyr penteuluoedd fel y rhain rhag manteisio ar y cyfle pan ddaeth. Arwydd arall o'r cyswllt rhwng gwlad ac arglwydd oedd y modd yr urddwyd nifer o noddwyr y bardd yn farchogion. Er bod Lewys yn ei gywydd i ddathlu dyrchafu Siôn ap Rhys, Aberhonddu, yn farchog yn awgrymu bod y Cymry wedi eu trin yn siabi yn y gorffennol, bu blynyddoedd cynnar teyrnasiad Harri VIII yn gyfnod pur ffyniannus i foneddigion Cymru.<sup>63</sup> Cydnabuwyd cyfraniad pedwar o noddwyr Lewys yn dilyn y cyrch llwyddiannus yn erbyn

<sup>61</sup> TLIM 70.

<sup>62</sup> TMC xiv–xxv.

<sup>63</sup> Yr oedd 23 o farchogion urddol yng Nghymru erbyn 1519, gw. KWL 282–98 (td. 285).

y Ffrancwyr yn 1513 trwy eu hurddo a bu noddwyr eraill yn brwydro yn Ffrainc, yn yr Alban ac yn Iwerddon. Canodd Lewys ei gywyddau i Syr Rhys Mawnsel ac i Siôn Salbri pan oedd y ddau hyn yn Iwerddon ac yn ceisio ailsefydlu rheolaeth coron Loegr yn dilyn gwrthryfel y Gwyddyl o dan arweiniad mab Gearóid Óg, nawfed iarll Cildâr. Bu nifer o'r uchelwyr yn gwasanaethu yn y llys brenhinol a buasai hyn drachefn yn tynhau'r cyswllt rhwng y brenin a'i ddeiliaid ac yn creu ymdeimlad o deyrngarwch a dyletswydd. Bu Wiliam Siôn, Caerllion, yn waetio ar y brenin a bu Siôn ap Tomas, Pictwn, yn *ysgwier llys ... Harri Wyth*.<sup>64</sup> Canodd Lewys ddwy awdl farwnad i wŷr a fu farw yn Llundain. Bu Morys Sainsion yng ngwasanaeth y tywysog Arthur, cyntafanedig Harri VII, a diau mai rhyw berwyl cyffelyb a ddug Siôn Gamais, mab Syr Tomas Gamais, y Coety, i Lundain.<sup>65</sup>

### *Cadwraeth*

Lluniodd John Jones, Gellilyfdy, yn 1612 restr o lawysgrifau Morgannwg ac yn eu plith *ll: ko: lew. morgan*.<sup>66</sup> Tybed ai talfyriad am 'Llyfr cywyddau Lewys Morgannwg' oedd yr eitem dan sylw? Cynullodd Gwilym Tew gasgliad o gywyddau cynnar yn llawysgrif Peniarth 51 ond ni ddiogelwyd unrhyw gasgliad cyffelyb yn llaw ei nai, Lewys, er iddo, yn ôl tystiolaeth y beirdd a'i holynodd, gofnodi rhai deunyddiau achyddol.<sup>67</sup> Y mae'n sicr na ddiogelwyd holl ganu Lewys fel yr awgrymwyd eisoes. Cedwid yn llawysgrif Peniarth 114 awdl a ganodd Lewys i Lewys Gwyn, Trefesgob.<sup>68</sup> Ysywaeth, diflannodd un ddalen a chollwyd deuparth yr awdl. Collwyd yr awdl a ganodd y bardd i Ruffudd Dwinn hefyd ond cofnododd y noddwr yr englyn cyntaf ar ochr y ddalen yn llawysgrif LIGC 3063E.<sup>69</sup> Cofnododd Wiliam Llŷn yn ei eirlyfr linell nad yw'n perthyn i un o gerddi hysbys y bardd ac efallai fod y llinellau unigol a ddyfynnwyd gan Iolo Morganwg yn dod o gerddi a gollwyd erbyn hyn.<sup>70</sup> Ceir awgrym cliriach o'r hyn a gollwyd o droi at yr eirfa a'r cwpledi enghreifftiol a gynullodd Siôn Dafydd Rhys yn llawysgrif Llansteffan 55. Codwyd ymadroddion unigol ynghyd â rhai

<sup>64</sup> 70.7–8.

<sup>65</sup> Nid enwir y gwŷr hyn yn rhestr W.R.B. Robinson, 'Henry VIII's household in the fifteentwies: the Welsh connection', *The Bulletin of the Institute of Historical Research*, lxxviii (1995), 173–90. Ni roddir amlygrwydd i'r wedd hon yn y canu i wŷr megis Syr Wiliam Gruffudd, y Penrhyn, a Thomas Stradling, Sain Dunwyd, y gwyddys iddynt wasanaethu yn y llys.

<sup>66</sup> TLIM 154.

<sup>67</sup> Gw. troednodiadau 38, 40. Ysgrifennwyd *llaw Lewys Morganwc sydd yn caŷn medd Rys Cain* ar frig td. 107 yn Pen 132, ac ar sail y sylw hwnnw cynigiodd J. Gwenogvryn Evans fod tt. 107–40, 143–9 yn ei law, gw. RWM i, 822–9. Awgrymodd Daniel Huws wrthef nad llaw Lewys yw hon. Y mae'n bosibl mai Lewys ei hun a gopiodd yr awdl a ddiogelwyd yn Pen 60 (cerdd 42), gw. RWM i, 437–40; MWM 63.

<sup>68</sup> Cerdd 74.

<sup>69</sup> Cerdd 58.

<sup>70</sup> Gw. Atodiad iv.

llinellau a chwpledi allan o saith o gerddi Lewys<sup>71</sup> ond ymddengys fod darnau o chwe cherdd arall nad ydynt yn hysbys wedi eu cofnodi hefyd.<sup>72</sup> Y mae'r cywydd gofyn a ganodd y bardd ar ran Lewys Gwyn, Trefesgob, yn un dadlennol yn y cyswllt hwn.<sup>73</sup> Hynodrwydd y cywydd yw'r modd y troes y bardd at 33 o wyrda Morgannwg i erchi gwartheg ar ran ei noddwr. Rhestrir y rhoddwyr yn eu tro yn unol â'u statws a neilltuir cwpled i gyfarch pob un. Gwyddys i Lewys ganu i dri ar ddeg o'r noddwyr hyn—ysywaeth nid oes modd gwybod i sicrwydd faint o'r cerddi iddynt a ganwyd cyn y cywydd gofyn—a'u henwau hwy sy'n digwydd gyntaf. Methwyd â lleoli nifer o'r rhoddwyr eraill ond nid yw'n afresymol tybio i Lewys gyfarch rhai os nad y rhan fwyaf o'r 20 sy'n weddill. Gan i Lewys a'i dad ac Iorwerth Fynglwyd ill tri ganu i nifer o foneddigion Morgannwg, y mae'n naturiol fod cyfatebiaethau gyda golwg ar gylch clera'r tri bardd. Ond gall y gwahaniaethau awgrymu canu a gollwyd. Canodd Lewys ac Iorwerth farwnad i Rys ap Siôn, Glyn-nedd, ond un cywydd yn unig a ddiogelwyd i'w fab a'i etifedd, Rhisiart ap Rhys, er enghraifft, a gwaith Iorwerth yw hwnnw.<sup>74</sup>

Er bod Lewys Morgannwg a'i ddisgybl, Gruffudd Hiraethog, yn feirdd tra phwysig, ni fu cylchrediad helaeth i'w canu.<sup>75</sup> Tri o'r cerddi o blith 107 a fu'n wirioneddol boblogaidd a diogelwyd rhyw ddeg copi ar hugain o'r cywydd marwnad i Syr Rhys ap Tomas, y cywydd moliant i Harri VIII a'r cywydd i'r grog yn Llan-faes.<sup>76</sup> Ar y llaw arall, digwydd 57 o'r cerddi, sef 53% o holl waith y bardd, naill ai mewn un llawysgrif neu mewn un ffynhonnell gynnar. Cofnododd Lewys Dwnn, er enghraifft, naw o gerddi'r bardd yn llawysgrif Peniarth 96. Digwydd saith ohonynt gyda'i gilydd mewn un adran yn y llawysgrif a chan Lewys Dwnn yn unig y ceir pedair cerdd o blith y saith.<sup>77</sup> Un o'r ffynonellau pwysicaf yw llawysgrif Llansteffan 164. Y mae hon yn llawysgrif dra phwysig o safbwynt canu Rhisiart ap Rhys, tad Lewys. Diogelwyd 36 o'i gerddi a dangosodd ei olygydd y 'buasai 30 wedi colli oni bai am y casgliad yn llsgr. Llansteffan 164'.<sup>78</sup> Rhagflaenir y casgliad o ganu Rhisiart gan gasgliad o bum cywydd ar hugain o waith ei fab ac yma yn unig y digwydd deunaw o'r cywyddau

<sup>71</sup> Cerddi 4, 59, 62, 63, 106, 107 ac Atodiad ii.

<sup>72</sup> Gw. Atodiad iv.

<sup>73</sup> Cerdd 75.

<sup>74</sup> GIF cerdd 7. Trafodir gennyf gylchoedd clera'r tri bardd a cheisir dyfalu ynghylch y bylchau posibl yng ngwaith Lewys Morgannwg yn 'Lewys, "gwalch Morgannwg wen"' (i ymddangos yn LICy xxviii (2005)).

<sup>75</sup> Nid yw hynny yn amlwg ar yr olwg gyntaf yn achos Lewys gan fod amder o gopïau o'r un cerddi yn llaw Llywelyn Siôn. Copiodd chwech o'r cerddi ar chwe achlysur (cerddi 15, 19, 93, 94, 95, 96).

<sup>76</sup> Cerddi 63, 98, 104.

<sup>77</sup> Canwyd tair cerdd o blith y naw i'r Morganiad (cerddi 28, 29, 32) a thair arall i ieirll Caerwrangon (cerddi 44, 46, 48).

<sup>78</sup> GRB ix.



hynny. Nid yw hwn yn gasgliad taclus o safbwynt trefn amser. Cynnwys gerddi a ganwyd rhwng y dauddegau a'r pumdegau, a hynny blith draphlith. Gwelir dau gywydd i Wiliam Fychan, Porthaml, ond rhagflaena'r farwnad y cywydd moliant yn y casgliad. Nid ymddengys y casgliad yn un trefnus o safbwynt daearyddol ychwaith gan fod cerddi i noddwyr o Forgannwg, o Frycheiniog ac o sir Gaernarfon yn cael lle rhwng y cloriau. Ond efallai mai'r peth mwyaf diddorol ynghylch y casgliad yw'r lle amlwg a roddir i'r canu i noddwyr sir Fynwy. Perthyn un gerdd ar ddeg i sir Fynwy—cyfran sylweddol o holl ganu Lewys i noddwyr y sir—ac yn y llawysgrif hon yn unig y diogelwyd deg o blith yr un gerdd ar ddeg. Y mae'n bosibl fod casgliad Llansteffan 164 yn seiliedig ar gasgliad cynharach a luniwyd gan rywun (neu ar gyfer rhywun) yr oedd ganddo gyswllt agos â'r sir. Afraid dweud y buasai ein gwybodaeth am gwmpas canu Lewys Morgannwg yn llawer tlotach pe collesid y llawysgrif bwysig hon.<sup>79</sup>

Diogelwyd 29 cerdd yn y llawysgrifau a gysylltir â Dr John Davies, Mallwyd, ac ni ddigwydd naw o blith y rhain mewn unrhyw ffynhonnell arall. Llawysgrif Peniarth 99 yw'r ffynhonnell bwysicaf gan fod yma, fel yn Llansteffan 164, ymgais i gasglu ynghyd mewn un adran ganu Lewys Morgannwg. Cynnwys yr adran hon 18 o gerddi'r bardd.<sup>80</sup> Egyr y casgliad â dau gywydd crefyddol ac fe'u dilynir gan 16 o gerddi defodol. Cywyddau crefyddol a berthyn i Forgannwg yw'r ddau gyntaf ac y mae'r rhan fwyaf o'r cerddi sy'n dilyn yn ganu i noddwyr siroedd Morgannwg a Mynwy. Buasai John Davies yn gwasanaethu Wiliam Morgan yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant wedi iddo gwblhau ei astudiaethau yn Rhydychen ac ymddengys iddo ddilyn Wiliam Morgan i'r de pan benodwyd hwnnw yn esgob Llandaf yn 1595.<sup>81</sup> Dyma'r adeg y dechreuodd John Davies gasglu deunyddiau ar gyfer ei eiriadur ac y mae'n bosibl iddo gasglu rhai o gerddi Lewys Morgannwg yn ystod yr un cyfnod.<sup>82</sup> Ond er iddo gopïo'r casgliad o ganu Dafydd ap Gwilym a oedd ym meddiant Wiliam Mathau, Radur, ni ddiogelwyd yn ei law yr un o'r tair cerdd a ganodd Lewys i'r teulu hwnnw.

Llawysgrifau Llywelyn Siôn yw'r drydedd ffynhonnell bwysig er mai dwy gerdd yn unig a gollasid pe na buasai am ei weithgarwch copïo dyfal.<sup>83</sup> Copïodd Llywelyn 24 o gerddi'r bardd, ond yn wahanol i'r casgliadau yn Llansteffan 164 a Pheniarth 99, ni cheisiodd greu un casgliad o ganu Lewys

<sup>79</sup> Am sylwadau ar y llsgr. ac ar y copïwr, Rhisiart Twrbil, gw. Daniel Huws, *Cynnull y Farddoniaeth* (Aberystwyth, 2004), 19.

<sup>80</sup> Digwydd wyth o blith y naw cerdd nad ydynt i'w gweld yn unman arall yn yr adran hon. Cofnodwyd dau gywydd arall o waith Lewys yn y llawysgrif, ac y mae un ohonynt, y cywydd moliant i Siôn Wyn o Wedir (cerdd 82), ar dudalennau lle dycpwyd ynghyd gasgliad bychan o ganu i'r gŵr hwnnw.

<sup>81</sup> Ceri Davies, *John Davies o Fallwyd* (Caernarfon, 2001), 31–4.

<sup>82</sup> Fodd bynnag, awgrymodd Daniel Huws wrthyf nad oes tystiolaeth iddo gopïo unrhyw gasgliad o farddoniaeth ar wahân i ganu Dafydd ap Gwilym cyn 1617.

<sup>83</sup> Cerddi 4 a 18.

a digwydd y cerddi, felly, blith draphlith yn ei lawysgrifau.<sup>84</sup> Yr oedd Llywelyn Siôn yn gopïwr proffesiynol a'i arfer oedd ailgylchu'r deunydd a oedd ganddo wrth iddo lunio casgliadau ar gais ei noddwyr. Gwelir y 24 cerdd o waith Lewys a oedd yn hysbys iddo yn y tri 'llyfr hir' a gopiodd, sef Caerdydd 5.44 (Llyfr Hir Llanharan), Llansteffan 134 (Llyfr Hir Amwythig) a LIGC 970E (Llyfr Hir Llywarch Reynolds); cofnodwyd 23 o'r rhain naill ai yn llawysgrif LIGC 6511B neu yn Llansteffan 47. Cofnododd Llywelyn lawer o ganu gan feirdd a gysylltid â Morgannwg a chofnododd hefyd lawer o ganu i noddwyr ei sir enedigol. Y mae blas lleol ar yr holl gerddi o waith Lewys sy'n digwydd yn ei law. Copïodd ddeg cerdd i noddwyr sir Forgannwg ond nid oes ganddo gymaint ag un gerdd i noddwr o sir Fynwy. Fodd bynnag, cofnododd un awdl foliant i noddwr o sir Gaerfyrddin ac un cywydd moliant i fab Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn yn sir Gaernarfon, ond tâl cofio mai Siân Stradling o Sain Dunwyd oedd ei fam. At hyn, copïodd ddau gywydd serch, y pum cywydd crefyddol, dau ganiad i Harri VIII a'r marwnadau i Dudur Aled, i Iorwerth Fynglwyd ac i'r telynor Rhydderch Dai Wëydd, tair cerdd yr ymddengys fod eu cylchrediad wedi ei gyfyngu i'r de.

Y mae'n bosibl mai nod Llywelyn oedd diogelu'r cerddi o waith Lewys a oedd yn ymwneud yn fwyaf arbennig â Morgannwg. Ond y mae hefyd yn bosibl iddo gopïo'r holl gerddi o waith Lewys a oedd o fewn ei gyrraedd. Os felly, rhyw hanner canrif ar ôl marw bardd pwysicaf y sir, chwarter cerddi hysbys Lewys Morgannwg y llwyddodd Llywelyn, a oedd yn w'r diwylliedig ac yn fardd ei hun, i'w gynnull. Awgrymai hyn eto mai cylchrediad cyfyng a fu i ganu'r bardd.

Digwydd tair o gerddi Llansteffan 164 yn llawysgrifau John Davies, Mallwyd, a digwydd pedair yn llawysgrifau Llywelyn Siôn. Nid yw'r testunau hyn yn amrywio yn fawr ac y mae hynny yn wir am yr holl gerddi a ddiogelwyd mewn mwy nag un ffynhonnell. Yn yr un modd y mae trefn y llinellau yn sefydlog er i rai o'r copïwyr gael trafferthion wrth geisio dosbarthu llinellau'r awdlau yn benillion. Yn anfynych iawn y gwelir cwpledi mewn un ffynhonnell nad ydynt i'w cael yn y ffynonellau eraill.<sup>85</sup> Serch hynny, gwelir olion llygru yma a thraw ac mewn sawl achos digwyddodd hynny wrth i ryw gopïwr gofnodi'r hyn a glywsai. Er ei bod yn amlwg fod holl gopïau Llywelyn Siôn yn tarddu o'r un gynsail, gwelir mân wahan-iaethau rhwng yr amryfal fersiynau yn ei law, ac ni fydd y gwahaniaethau hynny yn dilyn patrwm. Peth cyffredin yw gweld y copïwr yn newid llafariad a deuseiniaid ac yn sillafu rhai geiriau mewn mwy nag un ffordd:

<sup>84</sup> Trefnu ei gasgliadau yn thematig a wnaï Llywelyn. Cynnwys Llist 47, e.e., adran helaeth o gywyddau crefyddol ac adran arall o gywyddau serch, ond cynnwys hefyd gasgliad o ganu Dafydd ap Gwilym, gw. RWM ii, 516–23.

<sup>85</sup> Y mae'n debyg mai lolo Morganwg a luniodd y llinellau ychwanegol sy'n gysylltiedig â cherddi 22 a 100. Mewn pedair cerdd yn unig y ceir cwpledi nad oes sicrwydd eu bod yn ddilys, sef cerddi 2, 23, 44, 107.

digwydd *rwndwal*, *rowndwal* a *rhwndwal* mewn un cywydd.<sup>86</sup> Yn fynych bydd elfennau megis y fannod, yr arddodiaid a'r rhagenwau, elfennau na fyddant fel arfer yn hawlio lle canolog yn y llinell, yn amrywio o gopi i gopi, ond bydd geiriau eraill hefyd yn amrywio fel y prawf yr enghraifft a ganlyn.<sup>87</sup>

Trychan cledd, ieirll Gwynedd gynt (Card 2.630 [= Hafod 20])

Trychan cledd, iarll Gwynedd gynt (LIGC 970E [= Merthyr Tudful];  
LIGC 6511B)

Trychan gwledd, iarll Gwynedd gynt (Llst 134)

Y mae 'olion diamheuol o frys' yn Llansteffan 134<sup>88</sup> ac yn LIGC 970E [= Merthyr Tudful]. Aeth *brawd y pen pres* yn *brawd y pren pres* yn yr ail,<sup>89</sup> a throes y llinell *Fu wraidd holl iaith, yn fardd llwyd* yn *Fu wraidd holl iaich, yn fardd llwyd* (Llansteffan 134) ac yn *Fu wraidd holl ieirll, yn fardd llwyd* (LIGC 970E [= Merthyr Tudful]).<sup>90</sup> Ar dro, fodd bynnag, cywirodd Llywelyn yn ei fersiynau diweddar wallau blaenorol; *Presten Siôn* yn hytrach na *Preutur Siôn* sy'n digwydd yn LIGC 6511B.<sup>91</sup>

O edrych ar y tair ffynhonnell bwysicaf ac ar yr amryfal ffynonellau eraill, gellir cyffredinoli a dweud mai mewn ffynonellau lleol y diogelwyd y canu. Gwelir nifer o'r cerddi i foneddigion Gogledd Cymru yn llawysgrifau Wiliam Bodwrda a John Jones, Gellilyfdy,<sup>92</sup> a gwelir nifer o'r cerddi i wyrda sir Gaerfyrddin mewn llawysgrifau a fu'n cylchredeg yn y sir honno. Diogelwyd cerddi unigol naill ai mewn llawysgrifau a berthynai i deuluoedd arbennig neu mewn llawysgrifau a seiliwyd ar y cyfryw. Casgliad o ganu'r beirdd i deulu Trefesgob, ac i Lewys Gwyn yn benodol, yw Peniarth 114, a diogelwyd yn hon y tair gerdd a ganodd Lewys Morgannwg i'r teulu. Yn yr un modd diogelwyd y tair cerdd i Syr Siôn ap Rhys, Aberhonddu yn y 'Llyfr Amrywiaeth' a gopiodd gwrthrych y moliant. Diau mai copi a gedwid yn y cartref oedd cysail y testun o'r awdl i Domas Mostyn a gopiwyd yn llawysgrif LIGC 3027E [= Mos 96], a disgynyddion Ednowain Bendew a ddiogelodd yr unig gopi o'r cywydd i Byrs Mytwn, Alltmelyd.<sup>93</sup>

<sup>86</sup> Gw. 94.59.

<sup>87</sup> 89.60.

<sup>88</sup> T.O. Phillips, 'Bywyd a gwaith Meurig Dafydd (Llanisien) a Llywelyn Siôn (Llangewydd)' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1937), 111.

<sup>89</sup> 93.2.

<sup>90</sup> 93.72.

<sup>91</sup> 89.12.

<sup>92</sup> Dangosodd G.J. Williams i John Jones, Gellilyfdy, ymweld â'r de yn y flwyddyn 1612, a lluniodd restr o'r llawysgrifau y clywsai amdanynt, gw. TLIM 153-4. Er iddo gopïo rhai o gerddi Lewys, ni welir yn ei law un gerdd i noddwr o Forgannwg.

<sup>93</sup> Barnai John Jones, Gellilyfdy, mai cywydd i Byrs Gruffudd oedd cerdd 77, a pherthynai hwnnw, fel y copïwr ei hun, i lwyth Ednowain.

*Crefft*

Diogelwyd 88 cywydd a 18 awdl. Dadansoddwyd y gynghanedd yn y cywyddau a gwelwyd bod cyfartaleddau'r pedair cynghanedd fel a ganlyn:

Cyfanswm llinellau	6470	
llinellau nas dadansoddwyd	6	
croes	4608	71%
traws	1092	17%
sain	510	8%
llusg	254	4%

Y ffaith gyntaf y dylid ei chrybwyll yw mai prin iawn yw'r amrywio rhwng cywydd a chywydd. Y gynghanedd groes yw'r un bwysicaf, yn unol â'r disgwyl, a gwelir bod saith llinell o bob deg yn cynnwys amrywiadau ar y gynghanedd hon. Glynodd Lewys yn ffyddlon wrth y patrwm hwn; y mae 56 o'r cywyddau, neu ddau o bob tri, yn cynnwys rhwng 65% a 75% o gynganeddion croes. Dengys dadansoddiad o'r cerddi unigol na fu i Lewys newid ei arfer yn ystod y deng mlynedd ar hugain y bu'n canu. Y mae'r cerddi cynnar a'r rhai olaf yn gyson â'r patrwm uchod. Y mae'n arwyddocaol hefyd nad yw'r cerddi a ganwyd i noddwyr a hynodid ar gyfrif eu dysg a'u diwylliant yn wahanol o safbwynt eu cynganeddiad i'r cerddi i wŷr a berthynai i deuluoedd na allent ymfalchïo ar gyfrif traddodiad hir o groesawu beirdd ar eu haelwydydd. Gellid tybio y byddai Lewys wedi dewis arddangos ei hyfedrwydd wrth iddo foli gwŷr megis Edward Lewys, y Fan, Tomas ap Watgyn Fychan, Penrhos Fwrdios, Siôn ap Rhys, Aberhonddu, Huw Lewys, Tre'rdelyn a Gruffudd Dwnn, Ystradmerthyr, drwy gaboli ei gerddi a rhoi mwy o bwyslais ar y cynganeddion cytseiniol, ond nid felly y bu. Ni welir amrywio ychwaith pan edrychir ar y mathau gwahanol o gerddi a ganodd y bardd. Ailadroddir y patrwm a welir yn y cerddi defodol yn y cerddi crefyddol ac yn y cerddi serch hwythau. Y mae'n ddadlennol mai'r cywydd i'r grog yn Llan-faes sy'n cynnwys y nifer uchaf o gynganeddion croes, sef 86% (a dim ond mewn saith cerdd arall y gwelir y gynghanedd hon yn 80% neu fwy o'r llinellau). Hawdd tybio mai un o swyddogaethau'r canu i grogau ac i ffynhonnau oedd mawrygu rhinweddau'r gwrthrych neu'r lle dan sylw ac ychwanegu at ei apêl yng ngolwg y cyhoedd. Diau fod hynny'n wir yn yr achos hwn; bu mwy o gopiïo ar y cywydd hwn na nemor un cywydd arall o waith y bardd. Er mai cywydd o ddefosiwn personol yw'r eiddo Lewys, byddai ei ganu wedi ychwanegu at boblogrwydd yr eglwys yn Aberhonddu a'r grog. Fodd bynnag, ni chymhellwyd y bardd i ganu yn symlach ar yr achlysur hwn nac wrth iddo lunio ei gywyddau i'r grog yn Llangynwyd ac i ddelw Mair ym Mhen-rhys er nad yw'r gynghanedd groes lawn cyn amlyced yn y cerddi hynny.

Gellir dosbarthu'r prif fathau yn fwy manwl. Y mae 3404 o'r llinellau croes yn cynnwys cynganeddion croes cytbwys acennog a diacen a chroes anghytwys ddisgynedig (74% o'r holl linellau croes a 53% o holl linellau'r

bardd). At hyn, ceir 729 sy'n cynnwys y cytseiniaid canolgoll *n*, *r*, *f* ac *m* (16% o'r holl linellau croes). Y mae 475 pellach (10% o'r holl linellau croes) sy'n cynnwys cynganeddion croes o gyswllt, cynganedd y ceir enghraifft neu enghreifftiau ohoni ym mhob cywydd ac eithrio dau. Yn achos 30% o'r cynganeddion croes o gyswllt benthyciwyd y cytseiniaid *n* ac *r* er mwyn cwblhau'r gyfatebiaeth, a gellid cyfrif y rhain yn gynganeddion croes ac ynddynt *n* neu *r* wreiddgoll. Cytseiniaid eraill a fenthyciwyd yn 62% o'r llinellau croes o gyswllt. Cynnwys gweddill y llinellau yn y dosbarth hwn gynganeddion croes o gyswllt ewinog (ar 15 achlysur), croes o hanner cyswllt (8)<sup>94</sup> a chroes o gyswllt gymhleth (13).

17% o'r llinellau sy'n cynnwys y gynganedd draws. Syniwyd am y llinellau sy'n cynnwys y cytseiniaid *n*, *r*, *f*, *m* y caniateir eu colli ar ddechrau'r gyfatebiaeth yn ail ran y llinell yn gynganeddion croes, fel y nodwyd uchod, ond y mae llawer iawn o'r cynganeddion traws yn ymdebygu i'r cynganeddion croes canolgoll. Ceisiwyd gwahaniaethu, felly, rhwng dau fath o gynganeddion traws. Rhoddwyd yn y dosbarth cyntaf bob llinell lle y ceid un gytsain yn unig heb ei hateb ar ôl yr orffwysfa (e.e. *Dy henwaed oll dihunynt* yn 51.5) a hefyd y llinellau hynny lle y ceid mwy nag un gytsain heb eu hateb ond bod y rhain yn digwydd yn y sillaf gyntaf yn dilyn yr orffwysfa; gwelir bod y rhain yn cynnwys yn fynych eiriau megis *pob*, *fal*, *mewn*, *trwy* ar ddechrau'r ail ran (e.e. *Dwyn gwaed pob dyn i'w godi* yn 8.31). Rhoddwyd yn yr ail ddosbarth y llinellau a oedd yn cynnwys mwy nag un gytsain heb ei hateb a hynny mewn dwy sillaf neu ragor ar ôl yr orffwysfa. I'r dosbarth cyntaf y perthyn y rhan fwyaf o ddigon o'r cynganeddion traws. Cafwyd bod 831 o blith 1092 yn y dosbarth hwn a 261 yn yr ail. Y mae'n wir mai cynganeddion traws yw y rhain i gyd ond y mae amllder y math cyntaf yn gyson â'r pwyslais ar y gynganedd groes, *yr orav o'r kynganeddau*, chwedl Simwnt Fychan.<sup>95</sup> Weithiau bydd cytsain heb ei hateb ar ddechrau ail ran y llinell yn adleisio cytsain arall sy'n rhan o'r gyfatebiaeth a bydd hyn yn ei dro yn ychwanegu at apêl llinellau o'r fath. Dyma ddyrnaid o enghreifftiau:

Cwyno'r taid, / Watgyn o'r Tŵr (13.5)

Rhoi bwyd / i bob rhai y bu (36.53)

Gŵr addas, / oedd gawr, uddynt (76.58)

Plas Siôn, / siampl sy i Wynedd (82.28)

Ni welwyd yr un gynganedd draws fantach yn yr holl gywyddau, ac yn achlysurol yn unig y digwydd y gynganedd draws gyferbyn a'r draws drwsgl fantach. Yn achlysurol hefyd y defnyddiwyd y sain gadwynog a'r sain drosogl. Gwelwyd pum enghraifft o'r naill a'r llall. Digwydd y lusg ym mhob cywydd ac eithrio saith a'r sain ym mhob cywydd ond dau.

<sup>94</sup> Gelwir sylw at y rhain yn y nodiadau.

<sup>95</sup> GP 118.

Tair cerdd yn unig sy'n anghyson â'r patrwm uchod a thasg rwydd yw rhoi cyfrif am y gwahaniaethau mewn dau achos. 32% o linellau'r cywydd serch 'Hiraeth sydd bob dydd i'm dwyn' (cerdd 105) sy'n cynnwys y groes, ac nid oes yma yr un groes o gyswllt, ond y mae'r sain i'w gweld yn 45% o'r llinellau. Y mae hwn yn gywydd serch gorchestol a chedwir y cymeriad llythrennol *H* ar ddechrau pob llinell. Diau fod yr ystwythder a enillwyd trwy ddefnyddio'r gynghanedd sain yn rhan o'r pris y bu'n rhaid ei dalu er mwyn cynnal y cymeriad o'r dechrau hyd at y diwedd. Er mai mewn dau gopi y diogelwyd y cywydd, nid oes le i amau ei awduraeth. Y mae cyfartal-edd y groes yn is na'r arfer yn y cywydd gofyn am wartheg drachefn (cerdd 75) a digwydd y ddwy gynghanedd sy'n cynnwys odl, y sain a'r lusg, yn 33% o'r llinellau. Hynodrwydd y cywydd hwn yw'r modd yr erchir gwartheg ar ran Lewys Gwyn gan dri ar ddeg ar hugain o wyrda Morgannwg, a neilltuir cwpled i enwi pob un yn ei dro. Diau mai gofynion y cynllun sy'n cyfrif am y lle amlwg i'r gynghanedd sain ar draul y groes yn union fel yr oedd yr addurn yn y cywydd serch yn gorfodi'r bardd i droi at yr un gynghanedd. Nid oes modd cyfeirio at addurn na chynllun yn achos y drydedd gerdd. Y mae'r cywydd i erchi march gan Robert ap Rhys (cerdd 79) yn gwbl wahanol o ran ei gyfansoddiad cynganeddol i bob cerdd arall ac ar y tir hwn rhaid amau'r awduraeth er bod y llawysgrifau yn gytûn mai Lewys a'i lluniodd.<sup>96</sup>

Yr ail ystyriaeth awyddocaol ar sail y dadansoddiad cynganeddol yw fod yn y canu lai o bwyslais ar y gynghanedd groes na'r hyn a welir yng nghanu Tudur Aled, prifardd eisteddfod gyntaf Caerwys ac athro'r beirdd. Aeth rhyw ddeugain mlynedd heibio ers i Eurys Rolant ddatgan, 'Yr oedd gan fardd fel Tudur Aled feistrolaeth ryfeddol ar y gynghanedd yn ei holl gymhlethdod, a chanlyniad hyn oedd ei fod yn rhoi'r gynghanedd groes, neu gynghanedd mor agos ag y gellid ati, ym mhob llinell bron.'<sup>97</sup> Erbyn hyn golygwyd gweithiau nifer o'r beirdd a oedd yn cyfoesi â Thudur, a daeth i'r amlwg eu bod hwythau, fel Tudur, yn gwerthfawrogi'r gynghanedd groes. A hawdd deall hynny pan gofir mai crefftwyr ymroddedig a rannai ddysg a chynhysgaeth gyffredin oedd beirdd yr uchelwyr. Dengys y tabl isod y pwyslais a roes rhai o farwnadwyr Tudur ar y gynghanedd groes yn eu cywyddau:

Lewys Morgannwg	71%
Lewys Môn	81% <sup>98</sup>
Lewys Daron	82% <sup>99</sup>
Huw ap Dafydd	83% <sup>100</sup>

<sup>96</sup> Trafodir nodweddion cynganeddol y cywydd hwn isod, td. 24.

<sup>97</sup> Eurys Rolant, 'Arddull y cywydd', YB ii (1966), 36–57 (td. 44).

<sup>98</sup> Eurys I. Rowlands, 'Dadansoddiad o gynghanedd Lewys Môn', LICy iv (1956–7), 135–61.

<sup>99</sup> GLD xx–xxii.

<sup>100</sup> GHD 8–10.

Siôn Ceri	90% <sup>101</sup>
Tudur Aled	90% <sup>102</sup>

Mewn gwirionedd, y mae arferion Lewys yn ei ddwyn yn nes at glerwr crwydrol megis Mathau Brwmffild neu at fardd bonheddig fel Siôn ap Hywel a oedd yn canu ar ei fwyd ei hun nag at y beirdd a restrwyd uchod.<sup>103</sup> Ond y mae ystyriaeth arall sy'n cynnig goleuni ar arferion cynganeddol Lewys. Y mae lle i gredu bod delw Iorwerth Fynglwyd yn amlycach ar ei ganu na delw ei dad. Gyda golwg ar y modd y defnyddir y gynghanedd, y mae'n arwyddocaol fod cryn debygrwydd rhwng canu'r tri bardd hyn o Forgannwg fel y tystia'r tabl isod sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o ddeg o gywyddau Iorwerth Fynglwyd a Rhisiart ap Rhys.<sup>104</sup>

	Rhisiart ap Rhys	Iorwerth Fynglwyd	Lewys Morgannwg
croes	67%	67%	71%
traws	20%	18%	17%
sain	8%	9%	8%
llusg	5%	6%	4%

Y mae'r tebygrwydd yn drawiadol ac yn awgrymu nad oedd dyled Lewys i Dudur Aled mor fawr ag a awgrymwyd gan G.J. Williams a Ceri Lewis ar ei ôl.

Y cwpled a'r llinell yw'r uned bwysig yng nghanu Lewys. Prin yw'r sangiadau a rhan fynyachaf, felly, bydd y frawddeg yn llifo o ddechrau'r llinell neu'r cwpled hyd at y diwedd. Un nodwedd ar ganu Lewys yw fod y gyfatebiaeth yn seiliedig ar ailadrodd dwy gytsain neu dair, ac er mai'r groes yw'r brif gynghanedd, nid yw'r llinellau yn rhai trwm a thyrstfawr.

<sup>101</sup> GSC 13–17.

<sup>102</sup> Dywed Eurys Rolant yn ei ysgrif 'Arddull y cywydd', YB ii (1966), 44, iddo ddadansoddi ugain o gywyddau Tudur a bod y gynghanedd sain i'w chanfod mewn llai na 4% o'r llinellau. Ni roddir ffigwr ar gyfer y gynghanedd groes ond awgrymir ei bod yn digwydd mewn naw llinell o bob deg.

<sup>103</sup> Gwelir y groes yn 70% o linellau Mathau Brwmffild, gw. GMBr 8–10, ac yn 61% o linellau Siôn ap Hywel, gw. GSH 7–9.

<sup>104</sup> Dyma'r cerddi o waith Iorwerth a ddadansoddwyd: 2, 8, 11, 12, 16, 19, 24, 29, 33, 43. Cynnwys y sampl 7 cywydd mawl / marwnad, un ymryson, un cywydd crefyddol (i San Ffraid) a'r farwnad i Ieuan Gethin. Fel yn achos cerddi Lewys ni welir amrywio mawr rhwng cywydd a chywydd ac eithrio yn achos y canu crefyddol. Bu Lewys yn hynod o gyson yn ei holl gerddi ond y mae cyfartaledd y groes yn is na'r ganran arferol yn y cywydd a ganodd Iorwerth i San Ffraid. Un llinell ym mhob pedair yn y farwnad i Ieuan Gethin sy'n cynnwys cynghanedd groes. Dadansoddwyd cerddi 6, 11, 16, 20, 25, 29, 30, 34, 36, 37 yn GRB. Cynnwys y detholiad hwn wyth cywydd mawl / marwnad, un cywydd gofyn a'r cywydd i'r Sant Catwg. Unwaith eto ychydig o wahaniaethau a welir rhwng cywydd a chywydd. Nid yw'r groes yn llai niferus yn y cywydd i Gatwg (70%), ond defnyddiwyd mwy o'r sain a'r lusg (17%) ar draul y draws (13%). Y cywydd i'r abad Dafydd o Fargam sy'n cynnwys y cyfartaledd isaf o'r groes ymhlith y cerddi a ddadansoddwyd (59%), ac y mae'r sain a'r lusg rhyngddynt yn cyfrif am 19% o'r llinellau yn y gerdd hon.

Weithiau bodlonir ar ateb un gytsain yn unig, megis yn y llinellau hyn:

*Ni wn enwi 'n un ynys* (45.57)

*Chwi a iachewch wayw a chur* (102.46)

neu ddwy:

*Ef â allan fy 'wyllys* (47.74)

*Rhyw darw dewr daear a dŵr* (78.39)

Y mae'r llinellau hyn yn soniarus ond y maent hefyd yn ymddangos yn syml. Y mae'r modd yr ailadroddir cyfuniadau o gytseiniaid ar dro yn ychwanegu at wedd soniarus y canu:

dn.dn = dn

Dwyn edn grifft, undyn o Gred (34.35)

brn = brn.brn

Bron rwydd brenhinbren yrhawg (95.25)

ac y mae'r modd yr ailadroddir yr un gair yn fynych mewn cynganeddion croes a sain yn ychwanegu at gywair ymddangosiadol syml y farddoniaeth.

Iarlles ben iarllsau byd (47.18)

Blodeuyn wyd blodau'n iaith (47.25)

Cwyn rhyw gŵyn a rygenynt,

Cwymp wrth ryw gwypm Arthur gynt (63.11–12)

Arferir y cymeriad llythrennol yn helaeth er mwyn cysylltu dwy fraich y cwpled ac yn fynych cynhelir y cymeriad llythrennol neu'r cymeriad geiriol dros nifer o gwpledi, yn enwedig wrth gloi cywydd. Diweddir y cywydd moliant i Syr Tomas Gamais, y Coety, (cerdd 8) â dilyniant o 14 llinell ar y cymeriad *D*, a cheir dilyniant tebyg, 16 llinell ar y cymeriad *Ll* y tro hwn, yn cloi'r cywydd moliant i Siôn ap Tomas, Pictwn (cerdd 70). Ailadroddir y gair *hwyr* ar ddechrau'r deg llinell sy'n cloi'r farwnad i Syr Siôn Rhaglan (cerdd 24) a'r gair *pas* wyth gwaith yn neg llinell olaf y cywydd moliant i Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn (cerdd 87). Y mae'r modd y defnyddir y gynghanedd a'r cymeriadau yn tystio i grefft y bardd fel y gwna'r llinellau hynny sy'n cynnwys dwy gynghanedd—cynghanedd groes a chynghanedd sain ran fynychaf—er bod lle i gredu mai addurn damweiniol yw hwn. Ond gwelir yn y canu hefyd fanteisio ar y goddefiadau cyfarwydd, a gelwir sylw at y rhain yn y nodiadau ar y cerddi unigol. Rhyw ddyrmaid o linellau sy'n cynnwys y bai crych a llyfn. Y mae'r llinellau sy'n cynnwys camosodiad a thwyll gynghanedd yn fwy lluosog ond y mae'n amlwg na chât clust y bardd ei dwyllo yn rhy aml. Yn achos y bai twyll gynghanedd, gellid dadlau bod nifer o'r llinellau yn rhai effeithiol am fod y gytsain a gollir yn digwydd yn rhywle arall yn y gyfatebiaeth, megis yn:

*Doethder gwraig aeth doe i'r gro* (7.47)

Ac er nad atebir y gytsain *d* yn y llinell nesaf ychwaith,

*Dig fydd, O! Dduw, gwae fi'i ddwyn* (2.28)



y mae hon eto yn ei ffordd ei hun yn greffus gan fod y gytsain a gollir yn cael ei haildrodd ar ddechrau braich gyntaf y cwpled. Mwy annisgwyl yw'r llinellau hynny y ceir ynddynt groestynnu rhwng rhediad y frawddeg ar y naill law a symudiad y gynghanedd ar y llaw arall. Dyma bedair llinell o'r un cywydd:

Ar gant, aer / o'r Gwnteriaid (40.8)

Powls wyt, hap / Lewys y taid (40.12)

O'r bôn. Hawdd / i'r bonheddig (40.46)

Pwy ar rod / hap? Ir ydywch (40.67)

Pur gyffredin yw'r llinellau hynny sy'n cynnwys cyfatebiaeth caled a meddal; y mae hanner y rhain yn cynnwys y gyfatebiaeth  $t = d$ . Y mae'n arwyddocaol mai'r gytsain  $d$  a gollwyd yn hanner y llinellau hynny a oedd yn cynnwys y bai twyll gynghanedd. Mewn ambell linell, gellid cyfatebiaeth reolaidd trwy fabwysiadu ynganiad llafar (e.e. *atar* am *adar* yn 5.55) ond ni fyddai modd 'cywiro' pob llinell o bell ffordd trwy wneud hyn. A phrin iawn, mewn gwirionedd, yw'r cynganeddion a'r odlau hynny sy'n hawlio ffurfiau llafar. Nid llai cyffredin y llinellau hynny lle y dewisir peidio â chaledu yn union ar ôl yr acen mewn llinell (cynganeddion croes anghybtwys ddisgynedig yn fynych) megis:

Cefn gwaed, dyn cefnog ydych (11.73)

Yn achlysurol caledir yn y safle hwn. Gwelir yng nghywyddau Lewys bymtheg llinell sy'n cynnwys cynganedd groes o gyswllt ewinog. Ond y mae'r llinellau megis yr uchod lle dewisir peidio â chaledu yn llawer mwy niferus a gwelwyd rhyw hanner cant o linellau o'r math hwn, y rhan fwyaf yn cynnwys cynganeddion cytseiniol ond ambell un yn cynnwys cynganedd sain megis:

O gariad dwywlad yn d'ôl (32.37)

Dilyn yr un arferion cynganeddol a wnaeth Lewys yn ei gywyddau a digon tebyg o ran eu cynllun yw'r deunaw awdl a luniodd, er bod yr awdl ar y pedwar mesur ar hugain i Leision, abad Nedd, wrth reswm, yn wahanol i'r lleill (cerdd 22). Fel arfer agorir yr awdl â chyfres o englynion unodl union ac yn aml gwelir ambell englyn proest neu bennill o chwe llinell yn proestio yn y rhan agoriadol. Un mesur yn unig a ddefnyddir yn yr ail ran mewn deg awdl o blith y deunaw. Y toddaid a'r gwawdodyn byr yw hoff fesurau Lewys; defnyddiwyd y blaenaf mewn pum awdl a'r ail mewn pedwar a chyfunwyd y ddau fesur hyn mewn dwy awdl arall. Sicrhaodd y bardd fod cydbwysedd yn ei awdl farwnad i Robert ap Rhys, Plasiolyn, trwy lunio deg pennill ar y naill fesur a'r llall (cerdd 80). Defnyddiwyd yr hir-a-thoddaid mewn un awdl, a'r tawddgyrch cadwynog dro arall. Collwyd canol yr awdl i Lewys Gwyn, Trefesgob, ac nid oes modd gwybod sawl mesur a gynhwysai (cerdd 74). Llinellau ar fesur y cyhydedd hir sy'n cloi'r awdl hon. Canodd

Lewys ddwy awdl i'r brenin Harri VIII—un awdl foliant ac un farwnad (cerddi 97, 99). Y mae'r ddwy ychydig yn wahanol i'r awdlau eraill o ran eu ffurf. Dau englyn yn unig a welir ar ddechrau'r awdl foliant a dilynir hwy gan ddilyniant o linellau decsill a chyfres o doddeidiau. Y llinellau decsill yw'r prif fesur yn yr awdl farwnad drachefn. Y mae dechrau hon yn fwy confensiynol ond dyma'r unig awdl a ddiweddir ag englyn. Ymddengys fod mwy o lygru testunol wedi digwydd yn achos y ddwy hyn nag yn achos yr awdlau eraill. Collwyd rhai llinellau mewn mwy nag un llawysgrif a chyfeil-iornodd ambell gopiwr wrth iddo geisio dosbarthu'r llinellau yn benillion.

Ond os yw'r awdlau yn weddol unffurf o ran eu cynllun rhoes Lewys hynodrwydd i'r cerddi unigol trwy ddulliau eraill. Gwnaeth ddefnydd cywrain o'r gynghanedd mewn dwy awdl. Defnyddiwyd y sain ym mhob llinell yn y toddeidiau yn yr awdl farwnad i Syr Wiliam Mathau, Radur (cerdd 4), a defnyddiwyd y sain a'r groes am yn ail yn yr un mesur yn yr awdl foliant i Syr Tomas Stradling, Sain Dunwyd (cerdd 3). Ar dri achlysur dewisodd odlau a fyddai yn dwyn i gof ac yn gyfrwng pwysleisio enw'r noddwr drwy ganiatáu iddo osod enw'r noddwr ar ddiwedd llinell neu bennill: yr odl *-on* yn yr awdl enghreifftiol i Leision, abad Nedd (cerdd 22), yr odl *-er* yn yr awdl foliant i Water Defras (cerdd 66), a'r odl *-is* yn yr awdl foliant i Siôn Wgon, Cas-wis (cerdd 68). Rhoddwyd lle amlwg i'r cymeriad geiriol yn yr awdl farwnad i Siôn Gamais (cerdd 18) ac yn un o'r ddwy awdl foliant a ganwyd i Harri, Iarll Caerwrangon (cerdd 42), ac i'r cymeriad llythrennol yn yr awdl farwnad i Harri VIII (cerdd 99).

### *Cerddi ansicr*

#### *Awn atad i'th wlad a'th wledd* (cerdd 79)

Cywydd i erchi march gan Robert ap Rhys, Plasiolyn, dros Owain, un o feibion Syr Rhys ap Tomas, yw hwn. Fe'i priodolir i Lewys Morgannwg ym mhob un o'r wyth llawysgrif, a BL Add 14976 (cylch Dr John Davies, Mallwyd) a Llansteffan 124 (Wiliam Bodwrda) yn eu plith. Canodd Lewys farwnadau i Syr Rhys ap Tomas ac i Robert ap Rhys ac y mae'n dra dichonadwy y gallai fod wedi canu'r cywydd gofyn hwn. Cyfansoddiad cynganeddol y cywydd yw'r maen tramgwydd; nid oes tebygrwydd o gwbl rhwng y cywydd hwn a'r cywyddau eraill wrth enw'r bardd. Traean y llinellau sy'n cynnwys y gynghanedd groes (34%) tra bo traean arall (34%) yn cynnwys cynganeddion sain. Y mae'r sain a'r lusk rhyngddynt yn cyfrif am 52% o linellau'r cywydd. Nid oes yma yr un enghraifft o'r gynghanedd groes o gyswllt—nodwedd ar bob un o gywyddau'r bardd (ac eithrio un cywydd serch gorchestol). Cynhwyswyd y cywydd ymhlith y cerddi dilys ar sail tystiolaeth y llawysgrifau ond dyma'r unig gerdd o blith y rhai a briodolir i Lewys yn y llawysgrifau y mae'n rhaid amau ei hawduraeth.

*Awn draw i'r llan yn dri llu*

Diogelwyd 33 copi o'r cywydd crefyddol hwn. Mewn un llawysgrif yn unig y priodolir y cywydd i Lewys Morgannwg, sef LIGC 3037B sydd yn llaw Rhisiart Mostyn ac a gopiwyd ganddo tua 1575. Rhoddir y cywydd i Forys ap Hywel (*fl.* 1530) mewn cynifer â 27 ffynhonnell a gallai hynny awgrymu mai ef yw'r awdur. Arno gw. ByCy 631; MFGLI 2625–6.

*Beth a'm pair yn ddiweiriach*

Priodolir hwn i Lewys Morgannwg mewn un ffynhonnell yn unig, sef Llansteffan 163, ac unwaith eto anodd o'r herwydd yw gwneud achos cryf dros hawlio'r cywydd iddo. Gw. ymhellach CSTB 55 a cherdd XXIX (yn yr adran 'Awduraeth Ansicr' lle y gwelir y cerddi nad oedd modd penderfynu pa un o'r tri Bedo a'u canodd).

*Claf wyf eisiau cael y ferch*

Perthyn y cywydd hwn i'r ymryson a fu rhwng Dafydd Llwyd o Fathafarn a Llywelyn ap Gutun ynghylch Gwerful Mechain. Nid oes le i amau nad Dafydd Llwyd a'i canodd, gw. GDLI cerdd 65; GGM cerdd 5. Fe'i priodolir i Lewys Morgannwg yn RWM ii, 228 lle y rhestrir cynnwys Card 3.2 [= RWM 27], ond nid oes enw bardd wrth y cywydd yn y llawysgrif. Yn y mynegai ar ddiwedd y llawysgrif dilynir y cywydd hwn gan gywydd Lewys i Domas ap Siôn, Abermarlais (cerdd 65), a rhaid bod J. Gwenogvryn Evans wedi tybio mai Lewys a ganodd y ddau gywydd.

*Ffarwél Rhys ddilys i'w ddydd*

Diogelwyd yr unig gopi o'r englyn (? diweddar) hwn yn Card 3.68, sef casgliad o gywyddau a cherddi rhydd yn llaw Robert Tomas, Carneddi, Beddgelert, ac fe'i copiwyd yn nhridegau'r ddeunawfed ganrif. Cyferchir rhyw Rys [? Gwyn] a rhywun o'r enw Ffowes.

*Tëyrn gwÿr ystrad Tywi*

Cywydd i erchi tarw du gan Domas ap Gruffudd ap Nicolas (m. erbyn 1474), sef tad Syr Rhys ap Tomas, ar ran Rhosier Fychan (m. 1471), mab Rhosier Fychan, Brodorodyn, a Gwladys Gam, yw hwn yn ôl pob tebyg, gw. WG1 243. Er bod cryn ansicrwydd yn y llawysgrifau gyda golwg ar ganu Bedo Phylib Bach gan fod y cywyddau serch a'r cywyddau defodol wrth ei enw yn cael eu priodoli i feirdd eraill, gw. MFGLI 71–2, gellir bod yn bur sicr mai'r bardd o Frycheiniog a'i canodd. Mewn un copi diweddar yn unig y'i priodolir i Lewys Morgannwg a diau mai gwall ar ran y copiwr oedd ysgrifennu ei enw ar ddiwedd y cywydd sy'n digwydd yn y casgliad o ganu Bedo Phylib Bach sydd yn BL Add 31094.

*Y ferch hirwen farchwriol*

Mewn dwy lawysgrif diogelwyd y cywydd sy'n dechrau â'r llinell uchod ac sy'n gorffen â'r llinell *Wyf ym mhoen nef i'm henaid* ac fe'i priodolir i Lewys yn y ddwy ffynhonnell. Fodd bynnag, cywydd rhithiol yw hwn oblegid perthyn ugain llinell olaf y gerdd i'r cywydd *Dyn wyf ym mhurdan Ofydd* a briodolir i Lewys ac i Dudur Aled, gw. Atodiad ii, a chyfetyb y deg llinell gyntaf i agoriad cywydd arall o waith Tudur (TA cerdd CXXXIII). Y mae'r cwpled olaf yn y darn deg llinell hwn yn impio'n naturiol wrth y cwpled sy'n dilyn yn TA CXXXIII ac ymddengys mai Tudur a'u canodd.

Y mae'n arwyddocaol fod y fersiwn cynharaf wrth enw Lewys Morgannwg (Pen 83) yn digwydd ar ddwy ddalen wahanol; y deg llinell sy'n rhan o gywydd Tudur (TA cerdd CXXXIII) ar y naill a'r ugain sy'n perthyn i'r cywydd *Dyn wyf ym mhurdan Ofydd* ar y llall. Ond yr un yw'r inc ac nid oes lle i gredu bod dalen wedi ei cholli a bod dechrau cywydd o waith Tudur wedi ei gysylltu wrth ddiwedd cywydd o waith Lewys. Yn anffodus nid oes cipair ar ddiwedd pob tudalen; gallai hyn fod wedi dangos yn glir a gollwyd tudalen ai peidio, ac a gymysgwyd dau gywydd.

Cywydd gwahanol yw'r un yn Peniarth 83, 159 a briodolir i Lewys Glyn Cothi ac sy'n gorffen â'r llinell *Wyf ym mhoen, nef i'm henaid*. Cywydd i foli gwallt merch yw hwn, ac fe'i cynhwyswyd ymhlith gweithiau Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog, gw. GHD cerdd 23 (ond ychwaneger Pen 83 at y ffynonellau).

*Y fun addwyn fwyneiddfawr*

Mewn un ffynhonnell yn unig (sef Peniarth 66) y priodolir y cywydd serch hwn i Lewys Morgannwg. Fe'i cyhoeddwyd yn GDID Atodiad B1 ymhlith y cerddi a allai fod yn eiddo i Wilym ab Ieuan Hen ond ni nodir bod y golygiad yn seiliedig ar destunau sy'n priodoli'r cywydd i Robin Ddu ac i Lawdden yn ogystal ag i Wilym. Enwir Robin Ddu mewn saith llawysgrif, Gwilym ab Ieuan Hen mewn pedair (a thair o'r rheini yn llaw Llywelyn Siôn—awgrym nad oedd traddodiad ym Morgannwg mai Lewys a'i canodd), a Lawdden, Ieuan Tew Brydydd a Hywel Dafu mewn un yr un. Anodd cynnig dadl argyhoeddiadol dros hawlio'r cywydd i Lewys.

## 1

*Awdl foliant i Syr Edward Stradling, Sain Dunwyd*

- 4 Y marchog bywiog, Syr Bewys—Hamtwn,  
Ail Brytwn fal Brutus,  
Marchog nerth meirch, â gwayw'n us,  
Mawr yw'ch gair, marchog Iorus.
- 8 Sain Siorus hapus un hyd—â Syr Pŷr,  
Syr Paris gadernid,  
Syr Gareth, Syr Gei wryd,  
Sy ŵr ar bob syr o'r byd.
- 12 Syr Gwalchmai, Syr Cai, nesa' i'r cing—sy raid,  
Syr Edwart Ystradling,  
Syr Lawnslod mewn dyrnod ing,  
Sarff gwaedlafn, Syr Ffwg edling.
- 16 Edling Ystradling dros Drent,  
Eurllin ermin iarll Normant,  
Chwi yw'n nen a'n pen a'n pont,  
A chlo Môn a Michel Mwnt.  
O phwysir ieirll, ffasio'r rhynt,  
Nid mwy bwys no dimai bunt.
- 20 Trychanpunt arnynt ernwch,—dir â rhent,  
Tra rho Duw lonyddwch;  
Tra fu (trist yw), rhyw fyd trwch,  
Tra rhwyddynt troi ar heddwch.
- 24 Heddychaist, rhwymaist a fu rhoch—a'ch gwaed,  
Iawn, ywch, Gadw, a wnaethoch;  
N'ad dorri fyth hyd tra foch;  
Ni thyr angall fyth rhyngoch.
- 28 O buoch rhyngoch, yr un—nis torroch,  
Es teiroes anghytun,  
Boed hir heddwch, bid rheiddun;  
Bywyd i ni 'ch bod yn un.

32 Mae'n iawn; yn un awn i'n oes—i'r lle llas  
Iarll holl Went a'r pumoes;  
Myn ddial, mae ynn ddwyoes,  
Mŵn a braich, waith Manbri i'ch oes.

36 Nid oes gwayw i'n oes gynsed—i'r marc  
Er mwyn Harri Wythfed;  
I'ch oes y daw'r Groes i Gred;  
I waith honno y'th aned.

40 Ble ganed o Gred garw o ŵr—un ffriw,  
Na phryns na chwnwerwr?  
Be cawn ganmil bob milwr,  
Ni cha' byth un o'ch bath, ŵr.

44 A fu 'rioed gŵr well ar y Ford Gron  
Er a fu o'r llu yng Nghaerllion?  
Un fath, Syr Galath, argoelion—a maint,  
Yr wyd â chweugaint aurdorchogion.

48 O bu ŵr Sioswy a brau Siason,  
Ac o bu Selyf ac Absalon,  
Ni bu er a fu, fywion,—er a sydd,  
Na gŵr na'i gilydd garw un galon.

52 Y gwŷr ucha'u braint oedd gar eich bron,  
Iawn o baen' hwythau yn benoethion;  
Wyd falch lle bo balch beilchion—ag ystad,  
Wyt oen o gariad at un gwirion.

56 Eog aurdeiliog ar urddolion  
O waed sy agos i dwysogion,  
Aurdorchog osog, Eson—brenhinwaed,  
O'n hen gywirwaed a'n hiawn goron.

60 Iach o Harri Sant ywch i'r oes hon,  
Iach Herbart o Went (tawent) on'd hon?  
Iach Barclos aros wyrion—goreuraid,  
Iachau o ddugiaid mae i chwi ddigon.

- 64 Tarw ywch o Fathau trechaf weithion,  
Taleithlew oesog tylwyth Leision,  
Tewdwr Mawr flaenwr fal Einion—ei hun,  
Teŷrnwaed Iestyn trwy'n iawn dystion.
- 68 Ni allaf draethu pawb a fuon'  
Na'u henwi gyfuwch mewn hen gofion,  
Na thafawd hyd Frawd neu fron—ystudiaï  
Ni'th ddwyn a gaffai o'th hen gyffion.
- 72 Pennaeth urddedig boneddigion,  
Pen wyd i fagu pendefigion;  
Penrhaith, mwy obaith o'ch meibion,—Priaf,  
Pennaf er Addaf. Pwy'n fwy'i roddion?
- 76 Pennaf yw'r dewraf pan fo'r dewrion,  
Pennaf yw'r haelaf pan fo'r haelion;  
Pennaf yw'r gwychaf, o'r gwychion—y'th gaf,  
Pennaf yw'r doethaf pan fo'r doethion.
- 80 Penteulu ynys, pen tâl i weinion,  
Pen cad ar fagad o arfogion,  
Penaig o fab gwraig, goreigion—ieithoedd,  
Pen cenedl oesoedd pobloedd Pablon.
- 84 Mal llynges Foeses, ef âi'i weision,  
Môr a dry rhagoch mawr, drwy'r eigion;  
Mal gwŷr Pharaw draw pan drawon'—i'r gwaith  
Mae distryw unwaith am d'estronion.
- 88 O gas ei osod a geisiason',  
Ys gwell yw, Iesu, nis gallason';  
I'th urddas o gas, a geision'—holl Gred,  
I'th einioes golled fyth nis gallon'.
- 92 Trwy Fair i eiriol trof fi'r awron,  
Trwy enwau y saint o'r ynys hon,  
Trwy'r Grog gwyarog a'i goron—a'i Groes,  
Trwy fyw dy einioes, tra fo dynion,
- 96 Tra fo haul na rhod na grod yn gron,  
Tra fo haf na gwres na thes na thon,  
Tra gerddych, tra fych, tra fôn'—o'r hen waith  
Trefi 'mhob rhyw iaith, tra fo mab bron.

100 Marchog a ry gad, meirch, gwŷr ag onn,  
Marchog gwych o Went, marchocewch hon;  
Marchog ffres helmog, Salmon—Morgannwg,  
Mor wych yw â Ffwg â march a ffon.

104 Marchog calonnog rhag gelynion,  
Marchog corff enwog carw y ffynnon,  
Marchog can marchog, Meirchion—gwaed Troea,  
Mwstra, marchoga, meistr marchogion.

Y marchog bywiog, Syr Bewys, &c.

### *Ffynonellau*

A—Card 2.619 [= Hafod 5], 49 (*collwyd rhai geiriau ar ochr y ddalen*)

B—Card 5.44, 80<sup>v</sup> C—Llst 134, 96<sup>r</sup> D—LIGC 970E [= Merthyr Tudful],  
160 E—LIGC 6511B, 5<sup>r</sup> F—BL Add 31090, 115<sup>v</sup>

### *Ffynhonnell arall*

LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 84<sup>r</sup> (*y testun yn gyfan ond y ddalen wedi treulio yn ddifrifol*)

### *Amrywiadau*

1 E [1–90], A ..bywfioc..befys., BCD ..bevs., F ..Bevys., CDF ..hamptwn  
5 BCDF sant.. 7 A–DF ..Gai.. 9 AB ..nesa r king., CD ..Raid 12 A–DF ..a  
gwaed lafn.. 14 CF ..jar.. 15 A ..yw nenn.. 17 A ..a ffriso rent, BCDF  
..ffasio ir ynt 18 CF ..mwyn., BCDF ..na., D ..i bynt 19 B ..erwch.,  
F ..ornwch.. rent 20 CF try., D dry., F ..ro.. 21 D try., F ..ryw.. 22 D  
try., ACD ..rhwyddent., F ..rwyddent.. 23 F ..rwyneist a vu roch.. 26 F  
..ryngoch 27 F ..ryngoch.. 29 D ..byd., A–D ..rhyddvn, F ..ryddyn 31 A–D  
..yn oes., A ..yr lle.. 33 A–DF ..mae hynn.. 34 AC ..manbri choes, F  
..Mambri ch oes, BD ..manbri ych oes 35 CF ..gwaew n oes., ABD ..yn  
oes., A ..yr mark 37 ABC ychoes., D yth oes., F ych oes daw r.. 38 A y  
waith.. 40 A ..chwmkwerwr 43 A–DF e vy.. 44 A er vy.. 45 A ..argoelion,  
D ..main, 51 A ..gair., B ..gyr., CDF ..geyr.. 52 ACDF ..bennhoethonn 54  
AF wyd.. 56 A ..agos dywesogionn 59 A–DF ach., F ..uwch., A ..yr  
hoes., BCDF ..yr oes.. 60 A–DF ach., A ..went ond.. 61 A–DF ach., CDF  
..wyron.. 62 A–DF achav..mae chwi.. 63 D ..ywch vathav., A–DF  
..waithonn 64 BCDF ..osawg., A–DF ..laisonn 65 A–D ..ainonn.. 68 BCF  
..yn hen.. 69 AB ..hed vrawd., A–DF ..ystydai 70 A nythwyn y gaffai.,  
BCD y thwyn., F i thwyn., A–D ..gyffonn 71 A ..boneddigonn 72 A ..y  
vagv.. 74 A–D ..vwy rhoddionn, F ..vwy roddion 77 B ..yw r gwyr  
gwychaf.. 78 D pennaf yw r haelaf pan vo r haelion 79 A–DF ..wainonn 82  
A–DF ..pabilonn 83 A–DF ..ef av waisonn 84 A–D ..rhogoch., F ..rogoch..



85 *A* ..yr gwaith 87 *A-DF* ..gaisysonn 88 *A-DF* ..gallysonn 89 *A-DF* yth yrddas., *D* ..y gaison., *ABCF* ..gaisonn.. 90 *A-D* yth ainoes., *F* yth.. 92 *BCEF* ..enwav r saint.. 93 *A* ..gayaroc.. 94 *A-E* ..ainoes., *BCDF* ..try.. 95 *BCD* try., *F* ..rod.. 96 *BCDF* try.. 97 *BCDF* try..try..try., *CF* ..jaith 98 *CF* ..waith., *BCDF* ..try.. 99 *B-E* ..Ry.. 100 *ABCE* ..marchakewch., *F* ..march kewch.. 103 *F* ..rag..

*Cywydd i geisio heddwch Syr Edward Stradling, Sain Dunwyd*

- Pwy'r un syr nai'r Pryns Harri?  
 Pwy yw'r syr fal apyrsi?  
 Oes syr gwych dros wŷr y gart?  
 4 Oes! Yr ydwyd, Syr Edwart.  
 Bron llew wyd â bar yn lladd,  
 Bron Ystradling, bryns drudladd.  
 Ercles o iach Barclos wyd;  
 8 Chwi sy'n dwyn iach Sain Dunwyd.  
 Enwi'ch holl waed yn chwe llys,  
 Hirwaith enwi'r wyth ynys.  
 Nid un gras un pen dan Gred,  
 12 Nid un raen dyn ar aned.  
 Nid oes wŷr, dewis Harri,  
 Deifr ond us yn dy fron di.  
 Mal sawden ym Mhowls ydwyd,  
 16 Emprwr mewn term parment wyd.  
 Cyrch hawlfainc, carw uchelfawr,  
 Cynnwys le 'mysg cwncsel mawr.  
 Cainc o stad cwncwest ydych,  
 20 Carw gwyn, o gwncwerwr gwych.  
 Cymer wyn Cymru unwaith,  
 Coler Iarll y Clâr a'i waith.
- I chwi'r âi mawl ddechrau 'myd;  
 24 O'ch rhodd fy nechrau oeddud.  
 Fy meddwl, fy amweddi  
 Farw oedd chwant yn fardd i chwi.  
 Dig ydwyd dan dy gadwyn:  
 28 Dig fydd, O! Dduw, gwae fi'i ddwyn.  
 O rhoud wg, hir y'i dygum,  
 Llyna wg nid llawen ym.  
 Dy lid yw'r dial a wn:  
 32 Dial yw nas dilëwn.  
 O bwrud gas, Ddydd Brawd gwan,  
 Ni bu achos ond bychan.  
 Er na wn wir na'i enwi  
 36 Eithr Duw a wŷr f'ethrod i.

- Gwenwyn o ddyn a'ch gwnâi'n ddig,  
 Genau annoeth gwenwynig.  
 Ba lid i'm bilio ydoedd?  
 40 Bil a wnaeth dyn; bilain oedd.  
 Na chred air un chwerw dyrras  
 Na bo gwir ar neb o gas.
- O flaen gair fal oen gwirion  
 44 Y dof yr wyl gar dy fron.  
 Gwell i'r iawn golli'r ynys  
 No cholli awr *ywch* a'ch llys.  
 Ba wlad rhugl? Ba le treiglaf?  
 48 Ba dir ym o'r byd yr af?  
 Mal Siacob—on'd fy ngobaith?—  
 Mae lle i mi 'mhell o'm iaith.  
 Dyn a'i le, fal Daniel wyf,  
 52 Lle doded llewod ydwyf.  
 O charud fi, na chred fâr,  
 Chwi a'm cyrchech o'm carchar.
- Purdan—pa le'r amcanaf?—  
 56 Padrig gynt, pa dir y'i caf?  
 Af fal marchog i'r ogof;  
 F'angau yw hyn on'd fy nghof.  
 Dyn dig damnedig ydwyf;  
 60 Dwyn dy ddig dan udo 'dd wyf.  
 Dy fâr di, *neud* wyf ar daith,  
 Dyn, i'w ddwyn, dy nawdd unwaith!  
 Er Duw Lwyd, er dy lidiaw,  
 64 Atal dy lid, dal dy law.  
 Gŵr yt sy gywir ytwyf.  
 Gwrandu air. Gwirioned wyf.  
 Os claf fyddaf heb feddyg;  
 68 Iechyd ym yw maddau'ch dig.  
 Marchog llidiog, llew ydwyd,  
 Moes dy ras, 'y mhen-meistr wyd.  
 Af i'th ras yn fyw i'th raid,  
 72 Af unwaith neu ddwyn f'enaid.

*Ffynonellau*

A—Card 5.44, 207<sup>r</sup> B—Card 2.630 [= Hafod 20], 112<sup>v</sup> C—Llist 134, 204<sup>v</sup>  
 D—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 359 (*collwyd rhannau o'r testun*) E—  
 LIGC 6511B, 160<sup>r</sup> F—LIGC 13061B, 233<sup>r</sup> G—BL Add 31090, 37<sup>v</sup> H—  
 LIGC 3049D [= Mos 146], 353 I—LIGC 5273D, 48<sup>v</sup>

*Ffynhonnell arall*Card 4.10 [= RWM 84], 801 (*testun llwgr, yn dilyn HI*)*Amrywiadau*

1 *H* pw yw'r vn syr ir prins., *I* ..syr ir prins.. 2 *I* ..fab.. 3 *BGHI* ..gard 4 *HI* ..yr ydych., *GHI* ..Edward 5 *HI* + *i*, *A-G* ..a bair yn lladd 6 *A-EG* ..ystradlin., *HI* ..brins.. 7 *ABCE* Erkvles., *D* Erckvlys., *F* Erklys., *G* Arkules., *HI* Erclys., *A-GI* ..ach., *H* ..barr clos., *I* ..barc clos.. 8 *A-G* ..ach., *BG* ..san., *I* ..sam dwnyd 9 *ABCEF* enwi ch oll., *G* ..hollwaed yn chwellys 13 *H* ..oes dewis., *I* ..oes detris.. 15 *BEG* mawl.. 16 *HI* ..parlament.. 17 *F* ..ywchelfawr, *H* ..chelfawr 19 *F* ..ostat..ytych 20 *B* ..gwmkwerwr., *I* ..gwnkwerwyr.. 21 *BEFG* ..kymry.. 23 *A-G* i chwi roi mawl., *H* y chwi., *HI* ..ddai mawl.. 24 *HI* ach., *B-GI* ..rodd., *A* ..y nechrav.. 25 *C* ..yw am weddi, *FGH* ..vu am weddi, *I* ..anweddi 27 *F* dig ydych.. 28 *HI* dig fydd och gwae., *G* dig veio ddwyd., *DF* ..och dduw., *A-G* ..vi ddwyn 29 *A-F* o Roid., *G* o roid., *I* o roedd., *A-I* ..i dygym 30 *I* llyma., *A* ..nad.. 32 *CHI* ..nys., *ABD-G* ..delauwn, *C* ..delywn, *H* ..dylwn, *I* ..dylywn 33 *A-G* o bwrid., *HI* ..dydd.. 35 *G* ..wr.. 36 *HI* ..duw wyr f athrod i 37 *HI* ..oedd ddyn., *I* ..ych gwnai.. 39 *A-F* ..ym bilio., *G* ..ymbilio., *HI* ..yn bilio.. 40 *BCEFG* ..bilaen., *HI* ..balaam.. 41 *D* ny chred., *A-GI* ..diras 42 *HI* ni., *E* ..oi gas 44 *FHI* ..ar wir., *ACD* ..yn dy., *BEG* ..gyrr., *F* ..gair., *I* ..ger.. 45 *A-G* gwell ir awn., *HI* gwell yr awn.. 46 *A-H* na., *A-I* ..awr chwi.. 47 *H* pa..rydd pa le treiddiaf, *I* ..rydd..troediaf, *G* ..rugl., *A-G* ..i traiglaf 48 *H* pa.. 49 *HI* fal Jacob., *F* ..ond yngobaith 50 *CH* mae lle ym.. 51 *HI* + *ii* 54 *C* ..kyrchedd., *H* ..cyrchwch.. 55 *C* ..pw y le r., *BFG* ..ymkanaf 56 *E* pa drig., *A-GI* ..i kaf, *H* ..a gaf 57 *G* ..mal., *HI* ..yr ogof 58 *B* ..vnghof 59 *BG* ..damvnedig., *H* ..dannedig.. 60 *A-EGI* ..i ddwyf 61 *A-I* ..nid wyf.. 62 *A-I* ..yw ddwyn.. 63 *I* o duw lwyd or dilidiaw 64 *HI* ..fal.. 70 *HI* ..fy mhen.. 71 *D* [ ] yn vyw., *ABEFGI* ..yth ras., *C* ..yth Ras., *ACDE* ..yth Raid, *BFGI* ..yth raid

*i*

Marchog aer mawr ich kvas  
mawr yw ch claim or marchog glas

*ii*

af orig i lafvriaw  
i wlad yr Aipht ynial draw

*Awdl foliant i Domas Stradling, Sain Dunwyd*

- 4           Hawddfyd, hir fywyd, tra fych,—trwy olud,  
               Tra weler grwn a rych  
               I'r carw gwyn (a'r ceirw gennyh)  
               Sy lew dewr, Syr Lawnslod wych.
- 8           Lawnslod, os dyfod i 'stafell—brenin,  
               A'th gostwin i'th gastell,  
               Ni wisg Harri, waisg Hiriell,  
               Esgair aur ysgwier well.
- 12          Ysgwier, dewrder o daw ing—hyd Hymr,  
               Meistr Tomas Ystradling,  
               Erchi i Dduw'r wyf, arch a ddring,  
               Roi fyth hoedl i'r fath edling.
- 16          Pwy math Syr Galath, o galon—Syr Bŵn,  
               Syr Bwrđ o arferion,  
               Pen doethder a breuder bron,  
               Pen sy eilmab hen Salmon?
- 20          Mab marchog torchog, tyrrwyd—marchogwaed  
               Marchogion Sain Dunwyd;  
               Mab, a thad ym byth ydwyd,  
               Wedy'r tad, Syr Edwart, wyd.
- 24          Tydi o gorff y tad gynt,  
               Tau ras waed tŷ Harri Sant;  
               Tŷ Arndel hyd Michel Mwnt,  
               Ti o'r llew gwyn, tŷ ieirll Gwent.  
               Tŷ Stradling, na chyd-dringent,  
               Ti yw pen y tŷ a'u pont.
- 28          Penrhaith tair talaith, taliad—penaig hen,  
               Pen cenedl dad i dad,  
               Pen doethder, hap bendithdad,  
               Prif ras Duw'n prifio'r ystad.

- 32 Mae gras, Meistr Tomas, yt, Ámen,—a'th hil  
Mwy no thylwyth Moesen;  
Mae o ais hil Gamais hen  
Merch Goel mor wych ag Elen.
- 36 Ail Elen Bronwen, nith Brenin—Harri,  
Hiroes, Meistres Catrin!  
Ai mawr lwyth o Gymru lin  
Neu 'n Lloegr un well ei hegin?
- 40 Ni bu well, Cadell cadarn—a'i dwysog,  
Dau oeswr uwch Syfarn;  
Ni wnaen' hwy, wrth bin haearn,  
A wnai ar fainc pan roi farn.
- 44 Ar fainc, garw decainc, gar'dicaf—undyn,  
Uwch o waed arnyn' a chadarnaf.  
Aer wyd Sain Dunwyd, enwaf—wlad Forgan,  
Yr wyd dy hunan o'r tai hynaf,  
48 Salmon, llin dewrion Llandaf—a'r *Barclos*,  
Uchelwaed y rhos ywch, Wlad yr Haf.  
Mae gwedd, dawn bonedd, Duw'n bennaf—lle bych,  
A lliw gwrolwych llew gwrolaf;  
Mae campau gorau, gywiraf—gŵr byw,  
52 O wŷr sy heddiw er oes Addaf;  
Mae cyfraith teiriaith, wyt araf—i'th waith,  
Maner trwy awchiaith mewn nortr wychaf;  
Moesau, gwybodau, bydaf—dy wleddoedd,  
56 Mae ynod ieithoedd, 'y mhen doethaf;  
Mae arfau, gynnau, gwnnaf—ddur Eidol,  
Mae'r gair yd, wrol, mae'r gwŷr dewraf;  
Meirch, milgwn, eleirch, alaf—Iarl y Clâr,  
60 Mêt, llysau, adar mal llys Eudaf;  
Pysgod dŵr, hyddod rhwyddaf—o barcau,  
Plasau trwy wyliau tŷ rialaf.  
Ni bu benteulu (band haelaf?)—ddewrach  
64 Neu 'rïoed lawenach; neur wyd lanaf.  
Nid un ffortun dyn, dewiniaf,—wellwell,  
Na dyn o ddawn well i dan Dduw Naf.  
Baech ddig, bendefig, (band af—i'th foli?)  
68 Mwy'r â dy ofni *no*'r môr dyfnaf.  
Marchog, bu rywiog Briaf,—Syr Edwart,  
Acwy drwy wyth gwart, Ector, y'th gaf.

- 72 Aur, sidan, arian, euraf—dy fawl grym,  
Y tad a'u rhôl ym, atad yr af.  
Ar dafod, orddod wrddaf,—a genais,  
Eto a enwais yt a unaf.
- 76 Ordr Winsor, Sain Siôr, a saf—yn farchog  
Ac aros, eog, yr oes hwyaf.  
Tomas, cai ardas, Cawrdaf—ym matel,  
O law oruchel Harri uchaf.
- 80 Ar Groes er a roes, ar waesaf—ffrewyll  
O waed o'r erchyll, Duw, yr archaf  
Na ddêl yt drafel tra—fych hyd ddiwedd,  
'Y marwn, â chledd, na marw, na chlaf,  
Na thon môr eigion, Mair, â—f'adolwyn,
- 84 Na briw na gwenwyn wybr, nac anaf.  
Rhoed d'eiioes chwech oes, o chaf—f'arfeddyd,  
Yt, a hir iechyd, Duw Oruchaf.

Hawddfyd, hir fywyd, &c.

### *Ffynonellau*

A—Pen 99, 371 B—Pen 101, 175 C—CM 12, 202

### *Amrywiadau*

2 C ..a gwrych 3 AB yr karw.., B ..or.. 5 AB ..y ystafell.. 6 A ..yth gastell 7 AB ..weisg.. 11 C erchi Dduw.. 12 AB ..yr vath.. 17 ABC ..ty wyd.. 23 B ..hy.., A ..mychel y mwnt 24 C ty.. 26 B ..a pont 27 A penn raith.., C pen rhaith talaith.. 37 ABC ..gymry.. 43 C ar gainc..dyn 47 ABC ..kerklos 48 C ..uwch.. 53 AC ..yth waith 57 ABC ..gwynnaf.., AB ..eidiol 60 ABC ..llyssiav.. 61 B ..dur.., AB ..rwyddaf.., ABC ..barkiaf 62 B ..reialaf, C ..rhialaf 65 C ..dewinaf.. 66 AB ..y dan.., C ..o dan.. 67 ABC ..yth voli 68 ABC ..or mor.. 70 C ..wyth Ector.. 72 ABC ..roi.. 74 AC ..wnaf 77 A ..kav.., C ..cais.. 78 ABC ..vwchaf 82 C ..na chledd.. 83 AB ..mair a va dolwyn, C ..af adolwyn 85 B ..f arfeddy

*Awdl farwnad Syr Wiliam Mathau, Radur*

- Dydd Brawd Cymru dlawd marw dyledawg,—cun,  
 Pen cenedl aurdorchawg;  
 4 Yn iach, wŷr hwn, ochwyr 'rhawg,  
 Yn iach feirch neu wych farchawg.
- Dwyn marchog tiriog tyrau—Syr Rolant,  
 Dwyn Syr Wiliam Mathau;  
 8 Ni ad ing o daw angau  
 I'r rhai byw 'rhawg hir barhau.
- Nid oes ynn hir oes yn nhresawr—y byd  
 Ond ennyd naid unawr;  
 12 Ni cha' urddas na cherddawr  
 Na gweld mwy un golud mawr.
- Cwyn mawr Tewdwr Mawr am a wn,—aml cwyn  
 Mal cwymp Iorwerth Drwyndwn;  
 16 Cwyn am eilgorff, cwyn Maelgwn,  
 Cwyn Ifor Hael cwyn farw hwn.
- Oes gŵyn mwy no chŵyn? Mwy na chaned—beirdd;  
 Y mae'r byd ar fyned;  
 20 Oes gwraig hiraethus o Gred?  
 Oes. Hon, Arglwyddes Sioned.
- Sioned, ail Luned, a wyl am—farchog  
 Fu erchwyn pawb rhag cam;  
 24 Mae wylo i'w fab mal i'w fam  
 Oes ar ôl marw Syr Wiliam.
- Syr Bŵn aeth pan aeth pen naw—brenhinllwyth  
 O burffirwyth Aberffraw;  
 28 Syr sy feistr Siors i fwstraw  
 Sy ar ystrym Sain Siors draw.
- Mae draw 'nhŷ Deilaw, dolur—holl geraint  
 Lle gorwedd Paredur,



- 32 Mae'n ceiliog du mewn clog dur,  
Och!—mae'r edn?—Gwalchmai Radur.
- Och! Drwg, Forgannwg, anaf—ar wyrda,  
Dwyn yr eurdorch lanaf;  
36 Och, genedl! Chwi a gwynaf,  
Och blined och bobl Landaf!
- Aeth Briaf Llandaf lle ni'm dawr—ddigwyn,  
Llai ddygiad Rhodri Mawr,  
A thorchog a thywarchawr  
40 Mathau lwyth mwy aeth i lawr.
- Bwrw gwaed mawr i'r llawr, dryllio hŷn,—gwaeth fyth,  
Gwaithfôed, Harbart, Bleddyn;  
44 Bilaen y doeth—ble un dyn?—  
Blaned dost ar blant Iestyn.
- Pobl Iestyn llefyn', holl wyth—ran cenedl,  
Cwynent ei holl dylwyth;  
48 Penllin, henllin frenhinllwyth,  
Pum llai oedd feirw'r pum llwyth.
- Llwyth Einion, Lleision lluoesydd,—holl waed  
Llwyth Elystan Glodrydd,  
Llwyth ar ben, llithro beunydd,  
52 Llwyth Rhun fyth, llwyth Aron fydd.
- Llwythau taleithiau, tâl waethwaeth—rhag llaw  
A sigaw'r dwysogaeth;  
Lladdfa had Troea hyd draeth,  
56 Lludd cwyn hoedl, lladd cenhedlaeth.
- Mae'n waeth genhedlaeth gan hidlaid—ddagrau,  
Blin eiriau blaenoriaid;  
60 Mae yn waeth pobl aeth a'u plaid,  
Mwy aeth ewythr Matheuaid.
- Llwyth Mathau, tyrau, tiroedd—a chaerau,  
Llwythau llif oriau trwy'r holl foroedd;  
64 Llif Noe ynn yw'r glyn a glannoedd—Meisgyn,  
Llawn llyn f'annoddun dros fynyddoedd.  
Marw Ector, Sain Siôr siroedd,—anhepgor,  
Dygyffor, troes môr tros y muroedd.

- 68 Gwae'r wlad ddwyn ceidwad rhag cadoedd—tromgad,  
Rhag brad, rhag bwriad, o'r aberoedd;  
Gwae gywiriaid, blaid â bloedd—gwirioniaid,  
Gweinïaid, gwae'r deiliaid, gwae'r ardaloedd.
- 72 Breichiau, gwae hwyntau, Gwentoedd—a'r Deau,  
Breichiau, aelodau yr holl wladoedd;  
Blwyddyn mesuryn' amseroedd—oes dyn,  
Blwyddyn blin uddyn' o'r blynyddoedd.
- 76 Pob dyn aeth waethwaeth, ieithoedd,—llywodraeth,  
Pan aeth y pennaeth a rôl'r punnoedd;  
Parcau, palisau, plasoedd—a thyrau,  
Pethau mawr eisïau mwy i'r oesoedd.
- 80 Llysau a phrennau, dyffrynnoedd,—brynïau,  
Llai ffrwythau, llynnau a gwinllannoedd;  
Llai cerddau, lleisïau llysoedd—ar wylïau,  
Llai gynau rannau i werinoedd.
- 84 Llai faeth, ysywaeth, llyseuoedd,—gwinfaeth,  
Gwasanaeth, lluniaeth a'r holl winoedd;  
Llefynt na lenwynt lynnoedd,—na chwerddynt  
Le gynt llanwesynt llyn ynsoedd;  
Ochasant, llefant, llifoedd—wylasant,  
88 Wylant, mawr wisgant mwrrai wisgoedd.
- Mawr gur ddwyn Arthur, nerthoedd—Paredur,  
Murmur i Radur mawrmawr ydoedd;  
92 Marchog ardderchog, rhoi 'dd oedd—yn rhywiog,  
Marchog pob marchog (pai byw) ym oedd.
- Mae'r gwŷr? Mae'r gwaywyr ar gyhoedd?—Milwyr,  
Morwyr, rhyfelwyr Harri, filioedd?  
Mae gwycheder, glewder, goludoedd—amllder?  
96 Mae glander nifer fry 'n y nefoedd.  
Mae'r gwaed arglwyddwaed? Gwleddoedd—marchogwaed?  
Dan draed bwrw'n henwaed a'n brenhinoedd.
- 100 Cwynaf yr haelaf o hilioedd—Llandaf,  
Gwychaf, goruchaf, gorau iachoedd;  
Cwyn macwy, cwyn pwy pioedd—pawb hyd Wy,  
Cwyn mwy, cwyn Sioswy cyn oesoedd;

- Cwyn Salmon, Siason siasoedd,—Lamedon,  
 104 Cwyn Môn, llu Bablon, cwyn holl bobloedd.
- Tristyd aeth hefyd dros eithafoedd—byd,  
 Trymryd fydd ennyd ar fyddinoedd;  
 Tywyllant, nosant, dinasoedd—syrthiant,  
 108 Trwblant, trinasant trwy'r ternasoedd.
- Dyrnod brut orfod torfoedd—ar gydfod,  
 Orddod fron gorfod llewod lluoedd;  
 Dydd Brawd, cwyn odlawd cenhedloedd—drallawd,  
 112 Dydd Brawd dyn difrawd, tân a dyfroedd.
- Dydd Brawd Cymru dlawd, &c.

*Ffynonellau*

A—Card 5.44, 88<sup>v</sup> B—L1st 134, 94<sup>v</sup> C—LIGC 970E [= Merthyr Tudful],  
 149 D—LIGC 6511B, 13 E—BL Add 31090, 111<sup>r</sup>

*Ffynhonnell arall*

F—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 89<sup>r</sup> (*y testun yn gyfan ond darnau yn annarllenadwy*)

*Amrywiadau*

1 *ACD* ..kymry.., *A-D* ..dyledawg.. 3 *ACD* ..ochwy r hawg, *BE* ..ochwyr hawg 5 *BE* ..sy.. 7 *A-E* ..ing i daw.. 8 *A-D* ir rai.. 9 *A-E* ..yn.., *A-D* ..yn Resawr.., *E* ..yn resawr.. 11 *C* ny char.. 12 *A-E* na gweled.. 14 *CD* ..yoraeth.. 17 *A-E* ..na.. 20 *B* ..arlwyyddes.., *A-E* ..Siwned 21 *A-E* Siwned.. 22 *E* ..rag.. 23 *BE* ..wylaw yw mal yw.., *ACD* ..yw..yw.. 26 *AD* ..berffrwyth.. 27 *B* syr syr.., *E* syr veistr.., *ACE* ..vwstriaw 31 *A-D* ..kailog.. 32 *C* mae r edn.., *D* ..mae edn.. 34 *C* marw r.., *BE* ..audorch.. 36 *A* och blined daith och.., *C* och blined daith bobl.., *BE* ..llann Daf 39 *ABDE* ..thwarchawr 43 *BE* blin.., *C* blined.. 44 *ABE* ..i blant.. 45 *A-E* ..wythran.. 49 *A-D* ..Einon.., *A-E* ..llaison.. 52 *D* ..vaeth.., *E* ..llwyr.. 53 *ABDE* ..talaithav.., *C* ..talwaithav.., *E* ..rag llaw 55 *C* llathfa.. 56 *C* llwydd.. 57 *A-E* ..kenhedlaeth kann.. 58 *ABE* ..airav.., *C* ..oriav.., *D* ..aurav.. 59 *D* ..poblaeth.. 60 *ACD* ..Mathiaid, *BE* ..Mathuaid 62 *BDE* traethav.., *ACD* ..trwy holl.. 63 *E* ..im.., *B* ..glonnoedd.., *A-E* ..Misgyn 64 *A-E* ..vy noddyn.. 67 *E* ..rag.., *A-E* ..trymgad 68 *E* ..rag.. 69 *A-D* ..gwirionnaid 70 *A-E* gwainaid.., *A-D* ..dailaid.., *A* ..gwae ardaloedd 71 *A-E* braichav.., *D* ..gwaenwyntav.., *AC* ..a deav 72 *A-E* braichav.., *AC* ..i holl.. 74 *A-E* ..yddyn.. 76 *CD* ..a Roir.. 78 *A-E* ..aisav.. 79 *A-E* ..brynnav 81 *AC* ..llysav.., *BDE* ..llaisav.., *ABCE* ..wilav 82 *ABE* ..gwinav.., *A-D* ..Rannav..

83 *A-E* ..llysoedd.. 84 *A-E* gwsanaeth., *ABC* ..llvnaeth., *D* ..llynaeth..  
 86 *A-E* ..llanwysynt.. 87 *A-E* ochysant.. wylasant 89 *E* ..Peredur 90 *A-E*  
 ..yr adur.. 91 *E* ..roi..rywiog 93 *AC* ..guoedd., *E* ..gioedd.. 94 *E*  
 ..ryvelwyr.. 99 *AC* ..hiloedd.. 100 *A-E* ..achoedd 103 *AC* ..Salomon.. 104  
*A-E* ..babilon.. 105 *BE* ..y byd 107 *E* ..ddinasoedd.. 108 *A-E* ..trinsant.,  
*D* ..teyrnasoedd 112 *E* ..tan y..

*Moliant Siors Mathau, Radur, a Barbra ei wraig*

Y llew pasant lle pwyswyd  
 O'r imp,—band llew rampand llwyd?—  
 Llew o daid, felly dwedyn',  
 4 Llew Wythfed, Iarll Waithfóed wyn.  
 Meistr Siors i'r mwstr sy arswyd,  
 Mathau, wŵr, gorau math wyd.  
 Serchog fab marchog a mam  
 8 Sy ar ôl enw Syr Wiliam.  
 Gwelwch—mae'r gloch?—Gwalchmai'r glyn,  
 Gwalch digymysg, gwalch Meisgyn.  
 Galaŵh a'i wisg loyw i'th ddur,  
 12 Gartr wyd o gwert y Radur.  
 Geilw Wyth Harri, gwllith hiraur,  
 Geiliog du, gloyw egwyd aur.  
 Hydeg ewch; hwde y gwynt;  
 16 Â'ch teidiau ni chydedynt.

Llew â braich lle bai roi'i win,  
 Llwyth o fron, lle i'th frenin.  
 Gwaed Henri â'r gwayw tanrest,  
 20 Galwem fraich Gwilym a'i frest.  
 Os dwyn hil sy dan heulwen,  
 Elystan, hil Iestyn hen,  
 Ble 'dd ânt, waed Bleddyn a'u tŵr,  
 24 —Band dy waed?—meibion Tewdwr?  
 Uchel waed, awchlew, ydywch,  
 Uwchder nerth, a chadarn ywch.

Ni beiddiaf fi, bai ddi-farn,  
 28 Ganzu gwawd na'i gwau'n gadarn  
 Gan farn, ban ganwyf ar wŵr,  
 Gan fai gwan genfigenwyr.  
 Gwnaf fawl megis gwin o fŷr  
 32 Gŵr od a'r wraig o Radur.  
 Ba wawr brint Sain Barbra wedd?  
 Ba unbennes ben bonedd?

- 36 Llwyth hon, *ac i'w* holl iaith hi,  
 Lloegr, gwledd, ieirll ac arglwyddi.  
 Brytaniaith, unbryd Dwynwen,  
 Breuber yw iaith Barbra wen:  
 40 Dilediaith, di-ŵyl ydyw,  
 Ym mrig iaith Gymræeg yw.  
 Gwragedd a'u gwŷr gwreigedd, gant,  
 Gan ystad gwn nas dwedant.  
 44 Nos a dydd, nos da iddi,  
 Daed ei hiaith, y dywaid hi.  
 Dan yr haul dan roi heilwin  
 Doetha' merch dwy iaith o'i min.  
 48 Od yw'r siwgr ar hyd seigiau  
 O'i llaw hael; mae'n well o'i hau.  
 Duw, ni *ellid* dwyn wellwell,  
 Dyweddi 'nyn, deuddyn well.
- 52 Mâl, aur Siors aml i'r oes hon,  
 Mathau, win, ameuthunion.  
 Eryr wyt ti ar waed daf,  
 Edn y glyn o'r dyn glanaf.  
 56 Adar i'th gwrth, wŷr wyth gant,  
 Y mab, wrthych am borthiant.  
 Rhai a giliant â'r golud  
 I arbed rhoi ar y byd drud.  
 Ni ffoist ti mwy *no* phost dur  
 60 Er rhoi 'rioed aur o Radur.  
 Duw *yn* rhoi digon yrhawg,  
 Dyn yn rhoi wyd yn rhywiawg.  
 Duw ni ad, undyn ydywch,  
 64 Ym môr a thir amorth ywch.  
 Ni aned dyn onid dau  
 Ag un addfwyn gyneddau:  
 Syr Trystan y'th foliannwyd  
 68 Sy hael a dewr; Lawnslod wyd.  
 Aml gwin ŵyl, milgwn, *eleirch*;  
 Ambell fod mab well ei feirch.  
 Arfau *i'th* wŷr o'r fath ddewraf:  
 72 Yn llu 'n d'ôl gleifiau Llandaf.  
 O dôi dwrn, od *aud* arnyn',  
 Un ffordd ei fwâu a'i ffyn.  
 Enaid gwlad—pand glew ydwyd?—  
 76 A'i chlo nerth a'i chalon wyd.

E drig urddas dra gerddych  
At oes gŵr i ti, was gwych.

*Ffynhonnell*

Pen 96, 171

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 ..lleï.. 2 ..Rrampant.. 11 galach.. 12 ..yr adur 14 ..dv n y gloiw.. 15  
hedeg.. 17 ..roi win 19 ..tan Rrest 23 ble i ddant.. 28 ganv.. 32 ..ar  
gwraig.. 35 ..honn ai holl.. 37 brytanwaith.. 42 ..dwedan 43 ..nos dai.. 44  
..a dowaid.. 45 ..Rroi.. 49 ..allwyd.. 50 diweddi vn.. 56 ..borthant 59 ni  
ffoaisti mwy na.. 61 duw Rroi.. 64 ..vwch 69 ..elyrch 71 arfav th.. 73  
..aed.. 74 ..a ffynn 78 ..yt i..

*Moliant Wiliam Mathau, Radur*

- Mae'n pen gwawd? Barawd o'r banc.  
 Oes gryf ysgwïer ifanc?  
 4 Mastr Wiliam, oes dewr haelwych,  
 Mathau, â'r gamp, math w'r gwych?  
 Aros torch Syr Siors y tad,  
 Mawrwych Ector marchoctad.  
 Syr Wiliam dros wrolaeth,  
 8 Ail i'w dad, Syr Lawnslod, aeth.  
 Magu Wiliam yw Galath;  
 Mab wyd a fagwyd un fath.  
 Mab marchog, rhywiog yw'r iach,  
 12 Ni bu i wraig fab rywiogach.  
 Dyweddi, dydd da uddynt,  
 Dy fam a'th dad, fy maeth ýnt:  
 Arglwyddes Barbra gloywddoeth  
 16 A'r marchog aurdorchog doeth.  
 Tra fo hil, tra fo heulwen,  
 Ni fetha hil Fathau hen.  
 Ni bo Radur barodwaith  
 20 Heb un o'r hil yn benrhaith.
- Mab Priaf Landaf a'i lys,  
 Mastr Wiliam â moes Droelus,  
 I ti rhoed oll fertyw da  
 24 Ector ieuanc o Droea.  
 Dyn ni allai'u dwyn wellwell  
 Gan Dduw fyth gyneddfau well:  
 Mae doethder, breuder garbron,  
 28 Mae pas olwg Absalon;  
 Mae gwychder, dewrder mewn dur,  
 Mae pryd y mab Paredur;  
 Mae calon macwy haelaf,  
 32 Mae'n llun d'ais, Gwalchmai, 'n Llandaf.

Y mae'r gair a'r mawr gariad,  
 Mae gras Duw yn magu'r stad.



- 36 Mae'r dynged yn ehedeg;  
Hwde i ti ehediad teg.  
N'ad i'w hadain dy hudaw,  
Mathau lân, ymaith o law.  
40 Ni ad Duw yn hyd dwyoes  
Nos na dydd un eisiau 'n d'oes.  
Na thro un wrth air annoeth;  
Ymwrandewch am air un doeth.  
44 Dwg o wenwyn dy gynnen,  
Dwg y byd yn deg i ben.  
Ni thyr anoeth rhieni;  
Fe'i tyr Duw dy fater di.  
Cai lawenydd calonnau,  
48 Cai hyn ywch can hen a iau.  
Caredig, cywir ydywch,  
Can dy wlad a'ch cenedl ywch.  
Cai d'ewyllys; cadw wellwell;  
52 Can Dduw nid oes cynnydd well.  
Croes ywch; cai hiroes iechyd;  
Cai Dduw'n borth; cai ddawn y byd.

*Ffynonellau*

A—Card 4.10 [= RWM 84], 802 B—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 443<sup>v</sup> C—  
Bodewryd 1, 207 D—J 101 [= RWM 17], 590

*Amrywiadau*

1 *A* mae m pen wawd brawd., *BCD* ..y bank 2 *BCD* ..ysgwiair.. 3 *BCD* ..was dewr., *A* ..haelwyn 4 *A* Mathew or gamp..gwyn, *BCD* ..math ior.. 5 *A* a ros.. 6 *A* ..Hector marchawdad, *BCD* ..marchowctad 7 *AC* ..wroliath 8 *BCD* ..i dad., *A* ..y tad..Lawslod.. 9 *C* [ ] 10 *C* ..fagwy[ ] 11 *BCD* ..rhyw iach 12 *BCD* ni by wraig., *A* ..y wraig.. Rywiogach 13 *AD* dy weddi., *BCD* ..dydd a oeddynt, *A* ..yddynt 14 *BCD* da vam a thad famaeth ynt 15 *BCD* ..dda ddoeth 16 *A* or.. 17 *BCD* ..tref a.. 18 *A* ..metha..Mathew.. 19 *BCD* ..berodwaith 20 *A* ..ben raith 21 *A-D* ..llandaf ai llys 22 *BCD* ..wiliam oes.. 23 *A* ..holl., *BCD* ..vater.. 24 *A* Hector ieuainc.. 25 *A* y ddy m ni all ddwyn., *BD* y ddy m ni allo ddwyn., *C* ..allai dwyn.. 26 *A* ..gyrcheddffau.. 27 *A* ..gair bron 28 *A-D* mae pwys., *A* ..o lyd mab Salmon, *B* ..mab solon, *CD* ..mab salon 29 *A-D* ..gwchder., *A* ..dewder.. 30 *BCD* ..val mab., *AC* ..peredyr, *BD* ..predur 32 *A* mae llen..Gwalchmai llan Daf 33 *BCD* ..a mawr.. 35 *C* j mae r blaened., *D* ..blaened., *B* ..blaened yn rhedeg 36 *BCD* a hwde., *A* ..ytti.. 37 *A* nad y hadain., *BCD* nad i hadav n dy heidiaw 38 *A* ..ai law 39 *BD* ..hud., *A-D* ..dwy oes 40 *BCD* ..yn eissiv.. 41 *BCD* ..throi.. 43 *A* ..di gynnen, *B* ..gymen 45 *CD* ..rieni 46 *A*

fo tyr.. 48 *BCD* kain., *A* ..vwch can hun.. 49 *BCD* ..ydych 50 *BCD* ..penn  
kenedl ych 51 *ABD* ..dy wllys., *C* ..dy wyllys.. 53 *A* ..a ywch..

*Marwnad Marged Bawdrem*

- Mawr gŵyn, cwyp Morgannwg, Gwent,  
 Marwolaeth, Cymru wylent.  
 Och ladd rhan a'i chladdu 'rhawg,  
 4 A chladdu y ferch lwyddawg.  
 Marw Arglwyddes, meirw'r gwleddoedd,  
 Marwach drem,—och!—Bawdrem, oedd.  
 Mawr wylo o'i marwolaeth,  
 8 Mawr gwae o'r dydd Margred aeth.  
 Marw un ferch mawr yn farchawg,  
 Marw oes yr hen Marsia 'rhawg.  
 Syrthio'i sir syrthio'i seren,  
 12 Sir mwy aeth Syr Mathias hen.  
 Dwyn ail Esyllt, un lysoedd,  
 O'r tŷ, hen waed Hortwn oedd,  
 Mynd lleuad mewn du llewych,  
 16 Mae nos i lwyth Mawnsel wych.  
 Aeth olau wrth ei helawr,  
 Aeth lamp Deheubarth i lawr.  
 Synnwyr pen gwraig a phennaeth  
 20 Sy wan draw. Casandra aeth.  
 Bedd Cai i orwedd cwncwerwr;  
 Briaf ei thad bu'r fath ŵr.  
 Mewn derw mae Enid Urien  
 24 A main clòs, em Niclas hen.  
 Duo lled hwnt ei holl dir,  
 Du yw hyd y deheudir.  
 Aml yw'r du, milwyr a'u dwg,  
 28 Am wŷr, gynau, Morgannwg:  
 Nos drist am arglwyddes draw  
 Y dôi'r angau i'w dringaw.  
  
 I dre'i thad, wrth ddeheudir,  
 32 Yr aeth hon ar fôr a thir  
 Fal yr aeth, ar filwyr oedd,  
 Hen Sioseff gyn oesoesoedd.  
 Merch Goel, â meirch ag elawr,  
 36 Mae bai ail mam Beli Mawr.

Gwŷr â du gri hyd awyr  
 Gar y corff, a gwaywyr cwyr,  
 Rôï'u bryd, fal chwaer Baredur,  
 40 Ei dwyn ym medd dan y mur.  
 Ysgraff a roes gorff i'r wal;  
 Dôï i'r gro i dŷ'r Greal.  
 'F âi em adref i'w medrawd;  
 44 Atweddi brudd hyd Dydd Brawd.

F'arglwyddes fu wraig loywddoeth  
 Os bu ail ddawn Sibli Ddoeth.  
 Doethder gwraig aeth doe i'r gro;  
 48 'F aeth synnwyr Fathias yno.  
 Ble 'dd â 'i hwyrion? Bloedd hiraeth.  
 Bersabî pob wrsib aeth.  
 Blwyddyn gaeth gwasanaethwyr;  
 52 Bu awr drist; Dydd Brawd ar wŷr.  
 Yn iach olwg na chalon,  
 Rhywiog hael, wedy'r wraig hon.

I Donwen dau a aned  
 56 O dir Lloegr aeth drwy holl Gred.  
 Bu un hynt ei meibion hi:  
 Bron Bwlen, Brân a Beli.  
 Dau farchogwaed farchogion  
 60 Y ddau sy i'r arglwyddes hon:  
 Syr Gwalchmai o dai Dwywent,  
 Syr Siors, Sain Siors ynys Went;  
 Sarff Godwin, Syr Ffwg ydyw,  
 64 Syr Wiliam, nerth Siarlmaen yw.  
 Bord Gron fu i'r marchogion chwyrn:  
 Bort gwaed dau Herbart gedyrn.  
 Drwy goel oedd daw arglwyddi  
 68 —Duw fo porth!—ei dau fab hi.  
 Duw'n rhwydd dan Harri uddynt!  
 Defnydd ieirll, da fonedd ŷnt.  
 Nis cenfydd—nawdd Dofydd Dad!—  
 72 Na'i drwg, Loegr, na dryglygad.

Arglwyddes, erglyw weddi,  
 Dduw hael, a weddioedd hi  
 Ar Grist gadw hil Iarll Wiliam  
 76 Yn fyw am ieirll. Nef i'w mam!

*Ffynhonnell*

Llst 164, 121

*Darlleniadau'r llawysgrif*

6 marw och drom.. 11 ..syr.. 12 syr.. 16 ..Mansel.. 19 ..na phennaeth 21  
..cae.. 30 ..i dringiaw 33 ..aych.. 38 geir..gwaewyr.. 39 ..vel.. 41 ..rhes..  
43 ..yw.. 44 at weddi.. 54 ..wedi.. 60 ..sy r arglwyddes.. 65 ..vu r  
marchogion.. 71 ..cenfyd.. 76 ..yw..

*Moliant Syr Tomas Gamais, y Coety*

- Y marchog gwych, mawr y'ch cad,  
 A braint Twrnai'n brint arnad,  
 Syr Tomas, eurwyd d'emoedd,  
 4 Gamais, ar wisg am sêr oedd.  
 O'th eurwyd yng ngwaith Harri,  
 Wrth raid hwn y'th eurwyd di.  
 A da gwedd ar fonheddig  
 8 Euro'i frest a'i war a'i frig.
- Marchog gemog o'r Gamais,*  
*Mal Sain Siôr aml yw sôn Sais.*  
 Gwledd a roech arglwydd o ras,  
 12 Gwledd hyd Hymr, Arglwydd Tomas;  
 Gwledd y Cân arglwyddi, Cai,  
 Gwledd Coety arglwydd cytai;  
 16 Bord Gron Gaerllion a'i llys,  
 Bord hen Syr Gilbert Dennis.  
 Tarw o'u gwaed tiriog ydwyd,  
 Tri phen iarll, tarw Ffuen wyd.  
 20 Troes Rhos aur tros war a sêr,  
 Troes ras yt, wŷr Syr Rhoesier,  
 Llew oesfawr o'r iarllesfam  
 (Llewod fydd gwŷdd Dafydd Gam);  
 24 Llew o bai raid, llaw a braich,  
 Llaw garbron Lloegr a Brynaich;  
 Llaw Baen hir, nid llai byw 'n hon,  
 Llaw i gael llew a'i galon.
- 28 Ni chaid, gwaed ywch hyd Gadell,  
 O freichiau Gwent farchog well.  
 Chwi a gaf yn iach gyfan  
 A chwe mil o'r iachau mân.  
 32 Dwyn gwaed pob dyn i'w godi,  
 Dwyn iach hen pob dyn i chwi.  
 Nid un yw maen o don môr  
 Â maen rhigal mewn rhagor.

36 Nid un rhyw un edn yrhawg,  
 Nid un gis, ag edn gosawg.  
 Nid un dêr yn dwyn dewrwynt  
 Â phren gwan a'i ffrîw 'n y gwynt.  
 40 Chwi yw tŵr a chaterwen,  
 Chwi yw'n pont tra foch, a'n pen.  
 Mawr yw'ch gras, marchog o rent;  
 Mwyhewch rowm yma i'ch raement.

44 Ystod hir yw stad Harri,  
 Ystad dug yw d'ystod di.  
 Gŵr od ar bob gŵr ydych;  
 Fo ddeily gŵr ar feddwl gwych.  
 48 Ni bu'ch gwell o bu wych gŵr,  
 Nac un cawr neu gwncwerwr.  
 Ni bu lanach un blaenawr  
 O'r rhai a fu 'Nhroea fawr.  
 Un hyd wyd (neu hwy) â dur,  
 52 Un bryd â hen Baredur.  
 Mor gadarn, mur gwiw ydwyd,  
 Â mab pryns; digwmpâr wyd.  
 Dy waed fal y dywedynt:  
 56 Digymysg waed Gamais gynt.  
 Dy dir ffordd y daw y dydd,  
 Difesur yw dy feysydd.  
 Di-rif yw dy wŷr hefyd,  
 60 Difalch ben difeilch y byd.  
 Dianael yw dy wyneb;  
 Ond Duw Naf nid ofni neb.  
 Difalais wyd fal y saint,  
 64 Digyfaill yw'ch digofaint.  
 Diweniaith yw'ch daioni,  
 Di-fath dyn yn dy fath di.  
 Di-nâg ydwyd, yn gadarn,  
 68 Diwedda' fyth hyd Dydd Farn.

*Ffynhonnell*

BL Add 14894 [= RWM 40], 91<sup>r</sup>

*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 ..twrne yn breint.. 4 ..amser.. 7 [ ]da i gwedd.. 9 [ ] gemais 10 [ ]in sior..  
 12 ..hwmr.. 19 ..y rhos.. 24 ..ai.. 27 ..vwch.. 31 [ ]yn gwaed..yw godi 42  
 ..Rhament 46 fo ddeil.. 50 [ ] rhai.. 51 [ ]n hyd.. 52 [ ] bryd.. 53 [ ]r  
 gadarn.. 54 ..prins..

## Cywydd i erchi iechyd i fron Arglwyddes y Coety

- Pwy'n costio? Syr Paen castell.  
 Pa wr o gorff? Pa wraig well?  
 Arglwydd sydd, Arglwyddes, ynn,  
 4 Coety, *i* henaint cytunyn'!  
 Syr Tomas i'r tŷ yma  
 Sydd iarll, a'i arglwyddes dda.  
 Dyma eurgrair: Dâm Margred;  
 8 Ni wn well grair yn holl Gred.  
 Gwledd hael i'r arglwydd, a hon,  
 Gamais wensaig, em Sainsion.  
 Os galw Constans ac Elen,  
 12 Marchog hael hael, merch Coel hen,  
 Arglwyddes, twysoges yw,  
 Urddedig o radd ydyw;  
 Bonedd, ei hynedd i'w hau,  
 16 Bronwen ais, breninesau.
- O! Dduw, ba lef? Heddiw blin  
 Nodi bron iawnwaed brenin.  
 Ni ddug fron, rinweddog frig,  
 20 Wraig erioed mor garedig.  
 Y mae un braw mewn ei bron,  
 Eiswayw, Eigr o dwysogion.  
 Ni bu bron, o bai iach,  
 24 Un wraig, galon, rywiogach.  
 Bryn mawr o friw, bron mor frau,  
 Braenwyd ogyrch bron Degau;  
 Chwydd enbyd,—och Dduw unbaich!—  
 28 Ysig bron, ar wasg, ei braich;  
 Gwythi ysig gwaethasan'  
 Gelyn lwyth ar galon lân.  
 Oer o faich, garw fu'*i* achos,  
 32 Oedd ei ddwyn ef ddydd a nos.

Pan fai'n dwyn fal poenfaen dur  
 Pwy nad wyl poen a dolur?



- 36 Bron henfaeth i'w brenhinfab,  
Bron Mair bu ar enau'i Mab,  
Bron a wna'n iach, bron Non wedd,  
Bron hon o waed brenhinedd.  
Iesu, drych a roes a drig
- 40 Fry ar wyneb y f'ronig.  
Erchi i Iesu, ddrych oesoedd,  
I fron glaf ei fernagl oedd.  
Santes ym mynwes mynydd
- 44 Sinai i ferch Sainsion a fydd.  
Olew a red lawer iaith;  
O'i bron ydd â'r briw unwaith.  
Bo ar weddi, bêr addef,
- 48 Beri bron iach, Barbra nef;  
San Ffred, Sant Margred a Mair,  
Sant Ann a'r holl saint unair.  
Galw o nefoedd, glain afiach,
- 52 Gwenfrewy nerth, gwna fron iach.  
Galwoedd, Dduw, arglwydd Ddewi;  
Galwoedd saint f'arglwyddes i.  
Am weddïau maddeuaint
- 56 Mawl sydd i'r ugeinmil saint.  
Drwy Dduw, uned ar ddyinion,  
Fo wyl saint ofal sy i hon.  
Fo wrendy fy Nêr undydd
- 60 Weddïau saint ar Dduw sydd.
- Os teilwng, mae nes taliad,  
Weddïau dyn i Dduw Dad.  
Mi a genais o'm genau
- 64 Weddi a cherdd i'w iacháu.  
Awn i eiriol yn arab  
Fry â mawl i Fair a'i Mab.  
Er gwayw irwaed a'i goron
- 68 Ac er Ei frath drwy grau fron,  
Breinied *Mab* Mair heb eiriach,  
Brenin Nef, gwna'i bron hi'n iach.

*Ffynonellau*

A—Card 5.44, 184<sup>r</sup> B—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 109<sup>r</sup>  
C—Llst 134, 164<sup>v</sup> 249 D—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 379 (*collwyd  
rhannau o'r testun*) E—LIGC 6511B, 65<sup>r</sup> F—LIGC 13061B, 231<sup>v</sup> G—BL  
Add 31090, 74<sup>r</sup>

*Ffynhonnell arall*

J.R. Hughes 6, 393

*Amrywiadau*

2 *AB* ..pwy wraig.. 4 *FG* goetu henaint gytvynyn, *A-E* koety henaint.. 9 *A-G* ..yr arglwydd.. 10 *D* ..Saision 11 *B* os gal., *C* os gael.. 12 *G* marchog hael merch., *F* ..hael hy.. 15 *A-G* ..yw.. 16 *AB* bronwyn.. 19 *A-D* ..Rinweddog.. 21 *C* ..briw.. 22 *AFG* oes wayw., *BD* oes waed., *C* [ ] waed., *E* aes waew.. 23 *A* ny by [ ] o bai mor jach, *B-G* ny bronn yw o bai mor jach 24 *ABDE* ..Rywiogach, *C* ..Rywigach 25 *E* ..fav 29 *EFG* gwaithi., *A-G* ..gwaethysan 31 *AC* ..er vy achos, *BEFG* ..er vi achos, *D* ..ar vy achos 32 *C* oedd ddwyn.. 35 *FG* bronnhvnfaeth., *A-G* ..i brenhinfab 36 *A-G* ..enav mab 37 *FG* ..wna n bronn.. 39 *A-G* ..ar oes.. 40 *AD* vy.. 41 *D* erchi r jesv., *EFG* erchi jesv., *C* ..jr jesv.. 42 *FG* y vronn.. 44 *A-G* sinai verch., *EFG* ..Saision vydd 45 *ACD* ..Red.. 46 *FG* ..ir a r.. 49 *CD* sant Phred., *E* ..sain., *FG* ..san marged.. 50 *E* ..a holl.. 53 *A-E* galwodd.. 54 *ABDE* galwodd., *C* gwalwodd.. 57 *ABC* drwy weddi.. 58 *A-G* ..sy honn 59 *D* vo wrando.. 61 *D* ..maes nes.. 64 *A-G* ..yw jachav 67 *A-G* er y gwaew., *DE* ..ar goron 68 *C* ..vrad.. 69 *A-DFG* brenhined Mair., *E* breinned Mair.. 70 *F* ..gwnae bronn., *G* ..gwnae bron yn iach

*Awdl farwnad Siôn Gamais*

- Pa lefain Llundain? Ein lladd—mae'r blaned  
 Marw blaenor ar bob gradd;  
 Pwll amlaid; pa well ymladd?  
 4 Ple 'dd awn? Gwenwyn llawn i'n lladd.
- Lladd ffrwyth brenhinllwyth, garbron henllawr—llu,  
 Lladdiad Rhodri Mawr;  
 Lladdfa marchog llueiddfawr,  
 8 Llaw Dduw fu *i* faes, lladdfa fawr.
- Mawr oerchwedl cenedl mal Cynyr—marw Cai,  
 Mawr yw cwyn cwncwerwyr;  
 Mae gwae oer am gyw eryr,  
 12 Y Meistr Siôn Gamais, dros wŷr.
- Och nos! Môr drosoch, mawr o dranc,—och ddydd!—  
 Och ddwyn Gwalchmai ieuanc;  
 Och farw ffrîw wych i fwrw Ffranc,  
 16 Och, Dduw, am na châi ddianc.
- O! Dduw Nef, o'r llef a'r llais—roi tymestl  
 Ar Syr Tomas Gamais;  
 Llef arglwydd, llif yw, oerglais,  
 20 Hallt yw hwn, sy'n hollti'*i* ais.
- Llef marchog tiriog, torred—arglwyddwaed,  
 Llef Arglwyddes Margred;  
 Llef Lloegr oll yw llif holl Gred,  
 24 Llu hiraethfaeth llew'r Wythfed.
- Llew'r Wythfed cwyned ddwyn câr—brenhinllwyth,  
 Bron henllew Wlcasar;  
 Lloer wyllt yn lladd gwyllt a gwâr,  
 28 Llaw Dduw dros yr holl ddaear.
- Sathru holl Gymru, nid llai gawr,—yn swrth,  
 No syrthio wybr i'r llawr;

- 32                   Syrthio ynys wrth unawr,  
Seithwaeth no'r farwolaeth fawr.
- 36                   Mawrgwyn ydyw'n cwyn a'n cur,  
Mawrlef yw llef ei holl wŷr;  
Mawrgwyp yw'r cwyp marw Cai Hir,  
Mawrglyps mwy'r clyps no marw'r Clâr;  
Mawrwaе mae'n wae am un iôr,  
Mawroch mwya' och am ŵr.
- 40                   Am walch hael difalch hil Dafydd—Gam hen,  
Ac am hwn dragwydd,  
Am lew ieuanc, am lywydd,  
Yr wyloedd ieirll 'r ôl ei ddydd.
- 44                   Dydd Brawd fu'r dyrnawd ar deŷrnwaed—Lloegr,  
Dwyn llygad Brytanwaed;  
Duw a sigoedd dwysogwaed,  
Duw sy gall yn dewis gwaed.
- 48                   Marchogwaed dan draed, rydain—a gladdwyd,  
Arglwyddwaed Post Prydain;  
Mae llew'r India 'm mhwl Llundain,  
Mae'r hydd mawr ym mhridd a main.
- 52                   Maen gwrthfawr mawr, mur Môn,—marw Ector  
Llys Winsor, llew Sainsion,  
Mae oes eisiau am Siason  
O Wesmestr i Sieb, oes Meistr Siôn.
- 56                   Cwyn Absalon, Siôn, a sy—ynn, can mil,  
Cwyn mab Arglwydd Coety;  
Cawn dâl o'r cwyn a'i dyly:  
Cair ei frawd dros y carw fry.
- 60                   Llefwn, ceirw nasiwn, crynasan'—gaerau,  
Llef dreigiau llif d'rogan;  
Llundain yn llefain, bob llan,  
Fu oer lef ar wyl Iefan.

- 64 Llefan' ieirll wythran, llithrent—llif tremau,  
Llu graddau Lloegr oeddent;  
Lleihau Deau a Dwywent,  
Lleihawyd gwaed llewod Gwent.
- 68 Gwentoedd *cwm* oesoedd a'i cwynasant,  
Glan Gwy hyd Gonwy a'i cydgywylant;  
Gwaunllŵg, Morgannwg a gwynant,—och ddydd!—  
Gwledydd—och oerddydd!—mwy ni chwarddant.
- 72 Gwaed Tewdwr filwr aeth heb foliant,  
Gwaed Iestyn, Bleddyn aeth heb lwyddiant;  
Gwaed Einion, Lleision, collasant—eu llwyth,  
Hyn sy o'u tylwyth hwy nis talant.
- 76 'F aeth gwaed Rhoseriaid a'u plaid fal plant,  
Yn iach Denisiaid be caid bum cant;  
Einion Sais, Gamais o gant—i ganmil  
A Mathau a'i hil a ymwaethant.
- 80 Ei holl waedoliaeth i'r llawr 'r aethant,  
Ei wŷr a'i genedl a'i hoer gwynant;  
Ei blaid a'i ddeiliaid, (ble 'dd ânt—hyd angau?)  
Os gwir ei faddau, nis gorfyddant.
- 84 Bwrw ynys gronigl braens a grinant,  
Bwrw to iefanc briwa eu tyfiant;  
Bwriwyd llin ermin iarll Normant—i'r llawr,  
Bwriwyd ar elawr unbrawd Rolant.
- 88 Ei bobloedd a'i wŷr—wbwb!—ble 'dd ânt?  
Fyth yn eu hoes eu cwyn—'f aeth—nis cânt;  
Iefainc, hen di-wên, nid ânt—i ateb,  
Am obaith o neb mwy beth a wnânt?
- 92 Caerau na chynydd cyrn ni chanant,  
Crien' helyddion, ceirw ni laddant;  
Cwarelau, saethau ni saethant—awchddewr,  
Campau hael tradewr, cwmplyd rhydant.
- 96 Marchog gorweiddiog meirch gorweddant,  
Mil o wŷr eilwaith aml yr wylant;  
Milgwn, gweilch, hyddgwn, hyddgant,—ni chwarae,  
O amryw foddau fal meirw fyddant.

- 100 Canuau Cymru a ddarfuant,  
Canuau mawlwaith nis canmolant;  
Cerddorion weithion aethant;—mwy nid gnawd  
Canmol hyd Dydd Brawd na thafawd na thant.
- 104 Cyd-fraint, cyd-geraint, cydgarant—farchawg,  
Cyd-faeth i osawg cydfethasant;  
Cyd-fryd cwyn tristyd Trystan,—tranc a'u hyllt,  
Cydgrio Esyllt cydgriasant;
- 108 Cyd-wŷr, cyd-oeswyr, codasant—bleidiau,  
Cyd-oes hyd angau cydostyngant;  
Cyd-floedd, cynhyrfoedd, cynhyrfant—Saeson,  
Cyd-gŵyn i weision, cydgywnasant;
- 112 Cyd-gri, cydochi, cydochant—ar ôl,  
Cyd-wae achwysol cydochasant;  
Cyd-fraw cydwylaw, cydwylant—filioedd,  
Cadoedd cydlysoedd cydwylasant;
- 116 Cwynwn, cydlefw, cydlefant—Gymry,  
Cyd-lef, O! Iesu, cydlefasant.

Pa lefain Llundain? Ein lladd, &c.

### *Ffynonellau*

A—Llst 134, 93<sup>r</sup> B—Card 5.44, 80<sup>r</sup> C—LIGC 970E [= Merthyr Tudful],  
145 D—Card 2.619 [= Hafod 5], 132 E—Pen 96, 206 F—BL Add 31090,  
101<sup>v</sup>

### *Amrywiadau*

1 *D* ..mawr blaned, *E* ..blaened 2 *E* ..blaenor pob gradd 3 *E* pwyll amlwg.,  
*BCD* ..ymloid.. 4 *D* ..gwenwy., *A-DF* ..yn lladd, *E* ..in ladd 5 *BDE* lladd  
llwyth., *ABC* ..geyr bron., *DE* ..gair bron.. 6 *E* ..rodri.. 7 *F* ..march.. 8  
*E* lladd dduw., *A-E* ..vy vaes., *F* ..vy aes.. 10 *C* marw., *D* ..kwmkwerwyr  
12 *C* meistr., *D* maestyr., *E* y mastr., *B* meist..dros i wyr 13 *D* ..drysoch.,  
*E* ..mawr drank.. 14 *C* ..ievaink, *D* ..iefank, *E* ..ifank 15 *ABCF* ..i ffiw., *D*  
..y vwrw., *E* ..wych fwrw.. 17 *E* och., *A-E* ..Roi.. 19 *E* ..llif fy.. 20 *E* ..yw  
r hwyn sy n hollti r ais, *A-DF* ..hollti ais 21 *E* ..tvriog.. 22 *E* ..marged 24 *E*  
..llwr wythfed 27 *E* lloegr.. 28 *DE* llef oer., *C* ..i holl.. 29 *AF* ..ni llai.. 30  
*ABCEF* na., *D* ..yr llawr 32 *E* ssaith gwaeth nor farfolaeth., *ABCF* ..na r.,  
*D* ..varolaeth.. 33 *E* ..ydwyn kwyn.. 34 *D* mawr llef ydiw llef yr holl wyr, *E*  
oer llef ydyw r holl wyr 35 *E* ..ydyw r gwymp., *AF* ..yw kwymp.. 36 *AF*  
mawr glypis., *C* mawr glwyps., *B* ..mwy r klwyps., *ABCF* ..na., *D* ..marw  
klar, *E* ..mwy yw r klips marw cklar 37 *E* ..j mae.. 38 *E* ..a mwy och.. 40 *E*  
at.. 41 *C* am lewy..ymlewydd, *E* ..jfank i ymlwydd, *ADF* ..ymlywydd 42

*ABCEF* ..wylawdd.. 43 *ACDE* ..darenwaed.., *B* ..daeyrnwaed.., *F* ..draenwaed.. 45 *F* ..o sigodd.., *BCE* ..sigawdd.., *C* ..i dwysogwaed 47 *E* ..tan.., *A-F* ..drydain.. 49 *BCE* ..llew jndia.., *E* ..n noll.. 51 *F* ..gwerthvavr.. 52 *EF* ..Samson 53 *A-D* ..aisav.. 54 *D* o wesmaistr y siep.., *E* wesmestr sieb.., *F* o westmistr.., *ABF* ..Siep.., *C* ..meist.., *F* ..mastr.. 55 *A* ..a sy n vn kannmil, *E* ..a sy yn y kannmil, *F* ..sy un.., *D* ..yn.. 56 *B* ..arlwydd y kyty, *ACEF* ..y koety 59 *A-DF* ..krynysan.., *E* ..krynasant.. 60 *A-DF* ..draigav.., *E* ..dorang 62 *ABF* ..jevan, *CD* ..jvan, *E* ..ar wylofain 63 *E* ..llif trenav 64 *ABCF* ..a oeddent 66 *E* lleihawd.., *ABDEF* ..hen llewod.. 67 *F* Gwent oedd.., *A-F* ..kyn.., *A-DF* ..kwynysant 69 *D* gwenllwg.., *A-DF* ..ganant.. 70 *DE* glywed.. 72 *AF* gwae.. 73 *A-D* ..Einon llaison kollysant.., *E* ..einon.., *F* ..Llaesion kollysant.. 74 *E* ..hwnt.. 75 *E* ..roseriaid.. 76 *E* yn iaich.., *A-D* ..Denysaid.., *F* ..Denyniaid.., *BC* ..pe kaid.., *E* ..bai kaid bympkant, *A-DF* ..pvm kant 77 *A-D* Einon.., *DE* ..y ganmil 78 *E* ..o hil a mwy avthant 79 *E* yr holl waed eilwaith.., *D* ..yr llawr.. 80 *D* ..genel.. 81 *A-D* ..ddailaid.., *D* ..hed.. 83 *ABF* ..brains.., *CD* ..brainys.., *E* ..grynant 84 *DE* bwrwyd.., *F* ..ieuangk.., *E* ..ifank briwio y tyfant 85 *A-E* bwrwyd.., *AF* ..jallt normant.., *E* ..jarllwrmwnt.., *D* ..yr llawr 86 *A-E* bwrwyd.., *C* ..braw.. 88 *E* ..hoes fath kwyn nis kant, *A-DF* ..kwyn vath.. 89 *E* ifank.., *F* jeuaink.., *D* ..nydan y ateb, *E* ..y ateb 90 *E* ..obeth.., *D* ..y nant 91 *C* 101-4, *F* ..chynnydd.. 93 *A-F* kwrelav.., *E* ..os avthant awrddewr 94 *A-DF* ..kwmpli tridant, *E* ..kwymp litrydart 97 *D* ..hyddgant, *F* ..yn y chwrau, *ABCE* ..chwarav 98 *E* am ryw faddav mwy ni orfyddant, *D* ..vaddav.., *F* ..mal.. 99 *ABCF* kenyav.., *D* kaenav.., *E* kany kerddy a.., *C* ..kymry.. 100 *ABCF* kenyav.., *D* kanayau.., *E* kany ai mawlwaith.. 101 *C* kerddorddion.., *A-D* ..waithon.. 102 *E* ganmawl.., *A-DF* ..hed.. 104 *AD* ..e oesawg.., *BCF* ..e osawg.., *A-DF* ..vethysant 105 *A-DF* ..Trystant e hyllt, *E* ..tristant y hyllt 106 *A-DF* ..griysant 107 *A-DF* ..kodystant.., *E* ..kydysant.., *D* ..blaidav 108 *E* ..hyd ang.. 109 *ADEF* ..kynhorfoedd.. 110 *D* ..y waison.., *ABC* ..waison.., *A-DF* ..gwynysant 111 *DE* [111-12] 112 *ABCF* ..ochysant 113 *A-DF* kwyn vraw.., *AF* ..kyd wylawd.., *EF* ..filoedd 114 *A-D* ..wylysant 115 *A-F* ..Gymrv 116 *A-DF* ..levysant, *E* ..lefasan

*Moliant Crystor Fflemin, Trefflemin*

Pwy mor dda? Pwy 'mro Ddawon?  
 Pwy'n fwy'r hap yn y fro hon?  
 Crystor uwch caerau Iestyn,  
 4 Cainc o stil cwncwest o hÿn;  
 Ffridd o waed fyth, ffwrdd hyd Farn,  
 Fflemin a Godwin gadarn;  
 Ffriw Wiliam, gorff â'r helm gynt,  
 8 Ffriw chwyrn, o chyffroech, arnynt;  
 Ffonwayw Tomas, ffyn twyment,  
 Fflemin, gyff Almaen a Gwent.  
 Ffynny 'rloed; ffoen ir ydwyd;  
 12 Ffrwd ton oll, eu ffortun wyd.  
 Mae'r rhod i'th gyfod, peth gwir;  
 Nes dengoes ni'th ostyngir.  
 Aro d'euro, 'r ederyn,  
 16 Edn gwalch o waed Ieuan Gwyn.  
 Rhan Lywelyn rhoen' lawlaw  
 Fyth, ys da ran, Foethus, draw.

Gair a sy i ddau: gras a ddêl  
 20 Gyda iachoedd gwaed uchel;  
 Nai'r ieirll hen ar holl ynys,  
 Hithau sy, wraig, nith Syr Rhys:  
 24 Elsbedd fonedd hyd Fynyw,  
 Os o hil ieirll, Mawnsel yw.  
 Gwaed Dwywent a gwaed Deau,  
 Ni chewch waed is i chwi'ch dau.

A'r gair ywch, yn rhagor, aeth,  
 28 No chant tai'i berchentaeth.  
 Bara trwm brau trwy ymwrdd;  
 Ni roed ryw bwys ar dri bwrdd.  
 Seigiau gan gogau'r gegin;  
 32 Pa saig oedd heb bys a gwin?  
 Bwyd melys, a bod milioedd,  
 —A gair sy well?—groeso oedd.



36 Nid arferud ar fawair;  
 Fo wna dy gost fynd y gair.  
 Dy glod dros deg o wledydd,  
 Dy ras (baen' fil) dros ben fydd.  
 40 Aml yw da am wlad Ieuan  
 I'r lle *rhoir* i eraill ran.  
 Mae d'allu, mae da wellwell,  
 Eithr mae hap a'th air ymhell.  
 Mae'r dawn mawr a daioni,  
 44 Mae at hŷn yn mwyhau i ti.  
 Prynud dir ywch, pae *rhent* drud;  
 Pai aur annwyl nis prynud.  
 Ni roist aur i ystoriaw;  
 48 Ar y tir ywch y'i rhoud draw.  
 Brau 'dd aud lle bai urddedig;  
 Ateb a roech at y brig.  
 Ni ochelud, wych heiliwr,  
 52 Fan er traul fai nortr i wŷr.  
 Tely'r gilt i lawr i gyd,  
 Traul i windai, trwy lendid.  
 Os daw un nis adwaenych,  
 56 Nid â heb win o dŷ y bych.  
 Llawen yw'r wên a rannwyd,  
 Llywiwr gwŷr, llew *rhywiog* wyd.

Na chynnen yn rhy chwannawg;  
 60 Ni chery ryw air chwerw 'rhawg.  
 Chwarae'n ddig, yn chwyrn ddigwyn,  
 O bydd rhaid, *fal* baedd â'r wŷn.  
 Cair *rhoi* i'th war, carw Wyth Harri,  
 64 Crest aur tawdd, Crystor, i ti,  
 Cymro gwych, caem aur a gwin,  
 Corff hael yma Caerfflemin.  
 Cael enw fu 'rioed calon frau,  
 68 Caud air gŵr cyda'r gorau.  
 Cyd-dynnaist, dygaist bob dydd,  
 Cryf ych bôn; cryfhewch beunydd.  
 Cedwaist gefn, codaist gyfoeth,  
 72 Cadw ran, y dyn cadarn doeth.  
 Cefn gwaed, dyn cefnog ydych,  
 Crist a ro oes, Crystor wych.

*Ffynhonnell*  
Llst 164, 140

*Darlleniadau'r llawysgrif*

3 ..ywch.. 11 ..yr ydwyd 13 mae rhod.. 17 ran..roen.. 24 ..Mansel.. 26 ni  
chwech.. 28 ..chant tai berchenntyaeth 30 ni rhoed rhyw bwys.. 40  
..roer..rhann 41 ..da llu.. 45 ..rent.. 48 ..i rhoed.. 58 lliwiwr..rywiog.. 60  
..rhyw.. 61 charav n ddig.. 62 ..vel.. 63 ..roi th war.. 64 ..Cristor.. 68  
caed.. 74 ..rho..Cristor..

*Marwnad Arnallt Bwtler, Bryn-y-frân*

- Pam yw'r cwyn pai meirw kannwr?  
 Pam mawr ynn gwymp marw un gŵr?  
 Ple'r aeth cwnwest bro Iestyn?  
 4 Pa leihau epil yw hyn?  
 Marw Bwtler, ysgwier gynt,  
 Marw Arnallt, marw mawr arnynt.  
 Beth a gwynir o hiraeth?  
 8 Bai tâl o'r *rhyw*. Bwtler aeth.  
 Peth llawen, pwyth y lluoedd,  
 Pai un o'i gorff; penaig oedd.  
 Diffodd gwaed hoff oedd gadarn,  
 12 Diweddu'i ben fal Dydd Barn.
- O chladdwyd, wayw a chleddyf,  
 Ein och, gwŷr da, 'n iach, Gaerdyf,  
 Mae ynn fw'ch rhwydd, maen' feilch ar wg,  
 16 Mawr i genedl Morgannwg.  
 Mathau, ben bannau bonedd,  
 Mae un o'i byst mewn y bedd.  
 Wylent waed o lin Tewdwr  
 20 Yn Llandaf yn llynnau dŵr.  
 Aeth gwaed Einion heb soniaw,  
 Aeth fyd trist ar Waithfôed draw.  
 Bwrw tŷ hil, bort ehelaeth,  
 24 Based hen; un o'i byst aeth.  
 Bwrw ych, ar bawb rhychor bôn,  
 Ban laesodd, ben iau *Leision*.  
 Diwreiddiai goed o wraidd gwin,  
 28 Derwen gwaed wyrion Godwin.  
 Duw'n mynnu dwyn am anael,  
 Difa 'rhawg, waed Ifor Hael.
- Ei genedl,—och!—gwae 'nhwy, 'n dlawd,  
 32 Wedy Arnallt diwyrnawd.  
 Gwaedd aruthr guddio eryr;  
 Gwae, lawn waedd, galonnau'i wŷr.

36 Wylofain a wnâi lifoedd;  
 Wylo dŵr y deiliaid oedd.  
 Dwyn wedy ef dan y dŵr,  
 Deryw agos, dir Ogwr.  
 40 Barwn fry aeth Bryn-y-frân,  
 Bro noeth Ben-bre *ynn* weithian.  
 Bara, gwin, pob coginiaeth,  
 Parch, *neud* dim, perchen tŷ aeth.  
 44 Am ein ymborth mae *an*ambell  
 Ymysg gwin mwy seigiau well.

Angau, angel *rhyfelwr*,  
 Â brig ei wayw fu'n bwrw gŵr:  
 48 Bwrw pen, a'u capten y'i caid,  
 Batel arw i'r Bwtleriaid.  
 Eithr yr oedd saeth i'r allt  
 Satwrnys ato, Arnallt,  
 52 A'r un saeth, awr yn nesáu,  
 A ollyngodd llaw angau.  
 Ni ffaelïai anhoff elyn  
 O'i nod hardd am enaid dyn.

56 O syrth nen swrth yn unawr,  
 Growndwal aeth—Dduw, gwrando—i lawr.  
 O thorred pyst a thraed pont,  
 Doe'r llwyth i'r dŵr oll aethont.  
 60 Pont oedd a'u pen hyd heddiw;  
 Pant y bont a'r pen nid byw.  
 Mae'*i* dŷ i'r llawr am waed ieirll hil.  
 Oes dros ais Meistres Sysil!  
 64 G'lygordd Iarll Henffordd yw hon,  
 Ferch agos i farchogion.  
 Hon a geidw ei hun gwedy  
 Bort tâl lle bu wŷr y tŷ.

68 Mae'r gwae trist, mae'r gawad drom  
 Marw Arnallt fal môr arnom.  
 Ei gorff a roes i gôr Ffraid.  
 I Frenin Nef yr enaid!

*Ffynhonnell*LIGC 16964A, 102<sup>v</sup>*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 ..yn gwymp.. 8 ..or bwttler.. 12 diweddv benn.. 15 mae n vwch.. 20  
 ..ynn.. 26 byn llaessodd..lleisson 30 difa r hawc.. 31 ..gwae hwy.. 32  
 ..diwarnawd 34 ..galonav wyr 40 ..yn weithan 42 ..nid dim.. 43 ..mae n  
 ambell 45 ..ryfelwr 46 ..vn n bwrw.. 47 ..y kaid 48 ..yr Bwtleriaid 49 ..yr  
 allt 53 ..phaelai.. 56 gryndwal.. 61 mae dy..ierill.. 65 ..i hyn gwedv 66 ..tv  
 69 ..phred 70 ..ened

*Marwnad Watgyn Lochwr, y Sgêr*

- Cwyn am wŷr aeth, cwyn mawr oedd,  
 Cwyn Lleision can holl oesoedd.  
 Cwyn mawr iawn cwyn am Ronwy;  
 4 Cannoes fydd mae cwyn sy fwy:  
 Cwyno'r taid, Watgyn o'r Tŵr,  
 Cwyn, ail och, Watgyn Lochwr.  
 Cwympo dâr, pob campau dyn,  
 8 Campuster fal cwymp Iestyn.  
 Cwyno'u llew acwy 'n y llan,  
 Cnawdlef—och!—cenedl Fychan.  
 Mawr oedd cwymp Moreiddig hir;  
 12 Mwy wylo am waed Meilir.  
 Mawr yw cwyn ym mro Conwy  
 Marw glain Gwent, am wŷr glan Gwy.  
 Mawr yw atgof marw Watgyn,  
 16 Mwy wylo Sgêr, ym mhlas gwyn.  
 Gwae'i deulu gado'i aelwyd  
 A gwae'r llys am y gŵr llwyd.  
 Llai da'r wyl lle dôi'r elor  
 20 A llai yw maeth geirllaw môr.  
 Lleision am Leision a'i lwyth  
 Lle delont ei holl dylwyth.  
 Ni châi Harri, wych eryr,  
 24 Wŷr o'i lun ar lu o wŷr.  
 Am wŷr wylwn marwolaeth;  
 Wylwch am ail Walchmai aeth.
- Nid aml yn y do yma  
 28 —Hawddfyd ywch!—gyneddfau da.  
 'Morgannwg, am wŷr gennyh,  
 Mae eisiau gŵr am was gwych.  
 Cwymp pren, campau ar unawr,  
 32 Cwymp oer oll-oll campau i'r llawr.  
 Pa gwmpâr pai gamp wrol?  
 Pwy wna un gamp yn ei ôl?

36 Rhyfyg ynn, rhyw fwg ennyd,  
 Rhyw hud, balch yw rhod y byd.  
 Nid hir ynn y try einioes;  
 Ei byrhau mae'r neb a'i rhoes.  
 40 Dechreuad fal tyfiad dâr,  
 Dwyn diwedd dyn i'w daear.  
 Duw dewisoedd, Dad, oeswr;  
 Duw sy iawn dewis ei ŵr.  
 44 Gŵr a ddug ef i'r nefoedd,  
 Glân o ŵr ei galon oedd.  
 'F âi ar windai'n frau undyn,  
 Fo rôl o'i dŷ'n freua' dyn.  
 'F âi â'r bêl lle yr elynt,  
 48 'F âi â'r gair tra fu ŵr gynt.  
 'F âi â'r gloch, Watgyn Lochwr,  
 Ef âi â'r gamp. Nef i'r gŵr!

52 Gwae roi, 'r ail gŵr, ar elawr  
 Gwrgan o wlad Forgan fawr.  
 Gwely'i gâr i gael gorwedd;  
 Gwely oer byth fu gloi'r bedd.  
 56 Gwae'r genedl, gwae rai gweiniaid,  
 A gwae'i blant a'i wraig a'i blaid.  
 Gwae hi ddwyn hwn, gweddw yw'n hil,  
 Gŵr tŷ, orbwys, gwawr Twrbil.  
 Gwenllïan wisg yn lle Non  
 60 Gwisg oerfraw fal gwasg Eurfron.  
 Ail Esyllt o elusen  
 A'i mab hi yma bo hen.  
 Cawn dâl acwy hen dylwyth:  
 64 Cenau llew Watgyn a'u llwyth;  
 Llew ieuanc i Wenllïan,  
 Bai lew, brawd Beli a Brân.  
 Heta, Risiart, rhyw osawg,  
 68 Lochwr hir, a'th weilch yrhawg.  
 Ni chewch lai air, â chwech wlad  
 I'th randir, no'th orhendad.  
 Dwg aur dorch deg ar dy iaith!  
 72 Dwg wyn Llandudwg unwaith!

*Ffynonellau*

A—Llst 164, 141 B—Pen 99, 358 C—Pen 101, 207 D—CM 12, 191

*Amrywiadau*

1 *A* ..am aeth.. 6 *BCD* ..ail ywch.. 7 *A* ..pop.. 8 *BD* kampvstewr., *C* campustewr campau., *A* ..vel., *D* ..mal.. 9 *BCD* kwynaw llew., *D* ..accw.. 11 *A* mawr ddoe cwymp.. 13 *BCD* ..o gwyn..gonwy 14 *D* mawr..glain Gwy 15 *BCD* ..y atkof.. 17 *D* gwae deulu.. 19 *A* lle i dar wyl.. 20 *D* a llu iw., *BCD* ..ger llaw.. 21 *BCD* llei son.. 22 *ABC* llei delont., *BCD* ..ae holl.. 24 *D* wi.. 29 *BCD* ..wyr.. 32 *BCD* ..oll., *A* ..campav r llawr 33 *A* ..pa gamp.. 35 *BC* ..ryw.. 36 *BC* ryw..rod., *A* ..balch yr rhod.. 37 *A* ..ynni try einoes 38 *C* yn byrhau., *B* ..roes 40 *A–D* ..yw.. 41 *BCD* ..dewisodd.. 45 *A* ..windai frau.. 46 *A* vo rhoi., *BC* ..yw dai., *D* ..iw dai.. 50 *D* ef ar.. 51 *A* ..rhoi.. 53 *BCD* gwely gar.. 55 *A* ..rhai gwainaid 56 *BCD* gwae., *D* ..ei wraig.. 62 *ABC* ..i bo hen 63 *BCD* ..akw.. 64 *BCD* ..lew.. lwyth 65 *A* ..ieangc., *BCD* ..y wennllian 67 *BCD* ..ryw.. 68 *C* ..y rawg 69 *D* ..na chwech.. 70 *A–D* ath..



*Awdl farwnad Ieuan ap Dafydd, Llangewydd*

- Pa sôn am Einion mwy o Wynedd—gynt,  
 Pob gwaed, hyd ei ddiwedd?  
 Pawb âi'n fân, pob iawn fonedd,  
 4 Pan âi'r bont a'r pen i'r bedd.
- Bedd Maelgwn Gwynedd neu Gynan—durfael,  
 Bedd Derfel neu Frychan,  
 Bedd Gwalchmai, nid llai 'n y llan  
 8 —Ba ddaear?—no bedd Ieuan.
- Marw Ieuan, cwynfan marw Cynfyn—Dyfed,  
 Mab Dafydd ap Siancyn;  
 Marw'r llew yma a rôl'r llyn,  
 12 Marwddyrnod mawr oedd arny'n'.
- Tir mawr Garanir a'i gaer aeth—yn ddŵr,  
 A'i dda a'i genhedlaeth;  
 Troes môr ail, trais marwolaeth,  
 16 Tros Dir Iarll fal môr tros draeth.
- Duw a roes gwymp dros y gwaed  
 A dorres llwyn derw Rys llwyd;  
 Doe'r angau'n cael dringo'n coed  
 20 Drwy Dduw; blin diwreiddio'i blaid.
- Och bleidiau llwythau! Llai weithian—gyngor;  
 'F aeth elor, fyth wylan';  
 Eu hewythr llwyd aeth i'r llan;  
 24 Oes ewythr eisiau Ieuan?
- Llyma eisiau da nos a dydd—fu aml  
 Lle anaml llawenydd;  
 Llai sir ŵyl yn y llys rydd;  
 28 Llyna gaead Llangewydd.
- Pob man a phob llan llynnau—anhfryd,  
 O Hafren i'r Bannau;

- 32                   Bwrw tŷ hwn oedd *eu* bratáu;  
Bu air blin Bro a Blaenau.
- 36                   Cwyn ym Mlaenau can mlynedd,  
Cwyn tlodion cant o wledydd;  
Cwynwch, llai heddwch no lladd,  
Cwyn galar, mwy bâr no bodd  
Caiff ŵr parhaus o'r coffr pridd  
Can oes. Felly y câi Nudd.
- 40                   Can oes i Iefan, cyniseifiad,  
Cwyn hen a iefainc, cyn hynafiaid;  
Cwyn merched, Sioned, sy honnoid,—a'i hil,  
Cwyn yma ddwyfil can ymddifaidd.
- 44                   Gwae'r holl oferwyr, gwae'r llafuriaid,  
Gwae, gwae ei wyrion, gwae gywiriaid;  
Gwae wan a chadarn, gwae weiniaid—pob gwlad,  
Gwellhâi y ddwywlad, gwae'i holl ddeiliaid.
- 48                   E rannai fwydau i'r ynfydiaid,  
E rannai ddillad i'r hen ddeiliaid;  
Rhôl o'i law 'madaw i'r mudiaid—noethion,  
E rôl fawr roddion i'r efryddiaid.
- 52                   Ni byddai athrist bai ddieithriaid  
(I rai ni weddai'r un neuaddaidd);  
Peunydd llawenydd a llonaid—ei blas,  
Pawb draw, bu urddas, pob dri byrddaid.
- 56                   Mwy boen o cerddant mwy, bencerddiaid;  
Mwy wedy Ieuan fal meudwyaid;  
Milgwn, gweilch, helgwn, ni chaid—ei ryw ŵr,  
Marw eich moliannwr, meirch ymlyniaid.
- 60                   Cwympo pen cyngor y blaenoriaid,  
Cai Hir Brychandir, braich ei hendaidd,  
Cwnsel gwaed Hywel, tyaid—i'r Llawir,  
Cwyn dial y tir cenedl y taid.
- 64                   Llai gwaed i'r adail holl gadroddaid,  
Lleihau cenedlaeth lle cynwylid;

Llwyth y Bach haeach fal haid—ar Ionawr  
Lle'r aeth gan Dduw mawr blaenawr y blaid.

68 Na thybier tynnu'n iaith Brytaniaid  
Ei ryw atebwr; mae'n hir tybiaid;  
Mal Llŷr ymysg gwŷr ysgwieriaid—gynt,  
Barn, os dewisynt, bron iustusiaid.

72 Y llu, ban aethont holl benaethiaid,  
E roes gwayw atynt ar Ysgotiaid;  
Dygiad Gwrthefyr Fendigaid—o'i lys,  
Âi dros dair ynys drwy estroniaid.

76 Mae'r angau i'n ffordd, mor ing na phaid,  
Nid amau un ef na dim a wnaid;  
I'n marciaw y daw, nid aid—i hiroes,  
Ymaros yr oes a marw sy raid.

80 Y gawr a roes fry, e'i gwŷr San Ffraid,  
Â mawredd i'r llawr ym mhridd a'r llaid;  
I'r ysbryd bywyd lle bai—duwioliaeth  
Ar farn a aeth i'r nef ar naid.

84 Ei dda a rannodd i wirioniaid,  
Ei aur, os erchynt, roes i eirchiaid;  
Mwy o dda yna i'w enaid—(eisoes  
Onid da a roes) i hwn nid rhaid.

88 Ni bu well Iefan bai wayw llifaid,  
Ni bu ryw wyneb o'r barwniaid;  
Ni bu well Cadell na'r ceidwaid—doethion  
Na fu er Einion. Nef i'r enaid!

Pa sôn am Einion mwy o Wynedd? &c.

### *Ffynonellau*

A—Pen 99, 351 B—Pen 101, 202 C—CM 12, 185

### *Amrywiadau*

3 B ..ai fann.. 10 AB ..ab.. 19 AB ..dringio.. 20 C ..ddiwreiddio.., B ..blaned  
23 A ..yr llann 27 C ..rhydd 30 A ..yr bannav 31 ABC ..oedd bratav 32  
ABC ..blaeniav 33 ABC ..ymlaeniav.. 36 ABC ..bvdd 37 C ..parhaus coffr..  
38 C ..felly cai.. 39 AB ..Ievan.. 40 AB ..ievaink.. 42 ABC ..ymddifiad 46

*B* gwella ai.. 47 *C* er.., *AB* ..yr ynvydiaid 48 *AB* ..yr hen.., *B* ..ddeilliad 49  
*A* roy.., *AB* ..yr mvdiaid.. 50 *AB* ..yr efryddiaid 51 *B* ..dieithriaid, *C*  
 ..ddieithraid 52 *AB* y rai.., *C* y rhai..neuaddiaid 54 *C* ..draw urddas.. 55 *C*  
 ..ben ceirddiaid 57 *ABC* ..heliwn.., *C* ..chaid ryw.. 58 *C* mawl.., *AB*  
 ..emlynniaid 61 *AB* ..yr llawr ir, *C* ..y llawr ir 62 *C* ..y tri.. 63 *ABC* ..yr  
 adail.., *C* ..gadrodiaid 68 *C* y rhyw.. 69 *C* ..ysgweiriaid.. 70 *A* ..iestusaid, *B*  
 ..iestusiaid, *C* ..ustusiaid 75 *AB* ..ynn ffordd.. 77 *A* ynn..y hiroes, *B* yn..nid  
 y hiroes 79 *AB* ..i gwyr ffraid, *C* ..i gwyr is Ffraid 80 *AB* ..yr llawr.. 81  
*ABC* yr ysbryd.., *AB* ..duwoliaeth, *C* ..duwiolaeth 82 *AB* ..yr nef.. 84 *ABC*  
 ..archynt.. 85 *AB* ..yw enaid.. 86 *C* ..da roes.., *AB* ..y hwnn.., *B* ..nyd raid  
 87 *A* ..Ievann.., *ABC* ..llifiaid 89 *B* ..doethon

*I ddeisyf cael Syr Edward Carn yn iach adref o Rufain*

- Pa ras, Duw, piau'r ystad?  
 Pwy o Loegr fal pai legad?  
 Y marchog aeth mawr uwch gwŷr  
 4 Eu rhif ynys Rhufeinwyr.  
 Syr Edwart tros ord'r tŷ'r rhain,  
 Carn, câi rif cronig Rhufain.  
 I Rufeinwyr anfoned;  
 8 Tros Lloegr ei air, tros holl Gred.  
 Nis rhoed i frenhines ras  
 Rhyw atwrnai 'n rhaid ternas.  
 Ni châi bryns, un uwch eu brig,  
 12 Fath atebwr fyth tebyg.
- Pan fu rhaid, pennaf i'r rhain,  
 Pa ryfedd, ateb Rhufain,  
 —Pand ieithfawr?—i'r pen doethfab  
 16 Ateb pawb yng nghwrt y pab?  
 Cefnog odidog ydyw,  
 Cof wrth ddysg mewn cyfraith yw.  
 Rhôï fater araf atun;  
 20 Nes tair awr nis torrai'r un.  
 Pe bai ddadl, pawb a ddweden',  
 Ni bu awr nas gwnâi i ben.  
 Saith buon' gwŷr doethion gynt;  
 24 Yn nhai Rhufain y'u rhifynt.  
 Syr traw Edwart, syr tradoeth,  
 Â thafod dysg wythfed doeth.  
 Saif gair dra y safo gwal  
 28 Syr Edwart tros yr Eidial,  
 Marchog enwog o'r ynys;  
 Nid llai gynheiliad y llys.
- 32 Arglwydd Nef, mae'r gwleddau'n nes,  
 Erglyw weddi'r arglwyddes.  
 Ym mhlas 'Wenni, mil sonian',  
 Gwleddau sydd Arglwyddes Ann.

- 36 Gweddi i'r Tad, Duw mawr cadarn,  
Erchi cadw, Mair, Marchog Carn.  
Galw Dduw a wnawn, Arglwydd Nef,  
Galw edrych ei gael adref.
- 40 Bid Duw 'n ei flaen fal maen mur  
Rhag pob haint, rhag pob antur;  
Rhag trefi, rhag tir rhyfel,  
Rhag gwenwyn bwyd, rhag gwn bêl;  
Rhag cwarel, rhag gwayw herwr
- 44 Neu ergyd tân o frig tŵr.  
Trwy Dduw 'mhob tir e ddiainc  
Rhag brwydr ffræe, rhag bradwyr Ffrainc.  
Duw fo roes ffordd i Foesen
- 48 Drwy'r ffrwd ar wŷr Pharo hen.  
Doed adref drwy Dduw nefol  
Yn iach, a'i wŷr yn ei ôl  
Drwy fôr o dir, dirfawr daith,
- 52 Rhufeinwyr adref unwaith.  
Doed adref i'w gynefin  
I 'Wenni gwrt i lanw gwin.

*Ffynonellau*

A—Llst 164, 131 B—Card 2.630 [= Hafod 20], 171<sup>r</sup> C—Card 5.44, 228<sup>r</sup>  
D—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 167<sup>r</sup> E—Llst 134, 233<sup>v</sup>  
F—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 446 G—LIGC 6511B, 238<sup>v</sup> H—LIGC  
13062B, 402<sup>r</sup> I—Bodley Welsh f 5, 192<sup>r</sup> J—BL Add 31090, 49<sup>v</sup>

*Amrywiadau*

1 *BJ* [1–22], *F* ..ystat 2 *F* ..legat, *G* ..lygad 3 *I* y marchog mawr., *C–FH*  
..aur mawr.. 4 *CDEHI* yn Rif enw r Rivainwyr, *F* yn Rif enw.. 5 *A*  
..teirainn 6 *C–I* ..Rif.. 7 *A* y Rvveinwyr., *I* i Rhyfainwyr.. 8 *C–FHI* troes.,  
*F* ..loegr., *I* ..troes.. 9 *I* ..Ras 10 *H* ..raid., *I* ..teyrnas 11 *A* ..brins., *C–FHI*  
..yn ywch y brig 12 *D* vyth..vath.. 13 *I* ..raid., *C–I* ..pennfawr ir hain, *A*  
..yrhain 14 *AC–I* ..rhyvedd.. 15 *C–I* pond.. 20 *C–FHI* ..torrai vn 22 *E* ..ar  
benn 23 *B* ..doethon.. 24 *A–J* ..i rhivynt 25 *B–J* ..tarw.. 27 *BCDF–J/E* saf  
gair hwnn dra savo gwalh / gwalch 28 *J* ..Eidal 30 *E* ..yn gynhaliad llys,  
*BCDF–J* ..gynhaliad.. 31 *A–J* ..gwleddav nes 32 *E* erglwydd., *CEHI*  
..weddi arglwyddes 35 *A* gweddi r duw., *BDEGJ* gweddi r tad., *CFHI*  
gweddi y tad.. 36 *A* ..cadw y mawr., *BGJ* ..kadw i mae r., *DEH* ..mai r., *I*  
..mae.. 37 *CEFHI* ..dduw wnawn.. 39 *J* ..yn vlaen., *A* ..y blaen vel., *BJ*  
..vel., *F* ..vlaen maen.. 40 *J* ..bob.rag bob., *F* ..bob haint.. 41 *H* rag..rag.,  
*J* ..rag tir ryvel 42 *H* rag..rag., *A* ..gwenwyn rhag., *J* ..rag.. 43 *HJ* ..rag..  
45 *D–G* ..tre.. 46 *CEFHI* ..bradwyr..brwydr., *D* ..bradwyr..bradwyr., *HJ*

..rag.. 47 *C-H* ..Roes.. 48 *F* drwy ffrwd., *A* ..ffravaw.. 51 *A* o rhwy vor o  
dir.. 53 *A-HJ* ..yw.. 54 *GJ* y wenni..

*Moliant Crystor Twrbil, Pen-llin*

- Y llew iefanc, yn llawfaeth,  
 Yn chwyrn, fu'n chwarae 'n ei faeth,  
 Fai oen heddiw, 'n fonheddig,  
 4 Yn wiber oedd, yn y brig,  
 Cnot am dri Siancyn ytych,  
 Crystor, blât, crest Twrbil wych;  
 Esgair gwalch i wisgo'r gart  
 8 Yn rhyw osawg hen Risiart.  
 Eryr ffyrf ar wŷr, a phaen,  
 A'r eilmodd pryns yr Almaen.  
 Llaw Dduw aed dros lladdiad drwg,  
 12 Llew, hen deidiau, Llandudwg.  
 Lle ganed llew eginyn,  
 Llyna hap, Penllin, i'w hŷn.  
 Llwythau'r rhain oll a'th ryw'n nes:  
 16 Llesion, Aron, hen Norres;  
 Llin Mathau deidiau Llandaf  
 Lle'th aned o'r llwyth hynaf.  
 Lle bu Einion, llew bonedd,  
 20 Holl galon wyd llu Glyn-nedd.  
 Llwyth Wilym, felly'th elwais,  
 Yn un o seirff Einion Sais.  
 Taliad holl waed, nid tlawd llwyth,  
 24 Troes Duw dâl tros dy dylwyth.

- Twrbil a wŷr tŷ eurbost,  
 Ti yw pen y tŷ a'u post.  
 28 Gobaith gwaed—dydd daed—ydywch,  
 Gwyn dy wlad a'th genedl ywch.  
 Fal d'ewythr fu flodeuyn  
 Ni bu o'ch iaith i'ch bath un.  
 Â'ch imp pêr ni chwmparwyd;  
 32 Afal aur, Twrberfil, wyd.

Mae'r gair, Gwalchmai ragorwyd,  
 Ym mhob camp am hebog gwych.



36 Bwy wnâi gamp, enwog impyn,  
 Nas gwnai'n deg os gwnâi un dyn?  
 Ni chair uniaith na chronig  
 Na bo'r iaith frau'n bêr i'th frig.  
 40 Wrth ryw un ir y'th rannwyd,  
 Wrth un balch gwrthwyneb wyd.  
 Oen difalch yn bendefig,  
 Yn arth ddoe yn arw i'th ddig.  
 44 Da y tynnaist hyd d'onnen;  
 Dygaist byth dy gŵys hyd ben.  
 Tynnud iau atyn' i dir;  
 Nid wyt wan; nid atynnir.  
 Wrth ymaelyd, nerth milwr,  
 48 Echdoe nid aech dan y dŵr,  
 A'r gŵr wyd o ragor waith  
 Âi i'r lan yn wrol unwaith.  
 O'th gas rhai 'th geisiai i'r rhwyd;  
 52 Ni'th gawsant lle y'th geisiwyd.  
 Eryr wyd aeth o'u rhwyd wan  
 Er ewyllys rhai allan.

56 Bywyd trwy waith yw'r byd trwch;  
 Bonheddig yw byw 'n heddwch.  
 Heddychaist,—heddiw iechyd!—  
 Haeddwch, ben, heddwch y byd.  
 Ni thyr un o'th rieni;  
 60 Na thyr yn d'oes o'th ran di.  
 Er rhannu'r tir i'r henwaed  
 Neu aur gwiw ni rennir gwaed.  
 A fo un byth o fewn barn  
 64 O fewn gwaed ef â'n gadarn.  
 Digonaist yn dy gynnen;  
 Dwg y byd yn deg i ben  
 Drwy lendid, wrol undyn,  
 68 Drwy ddewrder a doethder dyn.  
 Drwy'ch cenedl deiriach cynnydd;  
 Drwy Dduw sy fyw d'urddas fydd.  
 Dyn ir hael â'r dawn yrhawg,  
 72 Duw'n d'adael *di'n* odidawg!

### *Ffynonellau*

A—Card 2.630 [= Hafod 20], 126<sup>r</sup> B—Card 5.44, 216<sup>r</sup> C—Llst 134, 210<sup>r</sup>  
 D—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 422 E—LIGC 6511B, 172<sup>v</sup> F—LIGC  
 13061B, 217<sup>v</sup> G—BL Add 31090, 40<sup>v</sup>

*Amrywiadau*

1 *G* ..ieuank.. 6 *C* krysto.., *DE* kristor.., *B* krestor blat krestwr bil.., *D* ..blot krestwr bil.. 8 *BD* o Ryw.., *G* yn ryw.. 9 *A-G* ..ffyhaen 10 *ABCEFG* ..eryr almaen 11 *G* llaw duw.. 12 *BCEF* ..daidav.. 14 *A-G* ..yw hynn 15 *D* llwyth yr hain.., *ABDEF* ..ath Ryw nes, *C* ..a Ryw nes, *G* ..ryw nes 16 *A-G* llaison.. 17 *AFG* ..daidav.. 18 *B* ..anaed.. 19 *A-F* ..Einon.. 22 *ABCEF* llin ynys jarll Einon sais, *G* llin ynys iarll.., *D* ..Einon.. 23 *C* ..holl wlad.. 26 *AEFG* ..pwys y ty.. 28 *C* ..dy dad.. 29 *AFG* vel.. 30 *D* ny bych och jaith.., *A* ..oth jaith.., *C* ..jaich yth bath.., *ABD-G* ..ych bath.. 31 *C* ..par.. 33 *B* mae gair.., *A-E* ..Ragorwych 34 *F* ..ym.. 35 *C* pwy.. 38 *A-G* ..yth vrig 39 *A-F* ..Ryw ..Rannwyd 42 *C* yn arth oedd.., *A-G* ..yth ddig 43 *AFG* ..o hyd.. 44 *AFG* dy gost byth.., *BE* dygost.. 45 *D* tynnwyd.. 46 *G* ..wyd.. 49 *ABD* ..Ragor.. 50 *A-G* ai r lann.. 51 *A* ..rai ath gaisau rwyd, *G* ..rai ath geisiau rwyd, *B-E* ..ath gaisai.., *F* ..ath gaisai rhwyd 52 *E* ..gawsont.., *A-G* ..gaiswyd 53 *AEFG* ..rwyd.. 54 *EFG* ..rai.. 58 *C* haeddwch heddwch.. 59 *A-F* ..Rieni 60 *F* na thorr.., *A-F* ..Rann.. 61 *G* er rannu r.. 62 *E* ne air.., *BCD* ..Rennir.. 63 *AFG* ..byth a vynn.. 69 *A-G* ..dair ach.. 72 *AFG* ..dadel.., *A-G* ..dyn odidawg

*Moliant Syr Rhys Mawnsel, Oxwich, pan oedd yn Iwerddon*

- Awn at ddelw hwnt i Ddulyn  
 Ac i'r gaer lle mae'r Grog wyn.  
 Sef ar y Groes fu wir Grog,  
 4 Saf, a'i erchyll, dros farchog.
- Syr Rhys hir, Sain Siors Harri,  
 Sy lot ieirll, Mawnsel, wyt ti.  
 Ple'r aeth dros fôr a thraethell  
 8 (Petaen' ieirll) un capten well?  
 Llyfnu'r wyd â llafnau'r onn  
 Lle erddaist holl Iwerddon.  
 Ni thariud yn ei thyrau;  
 12 Atun fry yr aut ti'n frau.  
 Ni'th ddaliodd pil na milwr  
 Na thwrn dwys, na thir na dŵr.  
 Ni'th ery un iaith ddyrys;  
 16 Nis arhoent i'n oes, Syr Rhys.  
 Eu galw oeddent arglwyddi;  
 Nid aen' o'u tai; dyn, aut ti.  
 I'r tir gwyllt yr aut â'r gwŷr  
 20 Ar foliau ei holl ryfelwyr.  
 Ffo yr oeddent ar ffriddoedd  
 Ffwrdd o wŷr ar dy ffordd oedd.  
 I'r tir byw yr aut â'r bêl,  
 24 A'th wŷr iefainc, i'th ryfel.  
 Aut â'r gair yt ar gaerwyr  
 Ac â'r gamp ar Loegr a'i gwŷr.
- Enillaist, peth ni allen',  
 28 Gaerau a thir Gareth hen.  
 Torraist wal, anturiaist wŷr,  
 Tŵr *Minwth*, tarw *ymwanwyr*.  
 Gewri maent gwŷr y mentyll;  
 32 Gwnaut dyrau hwn yn gant dryll.  
 Cildâr ni beiddiai d'aros  
 Na huno awr yn nhŷ nos.

36 Rhout Areth i wart Harri;  
 Diofn nid oedd rhag d'ofn di.  
 Ynfydion Iwerddon wyllt  
 A warheaist oedd rywyllt.  
 40 Fe wnai'r dydd â'th faner di  
 Eu meirw iddynt neu'u 'mroddi.

Tebyg wyd herwydd tyb gŵr  
 Ar gan caer i gwncwerwr.  
 44 Tarianau ac arfau gynt,  
 Tudded, i ti a weddynt.  
 Tarian asur Mercwrius,  
 Twysa, 'r ail, i ti, Syr Rhys,  
 48 A chleddau awchloyw addas  
 Â goliw awch Angau Glas.  
 Llurug yw'r hug, nis arhânt,  
 Arfau Siarls ar faes Irlont.

Duw a'i lurig, dail irwych,  
 52 A Mair i'ch cylch, marchog gwych,  
 Rhag llaw Gwyddel na gelyn,  
 Rhag rhoi haint, *rhag geri ynn*;  
 Rhag briw dur, *rhag* bradwriaeth,  
 56 *Rhag* gwns ywch, *rhag* gwayw na saeth;  
 Rhag cas o anap hasart,  
*Rhag* waetio ywch ergyd dart;  
 Rhag cwarelau *rhai* creulon,  
 60 *Rhag* bilain ffalst, *rhag* blaen ffon;  
 Rhag glaif *ynn*, *rhag* clwyf *anial*,  
*Rhag* min awch, *rhag* maen o wal;  
 Rhag gwn llaw *rhacw'n* y llwyn,  
 64 *Rhag* gwayw anap, *rhag* gwenwyn;  
 Rhag anaf,—arhoi gannoës!—  
*Rhag* dydd du, *rhag* diwedd d'oes.  
 Dewi â'th weddi ni thau,  
 68 Derfel a'th geidw yn d'arfau.

Nid aros dim dros y dŵr  
 Ond d'aros, yr anturiwr.  
 Drwy fôr y dewch, dirfawr daith,  
 72 A'th lu doen' i'th wlad unwaith.  
 Edrych *a* wnawn gael drych nef,  
 A'ch edrych yn iach adref.

*Ffynhonnell*  
LIGC 13062B, 598<sup>r</sup>

*Darlleniadau'r llawysgrif*

4 ..ag erchill.. 9 ..Rwyd.. 11 ..tharied.. 12 etyn..i raed.. 16 ..yn oes.. 17 er  
galw oi ddent.. 18 ..dyn wyd ti 20 ..Ryvelwyr 21 ..ffroddoedd 24 ..ivaink  
yth Ryvel 28 ..Goreth.. 30 ..winwth..yn wanwyr 33 kil daer ny baiddai..  
34 ..yn hv y nos 38 ..Rywyllt 40 ..yddynt nem r roddi 45 ..merkywrys 48  
ag o liw.. 49 llyrig.. 50 ..Siarlas.. 52 ..ych kylch.. 54 rag roi..ragor i hynn  
55 ..bri dur rag.. 56 rag..rag.. 58 rag.. 59 ..rai.. 60 rag..rag.. 61 ..yn  
rag..ynial 62 rag..rag.. 63 ..rakw.. 64 rag..rag.. 66 rag..rag.. 68 ..gaidw n..  
70 ..anturwr 72 ..yth wlad.. 73 ..y nawn..

*Awdl farwnad Morys Sainsion*

- Dydd wedy'r undydd, y Drindawd,—yw'n llef,  
 Ein lladd â'r un dyrnawd;  
 Ni ddaw arnom ddiwyrnawd  
 4 Ond heddiw'n brudd hyd Dydd Brawd.
- Dydd Brawd, diwyrnawd Satwrnys—blaned,  
 Marw blaenor ein hynys;  
 Marw mawr o Gred, marmor grys,  
 8 Os gwir marw 'sgwier Morys.
- Marw pen Cymru wen a marw enaid—Lloegr,  
 Un llygad Brytaniaid;  
 Mae *i* ni anap mewn unnaid  
 12 Bwrw'n hap i lawr a marw'n plaid.
- Pleidiau braint arfau, garbron—mae'r mwstr mawr  
 Marw Meistr Morys Sainsion;  
 Pan aeth yr un pen weithion  
 16 Ple daw'r ail i'r pelydr onn?
- Pyst onn pan drawon' pa'r un drwy—'r parfis  
 Piau arfau Sioswy?  
 Pa well urddas? Pell orddwy.  
 20 Pa les meirch i'r palis mwy?
- Mwyfwy llef dan nef hyd y nawfed—mab  
 Am waed Harri Seithfed  
 A gâi'r un a goroned;  
 24 Yn llai âi'r gair yn holl Gred.
- Holl Gred deyrnged, o'r tu hwnt—i Roeg  
 Darogan mab Emwnt;  
 Hwyr i Wesmestr a Rhismwnt  
 28 Y rhyw grair mawr, rhygarw Mwnt.
- Dwyn diemwnt Rhismwnt a phenrhaith—brenin,  
 Aur dilin i'r dalaith;

- 32 Dwyn i nef y dyn o'n iaith,  
Dyna'n gwbl dwyn ein gobaith.
- Gobaith, unbeniaeth bonedd—a gladdwyd,  
Gwae'r Arglwyddes Elsbedd;  
36 Gwae'*i* dylwyth, gwayw dialedd,  
Gwae'r fam na ddygir i fedd.
- Bedd Cwlen rhyfedd, Rufain—amherodr,  
Bedd Morys yn Llundain;  
40 Bedd Arthur dan y mur main,  
Bedd Paredur, baedd Prydain.
- 'F aeth Dwyrain, Prydain heb ryd,—môr-gymlawdd  
Rhy foddawdd arfeddyd;  
44 'F aeth i orwedd fyth wryd  
Echdoe i'r bedd, wychder y byd.
- Yr hollfyd hefyd hoywfawr,—môr a haul  
Am Rolant, Rhodri Mawr,  
48 'F âi'n dywyll o fewn dwyawr;  
'F aeth y lamp o Fathau i lawr.
- Och fawr nef a llawr pan y'u llas—oll-oll  
Eisiau llew Nicolas;  
52 Och ddoe'*i* fryd, och Adda Fras,  
Och hyd arnoch, y dernas.
- Duw las y dernas gadarnaf—o'r byd  
Es ennyd sy wannaf;  
56 Dialau Duw a welaf:  
Duw oll yn dwyn gwaed Llandaf.
- Marw Priaf Llandaf a llin Dyfed,  
Marw Gwalchmai, arian a chan a ched;  
60 Marw llewpart Harbart, targed—rhyfeldarw,  
A marw'r un rhygarw, Urien Rheged.
- Dwyn a fu ryfawr, y dyn efrifed,  
Dwyn un, y maen', bob dyn, yn myned;  
64 Dwyn brig urddedig a ddoded—o'i ddwyn  
Fal dwyn addfwyn flodeuyn addfed.

- 68 E fu fore blin, fwyfwy'r blaned,  
E fu ddoe wylo faddau'i weled;  
E fydd wylaw glaw glywed—dwyn ei oes;  
I'm byw un einioes mab ni aned.
- 72 Pe baid yn canu, pob dyn cwyned,  
Pe baid yn alont, pob dyn wyled;  
Pob mab maeth llawfaeth llefed—ar Dduw Gras,  
Pob un, 'n iach urddas, pawb, na chwadded.
- 76 Pawb am ddialedd, pawb meddylid,  
Pawb am y gorau, pawb ymg'weiried;  
Pawb waethwaeth hiraeth, hwyred—aros tâl,  
Pawb a gâi ddial, pawb gweddied.
- 80 Ni bu gan ddewrion neb gyn ddewred,  
Ni bu gan ddoethion neb gyn ddoethed;  
Ni buon' haelion gyn haeled,—nid gwiw,  
Ni bu â gwayw'n friw neb freued.
- 84 Ni bu gan wychion neb gyn wyched,  
Ni bu gan luoedd neb gyn lewed;  
Ni bu un o lun gyn laned—garbron  
Nac un i goron gyn gywired.
- 88 Ni bu un golofn gyn ddiolfned  
Nac un ar aliwns gyn wroled;  
Ni bu un fal un gyn lewed,—ni bydd,  
Nac un i'r meisydd gyn rymused.
- 92 Ni bu un galawnt gyn alawnted  
Nac un a'i pasiai gyn hapused;  
Ni bu un a fu gyn fywed—drwyddynt  
Nac un gwaed arnynt gyn gadarned.
- 96 Pan êl gŵr o Fôn a goroned,  
Pan gyrcher i'n hoes y Groes i Gred,  
Pan fo draw'r taraw, (torred—ein pen-feistr)  
Pa ŵr yn saethfeistr i'r Pryns Wythfed?
- Pwy a'i fraich ar wayw? Pa farch a red?  
Pwy a welwch oll? Pa walch a hed?



100 Pedr, pen-porthor nen, yw'n uned—yn lew,  
Porth hwn fo i'r llew! Pyrth nef ar lled!

Och ar Dduw! Mae'n llef hyd nef nawfed!  
Och Fair! Gwae'i hollwyr! Och fawr golled!  
104 Och nos! Och aros! Och oered—oesau!  
Och ddydd hyd angau ddiwedd tynged!

Dydd wedy'r undydd, y Drindawd, &c.

### *Ffynonellau*

A—LIGC 6511B, 11<sup>r</sup> B—Card 5.44, 87<sup>v</sup> C—Llst 134, 93<sup>v</sup> D—LIGC 970E  
[= Merthyr Tudful], 148 E—BL Add 31090, 106<sup>v</sup>

### *Ffynhonnell arall*

LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 88<sup>r</sup> (*collwyd rhannau helaeth o'r testun*)

### *Amrywiadau*

3 C ..arnon.. 4 A–D ..hed.., E ..ddydd.. 7 D ..gred mor grys, ABCE ..mor  
mor grys 9 ABDE ..kymry.., BCE ..wenn marw.. 11 A–E mae ni.. 12 E  
..lawr marw.. 13 A plaidav.., C plaidav.., A ..gyr bronn.., B–E ..geyr  
bronn.. 14 D ..y meist.., C ..meist.., CE ..Saingion 15 A–D ..waithon 17  
CE ..pa vn.. 19 CE ..pwyll.., A–E ..arddwy 22 B–E ..wythfed 23 A–E e  
gair.. 24 A yn llai gair air.., B–E yn well gair air.. 25 A ..tyeyrnged.., CE  
..tyernged.., A ..o ty hwnt.., D ..ty hwn.. 28 E y ryw..Raglaw.., B ..y  
Rygarw.. 29 C ..diemwnd Rismwnd.. 33 ABC ..vn benniaith.., D ..jawn  
beniaith.., E ..un bennaeth.. 35 A–E gwae dylwyth.. 37 E ..ryvedd.., B–E  
..amherawdr 41 A–D ..Ryd.. 44 A echdoe r bedd.. 48 A ..o vaethav.. 50 A–  
E aisav.. 51 A–E ..ddoe vryd.. 52 E ..deyrnas 55 CE dialedd.. 59 B  
..llepart.., D ..Harbar.., E ..ryvel draw 60 BCE marw yr vn.., D marw vn.., E  
..Raglaw.. 61 A–D ..Ryvawr.. 63 D ..ar ddoded.., A–E ..yw ddwyn 64  
CDE ..addwyn.., A–E ..aeddffed 66 A–E ..vaddav weled 68 ACD/B am byw  
yn / ym einoes.., E am byw yn.. 70 E ..olant.. 72 A–E pob yn jach.., E  
..chwerdded 73 B pawl.. 74 B ..golav.., CE ..gwarav.., ABD ..ym gwaired  
75 CE pawb waeth hiraeth.. 78 B–E ..luoedd.. lewed 80 E ..cyn.. 82 B–E  
..haelion..haeled 83 AB ..gy laned.., A ..gyr bronn, B–E ..geyr bronn 85 B ni  
bv n.. 86 B–E [86–9] 90 A–E ..pasai.. 94 A ..ynn oes.., B–E ..yn hoes.. 96  
A–E ..saith vaistr.., E ..prins.. 97 A–D ..Red 98 BCE ..pwy.. 99 CE ..yw  
uned.. 101 E ..mae r llev.. 102 A–E ..gwae holl wyr.. 104 BCE ..yt angav..,  
D ..ddydd angav.., A ..dynged

*Moliant Edward Lewys, y Fan*

- Y carw doeth ar fainc Caerdyf  
 (Os hael a doeth fu Selyf),  
 Meistr Edwart, mae *i*'th wart wŷr  
 4 Mal Lewys, mil o waywyr.  
 Rhoed Harri ar het hirwyn  
 Rhos aur yt, gwalch Rhisiart Gwyn,  
 Pen a chapten Sainhennydd,  
 8 Pen cad i deirgwlad bob dydd.  
 Piau'r wlad oll? Pwy'r ail dyn?  
 Ple fal pai Hywel Felyn?  
 Etifedd wyt o Ifor  
 12 O fin y Mars i hafn môr,  
 Gwalchmai lân, gwalch aml ei wŷr,  
 Gosawg mawrwrthiawg Merthyr.  
 I Frycheiniog fry'ch enwais  
 16 Yn un o seirff Einion Sais.  
 Afal Lewys fai *i* luoedd,  
 Hap ar imp Rhoser a oedd.  
 Ni chair ynod iach Ronwen  
 20 Na'u gwŷr hwynt o'r Garrai hen.  
 Un wyt ti, iawnwaed dy iaith,  
 Edwart, hil o dair talaith.
- Ym mhob peth y mae hap barn,  
 24 Ym mhob codiad, mab cadarn.  
 Mawr yw gwleddau gwlad Ieuan;  
 Mae elw sy fwy 'mhlas y Fan.  
 Rhoed i ti, rediad Dwywent,  
 28 Ferch Goel, i farchog o Went,—  
 Rhodd Elen i Gustennin.  
 Rhywiog yw'n rhoi aur a gwin.  
 Mae eurgainc o ryw Morgan:  
 32 —Moes, Duw, 'r oes hir!—Meistres Ann.  
 Oes math, arglwyddes, ei mam  
 —Oes!—o'r alarch, Syr Wiliam?  
 Merch o egin marchogion,  
 36 Mwya'i rhyw 'Nghymru, yw hon:

- 40 Bonheddwisg bun wahoddwawr,  
 Beunydd merch â bonedd mawr;  
 Daioni'r wlad wen ar wledd,  
 Dawn a roed i'w anrhydedd.
- 44 Edwart, dy waith wedy'r tad,  
 Aro o'i deutu'r rhod atad.  
 Rhod ywch aeth a red i'ch ôl  
 Yn fwy i'th lin fyth olynol.  
 Gwreiddia'n fraisg, yr addwyn frig,  
 Gwraidd o waed gŵr urddedig.  
 48 Act ar y fainc wyt i'r farn,  
 Ector ieuanc Trahaearn.  
 Iustus, dysg Estas sy dau,  
 Am y byd mwy wybodau.  
 52 Ni bu'r poet tra fo byw'r pen  
 Ym mrig Omer mor gymen.  
 Syr Ffwg wrol, sarff gwaywrudd,  
 Sy ail mewn brawd Salmon brudd.  
 56 Ni bu ŵr byw o Iorwerth  
 Na fu'n well ei fyw a'i nerth.  
 Ni allai fry, yn llai'i fron,  
 Y llew gael well o galon.  
 60 Dy rym, o doir i ymwan,  
 Dur wyt ti a roed o'r tân.  
 Rhai'n dân, nid arhoen', d'enwi,  
 I amau'r tân; môr wyt ti.  
 64 Os *ai* 'n nysg, ni'th feisia neb,  
 Na'th ddawn fwy no'th ddoethineb.  
 Ni ofnech chwi fan na chad  
 O bai dwrn enbyd arnad.  
 68 Aud i'r awch yn gyndrychol  
 I'th ddwrn di a'th wŷr yn d'ôl.  
 Ni roist bin, arhoist beunydd,  
 Nis rhoi 'n d'oes nes yr un dydd.  
 72 Ni all dyn ennill d'eiioes;  
 Ni ad Duw newid dy oes.  
 Yma rhediad mawr ydywch.  
 Aros fwy i'r oes. Hwyaf ywch.

*Ffynonellau*

A—Llst 164, 134 B—Pen 99, 346 C—Pen 101, 197 D—Card 2.630 [= Hafod 20], 168<sup>r</sup> E—Card 5.44, 227<sup>r</sup> F—Llst 134, 232<sup>v</sup> G—LIGC 970E [=

Merthyr Tudful], 444 H—LIGC 6511B, 235<sup>v</sup> I—LIGC 13061B, 216<sup>r</sup> J—  
CM 12, 180 K—BL Add 31090, 44<sup>r</sup>

*Ffynhonnell arall*

LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 166<sup>r</sup> (*collwyd y testun yn llwyr  
rhwng llau. 19–56 oherwydd traul ar y ddalen*)

*Amrywiadau*

1 G ..a.. 3 B ..edward.., A–K ..mae th.., ABCJ ..ath wyr 4 AD–I ..waewyr 5  
AI ..at.., F ..ar hyd.., C ..hirwywyn 6 A Roes.., BC ros.., EFG ..walch..wynn,  
B ..risiart.. 7 BCE–J ..sainghenydd 8 BCJ ..y deirgwlad.., EFG ..ar.., A  
..pob.. 11 A ..ywt.., BC ..wyd.. 12 E–H ..vin Mars.., BC ..y hafn.., D–IK ..y  
mor 13 BC/J ..gwalch / gweilch yma i wyr 14 ABC ..weirthiawg.., G  
..wyrthiog.., J ..werthawg.. 15 BCEFGJ o.., AD–IK ..frycheinog.., C  
..henwais 16 AD–I ..Einon.. 17 ABD–K ..vae luoedd, C ..fag luoedd 18  
ADIK ap.., BCEGJ ap Rys ar jmp.., FH ap Risiart jmp.., B ..roeser oedd,  
CEFGJ ..Roeser oedd, DHIK ..i Roser oedd 19 E–HJ ..ach.. 20 G ..gairav..,  
H ..gorai.. 21 G ..jawn wed.., D–IK ..waith 22 I ..hir.., E–H ..y tair.. 24 D–  
IK ..kaidwad.. 25 FJ ..mab jauan 26 G mae lw.., A ..ymhlas vann 27 I  
roed.., BC ..y ti.., EG–J ..Rediad.., F ..Rediaid.. 28 BC ..y varchoc.. 29 A  
roedd.., I rodd.., BC ..y gystennin 30 ABCI rywiog.., BCDIK ..roi.. 31 E–H  
..aurgain.., AEFG ..rhyw.., DH ..Riw.. 33 A ..a mam 36 J mwya rhyw..,  
BCK ..ryw.., BCDGH ..nghymry.. 37 BCJ ..wahaddwawr, FK ..wahoddfawr  
38 C ..o.., EH ..mewn.. 39 AD–H daeoni.. 40 AFGI ..rhoed.., E ..a Roedd..,  
A–K ..i anrhydedd 41 AK ..wedi.. 42 AC aro i davttu rhod.., B aro i devtv..,  
D–HK aro dauty.., J aro deutu rhod.., I aro i davty a rod.., K ..rod.. 43 BCJ  
..aeth ywch.., AD–I ..rhed.., BC ..yth ol, AD–GIK ..ych ol, H ..ych hol 44  
ABCEGHJK yn vwy th lin.., DFI ..yth lin.. 45 DGIK gwraidda.., E  
gwraiddy.., F gwraiddo.., H gwraiddin vraisg.., K ..addvwyn.. 47 BCF ..yr  
varn 48 B ..jefangk.., D–HK ..tyrhaearn 49 J ustus.. 51 K ny vu r.., ADHIK  
..dra.., EFG ..dry.. 54 F ..braw.., H ..Salomon.. 56 A ..i vwy n nerth 57 A–  
K ..yn lle i fron 58 D–IK ..i galon 59 EFG ..od air.. 60 A ..arhoed..,  
BCDFHK ..roid.., EG ..Roid.. 61 B–K ..nid arhon.., I ..dewi 62 BC y amav..  
63 A os ein mysg.., B–K os yn nysg.., D–HK ..vaisa.., J ..wysia.. 64 BCJ  
..mwy.., C–IK ..na.. 65 F ny ofnwchwi.., DK ..a chad 67 A aed or awch..,  
IJK aed.., D–IK ..ar awch.., J ..gyndrychiol 68 A–IK yth ddwrn.. 69 AI ni  
rhoest.., EGH ny Roist.., E ..blin.., J ..ban.., BEFH ..arhoest.., C ..a rhoest..,  
DGK ..aroest.. 70 A nes.., BCDIK nys roy.., BH ..neb.. 71 AD–IK ..deinoes,  
J ..d eioes 73 BCDHFJK ..rediad.., I ..rodiad.., FG ..ydych 74 A–K ..vwy r  
oes.., G ..ych

*Moliant Siors Herbert, Abertawe*

- 4 Yr Herbart dewr â'r bar tân,  
 Wŷr llurugloyw Iarll Rhaglan,  
 Maeth hendad, o'r math undyn,  
 Meistr Siors, moes Duw ras i'w hŷn.  
 Mab wyd, wŷr, mebyd Urien,  
 Meistr Rhisiart, Iarll Herbart hen.  
 8 Llawen iawn wyd, gwell no neb,  
 Llawenydd iarll a'i wyneb.  
 Llew wyd Euas, llu Dwywent,  
 Llew gwŷr Gwŷr a Lloegr a Gwent.
- 12 Herbart, gapten Gefenni,  
 Herbart dewr, breua' wyt ti.  
 Cai yma'r gamp, Cymro gwych,  
 Cai, am air lle cymerych.  
 16 Caeaist, diwygiaist ogylch,  
 C'waethog wyd, y cae i'th gylch.  
 Cadw Ddeau, cydia Ddwywent,  
 Cyd-ddwg Morgannwg a Gwent.  
 20 Cydroddaist, blaenaist dy blant,  
 Coed i gedyrn cydgodant.  
 Cydbleidiaist, caud eu blodau,  
 Cedyrn, hŷn sy i'ch cadarnhau.  
 Cedyrn ar dy faine ydyn';  
 24 Cadarnhaist y cedyrn hyn.
- 28 Coed yr iarll fu'n cadw'r iaith;  
 Cydeiliaist y coed eilwaith:  
 Ymbellhau a chasáu chwyrn,  
 Nesáu coed Ynys Cedyrn;  
 Ymgryfhau rhag lleihau llin,  
 Amlhau gwaed am hil Godwin.  
 32 Mawr yw hil hen Syr Wiliam  
 A merch cawr y Marchog Cam.  
 Mae gras yn magu ar ôl,  
 Mae i'th ais, Syr Mathias wrol.

36 Ni chair hyn on'd ewch yrhawg;  
'F aeth fwy orchest, fath farchawg.

Tŷ'r hen dad dy rend ydyw,  
Tŷ sy gwr't i'r twysog yw;  
Tŷ a'i winoedd gan tunnell,  
40 Tŷ'r ieirll ni bu o nor'tr well.  
Mor wych ag iarll, meirch a gwŷr,  
Mae'r tŷ mal mort y milwyr.

Dewraf gwŷr, dorf o gewri,  
44 Ar dir a dŵr dy wŷr di.  
Mae'r teirgwlad mawr yt, arglwydd,  
Meistr Siors, o rymuster swydd.

Cywir cadw rhag gwŷr cedyrn,  
48 Cefnwch wan cyfion, a chwyrn.  
Ofn cedyrn ar fainc ydywch;  
O bai raid eu cosbi'r ywch.  
Nid oedd wiw 'r un wadu'i ddrwg  
52 Wedy elai yn d'olwg.  
Galath o Went, glew i'th ddig,  
Gŵraidd wyd ac urddedig.  
Wrth ryw air ai'n arth yrhawg;  
56 Wedy'r gair yn drugarawg.  
Llawen yw dy wên—dy' daed!—  
Lle cerych, llew cywirwaed.  
At dy gas yr wyd di-gêl,  
60 O chyffroech, â ffriw uchel.

Dir ynod bedwar anian:  
Tir, Herbart hir, dŵr, wybr, tân.  
Y tân yw dy anian di;  
64 Yn wnias yr enynni.  
Yn ddoeth iawn e ddoi i'th anian  
Â ffawd dŵr i ddiffod tân.  
Ni fynny di er ofn d'uwach  
68 Roi dy gefn, er dau gyfuwch.  
Da oedd ddwyn dy ddaioni;  
Dyn ni faidd dwyn d'anfodd di.  
O cheisiai wŷr, ywch eu sôn,  
72 Gwmpâr, fain gwympau hirion,

- Mae ynod ar ymwanwyr  
 Mwy o lwc no mil o wŷr.  
 Ni ofnud waith o fewn dur  
 76 Y North mwy no hen Arthur.  
 Dychrynaist iachau Rhonwen  
 Â'th lu gwŷr aeth i Loegr wen.  
 Iawn yt arwain nod Harri;  
 80 Rhoed dorch aur a'i artr i chwi.  
 Oes gŵr a gai i wisgo'r gart  
 A'r oes hirbell, Siors Herbert!

*Ffynonellau*

A—Llst 7, 245<sup>r</sup> B—Pen 99, 343 C—Pen 101, 194 D—Pen 96, 173 E—  
 Card 4.101 [= RWM 83], 191<sup>v</sup> F—CM 12, 177

*Amrywiadau*

1 D ..harbart hir., C ..a barr.. 2 D wyr llv Rrvglowi., E ..llvrigloew., B  
 ..raglan 3 D ..endad.. 4 E mastr., D mastr siorg duw., ABCE ..i hynn, D ..i  
 hvn, F ..i hyn 5 E ..wr.. 6 D mastr., A ..rissart., B ..herbert.. 7 DE ..na.. 8  
 DE llywenydd., D ..llv ai.. 9 F lle wyd.. 11 D ..gatpen., E ..kapden.. 13 E  
 ..gair.. 14 C [14] 15 ABCF ..diwygaist., D ..diwgaisd., E ..dywgiaist.. 16  
 E ..wyd kae., F ..yw cae., D ..kaeth gylch, A ..yth g[ ], BC ..yth gylch 17 E  
 kadw deav kyd a dwywent 18 D ..ag gwent, A ..gwen 19 CE ..bleiniaist..  
 21 B kydblediaist., DF ..kaid.. 22 A–E ..hynn., A–DF ..ssy ch.. 24 ABCEF  
 kadarnheist.. 25 D ..jarll yn., ABCF ..a vy n., E ..a fyn.. 27 E ymbellav  
 mae ych assav chwyrn 28 BCD ..y kedyrn 29 AB ..rag.. 34 A [ ]eth ais.,  
 DEF maeth ais.. 35 A [35–66] 36 D vyth.. 37 F ..rent.. 38 D ..gwr  
 towyssog., BC ..yr twysog.. 39 B ..gant., C ..tannell 40 D ..iarll ni bv n  
 nortr., E ..ierll ni bv nortvr.. 41 E ..ierll.. 42 D ..mart.. 43 D ..dor.. 45 D  
 ..tairglwad.. 46 E mastr., D mastr Siors o Wesmvstr.. 47 B ..rac., C ..rai..  
 48 F ..fan.. 49 F ofni..ydych 50 B–F os bai., E ..yw., DF ..ych 51 E  
 ydoedd., D ..wadv r ddrwg 52 DE wedi.. 53 E ..galw ith ddig 55 F ..yn  
 arth.. 56 DE wedi.. 57 E ..wenn dydd.. 59 D dy gas., E ..idd avt.. 60 F a..  
 61 F hir ynod., D ..ledwar.. 64 BCF ..wynnias., E ..od yyni 65 BC ..y  
 ddey th., D ..yn dda i th., F ..ydd aeth anian 66 D/E a ffai dd twr / a ffavt  
 wr yn diffodd tan, BC ..y ddiffod.. 67 D ni fynid di.. 68 D Roi.. 70 E  
 ..faedd., F ..na faidd., A ..anvodd [ ] 71 D ..vwch.. 72 D gwymper., F  
 cwmparu campau hirion, E ..gwympiav.. 74 DEF ..na.. 75 CF ..ofnid., C  
 ..dy 76 D yn north., D ..na.. 77 ABDE ..ronwenn, F ..achau Ronwen 80  
 BC roed., D Rry dorch avr artr., F ..ar artr., BC ..y chwi 81 A ..a ger i  
 wisgo ga[ ], DEF ..gai wisgor..

*Marwnad Rhys ap Siôn, Glyn-nedd*

- Nef i'r dyn a roed ennyd  
 A fu'n ben tra fu'n y byd!  
 Och o'i farw! Yn iach, fawredd!  
 4 Och! Miliwn och am Lyn-nedd!  
 Oes wag am waed twysogion  
 Yw'r oes heb sir Rhys ap Siôn:  
 Marw pen a chapten chwe chant,  
 8 Marw ail Gwalchmai a Rolant;  
 Marw Llŷr yr henwyr, benrhaith,  
 Marw Selyf y Mars eilwaith;  
 Marw enaid, Cymru weinion,  
 12 Marw corff a Chymræg hon.  
 Syrthio pumoes o Foesen  
 Siôn ap Rhys megis un pren.
- Dyrnod a drôl'r rhod ar Rys  
 16 Sy hyd dyrnod Satwrnys.  
 Blin yw taith y blaned hon,  
 Bileines, ar bobl Einion:  
 Bwrw sylfaen a blaenawr  
 20 A bwrw gwlad a'i brig i lawr;  
 Bwrw Aber fal nyth eryr  
 Bergwm wen, bu'r gwae am wŷr.  
 Ni chaf win na chyfannedd  
 24 Na chalon iach o Lyn-nedd.  
 Dwyn Rhys hael, dawn i'r oes hon,  
 Dwyn golwg dyn a'i galon.  
 Gwae mor ddall Gymru o'i ddwyn!  
 28 Gwae o dallwyd gwaed Ollwyn!
- Yr un gŵr a wnâi'i garu  
 Er yn fab i'n arwain fu.  
 A fu'n dwyn o'i nawfed iach  
 32 Garw decainc garedicach?  
 Doethaf, haelaf o'i hoywlys,  
 Dewraf fry, da wr fu Rys.



- 36 Cywiraf, yn gwncwerwr,  
Cadarnaf, gwyachaf un gŵr.  
Pob cadarn ei farn hyd fedd  
A wnâi Dduw'n wan ei ddiwedd.
- 40 Llawer maes, llaw rymuswych,  
Llawer sias ddrylliai Rys wych.  
Ni bu gad, o bai goedwig,  
Na bai erioed yn ei brig.  
Er a fu ni orfuwyd
- 44 Ond Duw gwyn llew Watgyn Llwyd.  
Ni rannwyd ar ei einioes  
Arf neu ŵr er a fu 'n ei oes.  
Trôl 'stronion tros dair ynys
- 48 A'u tarfu'r oedd tra fu Rys.  
Wylo fydd, lew ufuddol,  
Eisiau Rhys gannoës ar ôl.
- 52 Mi a luniwn gan mlynedd  
Ei lun o aur ar Lyn-nedd,  
A'i lun ar ei elynion  
Sy hob i Sais, Rys ap Siôn,  
A chof fal y drychefynt
- 56 Wrthfawr gorff Wrthefyr gynt.  
Ei ddelw, a'i wayw 'n ei ddwylaw,  
Fu ar draeth yn Nofr draw.  
Ni adwn fod yn ei fedd
- 60 Y rhyw ŵr i hir orwedd.  
Nid arhoen' blaidd Ronwen blant;  
Yn oes Rhys nis arhoesant.  
Ei fawr ofn fu ar ryfalch;
- 64 Fo wnâi o'r bedd ofn i'r balch.
- 68 Aros oedd am Rys heddiw  
Am ŵr o fedd marw i fyw:  
Aros Owain, gwaed Einion,  
Aros byw sarff, Rys ap Siôn.  
Ar fu'n dwyn ar fend ynys  
Barf a threm, ni bu'r fath Rys.  
Ni fegir—pond anguriol?—
- 72 Ei fath, Rys, fyth ar ei ôl.  
Ni aned yn un ynys,  
Na Lloegr na Ffrainc, well gorff Rys.

- 76 Pond truan i Frytaniaid  
Na bai'n fyw Rys ban fai raid?  
Ni ddêl prinder i werin  
Siôn ap Rhys oni fo prin.  
Oni ddêl, y mae'n ddilys,  
80 Yn fyw ar wŷr, nef i Rys!

*Ffynonellau*

A—Llst 134, 203<sup>r</sup> B—Card 2.630 [= Hafod 20], 98<sup>r</sup> C—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 215 (*collwyd rhannau o'r testun*) D—LIGC 6511B, 156<sup>v</sup> E—Pen 100, 60 F—Pen 101, 220 G—LIGC 13062B, 348<sup>r</sup> H—BL Add 15008, 11<sup>r</sup> I—Llst 133, rhif 21 J—LIGC 2023B [= Panton 56], 316 K—BL Add 31090, 120<sup>r</sup> L—BL Add 31065, 86<sup>v</sup> M—BL Add 14991, 268<sup>v</sup> N—CM 109, 56

*Ffynhonnell arall*

Card 5.44, 134<sup>v</sup> (*llau. 1–6; collwyd y ddalen nesaf yn y llsgr.*)

*Amrywiadau*

1 AC ..a Roed., BDEG–JLMN ..ve roed., F ..fo raid.. 2 EFIJMN fv n y boen., A–DGKL ..dra., H ..vy n byd 3 H och y farw.. 4 H ..filiwn., EFIJMN ..awch.. 5 AK ..am oes., I ..tywysog 6 D yw oes., EFIJKLN ..syr., H ..sur., HMN ..ab Sion 7 BFGIKLN ..chwechant, D ..chwech chant, H ..chwecant 8 H marw r ail..Rhowlant, JM ..Gwalmal.. 9 C ..penn., K ..ben raith 10 A–DGHLK ..a mars.. 11 BDEHJLMN ..kymry., A–DGHL ..wainon 13 L 17–18, BEFGIJLMN syrthio r., H syrthoi r.. 14 HN ..ab Rees.. 15 EFIJMN ..droe rod., H ..a dro ir rhod., KL ..rod., B ..a Rys 16 H ..hed.. 17 L ..y taith.. 18 JM bileinies., EFIJMN ..i bobl., A–DG ..Einon 19 DEFIJMN bwrw i sylfaen., H ..sylvan ar blainawr, CEFIJMN ..au blaenawr 20 N bwrw gwlad., H ..y lawr 22 M Bengwm.. 23 C na chaf.. 24 A–DHKL ..am lynn.. 25 A–N ..yr oes.. 27 BDEFHJLM ..gymry., AK ..i ddwyn 28 D ..a dallwyd., HN ..o ddallwyd.. 29 A–DGJ–M ..wnai garv, H ..wnaie garu 30 A–DGHLK ..yn arwain.. 31 EFIJMN a fv dyn., A–N ..ach 32 A–DGHLK ..dekain., H ..gyrdikach 35 AK 36–35, F [35–48], EIJMN ..fu n cwncwerwr, BG ..gwmkwerwr 36 H ..fu r gwr 37 H ..cadarne i varne., EIJM ..a farn., K ..i vam., N ..ai farn.. 38 N ..wna., AK ..wann ddiwedd 39 H llawar.. 40 H llawar., EHIJMN ..sais., A–DK ..a ddryllai., GHL ..a ddryllia., EIJMN ..drylliai.. 41 G ..na bai.. 44 N ..gwyn Watcyn., L ..lle., ABDG ..atgyn.. 45 ABCGH ny Rannwyd., A–EGHI ..einoes 46 H ar nau fu wr er fy yn oes, EIJMN ..wr a fv., A–DGKL ..er vy.. 47 DH ..dros.. 48 H ..royd.. 50 A–DGHL aisav., H ..rys.. 51 H mi av lunwn., ACK ..lvnwn., EFIJMN ..lvniaf.. 52 EFIJMN ..ynglynn Nedd 54 C [ ] ap Sion, H av sydd hop Sais res ab., EFGIJMN ..hop y sais., ABDKL ..hop

Sais., *G* ..hop., *N* ..ab Sion 55 *AK* ..mal., *C* [ ] drychevynt, *EFIJKMN* ..dyrchefynt 56 *EFIJMN* wyrthfawr., *EFI* ..werthefyr.. 58 *EFIJMN* a fu., *H* ..drath yn ofer., *BDGLN* ..novor.. 59 *EFIJMN* na.. 60 *H* y ryw wr yn hir orwedd, *KL* y ryw.. 61 *EFHIJM* ..arhon., *EJMN* ..Rhonwen., *F* ..Rhowen.. 62 *H* ..rys., *IN* ..nid., *A-DGHLK* ..arosant 63 *A-D* ..Ryvalch, *EFIJMN* ..ryfeilch 64 *JM* fe a wnai., *N* fe wna., *H* ..yr balch, *EFIJMN* ..beilch 66 *IN* ..mawr., *A-DGKL* ..o vyw, *H* ..y fyw 67 *EFIJM* ..ywain., *BDGN* ..Einon, *CH* ..ainon 68 *HN* ..ab sion 69 *EFIJMN* a fu., *C* ..or vend.. 70 *EFIJMN* [70-3], *ACK* arf., *H* braf.. 71 *ADGK* ..angairiol 72 *AGK* y vath yw Rys., *CD* ..vath wr Rys., *ACDGK* ..vyth ar ol 73 *GH* ..aned gwr yn ynys, *BL* ..vn yn., *C* ..o vewn ynys 74 *AEFIJKMN* lloegr a Phraink., *H* ..ffrank., *EFIJMN* ..well i gorph.. 75 *EFIJMN* pand., *H* ..y vrytaniaid 76 *ACGHK* ..bai vyw., *H* ..pan., *N* ..fai n raid, *ACD* ..Raid 77 *BE-JLMN* [77-8], *D* ..ir werin 78 *ACDK* ..yny vo.. 79 *ACDK* [79-80], *BGL* yny ddel., *H* yny fedd., *N* ..ddel mae., *M* ..mae r.. 80 *N* ..ac wyr., *H* ..y rys

*Awdl foliant i Leision, Abad Nedd*

- Oesoesoedd llysoedd Lleision,—Abad Nedd,  
 Ynysedd enwason’;  
 Gwisger, ac eurer, goron  
 4 Am ei ben-wisg, un mab Non.
- Abad pob abad a’u pen,  
 Afal Duw o flodeuyn,  
 O flas oraits fal Sieron,  
 8 O felyster fal Awstin.
- Eglwyswr teg o Leision,  
 Abostol o fab Iestyn,  
 Ail Daniel o waed Einion,  
 12 Allwedd dysg, a Lleuddad wyn.
- Teml Nedd, tai aml newyddion,  
 Duw mawlheir yn y deml hon;  
 Dunawd, Tad Abad, atebion—Berned,  
 16 Barnwr crefyddolion.
- Bugail ffydd â bagl a ffon,  
 Bugeilwriaeth bagl Aron;  
 I blas Mair fal balsamŵm  
 20 Band aeth swm bendith Simon?
- Erchi *i*’r Wryf arch ’r awron,  
 I unDuw fry’n waed o’i fron  
 Eiriol oes hir i Leision.
- 24 Dethol doethion, hydr dysgydron,  
 O grefyddwyr gwâr ufuddion;  
 Glaslwys glwyslôn glosydd gleision,  
 Noddfa *i*’n hiaith, nawdd Dduw fo’n hon.
- 28 Fal wybr y fâl o Ebron  
*Ei* chlog hi, ’r fynachlog hon;

Trwm yw'r plwm yn trumio'r plas,  
To dulas tai duwiolion.

32 Pob lliw'n y gwydr, pob llun gwiwdraul,  
Pa le drwy hwn, fal pelydr haul,  
Pyrth araul y porthorion.

Pur imperial pob iaith rial, pob athrawon.

36 Urddas gobau heirdd esgobion,  
—Oes aur siwels?—ares sywion,  
Ac aur yn gerygl, Naf eurnaf fernygl,  
A phinygl tair ffynnon.

40 Erfai mae ar wydr arfau 'merodrion,  
Arfau nen olau yn freninolion;  
Ar fawt sy ogylch arfau twysogion,  
Arfau Nedd gannoos, ar fain nadd gwnion;  
44 Arfau'r gwŷr gorau dan goron—Harri  
A'r muriau eglwysi o'r marmor gleision.

I nen fawr uchel yn y nef wreichion  
Goruwch 'y ngolwg archangylion;  
48 Y llawr i bobloedd holl wŷr Bablon  
Obry a weithiwyd â main brithion;  
Y clych a'r menyh â'r mwynion—foliant,  
Mynych 'Ogoniant' meneich gwnion.

52 Dyma lys eilmodd i deml Salmon  
Neu gaerau Rhufain goror afon;  
Menychlys a llys Lleision—sydd gyfuwch  
Â ffreutur sy uwch *no Phreutur* Siôn.

56 Ni bu adeilad bywydolion  
Na tho, *na* muriau, na thai mawrion;  
Ni bu ryw seilwydd, bu ras haelion,  
Na'i dderi o hyd 'r y ddaear hon;

60 Ni bu ac ni bydd y rhyw waith ar wŷdd  
Yr hwn ni dderfydd na'r dydd na'r don.

Tonnau grawnwin, tân gwerinoedd,  
Trilliw winoedd trallaw weinion;  
64 Tai byrnhawnwin tu brenhinoedd  
Trôi fyddinoedd, torfoedd ddynion;

- 68      Teml urddolwaith trwy rasolwaith  
           Trwm nefoliaith tai'r nefolion;  
           Tŷ rheolwaith trwy fanolwaith,  
           Tŷ duwioliaith y tadolion.
- 72      Naf ysgolion, nefwisg heiliawdr,  
           Wrdda' seiliawdr urddasolion;  
           Oen urddolion a wnâi ir ddeiliawdr,  
           I Fair seiliawdr fu *i* rasolion.
- 76      Eurwyd nennau uwch eu pennau  
           Teg o lennau y tai gleinion;  
           Yfferennau, ysgrifennau  
           Ar ddolennau, urddol union.
- 80      Erfai yw'r llys ar fôr llon;  
           Hyn o les a wnâi Leision.  
           E gair gwres yn y gaer gron,  
           E gair seigiau gwresogion,  
           A'r ceirw fry o barcau'r fron  
           A'r eogiaid o'r eigion,
- 84      A gwenith a phob gwinoedd,  
           Maer tiroedd a'r môr tirion.
- 88      Unifersi Nedd, llyna fawrson—Lloegr,  
                   Llugorn Ffrainc, Iwerddon;  
           Ysgol hygyrch ysgolheigion  
           I bob siens be bai Seion;  
           Ac organau i'r gwŷr gwnion,  
           Â mawr foliant ymrafaelion;
- 92      Arithmetic, music grymusion,—sofestr,  
                   Rhetric, sifl a chanon.
- 96      Berned lysoedd barned Leision,  
           Bid le Asa, 'r Abad Leision;  
           Beuno laswyr o'i ben, Leision,  
           Bo'i hoedl oesog, Abad Leision!
- Bid rhodd wrth ei fodd, Caerfaddon—Cymru,  
           Bid o law Iesu, Abad Leision.
- Oes oesoedd llysoedd Lleision, &c.

*Ffynonellau*

A—Card 2.623 [= Hafod 13], 35<sup>r</sup> B—Bodewryd 1, 163 C—Llst 165, 64  
D—BL Add 15003, 88<sup>r</sup> E—LIGC 436B, 138<sup>v</sup> (*llau. 1–20, 56–9, 94–7*)

*Ffynhonnell arall*

LIGC 13100B, 353

*Amrywiadau*

1 *B* ..lleisson.. 2 *D* ..hynawsion 5 *D* ..an penn 6 *C* ..flodeun 7 *D* ..euros..  
11 *B* a daeniel.. 12 *B* ..a llevad ynn, *A* ..lleuddod.. 15 *AE* ..Bernet, *B* ..i  
barnett, *D* ..Bernart 16 *B* bonwr kryf y doethion 18 *A–E* ..a bagl.. 19 *BC*  
..balsamwn 21 *ABC* erchi r wryf.., *D* erchi r wry.., *AD* ..awrhonn, *B*  
..yrowronn, *C* ..owrhon 22 *B* ..fry er gwaed.., *C* ..fryw waed.. 26 *ABC* 27–  
26, *B* glasdwys glwysdon.., *A* ..glesion 27 *A–D* noddfa n hiaith.., *C* ..nawdd  
Dyw fo i hon 28 *D* fal wybren fawr fal Ebron 29 *A–D* yw chlog.., *A*  
..fanachlog.., *D* ..fonachlog.. 30 *D* ..sy n trumnio r plas 31 *C* ..dywfolion  
32 *B* ..pob lliw.., *C* ..pob llaw.. 33 *D* peuliw.., *A–D* ..trwy.. 34 *A–D* ..araul  
porthorion 37 *D* aras hoyw aurwyau sywion, *AC* ..a res.. 38 *B* ..naf evmaf  
emygl 39 *D* tyrav a phinygl.., *C* ..phinagl.. 40 *B* evrai.., *C* ..ar hydr.., *D*  
..mherodron 42 *A* ..fawd.., *D* ar fwd.. 43 *AC* ..oes fain.., *B* ..oes vain  
gwnion, *D* ..gwynion 44 *A* arfau gwyr.. 45 *B* a..ar marwar.., *D* a muriau r  
eglwysi.. 46 *B* yn nen.. 48 *B* ..babilon 49 *A* o bru.., *C* ..weithiwd.. 50 *D*  
..molant 51 *B* mae n wych.. menychn.., *ACD* ..gwynnion 52 *B* dyna.. 53 *B*  
nav gavrav rhyfain.. 54 *B* nenn ychlys.., *D* ..sy.. 55 *C* a phreutar.., *D* ai..,  
*A–D* ..na.., *A–D* ..phreter.. 57 *ABCE* ..tho muriau.., *D* ..a muriau.. 58 *D* ni  
bu adeilad bywydolion 59 *D* neu i dderi.., *E* ..hyd yn y.., *AC* ..ar ddaear..,  
*BD* ..ar y ddayar.., *C* ..hen 62 *B* ..gwirionoedd 63 *C* ..winodd.. 67 *B* trwn  
nefolwaith.., *D* twr nwyfolwaith.. 69 *AC* ..duwoliaith.., *B* ..duwiolwaith.., *D*  
..duwoliaeth.. 71 *D* urdd i.. 72 *ABD* ..wnaei r ddeiliawdr, *C* ..a wna  
ddeiliawdr 73 *A–D* ..fu rasolion 74 *B* ..yn pennav 75 *A–D* ..lennau tai.. 77  
*D* ..ddalennau.. 78 *B* ..yw llys.. 79 *D* ..wna.. 81 *B* 82–81 82 *D* y ceirw.., *B*  
..barkiaiv.. 83 *B* ..oegied.., *C* ..egied.. 84 *D* y gwenith.. 85 *BC* mae r  
tiroedd.., *D* or tiroedd.. 87 *A* llugeru.., *B* llugerw.., *C* lluger a.., *D* ..ar  
Werddon 89 *D* ..bob syw fal pe bai Leion, *C* ..Sion 90 *D* ag aur  
ganu..gwynion 91 *D* ..amrafaelion 92 *A* arthmetic.., *B* art mussig.., *D*  
mathmatic music.., *ABC* ..sophystr, *D* ..safant 93 *B* rhetrig.. 94 *AC* Bernet..,  
*D* Bernad.., *E* beret.., *B* ..llysoedd..leisson 95 *ACE* ..yr abad.., *B* ..leisson  
96 *B* ..leisson 97 *B* ..ossawg..leisson 98 *AD* ..Cymry 99 *B* ..leisson

*Teitl*

A Odl a gant Lewys Morgannwg wrth Leision Abad Glynn Nedd a'r pedwar messur ar hugain ynddi ar ddull yr oes honno. *D* Llyma Awdl a gant Lewys Morgannwg, Pencerdd y Tair Talaith, i Leision, Abad Glynn Nedd, ai dymunes, er dysgu goreuon yr hen fesurau Cerdd dafawd i'r Prydyddion ieueinc a wahodded i Fonachlog Nedd i'r Cyfeistedd ar wyr wrth gerdd Dafawd a fu yno yn Amser y Brenin Harri VII, ag ar yr awdl honn y mae llawer o'r hên Fesurau gorchestol.

*Olnod*

*LIGC 13100B* Mi a glywais gan y Cymro a'r Bardd dysgedig hwnnw, y diweddar Morgan Llywelyn o Gastell Nedd, iddo weled mewn hen ysgrifen i'r Brenin Harri VII roddi Ysgrifen Ffaint i Abad Glynn Nedd i osod Prif Ysgol i fynydd yno, yr unrhyw a Rhydychen er lles y Cymry. ond daeth diweddar ar hynny o amcan yn y diwygiad a ddechreuwyd yn Amser Harri yr wythfed. Clywais yr un peth gan y Bardd dysgedig Dafydd Nicolas, o Aberpergwm, eithr mai nid y Brenin Harri'r Seithfed ond Siasbar ab Owain Tudur. a roes yr ysgrifen Ffaint, pan oedd yn Arglwydd Morganwg. ag mai ei farwolaeth ef a fu'r achos i'r amcan hynny fyned yn ddiffwrwyth. Efe a ddywaid wrthyf fod coffadawriaeth mewn hen Lyfr ysgrifenedig am hynny yn Aberpergwm iw weled hyd heddyw. Yr oedd yr Arglwydd Siaspar wedi bwriadu pethau o'r cyffelyb i leoedd eraill ym Morganwg. ag y mae fyth yn gadwedig fal y gwiriwyd immi'r ysgrifen ffaint a roddes ef i Dref Llanilltud fawr. ond bu farw cyn ei llofnodi. mawr y bu anffodau'r Cymry ymhob oes! Iolo Morganwg.

*Trefn*

*D* 1–20, 28–31, 21–5, + *i*, 26, + *ii*, 27, 32–4, 36–7, + *iii*, 35, + *iv*, 38–9, + *v*, 40–61, + *vi*, 78–93, + *vii*, 62–77, 94–7, + *viii*, 98–9

*i*

Y mae y prawf ym mhob bronn

*ii*

Aml ystor am hoywlys dirion

*iii*

A roe wynnion Rianedd  
Iw Dai ar Nedd o Dir Nonn



*iv*

Bardd yw in mysg  
 Bwrwed addysg  
 I Brydyddion  
 Geiriau dethol gwyr doethion  
 O grawn hir a gair yn honn

*v*

To cuwch a Sin yn teccau  
 Y Neuaddau newyddion  
 Lliw aur a gwyrdd llawer gem  
 O Gaersalem gras haelion

*vi*

Gyrr y meneich eu gwyr mwynion  
 Au gwyrdd arwisg i Gerddorion  
 Ail i rif gro ael yr Afon  
 Bwydau Llys yr Abad Lleision  
 Heddyw anhawdd iawn yw i ddyinion  
 Difanw y dwr a llu deifn y donn  
 Un anhawsed wrth bob hanesion  
 Yw enwi o les a wna Leision

*vii*

I gael addysg a byw n ei gwleddoedd  
 O dir a moroedd y daw r mawrion  
 Cawell gweiniaid cell yw i gannwr  
 Caer uwch y dwr lle ai cyrch y donn

*viii*

Bywyd yn wynfyd anfon o Nefoedd  
 Bid iw Lysoedd yr Abad Leision

*Moliant Water Herbert, Sain Silian*

- Y bw mawr,—ba wiw 'maros?—  
 I'r nen yn dân arnyn' dos.  
 Mae addo lladd am dduw Llun;  
 4 Mastr Water, moes droi atun,  
 Llew gwyn, bwyall ac onnen,  
 Llew o'r brut Iarll Herbart hen.  
 Y mae dynnod am derniaw  
 8 Er dial iarll ar dy law.
- Dyn i Went wyd ennyn dân;  
 Dydd daed, driaglwaed Rhaglan!  
 Ucha' gwaed ych a godwyd  
 12 Ond un iarll; o Odwin wyd.  
 Câr Iarll wyd, Cai, 'r iôr llwydwyn,  
 Cernyw, glain, câr Owain Glyn.  
 Iawn i ti, enaid dy iaith,  
 16 Iawnwaed dilys, ddwyn talaith  
 Iarll Dwywent, o'r lle deuen',  
 Iarll o Grofft ar holl Loegr wen.  
 Defnydd iarll, di-ofn i'w ddig,  
 20 O'r ddau waed, hÿn urddedig.  
 Arddelwch o'r ddau Wiliam,  
 O ddeufodd, gwaed Ddafydd Gam.  
 Ei wrolaeth lle'r elych  
 24 O briod waed, Herbard wych.  
 Taid oedd i'ch tad a wyddwn;  
 Ti wyt iarll wedy'r tad hwn.  
 Be bai da i bawb dewi.  
 28 Nid un daid; hwy dy *waed* di.  
 Neitia yn iarll atyn', nêr,  
 Nesáu'r wyt, nai Syr Water.  
 Ba enw y rhoir yn benrhaith  
 32 Eithr enw d'ewythr unwaith?

Wrth filwr y'th ddyfalent  
 Er cael oes gŵr, Ercles Gwent.

36 Nid dewrach un anturiwr  
 Na llew o gorff yn lle gŵr.  
 Dy far yn ddellt, dwyfron ddur,  
 Dy nerth fal y dyn Arthur;  
 40 Syr Bwrt o ais, Herbart, wyd,  
 Sy ar sut Syr Siors ytwyd;  
 Sarff Dewras o rifft eurwych  
 Sy ail dyn i Lawnslod wych;  
 44 Sail main da, Salmon Dwywent,  
 Sy lai ofn gŵr, sylfaen Gwent;  
 Saint Iorus tros anturwyr,  
 Siampler yw'ch gwychder a'ch gwŷr.

48 Symud d'enw, swm at henaur,  
 Syr Water, moes artr o aur.  
 Deau oedd i'th deidiau di;  
 Da o ditl doed iti.  
 Pan dynnych, pennod wnias,  
 52 Ym mraich cledd y Marchog Glas,  
 Deffro di, deffry Dwywent,  
 Dy holl waed, y llew o Went.  
 Dyred o Went i roi dydd,  
 56 Dyledog, rhwng dy wledydd.  
 Mawr yw gwenwyn 'Morgannwg;  
 Mwy ladd gwŷr; ymladd â gwg.  
 Gelwch borth, gwyliwch y bêl,  
 60 I gyd ewch â'ch gwaed uchel.  
 Chwi a wnewch hynny o waith;  
 Hawdd ywch hyn: heddwch unwaith.  
 Dwg yn un digynhennoedd  
 64 Eithr o'u dwyn da weithred oedd.  
 Ni fyn Lloegr, ofni'i llygaid,  
 Heddychu Cymru pe caid.  
 Ba *ferw* oedd, bai fâr uddun,  
 68 Be baen ni bawb yn un?

Parota'i wŷr, Pŷr wyt ti  
*Parod dioer, pe rhaid Harri.*  
 Pen a tharian Brytaniaid  
 72 A'u hateb plaen wyt, a'u plaid.  
 Bron Ector a chyngor chwyrn,  
 Brau yw'ch coed, braich y cedyrn.

- 76 Llygad y teirgwlad wyt ti,  
Llaw lawn yr holl haelioni.  
Duw rhoes iawn ynn dros hen waith,  
A Duw'n gwybod ein gobaith.  
80 Dyn wyt ti, enaid Dwywent,  
Dyna gorff a chapten Gwent.  
Dyn dewr dewr, d'enw o dri darn,  
Duw a'th geidw dithau gadarn.

*Ffynonellau*

A—Pen 100, 142 B—Pen 101, 224 C—Llst 133, rhif 43 D—LIGC 5474A  
[= Aberdâr 1], 242 E—LIGC 13064D, 6 F—BL Add 15038, 46<sup>r</sup> G—BL  
Add 10313, 47<sup>r</sup>

*Amrywiadau*

1 *FG* [1–49] 3 *ABC* ..ym.. 4 *DE* meistr..atyn 6 *ABC* a llew brut..herbert..  
*DE* ..Harbart.. 7 *ABC* mae..deyrniaw, *DE* ..dairnaw 9 *DE* ..o Wend..  
*E* ..wyt..  
10 *ABC* ..yn vn tan 11 *DE* ..vwch..  
12 *E* ..y godwyd 12 *DE* ..Edwyn.. 13 *ABC* ..iarll waed..  
14 *E* ..wyt..  
15 *D* ..caer.. 15 *DE* ..itti.. 17 *ABC* ..y deven,  
18 *E* ..douen 18 *C* ..o gorph..  
19 *E* ..grofft holl.. 19 *A–E* ..dy ofn oedd ddig 20 *E* yr..  
21 *D* ..ddeuwaed.. 21 *E* ..ar.. 22 *C* ..Dafydd.. 23 *DE* o..  
24 *ABC* ..herberd..  
25 *DE* ..Harbard.. 25 *DE* [25–6], *AB* ..vwch tad..  
26 *C* ..uwch taid.. 26 *ABC* ..wedi.. 28 *D* nid da it hyn..  
29 *E* ..daid tyn..  
30 *A–E* ..dywaid ti 29 *D* neita..y ner,  
31 *E* neitia r iarll..y ner 31 *DE* ..rhoed.. 32 *D* eithr dy ewythr di..  
33 *E* eithr d ewythr unwaith 33 *D* ..filwyr.. 34 *D* hael oes gwr Herciwles  
35 *Gwent*, *E* ..erulus.. 35 *D* ..yn.. 37 *D* dy fwa..  
38 *C* ..ddwyfron.. 38 *B* dyn nerth.. 39 *DE* ..Bwrdd..Harbard..  
40 *E* ..wyt 40 *E* ..sion yttwyd 41 *ABC* arf dioer o rif dewrwyd,  
42 *D* ..Rifft.. 42 *ABC* ..dynn.. 43 *DE* ..maen.. 46 *E* sampler..  
44 *DE* ..vwch..och gwyr 47 *DE* ..siom.. 48 *DE* ..artyr aur 49 *D* deheu oedd dy..  
50 *E* ..oedd eich.. 50 *FG* daf o dittil dyfod itti, *ABC* ..a doed..  
51 *D* pan dynner pond wynias, *ABC* ..pan wyd wynias,  
52 *E* ..pand wyd.. 52 *D* ymrowch gledd..  
53 *E* ymrhowch cledd..  
54 *FG* ymroch cledd.. 53 *DE* ..dy ffrirw.. 55 *DEG* ..i Went..  
56 *E* ..i rhoi.. 56 *ABC* dilidiog..  
57 *FG* deiliedawc..  
58 *ABCG* ..dwy wledydd 58 *ABC* mwy i ladd..  
59 *F* ..lladd.. 59 *ABC* gwelwch..  
60 *D* gelwch bawb..  
61 *E* celwch bawb.. 60 *ABC* ..a gwaed.. 61 *E* ..a wnaith 62 *DE* ..ich hynn..  
63 *FG* ..hynny.. 64 *F* ..ai dwyn..  
65 *A–D* ..i dwyn..  
66 *D* ..dy weithred.. 65 *D* neu fyn..o fewn llwygaid, *ABCFG* ..ofni llygaid,  
67 *E* ..o fewn llyggaid 66 *F* heddych kymry be kaid,  
68 *G* heddwch Cymru cu be caid 67 *ABC* ba fawr..  
69 *DE* bu fawr..  
70 *FG* bai vawr..  
71 *G* ..bu fa r..  
72 *AB* ..iddyn, *C* ..iddun, *DFG* ..ryddyn,  
73 *E* ..ruddun 68 *DE* yw pe bae ni pawb..  
74 *F* bebaenn bawb..  
75 *C* ..un un 69 *FG* [69–70], *AC* parattoi wyr..  
76 *B* parattoi r wyr..  
77 *DE* parotta wyr..  
78 *A–E* ..pvr.. 70 *ABC* parattoir pvr at harri,  
79 *D* paratoer pae raid..  
80 *E* paratoyr pay.. 72 *ABC* ..hatteb blaen..  
81 *D* ..hatteb plaen..  
82 *EFG*

..hate plaen..., *G* ..wyd., *BE* ..oi plaid 74 *DE* ..vwch.. 75 *B* ..treiglwlad.. 76  
*F* llawlaw..., *G* lawlaw..., *D* ..haelion 77 *DE* [77–8], *FG* ..a roes..henwaith  
 79 *DE* vn wyd di.. 80 *DE* ..chadpen., *FG* ..chatben.. 81 *D/E* dyn da dewr  
 dy wayw n dri / waew dri darn, *FG* .. d enw n dri..

*Trefn*

*DE* 1–24, 27–32, 39–48, 51–2, 49–50, + *i*, 33–8, 53–76, 79–82

*i*

Dy ofni mae n dyfn eu Mer  
 Ys dewr wyt ti Meisdr Water

*Marwnad Syr Siôn Rhaglan, y Carn Llwyd*

- Pa wylofain? Pa lifoedd?  
 Pam yw'r llef pai am Iarll oedd?  
 Pam yw'r cwyn? Pwy mawr cennych?  
 4 Pam yw'r och? Cwypm marchog gwych.  
 Marw Syr Siôn, Emrys, roes aur,  
 Rhaglan, rhwydd fu'r glain rhuddaur;  
 Marfolaeth, mwy rhyfelent,  
 8 Milwr o gyrff milwyr Gwent;  
 Marw capten fal Custennin,  
 Marchog aeth, llai meirch a gwin.  
 Mae gŵr o'i ddwyn am Gaerddydd  
 12 Mal Rhufain milwr efydd:  
 Ei lun a'i farch, glân ei fod,  
 Yn aur fydd anrhyfeddod,  
 Gwaed Wilym, gyda'i elawr,  
 16 Eithr ei holl waed aeth i'r llawr.  
 Lladdfa ar lwyth, llwyddfawr lin,  
 Lleihau gwaed hen ieirll Godwin.  
 Mae'r un llwyth mawr yn lleihau,  
 20 Nid amheuthun, waed Mathau.  
 Wyr Syr Rhoser—oes rasol?—  
 Fychan âi i nef. Och ni 'n ôl!
- Duw a'i ddymod oedd arnam;  
 24 Difaodd gweilch Dafydd Gam.  
 Dau iawnwaed aeth dan y don  
 Dan gŵyn: Iestyn ac Einion.  
 Ni bu o'u gwaed, wyneb gŵr,  
 28 Ni thyf, ail y fath filwr.  
 Llun Rolant yn llanw'r elawr,  
 Llyna gorff ail Leon Gawr.  
 Ar filioedd yn rhyfelu  
 32 Ac ar farch gorau a fu.  
 Arfau sydd ar faes heddiw;  
 Ni 'mweddan' byth am ddyn byw,  
 Ac am orchest, gwayw marchawg,  
 36 Nid â, 'n rest, undyn yrhawg.

Mae'n ddrwg 'Morgannwg weinion.  
 Mae'r sir sy waeth marw Syr Siôn?  
 Mawr o gŵyn am ŵr gennyf;  
 40 Mae'n wag gwŷr da mainc Caerdyf.  
 Ei wŷr aethon', hiraethynt,  
 I lanw gwyllt yn ôl Noe gynt.  
 Yn llaw angau y'n llongwyd  
 44 Acwy *i*'r un llong o'r Carn Llwyd.  
 Ba liw heli ble hwyliant?  
 Ba dir—och!—o'r byd yr ânt?  
 Och hyfryd wlad uwch Hafren!  
 48 Och! Gwae 'ntwy oll, gweilch Gwent hen!  
 Och marw'r gwalch yma rôl'r gwin!  
 Och marw bron Gwalchmai'r brenin!  
 Ba fawr dwrf bai feirw dewrion  
 52 Bob syr Sais, bai byw Syr Siôn?  
 Ni ddaw amser cwncwerwr  
 Lle daw mwy golled am ŵr.

Arglwydd Naf, arglwyddi nes,  
 56 Erglyw weddi'i arglwyddes.  
 Gwae hi fyth o'i gof weithian  
 Gladdu Siôn, Arglwyddes Ann.  
 Mwya'i chŵyn am wych unoed,  
 60 Ferch *a* gwraig, farchog, erioed.  
 Eyllt lân am Drystan draw,  
 Un dristach yw *Ann* drostaw.  
 Ochain hon, â'i hachwyn hi,  
 64 Achos oedd, chwech oes iddi.  
 Rhyfedd, pai *i* hon bron o bres,  
 O waith hiraeth na thorres.  
 Beth aeth, bu ddiobaith hon,  
 68 Bid mwy obaith bod meibion:  
 E dyf o'r braisg glodfawr bren  
 Eto wŷr o gaterwen.

Hwyr o wŷr rhif Harri 'rhawg,  
 72 Hwyr o feirch ei ryw farchawg;  
 Hwyr o alawnd rialwych,  
 Hwyr o gorff ei ryw ŵr gwych;  
 Hwyr i iarll Sais drwy'r holl Sieb  
 76 Hwyr ennill ei ryw wyneb;

80

Hwyr i wraig fronhau ar ôl,  
 Hwyr o urddas ryw urddol;  
 Hwyr yr eurir rhyw aerwy,  
 Hwyr un math i Raglan mwy.

*Ffynhonnell*  
 Llst 164, 150

*Darlleniadau'r llawysgrif*

6 ..ve r glain rvddavr 11 ..yw ddwyn.. 26 ..Einon 44 accwyr vn.. 45 ..ble  
 i.. 57 ..weithan 60 verch gwraig.. 62 ..yw am.. 65 ..pai hon.. 71 ..rawg 72  
 ..rhyw.. 79 ..i aurir ryw..



*Marwnad Dafydd Cemais, Llaneirwg*

- Pa hudol? Pwy a'i hedwyn?  
 Peth o stad? Peth yw oes dyn?  
 Peth rhyfedd yw arfeddyd;  
 4 Pand rhyfyg benthg y byd?  
 Os dwy awr oes daearol,  
 Oes hir ynn a sy ar ôl.  
 Dyn a roed i anrhydedd;  
 8 Ddoe'n fyw, heddiw yn ei fedd.
- Marw Dafydd, Morda' afael,  
*Mawr* fu *i*'r hil *marw* Ifor Hael.  
 Mawr cwyn hael marw cynheiliad,  
 12 Mawrgwyn dydd Morgan, ei dad,  
 (Dwyn einioes, waed Einion Sais,  
 Duw a'i cymerth, waed Cemais.)  
 A mwy'r gŵyn ym Morgannwg,  
 16 Mawr cwyn llef ym mrig Gwaunllŵg,  
 Dwyn llew'r Grant dan llawr a gro,  
 Da synnwyr iustus yno.  
 Llen ddu ywch, lliain a ddwg,  
 20 Llen fu *i* lawr Llanfileirwg.  
 Bwrw Cemais, bu ŵr cymen  
 O baladr hil Bledri hen.
- Eisiau'r doeth i'n sir hyd Wy  
 24 Sy ar faenor sir Fynwy.  
 Dwyn sylfaen, dinas hawlfainc,  
 Dyna fwlch er doe 'n ei fainc.  
 Os deisyf ar iustusaeth,  
 28 Ys gwae'*i* ran. Da 'sgwïer aeth.  
 Da i'r wlad, gwrol ydoedd,  
 Da a chryf gyda chywir oedd.  
 Da i Wy, bro Wysg dir â braint,  
 32 Da gwrol gyda'i geraint.

Mae'i briod, em obrwyol,  
 Mae'n drist mewn du ar ei ôl.

36                   Gwraig o fonedd drist heddiw,  
Rhywioglan waed Rhaglan yw.  
Gwae hon orig gan hiraeth,  
Gwae yr ŵyl wedy'r gŵr aeth.

40                   Cynnal plas a phwrcasu  
Hwn i bawb, a hon, y bu,  
A rhoi yma 'nglan Rhymi;  
Rhoes ym aur a'i roeso i mi.  
44                   Bu lawen, un wên â Nudd,  
Bu 'n y tefyrn; band Dafydd?  
Draw o'i drafael drwy drefydd  
Adre' doeth heb dorri dydd.  
48                   Y dydd yn ei fedyddiaeth  
Â Duw Nef ei gadw a wnaeth.  
Duw a dyrroedd daearol;  
Ing un nos angau 'n ei ôl.  
52                   Dyn a dyr adyn deirawr  
Eithr â Duw ni thorrid awr.

                      Duw fo ddug Dafydd dda  
Wedy amod byd yma.  
Myned Wiliam yn daliad;  
56                   Mae eto iawn am y tad:  
Mawr o genedl Morgannwg,  
Mwy yn holl Went am Waunllŵg.  
60                   Fo gâi'r mâl fagu o'r mêr  
Osog ieuanc fo 'sgwier.  
Dalied megis y dylly  
Meddwl y tad am ddaly tŷ.  
64                   Gorau bri pob gŵr â braint,  
Glod, a gair, gwlad a'i geraint.  
Bid Wiliam, byw adeilad,  
Deiroes, a'i dai, dros ei dad!

*Ffynhonnell*  
Llst 164, 125

*Darlleniadau'r llawysgrif*

4 ..rhyvig benthig.. 7 ..rhoed.. 10 marw vu r hil mawr.. 13 ..einoes..Einonn..  
16 ..gwaen llwg 20 ..vu lawr.. 23 eisav r doeth ynn sir.. 28 ..gwae rann..  
31 ..i wybro.. 34 mae in.. 38 ..wedi.. 41 ..rymmi 42 roes.. 46 ..i doeth.. 51  
..a dyn.. 54 wedi.. 60 ..ieang.. 65 ..ydeiliad

*Diolch i Wiliam Herbert am fantell*

- Oes glendid nes galw undyn?  
 Herbard wych, hir y bo'r dyn!  
 Mae wŷyr iarll am Gymru iaith;  
 4 Mastr Wiliam, oes draw eilwaith!  
 Mae pryd ywch, mab hir â dart,  
 Oes, Duw a'i rhoes, Mastr Rhisiart:  
 Lliw gwreiddfath iarll graddfawr,  
 8 Haela' lliw rhwng haul a llawr.  
 Enaid Euas, wyn Dwywent,  
 A glan Gwy ywch, galon Gwent.  
 Wŷyr i iarll yw'r iôr eurllwyd,  
 12 A'i nai, 'r iarll, â'i enw yr wyd.  
 Eirch Harri euro'ch aerwy;  
 Ym obaith fyth am beth fwy.  
 Aros dydd o Ras y dêl;  
 16 Ymroi 'dd ywch am radd uchel.  
 Rhyw yd aros, rhod Urien,  
 Roi glin aur o Raglan wen  
 Fry, a'ch galw Farchog Wiliam,  
 20 Mor wych corff â'r Marchog Cam;  
 Marchogfath fal Syr Mathias,  
 Marchocliw wyd Marchog Glas.
- Wiliam, wyd dâl am y taid,  
 24 Herbard, dyn i'r Brytaniaid.  
 Wylant drennydd blant Ronwen  
 Ofn y wat o Fenni wen.  
 Os am unbrad maes Manbri,  
 28 Am laddiad ieirll ymladd di.  
 Tyn gledd fal tân glew uddyn',  
 Tor iadau ieirll; ti yw'r dyn.  
 Nid â ynod yn d'ainioes  
 32 Ofn dyn ar sy fyw yn d'oes.  
 Dyn od ei law, 'n dân dy lid,  
 Od i Lundain dy lendid,  
 Un o alawnd, anwylwyth,  
 36 Harri Wyth yn Nhroea wych.

Un o waetwyr hwn ytwyd,  
 O'i lys wrth ei feddwl wyd.  
 Ym mhob gwychder arferyn',  
 40 Ym mhob dull, âi mab y dyn.

Nid annwyl y da ennyd,  
 Ni roddi bwys ar dda byd.  
 O dda rhydd y ddaear hon  
 44 At ddegoes yt Duw ddigon.  
 Rhoi win yn fraisg; rhannu'n frau  
 Aur a wnaud yn ddyrneidiau.  
 Rhoist i fardd, aur ystof wisg,  
 48 Rhyw dudedd anrhydedd wisg.  
 Hael y rhoist, heiliwr, ei win,  
 Herber wyn, yn nhŷ'r brenin.  
 Rhodd mawr aur rhudd am aerwy;  
 52 Ni roed i fardd erioed fwy.  
 Ni roesant y rhyw oseb;  
 Nes wŷr hen iarll nis rhôï neb.

Brodied ffelwed a phali,  
 56 Bryd y mab, Herbard, i mi:  
 Breuder hael yn brodio rhwyd  
 I Baredur y brodiwyd.  
 Gwladfardd wyf, glodfeirdd afael,  
 60 Gwelwch 'y mhais, Gwalchmai hael:  
 Gwisg Wiliam megis Galath;  
 Ni wisgan' feirdd wisg un fath;  
 Gwawr ddeuliw, gwe urddolion,  
 64 O frwydau Groeg, i'r Ford Gron;  
 Gwythi aur tawdd, gwaith o'r tân,  
 Gwythi eraill gwaith arian.  
 A fu olwg dan felwed,  
 68 Satyn graen, o'i sut dan Gred?  
 Wybren ddu bryn Iddewon  
 Ym mhelydr haul aml drwy hon.  
 Eilio erw'n wiail arian,  
 72 Ar len am wŷr liniau mân.  
 Marchog wyf ym mharch gwiwfeirdd;  
 Mae wisg o'i bath ymysg beirdd?  
 Gwisg ffres megis eog Ffranc,  
 76 Gwawn o nef a'm gwna'n iefanc.

Ail Padarn o help ydwyf,  
Hapusrodd wisg Peisrudd wyf.

- 80 Brau os wyd yn bwrw sidan,  
Brau yw dy lwc, Herbard lân.  
Glana' dyn o galon dâr  
Wyt ti sy'n cerdded daear.  
84 Os daly ynys wyd lanwych  
Ac os gŵr ar law gwas gwyich.  
Herbard hir, be rhaid Harri,  
Dalied oll ar dy law di.

### *Ffynonellau*

A—Pen 64, 157 B—BL Add 14866 [= RWM 29], 180<sup>r</sup> C—Card 2.40 [= RWM 26], 76 D—BL Add 31090, 8<sup>r</sup>

### *Amrywiadau*

3 *BCD* ..gymry.. 5 *BCD* ..uwch.. 7 *D* ..gwreiddvach.. 9 *D* ..wen.. 10 *BCD* ..uwch.. 11 *BCD* wyr iarll., *A* ..a ior.. 12 *BCD* a nai..oi enw ir wyd 22 *A–D* marchowgliw.. 24 *BCD* ..yr Bryanniaid 25 *A* ..rronnwen 29 *D* ..yddyn 33 *A–D* ..law dan.. 39 *BCD* ..gwchder.. 40 *ABD* ..at mab.. 44 *D* ..dduw.. 46 *D* ..wnaid.. 49 *A* ..roist.. 50 *A* ..yn hy r brenin, *BCD* ..yn hy brenin 52 *A* ..irioed.. 53 *A* ..ryw.. 54 *BCD* nes wyr iarll hen.. 55 *BD* ..ffvelved., *C* ..velved.. 56 *BC* ..y mi 57 *A–D* ..brodi.. 58 *CD* i Beredur.. 64 *A* ..y vord.. 69 *BD* ..ddyw., *A* ..eidewonn 74 *A* ..i bath.. 76 *D* ..gwnai.. 80 *C* ..Herbart.. 83 *A* a daly., *BCD* ..dal.. 84 *A* ..oes gwr.. 85 *A* ..hir [ ] ra [ ] harri

*Moliant Wiliam ap Siôn ap Tomas, Treowain*

- Y llew o hil y ieirll hen,  
 Iarll Efrog geirllaw Hafren,  
 Wiliam, nid oes lew mewn dur  
 4 —Oes bryd?—nes i Baredur.  
 Syr Gwalchmai un bortreiad  
 Sy o Went wyt Siôn y tad.  
 Un asau wyd yn y sias,  
 8 Un dymer, â hen Domas.  
 Pendefig imp hen Dafydd,  
 Tebyg, bendefig, bob dydd.  
 Mae o'i hil ffordd mae heulwen,  
 12 Oes, nawcan hil Siancyn hen.  
 Gorau dau waed, gwyrda, ym,  
 Gadwaladr, â gwaed Wilym.  
 Brenhinwaed barwn henwent,  
 16 Pen i'r gwaed pai Ynyr Gwent.  
 Ifor genedl Forgannwg,  
 Arwain dorch; Aron a'i dwg.  
 Nid uwch coed, i chwi codynt,  
 20 No thyfiad gwýdd Waithfôed gynt  
 Doent Fynwy, Dwywent faenawr,  
 Deheudir, mab Dewdwr Mawr.  
  
 Mawr yw'ch cyff; o Gymry'ch cad;  
 24 Ywch mwy air a chymeriad.  
 Gŵr o waed a gair ydych,  
 Gŵr ymysg gwŷr grymus gwych.  
 'Sgwier Gwent, aros geirw Gwy  
 28 Sy war fanaur sir Fynwy.  
 Os ti sydd iustus heddiw,  
 Heddwch byth, a'i haeddo, i'ch byw.  
 Cywir ar fainc y rhoi'r farn,  
 32 Cefnog wyd, cyfiawn, gadarn.  
 Nid aeth gair doeth a gwrol,  
 Nid âi i'th oes, naid i'th ôl.  
 Neitia rwn ar Went â'r iau;  
 36 Naid ydoedd dy hen deidiau,

40 Tre dad, 'y nhad, tridyn hael,  
 Treowain, lle bu'r triael;  
 Tre aml bwyd teirmil o bydd,  
 Tre lawn llyn trwy lawenydd;  
 Tre Cai Hir i'r tir rhag cam,  
 Tŷ gŵyl Tegau a Wiliam.

44 Cytuned, cyd dwy einioes,  
 Constans a Chwstans chwech oes.  
 Eigr Tomas i'th gwert yma,  
 E aned hon o waed da:  
 48 Dau fonedd Gwent hyd Fynyw,  
 Morgan a'r Fychan, sy'n fyw;  
 Dau uchel waed ywch i wledd,  
 Dau'n bennaf dawn a bonedd;  
 Da deidiau merch, dad a mam,  
 52 Da'i dyly, da wyd, Wiliam.

Ba wyneb,—ni bu anwr—  
 Ba gorff â mwy gampau gŵr?  
 56 Maner ac arfer, pob gwisg,  
 Rhyw filwr, i'th ryfelwisg  
 Od ai 'n rhaid, yno rhoi win,  
 Wrthfawr ynys, â'th frenin.  
 60 Lle 'dd â'r iarll, Lludd, ŵr eurllywd,  
 A chyda'r iarll gwychder wyd.  
 A'th frodyr nerthfawr ydynt;  
 Bu lai o gorff Beli gynt.  
 64 Lludd froder lluoedd fredych;  
 Llyna i Went Gaswallon wych.  
 Goresgynny, gras gennywch,  
 Glain Gwent, mor galonnog ywch.  
 Geirddoeth wyd, gwirDduw i'th adael,  
 68 Gosawg â champ, gwas gwych hael;  
 Gwalchmai ynn a gylch Mynwy,  
 Gyw eryr Gwent, goror Gwy.  
 Gwir Grist â'r gwayw ar y Groes,  
 72 Galw ar hwn gael hir einioes!

*Ffynhonnell*  
Llst 164, 114

*Darlleniadau'r llawysgrif*

18 ..a dwg 19 ..ywch.. 34 ..yth ol 37 ..yn had.. 38 ..bu y triael 43 ..einoes  
44 ..Chwstans.. 56 ..rhyvelwsg 58 wyrthfawr.. 59 ..llvddwr.. 64  
..Caswallon.. 67 ..gwirdduw th adael 69 ..yna gylch.. 72 ..einoes



*Moliant Syr Wiliam Morgan, Pen-coed*

- Y llew bronwyn ieirll brenin  
 Â thorch Galâth,—aur i'ch glin!—  
 Marchog aurdorchog mewn dur,  
 4 Mawr wyt wrthynt 'mort Arthur;  
 Siarl-y-maen sy ar lu Mawnt,  
 Syr Wiliam, Sain Siôr alawnt.  
 Syr Tomas a urddasent,  
 8 Sulien oedd, Syr Gawen Gwent.  
 Mawr o waed Cymru ydynt,  
 Mawr, ac un gŵr Morgan gynt.  
 Ni thyf imp o feth fwmpa;  
 12 Ffynned imp o gorff un da.  
 O Ffylip a chyff Wiliam  
 E dyfoedd gwŷdd Dafydd Gam.  
 Ba waed ieirll yn y byd ym  
 16 —Ba dylwyth?—heb waed Wilym?  
 Daly, o'th ryw, 'r dalaith ar hed,  
 Doi, nai Ifor, i 'Dnyfed.  
 Pand uchel gwaed Llywelyn  
 20 Petud Rys ap Tewdwr wyn?
- Ti yw Ynyr Gwent unoed,  
 Tywysog gwŷr Gwent Is Coed;  
 Syr Ffwg Godwin, sarff cadarn,  
 24 Salmon bwyll neu Sawl mewn barn.  
 Hydd gwâr Moreiddig Warwyn  
 Wyt â'r waeg aur o'r Tŵr Gwyn.  
 O radd, oesog, urddasaf,  
 28 Marchog gwych, yng Nghymru'ch caf.
- Mae'r tŵr o Went am war traeth  
 Fry'n henwog trwy'r frenhiniaeth:  
 32 Plas gŵr gwych, plisg aur ei gyrn,  
 Pen-y-coed, pai naw cedyrn;  
 Tŷ rial fal tŵr Ieuan,  
 Tabernagl Went barwn glân.

36 Seigiau aml i'n mysg yma;  
 Oes un dyn heb fenswn da?  
 Oes gŵr ymysg ei werin  
 Na bai lwyth ddwyn bôl o'th win?  
 40 Dy drysor, dad yr oesoedd,  
 Dy blât yn ei dyblu oedd.  
 Dy arfau i'th lu dirfawr,  
 Dy wŷr meirch, fal y derw mawr.

44 Pwy sy'n dwyn pas yn d'eiioes  
 Mor wych gradd marchog o'r oes?  
 Mae aur braisg am war a brig  
 Mor hardd waed mawr urddedig,  
 48 Uchelfeistr goruwch hawlfainc,  
 Uwchder ffrîw ar wychder Ffrainc.  
 Lloegr baent oll a'i gwŷr—band tau?—  
 Lle baud mae'r holl wybodau.  
 Ni bu'n ei gwert, unben gwyh,  
 52 Harri, 'rioed ryw ŵr ydych.  
 Ti a roi i wŷr at ei Ras  
 Tra gerddych nortr ac urddas.  
 Os enwir pwys synnwyr pen,  
 56 Emrys waywfraisg Mars Hafren,  
 Cai 'Nghaer-wysg roi cyngor 'rhawg,  
 Cwrt isod caer y twysawg.  
 Cân di *i'w* gorff, cenud y gainc,  
 60 Can sylfaen y cwnselfainc;  
 Ord, a chawg, aurdorchogion  
 O fertyw gradd y Fort Gron.

64 Yr oedd ffydd ar ddiffoddi.  
 Ennyn hon. Uniona hi.  
 Rhoi i Dduw i lawr y ddau lin,  
 A'th far onn, gyda'th frenin.  
 68 Dwg Wentoedd, da yw gantun,  
 At ein iarll; doed Deau'n un.  
 At Harri ewch, y tair iaith,  
 Yn un awn yno unwaith.  
 Syr Wiliam, os ar aliwns,  
 72 Sefy'n y gad, sy faen gwns.  
 Beli Mawr,—ble mwy eurwyd?—  
 Bôn' naw oes, a'th feibion, wyd.

- 76 Barwn wyt ti o brint aur,  
Bron Powls, fal Brenin Pelaur.  
Bydd iach iawn, byddwch henwr,  
O bydd hen derwen neu dŵr.
- 80 Duw a'th wnaeth dithau, ein naf,  
Â deunyddiau'r dyn Addaf.  
Ni chawn oll, berchen wellwell,  
Enaid o nef, un dyn well.

*Ffynonellau*

A—Llst 164, 143 B—Pen 96, 157 C—Pen 99, 337 D—Pen 101, 188 E—  
CM 12, 171

*Amrywiadau*

1 *E* ..bronwych.., *B* ..iarll.. 2 *ACD* ..ych glin 5 *ACDE* ..mawnd 6 *ACDE*  
..alawnd 9 *CDE* ..kymry.. 11 *B* ..vath pwmpa, *E* ..uwmpa 14 *B–E*  
..dyfodd.. 16 *A* ba dalaith.. 17 *E* dal.., *A* ..rhyw..a rhed 18 *A* dav.., *B* ..o.., *E*  
..Ifor Ednyfed 19 *CDE* ..lywelyn 23 *D* ..gadarn 24 *A* ..nei.. 26 *B–E* ..og  
avr.., *B* ..ar twr.. 27 *B* ..ossawg.. 28 *A* ..ynghymry.. 29 *B* ..o wetr traeth 31  
*B* ..gwr gwy.. 32 *CDE* ..nuw kedryn 33 *B* ..rreal.., *A* ..lean 34 *A–D* ..i  
went.. 35 *A* ..ein.., *B–E* ..yn mysg.. 36 *A* ..dydd.. 38 *E* ..llwyth.. 40 *B–E*  
..blad.., *E* ..in yn.. 41 *CD* ..yth lv.. 44 *B* ..or groes 45 *D* ..aer.. 46 *E* ..mor  
urddedig 47 *B* vwchelfeistr.., *E* ..haelfainc 48 *E* uchter.., *B* ..wchder.. 52  
*ABE* ..rhyw.. 53 *E* ti roi.., *A* ..a rhoe wyr.., *B* ..roi wyr.. 56 *A* ..waewfreig..  
57 *A* ..rhoi.., *B* ..Rraw kyngor hawg, *ACDE* ..hawg 59 *A–E* ..di gorff.., *AE*  
..cenyd.., *BCD* ..kennyd.. 61 *D* ord.. 62 *BCD* a.. 63 *B* 64–63, 66–65 65 *AB*  
rhoi dduw.., *E* rhoddi i lawr.. 66 *CDE* ach barr onn gyd ach brenin 67 *CD*  
dwy.., *D* ..ganlyn 69 *B* ..yn tair.. 71 *A* ..oes.. 72 *B* sef yn.. 73 *A* bel mawr  
ba le.., *CD* ..i aurwyd 74 *B* bo naw oes math beion wyd 76 *A* ..val barwn..  
77 *B* ..iach ynn.., *CDE* ..iach hen.. 79 *D* ..a wnaeth..

*Moliant Syr Tomas Morgan, Pen-coed*

- Ym Mwlen y canmolent  
 Meirch a gwŷr marchog o Went.  
 Mae'n y cwrt ym Mhen-y-coed  
 4 Meirch ac ordr marchog eurdroed.  
 Mae aur yr Wyth mawr ei ras  
 Mal sêr twym, ail Syr Tomas:  
 Torch a huc aur torchog Cam,  
 8 Twyts aur ail y tad, Syr Wiliam.  
 Tair torch lle'r wyt, w'r y tŷ:  
 Tad a thaid, dithau wedy.  
 Morgan, post mawr â gwin pêr,  
 12 Braisg wayw, ni bu'i ryw 'sgwier.  
 Mil o'th daid, aml lwyth Dewdwr,  
 A'r rhain o gorff yr un gŵr.  
 Ail Alath o Lywelyn  
 16 Sy'n ail i'w dad; Lawnslod ynn.
- Ystiwart, iustus Dwywent,  
 Ar Waunllwŷg, arwain holl Went.  
 Oes pen, os hapien', dros Wy?  
 20 Oes war fanaur sir Fynwy?  
 Da y gwedd aur, dwg a ddêl,  
 A roed ywch ar waed uchel.  
 Mawr yt waed Gymru hyd hyn;  
 24 Mwy, 'n Lloegr, oedd, mae naill gwreiddyn.  
 Aml rhyw ieirll, mil o'r rhain,  
 Ieirll Brydys drwy holl Brydain.
- Oes hir, arglwyddes a'i hil,  
 28 Oesoesoedd, i Dâm Sysil!  
 Merch, a gras, marchog, ar wen,  
 Syr Siors,—hiroes i'r seren!  
 Llwyddiant i nith iarll heddiw!  
 32 Lloer i'r iarll a'i orwyr yw;  
 Bronwen o winwydden nêr,  
 Braens hirbell hen bryns Herber.

36 Nid âi'i orwyr i deirrent  
 O'r math Syr Mathias o Went.  
 Os rhoed diemwnt, Syr Tomas,  
 Rowntabl o Went rhoent dy blas.  
 40 Ni wn winllys un winllawr  
 Ond y fath yn Iwda fawr:  
 Tŵr i gynnal trugeinoes,  
 Tŷ i wŷr a meirch, nortr i'm oes;  
 44 Tai o gwmpas teg *unporth*,  
 Trychan punt trwy eich un porth.

Tros dŵr yr anturiaist ti  
 A thir gyda'r Wyth Harri.  
 Enillaist air ni allent  
 48 Fry, a'ch gwŷr, farchog o Went.  
 Mynd draw mintai wŷr ieuainc,  
 Mor ffres nid âi Gymro i Ffrainc.  
 Tair ystâl y troes dy wŷr  
 52 Trwy Fwlen, Gwent ryfelwyr.  
 Ein brenin biau'r ynys,  
 Rhôï gledd ar waed Arglwydd *Rhys*,  
 Gradd naf o gaer Ddinefwr,  
 56 Gwrolaf, gwychaf un gŵr.

Glana' un galon o einioes,  
 Glendid a'th ddilid i'th oes.  
 Gwalchmai wiwgoel y'ch magwyd;  
 60 Gŵr o'i fath meddylgryf wyd;  
 Antur chweugain torchogion,  
 Fertyw gwŷr wyd y Fort Gron.  
 Aut ar foliant, ryfelwr,  
 64 At y rhyw gais, antur gŵr.  
 Dy ffriw o'u tyb Godffred hen  
 Drwy filioedd draw o Fwlen.  
 Ar elynion rhoi lawnwaith  
 68 Y pryns hir, mab Harri Saith,  
 A hwn a rydd—hen fo'i Ras!—  
 At dy eurdorch yt ardas  
 A theiroes wrth eu harwain  
 72 *Esgair* wych i wisgo'r rhain.

*Ffynhonnell*

Pen 96, 161

*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 veirch..varchog.. 5 ..y 8.. 8 ..ail tad.. 12 ..bv ryw.. 14 a Rrain.. 16 ..i  
 dad.. 17 ..vstis.. 19 oes penn is hapen dros wy 22 ..vwch.. 25 ..or hain 26  
 ..brvdssys.. 32 ..yr jarll.. 33 brennwen o winwdden.. 35 ..ae orwyr.. 43  
 ..ymporth 52 ..rryfelwyr 54 ..rys 56 ..gwchaf.. 58 glendith.. 63 ..rryfelwr  
 66 ..filoedd.. 69 ..foi i ras 72 is kaer..

*Marwnad Siôn ap Tomas ap Morgan, Caerllion*

Mae lliw du am holl Dwywent,  
 Y mae'r llef marw llew o Went.  
 Y mae ochi 'Nghaerllion,  
 4 Oes deiroes och am Meistr Siôn,  
 Mab marchog i'r Grog a'i Ras,  
 Mesur teml am Syr Tomas.  
 Marw llewpart mawr holl epil,  
 8 Marw, gwanhau Morgan a'i hil.  
 Fal pont aeth oll i'r draethen  
 Yw ffaelu post Ffyllib hen.  
 Bwrw colofn o barc Wilym,  
 12 Bwrw, bai tŵr, heb arbed dim.  
 Bwriwyd o lwyth Herbard lin  
 Braens o goed hen bryns Godwin.  
 Briwo derwoed bro Deirgwent,  
 16 Bwrw dâr o goed brodir Gwent.

Marchog oediog a'i gadwyn  
 Ym Mhen-coed am hwn y cwyn.  
 Syr Wiliam, eisiau'r aelawd  
 20 Sy friw i ŵr, eisiau'i frawd.  
 Dwyn brawd a wanha brodyr;  
 Dwyn ystôr Gwent dinistr gwŷr.

Rhoi ar elor ryw Wiliam,  
 24 Haelgorff o gorff Dafydd Gam,  
 Meirw mae gwŷr, murmur gynt,  
 Moreiddig, gwaed mawr oeddynt.  
 Marw llywiauwr muriau Llïon,  
 28 Âi moes tair sir, y Meistr Siôn.  
 Marw eu parch mawr a'u perchen,  
 Marw eu pont a'u maer a'u pen.

Unben y dref wen dra fu  
 32 At haelion, a'u penteulu.  
 Dawn pob tref fu'r pendefig  
 O aber Wysg hyd ei brig.

- 36 Nid tref yn neutu'r afon,  
 Nid mawr sir wedy marw Siôn;  
 Nid gwindai, nid gwiw undyn,  
 Nid talu da, nid hael dyn.  
 Mawr cwyn nid marcio anhael  
 40 Beunydd cwyn bonheddig hael.  
 Marw gwrol mawr ei gariad,  
*Mawr* ei lys, a chan mwya'r wlad.  
 Serchog, dyledog wladwr,  
 44 Selyf mainc sy lef am ŵr.  
 Rhoi gwin i'r rhai a genynt;  
 Rhywiog iawn y rhôl aur gynt.
- 48 Mawr fu roi mewn mur ei frig,  
 Ym mhridd waed mawr urddedig.  
 Y tŷ i bawb ytyw y bedd;  
*Arhown* dŷ i roi'n diwedd.  
 Yng nghôr, llew, mae 'Nghaerllïon  
 52 Llen a chroes wen a chwyr, Siôn,  
 A gweddi yn dragwyddol  
 Am a wnaeth yma 'n ei ôl.
- 56 Wedy dwyn ei dad a'i waith  
 Am y mab mae mwy obaith.  
 Duw a elwais: gad Wiliam,  
 Nerth ynn fyw wrth wyn ei fam.  
 Pan aeth pennaeth pob bonedd  
 60 Aeth dewr byth o'i dŷ i'r bedd.  
 Aeth yr haelaf, o threulient,  
 Aeth Duw â'r gŵr, doethder Gwent.  
 O'r do, aml a roed yma,  
 64 E fyn Duw a fo un da.  
 Fal dewis rhyw flodeuyn  
 Duw sy, Dad, yn dewis dyn.  
 Ni wnâi ddewis yn ddioed  
 68 Ond dewis cun Gwent Is Coed.  
 Y mae'n iawn am ein einioes:  
 (I Dduw, 'n wir, iawn ddwyn a roes)  
 Os rhy einioes i'r anhael,  
 72 I nef rhoed nai Ifor Hael!



*Ffynonellau*

A—Pen 99, 355 B—Pen 101, 205 C—CM 12, 188

*Amrywiadau*

3 C mae ochi Ynghaer.. 4 B ..am y.. 5 AB ..yr groc.. 9 B ..aeth yr holl draethen, A ..yr draethen 11 C ..Gwilim 13 AB ..herbart.. 14 ABC ..brins.. 15 AB briwio.. 20 A ..y wr.. 23 C ..wyr Wiliam 25 C ..y mae r gwyr.. 42 ABC marw.., C ..lys a mwya r.. 43 AB ..deiliedog.. 45 AB ..yr rai.. 46 AB rywiog..roi.., C rhywiog rwydd.. 49 C ty i bawb.. 50 AB yr hwnn dy y roi.., C ir hwn dy eu rhoi n y diwedd 52 A ..ach wyr.., BC ..och wyr.. 58 A ..wym.. 63 C ..y roed.. 64 C ..y fo.. 65 AB ..ryw.. 70 AB y dduw.. 71 AB ..ry..yr anael 72 AB y nef roed..

*Marwnad Tomas ap Syr Siôn Morgan, Machen*

- Mawr o gŵyn sy 'Morgannwg,  
 Mwy yn holl Went am Waunllŵg.  
 Mae reir och am Gymro 'rhawg;  
 4 Mae'r och hon ym Mrycheiniawg.  
 Mawr yw cwyn am ŵr cennyf,  
 —Mawr och, Crist!—fab marchog cryf:  
 Marwolaeth drom Meistr Tomas,  
 8 Mawrgwyn blaid Morgan a'i blas.  
 Meirw llewod mawr a'u lluoedd,  
 Meibion Syr Siôn, Sain Siors oedd.  
 Duw a ddug un, diwedd gwŷr,  
 12 Draw y dug o Dredegyr.  
 Wylo'r dŵr i lawer dyn  
 Mal wylo am Lywelyn.  
 Mae'r llanw mawr, mwy orllanw môr,  
 16 Mal Dyfed am wlad Ifor.  
 Môr trosti, 'r arglwyddiaeth,  
 Mordwy ddŵr; Maredudd aeth.  
 Mawr o gŵyn sy 'mrig ynys,  
 20 Mwy achwyn wlad Machen lys.  
 Oes gan mil? Oes gŵyn am ŵr  
 —Oes!—bai tad Rhys ap Tewdwr?
- O ddewredd ni ddaearwyd  
 24 Ei fath o lin Fathau lwyd.  
 Angau dug, ing y digiais,  
 Yn unnos waed Einion Sais:  
 Dwyn llew doe o Waunllŷwg;  
 28 Dyn fo da Duw Nef a'i dwg.  
 Llyna sir nid llawen sydd,  
 Llawn nŷwl Castellnewydd.  
 Llyna wlad wan fu gadarn,  
 32 Llyna'r fainc allan o'r farn.  
 Deillion, mudion, mae adwy,  
 Di-fod moes a defod mwy.  
 Dirfawr o'i ddwyn, darfu'r ddau,  
 36 Dull byd a holl wybodau.

40 Bu lew dewr o bai le dig,  
 Bu oen difalch, bendefig;  
 Bu ŵr trwyddyn' ffortuniol;  
 Bu drist ein bod ar ei ôl.

44           Awr a dydd a roed iddaw;  
 Diwedd i ddyn dydd a ddaw.  
 E rôi Dduw i rai ddwyoes;  
 I hwn ni roed hanner oes.  
 Mae 'n y gro a main y gras  
 Is daear teml, Meistr Tomas.  
 48 Ni roent ŵr bai o rent uwch  
 I dŷ cyfyng waed cyfuwch.  
 Ni roir o'r byd ŵr i'r bedd  
 —Yna rhoed—fwy anrhydedd.  
 52 Aeth ddwywlad wrth ei elawr;  
 Ewythr y llwyth aeth i'r llawr.  
 Dardiau cwyr; ar draed y'u caid  
 Dan ynau duon, weiniaid.  
 56 Llawer trent lle y'i rhoed draw;  
 Llwyn cenedl oll yn cwynaw.  
 Ni roed awr yn hwy er da  
 Fyw i Domas fod yma.  
 60 Ni ddaw ar gledd dan ddur glas  
 Fyth damwain y fath Domas.  
 Odid mor bêr doethder dyn  
 Nac o'i lendid gael undyn.

64           Mae pedwar, mwy hap ydyw,  
 —Yma bôn' fil!—mab yn fyw:  
 Pedwar *ym* maen am flaenawr,  
 Pedwar mab piau'i dir mawr;  
 68 Praffweilch difeilch Syr Dafydd,  
 Pyst Morgan a'r Fychan fydd;  
 Pedwar llew poed ieirll ieuainc,  
 Pedwar fyth—hap Duw!—i'r fainc;  
 Pedwar broder nyth eryr,  
 72 Pedair oes poed hir i'w wŷr!  
 Pedwar angel Llywelyn,  
 Pedair torch poed aur at hyn!

*Ffynonellau*

A—Pen 99, 378 B—Pen 101, 181 C—CM 12, 208

*Amrywiadau*

3 *AB* ..ryhir., *C* ..rhir.. 9 *C* marw.. 13 *C* ..dwfr.. 15 *C* mae r llanwr mwy..  
 18 *C* ..ddwfr.. 19 *C* ..gwyn ymrig.. 20 *ABC* ..machain.. 22 *C* ..ab.. 30 *B* ..y  
 castell., *C* ..niwl Ynghastell.. 33 *C* meibion.. 40 *AB* ..yn bod.. 44 *AB* y  
 hwnn.. 48 *AB* y dy., *A* ..cyvigh.. 49 *C* ..roer.. 50 *AB* ..i rhoed.. 53 *AB* ..y  
 caid, *C* ..eu caid 55 *AB* ..lle i roed., *C* ..lle y rhoed.. 57 *AB* ..roid.. 62 *AB*  
 ..leindid.. 64 *AB* ..y bon.. 65 *ABC* ..y maen.. 72 *ABC* ..i wyr

*Moliant Rolant Morgan, Machen*

- Mae ewin llew am Waunllŵg,  
 Mae ar gynnyrch 'Morgannwg,  
 Maen gwrthfawr maenawr Mynwy,  
 4 Maen glain Gwent a min glan Gwy.  
 Marchog gwych o Gymro 'ch cânt  
 Â moes Troelus, Mastr Rholant.  
 Meistr, y tad, Tomas draed dur,  
 8 Mab o Went ym mhob antur.  
 Sarff y taid, sy riffs, ydoedd,  
 Syr Siôn, nai Syr Rhys Hen oedd.  
 Llwyth Morgan o Frytaniaid,  
 12 Llewlin dewr Llywelyn daid.  
 Syr fu'r taid, Rhoser Fawr tân,  
 Syr fych, wŷr Rhoser Fychan.  
 Gwaed Dafydd, ucha' gwŷdd Gwent,  
 16 Gam, Moreiddig, mawr oeddent.  
 O'u dau waed, deau ydwyd,  
 O ddau Rys, arglwydd, yr wyd.  
 Dy gyff, imp, da gyff i wŷr,  
 20 Dyna afal Dinefwr.  
 Ni ffiodd dan braff heulwen  
 Erioed gwraidd Dredegyr wen.  
 Oes goed hen—nis gwŷd darn  
 24 O'u math goed—Mathau gadarn?  
 Dwywaith agos *doe*'th ddygais  
 Yno i sêl Einion Sais.
- 28 Ysgwier—oes gŵr o waed  
 Well wyth ran?—llwythau'r henwaed,  
 Pennaf bonedd sy heddiw,  
 Ennill gair ywch, yn Lloegr yw.
- 32 Bonheddig, unben, hyddysg,  
 Bonedd, doeth beunydd yw dysg.  
 Tri damwain yt rhoed yma:  
 Dawn, art, dysg—dyna'r tri da.

36 O dri pheth wyd wr â phwys  
 I droi cam fal dur cymwys.  
 O gariad dwywlad yn d'ôl  
 Wrth air a chyfraith wrol.  
 40 Iustus, farn Estas o'i fin,  
 Gar *eich* bron geiriau'ch brenin.  
 Mae'n rhaid i wŷr, trinwyr trwch,  
 Meirw heddiw *neu* 'mroi *i* heddwch.  
 Yr ych heddiw ddrych uddun  
 44 I ddal tŷ'r ddwywlad dy hun.  
 Oes dyn o'th gost, aen' wyth gant?  
 Oes dewr hael, y Meistr Rholant?  
 Mawrdrais dwfn yw môr dros dir;  
 48 O wyth ddyfnach y'th ofnir.  
 Llif yw'r naill ofer nant;  
 Llyn ddwfn llonydd a ofnant.  
 Y llew fydd felly i fwyn  
 52 O gyneddfau gnyw addfwyn.  
 Natur llew ynot â'r llid;  
 Ar lawnder dy greulondid.

56 Rolant, wr, alawnt eryr,  
 Rhwydd-deb i'th wyneb a'th wŷr.  
 Ucha' gwaed ywch i gydoes,  
 Chwi a'r un ferch orau 'n f'oes.  
 Ba wraig ddoeth hael goeth a'i gŵyr,  
 60 Blaens un, Sybli, iawn synnwyr?  
 Tegau Rolant, gwawr Wiliam,  
 Da, dri, merch o dad a mam.  
 Wŷr Syr Water yw'r seren  
 64 O wirbryd haul Harbard hen.  
 Dau fonedd byd o Fynyw;  
 O dai Gwent urddedig yw.

68 Llywydd â pheunydd ffyniant,  
 Llaw Dduw i'ch plaid; llwydda'ch plant.  
 Llywia gyfraith *ynn* weithian;  
 Llaw iau gwlad Waunllŷwg lân.  
 Llaw Dduw wyn, llywydd einioes,  
 72 Llwyddiant yt, Rolant, dair oes.

*Ffynhonnell*  
Pen 96, 163

*Darlleniadau'r llawysgrif*

5 ..ich kant 9 ..tad.. 17 oed oi dav waed.. 25 ddwywaith..oddoeth.. 26 yn oi  
sel.. 27 ysgwiair.. 28 ..llwythav henwaed 30 ..vwch.. 39 ..ewstas.. 40 ..y  
bronn.. 42 .. nai mroi heddwch 57 ..vwch y gydoes 60 blaen vn Sibl.. 65  
..y byd.. 69 ..yn waithann 70 llowieu glad waun llwg..

*Marwnad Mastr Harri Morgan*

- Mawr o gŵyn sy 'Morgannwg,  
 Atgwyn holl Went a Gwaunllŵg:  
 Marw canon, mawr y'i cwynaf,  
 4 Mae'r llên doeth ym mur Llandaf.  
 Os traw hiraeth. Maestr Harri  
 Morgan aeth,—Cymru, gwae ni!—  
 8 Wŷr Syr Siôn, Feirchion farchawg,  
 Syr hen ar fedd Iesu 'rhawg.  
 Torred tŵm mab Meistr Tomas;  
 Trwy y gro a'r tir â'r gras.  
 12 Lle doded llwyth Maredudd,  
 Da le, 'nghôr Deilo ynghudd,  
 Lleihau hil tri Llywelyn,  
 Gwanhau hil Morgan yw hyn.  
 Bwrw einïoes gŵr fal Moesen,  
 16 Bu lywiawdr, hil Bledri hen.  
 Marw Awstin mawr o iustus,  
 Marw mawr i'w ryw Arglwydd Rhys.  
 Marw oen Crist ym marn Cred,  
 20 Meurig, bendefig Dyfed.
- Marw f'urddas, mawr fu urddol,  
 Mae'n drist ym ennyd ar ôl.  
 Aeth llety a'm tŷ a'm tân  
 24 A'm moethau. Oes mwy weithian?  
 Tywyll yw perchentyaeth;  
 Tad a lamp tŷ Deilo aeth.  
 Aeth cog a llawnwaith cegin,  
 28 Aeth rhost a thri rhyw o win.  
 Rhoi bwyd i bob rhai y bu,  
 Rhoi i weiniaid, a'i rannu.  
 Rhoddion i gerddorion gynt;  
 32 Rhoes weddus roeso uddynt.  
 Ni bu'i fwrdd, heb fwy urddas,  
 Heb boliau win, ynn ei blas.  
 Gwin hafog a gaen hefyd  
 36 Ynn o bai win yn y byd.



Gwae ei wŷr byth wrth gau'r bedd,  
 A cheraint; gwae'i chwioredd.  
 Llefaint ei neiaint, yn wŷr,  
 40 Llef rydost ei holl frodyr.  
 Tri brodyr, teirw o Brydain,  
 Tri hael, Duw a gatwo'r rhain!  
 Cwynwn henfeistr canonfainc;  
 44 Cwyn sy fwy cannoes y fainc.

Harri ywch a fu rychor,  
 Ych bannog gwych i ben côr,  
 Trugaredd, at ragoriaeth,  
 48 Moes, Duw, roi, Meistr Harri aeth.  
 Llaw Dduw oedd holl ddiodef,  
 Llaw a wna roi lle 'n y nef,  
 Hwn ni roed yn hir adael,  
 52 I nef rhoed nai Ifor Hael.

*Ffynhonnell*  
 Llst 164, 127

*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 at gwyn.. 3 ..i cwynaf 10 ..yr gro.. 12 ..nghudd 15 ..einoes.. vel.. 16  
 ..liwiawr.. 18 ..yw ryw.. 20 ..bedevig.. 21 ..vu vrddas.. 28 ..rost.. ryw.. 30  
 ..weinaid ai rhannv 32 roes.. 34 ..boliav win ynn y blas 38 ..gwae i  
 chwired 40 ..rhydost.. 42 ..gatwo rhain 45 ..rhychor 47 ..rhagoriaeth 48  
 ..rhoi.. 50 ..rhoi.. 51 ..rhoed yn..

*Marwnad Syr Wiliam Herbert, Colbrwg*

Marwolaeth, Cymry wylent,  
 Marw—och o gwymp!—marchog Gwent.  
 Mwya' cwymp macwy o'i wart,  
 4 Maen corbol, âi mainc Harbart.  
 Duw a ddug oes Dafydd Gam,  
 —Oes yr ail?—dwyn Syr Wiliam;  
 Teyrn y dug, tarian a dart,  
 8 Tri: Syr Rhys, tarw Syr Rhisiart.  
 Ni roed wŕ na dâr dywell  
 Ar freichiau gwŷr, farchog, well.  
 Mawr oedd y bedd lle gweddai;  
 12 Medrod Syr Lawnslod oedd lai.  
 Gwely iddo *a* gladdent,  
 Gwely mawr Gwilym o Went.  
 Tŷ Wiliam, maint ei elawr,  
 16 Tŷ Dardar, maint Tewdwr Mawr.  
 Mae un gŵr mwy nog Urien  
 Mewn clos, swm Nicolas hen.  
 Marw—llid twym!—aerllew Tomas,  
 20 Marwach y cledd, Marchog Glas.

Nai'r frân hen â'r frenhinwawr,  
 Ewythr holl ieirll aeth i'r llawr.  
 Braisg un fraich bro Wysg yn friw,  
 24 A'i llaw oedd i'r iarll, heddiw.  
 Bwrw pinagl o dŷ Rhaglan,  
 Bu'n friw'r fraich bennaf o'r frân.  
 Bwriwyd haul bro deheulawr,  
 28 Bwriwyd lamp Harbard i lawr.  
 Pan êl piler, pryderyn',  
 Pond dryll yw o'r pynt i'r llyn?  
 Bwrw maen gwal, growndwal a gryn,  
 32 Bwrw gwaed Herber a Godwin.  
 Dydd Deau, duoedd Dwywent,  
 Diwedd bryd gwŷr, Dydd Brawd Gwent.  
 Dwyn edn grifft, undyn o Gred,  
 36 Dinefwr ac Ednyfed.

40 Torred yr un troed i'r iaith,  
Torred dwylo'r tair talaith;  
Torred pen tre y Fenni;  
Troë hen am Ector yw hi.

44 Na 'mofelwch am filwr!  
Ewch mwy, Went, yn iach am wŵr!  
Beth yw i neb? Aeth yn nos.  
Beth am wŵr byth ymaros?  
Ni chân', cawr na chwncwerwr,  
Yn fyw wyth oes y fath wŵr.  
48 Ni bu rhyw gorff, bwriai gant,  
Ond Troelus gynt *neu* Rolant.  
Bai orchest ni bu farchawg  
Well acwy ond Iarll y Cawg.

52 E fu'r ych, gwrdd farchog oedd,  
Tra fu ddyn trwy fyddinoedd.  
Tynnu'r oedd at un o'r iau;  
Tyn gŵr at y naw gorau.  
Os dewraf, aeth mab maeth mam,  
56 Os yr haelaf, Syr Wiliam.  
I dri dug, oedd dra digon,  
Y rhoes o aur,—*gwae*'r oes hon!—  
A threulio wrth wrolaeth  
60 Â chalon wych hael a wnaeth.  
Gwell yw gair i gall gwrol  
No *dau* i neb o daw'n ôl.  
Syr Wiliam, moes roi olew,  
64 Eu meirw o'r llaw am roi'r llew.

68 Ei enaid fyth, nid â i fedd,  
A rôl i Dduw ar ei ddiwedd.  
Ei wrolaeth ar alon  
I Dduw rhoes ar y ddaear hon.  
Arfau eryr, Afarwy,  
(Os gwisg maint, ni wisgir mwy)  
Mynnai gael er mwyn gelyn  
72 A bod awr gyda mab y dyn.  
Ei law oedd olew uddynt  
Ym Mlac-heth yn amlwg gynt.  
Coelioedd ail y câi'i ladd awr  
76 Can aliwms cyn ei elawr.

80

O gwrendy, nid gair undyn,  
 WirDduw Dad ar weddi dyn,  
 Wedy mawl aed y milwr  
 At nifer Gwent. Nef i'r gŵr!

*Ffynhonnell*Stowe 959 [= RWM 48], 181<sup>v</sup>*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 myrolaeth.. 9 ny Roed.. 13 ..u gladdent 16 ty dadar.. 19 ..ayr llew.. 20  
 marw ach.. 22 ewyrthr..yr llawr 24 ..yr jarll.. 27 bwrwyd.. 28 ..harbart y  
 lawr 30 ..yr llyn 32 ..herbart.. 43 ..y neb.. 48 ..traylys..nay.. 49 bai am  
 orchest.. 52 ..veddinodd 57 y dri.. 58 yroes o ayr wyr oes.. 59 ath Raylo..  
 62 no da neb y a.. 63 ..Roi.. 64 ..Roir.. 65 ..ai vedd 66 a Roi y ddyw.. 68  
 ..Roes ar ddayan hon 70 ..maent.. 75 ..kai ladd.. 76 kwnn..

*Marwnad yr Arglwyddes Blaens*

Rhos oer fyned sir Fynwy  
 Ail Elen Goel o lan Gwy.  
 Mae'r Farn ym am feirw'n nes,  
 4 Marwgoel oedd am arglwyddes:  
 Bwrw Arglwyddes, brig loywddoeth,  
 Blaens, un ddawn Sibli hen Ddoeth;  
 Arglwyddes, teyrnes bwrdd tâl,  
 8 Bord Troe, tŷ Harbart rial,  
 Mal y wraig gynt, mawl rhag cam,  
 Marsia ar ôl marw Syr Wiliam.  
 Bwrw iawn henwaed brenhinoedd  
 12 Mal bwrw hen waed Mylbwrn oedd.  
 Ei llin o Went i ieirll Nordd  
 O'r lle hanffont ieirll Henffordd.

Arglwyddes breninesau,  
 16 Gofrner oedd ban oedd yn iau.  
 Hi a wyddiad yn weddus  
 Wybodau iarllsiau'r llys,  
 Gorcheidwad cyn ymadaw  
 20 Tŷ Harri Wyth a'i blant draw.  
 I Edwart Frenin ydoedd,  
 Uwch ei faeth, goruchaf oedd,  
 Waetio yr oedd at ei Ras,  
 24 Gywirddoeth wraig o urddas.

Arglwyddes plas a gladden',  
 Troe, a'i llew, lletyai'r ieirll hen.  
 Bu i frenin, bu fawr unwaith,  
 28 Roeso, a'i ieirll, Harri Saith.  
 Gweddu y bu tra fu fyw  
 Hon sydd frenhines heddiw.  
 I dlawd gwan didlawd gin'aw,  
 32 I'r dall hen rhôl fywd â'i llaw.  
 Â'i llaw draw llywiau druin,  
 Lle da, rhoes dillad i'r rhain.

36 Diwarth y rhoes da *wrth* raid;  
Dêl hyn yn dâl i'w henaid!

40 Gwely Gonstans ac Elen  
Merch Coel, hi a'i marchog hen,  
O! Dduw gwyn, ni ddug annoeth,  
Ysbeilioedd ddwyn Sibli Ddoeth.  
Aeth wraig. Nid â fyth ar ôl  
O'r oesoedd wraig mor rasol.

44 Mae *i* Blaens feibion fal Tonwen:  
Beli o'i bron hi, Brân hen;  
Dau frodyr, gwŷr difredych,  
Dau *feirch* cad o farchog gwych:  
Syr Siarls o hil Syr Wiliam,  
48 Mor wych cawr â'r Marchog Cam.  
Arhowch cloi aur Marchog Glas  
Tros wart Hymr, Meistr Tomas.  
Dau filwr y'u dyfelynt  
52 Wrth wŷr o gwrth Arthur gynt.  
Oes hir, eleirch Syr Wiliam!  
Yn fyw maent. Mae nef i'w mam.

*Ffynhonnell*  
Llst 164, 118

*Darlleniadau'r llawysgrif*

4 marw goel.. 10 Marsia r ol.. 23 waettio roedd.. 25 arglwyddys.. 29  
gweddio.. 31 ..ginaw 33 ..lliwiav.. 35 ..da yw rhaid 36 ..yw henaid 43 mae  
Blaens.. 46 ..freich.. 49 a rhowch cloi.. 51 ..i dyvelynt 54 ..yw mam

*Marwnad Wiliam Watgyn, Pen-rhos*

- Yn oes gynt hirnos a gaid  
 Fry at Wynedd Frytaniaid.  
 Sef oedd hirnos o Fawddwy,  
 4 Am ynys Went mae nos hwy:  
 Och unawr hwy no channos  
 Am hanner haf ym Mhen-rhos!  
 Duodd gwaed y dydd gwedy  
 8 Dan gŵyr tân dwyn gŵr y tŷ.  
 Cwyn Wiliam, ein cynheiliad,  
 Atgwyn dydd Watgyn ei dad.  
 Torred ddoe himp, trydydd hael,  
 12 Trahaearn, un o'r trihael;  
 Tylwyth Ddwywent, lwyth Ieuan,  
 Tyddyn rent Wyddno a'i ran.  
 Tir aber Wysg tua'r brig,  
 16 Troes dŵr mawr tros dir Meurig,  
 A phle o gorff Hywel Gam  
 Fyth eilwaith ei fath, Wiliam?
- Dwywlad oll deily dywyllwg  
 20 Dygen' holl Went a Gwaunllŵg.  
 Bro Wysg aeth heb wres a'i gwin  
 Bwrw gwaed Barri a Godwin.  
 Bwlch i Gaer-wysg, bu lai'ch grym,  
 24 Bwrw gwal a'i brig o Wilym.  
 Bwrw tŷern, Dyddbrawd Dwywent,  
 Bwrw nêr gwych bro Ynyr Gwent.  
 Brad aruthr fal bwrw derwen  
 28 Bwrw ffrwyth y brenhinllwyth hen.
- Llyna Gaer, lle hen gewri,  
 Llïon hael, nid llawen hi.  
 Llai doethder ymysg gwerin,  
 32 Llai'n draul holl windai ar win.  
 Llai ofyn yn llu iefainc  
 Llyn a cherdd, llawen, na chainc.

36                   Llai roi dadl; llwyr âi dwedyd;  
                       Llai berw; aeth ddeall y brud.  
                       Llai ddefod lluoedd ofwy;  
                       Llys a'i moes a golles mwy.  
 40                   Llefwch waed dan oerllef chwedl;  
                       Llew gwinau, gwae'i holl genedl!

                      Y mab hael fu 'mhob helynt  
                       Â chŵn a gweilch yna gynt.  
 44                   Yn iach 'maenor uwch Mynwy  
                       Ymlitgwn na milgwn mwy.  
                       Gyrrwyd i ôl gŵr o'i dŷ;  
                       Gwent hen, gwae 'ntwy o hynny!  
 48                   Och finnau na châi f'annwyl  
                       Na throi awr na thario wyl!  
                       Am roi Wiliam ar elawr,  
                       Watgyn, am Went *eu* cwyn mawr,  
                       Wb uchel lle bu achos  
 52                   Am hwn a roent ym Mhen-rhos.  
                       Rhoi bwyd i bob rhai y bu  
                       A rhoi i weiniaid a'i rannu.  
                       Aethon' bendithion o'i dŷ;  
 56                   At ei enaid aed hynny!

                      Ysgarwisg a wasg hiraeth;  
                       Wybr du ar ei brawd a aeth.  
 60                   Fo 'n ei ôl, meibion Wiliam,  
                       Ni bôn' mwy heb wyn eu mam.  
                       Deugarw llywient Gaerllion:  
                       Tomas hael; ato mae Siôn;  
                       Dau afal da a flodeuynt  
 64                   O frig un gŵr Forgan gynt.  
                       Tomas â fertyw owmal  
                       Tros ŵr tŷ teiroes yw'r tâl.  
                       Dan aur pand iawn ei aros  
 68                   Am henwr hael ym Mhen-rhos?  
                       Naturiawl, bai hawl a barn,  
                       Natur rywiog Trahaearn.  
                       Dyn o'i dad, yn od ydyw,  
 72                   Yn freua' dyn fu 'rioed yw.  
                       Duw gatwo hwn, dug y tad,  
                       Wedy Wiliam yn daliad!



*Ffynonellau*

A—Pen 99, 381 B—Pen 101, 183 C—CM 12, 211

*Amrywiadau*

1 *A* ynn., *C* in oes.. 12 *AB* tryhaearn., *A* ..triael 19 *C* ..deil.. 21 *B* ..aeth wres.. 33 *C* ..ir llu., *A* ..ievaighc 34 *A* ..chaighc 38 *C* ..au.. 39 *B* lleuwch..oerlleu., *C* llenwch..oerllen.. 41 *C* y mab fu.. 43 *AB* y iach.. 50 *ABC* ..yw cwyn.. 52 *ABC* ..ymhen ros 53 *A* ..rai.. 54 *ABC* a roi.. 57 *C* ..o wasg.. 58 *B* ..at.. 59 *C* bo.. 60 *AB* ny vonn.. 63 *C* da afal.. 65 *C* ..o fertyw.. 66 *C* ..ir tal 70 *C* ..rhywiog.. 72 *B* ..frafa.. 73 *C* ..gadwo..

*Moliant Tomas ap Wiliam, Pen-rhos*

Ba le i fardd, rhoi blif orddawd,  
 Beli Gwent i roi dwbl gwawd?  
 Plas Beli uwch Caerllion,  
 4 Pen-rhos hael, pwyn yr oes hon?  
 Tomas lle yr wyt yma,  
 Tŷ gwyn a'i ddawn, Watgyn dda.  
 Y mae'r gair a'r mawr gariad,  
 8 Ail mae tir Wiliam y tad.  
 Wyt enaid Gwent yn dy garn,  
 Wyt aer rhywiog Trahaearn.  
 O waed Ifan mae d'ofyn,  
 12 O Ifor, gwaed Feurig wyn.  
 Mwy rym gwaed, mawr ymgodynt,  
 Mawr gan ei goed, Morgan gynt:  
 Rhirid Flaidd, neidr Moreiddig;  
 16 Rhyw drwy Went yw'r rhai a drig.

Merch Galath, marchog Wiliam,  
 At Hael Gwent o Hywel Gam,  
 Meistres, merch arglwyddes gwledd,  
 20 Elnor, fun, lin aur fonedd,  
 Eigr Fychan, gair fu achos,  
 Mae i hon air hael ym Mhen-rhos.  
 O! Dduw. Addas, ddyweddi,  
 24 Y ferch hon, fu'i rhoi â chwi.

Daly tŷ yn dy wlad, Dwywent,  
 A dwyn gair, daeoni Gwent.  
 Tŷ Domas, atad ymwrdd,  
 28 Ni all fod tŷ well ei fwrdd,  
 Llew â gafael holl gyfoeth  
 Lliw dy dad, y llew du doeth.  
 Llawen fyth dy wên i'th dai,  
 32 Llawender i'r holl windai.  
 Band aeth, y mab, bendith mam  
 I'th fabolaeth, fab Wiliam?

36 Tydai, ewythr, Tad Awen,  
 Tyf o rym poet ferw o'm pen.  
 Nid wyf flin dy foliannu  
 Wrth wŷr o ford Arthur fu.  
 40 Gwalch Efrog o gylch Hafren  
 O'r bryn hyd dŵr Briant hen,  
 E ddialodd dan ddilid  
 Ethrod Syr Lawnslod o lid.  
 44 Lladdoedd yr hen iarll uddynt  
 Ynysedd y Gogledd gynt.  
 Paredur i antur wyd,  
 Pai rhaid, i'r mab hir ydwyd.  
 48 Hwyliaist, cefaist, lwc iefainc,  
 Hap dyn o ffrwyth, gaptan Ffrainc,  
 Tros dir lle y rhoist dy win,  
 Trwy fôr, Rhôn, at dy frenin.  
 52 Aut i Fwlen at filwyr  
 Yn llew gwych yn llywio gwŷr.  
 Nid aeth ban aeth unben iach  
 Loegr olynol gŵr lanach.

56 Galath braff â gwaywlwyth brau,  
 Gawen addfwyn gyneddfau;  
 Trystan lân ei lawenydd,  
 Tomas o Went yma sydd.  
 60 Nid enillwyd dyn wellwell  
 O fryd dyn â fertyw well.  
 Diofn wyd os diofn neb,  
 Dewrddoeth ddyn, drwy ddoethineb.  
 64 Difa*lch*, wineuwalch, i'r naill,  
 Dichwarae dowch i eraill.  
 Ir o'th ben fydd teiriaith bêr;  
 Chwi a gordiech ag irder.  
 68 Dyn dewis, a dawn Dwywent,  
 Dyna air pob dyn o Went.  
 Da natur, un dyn, ytwyd,  
 Duw, Dduw, nerth, da o ddyn wyd.

*Ffynhonnell*  
 Llŷt 164, 138

*Darllenïadau'r llawysgrif*  
 2 ..rhoi.. 3 ..ywch.. 10 ..Tryhaearn 16 ..yw r hai.. 31 ..yth dai 32 ..yr holl..

34 yth vabolaeth.. 46 ..yr mab.. 50 ..rhonn.. 52 ..lliwio.. 63 divall.. 64  
dichwarav i dowch..

*Moliant Wiliam Siôn, Caerllion*

Y llew'n dwyn aur Llundain oedd,  
 Llew Grant yn Lloegr o Wentoedd,  
 Llew Wiliam, wŷr Llywelyn,  
 4 Llaw Nudd yng Nghaerllion ynn,  
 Pwy sy eilmab pai Salmon?  
 Ple mae'i sut pai Wiliam Siôn?  
 Awr dan nef, ni roed i neb,  
 8 Dda 'th aned o ddoethineb,  
 Hafren unben frenhinbysg  
 Yn nyfnder doethder a dysg;  
 Athro Caer a'i thyrau cain,  
 12 Wysg, lander ysgol Lundain.  
 Urddas gyda'r ddysg ydywch,  
 Uwchlaw dysg, uchelwaed ywch:  
 Trwy gwncwest â gwaed Iestyn,  
 16 Tewdwr hil, teidiau a'r hŷn;  
 Llaw Waithfóed, llwythau o Fôn,  
 A llew Hywel Caerllion;  
 Hil ieirll, wyd hael i roi llyn,  
 20 Hil, filioedd, Hywel Felyn.

Llwyddaist, llywiaist Gaerllion,  
 Llawenhaist y winllan hon.  
 Trefnaist, adeilaist i wŷr  
 24 Tai newydd hyd don awyr:  
 Tŷ a'i byrth tai bu Arthur,  
 Tŷ i win i'w fowt dan ei fur;  
 Tua'r môr fal lanter main  
 28 Tŷ o lendid tai Lundain.

Yr wyd dan droell ffortun draw,  
 A pha anodd yd ffyniaw?  
 Wiliam Siôn, enw, hael, am Sieb,  
 32 Wyd o'th win; dydd da i'th wyneb!  
 Band difalch, baent i'w ofyn,  
 I bawb dy iaith, wrth bob dyn?

36 Doeth a sad i'th oes ydwyd,  
 Os rhoi eich gair, serchog wyd.  
 Y llew wyt ti yn lliw tân  
 O'th roed oll o'th wrid allan.  
 40 Ni fynnaist ofn; nos a dydd  
 Ni chaid ofn yn eich defnydd.  
 Ni ochelud, walch heilwin,  
 Hyd dy droed, ond at y drin.  
 44 At Harri Wyth waetia'r rhawg;  
 Waetia isod y twysawg.  
 Aros awr o'i Ras, hirwych,  
 I wisgo aur ar was gwych.  
 48 Ni bu dan aur, baud yn iach,  
 Wedy Lionel dy lanach.  
 Main wyt, Wiliam, Went haelwych,  
 Ap Siôn, gwerth topasiwn gwych.  
 Mewn natur y maen ytwyd,  
 52 Murog aur, mor rhywiog wyd.

Mae'r damwain mawr yd yma,  
 Mae hap a dawn campau da.  
 Gwalchmai, dymunai 'mwanwr  
 56 Gan Dduw fath gyneddffau i ŵr.  
 Pwy fal pai imp afal pêr  
 Piau prydwaith pob breuder?  
 Parod dy dafod â dawn,  
 60 Pur ffraethloyw pêr a ffrwythlawn.  
 Pen, a doethder materoedd,  
 Powls wyd, ac ym mhob plas oedd.  
 Peth od ym mhob peth ydwyd,  
 64 Praff i'th oes, dyn perffaith wyd.  
 Pwy y rhoed hyn, hap Brytaniaid?  
 A phwy ni'th gâr? Ffynnu 'th gaid.  
 Pwy gŵreidd-deb, wynebwr?  
 68 A phwy y rhoed gorff a phryd gŵr?  
 Pwy â chefn hap a chyfoeth?  
 A phwy'n eu dwyn â phen doeth?  
 Pwy os rhoddid pwys rhuddaur?  
 72 A phwy'r dyn well ffrîw dan aur?  
 Pwy'n llawen? Pwy'n ben beunydd?  
 A phwy o'th fath na phyth fydd?

*Ffynonellau*

A—Pen 99, 384 B—Pen 101, 186 C—CM 12, 213

*Amrywiadau*

2 *B* ..yn o wentoedd 8 *AB* dda ith aned.. 10 *A* yn y vnder.. 17 *C* llew.. 19 *A* ..y roi.. 20 *C* ..filoedd.. 21 *AB* llwyddieist.. 23 *ABC* ..adeilieist.., *AB* ..y wyr 26 *C* ty win.., *ABC* ..yw vovt.. 28 *A* to.., *AB* ..leindyd.., *B* ..hyd Lundain 30 *C* ..yt.. 32 *A* ..yth wyneb, *C* ..da th wyneb 33 *C* baun.., *ABC* ..i ofyn 34 *AB* y bawb.. 35 *AB* ..yth oes.. 36 *AB* ..roi.. 38 *ABC* ..roid.. 41 *C* ..haelwin 43 *ABC* ..rawc 45 *B* ..ai ras.. 46 *A* y wisgaw.. 47 *C* ..baid.. 49 *AB* maent.., *C* maen.. 52 *ABC* mvrac..rywioc.. 54 *C* ..y dawn.. 60 *C* pur a ffraethloyw per ffrwythlawn 64 *AB* ..yth oes.. 65 *C* pwy roed.., *AB* ..roed.. 66 *AB* ..ith gaid 67 *B* ..gwreiddeb.. 68 *C* ..phwy rhoed.., *AB* ..roed.. 71 *AB* ..roddid.. ryddaur

*Marwnad Wiliam Siôn, Caerllion*

Y mwya' i bwys am y byd,  
 Marw fydd; mwya' arfeddyd.  
 Marwhau cenedl meirw kannwr;  
 4 Mwy i ni gwyn am un gŵr.  
 Marw Wiliam Cymru wylant,  
 Mae'n Lloegr och am henllew Grant.  
 Y lle y sydd—mae llew Siôn?—  
 8 Yw lle Hywel Caerllion.  
 Och roi gŵr gwych i'r gro gwyn  
 A chloi alarch Lywelyn!  
 Ysgwier aeth is y gro;  
 12 Aed Gwent a'i glendid ganto.  
 Aeth iustus tylwyth Iestyn  
 A thafod doeth Waithfôed ynn.

Doethach na chymhennach mwy  
 16 Nis erfynnant sir Fynwy.  
 Wynebwr oedd yn y brig;  
 Ni atebai un tebyg.  
 Ni thorres air, ni thrôi sêl,  
 20 Ni bu noswaith benisel.  
 Eisïau llew dinas Llïon,  
 Wesmestr, Sieb eisïau Meistr Siôn.  
 Llawen y rhôi'r llyn i'r rhain,  
 24 Llawender i wŷr Llundain.  
 Ni bu drist ei wyneb draw  
 Na'i feddwl. Mae nef iddaw.

Mis haf i mi 'Nghaerllïon  
 28 Yw mis oer am Wiliam Siôn.  
 Gwn-i oerais gan hiraeth,  
 Gwres ei win, am groeso, aeth.  
 O ddwyn f' anrhydedd heddiw,  
 32 Anap i fardd hen pai fyw.  
 Gwae radd arall, gerddorion,  
 Na wyl mwy sut Wiliam Siôn.



36 Marw Wiliam, oeri aelwyd,  
Mae 'n y bedd mwy win a bywd.

Er hyder, balchder, da byd,  
Duw biau nodi bywyd.  
O daw angau,—'nid engyn?—  
40 Nid oes da a geidw oes dyn.  
Er uchder deri cedyrn,  
Ing y chwyth yr angau chwyrn.  
Cwympai wŷr camp i orwedd  
44 Cawad uwchlaw coed, â chledd.  
Doeth ef o Loegr a'i threfydd  
Wedy *i* Dduw nodi ei ddydd.  
Duw a yrr pawb, dihareb hen,  
48 Dôl i warchad, *i* dywarchen.  
Ef âi adref i'w fedrawd  
I'r tŷ fry oer at ei frawd.  
Gwae' *i* dylwyth godi' *i* elawr,  
52 Ys gwae wlad glan Wysg i lawr.  
Gwae ei fam a ddygai fab  
Doe amddifad am ddeufab.  
Bratáu ei briod dwywol;  
56 Bu drist ei bod ar ei ôl.

Mae plant, mwy epil, i wŷr,  
Plant teidiau pai lin Tewdwr.  
Blodau i'w holl bobl ydyn';  
60 Ni fetha imp o'i fath ddyn:  
Robart wych yn nhre' bu'r tad  
Wedy Wiliam yn daliad.  
E gair llew i Gaerllion  
64 A'i law am swydd Wiliam Siôn.  
Drwy gynnydd, Duw, 'r eginyn  
Dros *ei* dad *deiroes* a dynn.

*Ffynhonnell*  
Llst 164, 136

*Darllenïadau'r llawysgrif*

7 y lle sydd i mae.. 9 ..rhoi.. 14 ..hynn 21 eisav.. 22 ..eisav.. 23 ..i rhain  
29 ..hoerais.. 46 wedi dduw.. 48 doi y warchad ei.. 49 ..yw.. 51 gwae  
dolwyth godi elawr 58 ..teidav.. 59 ..i holl.. 62 wedi.. 66 tros y tad  
teiroes..

*Moliant Siâms Gwnter, Porth-parc*

- Pwy â chefn hap a chyfoeth?  
 Pand da'r dyn? Pand dewr a doeth?  
 Pwy aeth i frig, y peth fry,  
 4 Pen y ffynnon? Pwy'n ffynnu?  
 Meistr Gwnter o'r cwncwerwyr;  
 Meistr Siâms, moes di aerwy sŷr.  
 Marchog fry, torchog eich taid,  
 8 Ar gant, aer o'r Gwnteriaid.  
 Glain y tad, galont ydych,  
 Watgyn trwy Went Gwnter wych.  
 Pen-ysgwier, Gwnteriaid,  
 12 Powls wyt, hap Lewys y taid.  
 Tomas gynt ymysg antur,  
 Tynnai'r dyn y tân o'r dur.  
 Llew Rhoeser, Gwnter, yw'r gwns,  
 16 Llaw Wiliam drwy'r llu aliwns.  
 Nawgant, o'r un Gwnter aeth,  
 Fai i'r enw hwn drwy'r frenhiniaeth.
- Aurdorchog farchog o'r Fâl  
 20 Yw Syr Hu ar [            ]  
 Fry'n henllew ar frenhinllu,  
 A'i stondart i'r fowart fu.  
 Cotarmer Gwnter a gân',  
 24 Arfau Siâms ar faes ymwan:  
 Menig, awch ymwan a gaid,  
 Gwnion tarian Gwnteriaid;  
 Tair gawntled Syr Paredur  
 28 Trwy sabl at aur tros blad dur;  
 Aur, a mael fal rhwym olwyn,  
 A maes o ddu: Siâms i'w ddwyn!  
 Barwn, winllan brenhinllwyth,  
 32 Barwnwaed Ffrainc, bren da'i ffrwyth,  
 Barwndir, y sir a saif,  
 Brycheiniog, bro eich hynaif,  
 Barwn gwaed bro hen Gadell,  
 36 Blywed ieirll, ba le waed well?

Gwaed Dwywent yn goed dien,  
Gwinllan hil Genillyn hen.

40

[

Da waed ydwyd o Dewdwr;  
Da fu i'th waed gael dy fath wr.

44

Dy gynnydd di egina  
(Fal y tyf hael) o waed da.  
Tyfu yr wyt hyd dy frig  
O'r bôn. Hawdd i'r bonheddig.  
Ni chyfyd dyn â chyfoeth

48

Ond dyn o ddysg waetia'i'n ddoeth.  
Braisi godiad bro Wysg ydywch  
Brynu draw barwndir ywch.

52

Bydd wych, a chodych â chwedl,  
Benaig gwinau, 'n ben cenedl.  
Tradewr *fal* Ector ydwyd,  
Trachefn gwr tra chefnog wyd.

56

Tra doeth i'th fater, a dwys,  
Teiriaith gennyt wrth gynnwys;  
Tra gwrol, yt ragorau,  
Tra glân fraint yw'r galon frau;  
Tra hael, y Gwnter heilwin,  
Tra rhywiog wyt i roi gwin.

60

Da, gapten, y'th foliennynt  
Ymlaen gwyr ym Mwlen gynt.  
Nid âi i'th fron, dyn da i'th frenin,  
Ofn Ffranc crych fwy no phren crin.  
Ni châi Harri, wych eryr,  
Wr well ei gorff o'r llu gwyr.

64

Pwy ar rod hap? Ir ydywch.  
Pa wr fwy ras? Prifio'r ywch.  
Dal dy ffortun hyd unawr.  
Drwy obaith myn draw beth mawr:  
Aur a thir yr Wyth Harri,  
Ordr y dorch ar dy war di,  
A chan mlynedd arweddych.  
Aro oes gwr i was gwych.

68

72

*Ffynhonnell*

Llst 164, 111

*Darlleniadau'r llawysgrif*

6 ..avraw syr 7 ..yw ei taid 15 ..roeser.. 16 ..y llu.. 18 vae r enw.. 20 ..syr  
 huw ar [ ] 26 gwynion.. 30 ..yw ddwyn 34 Brychainog.. 39–40 [ ] 48  
 ..waetie.. 53 ..vel.. 56 ..gennyd.. 57 ..rhagorav 60 ..wyd i rhoi.. 63 ..ae th  
 fron.. 64 ..mwy na.. 71 ..ir wyth..

*Moliant Rheinallt Powel, Berth Hir*

- Pwy imp hynaif pump henwaed?  
 Pwy'n ffridd o imp Henffordd waed?  
 Percoed Erging, parc Deirgwent,  
 4 Pwys ac imp Euas a Gwent;  
 Rhyw fforest braff a eurwyd,  
 Rhywioca' dyn o'r coed wyd.  
 Iustus sir, eiste â sêl,  
 8 Y sy draw. Pwy? Meistr Powel.  
 Ysgwier wyd is gwar allt;  
 Nos da i'r enw, y Meistr Rheinallt.
- E fu Wiliam yn filwr,  
 12 Y tad hael gynt; wyt ail gwêr.  
 Wiliam daid, mil a'i dwedynt,  
 Fu'n bwrw gwŷr Fanbri gynt.  
 Pa gedym? Pwy a godent?  
 16 Ple wŷr heb Hywel o Went?  
 Dygir un gwaed gronig ym,  
 Da'i dyly dy daid Wilym.  
 At yr ieirll a'u tŷ yr wyd,  
 20 O'r un taid, ar Went, ydwyd.  
 Hwde, Reinallt, waed Ronwy;  
 Gwaed aeth Morgannwg hyd Wy.  
 Da yw'ch gwaed, rhaid ywch godi,  
 24 At dawn Duw, a'th ffortun di.
- Gwiw y rhoed, gywir ei hais,  
 Ywch gymar: merch y Gamais.  
 Cawn wledd merch Arglwydd heddiw  
 28 Coety, air Non: Catrin yw.  
 Enwi, gyfuwch hen gofion,  
 Fu anodd holl fonedd hon.  
 Eigr Syr Rhoser yw'r seren  
 32 A gem hil Dafydd Gam hen.  
 Da air merch, da wŷr marchawg,  
 Da'i gwrhau, ail Degau, 'rhawg.

Ba lys well neu blas a'i win?  
 36 Berth Hir. Ymborth i werin.  
 Ti adeilaist dŷ d'aelwyd,  
 Tŷ rhydd beunydd i roi bwyd;  
 Tŷ tad a'th hendar, Berth Hir,  
 40 Tŷ'r hendaid yt a'i randir.  
 Tai yma'n gwrt main a gwŷdd,  
 Tai naw a wnaut o newydd;  
 Tai maner deutu Mynwy,  
 44 Trylwyn Gwent o i ar lan Gwy;  
 Teils main at le ysmonaeth,  
 Tai gan oes iti a'u gwnaeth!  
 Pwy a werth dir pae wrth dai?  
 48 Pwy—Rheinallt, ti—a'i prynai?  
 Cyd rhanwaed, caud dir Ynyr,  
 Cnawdlwyth Went, cenedl a'th wŷr.

Caredig i'r câr ydych,  
 52 Cefn Gwent, a gŵr cyfiawn gwych.  
 A ddywetych ni ddowntir,  
 A fydd a saif y ddwy sir.  
 Od aeth gair doeth a gwrol,  
 56 Ni throi'n wan â'th air yn ôl.  
 Gŵr brau wyd â gar eu bron  
 Gyda'r gair i gadw'r gwirion.  
 Parod wyd, pêr yw dy win,  
 60 I'th fyw, Reinallt, i'th frenin,  
 A chadarn tra fych ydwyd  
 Wrth wir gyda'i gyfraith wyd.  
 Teirgwent waed, trwy Gent, ydych,  
 64 Teyrnllew dewr wyt, Reinallt wych;  
 Tarian *tir* Brychan o'i brig,  
 Teirsir ddadl, tras urddedig.  
 Trwy Dduw'r radd yt draw a ddring:  
 68 Torch eurgard. Trowch *chwi* Erging.  
 Torchaid aur is trwch dy wallt!  
 Tair einioes gŵr yt, Reinallt!

*Ffynhonnell*  
 Llst 164, 119

*Darlleniadau'r llawysgrif*

7 ..eistav.. 10 nosta r enw.. 21 hwdau.. 34 ..rawg 38 ..i rhoi.. 45

..ysmannaeth 49 ..caed.. 51 ..ydywch 57 ..geir.. 65 tariann tri.. 67 ..dduw  
radd.. 68 ..trowch i ergin 70 ..einoes..

*Awdl foliant i Harri, Arglwydd Herbert*

- Iarll Gwent o barlment yn ben—y teirgwlad,  
 Wyt arglwydd uwch Hafren,  
 Aros, Harri, yw'r seren  
 4 Am aros Dug Swmrsed wen.
- O Swmrsed, banred, o benrhyn—Mynyw,  
 Manaw, Lloegr a Phrydyn,  
 O wyth ddugiaeth y'th ddygyn',  
 8 O Iarll Gwent, wŷr y llew gwyn.
- Er darfod llewod a holl waith—Rhaglan  
 A rhoi'n wan yr heniaith,  
 Ennyn dân, Rhaglan benrhaith,  
 12 I'r lle yno'n iarll unwaith.
- Iarll Herbart ifanc o iôr llwyd,—yn ddug  
 Rhyw ddydd y'th broffwydwyd;  
 Iarll wedy'r henieirll ydwyd,  
 16 Pennaf o ieirll Penfro wyd.
- Iarll fych Penfro wych, â'r awchiad—eurlles,  
 Iarllaeth dy orhendad;  
 Od â dyn wedy dy dad,  
 20 Chwi â, undyn, i'ch hendad.
- Dy dad sy geidwad, ac adain—gwennol,  
 Genedl Ynys Brydain,  
 A thi fydd dan dalaith fain  
 24 Yr haf ymherod Rhufain.
- Tref Rhufain, Llundain, hyd a lled—dugiaeth,  
 O waed dugiaid Swmrsed,  
 Tarw, i Raglan y'th aned,  
 28 Tarw Lloegr ywch â trwy holl Gred.
- Trwy Gred, Iarll Swmrsed, dryllia sawd—ceyrydd,  
 Cwncweria'r feddysawd;



32           Ti yw'r undyn at Drindawd,  
Tewi oedd bryns, hyd Dydd Brawd.

Dydd Brawd yw'ch dymawd â'r chwe darn—onwayw  
Ar bob ynys gadarn;  
36           Difa oll, y mae 'n dy farn,  
Dan hai o dân a haearn.

Tân wyt o felan at filwyr—Teirgwent  
Trafaelent rhyfelwyr;  
40           Truan iawn y'u troi'n anwyr;  
Ti a wnai Went eto'n wŷr.

Arfau'r gwŷr gorau, a gyrrent—siasau,  
Ail Sisar Castell Gwent;  
44           Iarll oedd ddaear holl Ddwywent;  
Arall a gawn yn Iarll Gwent.

Ŵyr Iarll Wiliam a fagoedd mamaeth,  
Orwyr Iarll Wiliam o fam ei faeth,  
48           Chwi'n Iarll Gwent galwent, argoeliaeth—Gwalchmai;  
I ti fo weddai'r etifeddiaeth.

Duw i'th gadw, Harri, i'th arglwyddiaeth  
A Mair, ei filwyr, rhag marfolaeth,  
52           A'n llef ar saint nef yt a wnaeth—curas  
Rhag gwenwyn na sias, rhag gwn na saeth,

Rhag gwayw i Harri, rhag cyhyraeth,  
Rhag gwŷn gelyn, rhag gwayw nac alaeth,  
56           Rhag clefyd o'r byd y bai waeth—eich hap,  
Rhag coelio anap, rhag gelyniaeth.

Chwi y sy ysgol i'ch mabolaeth,  
Chwi sy drugarog i'ch rhywiogaeth,  
60           Chwi sydd a orfydd arfaeth—holl Normant  
A chwi yw Rolant i'ch rhiolaeth.

Ewch i Went rial â chynhalaeth,  
Ewch i Went wiw â pherchentyaeth,  
64           Ewch i Went, 'Nwywent ei hynafiaeth—wyd,  
Ewch i gadw aelwyd i'ch gwaedoliaeth.

68      Pob gwlad weithian, pawb i'ch gwasanaeth,  
           Pob gŵr ywch hefyd, pob gor'chafiaeth;  
 Pob gwan, pob cadarn, pob gwaeth,—pawb y dring,  
           Pawb a gân' edling, pob cenhedlaeth.

72      Pob treth, Harri, ywch, pob tir a thraeth,  
           Pawb yma deffrowch, pob mud a ffraeth;  
 Pob balch, pob difalch arnad aeth,—Harri,  
           Pob rhai oedd i chwi, pob rhydd a chaeth.

76      Pob bronnau ynys, pob brenhiniaeth,  
           Pob môr o wydr, pob ymerodraeth,  
 Pob llin, pob brenin, pob barwniaeth—wych,  
           Pob lle i edrych, pob llywodraeth,

80      Pob rhai a ddygwch, pob rhyw ddugiaeth,  
           Pawb yt sy agos, pob twysogaeth;  
 Pob swydd, ych arglwydd, i chwi aeth—heddiw,  
           Pob iaith i'th eurlliw, pawb i'th iarllaeth.

Iarll Gwent o barlment yn ben, &c.

### *Ffynonellau*

A—Pen 60, 33    B—Pen 113, 8

### *Amrywiadau*

2 *A* ..ywch.. 4 *A* ..dyc swmyrsed.., *B* ..duk.. 5 *A* ..benryn.., *AB* ..myniw 6 *A* ..lloecer.., *B* ..Loegr.. 7 *A* ..dyciaeth yth dycyn, *B* ..dugiaeth yth dygyn 9 *A* ..rrac lan 11 *A* ynun dan rraclan.., *B* yn un dan.. 12 *AB* yr lle.. 13 *B* ..iefanc.., *A* ..y ddyc, *B* ..dduk 15 *A* ..wedu.., *B* ..wedi r hen iarll.. 17 *A* ..yur lles, *B* ..ywr llew 18 *B* iarlaeth.. 20 *AB* ..ych hendad 21 *A* ..gyidvad.. 24 *B* ..amherod.. 25 *A* ..dyciaeth 26 *A* ..dyciaid.. 27 *A* ..y rraclan.., *B* ..y Rraglan.. 28 *A* ..lloecer.. 30 *A* ..feddydavid 33 *B* dyd.. 37 *B* ..tir Gwent 38 *AB* tryfaelent.., *B* ..ryfelwyr 39 *A* ..y troi.., *B* ..ei troi.. 40 *A* ..ynay went.. 42 *A* ..gwen 43 *A* ..ddauar.., *B* ..ddau ar.. 44 *A* ..y gavn.. 45 *A* ..y fac oedd.. 47 *B* ..Gwachmai 48 *A* ..ytifeddiaeth 49 *A* ..yth gadw..yth.. 50 *A* ..rac myrfoelaeth 51 *B* an lef.., *A* ..yvnaeth.. 52 *A* rrac..sais rrac.. 53 *A* rrac..y hari rrac kyhyuraeth 54 *A* rrac..rrac.. 55 *A* rrac.. 56 *A* rrac..rrac.. 57 *AB* ..y sy ch yscol ych.. 58 *A* ..drygaroc ych rryviocaeth, *B* ..ych.. 60 *A* ..ych riolaeth, *B* ..ych rriolaeth 61 *A* ..y went.., *B* ..o went.. 62 *A* ..y vent.. 63 *A* ..y vent.., *AB* ..nvyfvent.., *A* ..hynyfiaeth.., *B* ..henafiaeth.. 64 *A* ..y gadw.., *AB* ..ych.. 65 *AB* ..ych gvsanaeth 66 *AB* ..gorychafiaeth 67 *B* ..pawb ydfyng 68 *A* ..y gan.. 69 *B* ..traeth 72 *A* ..y chvi.., *B* ..i cwi.. 75 *B* ..barwniaeth 76 *AB* ..y

edrych.. 77 *A* ..y ddycvch..ddyciaeth, *B* ..ryw.. 78 *A* ..acos..tyvysiaeth 79  
*AB* ..ychvi.. 80 *AB* ..yth.. yth., *A* ..yurlliw..

*Awdl foliant i Harri, Iarll Caerwrangon*

- 4 Iarll Harri Swmrsed holl Went—a'r llysoedd,  
Iarll Wsedr o barlment,  
Arglwydd daear, gwledd Dwywent  
A bort ieirll, Herbart o Went,
- 8 Iarll Rhaglan pob man mynnwyd:—deheufro  
Hyd Hafren o lan Clwyd;  
Iarll goreudir Lloegr ydwyd,  
Iarll Cymru; iarll, Cymro wyd.
- 12 Iarll Harri sy i ni yn iôn,—wayw bonfras,  
Doed Benfro i Gaerwrangon,  
Ŵyr Dug Harri'r deg coron,  
Mab Siarls Iarll am bwys Yrl Siôn.
- 16 Twysogion, tri Siôn tros wart,—dau Emwnt,  
Dyma dri Iarll Herbart,  
Tarw Siôn o Gawnt tros naw gwart,  
Tarw Odwin a'r Tri Edwart.
- 20 Tri Wiliam tŷ'ch mam, tewch am waith—cedyrn,  
Tri cadarn tair cyfraith;  
Tri gwn tân Teirgwent ei waith,  
Tri teilwng i'r tair talaith.
- 24 Gobaith tair talaith fu'r taid,—Marchog Cam,  
Mawr uwch cyff Brytaniaid;  
Gwaed Cymru'n plygu i'ch plaid,  
Garw degosgl, Lloegr a'i dugiaid.
- 28 Pum plaid o ddugiaid lle 'dd aeth—can coron,  
Cwncwerwyr pum iarllaeth,  
Pum brenin o'r llin, ieirll aeth,  
Pumprhan henw pump brenhiniaeth.
- Dy ran ynys ban Ysbaen—a'u cestyll,  
Castil, emprwr Almaen;

32 Dy waed o'u brutwaed, Brytaen,  
Sy'r ail am waed Siarl-y-maen.

Almaen, Aensio, Maen, a mainc—ym Mharis,  
(Mae, Harri, 'r carw decainc?)  
36 A'th blaid o ffrwyth blodau Ffrainc,  
Barwn hengyff brenhingainc.

Iachau Ffrainc a chyff y rhos,  
A phle rhoed lwyth i fflŵr-dy-lis?  
40 Arfau Lloegr felly agos  
Wrth eu cael i borthcwlis.

Y dragwn wyd â'r gwayw'n us  
A'r llew gwyn er dryllio'i gas;  
44 Iarll o'r hen ieirll, Harri, 'n nes,  
Iarll hanner yr holl ynys.

Y mae holl Gymru yma'n untuog  
Yn ymroi yd, fal Cynan Meriadog;  
48 O fôr Gwy i Faelor, fry i Gyfeiliog,  
Ymrowch, o Wynedd hyd ym Mrycheiniog,  
Iarll canswydd, arglwydd eurglog—ym mharlment,  
Iarll Gwent a dybient fal Coel Godebog.

Mae bar a llewfrest fal mab Iarll Efrog,  
52 I chwi mae glanwisg Walchmai galonnog;  
Iarll Harri, colofn i'r llew a'r ceiliog,  
Yn wir i'th frenin, Harri Wyth freiniog,  
56 Iarlaeth, caer odiaeth Caradog—Freichfras,  
Y llew pur, i'th Ras, Iarll y Porth a'r Og.

Coed Herber ogylch yw'r caterw brigog;  
Cadw acwy 'nghanol y coed canghennog;  
60 Cedyrn cân' waedlew cadarn cenhedlog,  
Cedyrn cai hwythau, cadarn cywaethog;  
Caterwen uwchben ych bannog—reiol,  
Cadw ran tarw gwrol, cadarn trugarog.

Pa dŷ waetiasant pai dŷ tywysog?  
 64 Pen i'r tŷ 'rïoed wyd, pen nortr odidog;  
 Pob lluniaeth, pob cwrs, pob llawnwaith, pob cog,  
 Pob llawnwin hefyd, pob llyn yn hafog;  
 68 Pob dydd pawb y sydd, pob swyddog,—gwas gwych,  
 Pen ieirll mawr, wrthych. Pwy'n iarll mawrwrthiog?

Y iarll cryf i Eingl yw'r llew crafangog,  
 Y iarll rïal yw'r llewes rywiog,  
 Iarllswawr Wsedr, iarlls hiroesog,  
 72 Iarllswisg Elsbedd o'r ieirll gogleddog;  
 Iarlls, eryres, wŷr eurog—farcwes,  
 Ei rhyw arglwyddes fu'r wraig luyddog.

Mae'r iarll a hon yma o'r ieirll enwog,  
 76 Arglwydd Swmerséd o'r ieirll dyledog;  
 Ni bu'r fath feibion i bryns coronog  
 Ond i wŷr Trydydd Edwart hiroediog;  
 Arglwyddi'n codi mainc oediog—ternas  
 80 At Harri a'r Gras a gatwo'r wir Grog.

Tynned pawb â'u meirch, tanad pob marchog,  
 Trowch yn wŷr dewrchwant trychan aurdorchog;  
 Tair mil gweryrfeirch, tair mil gwŷr arfog,  
 84 Tair mil gwaywyr onn, trymlu gwerinog;  
 Tair mil aen' ymlaen am log—bwaau,  
 Tair mil o ynnau, Rhodri Molwynog.

I'ch gwarae oeddych yn ych gwareddog,  
 88 I faeddu trinoedd yn faedd tarianog;  
 I ddewrgad anial yn ddraig adeiniog,  
 Yn nerthu ynys yn arth ewinog;  
 Yn llewpart, fowart fywiog;—drwy gedym  
 92 Â'r llew. Rhy ddewrchwyrn yw'r iarll ardderchog.

Iarll Harri Swmrsed holl Went, &c.

### *Ffynonellau*

A—Pen 99, 364 B—Pen 101, 169 C—CM 12, 197

### *Amrywiadau*

1 *ABC* ..somrsed.. 3 *B* ..gwlad.. 4 *C* ..Herbert.. 5 *A* ..raglann.. 10 *AB* ..y  
 gaer.. 12 *ABC* ..sïarles.., *C* ..earl.. 13 *ABC* ..Jemwnt 17 *A* ..waith kedyr[ ]

20 *AB* ..yr tair.. 21 *C* ..yw r taid.. 22 *AB* ..ywch.., *C* ..yw ch.. 23 *AB* ..ych  
 plaid, *C* ..eich plaid 24 *B* ..a dugiaid 25 *AB* pvmp.. 27 *A* pvmp.. 28 *AB*  
 pvmprann.., *ABC* ..pvm.. 37 *C* achau.., *ABC* ..ros 38 *C* ..rhoed fflwr.., *B* ..y  
 fflwr.. 40 *AB* ..y borth.. 42 *A* ..drillio.. 52 *A* y chwi.. 53 *AB* ..yr llew.. 54  
*AB* ..yth vrenin.. 56 *AB* ..yth ras.. 58 *C* ..accw.., *B* ..cangheiniog 63 *AB* ..i  
 waetiasant.. 65 *C* pen.., *A* ..pob ko[ ] 66 *AB* ..llawin.., *C* ..llaw n win.. 68 *A*  
 ..mawr weir[ ], *B* ..weirthiog, *C* ..werthiog 69 *AB* ..y eingl.., *C* ..ei eingl.. 71  
*C* iarllswaed.. 72 *ABC* ..elsbeth.. 73 *AB* ..barces, *C* ..barres 74 *AB* y ryw..,  
*C* i ryw..yw r wraig.. 75 *B* mae iarll.., *AB* ..yma r.. 76 *C* ..Somersed.., *AB*  
 ..deiliedoc 77 *ABC* ..brins.. 78 *ABC* ..i wr.. 79 *C* ..tynas 80 *AB/C* yt harri  
 yw r gras/groes.. 83 *ABC* teir mil.. 84 *C* teir mil.., *A* ..gweywyr.., *B*  
 ..gweywyr.. 85 *C* ..a bwau 86 *A* ..rotri.., *C* ..Rotri.., *AB* ..malwynoc 87 *AB*  
 ych gwarae.., *C* ych gware.. 88 *AB* y vaeddv.. 89 *A* y ddewrgad.., *B* y  
 ddewredd.. 90 *C* yn nerth i ynys.., *AB* ..nerth ynys.. 92 *AB* ..ry..

*Moliant Harri, Iarll Caerwrangon*

- Mae un eurllew mewn iarllaeth,  
 Mae'n ben am y neb a aeth,  
 Iarll Harri, iarll a eurwyd,  
 4 (Am aros dug) Swmrsed wyd,  
 Wyr iarll hen o'r ieirll unoed  
 A gorwyr iarll gorau 'rïoed,  
 Uchaf un iarll, eich ofn oedd,  
 8 Iarll Wsedr, yr holl oesoedd.  
 O dri iarll y dôi'r eurllywyth,  
 A'r tri ynt waed Harri Wyth.  
 I dri dug ewch drwy'r deg wart  
 12 I'r trydydd o'r Tri Edwart.  
 Galw waed y rhos, Gwlad yr Haf,  
 Gyda iach y gwaed uchaf.  
 Uwch o waed fych; ewch hyd Farn  
 16 Am un gwaed Siarlmaen gadarn.  
 Oen Colcas y'th urddaswyd  
 Â'r gwlan aur o Raglan wyd.  
 Nid gwyr brenhinwyr henwent,  
 20 Nid llwyth eithr llwyth iarll o Went.  
 Nid iarll iarll onid o'r llin,  
 Nid gwaed gwaed ond gwaed Godwin.
- Os hir fu d'aros, Harri;  
 24 Dros dau iarll fu d'aros di.  
 Nid arhôn' wedy'r henwr,  
 Ni chair i Went eich rhyw wr.  
 Prys i'th waed, pren syth ydywch;  
 28 Ple caent dy well? Plygent ywch!  
 Pwy ni edwyn pwyn ydwyd?  
 Pond yn iarll penna' dyn wyd?
- Iarll Wsedr, eurllew aesawr,  
 32 Iarll y Mars a wna'r llw mawr,  
 Dwg gof, nid oes dug cyfuwch,  
 Waith yr hen iarll i'th roi'n uwch.



36                   Gwna wledd, ein annedd unwaith,  
                       Galan yn Rhaglan, benrhaith.  
                       Galw Gymru, geiliog Emrys,  
                       Galw i'th wledd y gwyliau i'th lys.

                      Mae ofn d'air mwyfwy *i'n* dydd,  
 40                   Mae'r galw o'r môr i gilydd.  
                       Llywiawdr wyd am iarll draw aeth  
                       Llei edrych pob llywodraeth.  
                       Llywia gyfraith ein iaith ni,  
 44                   Lleiha herwyr, Iarll Harri.  
                       O gas gynt na ddwg oes gŵr  
                       Eithr oes pob lleidr a threisiwr.  
                       Gostwng draws, nid un naws neb,  
 48                   Gad i wan godi'*i* wyneb.

                      Mawrddawn wawd Myrddin ydwyf  
                       A'r brud i Iarll Harbard wyf.  
                       Yr wyd uwchlaw'r rhod â chledd;  
 52                   Dyna rod i anrhydedd.  
                       Cymer, bryns, Gymru a'i braint,  
                       Iawn gweryl dy hen geraint.  
                       Beli fu 'mysg blifiau main,  
 56                   Arthur hefyd wrth Rufain.  
                       Tithau sydd drydydd hyd Rôn;  
                       Ti yw'r carw â'r tair coron.  
                       Pâr roi fal yr emprwr hen  
 60                   Porthewlis uwch pyrth Cwlen.  
                       Mae can caer i'm cwnewerwr,  
                       Mae nawryn gynt mewn un gŵr.  
                       Mae *i* tithau'r tyrau a'r tir;  
 64                   Mae'r wyth hafn; mawr y'th ofnir.  
                       Mae gynnu ac arfau gwŷr,  
                       Mae *i'w* lu ganmil o waywyr.  
                       Maen' yt wŷr mewn y teirawr  
 68                   Nawcan am un i'r Cân mawr.  
                       Marchogion a'r meirch ogylch,  
                       Mwy no deg iarll mae 'n dy gylch.  
                       Amlha wŷr a milwriaeth,  
 72                   Ymddwyn i ti'r meddiant aeth.  
                       Ymwedded—oes mwy iddi?—  
                       Ac ymroed holl Gymru i ti.

- 76 Ymwrando am yr undyn,  
Ymwybod waith mab y dyn.  
Ymafael â'r byd mwyfwy,  
Ymaros fyth am ras fwy.
- 80 Iarll o'th waed, eurllywyth ydoedd,  
Am hen fraint ym Mhenfro oedd.  
Iarll y'th gaf iarllaeth gyfiawn;  
Am hen iarll mae hyn o iawn.  
Dug y'th gawn, dugiaeth gennydh.  
84 Hir y bo'r Dug Harbard wych!

*Ffynonellau*

A—Pen 96, 168 B—LIGC 13068B, 66<sup>v</sup>

*Amrywiadau*

2 *A* ..neb aeth 4 *B* ..duc., *A* ..symersed.. 5 *B* ..hanoed 8 *A* ..wsettr., *B* ..owssedr or.. 9 *B* ..y daw r eirllwyth 10 *B* arhain..harri r wyth, *A* ..wych 11 *B* y dri duc..ward, *A* ..drwy deg.. 12 *B* y trydydd..Edward 13 *A* ..yr Rros.. 14 *B* gyda g ach.. 15 *B* ..fyth..hed farn 16 *A* am gwaed.. 18 *A* ar gwlad.. 21 *A* ..ond.. 22 *A* ..onid.. 23 *B* ..vn daros.. 24 *A* daros., *B* ..jarll yn.. 25 *A* ..wedi r.. 26 *B* ..y went [ ] Rvw wr 27 *B* [27–8] 28 *A* ..plyge[ ] vwch 29 *A* ..pen ydwyd 30 *A* pont.. 31 *A* ..wssettr., *B* ..owsedr aur lliw.. 32 *B* ..y na r llu.. 33 *B* duk.. 34 *B* ..ith Rhoi n ywch 37 *B* ..gymry.. 38 *A* ..wledd gwiliav., *B* ..yth wledd a gwilia ith.. 39 *AB* ..mwyfwy n dydd 40 *B* ..yw gilydd 42 *B* lle y edrych.. 43 *B* ..in iaith.. 44 *A* lleha.. 46 *A* ..oes lleidr., *B* ..threisswr 48 *B* ..y wan., *AB* ..godi wyneb 50 *AB* ..bryd., *A* ..yr jarll., *B* ..y jarll herbard.. 51 *A* ..vwch law r od., *B* ..ywch law Rod.. 52 *A* dyna r Rrod., *B* dyna Rod dy.. 53 *A* ..bryns kymrv fai braint, *B* ..brins kymry.. 55 *A* ..blaifiai., *B* ..bleifie a.. 57 *A* dithav.. yd ron 58 *B* ..kar.. 59 *AB* ..Rroi.. 60 *A* ..wrth.. 61 *B* ..kankar.. 63 *AB* mae tithav.. 65 *B* [65–8] + *i* 66 *A* mae lv..wewyr 69 *A* ..ar meir., *B* ..ay meyrch.. 71 *A* amla.. 72 *A* am ddwyn yw meddiant., *B* ..y ti.. 73 *A* ymweddaith.. 74 *A* ..gymrv ti, *B* ..gymry yti 76 *A* am wybod.. 77 *B* ymafel.. 79 *A* ..ath waed., *B* ..ar llwyth.. 82 *B* ..hin.. 83 *B* duc., *A* ..deg iaith.. 84 *B* ..duc herbard., *A* ..herbart..

*i*

mae antirwyr mewn teirawr  
llew mwyn ita lly mawr

*Moliant Harri, Iarll Caerwrangon*

Y iarll o Went â'r holl wŷr,  
 Iarll molent â'r llu milwyr,  
 Iarll Harri, ieirll a eurent,  
 4 Swmrsed dros y Mars hyd Drent,  
 Llew gorau'i dŷ'n Lloegr a'i daid  
 Lle dygir ieirll a dugiaid;  
 Llaw ddeau'r ieirll o Ddwywent  
 8 Lle mae rôbs iarll mawr o Went.  
 Safent ieirll sy fyw; aent hwy,  
 Iarll Wsedr, i'r llaw aswy.  
 Nid ânt ieirll nid ŷnt eurlwyrth  
 12 I'r tŷ'r ewch at Harri Wyth.  
 Ymddiried hwn meddai'r tad,  
 A'r dernas a roed arnad.  
 Nid oes rownd yn d'ais o rin  
 16 Neu i'th fron ond Duw a'th frenin.  
 Felly'r wyd fo allai'i Ras  
 Ar gywirder roi gardas.  
 Gwisg rial wisg esgair lân,  
 20 Gartr waegloyw, i gwrth Rhaglan,  
 Torch aur y tarw â choron,  
 Torch tad; i hendad bu hon.

O dri dug draw wyd agos  
 24 Ac o dri iarll, gwaed y rhos:  
 Tŷ ar ôl y tri Wiliam  
 —Tawed fyth!—at dŷ dy fam;  
 Tri o ieirll o'r tarw eurlwyd;  
 28 Trydydd o hen Ddafydd wyd.

Heddiw dy fardd ydwyf fi  
 Oll, a herod, Iarll Harri.  
 Pedwar gwaed,—pwy draig Odwin?—  
 32 Pedwar lliw o'ch pedair llin:  
 Lliw aur, unlliw arianllwyth,  
 Lloegr a Ffrainc, lliw gorau ffrwyth.

36 Mae'r sinobl mawr o soniynt  
 Ac mae'r gwaed o Gymru gynt.  
 Dwg helmed, dug o Almaen,  
 Asur liw maes Siarl-y-maen.  
 40 Tri llew'n anturio lluoedd,  
 Tri 'mrest dy gotarmur oedd  
 A phorthcwlis, ffwrdd cilient,  
 A'r llew gwyn a ddug ieirll Gwent.

44 Pan fu'r ieirll, Penfro iarllaeth,  
 Yn dir sych, yn d'aros aeth,  
 Aros, dwfr fry dros Dyfi,  
 I'w ddyfrlle oedd fy iarll i.  
 48 Chwi yw'r eigion a'ch rhagor;  
 Pawb sydd afonydd i fôr.  
 Llauer mil, llwyr yw moli,  
 Lle'r wyt, iarll, o wŷr i ti.  
 52 Nid oes gof dŷ sy gyfuwch,  
 Ni bu 'rïoed dŷ, Herbar, uwch.  
 Nid un gynnal dawn gannoes  
 Iarll na dug arall yn d'oes.  
 56 Ni bu wledd brenhinedd hen  
 Rialach dan yr heulwen.  
 Ni wn enwi 'n un ynys  
 Wŷr tŷ iarll hael fwy nortr llys.

60 I iarll daear holl Dwywent  
 E ymroes holl Gymru i Went.  
 Dy faner aed i Fynyw;  
 Hyd Gaer-loyw dy gweryl yw.  
 64 Aed brig Wysg hyd aber Gwy;  
 Hwde gennyd hyd Gonwy.  
 Bydd ben uwch Hafren yn chwyrn,  
 Bydd eu ceidwad, baedd cedyrn,  
 Braich Harri, bar a choron,  
 68 Bwyall i'w fab, llew o Fôn,  
 A llygad rhag twyll ogylch,  
 Llew gwŷr Gwent, yn Lloegr o gylch.

72 E ddôi ieirll hwnt o ddryll haid;  
 O ieirll Gwent mae'r holl gyntaid.  
 Blaenor haid, ble ynn ryw iarll,  
 Brytaniaid, Herbart, uniarll?

- 76 Bo'n ieirll dy feibion eurllywth!  
Breisgainc Lloegr a Ffrainc yw'r ffrwyth.  
Bid dug ynn! Boed d'eginyn!  
Bo'r dug Arglwydd Herbard ynn!  
Bid teiroes bywyd derwen!
- 80 Bo i wŕ tŷ Iarll Herbart hen!

*Ffynonellau*

A—Pen 99, 368 B—Pen 101, 172 C—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 445<sup>r</sup> D—Llst 35, 191 E—Llst 30, 267 F—J 101 [= RWM 17], 592 G—LIGC 20574A, 267 H—BL Add 31056, 99<sup>v</sup> (y *testun yn aneglur*) I—Llst 133, rhif 480 J—CM 12, 200 K—BL Add 31090, 81<sup>v</sup>

*Amrywiadau*

1 CDFG i.. K iarll.., C-*IK* ..ai.. 2 G ..malent.., HK ..a llv.. 3 HK ..harri oll.., C-*GI* ..iarll.., I ..a r eurent 4 C-*GIK* symerssett.., E ..yd trent 5 *ABJ* ..gorav dy n.., C-*IK* ..gorav dyn lloegr i daid 6 F [...], C lle digudd.., *DEGI* llew digudd.., H llew dyg[ ]iarll ai.., K llew dygudd iarll ai dugaid, G ..iarll.., *CDGI* ..ai.. 8 I [ ], *ABJ* ..mae r rop.., *CDF* ..Robs.., E ..mae Rolvs.. 10 *CF* ..wsetr.., *DEGHIK* ..wsser.., *AB* ..yr llaw.., C-*IK* ..ar llaw.. 12 *AB* yr ty.., C-*H* ..tv.., G ..wych 13 C-*FI* ymddiriaid.. 14 C-*FHJK* ..dymas.., I ..deyrnas.., *ABIJ* ..erioed.., C-*F* ..eirioed.., G ..irioed.. 15 *DE* ..Rownd.., *CD* ..Rin 16 *ABJ* nev th fronn.., *CF* ith fronn.., *DEGHIK* nath fronn.. 17 *CE-  
IK/D* ..fo allai ras / Ras 18 I ..gywirdir.., D ..Roi.., G ..garder 19 *CDF* ..Reiol.., *EGHIK* ..reiol.. 20 *CF* gart waegloyw gwr.., *DEI/G* gart / gwart warrgloyw gwr tv rhaglan, *HK* gwr ty arglwydd gwr raglan, J ..waywgloyw.., *AB* ..y gwr.., A ..raglan 22 C-*GIK* ..a hendar fy honn, H ..a hendar [ ] honn 23 *HK* o doi.., A ..dvc.. 24 *ABH* ..ros 25 B-K 26-25, C-*GI* ti.., *HK* tri.. 26 C-*IK* deved fyth.., *CF* ..at dv.., *DE* ..hyd at dy fam, *HK* ..hyd at y fam 27 G ..y tarw.. 31 A ..draic odwin, C ..edwin 32 C-*IK* pedwar llv iach.., B ..llaw.., J ..llew.. 33 *CF* lliw av.., J ..wenllys.., A ..wynnlys.., B ..wynnlys.., I ..ar anllwyth 34 *ABCFGIJ* lloegr phrainc.., *ABJ* ..lliwiev.. 35 C-*HK* ..a sonynt, I ..a sonynt 36 C-*IK* maer gwaed mawr.., *ABJ* ..gymry.. 37 A dvc.., C-*HK* ..elmed.., I ..elined dug odlmaen 38 *GHK* ..lliw.. 39 C-*FHIK* ..llew antvrio.., G ..lliw anturiai.. 41 J ..fforch cwlis ffwrch.., *AB* ..ffwrth.. 42 B a llew.., A ..ddvc.., C-*IK* ..iarll.. 43 *DEG* pen.., *HK* pen fv jarll.., C-*GI* ..iarll.. 44 F y dir.. 45 *DEGHI* ..dwfr oedd dros.., K ..dwvr oes.. 46 A-*HK* yw.., G ..ddyfre.., K ..ddyvroedd vy iarll i 47 *HK* chwi ych.., *GI* ..yw eigion.., *ABHJK* ..ragor 50 *CFG* llei rwytt.., *HK* ..wyr wytti, *ABJ* ..y ti 51 *CF* ..di.., K ..do.., H ..dv.. 52 C-*F* ..eirioed.., *CFH* ..tv.., C-*K* ..herbart.., *CFH* ..ywch 53 *ABJ* ..daw n.. 54 C-*IK* ..nid oes 55 K ..brenhinoedd.. 56 *CF* riolach.., *DEI* rheiolach.., *GHK* reiolach.., J rhialach.., *DEI* ..tan.. 57 G ..henwi.., *CF* ..enwi yn ynys 58 *CFH* ..tv..

*CFHK* ..ar tair llys, *DEGI* ..nor tair llys 59 *ABJ* y iarll., *HK* iarll.. 60 *H-K*  
 ymroes., *A* ..gymry.. 61 *K* ..oedd., *C-GIK* ..o fynyw, *H* ..o fyniw 63 *AJ*  
 ..wisg., *CF* ..yd.. 65 *DE* ..yn benn., *CFH* ..ywch hafren chwyrn, *DEGIK*  
 ..hafren chwyrn 66 *AB* byth., *DE* bydd geidwad baedda gedym, *CF-IK* ..yn  
 ceidwad.. 68 *A-HJK* ..yw., *HK* ..mab.. 69 *G* llygad., *AH* ..rag., *CF* ..o  
 ogyrch 70 *DGHIK* llew gwent.. 71 *F* e ddai., *HK* ..iarll..o ddyll.. 72 *E* a.,  
*C-IK* ..iarll..yw r., *K* ..gyntiaid 73 *CF* blaenor wyd., *C-FI* ..yn blaenv r  
 ieirll, *G* ..yn blaenv r., *HK* ..yn blaenv r lleill, *J* ..ble unrhyw.. 74 *C-FHIK*  
 ..iawnieirll, *G* ..iowniarll 75 *E* ..feibon.. 76 *CF* brasgank., *C-GI* ..lloegr  
 ffraink gorav ffrwyth, *HK* ..lloeger ffraing ai ffrwyth 77 *CF* poed..bid.,  
*DEGHK* boed..bid., *ABJ* ..vn., *HK* ..deg wynn, *I* boed..byd eginyn 78 *F*  
 ..dvd., *DEGHIK* ..herbart., *ABJ* ..wynn 80 *CF* bo ir tv., *G* ..tv., *HK* i wr  
 tv..

*Marwnad Harri, Iarll Caerwrangon*

- Duw gadarn, ai dig ydwyd?  
 Duw fyw ddoeth, ai difa 'dd wyd?  
 Dwyn yr Wyth, doe anrheithiaw,  
 4 Dwyn ato'r iarll, Dwywent draw.  
 Tri iarll aeth o Went i'r llan,  
 Tri ffrwyth rhywioglwyth Rhaglan:  
 Dwyn einioes, nid yn unawr,  
 8 Dau Wiliam, ieirll, dial mawr;  
 Iarll Harri, mwy i'r llu hiraeth  
 Os marw ystil Swmrsed, aeth;  
 Syrthio mab Iarll, swrth o'm barn,  
 12 Siarls, gwaed yr hen Siarls gadarn,  
 Wyr y Duwc Harri, decainc,  
 O gyrff yr ieirll, Lloegr a Ffrainc.
- Llef wb i'r ieirll fu o'u bron,  
 16 Lloegr, angau Iarll Gaerwrangon.  
 Arglwydd a Iarll, eurgledd oedd,  
 Harbart, braich Edwart ydoedd.  
 Bwrw'r un iarll, brau rannai'i win,  
 20 O bur ynys y brenin,  
 Piler aeth,—pa lu i'w Ras?—  
 Post arno pwys y dernas.  
 Bwlch ar gaer, bylchau i'r goron,  
 24 Bwrw mur Mars, aber môr Môn.  
 Cwmp sylfaen, Cymru flaenawr,  
 Cwyn Sawl *ym* mainc, cwysel mawr.  
 Mae iarll eisiau mwy i'r llysoedd  
 28 Mewn tŷ ieirll ym mharlment oedd?  
 Troed oedd i Edwart a'i dad,  
 Llaw i Loegr a'i naill lygad.  
 Bwrw cynnor uwch brig Gwynedd,  
 32 Bwrw clo Went i aber Cledd.

Dreigiau oedd mewn daear gynt;  
 Anial ofn oedd pan lefynt.

36 O dŷ Raglan mae dreiglef;  
 Am yr iarll hwn y mae'r llef:  
 Cwyp arfau, pob camp aerfawr,  
 Cwyp gwŷr a meirch, cwyp gŵr mawr.  
 40 Och! Gwae 'ntwy, farchogion taid,  
 Ys gwaeth ei wŷr ysgwieriaid;  
 Gwae 'ntwy, ei wŷr fu gynt wrol,  
 Wedy'r iarll fod ar ei ôl.

44 Bardd wyf tra gerddwyf a gân  
 Â bloedd fyth, 'Ble 'dd af weithian?'.  
 Wyf un llef yr oen llawfaeth.  
 Erglyw, Dduw; fy arglwydd aeth.  
 Caf wylo, cof a welent,  
 48 Cost llu ac ost Castell Gwent.  
 Fo wna gof i hŷn ac iau  
 Fyth a welas fath wyliau.  
 Duw anfonas dan fynwent  
 52 Gwleddau a gwin arglwydd Gwent,—  
 Gwent orig *un* hynt derwen  
 Y darffai i wynt dorri' *i* phen.

56 O fwmpa'r iarll 'f â imp brig  
 Lle'r oedd waed ieirll urddedig.  
 Piler pan dorre'r deirawr  
 Pand dryll â o'r bont i'r llawr?  
 60 Pen Tair Gwent a'u pont i'r gwaith,  
 Pand Wiliam fydd pont eilwaith?  
 Bo i Wiliam fal mab Elen  
 Roi golau'n well Raglan wen.  
 Mae pum mab, pa mwy obaith,  
 64 Ac un yn iarll; gwyn i'n iaith.  
 Iarll yw fo geirllaw y fam,  
 Wsedr ail, sy dri Wiliam.  
 Trydydd eto i redeg  
 68 Fo ry Duw am Benfro deg.  
 Aed â'i nod! Duw'n ei adel!  
 Eurlliw ddug o iarll ydd êl!



*Ffynonellau*A—Pen 121, 194 B—Pen 96, 680 (*llau. 1–30*)*Amrywiadau*

1 *B* [ ]w gadarn., *A* ..dic.. 6 *AB* ..rhywiowglwyth.. 9 *AB* ..mwy r llv.. 10 *B* ..Symrsed.. 12 *A* ..Sials., *B* ..Siars.. 13 *A* ..dvg.. 15 *AB* ..yr ieirll.. 16 *AB* ..kaer.. 18 *A* herbart.. 19 *AB* ..rannai win 21 *A* ..pae lv yw ras, *B* ..i ras 22 *AB* ..dyrnas 23 *AB* ..bylchav r goron 26 *AB* ..y maink.. 27 *A* ..yr llysoedd, *B* ..mwy r llysoedd 30 *A* ..y loegr., *B* llaw lloegr ai naill llygad 31 *B* [31–70] 44 *A* ..ble i ddaf.. 45 *A* ..y oen.. 53 *A* ..oric i hynt.. 54 *A* darffai..dorri phenn 57 *A* ..dorres.. 58 *A* ..yr llawr 59 *A* ..yr gwaith 60 *A* ..pond.. 65 *A* ..ger llaw.. 67 *A* ..y redec 68 *A* ..dec

*Moliant Wiliam, Arglwydd Herbert*

Ba aer eilmab i barlment?  
 Ba iôr? Llew gwyn mab Iarll Gwent,  
 Braich i Wyth, y mab hir chwyrn,  
 4 Bryns cad bro Ynys Cedym.  
 Bai 'mredeg, bw mawr ydwyd,  
 Bwrw Dwrc, Arglwydd Harbard wyd,  
 Arglwydd, a chanmlwydd bych hen,  
 8 Wiliam, balf eilmab Elen;  
 Iarll arglwyddfab, Llŷr gwleddfainc,  
 Wsedr, ffrwyth ynystir Ffrainc.  
 Oes waed mawr sy hyd moroedd?  
 12 Os mawr ystil Swmrsed oedd:  
 O ieirll dad i dad wedy,  
 O ddugiaid hen ei ddeg tŷ.  
 Iarll o dad, iôr llwyd, ydyw;  
 16 Nos da, 'r iarll; fy mhen-meistr yw.

Yr wyd fab ar dy febyd  
 Iarlls ben iarllsaw byd.  
 Ni ddêl yt, Arglwydd Wiliam,  
 20 Ond a fydd wrth wyn dy fam.

Dychmygynt wedy'ch magu  
 Iarll o fath yr hen ieirll fu.  
 Imp ail ar fwmpa, Wiliam,  
 24 Fo ddwg iarll o Ddafydd Gam.  
 Blodeuyn wyd blodau'n iaith;  
 E ddwg hwnnw ddug unwaith.  
 Lle bu i Raglan iarll briglwyd,  
 28 Llew'r hen iarll ar ei henw wyd.  
 Ni bydd mab heb weddi mam,  
 Ni bo'i aelwyd heb Wiliam.  
 Mawr yn Lloegr mae'r naill egin,  
 32 Mwy'r llall yng Nghymru a'i llin.

Mawr o'r Mars mae dy arswyd,  
 Mab y iarll; mwya' bw wyd.

36 Aech i waetio, 'n wych atynt,  
 Wyth Harri gwr, Arthur gynt.  
 Mal Galath, mil a'i gwelas,  
 Mynnai gledd fu 'n y maen glas.  
 40 Parod wyd i ddwyn pâr dur  
 Pai bwyntio pawb i antur.

Arstotlys, ar ost waetlawr,  
 I'r mab Alecsander Mawr,  
 Ei athro, 'n llywio lluoedd,  
 44 Ac yng Ngroeg ei gyngor oedd.  
 D'ewythr fydd d'athro o'i fin,  
 Doethfawr iawn, gyda'th frenin.  
 Gwylut arfer, glod dirfawr,  
 48 Nortr a moes yn nhŷ'r tarw mawr.

Iôr mwynfab ar ymwanfeirch,  
 Arfer, myn arfau a'r meirch.  
 Ymwan â ieirll lle maen' wŷr,  
 52 Ector *ieuanc*, tor waywyr.  
 Mab ar eich oed, mae bar chwyrn,  
 Mŵn braisg, *ym Manbri* esgyrn.  
 Pŷr iefanc ym mhob rhyfel,  
 56 Pŷr wyd ail pa awr y dêl.  
 'F âi'r llew drud, fy iarll, i drin;  
 Fal hwn bydd o flaen byddin.

Bydd ddifalch lle bai ddefod  
 60 A bydd falch lle bai dda'i fod.  
 Cadw i'th gof, coed a'th gyfyd,  
 Cymraeg iaith a'r Cymry i gyd.  
 64 Clywch weddi, coelwch uddun,  
 Coffewch Went, eich cyff eich hun.  
 Mawr oedd Went; myrdd o untu;  
 Myn ei bod y man y bu.

Pa 'rofynd, iarll? Prawf o'n iaith,  
 68 Pai'n fwy'r enw, Penfro unwaith.  
 O'th enw, oedd iarll, aethon' ddau;  
 Cawn y trydydd cyn tridiau.  
 Aros orig ras Harri;  
 72 O lot hon a ddêl i ti.

76

Od ai'n ddug (dy enwi 'dd ys),  
 Ef â allan fy 'wyllys.  
 Doed dugiaeth, dy waed dygent,  
 Doed i'r iarll, dy dad, ar Went.

*Ffynhonnell*  
 Llst 164, 123

*Darlleniadau'r llawysgrif*

4 brins.. 6 bwr twrc..harbart wyd 12 oes.. 21 ..wedi.. 27 llei bu.. 32  
 ..ynghymry.. 43 ..lliwio.. 52 ..jeangc..waewyr 54 ..ymambri.. 57 var llew  
 drud vu jarll y drin 60 ..dda vod 63 ..coelwch.. 74 ..wllys

*Moliant Wiliam, Iarll Caerwrangon*

- Tŷ Rhaglan, tyrau eglur,  
 Tŷ ieirll, maen, tri iarll, o'u mur,  
 Tŷ dau Wiliam, tad aelwyd,  
 4 Tŵr, dau oedd ieirll, trydydd wyd;  
 Tri enw, 'n ieirll, tri yn un ynn,  
 —Trindod a'th gatwo, 'r undyn!—  
 Trydydd o gorff Dafydd Gam,  
 8 Trillew hael, tri Iarll Wiliam.
- Pêr o Iarll, mab Harri wyd,  
 Swmrséd dros y Mars ydwyd.  
 Wyt un o byst dan y byd  
 12 Y dernas, a'i chadernid,  
 Pen-iarll Caer wen Custennin,  
 Pen-iarll Gwent, pen â'r llew gwyn,  
 Pen, trydydd, pwyntio'r ydych,  
 16 Pennaf ar fainc, Penfro fych.
- Ble bu'r ieirll fal Beli, Brân  
 Lloegr oglais? Ieirll gaer Rhaglan.  
 I'r gaer wen â'r goronig  
 20 Y bu ryw ieirll yn eu brig.  
 Iarll o dad i dad ydywch;  
 Ai gwaed ieirll a dugiaid ywch.
- Groeso, 'n iarll! Mwy gwres ein iaith  
 24 Gael ynn alw 'Rhaglan' eilwaith.  
 Llyma aelwyd llu milwyr,  
 Llawn yw'ch gwin, llawenach gwŷr,  
 Iarll ymlaen Cymru'n flaenawr,  
 28 Iarll gorau'i faich, gair Lloegr fawr.  
 Aud ar farch ar dorf o wŷr,  
 Aud â'r maen, modrwy 'mwanwyr.  
 Mwy hap caen; bob camp cennyd;  
 32 Aut â'r gair o'r cwrt i gyd.  
 I chwi dyd Chweched Edwart  
 O raid i wŷr gwych ordr y gart.

36 'F *a'i rhy*, annerch dy frenin,  
Ti a'i dylŷd, hyd dy lin.  
Ni châi bryns o fraich a bron,  
O'ch cael, gywirach calon.  
Nid ai *i'th ôl* ond *i'th elawr*  
40 I mewn y maes, mwy no mawr.

Iarll y'th gaid iarllaeth Gadell;  
Âi neges Gwent geisio gwell.  
Yt a bechont heb ochel  
44 Yn un dydd uddun y dêl.  
Pwy yw'r eilmainc i'r parlment?  
Post iarll ag ost Castell Gwent.  
Pum wlad d'orhendad fu'r rhain,  
48 Pum sir; pumoes i'w harwain!  
Dwg ei feddiant gof uddyn'  
D'orhen-daid, orau henw dyn.

Pwy o filioedd? Pa filwr?  
52 Pwy o gorff â champau gŵr?  
Pai ar droed P'redur ydych,  
Pai ar farch mab Priaf wych.  
Metel Syr Gwalchmai ytwyd,  
56 Syr Bwrđ, iarll dros Herbard wyd.  
Er bod llawer cwncwerwr  
Ni *bo* o'th waed eich bath ŵr.  
Siarl-y-maen sy'r ail am waed,  
60 Salmon y doethion, dydd daed!  
Lle bu'r henw, iarll brenhinol,  
Rhaglan iarll, iôr glew 'n ei ôl,  
Mae o *dŷ*'r iarll, mwy a drig,  
64 Myrdd o waed mawr urddedig.  
Wyt heddiw i Went uddun  
*At* iarll, *tŷ* Herbart, dy hun.  
Ni bo o'th had byth wedy,  
68 Herbert, dwy awr ŵr y tŷ!

*Ffynhonnell*  
Pen 96, 165

*Darlleniadau'r llawysgrif*

5 ..tri n vn.. 9 pv o jarll.. 10 Symerset.. 12 ..dymas.. 18 ..kaer.. 22  
oi..duwgia[ ] vwch 25 ..elwyd.. 28 ..gorav fraich.. 35 fo ry.. 39 nid ai

thol.. 40 y mewn..mwyn no.. 41 ..jarll gadell 46 ..agost.. 47 ..fvr hain 48  
..yw harwain 50 dor het daid.. 53 ..draed.. 58 ni oth waed.. 59  
siarlamaen..am jawaed 63 ..dv.. 65 ..y went.. 66 wrth jarll tv..

*Moliant Wiliam, Iarll Caerwrangon*

Pa iarll doeth? Pwy'r llew â dart?  
 Post, llew, eurbost, Iarll Harbart.  
 Iarll Wiliam a'r holl aelwyd,  
 4 O galon ieirll Rhaglan wyd.  
 Iarll o dad i dad ydywch,  
 Sy o dri iarll Wsedr ywch.  
 Y mae gras Duw i'th asen  
 8 Am ras tŷ ieirll Swmrsed hen.  
 Ni bu, iarll, un byw o'r llin,  
 Wŷr well gwaed o Iarll Godwin.  
 Dygy, 'i orwyr, dug Harri,  
 12 Drwy Dduw Tad ei radd i ti.  
 O chai radd uwch, iôr addwyn,  
 E roes Duw yt ras i'w dwyn.  
 Ef a'th geidw, c'foethog ydwyd,  
 16 Duw 'n y radd, â'r dawn, yr wyd.

Dy waed agos yw dugiaid  
 Dwysog Gawnd; yn d'ais y'u caid:  
 20 O iarll i ddug, eurllew ddart,  
 Y trydydd o'r Tri Edwart,  
 —Am waed da yma tawent—  
 At waed ieirll eich taid o Went.  
 Cyda Gras y'ch ceidw y Grog,  
 24 Y carw annwyl coronog.

Rhoed Edwart ar waed Odwin,  
 Rhoed hual aur hyd dy lin.

Ti enillut, ni allent,  
 28 Pai act, ar gamp, Ector Gwent.  
 Aut trwodd at wŷr ieuainc,  
 Aut yn ffyrf i'r cwrt yn Ffrainc.  
 Aut arnynt wedy terniaw,  
 32 Iarll, â'r gair dros ieirll Lloegr draw.  
 Gŵr nod Edwart, grownd ydywch,  
 Gŵr â chlod goruchel ywch.



- 36 Mae ynod, iarll, i mewn dur,  
Mae nerth Siarlmaen neu Arthur.  
Mae enaid gŵr mewn dy garn,  
Ŵr tŷ, gwaed Harbart gadarn.  
Doeth adref i'th gynefin,
- 40 Arglwydd Gwent â'r gwleddau gwin  
—Am wŷr tŷ 'Nghymru tawent—  
At dŷ llew gwyn Castell Gwent.
- 44 Mawrhau'r wyd, mawr y rhoi win,  
Meirch breiniol, mawrhau'ch brenin.  
Par'toi, Iarll Harbart, yr ywch;  
At raid Edwart ir ydywch.  
Y trydydd o'r tir ydwyd,
- 48 Iarll hael am Iarll Wiliam wyd.  
Mawr ywch, bren mawrwych â brig,  
Mwy wraidd waed mawr urddedig.  
Duw oedd wrth dy fedyddiaw;
- 52 Doeth lw a dynged i'th law  
Na châi hedeg na chodi  
Wrth ddaly d'oes awr o'th law di.  
Gwëwn wawd o'm genau iach
- 56 Â dyrnod fai gadarnach  
Ond dy gael, ar hynt gwelwyf,  
Iarll, yn ddug. Llawenhau 'dd wyf.

*Ffynhonnell*  
Llst 164, 113

*Darlleniadau'r llawysgrif*

11 dygv orrwyr.. 13 ..ywch.. 14 ..yw dwyn 15 ve ith geidw cyvoethog.. 18  
..i caid 19 ..aur llew.. 29 ..jeaingc.. 31 ..wedi.. 36 ..nei.. 38 ..herbart.. 49  
..a bri 50 ..vrddaedi

*Moliant Edward, Arglwydd Herbert*

Y mae Gwent yn magu ieirll  
 Â'r rhyw wyneb â'r henieirll.  
 Mae llun ym llew a'i wyneb  
 4      Â chalon iarll uwchlaw neb.  
 O Iarll Wiliam, iôr lliwlwyd,  
 Arglwydd Harbart, Edwart, wyd.  
 Y mae gennym eginyn  
 8      Am aros Dug Swmrsed ynn.  
 Oen o'r ynys, ni raeniwyd,  
 Â'r gwlan aur o Raglan wyd.  
 Bu ddau, henllys byddinllawr,  
 12      Bu Wiliam, ieirll, bu lu mawr.  
 Mae'r tad, Iarll Wiliam, o'r tŷ;  
 Iarll Edwart fo'r iarll wedy,  
 Mab unfaeth, gwinfaeth gwynfawr,  
 16      Â maeth Alecsander Mawr.  
 Mab Iarll Wiliam,—hawddamawr!—  
 Nos da, 'r mab, Iarll Wsedr mawr!

Ni ddaw gwaed newydd godi—  
 20      Tawed hwn!—at dy waed di.  
 O dri dug draw yw d'egin  
 A chwech iarll ywch chwi o'r llin.  
 Edwart dad i dad ydwyd,  
 24      O dŷ'r Tri Edwart yr wyd.  
 Dyn wyd a gwaed yn dy garn;  
 O dai gwaed yr wyd gadarn.

Ewch am wŷr wedy eich maeth,  
 28      Ewch am bêl eich mabolaeth;  
 Ewch â'r bêl i ddechrau'r byd,  
 Ewch â'r llyfr, wych iarll, hefyd.  
 Nortr a moes, hyn yw tŷ'r mawl,  
 32      Llaw â theiriaith llythyrawl.  
 Enw da fydd wrth wyn dy fam  
 Iarll ail ym myw Iarll Wiliam.

- 36 Da, fugail, oedd dy fagu,  
Ywch bo Went, man ucha' bu,  
Y math, oedd famaeth uddynt,  
A fagai Syr Gwalchmai gynt.  
40 Da fath, Edward, fyth ydwyd,  
Defnydd iarll, da fonedd wyd.
- O bwriwyd goed Harbard gynt  
A'u diwreiddio, derw oeddynt,  
44 Er a dorred o'r deri,  
Fo gad dâr o'th fagwyd di.  
Myn arfer, armwyn aerfeirch,  
Marchogaeth, milwriaeth meirch.  
48 Ymwan ar farch, myn wayw ar fyr,  
Ector ieuanc, tor waewyr.  
Cymer iefanc am ryfel  
Calonnau; ti biau'r bêl.  
52 Cymro o Went, cymer wŷr  
Cainc, a rhan cyngor henwyr.  
Tebyg wyd o'th frig a'th fron,  
Tyb sy'i weled, Absalon.  
56 Darogan, Rhaglan benrhaith,  
A dddwg hon yn dduc unwaith.  
Dug a aned eginyn.  
Hir y bo'r Dug Harbard ynn!

*Ffynhonnell*  
Llst 164, 116

*Darlleniadau'r llawysgrif*

8 ..duc.. 9 ..raenwyd 23 ..dad y dad.. 29 ..ddechrav byd 30 ..ir llyfr.. 31  
..hyn yw r tyr mawl 36 ..vcha i bu 39 ..Edwart.. 41 o byrwyd.. 42 a.. 43 er  
y dored.. 45 ..er mwyn aerfairch 48 ..jeangc tor weuwyr 49 ..jevaingc.. 54  
..sy weled..



# Nodiadau

## 1

Awdl foliant i Syr Edward Stradling, mab Tomas ap Harri ab Edward Stradling o Sain Dunwyd, gw. WG2 1621–3. Amlinellir dechreuadau'r teulu a'r rhan a fu i'r naill genhedlaeth ar ôl y llall ym mywyd Morgannwg yn Ralph Griffiths, 'The rise of the Stradlings of St. Donat's', *Morgannwg*, vii (1963), 15–47; hefyd ByCy 869–71; LPMG 435–6. Ganed Edward tua 1472 ac fe'i hurddwyd yn farchog yn Nhwrnai, 25 Medi 1513. Bu farw 8 Mai 1535 a'i olynu gan ei etifedd, Tomas Stradling.

Gellid tybio bod Syr Edward Stradling yn un o brif noddwyr y bardd. Diogelwyd dwy o'r cerddi a ganodd Lewys Morgannwg iddo (cerddi 1 a 2), ynghyd ag awdl a ganwyd i'w fab a'i etifedd (cerdd 3), ond fe'i henwir mewn dwy gerdd arall. Ar ei ran ef y canodd y bardd un o'i gerddi i Fair o Ben-rhys (gw. 102.61–2 *Oes hir a gras, Syr Gei'r wart, / Iesu rhoed i Syr Edwart*), ac ym marwnad y bardd i Rydderch Dai Wëydd, awgrymir bod y telynor, Rhydderch Dai Wëydd, fel Lewys Morgannwg, yntau, yn derbyn nawdd penteulu Sain Dunwyd (gw. 95.11–14 *Marchog doniog Sain Dunwyd, / Mawr, drosto ef mor drist wyd. / Syr Edwart, dy sir ydoedd, / Ar ei frest dwyn d'arfau'r oedd*).

Cywydd yn ymbil am gymod yw'r ail gerdd i Syr Edward Stradling. Anodd gwybod pa un a luniwyd gyntaf, ai'r awdl ynteu'r cywydd cymod. Honna Lewys yn y cywydd *I chwi'r âi mawl ddechrau 'myd, / O'ch rhodd fy nechrau oeddud*, gw. 2.23–4, a gallai hyn awgrymu mai'r awdl a luniwyd yn gyntaf, ond diau fod cerddi eraill a ganodd Lewys i Edward Stradling wedi eu colli. Y mae'n bosibl fod Lewys yn llau. 23–30 yn dwyn i gof wrthdaro rhwng Syr Edward Stradling a Syr Tomas Gamais (gw. ymhellach 3.33n), a gallai hyn awgrymu bod yr awdl ymhlith cerddi cynharaf y bardd.

Diwedd yr awdl yn unig a ddiogelwyd yn llawysgrif E. Collwyd y dalennau a gynhwysai ddechrau'r awdl.

### *Y mesurau*

- |        |   |
|--------|---|
| 1–42   | Cyfes o 9 englyn unodl union ac un pennill 6 ll. (llau. 13–18) sy'n proestio. |
| 43–106 | 16 pennill ar fesur y gwawdodyn byr.  |

1 **Syr Bewys—Hamtwn** Digwydd sawl ffurf ar ei enw: *Bw'n* (GG1<sup>2</sup> XV.4), *Bewys* (TA II.64—yn cynganeddu â *bywiog*), a *Befus* (GG1<sup>2</sup>

- XLV.39). Cyfieithwyd y chwedl ‘La Geste de Boun de Hamtone’ i’r Gymraeg yn fuan wedi canol y 13g., o bosibl gan ŵr eglwysig a hanai o Forgannwg neu o Went, a diogelwyd y copi cynharaf yn Llyfr Gwyn Rhydderch, gw. Morgan Watkin, *Bown o Hamtwn* (Caerdydd, 1958). Dangosodd Erich Poppe mai prin yw’r cyfeiriadau at y cymeriad Bŵn yn y canu ac nad oes lle i gredu bod manylion y chwedl yn hysbys i’r beirdd. Ar y llaw arall, er na wyddys am fersiwn Cymraeg o chwedl Gei o Warwig, y mae’r cyfeiriadau ato yn fwy lluosog ac yn llawer mwy penodol, gw. ‘Beues of Hamtoun in Welsh bardic poetry’, CMCS xliii (Summer 2002), 49–57.
- 2 **Brutus** Y Groegwr yr honnid iddo gyfaneddu Ynys Prydain, *Ac y mynnvys Brutus galv yr enys o’e enw ef Brytaen, a’r genedyl yn Vrytannyeit*, gw. BD 19. O ystyried ei fod yn ffigwr mor allweddol yn hanes y Cymry (am drafodaeth ddiweddar ar yr ymdrechion i amddiffyn y traddodiadau a oedd yn gysylltiedig â’i enw, gw. Nesta Lloyd, ‘Cyfraniad hynafiaethwyr oes y Stiwartiaid i ddiwylliant ein cenedl’, *Cof Cenedl*, xvi (Llandysul, 2001), 33–64), nid yw’r cyfeiriadau ato yn eithriadol o niferus yng nghanu’r Cywyddwyr.
- 4 **Iorus** Mabwysiadwyd ef yn nawddsant y Saeson yn ystod teyrnasiad Edward III, gw. NCE vi, 354–5. Fe’i henwir yn gyson yn y canu, ac arferir sawl ffurf ar ei enw, sef *Iorus*, *Sain Siorus*, *Sain Siôr*, *Sain Siors*, gw. ‘Enwau personau’.
- 5 **Syr Pŷr** Un o frenhinoedd cynnar Prydain a fu’n teyrnasu, yn ôl Sieffre o Fynwy, ar ôl Sawyl Ben Isel, gw. BD 44. Gan fod sawl cyfeiriad at gymeriadau a enwir yn y Brut yn y canu, diau mai’r gŵr hwn sydd dan sylw, ond yr oedd dau gymeriad arall yn dwyn yr un enw. Enwir Pŷr o’r Dwyrain ymhlith hynafiaid Gwynfardd Dyfed, ac yn ôl Buchedd Samson, sefydlwyd y fynachlog ar Ynys Bŷr gan yr Abad Pŷr, gw. WCD 549.
- 6 **Syr Paris** Mab Priaf a Hercuba. Er iddo ymenwogi ar gyfrif ei filwriaeth, ystyrid bod ei frawd, Ector, yn rhagori arno. Ei weithred yn cipio Elen Fannog a arweiniodd at ryfeloedd Tro, gw. OCD<sup>3</sup> 1112–13.
- 7 **Syr Gareth** Fe’i henwir ymhlith Marchogion y Ford Gron, a chyfetyb Gweirydd a Gareth i frodyr Gawain [Gwalchmai], sef Gahariet a Carahés, yn y rhamantau Ffrengig, gw. P.C. Bartrum, ‘Arthuriana from the genealogical manuscripts’, *Cylch LIGC* xiv (1965–6), 242–5.
- Syr Gei** Gan fod Cai yn cael ei enwi yn yr englyn nesaf, diwygiwyd darlleniad y llsgrau. a bernir mai Syr Gei o Warwig, un o arwyr chwedlonol Lloegr, sydd dan sylw, gw. DNB xxiii, 386–8.

Anodd gwahaniaethu bob tro rhwng *Gei* a ffurf dreigledig *Cai*, cymeriad a enwir yn fynych yng nghanu Lewys.

- 9 **Syr Gwalchmai, Syr Cai** Dau o farchogion enwocaf Arthur, a'r cyfeiriadau atynt yn niferus yn y chwedlau sy'n perthyn i'r cylch Arthuraidd, gw. WCD 303–5, 91–4; TYP<sup>2</sup> 369–75, 303–7. Posiblirwydd arall yma fyddai mabwysiadu'r darlleniad *nesa' i'r cing sy i raid*.
- 11 **Syr Lawnslod** Arwr arall a gysylltir â'r cylch Arthuraidd, a thad Galath, gw. TYP<sup>2</sup> 414–16.
- 12 **sarff gwaedlafn** Eg. yw *sarff* i'r bardd fel y tystia'r ll. hon a'r ll. nid annhebyg *Syr Ffwg wrol, sarff gwaywrudd*, gw. 19.53.  
**Syr Ffwg** Syr Fulk Fitz Waren, ffigwr hanesyddol a droes yn arwr chwedlonol, gw. DNB xix, 223–4; GGLI 11.57n.  
Y ll. yn rhy hir o sillaf fel y'i ceir yn y llsgrau.
- 14 **iarll Normant** 'Normanaidd'. Ni restrir y ffurf yn GPC 2596. Ar arwyddocâd y cyfeiriad, gw. 1.40n isod.
- 15 **pen ... pont** Dyma ddau drosiad y mae'r bardd yn chwannog i'w cyfodod, cf. 30.30 *Marw eu pont a'u maer a'u pen*, 46.59 *Pen Tair Gwent a'u pont i'r gwaith*, 67.37 *Pen wyt i'r Mars, pont i'r môr*.
- 16 **Michel Mwent** Hanai gwraig Edward Stradling—Elisabeth, merch Syr Thomas Arundell—o Gernyw, a diau mai cyfeiriad yw hwn at St Michael's Mount a saif ar ynys fechan i'r gorllewin o Penzance. Rhaid croesi Môr Udd i gyrraedd y Mont St Michel enwocaf. Saif hwnnw ar graig sylweddol ger aber Afon Couesnon ar y ffin rhwng Llydaw a Normandi. Cyfeiria Tudur Aled at y fangre yn ei awdl i Siôn Grae, Iarll Tancrfil, gw. TA II.9–10 *Tëyrn wyt a'i gyrn at Gornwel—a Môn, / Hyd ym Mwent Sain Michel*.
- 17 **ffasio'r rhynt** Rhaid gwrthod *rhent* llsgr. A gan y byddai'r gair hwnnw yn odli â *Trent* yn ll. 13, a gwelir yn awdlau'r bardd sawl pennill chwe ll. sy'n proestio yn rheolaidd, cf. 10.33–8, 14.33–8 ond gthg. 3.21–6 lle y ceir dau air sy'n cynnwys yr odl *-ent*. Cynigir mai'r f. *ffasio* 'wynebu', S. 'to face', sydd yma, gw. GPC 1278 (perthyn yr enghraifft gynharaf i'r 16g.), a'r e. *rhynt*, amrywiad ar *rhint* 'rhic, rhigol', gw. GPC 3077, yma yn ffigurol am i. 'trafferth'; ii. 'bygylwr'. Rhaid gwrthod *ffasio'r ynt* hefyd, gw. llsgrau. BCDF, gan fod yr odlau proest yn y pennill yn rhai trwm.
- 18 **mwy bwys** Dangosodd T.J. Morgan fod yr e. sy'n dilyn *mwy* a *llai* yn treiglo gynt, a bod y treigladau yn amlwg yn y testunau hynny a gysylltid â Morgannwg, gw. Treigladau 48–51 (a sylwer yn arbennig ar y troednodyn td. 50 'gwelir fod Llywelyn Siôn yn newid bron pob esiampl o *mwy* + cysefin ac yn rhoi treigladau'). Am

enghraifft mewn cerdd o waith bardd o ran arall o Gymru, gw. GDEp 13.42 *mwy ferw*. Am enghreifftiau eraill yng ngherddi Lewys Morgannwg, cf. 1.73 *mwy obaith*, 4.38 *llai ddygiad*, 4.83 *llai faeth*. Diwygiwyd darlleniad y llsgrau. yn ll. 74 *pwy'n fwy rhoddion > pwy'n fwy'i roddion*, ond gellid ymadrodd ar lun y rhai a ddisgrifiwyd uchod (*mwy* + e.ll. ond heb dreigladd y tro hwn, cf. 4.81 *llai cerddau*, 4.82 *llai gynau* ond gthg. 19.50 *mwy wybodau*, 27.54 *mwy gampau*).

- 19 **ernwch** Dyfynnir y ll. hon yn GPC 1237, a rhoddir i'r f. *erno* a ddaw o'r S. *to earn* yr ystyron 'ennill, elwa'.
- 19–20 Cyfatebiaeth d = t rhwng diwedd y ll. gyntaf a dechrau'r nesaf. Ceir *dry Ro ...* yn llsgr. D ond collid y cymeriad llythrennol o fabwysiadu'r darlleniad hwnnw.
- 22 **rhwyddynt** Dilynir llsgr. B a chymryd mai'r e. cyfansawdd *rhwydd + hynt* sydd yma, gw. GPC 3114, yn hytrach na ffurf 3 un. amhff.myn. y f. *rhwyddo* 'rhwyddhau, hwyluso, gwneud yn llewyrchus', gw. GPC 3112–13.
- 24 **Cadw** O ran synnwyr, yr e.p., Cadw neu Gado Ddoeth, sef Dionysius Cato, gw. TYP<sup>2</sup> 291, sy'n gweddu yma yn hytrach na'r be. *cadw*.
- 25 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 26, 50.
- 27 **rhyngoch** Cymerir mai'r ardd. *rhwng* sydd yma, ac fe'i cysylltir â'r geiriau *es teiroides anghytun* yn ail fraich y paladr. Ond gallai fod yn ffurf 2 ll.pres.dib. y f. *rhyngu* 'rhoddi boddhad, bod yn dderbyniol', gw. GPC 3139.
- 28 **anghytun** Rhestrir *anghytûn* yn GPC 67 a rhoddir iddo yr ystyron 'croes, ymrysongar'. Y mae'n bosibl mai gair diacen ydyw yma am mai geiriau diacen sy'n digwydd ran fynychaf ar ddiwedd y paladr yn englynion Lewys. Ar yr anghydfod teuluol rhwng y Stradlingiaid a'r Gamaisiaid, gw. 3.33n.
- 29 **rheiddun** Cynigir mai'r e. sy'n gyfystyr â 'rhodd, budd', gw. GPC 3051, yw hwn.
- 31 **yn un awn** Rhaid wrth y gair *un* er mwyn sicrhau'r cyswllt â'r englyn sy'n rhagflaenu hwn, ond anodd credu na lygrwyd y testun yn y fan hon.
- 32 **Iarll ... Gwent** Gw. 1.34n.
- pumoes** Cyffredin yng nghanu'r beirdd yw'r cyfeiriadau at bum oes, sef y pum cyfnod rhwng creu Adda a dyfodiad Crist, gw. GPC 2928; GIBH 8.9n; HG Cref 214–15. Gan na fu pum oes rhwng dyddiau Moesen a dyfodiad Crist, rhaid mai mewn modd llac y defnyddir y gair gan Lewys Morgannwg yma (a cf. 21.13), sef 'pobl



y byd yn ei gyfanrwydd ym mhob oes'. Am sylwadau ar y modd yr ysgrifennid hanes y byd gan ddilyn y syniadau a goleddid am y pum oes, gw. Jerry Hunter, *Soffestri'r Saeson* (Caerdydd, 2000), pennod 1.

- 33 **mae ynn ddwyoes** Diwygiwyd darlleniad y llsgrau. Cysylltir *ynn*, sef ffurf l. *onn*, â *mŵn* yn ll. 34, ond gellid sangiad ar ffurf cwestiwn: *mae hun ddwyoes?*
- 34 **Manbri** Priododd Harri Stradling ag Elisabeth, chwaer Wiliam Herbert, Iarll Penfro, a laddwyd wedi brwydr Banbri yn y flwyddyn 1469, gw. WG1 425. Nid yw *Manbri* yn ffurf gyffredin, ond y mae'r gynghanedd o'i phlaidd, a cf. yr ymadrodd *maes Manbri* yn 26.27 a *gŵyr Fanbri* yn 41.14 (diau mai *Manbri* yw'r gysefin yn achos yr olaf). Gan fod *b* ac *m* yn ymgyfnewid (cf. *bordwyo* / *mordwyo*; *marwnad* / *bar(w)nad*; *bainc* / *mainc*; *beddrod* / *med(d)rod*, gw. GPC d.g., ac am enghraifft bosibl o'r cyfnewid mewn e.p., cf. Muellt am Buellt yn GSH 7.34), dichon i'r bardd drin *Banbri* yn yr un modd.
- 35 **cynesed** Dilynwyd darlleniad y llsgrau. Dyfynnir yn GPC 777 enghreifftiau o golli'r *-nn-* mewn sillaf ddiacen yn y cyfuniad *cyn* + a.cfrt.
- 37 **I'ch oes y daw'r Groes i Gred** Temtir dyn i esbonio'r ll. hon yng nghyd-destun ymdrechion Harri VIII i ymwrthod â'r Babaeth a'i gyhoeddi ei hun yn bennaeth yr Eglwys, a cf. 18.94 *Pan gyrcher i'n hoes y Groes i Gred*, ond dymuniad mwy cyffredinol am weld y ffydd Gristnogol yn ffynnu sydd yma, ac fe'i mynegwyd cyn dechrau teyrnasiad Harri. Egyr Lewys Glyn Cothi ei awdl i Harri VII â'r deisyfiad *da y gŵyr wedy gwarded / dynnu'r groes a'i dwyn i'r Gred*, gw. GLGC 14.3–4, a cf. GDEp 17.71–2 *Mae gobaith unwaith, ddihenydd—Saeson / Neu ddwyn Iddewon â'r ffon i'r ffydd*, *ib.* 16.3–4 *Mab Rhoser, mae berw eisoes / Y deuir i'r gred i roi'r groes*, *ib.* 12.43–4 *Dwyn a wna, llid yn un llu, / Gwŷr Syr Rhys, groes yr Iesu*. Arwyddocaol hefyd yw'r sylw o waith Rhisiart ap Rhys, gw. GRB 15.27 *Ef âi'r groes ar fyr i Gred*. Cf. hefyd GDLI 32.47–8 *Ffyrdd Elen a fforddoli / I gael y Groes yn d'oes di*.
- 39 **carw** Gw. 2.20n.
- 40 **cwncwerwr** Rhwng 1561 a 1566, lluniodd Syr Edward Stradling, wŷr gwrthrych yr awdl hon, hanes 'The winning of the lordship of Glamorgan and Morgannwc out of the Welshmen's hands', ac fe'i hymgorfforwyd yn *The Historie of Cambria* (London, 1584) dan olygyddiaeth Dr David Powel, Rhiwabon. Yn ôl yr hanes hwn, yr oedd Syr William le Esterling, cyndad y Stradlingiaid, ymhlith y deuddeg marchog a ddaeth gyda Syr Robert Fitzhamon i oresgyn Morgannwg. Barnai Ralph Griffiths mai awydd Edward Stradling i

olrhain ach ei deulu a'i harweiniodd at hanes cynnar Morgannwg. 'The writing of "The Winning" had probably begun as an exercise in tracing his own pedigree', gw. 'The Norman Conquest and the twelve knights of Glamorgan', *Glam Hist* iii, 153–69 (td. 165); *id.*, 'The rise of the Stradlings of St. Donat's', *Morgannwg*, vii (1963), 15–18; hefyd Ceri W. Lewis, 'Syr Edward Stradling (1529–1609)', *YB* xix (1993), 139–207. Y mae'n ddadlennol bod Lewys Morgannwg yn arfer y term *cwncwerwr* wrth gyfeirio at daid yr awdur, ac fe'i defnyddir drachefn wrth gyfarch teuluoedd eraill o dras Normanaidd, sef y Gamaisiaid (10.10), y Ffleminiaid (11.4), y Bwtleriaid (12.3) a'r Gwnteriaid (40.5). Awgryma hyn fod y traddodiad am oresgyn Morgannwg yn fyw genhedlaeth cyn i Edward Stradling lunio ei druth 'The Winning'.

Ni restrir y ffurf *cwmcwerwr* fel amrywiad ar *cwncwerwr* yn GPC 550 ond pan ddigwydd *cwncwerwr* yng nghanu'r bardd, digwydd yr amrywiad *cwmcwerwr* yn gyson yn y llsgrau., gw. yr Eirfa d.g. *cwncwerwr* a'r Amrywiadau.

- 43 **a fu 'rïoed gŵr** Cedwir y gysefin yn dilyn *erioed*, a cf. 56.19 *Ni bu 'rïoed gradd o'n Bord Gron*, ond gthg. 45.52 *Ni bu 'rïoed dŷ, Herbar, uwch*, 51.51 *Ni bu 'rïoed grair o'u Bord Gron*.

**gŵr well** Tra chyffredin yw'r arfer o dreiglo a.cmhr. a ddaw ar ôl e. mewn gosodiad negyddol neu ofyniad, gw. Treigladau 66–7 a cf. 3.8 *ysgwier well*.

- 45 **Syr Galath** Fe'i henwir yn un o'r Trioedd, *Tri Marchawc o Lys Arthur a enillawd y Greal, ac eu duc y Nef*, gw. TYP<sup>2</sup> 212–13, 353–4; WCD 268, ac y mae iddo ran ganolog yn 'Chwedl y Greal'.

46 *r berfeddgoll*.

- 47 **Sioswy** Mab Nun o lwyth Effraim, ac arweinydd yr Hebreaid yn erbyn yr Amaleciaid, gw. Geir Beibl 838–9. Ar sail ei gampau milwrol, fe'i cyfrifid yn un o'r Nawyr Teilwng, gw. Jos 10–11 a Cylchg LIGC vii (1951–2), 93–4, *Dvc Josue vir ail, a hwnnw oedd Iddew, ag a lywyodd meibion yr Vsrael wedi Moeses, ag a gavas y tridie yn vn i gwngkerio peder Brenhinieth*. Cyflwynwyd y syniad o'r Nawyr Teilwng—dechreuwyd sôn maes o law am Naw Annheilwng ac am Naw Merch Deilwng—i lenyddiaeth tua dechrau'r 14g., a buan y lledodd eu poblogrwydd. Sonnid hefyd am y Naw Cwncwerwr, gw. y rhestr 'Llyma enwai y IX kwngkwerwr, au harfau' yn L. Dwinn: HV ii, 8; hefyd TYP<sup>2</sup> 122–6. Dosbarthwyd y naw yn dri phagan (Alecsander, Iwl Cesar ac Ector), yn dri Iddew (Dafydd, Judas Maccabaeus, Josua) ac yn dri Christian (Arthur, Godfrey de Bouillon, Siarlymaen). Y mae lle i gredu bod llun o'r naw ar un adeg ar furlun neu dapestri ym mhlas Bodwrda,

Aberdaron, ac o bosibl yng Nghwchwillan, gw. Dafydd Ifans, 'Nawwyr teilwng Plas Bodwrda', Cylchg LIGC xviii (1973–4), 181–6. Enwir y Nawyr Teilwng yn un o gywyddau Guto'r Glyn, gw. GGI<sup>2</sup> LXIII.1–22, ac am gyfeiriad penodol at gampau milwrol Sioswy, gw. TA XIV.61–2 *Dug Sioswy deg o siasoedd, / Demi lawns yn i deml oedd*. Cyfeiria Lewys at y *naw cedyrn* (28.32) ac at y *naw gorau* (34.54), a chyffelyba ei noddwyr i'r arwyr unigol, Ector, Arthur, Godffred, Siarlymaen, Alecsander ac Iwl Cesar.

**Siason** Mab Aeson (sef Eson a enwir isod yn ll. 57), ac arweinydd yr Argawnotiaid yn un o chwedlau cynharaf a phwysicaf y Groegiaid sy'n adrodd hanes yr anturiaethau a gafwyd wrth geisio'r cnu aur, gw. OCD<sup>3</sup> 793; isod 44.17n, 66.79–80, 96.56n. Fe'i henwir yn y triawd *Tri dyn a gauas pryt Adaf*, gw. TYP<sup>2</sup> 127.

48 **Selyf ac Absalon** Hynodid Selyf, sef Solomon, mab Dafydd Broffwyd, ar gyfrif ei ddoethineb, a choffeid Absalon, ei frawd, ar gyfrif ei harddwch, gw. TYP<sup>2</sup> 263, 506–7.

49 **bywion** Ffurf l. *byw* 'creadur byw' ond gellid hefyd *Ni bu er a fu i fywion*. Posibilrwydd arall fyddai deall *bywion* yn e. cyfansawdd *byw + iôn*.

57 **gosog** Rhoddir iddo, fel i'r gair *gwalch*, yr ystyron trosiadol 'campwr gwych, milwr dewr, gŵr bonheddig urddasol', gw. GPC 1514, 1565–6, ond efallai fod a wnelo'r defnydd helaeth a wnaeth y beirdd o'r trosiad â phoblogrwydd heboga. Nid yr un rhywogaeth o adar a ddefnyddid gan bob haen gymdeithasol. I'r brenin y gweddai defnyddio hebog y gogledd wrth hela tra defnyddiai'r iarll hebog glas. Cyfeiria Lewys Morgannwg at y *laner*, gw. 66.18, sef aderyn yr ysgwïer, ac at y *merliwn*, gw. 73.9, sef yr aderyn a gysylltid ag arglwyddes. Aderyn dosbarth y rhydd-ddeiliaid oedd y gosawg, gw. Norman Wymer, *Sport in England* (London, 1949), 56; MEnc.

**Eson** Gw. 1.47n.

59 **Harri Sant** Cyfrifid y brenin Harri VI yn ferthyr ac yn sant ac adroddid nifer o hanesion a dystiai i'w sancteiddrwydd, gw. DNB xxvi, 56–69. Harri Sant oedd yr enw a roes beirdd Cymru ar y brenin, gw., e.e., GGI<sup>2</sup> CXI.8; GLGC 24.50; GDL1 25.66. Yn y farwnad a ganodd Gruffudd ap Dafydd Fychan iddo (ceir copi yn LIGC 3049D [= Mos 146], 415), cyffelybir ei farwolaeth i farwolaeth Crist:

hari sant hyf yw r oes hon  
 avr dy lvn er delynion  
 herwydd dy radd ith laddwyd  
 hyder ieirll deheudir wyd ...

dy gablv ail iessv lvn  
 dy sgornio oedd dasg arnvn  
 dy ddal heb law dy ddolvr  
 doe gan gas digon o gvr ...  
 oth las nid gwaith elvsen  
 o weithred plantagenet hen  
 dyred gwn fal y deryw  
 gida ath wyr ferthyr yn fyw.

Priododd Syr Edward Stradling, hendaidd gwrthrych yr awdl hon, â Joan, merch y cardinal Henry Beaufort (m. 1447). Mab anghyfreithlon John o Gaunt oedd Henry, a'i fam oedd Catherine, gweddw Syr Hugh Swynford. John o Gaunt, mab y brenin Edward III, oedd hendaidd Harri VI, gw. DNB iv, 41–8.

60 **Herbart o Went** Gw. ll. 34.

61 **Barclos** Gw. 3.47n.

63 **Mathau** Yr oedd gwraig Tomas Stradling yn ferch i Domas Mathau ap Dafydd, gw. WG1 473; WG2 873.

64 **Lleision** Gw. ll. 66. Cyffredin yw treiglo'r e.p. pan fydd yn dilyn eb. mewn cyfuniadau genidol, gw. Treigladau 105–112; ond yng nghanu Lewys a'i gyfoeswyr, treigilir yr e.p. yn gyson pan ragflaenir ef gan eg., e.e., 7.48 *synnwyr Fathias*, 21.28 *gwaed Ollwyn*, 30.11 *parc Wilym*, 32.70 *clod Waunllŷwg*, 33.12 *côr Deilo*. Dewis y bardd anwybyddu'r treiglad pan fydd hynny o fantais iddo, cf. 4.37 *Priaf Llandaf*, 6.21 *Priaf Landaf*, 1.64 *tylwyth Leision*, 3.32 *tylwyth Moesen*. Ond efallai na ddylid cyfrif *tylwyth Leision* yn enghraifft o dreiglo gan fod y bardd yn trin yr e. fel pe bai iddo ddwy ffurf gysefin, sef *Leision* a *Lleision*. Ar y cyswllt â *Lleision* (trwy'r Matheuaid), gw. 4.49n.

65 **Tewdwr Mawr** Disgynyddion Gwaithfoed oedd y Matheuaid. Er nad yw'r cyswllt rhwng Gwaithfoed a Thewdwr yn amlwg, enwir y ddau gymeriad ar yr un gwynt ar achlysuron eraill, gw. 4.13n.

**Einion** Gw. y nodyn sy'n dilyn.

66 **Iestyn** Iestyn ap Gwrgant (*fl.* 1083–93) oedd tywysog olaf Morgannwg cyn dyfodiad y Normaniaid, gw. WG1 542; HW 402; GCH iii, 7–8. Enillodd y deyrnas yn dilyn ei fuddugoliaeth dros Garadog ap Gruffudd ym mrwydr Mynydd Carn (1081), y fuddugoliaeth a wnaeth Rhys ap Tewdwr yn dywysog Deheubarth. Yn ôl traddodiad, Iestyn a wahoddodd y Normaniaid i Forgannwg, a hynny i'w gynorthwyo yn ei ymdrechion yn erbyn Rhys ap Tewdwr. Serch Rhys at wraig Iestyn, a'i awydd i'w meddiannu, oedd sail yr anghydfod rhyngddynt yn ôl MArch 15–25.

Barnai Ieuan Rudd fod priodas Sioned Mathau a Syr Rhys ap Tomas wedi gwneud iawn am elyniaeth y gorffennol, gw. LIGC 13072B, 182,

Ile r oedd rhyfel trafel trwch  
y mae n hyddod mewn heddwch  
sswydd gaer lydan morgannwg  
ssy y vn oy gweith heb ffon gwg  
Trawster tewdwr a Jestun  
yntwy yw rhwysk y tir hun.

Gwraig Tomas Mathau oedd Catrin, merch Morgan ap Llywelyn ab Ieuan o lwyth Iestyn, gw. WG1 560, ac Efa, merch Ieuan Gethin o Faglan ab Ieuan ap Lleision, gw. WG1 547. Yr oedd gwraig Ieuan ap Lleision yn un o ddisgynyddion Einion ap Collwyn, gw. WG1 307.

- 69 **ystudiai** Cofnodir y ffurfiau cyfochrog *astudio* ac *ystudio* yn GPC 223. Ni ellir derbyn awgrym Lewys Morgannwg: Gw 829 mai ffurf l. *ystid* ‘cadwyn’ sydd yma gan fod yr odl gyrch yn hawlio’r ffurf ferfol 3 un.amhff.myn. yn hytrach na’r terfyniad e.ll. -*au*.
- 70 **ni’th ddwyn** Parodd y geiriau hyn beth trafferth i’r copiwr. Diau fod angen geiryn negyddol ar ddechrau ll. olaf y pennill fel yn y tair ll. flaenorol. Ystyrion fyddai *ddwyn*, ffurf gywasgedig 3 un.pres.myn. y f. *diwyno*, amrywiad ar *difwyno* ‘anffurfio, llychwino’, gw. GPC 987.
- 73 **mwy obaith** Ar y treigladd, gw. 1.18n.  
**Priaf** Brenin Tro, gw. OCD<sup>3</sup> 1244; TYP<sup>2</sup> 494–5. Yr oedd iddo hanner cant o feibion gan gynnwys Ector a Pharis, ac ef hefyd oedd tad Policsena, Sibli a Chasandra. Nid amhriodol felly oedd ei enwi pan fynnid cyfeirio at epil y noddwr, fel y gwna Lewys yn y cyddestun hwn.
- 74 **Pwy’n fwy’i roddion?** Gw. 1.18n.
- 81 **goreigion** *Gor-* + *eigion* ‘gwaelod, dyfnder, gwreiddyn’, gw. GPC 1190. Awgrymir yn Lewys Morgannwg: Gw 829 fod y gair yn fyw ym Morgannwg a’i fod yn gyfystyr â ‘goreugwyr, goreuon’, ond ni chofnodwyd yr ystyr honno yn GPC 1473.
- 83–6 **llynges Foeses** Adroddir hanes Moses a’i wŷr yn croesi’r Môr Coch yn Ecs 14. Ymddengys mai ‘llu, mintai’ yw ystyr *llynges* yma fel 63.51, 98.59.
- 84 **rhagoch** Ystyrion hefyd fyddai *rhygoch* < *rhy* + *coch*: ‘bydd y môr mawr yn troi yn goch disglair [gan waed gelynyon]’. Diwygiwyd *rhogoch* y llsgrau. er mwyn sicrhau cysondeb; am enghreifftiau o’r bôn *rhog-*, gw. GMW 59.

- 87 **ceisiason'** Yr oedd cylchrediad helaeth i'r ôl-ddodiad grff. *-ys-* gynt er mai *-as-* a enillodd y dydd yn y cyfnod diweddar, gw. WG 326. Digwydd y blaenaf yn fynych yn y llsgrau. a ddiogelodd ganu Lewys yn enwedig yn achos y copiâu hynny sydd yn llaw Llywelyn Siôn (er nad yw ef yn gwbl gyson ei arfer). Mabwysiadwyd yr ôl-ddodiad *-as-* wrth olygu'r cerddi, ond rhestrir yn yr Amrywiadau bob ffurf ferfol sy'n cynnwys yr ôl-ddodiad *-ys-*.
- 93 **[y] Grog gwyarog** Disgwyliid i'r a. dreiglo yn dilyn yr eb., cf. 17.2 y *Grog wyn*; HG 13.3 y *grog wyn gwyarog wyd* (o gywydd i grog Llangynwyd a briodolir i Domas ab Ieuan ap Rhys). Efallai fod yma olion trosglwyddo llafar ac i'r copiwr gwreiddiol gamgofnodi'r hyn a glywodd mewn gwirionedd, sef y *Grog wyarog* sy'n cryfhau'r gynghanedd (fel y mae ceir dwy gytsain feddal nesaf at ei gilydd yn ateb un). Ond nid annichon fod y bardd yn priodoli i'r Grog natur wrywaidd y Tad a'r Mab, ac ategir hyn gan y modd y treiglr y ddau e. sy'n dilyn: *a'i goron [Ef] a'i Groes*.
- 95 **grod** Amrywiad ar *grôt* 'darn o arian bath yn gyfwerth gynt â phedair ceiniog', gw. GPC 1535.
- 97 **tra gerddych** Ar dreiglo'r f. yn feddal yn dilyn y cysylltair *tra*, gw. Treigladau 378–80. Am enghreifftiau eraill, cf. 3.2 *tra weler*, 5.77 *dra gerddych*.
- 101 **Salmon** Ffurf arall ar yr e.p. Selyf, gw. 1.48n.
- 104 **carw y ffynnon** Owain ab Urien, arwr chwedl 'Iarlles y Ffynnon', gw. 65.14n.
- 105 **Meirchion** Fe'i disgrifir yn frenin Morgannwg ym Muchedd Illtud, ac fe'i henwir yn y cywydd a ganodd Lewys i'r sant, gw. nodyn brig cerdd 100. Ond yr oedd dau ŵr arall a adwaenid wrth yr un enw ac a gysylltid â Morgannwg, sef Meirchion ap Gwrgan Frych a Meirchion Fawd-Filwr, gw. WCD 464–5.

## 2

Nid oes dim yn y cywydd sy'n esbonio dicter ac anghymeradwyaeth Syr Edward Stradling a rheidrwydd y bardd i geisio ei heddwch, ond gwyddys am wrthdaro rhwng penteulu Sain Dunwyd a sawl gŵr y canodd Lewys Morgannwg iddynt. Crybwyllir yr anghydfod rhyngddo a Syr Tomas Gamais yn 3.33n, a galwodd Ralph Griffiths sylw at y gynnen a fu rhyngddo a Chrystor Twrbil a Watgyn Lochwr, ac at y modd yr ymosododd dau o'i feibion ar swyddogion Charles Somerset tua 1535, gw. Ralph Griffiths, 'The rise of the Stradlings of St. Donat's', *Morgannwg*, vii (1963), 30–1.

Dadlennol yw'r hyn a awgrymir yn llau. 23–4 am gyswllt Lewys Morgannwg â Sain Dunwyd, ac ychwanegodd Iolo Morganwg ar ochr y

ddalen yn LlGC 13061B *Lewys Morganwg dann nawdd Sr Edrd Stradng yn fardd teulu iddo tebygid.*

- 1 **nai'r Pryns** Ar gyswllt y Stradlingiaid â'r goron, gw. 1.59n.
  - 2 **apysrî** Daw o'r Llad. *A per se A trwy'r S.*, gw. trafodaeth E.I. Rowlands ar *apysrîa* yn GLM IV.66n.
  - 3 **gart** Ffurf ar *gartr* 'gardas, arwydd y bennaf a'r fwyaf anrhydeddus o urddau'r marchogion ym Mhrydain', gw. GPC 1383. Sefydlwyd yr urdd, 'The Most Noble Order of the Garter' gan Edward III tua 1348. Gwisgai aelodau'r urdd ardas o liw glas golau, coler aur a bathodyn a ddarluniai Siors yn lladd y ddraig (a dyna esbonio, o bosibl, fynychder y cyfeiriadau at y cymeriad hwnnw yn y canu), gw. *Boutell's Heraldry* (London, 1983), 193–4, plât xvii; A.C. Fox-Davies, *A Complete Guide to Heraldry* (London, 1985), 432–3. Ar sawl achlysur mynega Lewys ei ddymuniad i weld urddo ei noddwyr yn farchogion, ond yr anrhydedd mwyaf fyddai eu gweld yn gwisgo 'aur ar y glin'. Mynegir y deisyfiad hwn yn y cerddi i dri gŵr a oedd eisoes wedi eu dyrchafu yn farchogion, sef Syr Wiliam Morgan, Pen-coed, Syr Siôn ap Rhys, Aberhonddu, a Syr Wiliam Gruffudd, y Penrhyn (cerddi 28, 56, 87), a gw. ymhellach yr Eirfa d.g. *gard, gart, gartr, gardas.*
  - 5 Dilynwyd darlleniad llsgrau. HI *â bar yn lladd sy'n fwy ystyrion na a bair ein lladd y llsgrau.* eraill.
  - 7 **Ercles** Digwydd y ffurfiau Cymraeg *Ercles* ac *Ercwlff* (a defnyddiodd Guto'r Glyn y ddwy ffurf, gw. GGI<sup>2</sup> XXIII.18, XXVII.4). Gan ei fod yn fab i Zeus, meddai ar gyneddffau goruwch-naturiol, ac yr oedd ei gryfder yn ddiahebol. Mewn cywydd i ofyn cymod gan Ifan Fychan o Bengwern, gw. GGI<sup>2</sup> cerdd XXVII, fe'i cyffelybodd Guto'r Glyn ei hun i Ercles yn dwyn pwysau'r byd ar ei ysgwyddau, ond cyffelybu ei noddwr i'r arwr clasurol a wna Lewys Morgannwg yma. Ffurfiar 'Ystoria Erkwlf' adran hunan-gynhaliol yng nghronicl Elis Gruffydd, gw. B x (1939–41), 284–97; Rhyddiaith Gymraeg i, 23–31.
- Barclos** Gw. 3.47n. Sylwer ar ddarlleniadau llsgrau. HI. Y mae'n amlwg nad oedd y ddau gopïwr o'r Gogledd yn gyfarwydd â'r enw.
- 11–12 **un gras ... / ... un raen** Yr un gystrawen sydd yn neufrach y cwpled, sef *un* 'cyffelyb' ac eg. yn dilyn, ond ar un achlysur yn unig y treiglir yr eg., gw. Treigladau 39.
  - 13 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 34 a 46.
  - 14 **Deifr** 'Gwŷr yn byw yn nhiriogaeth Deira; Saeson', gw. GPC 921.
  - 16 Y gynghanedd yn galw am y ffurf *parment* ond ceir *parlment* yn

- 42.1, 43.2, &c. Cf. y modd y cynganeddir gair arall a fenthyciwyd o'r S. sef *siamrlen* (89.4) a *siambrlen* (70.39).
- 19 Cf. 11.4 *Cainc o stil cwncwest o hŷn*.
- 20 **carw gwyn** Arwyddlun y Stradlingiaid, gw. DWH i, plât xviii; *ib.* ii, 532–4.
- 21 **gwyn** ‘Deisyfiad, dyhead, hyfrydwch’, gw. GPC 1770. Digwydd yr ymadrodd ar achlysuron eraill yn y canu, cf. 13.72 *Dwg wyn Llandudwg unwaith*, 16.28 *Gwyn dy wlad a’th genedl ywch*. Cf. hefyd GLGC 181.17–18 *medd Melienydd*, ‘*Byw fydd fo, / Owain Hen*’, wrth wyn honno.
- 22 **Iarll y Clâr** Yr oedd y teulu yn ddisgynyddion uniongyrchol i Iarll Godfrey, yr hynaf o blant anghyfreithlon Rhisiart Ddiofn, Dug Normandi. Bu iddynt ran yn y gwladychu a fu ar Loegr yn ail hanner yr 11g., a mabwysiadwyd ganddynt enw maenor Clare yn Suffolk, gw. DNB x, 375–6. Gilbert de Clare a feddiannodd Geredigion a chodi cestyll ger aberoedd Teifi ac Ystwyth, gw. HW 426. Daeth arglwyddiaeth Morgannwg a Gwynllŵg yn eiddo i un gangen o'r teulu yn 1217 ac o ganlyniad ‘the de Clares thus became the most powerful magnate family in thirteenth-century England’, gw. Michael Altschul, ‘The lordship of Glamorgan and Morgannwg, 1217–1317’, GCH iii, 46.
- 23–6 Cf. y llau. hyn yn un o gywyddau Tudur Aled, gw. TA XXVIII.18–20 *Dechreu bŷm gyda chwi’r byd; / Diweddu f’oes, od oedd faith, / Yn nef Iâl a wnâf eilwaith!*
- 25 **amweddi** ‘Deisyfiad, erfyniad’, gw. GPC 103. Hon yw’r enghraifft gynharaf o’r ffurf yn *ib.*
- 28 Twyll gynghanedd *d*. Diwygiodd Llywelyn Siôn ei destun yn llsgrau. BC, ond ni lwyddodd i wella’r darlenniad.
- 32 **dilëwn** Ffurf l un.amhff.myn. *dileu*, ond ymddengys i gopiŵyr HI ddewis ffurf l un.amhff.myn. *dylu, dylu* ‘teilyngu, haeddu’, gw. GMW 151; GPC 1135 (ffurf sy’n dra ystyrion yn y cyd-destun mewn gwirionedd).
- 45–6 Y llsgrau. yn gytŷn yn achos y cwpled llwgr hwn, ac anodd o’r herwydd roi cynnig ar ei ddiwygio. Awgrymir *gwell i’r iawn ... am gwell yr awn ...* y llsgrau.
- 47 **gwlad rhugl** Rhaid wrth ffurf gysefin yr a. sy’n dilyn yr eb. er mwyn sicrhau’r caledu sy’n cwblhau’r gyfatebiaeth gynganeddol.
- 49 **Siacob** Bu’n rhaid iddo ffoi o’i gartref rhag dig ei frawd, Esau, a fynnai ei ladd am iddo trwy dwyll sicrhau bendith eu tad, Isaac, gw. Gen 27–8. Serch hynny, clywodd mewn breuddwyd Dduw yn dweud wrtho *Ac wele fi gyda thi; ac mi a’th gadwaf pa le bynnag yr*



*elych*, gw. Gen 28.15.

- 51 **Daniel** Fe'i bwriwyd i ffau'r llewod am iddo weddio ar ei Dduw er bod y gyfraith yn gwahardd hynny, gw. Dan 6.
- 54 **carchar** Diau mai ystyr drosiadol sydd iddo, sef 'cyni, caledi, anghysur', ond tâl cofio'r hanesion am garcharu'r prydyddion a enynnodd ddig eu noddwyr. Honnai Llywelyn Siôn am un o'r cywyddau a ganodd Iorwerth Fynglwyd i Rys ap Siôn o Lyn-nedd *llyma gywydd awnaeth jorwerth i Rys ap sion pan oedd jorwerth yngharchar gan syr Matho kradog yn Aber Tawe*, gw. GIF 102. Ymddengys i'r cwndidwr, Tomas ab Ieuan ap Rhys, a chefnder Lewys Morgannwg, ddiodef tynged nid annhebyg. Mewn cerdd i Syr Siors Herbert, dywed iddo *gorfod sevyll / lle rhoes ych kar, chwi vi yngharchar / yn rhe gynffig, sytai yrddedig / ag o vewn gwal, kastell tubal*, gw. HG 6.23–6. Edrydd Elis Gruffydd hanes carcharu'r bardd a'r brudiwr, Robin Ddu, wedi marw Edmwnd ab Owain Tudur, Iarll Rhismwnt, am na wireddwyd ei broffwydoliaethau ond pan glywyd bod gwraig yr iarll yn feichiog, a bod gobaith am etifedd i hawlio coron Lloegr, fe'i rhyddhawyd, gw. WWR<sup>2</sup> 8–9.
- 55–6 **Purdan ... / Padrig** Yr oedd gweledigaethau o'r purdan a'r nefoedd ac uffern yn dra chyffredin yn yr Oesoedd Canol. Cyfieithiad o destun Llad. a seiliwyd ar ddeunydd Gwyddelig yw Purdan Padrig, gw. J.E. Caerwyn Williams, 'Welsh versions of Purgatorium S. Patricii', SC viii/ix (1973–4), 121–94. Dangoswyd ogof i Badrig (fe'i lleolwyd ar ynys yn Loch Dearg yn swydd Donegal), ac yno *Pwy bynnac a el dan benyt yn aruawc o fffyd iawn ... ef a burheir o'e holl bechodeu. A gwedy kerdo trwydi, ef a wyl poeneu y rei drwc, ac o'r byd gwastat yn y fffyd, ef a wyl llewenyd y rei da* (td. 156).
- 57 **marchog i'r ogof** Awgrymir yn Lewys Morgannwg: Gw 832 mai cyfeiriad at y sant Illtud yn ymneilltuo i ogof ger Afon Ewenni sydd yma, a chrybwyllir y digwyddiad hwnnw yn y cywydd a ganodd Lewys Morgannwg i'r sant, gw. 100.31–6. Esbonnir hefyd mai marchog oedd Illtud cyn iddo gefnu ar y byd. Neu gallai'r bardd fod yn cyfeirio at hanes Syr Gei o Warwig; dewisodd fywyd meudwy yn hytrach na phriodi ei gariadferch, Ffelis, er iddo gyflawni campau lu er mwyn profi ei deilyngdod ac ennill ei llaw, gw. GSC 7.65n. Ond gan fod Lewys Morgannwg newydd alw sylw at chwedl 'Purdan Padrig', tebycach mai Owain Farchog sydd dan sylw. Y mae'r chwedl yn dilyn ei hynt wedi iddo benderfynu mynd y *Burdan Padric megys y haedwyf caffel madeueint o'm pechodeu*, gw. J.E. Caerwyn Williams, *art.cit.* 160.
- 59 **damnedig** I ganol yr 16g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a restrir

yn GPC 885.

61 **neud wyf** Diwygiwyd *nid wyf ar daith* y llsgrau.

65 **ytwyf** Y gynghanedd yn mynnu'r ffurf hon, ond *ydwyf* yn llau. 52 a 59 yn yr un cywydd.

## 3

Awdl *I Sr Thomas Stradlingh* yw hon yn ôl y pennawd yn Pen 99, ac fe'i dilynwyd gan CM 12, ond dilewyd y 'Syr' yn Pen 101. Y mae'n amlwg i Robert Vaughan sylweddoli nad oedd y gŵr a gyfarchodd Lewys Morgannwg yn farchog. Fe'i gelwir yn *Meistr Tomas Ystradling* yn ll. 10 (a gw. hefyd l. 31), ac yn rhan olaf yr awdl deisyfir *Marchog ... y'th gaf* (llau. 69–70). Canwyd yr awdl hon, felly, cyn urddo Tomas Stradling (ganed c. 1499), mab Syr Edward Stradling, yn farchog (fe'i hurddwyd rhwng Tachwedd 1546 a Mai 1547, gw. KWL 293), a chyn 1547 pan benodwyd ef yn siryf Morgannwg, gw. LSEW 257. Awgryma'r cwpled 19–20 ddarfod canu'r awdl yn fuan wedi marw Syr Edward Stradling yn 1535.

*Y mesurau*

1–42 Cyfres o 9 englyn unodl union ac un pennill chwe ll. sy'n proestio (llau. 21–6).

43–86 Cyfres o doddeidiau. Hynodrwydd y rhain yw'r modd y gofalodd y bardd fod cynghanedd sain ym mraich gyntaf pob cwpled a chynghanedd groes yn yr ail fraich. Yn ll. 62 yn unig y torrwyd ar y patrwm; ll. o gynghanedd sain sydd yn hon lle y disgwyliid cynghanedd groes, ond anodd ei diwygio gan fod y gair cyntaf *plasau* yn cynnal y cymeriad llythrennol.

2 **tra weler** Ar y treigladd, gw. 1.97n.

3 **carw gwyn** Gw. 2.20n.

**gennych** Digwydd y ffurf *gennywch* yn safle'r odl yn 27.65, 51.7 (yn odli ag *ywch*).

5 **'stafell brenin** Yr oedd Tomas wedi ei benodi yn sewer yn siambr Harri VIII erbyn 1525, ddeng mlynedd cyn marw ei dad, gw. LPFD iv/i, cofnod 1676 (19).

7 **gwaig** Fe'i gwneir yn ffurf l. *gwasg* yn GPC 1594, ond gweddaï'r a. 'gwyich, cadarn, urddasol' yn well yn y cyd-destun, gw. GPC 1563.

**Hiriell** Diflannodd pob cof amdano, ond awgrymodd Ifor Williams, ar sail y cyfeiriadau ato, ei fod yn gysylltiedig â Gwynedd fel yr oedd Pryderi yn gysylltiedig â Dyfed, gw. B iii (1926–7), 50–2;

TYP<sup>2</sup> cxx (troednodyn). Y mae'n bosibl na wyddai Lewys Morgannwg am gysylltiadau daearyddol traddodiadol Hiriell gan iddi ei enwi mewn cerdd i ŵr o Forgannwg.

*n wreiddgoll.*

- 8 **ysgwiër well** Ar y treiglad i'r a.cmhr. sy'n dilyn eg. mewn gosodiad negyddol neu ofyniad, gw. 1.43n.
- 9 **Hymr** *Teir Prif Auon Ynys Prydein* oedd *Temys, a Hafren, a Hwmyr*, gw. TYP<sup>2</sup> 228. Digwydd y ffurf *Ymyr* yn GHS 3.3. Ffurfir Afon Hymr pan ddaw'r ddwy afon, Trent ac Ouse, ynghyd. Rhyw ystyr debyg i 'o Fôn i Fynwy' sydd i'r ymadrodd *hyd Hymr*: 'bydd dy orchestion di yn hysbys hyd at Hymr'. Er mai trwy ganolbarth Lloegr y llifa Afon Trent—y mae ei tharddiad yn swydd Stafford—efallai fod yma awgrym y bydd Tomas Stradling yn barod i frwydro â'r gelyn a drigai (yn fras) y tu hwnt i Afon Hymr. Bu'r Albanwyr yn ddraenen yn ystlys Lloegr yn ystod teyrnasiad Harri VIII am eu bod hwy a'r Ffrancwyr yn gynghreiriaid. Pan oedd Harri yn brwydro yn Ffrainc yn 1513, dioddefodd yr Albanwyr golledion enbyd pan ddaethant wyneb yn wyneb â byddin o dan arweiniad Thomas Howard, Iarll Surrey, yn Flodden Field. Ymosododd milwyr Lloegr ar yr Alban drachefn ar ddechrau'r pedwardegau pan oedd Harri ar y cyd â'r ymherodr Siarl V yn cynllunio cych arall yn erbyn Ffrainc. Ar gefndir brwydro'r pedwardegau, gw. J.J. Scarisbrick, *Henry VIII* (Yale, 1997), pennod 13; R.B. Wernham, *Before the Armada The Growth of English Foreign Policy 1485–1588* (London, 1966), pennod 12.
- 13 **Syr Bŵn** Bown o Hamtwn, gw. 1.1n.
- 14 **Syr Bwrđ** Mab Bwrt, brenin Gasgwyn. Daeth ei enw yn adnabyddus yng Nghymru yn dilyn cyfieithu 'Chwedl y Greal' i'r Gymraeg. Bwrđ, ynghyd â Galath a Pheredur, a lwyddodd i ennill y Greal, gw. TYP<sup>2</sup> 283–4.
- 23 **tŷ Arndel** Gw. 1.16n ar *Arndel*. Y mae'n amlwg mai 'teulu, tylwyth' yw *tŷ* yn y cyswllt hwn. Ni nodir yr ystyr honno yn GPC 3667–8 ond ceir lliaws o enghreifftiau yng ngwaith Lewys Morgannwg, e.e., 35.8 *tŷ Harbart*, 49.8 *tŷ ieirll Swmrsed*, 62.32 *tŷ Harri Dwinn*. Yr oedd *house* yn S. wedi hen fabwysiadu'r ystyr hon, gw. OED<sup>2</sup> vii, 437.
- 24 **llew gwyn ... Gwent** 'Three lions rampant Argent' oedd arwyddlun yr Herbertiaid, gw. DWH ii, 225–7. Ar gyswllt y Stradlingiaid â'r tylwyth hwnnw, gw. 1.34n.
- 25 **cyd-drिंगent** *Dringo* yw'r ffurf gysefin yn ll. 11, ond rhestrir *tringo* a *tringad* ymhlith yr amrywiadau d.g. yn GPC 1085; daw'r enghreifftiau o destun 'Y Marchog Crwydrad' yn Ll1st 178 yn llaw

Ieuan ab Ieuan ap Madog o'r Betws ger Pen-y-bont, gw. RWM ii, 768–9; ByCy 386, ac o waith Edward James, y clerigwr a'r llenor o Forgannwg a gyfieithodd yn 1606 *Pregethau a osodwyd allan trwy awdurdod i'w darllein ymhob Eglwys blwyf a phob capel ...*, gw. ByCy 397. Y mae'n amlwg fod Lewys Morgannwg yn barod i arfer y ddwy ffurf.

- 27 **tair talaith** Gwynedd, Powys a Deheubarth oedd tair talaith Cymru, gw. GSH 14.10n, ond gellid dehongli'r ymadrodd hefyd mewn cyd-destun Prydeinig, gw. TYP<sup>2</sup> 228 *Sef y dylyir y daly vrthi: Coron a Their Taleith. Ac yn Llundein gvisgav y Goron, ac ym Penryn Rionyt yn y Gogled vn o'r Taleithieu, ac yn Aberfra(w) yr eil, ac yg Kerniv y dryded.*
- 33 **hil Gamais** Catrin, merch Syr Tomas Gamais o'r Coety, oedd gwraig Tomas Stradling. Bu cryn wrthdaro rhwng y ddau deulu ynghylch tiroedd a hawlid gan y naill a'r llall, a diau fod y briodas ddwbl a drefnwyd yn ôl y cytundeb a luniwyd yn 1516 yn rhan o'r ymgais i ddod â'r helynt i ben. Dyma gefndir y cywydd cymod a luniodd Iorwerth Fynglwyd i Syr Edward Stradling a Syr Tomas Gamais, gw. GIF cerdd 21. Ni rwystrodd y briodas Domas Stradling rhag ceisio meddiannu rhai o diroedd ei dad yng nghyfraith ym mhedwardegau'r ganrif, gw. Ralph Griffiths, 'The rise of the Stradlings of St. Donat's', *Morgannwg*, vii (1963), 34.
- 34 **Coel ... Elen** Cyfeiria'r beirdd at dair Elen, sef Elen Fannog, Elen ferch Eudaf [= Elen Luyddog], gwraig Maccsen Wledig, ac Elen ferch Goel y dywedir iddi ddarganfod y Wir Grog, gw. TYP<sup>2</sup> 341–3 a'r cyfeiriadau yn GMBr 19.39n (ond bu peth cymysgu rhwng yr ail a'r drydedd). Cf. y triawd *Tair Elen aith o Ynys Brydayn: Elen verch Coil a briodes Constans ym[er]odr Rvayn, ac iddi hi i bv vab, Constans vawr vab Elen, ac hi a ynillth y Groys vendegayd. Elen verch Evda ap Creadoc ap Bran ap Llyr llediaith. Pan briodes Maxen ap Llywelyn hi aith i Rvffayn gida[g ef]. Elen chwayr Arthur*, gw. 'Arthuriana from the genealogical manuscripts', Cylchg LIGC xiv (1965–6), 242–3. Sylwer bod Lewys Morgannwg yn enwi Eudaf yn nes ymlaen yn yr awdl, ac nid oes unrhyw awgrym fod cyswllt rhyngddo ef ac Elen ferch Coel, gw. ll. 60. Enwir Elen a Choel gyda'i gilydd ar achlysuron eraill, gw. 9.11–12, 82.35–6, 87.29–30.
- 35 **Bronwen** Am gyfeiriadau eraill ati yng nghanu'r Cywyddwyr, gw. TYP<sup>2</sup> 545–6. Sylwer mai *Bronwen* yw'r ffurf sydd gan Dudur Penllyn, gw. GTP 16.47.
- nith Brenin Harri** Trafodir y cyswllt rhwng teulu Gamais a'r goron yn nodyn brig cerdd 9. Diau mai Harri VI sydd dan sylw.
- 36 **Catrin** Gw. 3.33n.

- 39 **Cadell** Fe'i henwir ar achlysuron eraill yn y canu, ac awgryma cyd-destun 40.35 fod iddo gyswllt â'r De-ddwyrain. Yr oedd gan dri o'r cymeriadau a enwir yn WCD 72–4 gyswllt â'r De, sef i. Cadell ab Arthfael (m. 942), brenin Gwent, gw. HW 347–8; ii. Cadell ap Rhodri Mawr—rhannwyd tiroedd Rhodri rhwng ei dri mab, a Chadell a gafodd Seisyllwg, gw. HW 326 a hefyd 4.38n; iii. Cadell, mab Morgan Hen y tybir enwi Morgannwg ar ei ôl, gw. ll. 45 isod. Ond nid annichon fod yma gyfeiriad at Gadell ap Geraint, un o'r brenhinoedd cynnar ar Brydain a enwir ym Mrut Sieffre, gw. BD 43, testun yr oedd y bardd yn dra chyfarwydd ag ef fel y prawf yr aml gyfeiriadau at gymeriadau'r hanes yn y canu.
- 40 **oeswr** 'Person byw; cyfoeswr; hynafgwr', gw. GPC 2628, a cheir enghraifft arall o'r gair yn 84.72. Gwedda'r un ystyr yn 13.41, ond efallai fod yma amwysedd bwriadol y tro hwn; yr ail ystyr a roddir i *oeswr* yn GPC yw 'un sy'n rhoddi bywyd', ond y mae Duw, sef rhoddwr bywyd, wedi dwyn ymaith Watgyn Lochwr, noddwr y bardd.
- Syfarn** Digwydd y ffurf yng nghanu Lewys Glyn Cothi, a chynigiodd Dafydd Johnston mai Cymreigiad o *Severn* ydyw, gw. GLGC 222.37n.
- 42 **ar fainc** Gwelir bod a wnelo nifer o noddwyr Lewys Morgannwg â gweinyddu'r gyfraith ac ymfalchïa'r bardd ar gyfrif hynny. Dangosodd J.R.S. Phillips nad yn 1536 y dechreuwyd apwyntio ustusiaid heddwch yn unol â chyfarwyddyd y Ddeddf Uno ond yn hytrach ar ddechrau'r pedwardegau, gw. JPWM ix–xii. Y mae a wnelo'r cofnod cynharaf a ddiogelwyd am weithgarwch yr ustusiaid â Morgannwg ac â Thomas Stradling ei hun, gw. *ib.* 285.
- 45 **gwlad Forgan** Dilynodd Morgan Hen ab Owain (m. 974) ei dad yn frenin Glywysing. Fe'i henwir yn Llyfr Llandaf a chofnodir ei farwolaeth ym Mrut y Tywysogion. Y mae lle i gredu mai ef a roes ei enw i Forgannwg, gw. WCD 485–6; 3.39n. Yn ôl Iolo Morganwg, *Morganwg a gafas ei henw o enw Morgan ap Einydd ... ap Caradoc ap Bran fendigaid ap Llŷr Llediaith*, gw. LIGC 13154A, 15.
- 47 **Llandaf** Trigai canghennau o dylwyth y Matheuaid yn Radur a Llandaf. Yr oedd nain Tomas Stradling o du ei dad yn ferch i Domas Mathau, gw. WG1 473; WG2 873.
- [y] **Barclos** Priododd un o gyndeidiau Tomas Stradling â merch Syr Rhosier Berkerolles, gw. WG2 1621. Y mae'n amlwg fod yr e. yn ddieithr i'r copïwyr, cf. 2.7n.
- 48 **rhos ... Wlad yr Haf** Gan fod Lewys Morgannwg yn crybwyll cyswllt y teulu â'r goron, gw. 3.35n uchod, nid annichon fod yma

gyfeiriad at rosyn coch y Lancastriaid ac at deulu ieirll Somerset, cf. 44.13–14 *Galw waed y rhos, Gwlad yr Haf, / Gyda iach y gwaed uchaf*. Ond bu gan sawl cenhedlaeth o'r Stradlingiaid diroedd yng Ngwlad yr Haf, a buwyd yn dal nifer o swyddi cyhoeddus yno yn ogystal.

- 53 **teiriath** Gw. 3.27n.
- 54 **nortr** Dyma air y mae'r bardd yn dra hoff o'i ddefnyddio. Rhoddir iddo'r ystyron 'ymarweddiad cwrtais neu foneddigaidd, moes, cwrtseisi, moeswedd' yn GPC 2596, a daw'r holl enghreifftiau a ddyfynnir, bron, o waith y bardd hwn. Digwydd y gair *S. nurture*, a ddaw yn ei dro o'r Ffr. *nourture, nurture* o'r 14g. ymlaen, gw. OED<sup>2</sup> x, 607–8.
- 55 **bydaf** 'Haid neu nythaid o wenyn, nyth y gwenyn a'r mêl sydd ynddi; cwch gwenyn', gw. GPC 361. Yr ystyr drosiadol yma yw 'amlder o fwyd amheuthun'.
- 57 **Eidol** Llwyddodd Eidol, Iarll Caerloyw, i ddianc, pan laddodd y Saeson ei gymdeithion â'u cyllyll hirion, a thalodd y pwyth: *a'r pavl bendigeit hwnnw y bryvei ef y benn y un, y arall y ysgvydeu y vrth y gorff, y arall y dvyllav a'e ureichyeu, y arall y traet a'e esgeiryeu*, gw. BD 99; WCD 227.
- 59 **alaf** Y mae'r ddwy ystyr a gynigir yn GPC 73 yn gweddu yn y cyddestun, sef i. eg. 'cyfoeth, eiddo'; ii. a. 'amheuthun'.
- 60 **Eudaf** Mab Caradog a thad Elen Luyddog yn chwedl 'Breuddwyd Maccsen', gw. WCD 257 a 3.34n.
- 63 **penteulu ... ddewrach** Ar y treigladd, gw. 1.43n.
- 66 *n wreiddgoll*.
- 70 **Ector** Mab Priaf a Hecuba a'r rhagoraf o blith marchogion Tro, gw. 1.73n; OCD<sup>3</sup> 673.
- 76 **eog** Deisyfir hir oes i Domas Stradling. Eog Llyn Lliw yw'r hynaf o blith y creaduriaid sy'n cynorthwyo marchogion Arthur i ganfod Mabon fab Modron yn chwedl 'Culhwch ac Olwen', gw. CO<sup>3</sup> 31–3 a thrafodaeth TYP<sup>2</sup> 220–1 ar fotiff yr anifail hynaf (ond nid enwir yr eog yn y triawd *Tri Hynaif Byd*); hefyd Thomas Jones, 'Chwedl yr anifeiliaid hynaf', Cylchg LIGC vii (1951–2), 62–6. Uniaethir Llyn Lliw â Llyn Lliwan, ac fe'i lleolir rywle ger aber Afon Hafren. Crybwyllir Eog Llyn Llyw yn y cywydd a ganodd Rhisiart ap Rhys i Domas Gamais o'r Coety, tad yng nghyfraith Tomas Stradling, gw. GRB 25.57.
- 77 **Cawrdaf** Mab Caradog Freichfras (am gyswllt hwnnw â Morgannwg, gw. 43.55n). Enwir y tad a'r mab ymhlith dau gynghorwr a deugain Arthur yn y chwedl 'Breuddwyd Rhonabwy', gw. TYP<sup>2</sup>

303; WCD 114–15. Barnai Hywel Rheinallt mai ef oedd nawddsant eglwys Aber-erch neu Langawrdaf, a lluniodd gywydd er clod iddo, gw. LBS ii, 95–7.

- 79 **ffrewyll** ‘Fflangell; gwialennod’ yw’r ystyron arferol, gw. GPC 1313, ond nid oes amheuaeth nad yr ail ystyr (er mai yn betrus y’i cynigir yn GPC) sy’n gweddu yma, sef ‘ffrwd (o waed)’.
- 81 Rhaid wrth y ffurf lafar *trafel* i odli â *dél*. Galwodd David Ellis sylw at yr odl gudd mewn nodyn ar ochr y ddalen yn y copi a luniodd, a gallai fod wedi galw sylw hefyd at yr odl yn ll. 83. Y mae’r odlau hyn yn bur gyffredin yn awdlau’r bardd, a cf. 10.105, 14.81, 56.65, 84.47. Parodd rhai o’r odlau hyn drafferthion i’w copiŵyr.
- 84 **gwenwyn wybr** Ni restrir yr ymadrodd yn GPC 1639 d.g. *gwenwyn* ond digwydd yng nghywydd ‘Y Frân’ a briodolir i Ddafydd ap Gwilym, gw. DGA 32.27–8 *Rhag gwenwyn wybr gorwybrbleth, / Rhag pwyo poen, rhag pob peth*. Yn y cywydd, megis yn yr awdl dan sylw, deisyfir gwaredigaeth i’r gwrthrych rhag amryfal ddamweiniau. Yr oedd y Pla Du a ysgubodd trwy wledydd Ewrob ym mhedwardegau’r 14g. yn destun dirgelwch i ddsygedigion yr oes. Ni ddeallwyd mai llygod mawr a oedd yn gyfrifol am ledur pla a cheisiwyd ei esbonio trwy gyfeirio at symudiad y planedau, a gw. 12.50n a’r modd yr uniaethir digwyddiadau anffodus yn y canu â’r blaned Sadwrn; hefyd GGL 9.28, 31 *Na ad ar y winwlad wen ... / Na gwenwyn sygn, na dygn dig*. Cynigwyd hefyd mai’r gwynt a gariar’r pla o’r de, gw. DMA 2, 257–67, a gallai’r gred honno esbonio deisyfiad Lewys Morgannwg a’r bardd a ganodd gywydd ‘Y Frân’.

## 4

Yr oedd Syr Wiliam Mathau yn fab i Domas ap Syr Dafydd Mathau ap Mathau ab Ieuan ap Gruffudd Gethin ap Madog ap Meurig o lwyth Gwaithfoed, gw. WG1 473; WG2 873; LPMG 10–11; ByCy 582. Ceir peth o hanes amryfal ganghennau’r teulu yn J. Barry Davies, ‘The Mathew family of Llandaf, Radyr and Castell-y-Mynach’, Glam Hist xi, 171–87. Tomas ap Syr Dafydd Mathau a sefydlodd gangen Radur o’r Matheuaid. Urddwyd ei fab yn farchog yn 1513 a bu farw 10 Mawrth 1528, gw. KWL 292. Canodd Lewys Morgannwg i dair cenhedlaeth o’r teulu, i Syr Wiliam, i’w fab ac i’w ŵyr, gw. cerddi 5–6. Canodd Iorwerth Fynglwyd gywydd nodedig sy’n disgrifio ei gartref yn Radur, gw. GIF cerdd 27, a cheir disgrifiad nid annhebyg yng nghywydd Siâms Tomas *i ganmol plas m wiliam Mathav ynghaer dydd*, gw. LIGC 13062B, 583<sup>v</sup>, ond dichon mai disgynnydd i wrthrych y cywydd hwn a gyferchir yn y cywydd hwnnw.

*Y mesurau*

1–60 Cyfres o 15 englyn unodl union.

61–112 Cyfres o doddeidiau wedi eu rhannu yn benillion o ddau gwpled neu dri, a'r rheini wedi eu cysylltu (ond nid yn ddieithriad) â chymeriad llythrennol. Y gynghanedd sain a welir ym mhob ll.; yn wir, y mae pob ll. ac eithrio saith yn yr ail ran yn cynnwys cynghanedd sain gytbwys ddiacen.

3 **ochwyr** Gair cyfansawdd *och* + *gwȳr* 'gwȳr sy'n ochneidio', ond gellid diwygio a mabwysiadu'r ffurf *achwyr* 'arwyddfeirdd', gw. GPC 10.

5 **Rolant** Gw. 7.64n.

7 *n wreiddgoll*.

13 **Tewdwr Mawr** Enwir Tewdwr yn gyson yn y canu i ddisgynyddion Gwaithfoed, ac ymddengys fod y bardd (a'r Matheuaid, hwythau) yn ymwybodol o'r cyswllt, er nad yw yn amlwg, gw. 1.65n. Priododd Madog ap Meurig â Gwladus, merch Gruffudd Goeg. Perthynai mam Gwladus i dylwyth Rhys ap Tewdwr, gw. WG1 474. Disgrifir dolen gyswllt arall yn 4.52n.

14 **Iorwerth Drwyndwn** Mab Owain Gwynedd a thad Llywelyn Fawr. Ar sail ei enw, awgrymwyd bod rhyw nam corfforol arno ac na fu iddo ddilyn ei dad o'r herwydd, ond y mae lle i gredu iddo etifeddu Nanconwy ac Ardudwy, gw. HW 549–50; HGFM 203. Un gerdd a oroesodd iddo: marwnad fer ddeunaw ll. gan Seisyll Bryffwrch, gw. GLIF cerdd 23.

15 **Maelgwn** Gallai fod yn gyfeiriad at Faelgwn Gwynedd a enwir yn 14.5. Â Gwynedd y cysylltir Maelgwn, mab Owain Gwynedd, yntau, gw. ByCy 573. O droi at y Deheubarth, gwelir enwau sawl Maelgwn ymhlith disgynyddion yr Arglwydd Rhys, gw. *ib.* 573–4.

16 **Ifor Hael** Ifor ap Llywelyn o Wernyclepa ger pentref Basaleg, a'r noddwr y tystiodd Dafydd ap Gwilym i'w haelioni a'i gyfeillgarwch, gw. CLC<sup>2</sup> 361–2. Nid oedd cyswllt achyddol uniongyrchol rhwng y Matheuaid a disgynyddion tylwyth Cydifor y perthynai Ifor iddo, ond gellid olrhain cyswllt trwy briodas ag Ifor. Gwenllïan, merch Dafydd ap Gwilym ap Siancyn, oedd gwraig Syr Dafydd Mathau, gw. WG1 421. Yr oedd Ffyllib, brawd Ifor, yn dad yng nghyfraith i Ddafydd ap Gwilym, gw. WG1 202. At hyn, yr oedd Siân, gwraig Gruffudd Gethin (gw. y nodyn brig), yn chwaer i Nest, gwraig Ifor, gw. WG1 83.

20 **Sioned** Y weddw, a merch Henri ap Gwilym ap Tomas Fychan o



Lan-lais, Llangathen, ac aelod o lwyth Elystan Glodrydd, gw. WG1 405; WG2 731; R.A. Griffiths: PW i, 265; John A. Lloyd, 'Henry ap Gwilym an unassuming 15th century Carmarthenshire personality', *The Carmarthenshire Antiquary*, xxxiv (1998), 11–19. Yn ôl LPMG bu farw Sioned yn 1500, ond awgryma'r awdl hon a'r cywydd sy'n dilyn iddi oroesi ei gŵr. Canodd Lewys Morgannwg farwnad i'w brawd, Hywel, gw. cerdd 60.

- 21 **Luned** Arwres chwedl 'Iarlles y Ffynnon', a safon prydferthwch a boneddigeiddrwydd yng nghanu'r beirdd, gw. TYP<sup>2</sup> 345; WCD 430.

Anghyffredin gweld gair gwan, yr ardd. *am* yn yr achos hwn, yn safle'r brifodl. Cf. 66.27 mewn awdl arall o waith y bardd *Ni chad dy gadarnach er a 95.7 Gwalchmai, ar ogylch moroedd*.

- 23 **i'w fab mal i'w fam** Siors Mathau, y mab, gw. cerdd 5 isod, a'i fam, sef gweddwr Syr Wiliam Mathau (yn hytrach na mam Syr Wiliam. Catrin, merch Morgan ap Llywelyn ab Ieuan o lwyth Iestyn, oedd hi, gw. WG1 560).

- 26 **Aberffraw** Eisteddle traddodiadol tywysogion Gwynedd. Egyr ail gainc y Mabinogi yn Harlech ond yn Aberffraw y priodir Branwen a Matholwch.

- 27 **Syr ... Siors** Yn ôl KWL 293, urddwyd Siors yn farchog ym mis Hydref 1553. Meistr Siors ydyw yn y cywydd gofyn y bernir i Lewys Morgannwg ei ganu rhwng 1533 a 1535, gw. 75.39–40, ond ymddengys fel pe bai'r ll. hon yn awgrymu ei fod wedi ei urddo eisoes: 'Y mae Syr Siors sy'n feistr mewn ymladd ar ystrym Sain Siors draw.' Awgrymir posibilrwydd arall yn Lewys Morgannwg: Gw 792 sy'n gyson â'r ffaith nad oedd Siors wedi ei urddo pan fu farw ei dad. Cynigir mai ffurf ar St-George-super-Ely (Cym. Sain Siorys, gw. WATU 194) a welir yn ail fraich y cwpled, ac felly gellir derbyn mai disgrifiad trosiadol o'r mab sydd yn y ll. gyntaf lle y'i cyffelybir i'r milwr a'r sant adnabyddus.

- 28 **ystrym** 'Cwrs, helynt, ffordd, llwybr', gw. GPC 3866 a cf. GRB 35.23–4 *Aeron oedd ar win iddaw / y rhôl strym i'r rhai sy draw*. Digwydd y cwpled *Ys trum yw y meistr Emwnt, / A yrr y morwyr o'r Mwnt* yn un o gywyddau Gwilym Tew, gw. Gwilym Tew: Gw 7.47–8, ond *ystrym* yw darlenniad yr holl lsgrau. Fe'i diwygiwyd gan y golygydd.

- 29 **tŷ Deilaw** Claddwyd Syr Wiliam yn eglwys Llandaf a gosodwyd delw ohono yn yr eglwys i'w goffâu. Sant o'r 6g. oedd Teilo. Yn ei fuchedd y ceir y fersiwn cynharaf ohoni yn Llyfr Llandaf, fe'i gwneir yn un o esgobion cynnar Llandaf, gw. CLC<sup>2</sup> 697; LBS iv, 226–42; WCD 605–7.

- 30 **Paredur** Mab Efrog Iarll, a chymeriad canolog y rhamant 'Peredur', gw. TYP<sup>2</sup> 488–91; WCD 540–1. Sylwodd Rachel Bromwich mai *Paredur* yw'r ffurf a arferir yn 'Chwedl y Greal', a hon hefyd yw'r ffurf a welir fynychaf yng nghanu'r beirdd, gw. TYP<sup>2</sup> 489. Anfynych y digwydd y ffurf *Pyrssyfal*, fel y sylwodd Huw Meirion Edwards yn GPB 7.26n.
- 31–2 Ailadroddir yr odl *Radur / dur* yn 5.11–12 a thrachefn yn 5.59–60.
- 31 **ceiliog du** Tri cheiliog du oedd un o arwyddion y teulu, gw. DWH ii, 371–3 a cf. 5.14 a GIF 27.29–30 *Tarian oedd ... / trwy'i chlog dwg tri cheiliog du*.
- 36 Y mae'n bosibl mai camddeall *blined aeth* sy'n cyfrif am ddarlenniad llsgrau. AC *blined daith*.
- 37 **aeth Briaf** Yr arfer yw cadw'r gysefin yn dilyn ffurfiau 3 un.grff.myn, gw. Treigladau 222, ond gwelir enghreifftiau eraill yn y canu o dreiglo goddrych *aeth*, gw. 7.17–18n, 12.22n, 31.51, 35.41, 36.36. Cf. hefyd GMBr 16.49 *Yno'r aeth wendid oeriaith undydd*.  
Nid yw'r gyfatebiaeth yn y gynghanedd sain yn gwbl reolaidd: ll.n.d = ll.n.m.d. Gellid *lle ni'n dawr*.
- 38 **llai ddygiad** Ar y treiglad, gw. 1.18n, a cf. ll. 83 isod *llai faeth*.  
**Rhodri Mawr** Bu Rhodri, mab Merfyn Frych, yn frenin ar dair teyrnas yng Nghymru, sef Gwynedd, Powys a Seisyllwg, gw. CLC<sup>2</sup> 642; ByCy 787; John Davies, *Hanes Cymru* (St Ives, 1990), 79 *et seq.* Daethpwyd i'w adnabod wrth yr enw Rhodri Mawr ar gyfrif ei orchestion yn gwrthsefyll ymosodiadau'r Daniaid a'r modd y sicrhaodd fod rhannau helaeth o Gymru o dan ei awdurdod, gw. HW 323–7. Rhannwyd ei diroedd rhwng ei chwe mab, ond tri a enwir yn y ffynonellau cyfoes, sef Anarawd, Cadell a Merfyn. Enwir y tri hyn mewn cyfres o englynion o waith Dafydd Nanmor, gw. DN cerdd LIII *Tri meib i Rhodri mewn tremyn—ei keid, / Kadell, Anerawd, Mervyn. / Rhannodd ef 'r hon oedd yr un, / Rhoddiad holl Gymru rhyddyn. Â rhagddo i esbonio mai Cadell a gafodd Ddinefwr, gw. ymhellach 3.39n, ac etifeddodd Anarawd diroedd ym Môn ac Arfon. Ychydig sy'n hysbys am eu brawd, Merfyn; ni lwyddwyd i leoli ei etifeddiaeth ef, ac yn wahanol i'w ddau frawd, ni ddaeth ei ddisgynyddion yn rheolwyr, gw. WG1 tabl 41. Enwir tri mab Rhodri yn y cywydd marwnad a ganodd Lewys Morgannwg i dri brawd, gw. 62.15–20, ac egyr Lewys ei awdl foliant i Domas Mostyn trwy gyfeirio at *tri chawr Rhodri Mawr*, ond Anarawd yn unig a enwir yn y gerdd honno, gw. 84.47.*
- 39 **tywarchawr** 'Ych a ddefnyddir i aredig neu fel anifail gwaith', gw. GPC 3685.

- 42 **Harbart, Bleddyn** Nid oedd Gwenllian, gwraig Syr Dafydd Mathau, yn ferch i Siors Herbert fel y nodir yn LPMG 8, ond yr oedd hi a Syr Wiliam Tomas, tad Wiliam Herbert, Iarll Penfro, yn gefnderwyr, gw. WG1 421, 425. Priododd Syr Siors Mathau, mab Syr Wiliam, â merch Syr Wiliam Herbert, Colbrwg. Ar y cyswllt â Bleddyn ap Cynfyn, gw. ll. 52.
- 44 **planed dost** Gw. 12.50n.  
**Iestyn** Gw. 4.49n. Perthynai gwragedd nifer o gyndeidiau Syr Wiliam Mathau i lwyth Iestyn.
- 45 Gwnaed *wythr*an yn air cyfansawdd yn y llsgrau., ond myn y mesur wahanu'r ddwy elfen.
- 47 **penllin** Gallai fod yn e. cyfansawdd *pen* + *llin* neu yn e.p. Sioned, merch Siancyn Ffleming o Ben-llin, oedd mam Syr Dafydd Mathau.
- 48 **[y] pum llwyth** Cynrychiolid pum brenhinllwyth Cymru gan Ruffudd ap Cynan, Rhys ap Tewdwr, Bleddyn ap Cynfyn, Iestyn ap Gwrgant ac Elystan Glodrydd. Am fersiwn arall, gw. L. Dwnn: HV ii, 63. Gw. hefyd y cyfeiriad at y *brenin Emrys y bumran*, sef pum rhaniad y wlad, ar ddelw'r hanes yn PKM 47–8 am bum talaith Iwerddon, gw. Frank Emery, 'A new account of Snowdonia, 1693, written for Edward Lhuyd', Cylchg LIGC xviii (1973–4), 405–17 (troednodyn td. 414).  
 Rhaid cyfrif *meirw* yn air deusill.
- 49 **Einion, Lleision** Priododd Morgan ap Llywelyn, taid Syr Wiliam o du ei fam, ag Efa, merch Ieuan Gethin ab Ieuan ap Lleision ... Iestyn, gw. WG1 547. Priododd Ieuan ap Lleision ag un o ddisgynyddion Einion ap Collwyn, gw. WG1 307. Un arall a allai hawlio cyswllt ag Einion, trwy ei wraig, oedd Ieuan ap Gruffudd Gethin, gw. WG1 555. Ni roes Lewys Morgannwg sylw neilltuol yn ei ganu i'r bardd-uchelwr, Ieuan Gethin o Faglan, gw. CLC<sup>2</sup> 360; Bleddyn O. Huws, 'Dyddiadau Ieuan Gethin', LICy xx (1997), 46–55.  
**lluoesydd** Ffurf ar *lluosydd* 'mintai, lluoedd', gw. GPC 2229.
- 50 **Elystan Glodrydd** Gw. 4.20n.
- 52 **Rhun ... Aron** Digwydd yr enw Rhun mewn englyn sy'n rhestru hynafiaid Wiliam Mathau, ac nid rhaid troi, felly, at hanes a chwedloniaeth er mwyn esbonio'r enw (er bod sawl Rhun yn hysbys; enwir dau ymhlith brenhinoedd cynnar Prydain ym Mrut Sieffre, sef Rhun Baladr Bras a Rhun fab Peredur, gw. BD 25, 43; WCD 561–6). Priododd Gruffudd Gethin (gw. y nodyn brig) â merch Rhun ap Gronwy (ac yr oedd ef yn un o ddisgynyddion Bleddyn ap Cynfyn). Gwraig Rhun oedd Sioned, merch Syr Aron

ap Hywel Fychan ... Bleddyn ap Maenyrch, gw. WG1 83, 124. Am gyfeiriad at yr Aron a berthynai i gangen arall o'r teulu, gw. 16.16n. Priododd Bleddyn ap Maenyrch ag Elin, merch Tewdwr, gw. WG1 85. Gan fod Aron yn cael ei enwi mewn englyn lle y rhestrir cyndeidiau'r noddwr, nid ymddengys fod yma gyfeiriad at y cymeriad Beiblaidd, nac ychwaith at Aron ap Cynfarch a enwir ymhlith milwyr Arthur, gw. P.C. Bartrum, 'Arthuriana from the genealogical manuscripts', Cylchg LIGC xiv (1965-6), 242.

- 55 **had Troea** Crybwyllir y gred draddodiadol mai disgynyddion Brutus, tywysog Tro, oedd cenedl y Cymry, a phwysleisir yr un pryd mai gwaed Cymreig yn hytrach na gwaed Normanaidd a lifai trwy wythiennau Syr Wiliam Mathau.
- 58 **blin eiriau** Nid yw'r llsgrau. yn gytûn gyda golwg ar yr ail elfen. Cymerwyd mai *geiriau* sydd yma gan fod Llywelyn Siôn yn fynych yn colli'r *i* yn y terfyniad enwol ll. *-(i)au*, ond nid annichon *aerau*, ffurf l. *aer* 'rhyfel, brwydr; cyflafan', gw. GPC 37.
- 59 **pobl aeth** Ceir *poblaeth* yn LIGC 6511B, ond nid oes enghreifftiau cyfredol o'r gair 'poblogaeth' yn GPC 2836 (perthyn yr enghraifft gynharaf i'r 19g.) ac nid yw'r gynghanedd o blaid y ffurf hon. Cyfatebiaeth bl = pl.
- 62 Cadwyd *llwythau* llsgrau. AC yn hytrach na *traethau* llsgrau. BDE gan ei fod yn cynnal y cymeriad llythrennol.
- 63 **Meisgyn** Un o gymydau cantref Penychen, WATU 155.
- 66 **dygyffor** Ni nodir y ffurf hon yn GPC 1133 ond digwydd yn yr holl gopïau a dichon ei bod yn ystyrion yng ngolwg Llywelyn Siôn. Rhoddir i *dygyffor* yr ystyrion 'cyffro, helynt, cythrwfl; rhyferthwy'.
- 67 **tromgad** Dyma'r ffurf a ddisgwylid, ac felly diwygiwyd *trymgad* y llsgrau. Am enghraifft arall o'r ffurf yn y canu, cf. 52.13 *Dydd trymgwymyp, diwedd tromgad*.
- 83 **llai faeth** Ar y treigladd, gw. 1.18n.  
**llyseuoedd** Fe'i rhestrir yn GPC 2279 ymhlith ffurfiau ll. dwbl *llysau* (cf. ll. 79) a *llysiau*.
- 84 **lluniaeth** Darlleniad LIGC 6511B yw *llynniaeth* a allai fod yn e. o *llyn* + *-aeth* 'darpariaeth o ddiod', ond ni nodir y gair yn GPC 2275.
- 85 Nid yw'r bardd yn gwbl gyson yn y modd y trinnir gwrthrych ffurfiau 3 ll. y f. Treiglir y gwrthrych yn y ll. hon yn dilyn yr amhff. ond ni threiglir yn ll. 86 (y grb.) a ll. 88 (y pres.). Nid yw'r gynghanedd yn caniatáu diwygio'r un o'r ffurfiau hyn.
- 89 **Arthur** Enwir yr arwr hanesyddol a chwedlonol hwn mewn sawl

cerdd. Arno, gw. WCD 26–9; CLC<sup>2</sup> 26–8; TYP<sup>2</sup> 274–7.

- 93 **gwaywyr** Digwydd yn fynych yng nghanu'r bardd hwn. Gallai fod yn ffurf l. *gwayw*; rhestrir y ffurfiau *gweywyr*, *gweywyr* a *gwaywyr* yn GPC 1606, ond y mae hefyd yn ffurf l. *gwaywr* 'picellwr', gw. GPC 1607. Nid oes modd gwahaniaethu rhwng y ddwy ystyr ac nid yw'r copiwyd, hwythau, yn gyson. Digwydd y ffurfiau *gwaywyr*, *gwaewyr*, *gweywyr* a *gweywyr* yn y llsgrau. ac y mae'n bosibl mai ymgais i gyfleu ffurf l. *gwaywr* sy'n cyfrif am y ffurfiau hyn.
- ar gyhoedd** Digwydd y ddwy elfen ar wahân yn y llsgrau. ac y mae'r ystyr 'yn gyhoeddus, yn amlwg' yn gweddu yn y cyd-destun fel nad oes angen ystyried diwygio a mabwysiadu'r darlleniad *argyhoedd*, ffurf amrywiol ar *argywedd* i. 'niwed; briw'; ii. 'cwyn', gw. GPC 202.
- 103 **Lamedon** Mewn marwnadau yr enwir ef fynychaf, gw. GLM LXXIII.33; GRB 13.9, er mai awgrym o'i haelioni sydd gan Utun Owain yn GO XIX.37. Ef oedd brenin Tro a thad Prief, ond yr oedd hefyd yn nodedig am ei anonestrwydd a'i dwyll, a chafodd ei haeddiant pan laddodd Ercwlff ef, gw. OCD<sup>3</sup> 815. Nid oes awgrym o feirniadaeth yn y cyfeiriadau a grybwyllwyd. Yn hytrach pwysleisir y tristwch sy'n gysylltiedig â marwolaeth gŵr o fri. Ni ddylid synnu bod Gutun Owain yn crybwyll ei enw ar sawl achlysur. Cofnodir ei dynged yn 'Ystorya Dared' sy'n digwydd yn Llyfr Du Basing, llawysgrif sy'n rhannol yn llaw'r bardd, gw. GO 129; RB 4; J.E. Caerwyn Williams, 'Gutun Owain', GWL ii, 262–77.
- 106 **trymryd** Ffurf amrywiol ar *trymfryd* 'tristwch, galar', gw. GPC 3643.
- 108 **trwblant** O'r f. *trwblu* 'peri trwbl, trafferth; bod yn drallodus neu'n ofidus', gw. GPC 3624. I'r 16g. y perthyn yr enghreifftiau cynharaf a restrir.
- 109–10 Gwelir mai'r un gystrawen sydd yn y ddwy l., sef ymadrodd genidol + be. (*gorfod* yn y naill achos a'r llall) + gwrthrych i'r be. Treiglir y be. yn ll. 109 ond nis treiglir yn ll. 110 (ond gellid treiglo heb ddifetha'r gynghanedd).
- 110 **Orddod fron gorfod llewod lluoedd** Digwydd trawiad tebyg ar ddau achlysur arall, gw. 52.8 *Och orddod bron gorfod gwŷr!* a 93.61–2 *Bu orddod drom, beirdd, hyd draeth, / Bron gorfod brain gwyarfaeth*. Ymhlith y lliaws cerddi a briodolir i'r ffug Daliesin gwelir cyfres 'Y Gorddodau'. Y mae 25 pennill yn y ddwy gyfres a ddiogelwyd yn Pen 50, gw. RWM i, 393–5, a phob pennill yn dechrau â'r fformwla *Orddod vronn goruot ...* Ceir gan Lewys gyfeiriadau manwl a dysgedig at ddau destun rhyddiaith, sef Brut Sieffre a 'Chwedl y Greal'. Prin, fodd bynnag, yw'r adleisiau o

gerddi eraill yng ngwaith y bardd ac y mae'r cyffyrddiadau dan sylw yn ddiddorol iawn o'r herwydd. Llawysgrif a berthyn i Forgannwg yw Pen 50, gw. RWM i, 389.

Cyfrifir *orddod* a *gorddod* yn ffurfiau cysefin, gw. GPC 1471. Nid oes achos i dreiglo yma, a chymerir felly mai enghraifft o'r flaenaf sydd yma. Er bod *gorddod* yn digwydd yn y canu ar sawl achlysur, dyma'r unig enghraifft o'r ffurf *orddod*.

Ni chynhelir y cymeriad llythrennol ar ddechrau'r ll. Tybed a ddylid benthyca cytsain olaf y ll. flaenorol er mwyn sicrhau'r cymeriad? Galwodd Dylan Foster Evans fy sylw at y cwpled *Gynnal llysoedd drwy gennad / Duw, lle bu Wilym eu tad* yn un o gywyddau Rhys Goch Eryri, gw. IGE<sup>2</sup> CIV.63–4, ac awgrymodd fod y ddwy gytsain feddal yn *gennad / Duw* yn caledu ac yn ateb y gytsain galed yn *tad*.

## 5

Cywydd moliant i Siors Mathau, mab ac etifedd Syr Wiliam Mathau, gwrthrych cerdd 4. Cafodd siryfiaeth Morgannwg yn 1545, a bu farw 14 Tachwedd 1558. A barnu wrth y pennawd yn yr unig lawysgrif—*moliant syr giorg mathe or radur esgwier*—yr oedd y gwrthrych wedi ei urddo yn farchog. Ymddengys fod ll. 12, *Gartr wyd o gwrtr y Radur*, yn ategu hynny, ond *Meistr Siors* ydyw'r gwrthrych yn ll. 5. Gw. ymhellach yr amwysedd ynghylch statws Siors yn 4.27n. Ymddengys mai rhagweld ei urddo a wna Rhisiart Fynglwyd yntau yn Rhisiart Fynglwyd, &c.: Gw cerdd XXXIV (er gwaethaf y teitl 'Cywydd moliant i Syr Siors Mathau o Radur'), gw. llau. 11–12, 63–4 *Mastr Sion, blaen Wesmes dros blaid / Mathau, ewythr Mathiaid ... Siwrneiwch dros aur newydd, / Syr neu fwy os siwrnai fydd*.

1–2 **llew pasant ... / ... llew rampant** Termiau herodrol yw'r rhain, y blaenaf yn disgrifio anifail 'yn cerdded (gan edrych i'r dde) a'r goes flaen dde wedi ei chodi' a'r ail, anifail 'yn sefyll ar ei draed ôl a'i draed blaen i fyny', gw. GPC 2697, 2974. Yr oedd llew rampant yn un o arwyddion herodrol y Matheuaid, gw. DWH ii, 371–3, a dichon mai ystyr drosiadol felly sydd i *llew pasant*, sef 'llew rhagorol'.

9 **mae'r gloch?** Defnyddir *cloch* yn gyson yng nghanu'r beirdd yn yr ystyr 'gwobr, camp', gw. GPC 502. Ond efallai y dylid cysylltu *cloch* â'r trosiad *gwalch* yn ail fraich y cwpled. Clymid rhwymyn lledr wrth goes yr hebog, a chlymid clychau wrth y rhwymyn hwnnw. Cyfeiria Tudur Aled, Ieuan Deulwyn ac Iorwerth Fynglwyd at yr arfer, gw. TA LV.31–2 *Gwalch a wisg ar eu gweilch hwy / Gloch,—Fernagl uwch Efyrrwy; ID XXIII.55–6 o chan y glych yn*

*yglog* / *bid rybydd bod yr hebog*; GIF 20.49–50 *Cyplai adar, cop lwydwych*: / *capel gwledd yw cwpl o glych* (daw'r ddau ddyfyniad olaf o gywyddau i ofyn gosawg). Gw. hefyd Gwilym Tew: Gw 10.9–10 *Gwisg gledd, dwyn gosog a'i glych*, / *Gwna feirw adar gan fredych*.

[y] **glyn** Gelwir Siors isod (ll. 54) yn *edn y glyn*, ac wrth farwnadu ei dad barnai Lewys mai *Llif Noe ynn yw'r glyn a glannoedd*—*Meisgyn*, gw. 4.63. Cwmwd Glynrhondda sydd nesaf at gwmwd Meisgyn i gyfeiriad y gorllewin, gw. WATU 313; tybed ai cyfeiriad at y diriogaeth honno sydd yma?

10 Y mae'n amlwg fod y gynghanedd yn wallus yn y ll. hon. Gellid rhyw lun ar gynghanedd lusk wydro ond ni ddisgwyliid y lusk yn ail fraich y cwpled.

12 y **Radur** Dyma'r unig enghraifft yng nghanu Lewys o'r fannod yn rhagflaenu'r e.p. ond cf. Dafydd Benwyn: Gw LXVI.39–40 *Karw Yradvr bvr, nyd bas, gŵr ydoedd / o Garadog Vraichffras*; sylwer hefyd ar y ffurf a roddir yn J 90 [= RWM 13] yn *ib.* ll. 77. Rhestrir y ffurfiau Aradur a Trefaradur yn WATU 184.

14 **egwyd** 'Y twddf neu'r chwydd ac arno dusw o flew sydd y tu ôl i goes ceffyl yn union uwchlaw'r cam', gw. GPC 1180. Diwygiwyd y ll. am ei bod yn rhy hir.

15 **hedeg** 'Teg neu braf iawn, tra phrydferth', gw. GPC 1951. Mentrwyd diwygio *hedeg* y llsgr.

**hwde y gwynt** Ar frig yr arfbais yr oedd aderyn a'i aden dde wedi agor fel pe bai ar godi a hedeg ymaith.

18 **llywyth o fron** Gellid diwygio a mabwysiadu'r darlleniad *llywyth o frain*; yr oedd Sioned, mam Siors Mathau, yn chwaer yng nghyfraith i Syr Rhys ap Tomas, gw. WG2 731.

19–20 **Henri ... / ... Gwilym** Sioned, merch Henri ap Gwilym ap Tomas Fychan, oedd mam Siors, gw. 4.20n.

27 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 72 a 74.

29 *r* berfeddgoll neu fai crych a llyfn.

31 **gwin o fŷr** Defnyddia'r beirdd y gair *fyr* 'ffynidwydden' wrth gyfeirio at waywffon, gw. GPC 1272; *pib* yw'r gair a gysylltir fel arfer â gwin, a digwydd ymadroddion megis *pibau gwin*, *pibau llongau* a *chweffib win* yng nghanu Lewys Môn, gw. GLM II.52, V.39, XIX.84. Tebycach mai ffurf dreigledig *mŷr*, un. *môr*, sydd yma, gw. GPC 2485, sef 'gwin wedi ei fewnforio'. Posibilrwydd arall yw ei fod yn fenthyciad o'r Ffr. *verre* 'gwydr'. Benthyciwyd yr olaf i'r S. cyn diwedd y 14g., gw. OED<sup>2</sup> xix, 553. Fe'i dehonglir yn ffurf ar *bir* 'cwrw' yn Lewys Morgannwg: Gw 798 a rhoddir i'r

yamadrodd yr ystyr ‘*wine from beer*’. Ni nodir y cyfuniad *beer wine* d.g. *beer* yn OED<sup>2</sup> ii, 59.

- 33 **Sain Barbra** Lluniwyd ei buchedd yn y 7g., yn yr Aifft o bosibl. Fe’i dienyddiwyd gan ei thad pan ddeallodd iddi dderbyn bedydd Cristion. Yr oedd ei chwlt yn boblogaidd yn y 15g. a’r 16g., a lluniau a cherfluniau ohoni yn gyffredin, gw. NCE ii, 86. Fe’i henwir yma am mai Barbra oedd enw gwraig Siors Mathau, gw. 5.38n.
- 35 Chwe sillaf yn y ll. fel y diogelwyd hi yn y llsg.
- 35–6 Dau osodiad cyfochrog: ‘Llwyth hon [yw] ieirll ac arglwyddi Lloegr’; ‘[cyfrwng] cynhaliaeth [yw hi] i’w holl genedl’.
- 37 **Dwynwen** Un o ferched Brychan Brycheiniog oedd Dwynwen, a daethpwyd i synio amdani yn nawddsant cariadon. Canodd Dafydd ap Gwilym a Syr Dafydd Trefor gywyddau iddi. Fe’i cysylltir â Llanddwyn ar Ynys Môn, ond yr oedd ei henw yn fyw ym Morgannwg hefyd fel y tystia Ogof Dwynwen a leolir ar yr arfordir rhwng Llanilltud a Sain Dunwyd, gw. LBS ii, 387–92; WCD 209–10.
- 38 **Barbra** Ail wraig Siors oedd Barbra. Merch John Brent o Cossington yng Ngwlad yr Haf ydoedd, ond llifai’r Gymraeg fel mêl dros ei gwefusau yn ôl tystiolaeth llau. 37–40.
- 39 **di-ŵyl** A. cyffredin yw *gŵyl* ‘llednais; mwyn, tirion; caredig’, gw. GPC 1760, wrth gyfeirio at wragedd y noddwyr. Rhoddir i *diwyl* yr ystyron ‘dewr; garw, creulon’ yn GPC 1063 ac ni wedda hynny yn y cyd-destun. Rhaid mai’r rhagddodiad *di-* cadarnhaol, gw. GPC 943 d.g. *di*<sup>-3</sup>, + *gŵyl*, sydd yma.
- 41 **gwreigedd** ‘Mursennaidd, merchedaidd, llwfr’, gw. GPC 1705, ac a. sy’n cyfleu beirniadaeth y bardd ar y gwŷr hunanbwysig hynny sy’n dewis cefnu ar y Gymraeg. Cadwyd y ffurf lafar am fod y ll. o ganlyniad yn cynnwys dwy gynghanedd, sef croes a sain, er nad yw addurn o’r math hwnnw yn gyffredin yng nghanu’r bardd. Barnai D.J. Bowen fod Gruffudd Hiraethog yn addurno’i gerddi yn fwiadol trwy lunio llau. a oedd yn cynnwys dwy gynghanedd, gw. GGH lx–lxii, ond ymddengys mai damweiniol yw’r llau. o’r fath yng nghanu Lewys Morgannwg. Rhyw bymtheg ohonynt a welwyd yn holl gywyddau’r bardd.
- 47 Camosodiad d.r = r.d.
- 49–50 Nid yw rhediad y cwpled yn gwbl eglur ond digwydd cwpled pur debyg mewn cywydd i aelod arall o’r teulu, gw. 6.25–6 *Dyn ni allai’u dwyn wellwell / Gan Dduw fyth gynneddfau well*.
- 50 **deuddyn well** Ar y treigladd, gw. 1.43n.



Diwygiwyd y ll. er gwella'r ystyr ac er osgoi'r bai crych a llyfn.

- 53 **gwaed daf** Gellid *gwaed Taf*, ond er bod y bardd yn enwi afonydd Wysg a Gwy ar sawl achlysur, nid enwir Afon Taf o gwbl yn y canu a ddiogelwyd. Digwydd un cyfeiriad diamwys at Afon Taf yng ngwaith y Gogynfeirdd, gw. GBF 50.33n.
- 55 Cyfatebiaeth  $d = t$ , ond efallai i'r bardd fanteisio ar yr ynganiad llafar *atar*.
- 59 **ffoist** Rhaid wrth ffurf unsill er mwyn sicrhau'r hyd rheolaidd.
- 61 Twyll gynghanedd *g*.
- 67 **Syr Trystan** Arno, gw. TYP<sup>2</sup> 329–33; WCD 619–21. Fe'i henwir fynychaf yng nghyd-destun ei garwriaeth ag Esyllt, gwraig ei ewythr, March, gw. GDG<sup>3</sup> 33.8; GO VII.4; TA X.95–6, er mai drylliau o dystiolaeth am y garwriaeth honno a ddiogelwyd. Cyflew dewrder a milwriaeth Siors Mathau yw diben y cyfeiriad hwn.
- 72 Ceir *n* wreiddgoll yn y ll. hon fel y nodwyd uchod. Y tro hwn y mae'r ll. sy'n cynnwys y goddefiad yn un draws, yn wahanol i bob ll. y sylwyd arnynt hyd yma. Awgrymir yn J. Morris-Jones: CD 156–7 fod Simwnt Fychan yn anghymeradwyo'r goddefiad mewn cynghanedd draws, ond digwydd sawl enghraifft o *n* wreiddgoll ac ambell enghraifft o *r* wreiddgoll mewn cynganeddion traws yng nghanu Lewys Morgannwg ac nid ymddengys eu bod yn anghymeradwy yn ei olwg, gw. 32.21 *Ni ffiodd dan braff heulwen*, 47.19 *Ni ddêl yt, Arglwydd Wiliam*, 35.25 *Arglwyddes plas a gladden*, 56.32 *O'r ystaer a ddringaist ti*.
- 77 **dra gerddych** Digwydd yr un cyfuniad yn 1.97n.

## 6

Cywydd moliant i Wiliam Mathau, mab ac etifedd Syr Siors Mathau, gwrthrych cerdd 5. Fe'i ganed yn 1531 a bu farw yn 1587. Y mae'n amlwg mai gŵr ifanc a gyferchir ac a gynghorir—*ysgwier ifanc* (ll. 2)—a thystia llau. 13–14 fod ei rieni yn dal yn fyw. Canwyd y cywydd cyn tua 1550, sef yr adeg y bernir yn LPMG 11 i Wiliam briodi â Marged, merch Siors Herbert o Abertawe, gan nad oes sôn am wraig yn y gerdd.

Codwyd y 43 cywydd cyntaf yng nghasgliad Dr John Davies, Mallwyd, o waith Dafydd ap Gwilym, sef Pen 49, *o lyfr Mr Wm Mathew o Landâf*, gw. GDG cxii. Cynigiodd Eirian E. Edwards, 'Cartrefi noddwyr y beirdd yn siroedd Morgannwg a Mynwy', LICy xiii (1974–81), 196, mai gwrthrych y cywydd hwn oedd y Wiliam Mathau hwnnw. Fodd bynnag nid oes un awgrym o'i ddiddordebau diwylliannol yn y farwnad a ganodd Dafydd Benwyn iddo, gw. Dafydd Benwyn: Gw cerdd LXVI.

Er mai llawysgrif o ganol y ddeunawfed ganrif yw Card 4.10 [= RWM 84], ac er bod ynddi ambell ddarlleniad rhyfedd, ynddi y ceir y testun gorau sy'n amlwg yn tarddu o gynsail wahanol i eiddo'r tair ffynhonnell arall.

- 1 **barawd** Ffurf dreigledig yr a. *parod*, neu, a hyn sydd debycaf, *bar*<sup>1</sup> 'polyn, ffon' + *-awd*<sup>3</sup> 'yn dynodi ergyd neu drawiad ag erfyn', gw. GPC 238.
- 3–4 Dilynwyd llsgrau. BCD sy'n cynnig yr odl *haelwych* / *gwych*, ffurfiau sy'n rhagori ar *haelwyn* / *gwyn* llsgr. A. Ond efallai mai ymgais i gyfleu *heilwin* yw *haelwyn*, a. sy'n digwydd yn 5.45, 38.41, 40.59. Os felly, dylid diwygio ail fraich y cwpled > *Mathau, a'r gamp, maethwr* [neu, o bosibl *mathrwr*] *gwin*.
- 5 **aros torch** Yr arfer yw treiglo yn dilyn ffurfiau 2 un.grch. y f., gw. Treigladau 204, a dyna arfer y bardd, ond ceir enghreifftiau eraill o'r gysefin yn dilyn y ffurf orch. *aros*, gw. 26.15 *aros dydd*. Yn y fan honno, fel yn y ll. hon, y mae'r gynghanedd yn dangos mai'r gysefin sydd ei hangen. Am enghreifftiau eraill o galedu ar ôl gair sy'n diweddu yn *-s*, gw. 11.37n, 14.17–18n. Y mae'n wir y gellid diwygio > *aros dorch* yn y ll. dan sylw. Ceid bai caled a meddal d = t o ganlyniad, ond ymddengys fod Lewys yn goddef y gyfatebiaeth *-s d- = -s t-*.
- 9 Nid yw'r gystrawen yn taro deuddeg. Mwy ystyrllon fyddai *Megis Wiliam yw Galath*, ond rhoddai'r diwygiad l. ac ynddi dwyll gynghanedd *s*.
- 12 **mab rywiogach** Ar y treiglad, gw. 1.43n.  
*n wreiddgoll*, ac isod yn llau. 18, 19 a 41.
- 15 **Barbra** Hi oedd ail wraig Siors Mathau, a mam gwrthrych y cywydd hwn. Cafodd Siors a'i wraig gyntaf, Marged, merch Syr Wiliam Herbert, Colbrwg, bump o ferched.
- 21 Diwygiwyd darlleniad y llsgrau. gan fod y rh.m. 3 un. (*a'i lys*) yn rhoi gwell ystyr na'r rh.m. 3 ll. (*a'u llys*).
- 22 **Troelus** Mab Priaf a Hercuba, a brawd Hector a enwir yn y cwpled sy'n dilyn, gw. OCD<sup>3</sup> 1556. Deunydd gwreiddiol yn perthyn i'r Oesoedd Canol yw'r chwedl 'Troilus and Cressida', a dyma gynsail y gerdd Gymraeg a olygwyd gan W. Beynon Davies, gw. *Troelus a Chresyd* (Caerdydd, 1976), 17–20.
- 23 Camosodiad t.r = r.t.
- 25 Achosodd y ll. beth dryswch i'r copïwyr fel y dengys yr Amryw-iadau. Dewiswyd dilyn Bodewryd 1 (*y ddyn ni allai ddwyn wellwell* a ysgrifennodd Wmffre Dafis yn y lle cyntaf). Treiglo'r gwrthrych yw'r arfer pan fo'n dilyn un o ffurfiau 3 un.amhff.myn. y f., gw.

Treigladau 214, ond o gyflenwi'r rh. (a chymryd ei fod yn achub y blaen ar yr e. a gynrychiola, sef *cyneddfau well* yn ail fraich y cwpled), gellid cadw ffurf gysefin y be. a bodloni'r ystyr.

- 26 **cyneddfau well** Ar y treiglad, gw. 1.43n.
- 28 **Absalon** Ceir yma *m* wreiddgoll ond diflannai ped adferid darlleniad y llsgrau., sef *Mabsalon*. Am enghraifft o'r ffurf honno, gw. NBSB 16.76 *Wiliam oedd un dâl â mab Salon*. Daw'r ll. o'r awdl farwnad a ganodd Huw Llŷn i Wiliam Ffyllib, Pictwn. Yr oedd harddwch Absalon yn ddiahebol, gw. TYP<sup>2</sup> 263. Rhaid gwrthod *Salmon* llsgr. A. Rhestrir rhinweddau Wiliam yn y rhan hon o'r cywydd, a chyfeiriwyd at ei ddoethineb yn y ll. flaenorol. Diwygiwyd *pwys* y llsgrau. > *pas* er mwyn gwella'r ystyr ac arfer gair a ddefnyddiwyd ar sawl achlysur arall gan y bardd, gw. yr Eirfa.
- 35–6 Gwelir yr un cwpled mewn cywydd arall a ganodd y bardd, gw. 53.61–2.
- 39 Sylwer mai gair acennog sydd yn safle'r brifodl yn y pedair llsgr.
- 45 **anoeth** Gall fod yn e. 'rhyfeddod' neu yn a. 'rhyfedd', gw. GPC 149, ond efallai mai 'arbenigrwydd, hynodrwydd' sy'n cyfleu naws y gair yn y cyd-destun hwn.
- 50 **can** Gallai fod yn ardd. ond gallai fod yn a. 'disglair, gloyw' neu yn e. 'bara gwyn, blawd', gw. GPC 407.
- 52 **cynnydd well** Ar y treiglad, gw. 1.43n.
- 54 **dawn** Rhoddir iddo'r ystyr 'cynhysgaeth naturiol megis huodledd' yn GPC 906. Tybed a ellid estyn yr ystyr honno i gyfleu 'moliant, clod dibrin' yn y cyd-destun hwn?

## 7

Yr oedd gan Wiliam Mathau, gwrthrych cerdd 6, chwaer o'r enw Marged, a phriododd hi â Wiliam Bawdrem ap Tomas ap Syr Wiliam ap Syr Tomas ap Wiliam ap Tomas ap Wiliam ap Tomas, gw. WG2 61; LPMG 363. Bernir yn Lewys Morgannwg: Gw 801–3 mai cywydd iddi hi yw hwn. Tebycach, fodd bynnag, mai'r Marged a oedd yn briod â Syr Wiliam Bawdrem ap Syr Tomas a farwnedir. Ail wraig Syr Wiliam oedd hi; Siân Gamais oedd ei wraig gyntaf a mam ei blant. Merch ac aeres Syr Mathau Cradog oedd Marged ac enwir ei thad yn ll. 9 *mawr yn farchawg* a llau. 12 a 48 *Syr Mathias*. Ar linach ei thad y gosodir y pwyslais yn y farwnad (gw. y cyfeiriadau achyddol isod) yn hytrach nag ar linach ei gŵr. Ymddengys i'w gŵr farw tua 1525, gw. W.R.B. Robinson, 'The marriages of knighted Welsh landowners, 1485–1558', *Cylch LIGC* xxv (1987–8), 387–98 (td.

393). Yr oedd wedi marw erbyn 1535 pan fu farw ei fab a'i etifedd, Tomas Bawdrem, gw. KWL 292, a chyn 1530 pan drosglwyddodd *Margaret Bawdrypp* ac Alecsander Sloge (neu Slugge) diroedd yn Sain Tathan i Grystor Fflemin, gw. CMG v, dogfen mcccxxxviii. Canodd Iorwerth Fynglwyd awdl foliant i Syr Wiliam Bawdrem. Crybwyllir haelioni ei wraig a'i hyswïaeth mewn dau bennill, ond nid enwir hi, gw. GIF cerdd 28.

Wiliam Bawdrem oedd trydydd gŵr Marged. Ni wyddys a oedd iddi hi a'i gŵr cyntaf, Siôn Malffant, blant am na welir y genhedlaeth nesaf yn WG2 1256. Ei hail ŵr oedd Syr Rhisiart Herbert, Ewias, un o feibion anghyfreithlon Wiliam Herbert, Iarll Penfro. Eu meibion hwy oedd Siors Herbert, Abertawe, a Wiliam Herbert, Iarll Penfro o'r ail greadigaeth, ac enwir hwy yn y farwnad. Gw. ymhellach gerddi 20 a 26. Prawf y cywydd fod y naill a'r llall wedi ei urddo pan fu farw eu mam.

- 4 **y ferch lwyddawg** Nid amhriodol yr a. *llwyddog* 'ffyniannus', gw. GPC 2243, ond gan fod *gwraig lwyddog* yn digwydd ar achlysur arall, gw. 43.74n, y mae'n bosibl i'r ymadrodd dieithr gael ei gamddeall yn y cywydd hwn.
- 8 Y mae'r gynghanedd yn gywir, ond disgwylid i'r e. *gwa*e dreiglo o'i ragflaenu gan yr a. *mawr*, cf. 7.1 *mawr gŵyn*, 7.7 *mawr wylo*. Ceid twyll gynghanedd g o ddiwygio > *mawr wae* ... Dichon fod y fannod yn ddealliedig. Posibilrwydd arall fyddai diwygio > *mae'r gwa*e ... neu hyd yn oed *mau'r gwa*e....
- 9 **mawr** Swyddogaeth enwol sydd i'r gair, megis yn 18.7: 'Marw un ferch pennaeth [sydd] yn farchog'.
- 10 **hen Marsia** Disgwylid treigladd i'r e. sy'n dilyn yr a. *hen*. Tybed ai *Marw oes a rhan Marsia 'rhawg* oedd y ffurf wreiddiol? Ar *Marsia*, gw. 88.4n. Ond efallai fod yr e.p. yn gwrthsefyll treigladd am ei fod yn digwydd ar ôl toriad yr orffwysfa; am enghraifft arall, gw. 13.25n.
- 11–12 **sir ... / Sir** Gan fod Marged yn cael ei chyffelybu i *seren* yn ll. 11, gwrthodwyd *sŷr* y llsg., sef ffurf l. *seren*, gw. GPC 3226, a deallir *sir* 'rhaniad daearyddol' yn y ll. gyntaf a *sir* 'llawenydd' yn yr ail.
- 13 **Esyllt** Merch a ystyridd gan y beirdd yn safon prydferthwch. Ymddengys fod nifer o chwedlau yn gysylltiedig â hi gynt, gw. TYP<sup>2</sup> 349–50.
- 14 **Hortwn** Priododd Rhisiart ap Gwilym, tad Syr Mathau Cradog, â Sioned, merch Siancyn Horton, gw. WG1 313; WG2 995.
- 16 **Mawnsel** Gwraig gyntaf Syr Mathau oedd Siân, merch Ffyllib Mawnsel a Mari, merch Gruffudd ap Nicolas ap Ffyllib, gw. WG1 330; WG2 1257. Yr oedd Mari yn fodryb i Syr Rhys ap Tomas, prif gynorthwywr Harri VII yng Nghymru.

- 17 **olau** Weithiau gwelir yn y canu dreiglo goddrych y f. *aeth*, gw. 4.37n. Gellid yma, felly, naill ai ffurf dreigledig *golau* sy'n ategu'r trosiadau eraill yn y cywydd neu'r ffurf gysefin *olau*, un. *ôl* 'llwybr' ac yn ffigurol 'cerdded, ymlwybro'.
- 20 **Casandra** Merch Priaf a Hercuba oedd Casandra neu Alexandra, gw. OCD<sup>3</sup> 298. Hi oedd y brydferthaf o'u merched. Mewn traddodiadau diweddarach sonnid am ei dawn i broffwydo.
- 23 **Enid** Yr oedd Enid yn un o dair rhiain ardderchog llys Arthur, gw. TYP<sup>2</sup> 215, 347–8.
- Urien** Urien Rheged, y pennaeth o'r Hen Ogledd a noddwr y bardd Taliesin, gw. CLC<sup>2</sup> 744; WCD 632–5. Ystyriai hynafiaid Syr Rhys ap Tomas eu bod yn disgyn o Urien Rheged, gw. 7.16n, 65.14n.
- 24 **elôs** 'Caeëdig, caeth', gw. GPC 508. Ceir trawiad tebyg yn 34.18 *Mewn clos, swm Nicolas hen*.
- 25 Cynghanedd groes o hanner cyswllt, ond anfynych y manteisia'r bardd ar y cyfuniad *-nt* yn safle'r orffwysfa i lunio llau. fel hon, gthg. 40.13 *Tomas gynt ymysg antur*, 51.66 *Talgarth ânt i Loegr i'th ôl*, 87.11 *Tri enw â phrint o'r un ffrâm*. Afreolaidd yw'r gyfatebiaeth gytseinol yn y ll., a rhaid derbyn bod yma enghraifft o beidio â chaledu (-d h- = d).
- 27–8 **Aml yw'r du ... / ... gynau** Niferus yw'r cyfeiriadau at wisgo dillad duon yn y cerddi marwnad, a cf. yr hyn a adawodd Syr Siôn ap Rhys, gwrthrych cerddi 54–6, i'w wasanaethyddion yn ei ewylllys: *Item I geue and bequeathe to everie man servante in my house xx<sup>s</sup> and a blacke cote. And to everie woman servante a blacke gown and twentie shillinges*, gw. F.C. Morgan, 'The will of Sir John Prise of Hereford, 1555', *Cylchg LIGC ix* (1955–6), 255–61 (td. 256).
- 29 *n wreiddgoll*.
- 31–2 **I dre'i thad ... / ... ar fôr a thir** Ailadroddir y manylyn hwn yn y farwnad a ganodd Rhisiart Fynglwyd ar yr un achlysur, gw. Rhisiart Fynglwyd, &c.: Gw XXVI.35–8 *O Dduw, blin oedd ddoe, ba les / Ddaear gladdu arglwyddes / A'i hwylo y [sic] ddeheuwlad, / Eilwaith wŷr, i wely i [sic] thad*. Ymddengys fod corff Marged wedi ei gludo dros y dŵr ac fe'i claddwyd fel ei thad (m. 1531), yn Abertawe, gw. ByCy 78–9.
- 31 **wrth ddeheudir** Byddai sangiad ar ffurf ymadrodd genidol yn fwy pwrpasol nag ardd. ac e. Gellid *arth ddeheudir*.
- 32 **aeth** Awgryma'r f. mai yng nghartref y Bawdremiaid ym Mhenmarc y datganwyd y cywydd yn hytrach nag ym man y claddu.
- 34 **Sioseff** Fe'i cafodd Joseph ei hun yn gaethwas yn yr Aifft wedi i'w frodyr ei werthu ond maes o law fe'i cymodwyd â hwy a daethant

hwy ynghyd â'u tad, Jacob, at Joseph i'r Aifft. Pan wybu Jacob fod ei ddyddiau yn dirwyn i ben, esboniodd na fynnai gael ei gladdu yn yr Aifft a gofynnodd i Joseph ei gladdu yng ngwlad Canaan, gw. Gen 37–50. Yn yr un modd dycpwyd corff Marged *adref* (ll. 43) i'w gladdu.

- 35 **merch Goel** Gall mai disgrifiad trosiadol syml o Farged yw *merch Goel*, sef yr Elen y dywedir iddi ddarganfod y Wir Grog, gw. 3.34n, ond bu i hithau adael ei chynefin, a cf. y cwpled a ganlyn o gywydd moliant Gwilym Tew i Syr Siôn ap Morgan (codwyd y cwpled o LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 226): *Elen au mab drwy lanw mor / a noevynt val nai jvor*.
- 36 **mam Beli Mawr** Dywed Sieffre i Feli deyrnasu ar Ynys Brydain am ddeugain mlynedd, ac fe'i crybwyllir yn ail gainc y Mabinogi, yn chwedlau 'Lludd a Llefelys' a 'Breuddwyd Macsen'. Y mae lle i gredu bod olion ei enw ef ar un o'r enwau ar Ynys Brydain, sef y Fêl Ynys, gw. TYP<sup>2</sup> 231; WCD 38–9; BD 44. Mab Manogan oedd Beli, ond ni ddiogelwyd cof am enw ei fam. Yn ôl un traddodiad, fodd bynnag, yr oedd mam Beli yn gyfnither i'r Forwyn Fair, gw. TYP<sup>2</sup> 281–2, ac efallai y gwyddai Lewys Morgannwg am hynny.
- 37 **du gri** Ystyrion yw *du gri* 'llef drist, chwerw', gw. GPC 1097, ond gellid *du grae* hefyd, sef '[dillad] tywyll o liw llwydaidd'. Rhestrir y ffurfiau *grae*, *gra*, *grai* yn GPC 1521.
- 39–42 **chwaer Baredur / ... i dŷ'r Greal** Credid mai'r Greal ydoedd 'y ddysgl yr honnid i Grist ei defnyddio yn y Swper Olaf; dywedir hefyd i Joseph o Arimathea dderbyn i'r un llestr ddafnau o waed Crist oddi ar y Groes', gw. GPC 1528. Yn rhan olaf 'Chwedl y Greal', disgrifir Galath, Bwrdd a Pheredur yn cyrraedd dinas Sarra ac yn cludo'r Greal i'r Capel Ysbrydol. Yna cludasant gorff chwaer Peredur o'r cwch a'u cludodd yno a'i chladdu yn y Capel gerbron yr allor, gw. YSG 159–60. Gwêl y bardd debygrwydd rhwng claddedigaeth Marged Bawdrem a chladdedigaeth chwaer Peredur yn y chwedl.
- 44 **atweddi** Rhannwyd y ddwy elfen yn y llsg. ac ni chofnodir y gair *atweddi* yn GPC 233, ond digwydd y gair *atgwyn* yn y canu, gw. 36.10n, a gweddai'r ystyr 'gweddïau niferus' yn y cyd-destun.
- hyd Dydd Brawd** Cyffredin yw'r ymadrodd hwn lle y caledir *dd > d* yn dilyn *hyd*, gw. Treigladau 394 a J. Morris-Jones: CD 231.
- 46 **Sibli Ddoeth** Fe'i henwir yn y triawd *Tri dyn a gauas Doethineb Adaf*, gw. TYP<sup>2</sup> 128, 508. Yn ôl y testun 'Proffwydolyaeth Sibli Doeth' a ddiogelwyd yn y Llyfr Gwyn a'r Llyfr Coch, yr oedd Sibli yn ferch i Briaf, gw. 1.73n.

- 47 Twyll gynghanedd *d*.
- 50 **Bersabî** Dinas Tell es-Seba a saif rhwng y Môr Marw a Môr y Canoldir, ac a gynrychiolai gwr deheuol Palestina yn y Beibl, gw. NCE ii, 356. Ond ymddengys fod cymysgu wedi digwydd yn gynnar rhwng y ddinas Bersabî a Bathseba, gwraig Urias. Chwenychodd y brenin Dafydd Fathseba a chynllwyniodd farwolaeth Urias pan ddeallodd fod Bathseba yn disgwyl ei blentyn ef. Bu farw'r plentyn hwnnw ond ganed ail blentyn i Ddafydd a Bathseba, sef Solomon, gw. 2 Sam 11–12. Am enghreifftiau eraill o'r ffurf Bersabî yng ngherddi'r beirdd, gw. GO LVIII.2n; TA XX.78. Y mae'r gynghanedd yn cadarnhau'r ffurf yn y cywydd hwn ac yng nghywydd Tudur Aled. Digwydd yr un ffurf yn 'Ystoria Gwlad Ieuan Fendigaid', gw. YGIV 10.
- 55 **Tonwen** Meibion Dyfnwal oedd Brân a Beli, a'r naill *gyn dewret ac yn gyn deccet ac yn gyn haelet â'r llall*, gw. BD 33, ond cododd cynnen rhyngddynt oherwydd y modd y rhannwyd teyrnas eu tad. Disgrifir ymgais Tonwen, eu mam, i'w cymodi yn BD 36.
- 58 **Bwlen** Enwir Wiliam Herbert a Syr Siors Herbert ymhlith y boneddigion o Forgannwg a gymerodd ran yng nghyrc h milwrol 1544, gw. LPFD xix/i, cofnod 273.
- 59 **dau ... farchogion** Cf. *dau ... gedyrn* yn ll. 66 ond gthg. *dau fab* yn ll. 68. Ar y ll. yn dilyn y rhif., gw. GMW 47, ac am enghreifftiau eraill yn y canu, gw. ymhellach 23.56n, 31.71.
- 62 **Syr Siors** Gw. y nodyn brig a cherdd 20. Iddo ef y rhoddir y flaenoriaeth yn y cywydd am mai ef oedd yr hynaf ond ei frawd iau, Wiliam, a ddaeth i amlygrwydd.
- 64 **Syr Wiliam** Gw. y nodyn brig a cherdd 26. Enwir y ddau frawd ym marwnad Rhisiart Fynglwyd drachefn, gw. Rhisiart Fynglwyd, &c.: Gw XXVI.67–72 *Oes wydr ry mwys i edrych? / Oes, dau wŷr iarll, ystôr wych. / Syr Siors, Brutus siars Brytaen, / Syr Wiliam yw Siarl-y-maen. / Dau o waed mawr, dad a mam, / Dialwyr Duw a Wiliam.*
- Siarlmaen** Siarl Fawr (742–814), Brenin y Ffranciaid, gw. NCE iii, 497–500. Erbyn ei goroni yn y flwyddyn 800 gan y pab Leo III yn Ymherodr y Gorllewin, yr oedd y rhan fwyaf o diroedd canolbarth Ewrob o dan ei awdurdod. Ei ymgais i oresgyn tiroedd y Sarasiniaid yn Sbaen oedd cefndir y gân epig o'r llg., 'Chanson de Roland', sy'n adrodd am y modd yr ymosodwyd ar ei nai, Rolant, yn nyffryn Roncevalles. Diogelwyd cyfieithiad rhyddiaith o'r gân honno yn y Llyfr Gwyn, gw. YCM<sup>2</sup>. Un arwydd o bwysigrwydd Siarlymaen oedd iddo gael ei gynnwys ymhlith y Nawyr Teilwng, gw. 1.47n.

- 66 **dau Herbart** Nid meibion Wiliam Bawdrem oedd Siors a Wiliam, gw. y nodyn brig, ond meibion Marged a'i hail ŵr, Rhisiart Herbert ap Wiliam Herbert, Iarll Penfro, a disgynyddion Godwin (ll. 63).
- 69 **Harri** Harri'r Wythfed. Canwyd y farwnad ar ôl urddo'r meibion yn farchogion yn 1543 a chyn marw'r brenin ar 28 Ionawr 1547.

## 8

Cywydd moliant Syr Tomas Gamais o'r Coety, mab Morgan ap Siôn ap Tomas ap Wiliam ap Gilbert ap Wiliam, gw. WG2 746–7; LPMG 388–90; ByCyAt 91–2. Yn Rogiad yng Ngwent yr ymsefydlodd y teulu i ddechrau, a hynny tua chanol y drydedd ganrif ar ddeg, ond daeth castell ac arglwyddiaeth y Coety yng nghyffiniau Pen-y-bont ar Ogwr i'w meddiant yn gynnar yn y bymthegfed ganrif (ond *kowydd ssyr tomas gamais o lan daf* yw hwn yn ôl pennawd yr unig lawysgrif). Am beth o hanes y castell a adeiladwyd, y mae'n debyg, gan Bayne Twrbil, gw. *Castles in Wales*, ed. Roger Thomas (Ipswich, 1982), 80–1. Urddwyd Tomas Gamais yn farchog yn Nhwrnai yn Ffrainc 13 Hydref 1513, gw. KE ii, 41; KWL 292, a dygir y digwyddiad hwnnw i gof yng nghwpledi agoriadol y cywydd. Marwnadodd Rhisiart ap Rhys Forgan Gamais a chyfarchodd ei fab, Tomas, mewn dau gywydd moliant, gw. GRB cerddi 24–6. Canodd Lewys Morgannwg, yntau, i fwy nag un aelod o'r teulu; dymunodd wellhad i Farged, gwraig Tomas Gamais (cerdd 9), a marwnadodd Siôn, y mab a fu farw cyn ei rieni (cerdd 10). Bu farw Syr Tomas Gamais 16 Mehefin 1543.

Collwyd rhannau o'r testun yn yr unig gopi, sef llau. 9–10 a 50–53. Er bod dechrau llawer o'r llinellau wedi treulio yn llwyr erbyn hyn, llwyddodd E.J. Saunders i'w copïo, a dilynais ei ddarlleniadau ef. Nodais yr hyn a ychwanegais innau mewn llythrennau eidalaid.

- 2 **Twrnai** Hwylodd Harri VIII, a byddin o ryw bum mil ar hugain i'w ganlyn, i Ffrainc ym mis Mehefin 1513. Trafodir cefndir y cyrch yn R.B. Wernham, *Before the Armada* (London, 1966), pennod 6. Gw. hefyd E.I. Rowlands, 'Terwyn a Thwrnai', *Cylchg LIGC ix* (1955–6), 295–300.

**print** Rhestrir y ffurf *preint* sy'n digwydd yn y llsg. yn amrywiad ar *print* yn GPC 2892–3.

- 3 **gemoedd** Ni nodir y ffurf l. hon ar *gem* yn GPC 1391. Ond efallai mai ffurf ar *hem*, *em* 'ymyl (dilledyn)' sydd yma er mai *hemiau* yw'r unig ffurf l. a gofnodir yn GPC 1847.
- 6 *r wreiddgoll*.
- 9 Nid yw'r ddwy g yn caledu. Am enghreifftiau tebyg mewn llau. sy'n cynnwys cynghanedd sain, gw. 16.27, 32.37, 87.33. Sylwer



hefyd ar y gynghanedd lusk yn 105.5.

- 13 **y Cân** Digwydd un cyfeiriad at y Cân yn un o gywyddau Lewys Môn, gw. GLM LXXXVII.74, a chyfeiria Iorwerth Fynglwyd, yntau, at y Cân Mawr, gw. GIF 16.47, sef Genghis Kahn (c. 1167–1227) a ddaeth yn frenin Mongolia ac yn rheolwr ar diroedd a estynnai o China hyd at Rwsia, gw. MEnc; GDEp 22.37n. Disgrifir llys a gwleddoedd *Yr Ymherodr Kan de Cattai yn Ffordd y Brawd Odrig*, gol. Stephen J. Williams (Caerdydd, 1929), 50–3.
- 14 **cytai** Diau mai'r ystyr orau yw 'adeilad ac iddo fwy nag un rhan' er na nodir yr union ystyr honno yn GPC 825 d.g. *cyty*.
- 16 **Syr Gilbert Dennis** Priododd Tomas ap Wiliam ei ferch, Sioned.
- 18 **tri phen iarll** Disgynyddion Moreiddig oedd y Fychaniaid, gw. 8.20n, a gwelid tri phen dyn / plentyn ar ei arfbais ef, gw. DWH ii, 161.
- Ffuen** Anodd esbonio'r gair hwn. Tybed ai ffurf ar Fitz Payne ydyw? Yr oedd yn gwasanaethu Edward II yn 1313 a Wiliam Gamais yn un o'i osgordd, gw. LPMG 389.
- 19 **Rhos** Deellir hwn yn e.p. sy'n cynrychioli Harri VIII: 'Rhoddodd y brenin [addurn] o aur a sêr dros [dy] war'. Ond gellid e.c. 'Aeth / rhoddwyd rhosyn aur a sêr dros dy war.' Yr arfer yn y 14g. a'r 15g. oedd rhoi torch neu goler am wddf marchog. Addurnid y goler a ddynodai ymlyniad wrth blaid Iorc â chyfres o heuliau a rhosynnod gwynion am yn ail ond rhesi o ddyfeisiau ar ffurf y llythyren *S* a wisgai'r sawl a urddwyd gan y brenhinoedd Lancastriaidd, gw. *Boutell's Heraldry*, revised by J.P. Brooke-Little (London, 1983), 192. A oes yma awgrym fod rhosynnod y Tuduriaid ar y goler a roddwyd i Syr Tomas Gamais?
- 20 **Syr Rhoesier** Gwraig Morgan ap Siôn oedd Marged, merch Syr Rhoesier Fychan, Tretŵr. Priododd tad yr olaf, Syr Rhoesier Fychan, a ddisgynnai o Foreiddig Warwyn, â Gwladus, merch Dafydd Gam, a bu ef farw, fel ei dad yng nghyfraith, ar faes y gad yn Agincourt, yn 1415. Ar y Fychaniaid, gw. ByCy 932–3; WG1 242–3; hefyd Rees Davies, 'Brecon, Owain Glyn Dŵr and Dafydd Gam', *Brycheiniog*, xxxii (2000), 51–60. Wedi marw ei gŵr cyntaf, priododd Gwladus â Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas o Went, a mab Tomas ap Gwilym ap Siancyn ... Godwin, gw. WG1 425. Meibion o'r ail briodas oedd Wiliam Herbert, Iarll Penfro, a Syr Rhisiart Herbert, Colbrwg. Priododd nifer o'r Herbertiaid a'r Fychaniaid ag aelodau o deuluoedd Morgannwg, a thra mynych o'r herwydd yw'r cyfeiriadau yn y canu at Ddafydd Gam, Gwladus Gam, Syr Wiliam Tomas a Wiliam Herbert, Iarll Penfro. A chan fod *Cam* a *Wiliam* yn odli gwelir enwi Dafydd Gam a Syr Wiliam

[Tomas] ran fynychaf yn yr un cwpled. Barnai D.J. Bowen mai dylanwad Gwladus, y wraig gyntaf o Gymraes ers pedair cenhedlaeth ar yr aelwyd ym Mrodorddyn, a oedd yn cyfrif am y nawdd a'r croeso a roddwyd i'r beirdd ganddi hi a'i gŵr, a chan eu meibion a'u disgynyddion hwythau, gw. 'Gwladus Gam a'r beirdd', YB xxiv (1998), 60–93.

- 24 **Brynaich** Teyrnas Bernicia yng ngogledd Lloegr, rhwng afonydd Tees a Forth, gw. GIG I.30n. Fe'i defnyddir yn fynych (a Deifr hefyd, gw. GDG<sup>3</sup> 436–7 (5.42n)) gan y beirdd wrth gyfeirio at y Saeson yn gyffredinol, a hynny ran fynychaf mewn cyd-destun gelyniaethus. Ystyr *Lloegr a Brynaich* yma yw 'trigolion Lloegr ynghyd â Saeson y Gogledd'. Nid ymddengys fod Lewys yn cyfeirio yma at drigolion yr Alban, er bod cryn wrthdaro rhwng Lloegr a'r Alban yn ystod teyrnasiad Harri VIII, gw. 3.9n.
- 25 **Paen** Fe'i henwir mewn cerddi eraill i Domas Gamais, gw. GRB 25.6; GIF 19.25. Ceid gŵr o'r enw Pagan de Gamages ymhlith hynafiaid y teulu, ond derbynnir awgrym E.I. Rowlands yn GIF 111 mai Payn Twrbil sydd dan sylw. Priododd Wiliam Gamais, gw. y nodyn brig, hefyd 8.18n, â'i ferch.
- 27 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 36 a 47.
- 28 **marchog well** Ar y treigladd, gw. 1.43n.
- 42 **rowm** Benthyciad o'r S. *room*, gw. GPC 2991 d.g. *rŵm* lle y dyfynnir y cwpled hwn.
- 43–4 Cf. y cwpled *Ystod hir fu i stad Harri: / dyblu stad mae dy blas di* yn GIF 20.17–18 (Cywydd i ofyn gosawg gan Syr Siôn Wgon dros Domas Gamais).
- 46 **ar feddwl** Rhestrir *arfeddwl* yn GPC 193, ond fel bf. y'i defnyddir yn yr unig enghraifft a ddyfynnir, a pherthyn honno i ganol y 18g. Er mai *ar feddwl* yw darlleniad yr unig lsg., ac er bod y darlleniad yn gwbl ystyrion, tybed a allai fod yma e. cyfansawdd *ar + meddwl* 'amcan, bwriad'?
- 48 **cwncwerwr** Defnyddia'r bardd y gair hwn wrth gyfeirio at y concwerwyr Normanaidd a feddiannodd Forgannwg. Nid oedd cyndad y teulu ymhlith y deuddeg marchog a restrodd Rhys Meurig, gw. MArch 26–7, ond fe'i henwir mewn rhestr wahanol, *Llyma rai o gonkwerwyr morganwg*, gw. L.Dwnn: HV i, 20.
- 53 Y darlleniad a gynigir yn Lewys Morgannwg: Gw yw *ior gadarn ...*
- 57 **ffordd y daw y dydd** 'Tua'r dwyrain [lle cwyd yr haul]'.  
62 -d d- yn ateb d, ac felly hefyd yn ll. 68.  
*f*led lafarog.

68 **diwedda'** Gallai fod yn amrywiad ar *diwetha'*, gw. GPC 1059, neu yn ffurf 2 un.grch. *diweddu* 'gorffen, terfynu', gw. GPC 1056, oblegid cyffredin yw cloi cywydd moliant â deisyfiad neu anogaeth. Mentrir awgrymu mai ffurf gymharol eithaf *di-wedd* 'diddiwedd, difesur' sydd yma, gw. GPC 1056, er mai i ddechrau'r 18g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a ddyfynnir.

**Dydd Farn** Hepgor neu lithro dros y fannod sy'n cyfrif am y ffurf *Dydd Farn*, gw. Treigladau 466, ond cf. y defnydd a wna'r bardd o'r ddau ymadrodd *Dydd Brawd* a *Dydd Barn*, gw. yr Eirfa.

## 9

Joyce, merch Richard Croft, oedd ail wraig Syr Tomas Gamais o'r Coety, ond ei wraig gyntaf a gyferchir yn y cywydd hwn. Marged, merch Syr Siôn Sainsion ap Siôn ab Olifer ap Siôn o Gastell Pen-marc, oedd hi, gw. WG2 1567, ac yr oedd ei chwaer, Catrin, yn briod â Gruffudd ap Rhys, mab Syr Rhys ap Tomas. Ymfalchïa'r bardd yn ei chyswllt gwaed â'r goron. Margaret, merch Syr John Beauchamp, oedd gwraig Olifer. Ei hail wr oedd John Beaufort, Dug Somerset, a phriododd eu merch hwy, Margaret Beaufort, ag Edmwnd ab Owain Tudur. Nid dyma'r unig gyswllt. Phillippa, merch Edmwnd Mortimer, trydydd Iarll y Mers, oedd mam Olifer, a disgynnai hi trwy ei mam o Lionel, Dug Clarens ac o Edward III.

Ymddengys fod rhyw chwyddi ar fron Marged. Geilw'r bardd ar nifer o santesau a deisyfir eu cymorth i wella'r anhwylder ac i wared gwraig Tomas Gamais rhag ei phoen, ac nid amhriodol hynny o gofio i lawer o'r santesau ddiodeff poen ac artaith oherwydd eu ffydd, fel y dangosodd Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod* (Caerdydd, 1999), pennod 2, a tt. 106–23 yn fwyaf arbennig. Ond honna'r bardd y gallai ei awen, hithau, hwyluso'r iacháu, gw. llau. 63–4 *Mi a genais o'm genau / Weddi a cherdd i'w iacháu*, honiad sy'n dwyn i gof eiriau Guto'r Glyn yn ei gywydd 'I Hywel o Foelyrch pan friwiasai ei lin'. Mynnodd y Guto *Llawer dyn, llaw euraid wyd, / Á chywydd a iachawyd. / Myn y tân, minnau i ti / O foliant a wnafeili*, gw. GGI<sup>2</sup> XLIV.39–42.

Er mai peth digon cyffredin yng nghanu'r cyfnod oedd enwi saint a santesau, sylwodd Glanmor Williams fod arlliw Protestannaidd ar ewyllys Syr Tomas Gamais, gw. G. Williams: RRW 295. Y mae'r cywydd hwn yn bur wahanol i'r cywydd i Syr Tomas Gamais gan fod y cyfeiriadau chwedlonol yn brin iawn yn y fan honno.

1 **Syr Paen** Gw. 8.25n.

10 **Sainsion** Cymreigiad o'r cyfenw 'St John' yw *Sainsion*, a gwelir mai gair gyda'r ail sillaf yn ddiacen a gafwyd yn y Gymraeg.

- 11–12 **Constans ac Elen, / ... merch Coel** Gw. 3.34n, 27.44n. Yn ôl traddodiad aeth Elen ferch Coel ar bererindod i Gaersalem ac yno darganfu'r Wir Grog. Uniaethwyd yr Elen hon â'r santes Rufeinig, Helena.
- 12 Ymddengys fod y ll. hon yn llwgr. Ailadroddir yr a. *hael* a ffurf gysefin yr e.p. sy'n dilyn *merch* yn yr ymadrodd genidol, a gthg. *merch Goel* yn 3.34, 7.35. Tybed ai *Marchog ail hael, merch Goel hen* oedd y darlenniad a fwriedid?
- 15 **hynedd** Y gynghanedd sain yn cadarnhau'r terfyniad. Cymerir mai'r ystyr yw 'hynafiaid', ond ni chofnodwyd y gair yn GPC 1976.
- 16 **Bronwen** Y mae'n bosibl mai'r e.p. sydd yma, megis yn 3.35, ond dangosodd Rachel Bromwich mai achlysurol iawn yw'r cyfeiriadau at Franwen ferch Llŷr yng nghanu'r Cywyddwyr, gw. TYP<sup>2</sup> 287. Gellid yr e. cyfansawdd 'un wen (lân, bur) ei bron'.
- 18 **iawnwaed brenin** Gw. y nodyn brig.
- 22 **eiswayw** Diwygiwyd *oes wayw* llsgrau. AFG gan dybio mai gwall ydoedd am y gair cyfansawdd *ais*, ffurf l. *asen* + *gwayw*, gw. GPC 1201 (ond i'r ganrif ddilynol y perthyn yr enghraifft gynharaf). Diau mai hwn oedd y darlenniad y ceisiwyd ei gyfleu yn E.  
**Eigr** Dywed traddodiad mai hi oedd mam Arthur, gw. TYP<sup>2</sup> 366; WCD 228–9. Yng ngwaith Sieffre o Fynwy y digwydd ei henw am y tro cyntaf.
- 23 Bu'n rhaid diwygio'r ll. hon drachefn; yr oedd y ll. fel y cofnodwyd hi yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. yn ddigynghanedd. Efallai i'r llygru ddigwydd yn y lle cyntaf wrth i gopiwr cynharach ailadrodd yn ll. 23 y gair *mor* sy'n digwydd yn y cwpled nesaf. Chwe sillaf sydd yn y ll. fel y saif. Rhediad y frawddeg yw 'Pe bai [ei] chalon yn iach, ni bu[asai] bron un wraig [arall] yn rhywiogach.'
- 26 **Tegau** Gwraig Caradog Freichfras oedd Tegau Eurfron, ond mewn rhamantau Ffrengig y cofnodir ei hanes. Digwydd ei henw yn gyson yng nghanu'r beirdd, a dygai ei henw i gof rinweddau megis diweirdeb a ffyddlondeb. Yr oedd ei mantell yn un o dri thlws ar ddeg Ynys Brydain, gw. TYP<sup>2</sup> 241, 512–14; WCD 600–2; hefyd Graham C.G. Thomas, 'Chwedl Tegau Eurfron a Thristfardd, bardd Urien Rheged', B xxiv (1970–2), 1–9. Tâl nodi bod y testun cynharaf sy'n rhestru'r tri thlws ar ddeg yn llaw Gwilym Tew, ewythr y bardd, yn Pen 51, gw. RWM i, 401.
- 29 **gwythi** Gallai fod yn ffurf l. *gŵyth*<sup>1</sup> a *gŵyth*<sup>2</sup>, gw. GPC 1790–1, sef i. 'llid, digofaint'; ii. 'gwythïen'. Yr ail sy'n taro orau yn y cyddestun fel yn 26.65.  
**gwaethasan'** Rhoddir yr ystyron 'niweidio, amharu ar; dirywio,

gwaethygu' i *gwaethu* yn GPC 1551–2.

- 31 **garw fu'i achos** Diwygiwyd eto i wella'r ystyr. Awgryma rhai o ddarlenniadau'r llsgrau, mai o ffynhonnell lafar y codwyd y cywydd.
- 33 **poenfaen** Gan fod *poen* yn digwydd yn ail fraich y cwpled, gellid diwygio > *pwnfaen* neu *pynfaen*, *pwn* 'baich, llwyth' + *maen*. Arall-eirir y cwpled fel a ganlyn: 'Pwy nad ŵyl pan fai'n dwyn poen a dolur fel poenfaen dur?'.
- 37 **Non** Mam Dewi Sant, nawddsant Cymru. Yn ôl traddodiad esgorodd ar Ddewi wedi i Sant ei threisio, gw. LBS iv, 22–5; WCD 508. Ym Muchedd Dewi y diogelwyd y rhan fwyaf o'r hyn sy'n hysbys amdani.
- 40 **f'ronig** Ffurf sy'n cyfateb i *fernagl* ll. 42, sef 'llun wyneb Crist a arhosodd ar y lliain neu'r cadach a roes y Santes Veronica iddo i sychu'r chwys oddi ar ei wyneb ar ei ffordd i Galfaria', gw. GPC 1269. Disgrifir y fernagl mewn cywydd a briodolir i Syr Siôn Leiaf, gw. LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 196<sup>v</sup> *Os y vernagyl sy varnwr / nida yn gaeth enaid vn gwr / wylais pan welais hwn / wyneb iessu yn basiwn ... peris ar y llien pwrwyn / veronnic lwyd vernagl yn / veronnic oedd vorwyn gall ...*
- 43–4 **Santes ... / Sinai** Sant y Catrin oedd hon. Fe'i claddwyd ar Fynydd Sinai yn ôl ei buchedd, *Ar neb adel yno y geissyav gvaret a iechyt ... ae kaffant. A phedeir ffrvt yssyd yn redec trwy y bed hi oe bronneu o olew*, gw. H. Idris Bell, *Vita Tathei and Buched Seint y Katrin* (Bangor, 1909), 39. Adroddir peth o'i hanes yn y cywydd a ganodd Siôn ap Hywel iddi, gw. GSH cerdd 19. Neilltuir un pennill yn y gerdd faith a ganodd Wiliam Cynwal i amddiffyn y gwagedd i'r santes, gw. CRC 38.97–102 *Saint y Katrin verch rasol / a vv er mwyn Krist nefol / ar y rhod ddvr afryfol / lle i kladdwyd i chorff dwyfol / oi dwy vron y kad yn vraw / y ddav olew vydol.*
- 45 O ystyried arwyddocâd yr hyn a nodwyd wrth drafod y ll. flaenorol, gellid *Olew a red ... o'i bron*. O atalnodi fel y gwnaed yn y testun a gynigir yma, rhaid dehongli'r ll. fel hyn: 'Y mae [ei h]olew yn peri symud [= ? bywiogi, ysgogi] pobl o lawer cenedl.'
- 46 Y mae'n bosibl mai ymgais y copïwr i gyfleu *O'i bron ira'r briw unwaith* sydd yn llsgr. G.
- 49 **San Ffred** San Ffraid, santes a uniaethir â'r santes Wyddelig Brigit, gw. LBS i, 264–85; WCD 265–6. Cysegrwyd tair eglwys iddi ym Morgannwg, sef Saint-y-brid, Llansanffraid-ar-Ogwr a Llansanffraid-ar-Elái. Adroddir rhai o'r coelion a gysylltid â hi yng nghywydd Iorwerth Fynglwyd, gw. GIF cerdd 43.
- Sant Margred** Ceir testun o'i buchedd gan Melville Richards,

‘Buchedd Fargred’, B ix (1937–9), 324–34. Fe’i cosbwyd yn greulon wedi iddi wrthod serchiadau Olifer, yr erlidiwr Cristnogion.

**Mair** Afraid dweud bod y cyfeiriadau at y Forwyn Fair yn bur lluosog yng ngherddi’r beirdd er nad enwir hi yn fynyeh iawn yng nghanu Lewys Morgannwg. Fe’i cyferchir isod yn llau. 66 a 69, a chrybwyllwyd y modd y rhoes gynhafiaeth i’w mab yn ll. 36 uchod. Galw am gymorth santesau llai dwyfol eu cysylltiadau a wneir yn y rhan hon o’r cywydd, a’r rheini at ei gilydd yn rhai na pherthynent i Gymru. Nid annichon, felly, fod yma gyfeiriad naill ai at Fair Fadlen neu at Fair o’r Aifft. Bu Mair Madlen yn gweini ar Grist yn ystod ei weinidogaeth, a hi oedd y gyntaf i weld y bedd gwag a’r Crist atgyfodedig, gw. NCE ix, 387–9. Diogelwyd cywydd iddi a dadogwyd ar Utun Gyriog ac ar Ronw Gyriog (ond nis derbynnir yn waith dilys yr olaf yn GGrG 4–5), a chafodd Tudur Aled a Thudur Penllyn achlysur i’w henwi, gw. TA LXXXI.1; GTP 13.28. Yr oedd ei buchedd yn hysbys; fe’i seiliwyd ar y *Legenda Aurea*, gw. D. Gwenallt Jones, ‘Buchedd Mair Fadlen a’r *Legenda Aurea*’, B iv (1927–9), 325–39. Buasai cynulleidfaf’r Oesoedd Canol yn gyfarwydd â hanes Mair o’r Aifft, hithau, gw. Melville Richards, ‘Buchedd Mair o’r Aifft’, *Études* ii (1937), 45–9; NCE ix, 387. Lluniwyd y fersiwn Cymraeg cynharaf o’i buchedd tua chanol y 13g. a’i ddiogelu yn Pen 14. Adroddir am drythyllwch ei hieuenctid a’i thröedigaeth, ac yn y Gymraeg cyplyswyd ei hanes wrth hanes y gwyर्थiau a briodolir i Fair Forwyn. Digwydd copi arall yn Llyfr Gwyn Rhydderch ynghyd â bucheddau Sant y Catrin a Margaret, gw. RWM i, 310.

- 50 **Sant Ann** Er nad enwir hwy yn yr Ysgrythurau, derbynnid y gred mai Anna a Sioachim oedd rhieni Mair Forwyn, gw. NCE i, 558–60; Mary Williams, ‘Llyma Vabinogi Iessu Grist’, RC xxxiii (1912), 184–248. Dilynir hanes rhieni Crist yn ail ran yr olaf.
- 52 **Gwenfrewy** Yr oedd ei henw a’i hanes yn hysbys i’r Cywyddwyr, a chanodd sawl bardd iddi, gw., e.e., GSH cerdd 18; LBS iii, 185–96; R. Iestyn Daniel, ‘Y ffynhonnau yng nghanu’r Cywyddwyr’, *Dwned*, 7 (2001), 65–81. Yn ôl yr hanes torrodd Caradog ei phen â’i gleddyf am iddi wrthod ei serchiadau.
- 53 **Dewi** Y fuchedd a luniwyd gan Rigyfarch, mab Sulien, yn yr 11g. yw cysail yr holl fucheddau eraill sy’n adrodd hanes nawddsant Cymru, gw. LBS ii, 285–322; WCD 193–7; BDe. Y mae’r ffaith mai arno ef yn unig y geilw Arglwydd y Coety tra geilw ei wraig ar chwech o santesau yn awgrymu ei bwysigrwydd yng ngolwg y bardd.
- 56 **[yr] ugeinmil saint** Yr ugain mil o saint a gysylltir ag Ynys Enlli.

Canodd Hywel Dafi gywydd am hynt y saint i Enlli, gw. G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912), 357–9 (*Mi af i luniaw fy medd*) a disgrifiodd Dafydd ap Llywelyn ap Madog siwrnai un o'r saint hynny o'r tir mawr i'r ynys yn ei gywydd i Fordeyrn, gw. GDLIM cerdd 3.

- 57 **uned** Bernir mai e.c. ydyw yn golygu 'dymuniad, deisyfiad, erfyniad', gw. GPC 3706, yn hytrach na ffurf orch. y f. *uno* 'dymuno', gw. GPC 3704.
- 59 *n* berfeddgoll. Gwelwyd yng nghywyddau'r bardd ryw ddeg ll. ar hugain sy'n cynnwys *n* neu *r* berfeddgoll (ar un achlysur yn unig y cafwyd *m* berfeddgoll, gw. 87.53) a gelwir sylw at bob un yn y nodiadau. Yn y rhan fwyaf ohonynt ailadroddir y gytsain goll rywle yn y gyfatebiaeth fel y gwneir yn yr achos hwn.
- 66 Yn llsgr. H (sy'n destun llwgr a diweddar) yn unig y digwydd y darlleniad ystyrion *Eiriol*, *Mair*, *welïau*' i *mab*.
- 69 Gellid tybio mai *breinied* oedd y darlleniad a welodd Llywelyn Siôn yn wreiddiol (gw. llsgr. E), ond iddo geisio diwygio'r ll. (> *brenhined*) yn ei gopiau diweddarach er mwyn sicrhau'r saith sillaf angenrheidiol. Posibilrwydd arall fyddai diwygio > *breinioled* *Mair* (yng ngeiriadur Dr John Davies, Mallwyd, y cofnodwyd y gair gyntaf, gw. GPC 317), neu hyd yn oed > *brenhines* *Mair*. Cadwyd y ffurf ferfol ddeusill ac ychwanegwyd *Mab* er mwyn sicrhau ll. seithsill.

## 10

Awdl farwnad i Siôn Gamais, mab Syr Tomas Gamais (gw. cerdd 8) a Marged Sainsion (gw. cerdd 9), a choffawyd yr unrhyw ddigwyddiad gan Domas ab Ieuan ap Rhys yntau, gw. HG cerdd 25. Y mae Tomas yn cloi ei gwndid ag un o fformiwlâu cyffredin y canu rhydd *o daw govyn, pwy ganoedd hynn / mab mewn hiraeth, am i vrawdfaeth*, gw. *ib.* 25.43–4. Mewn cwndid arall tystia'r un bardd, wrth sôn am abaty Margam, *vel dyma r lle, i bu nechre*, gw. *ib.* 22.3. Tybed a dderbyniodd Tomas a Siôn Gamais hyfforddiant cynnar yn y sefydliad hwnnw?

Yn ôl cytundeb a wnaed rhwng Syr Tomas Gamais a Syr Edward Stradling ym mis Awst 1516, yr oedd Siôn Gamais i briodi Siân Stradling, merch Syr Edward, a Chatrin Gamais, chwaer Siôn, i briodi Tomas, mab ac etifedd Syr Edward, gw. GIF 112–13; ByCyAt 91. Rhieni Siôn yn unig a enwir yn yr awdl hon. Ymddengys mai gŵr ifanc ydoedd pan fu farw yn Llundain (llau. 1, 49), ac ategir hynny gan Domas ab Ieuan ap Rhys *ef a gladdwyd yn llundain lwyd / mae gorff mewn bedd, gwyn yn gorwedd*, gw. HG 25.39–40.

*Y mesurau*

- 1–66 Cyfres o 15 englyn unodl union ac un pennill lle y ceir dilyniant o 6 ll. sy'n proestio (llau. 33–8). Nid yw'r cyrch gymeriad yn amlwg rhwng y pumed englyn a'r chweched nac ychwaith rhwng y seithfed a'r wythfed (gw. isod).
- 67–102 Cyfres o 9 pennill ar fesur y gwawdodyn byr.
- 103–16 Dilyniant o 7 toddaid a'r gair *cyd* ar ddechrau pob ll. yn eu clymu.
- 3 **amlaid** Nis cofnodir yn GPC. Cynigir mai'r rhagddodiad *am*<sup>-2</sup> 'o gwmpas', gw. GPC 79, a'r e. *llaid* 'pridd' sydd yma, a cf. *amdir*, *amdwll*, *amgarn*, *amgant* yn GPC d.g. Mewn marwnad arall o waith yr un bardd, sonnir am gladdu Ieuan ap Dafydd *ym mhridd a'r llaid*, gw. 14.80. Posibilrwydd arall fyddai mabwysiadu'r ffurf *amhlaid*. I ddiwedd y 18g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a roddir yn GPC 91 a rhoddir iddi'r ystyr 'amhartïol, diduedd', ond digwydd yng nghanu Iorwerth Fynglwyd. Ymddengys mai 'gelyn' yw ystyr y gair yn y cwpled a ganlyn, gw. GIF 9.33–4 *Fe ddaw rhyw awr y bydd raid / i chwi ymladd â'ch amhlaid*.
- 5 **henllawr** *Hen* + *llawr*<sup>2</sup> 'ceimiad, arwr', gw. GPC 2118, er na ddyfynnir enghreifftiau cyfoes. Ar y calediad i *ll* yn dilyn *n* mewn geiriau cyfansawdd, gw. Treigladau 27–9 a cf. 4.47 *henllin*, 10.26 *henllew*, 10.5 *brenhinllwyth*.
- 6 Pum sillaf yn ail fraich y paladr.
- 9 **Cynyr ... Cai** Tad Cai oedd Cynyr Ceinfarfog, gw. TYP<sup>2</sup> 303–7. Awgrymir yma i Gynyr oroesi ei fab, ond nid yw'r hanes hwnnw yn hysbys.
- 21 Nid yw'r cyrch-gymeriad yn amlwg. Dichon mai ailadrodd *llef* sy'n rhoi'r cymeriad, ond yn ll. olaf ond un yr englyn blaenorol y digwydd y gair hwnnw. Y mae'n bosibl hefyd mai cymeriad synhwyrol sydd yma, sef ailadrodd *hollti* (ll. 20) a *torred* (ll. 21), ac mai cymeriad tebyg yn seiliedig ar *daear* (ll. 28) a *Cymru* (ll. 29) sy'n cysylltu'r seithfed englyn a'r wythfed.
- 26 **Wlcsar** Yr oedd Iwl Cesar yn un o'r Nawyr Teilwng, gw. 1.47n. Digwydd y ffurf *Siliws Sisar* yn GHS 2.62.
- 34 **mawrlef** Dilynwyd darlleniad y rhan fwyaf o'r llsgrau. Bydd *r*, fel *n*, gw. 10.5n, yn peri calediad i *ll*. Ni ddigwydd hynny yma ond sylwer nad yw'r gynghanedd yn mynnu'r ffurf *mawrlef*.
- 35 **Cai Hir** Am enghreifftiau eraill o'r ffurf hon ar e. *Cai*, gw. TYP<sup>2</sup> 306, a cf. y disgrifiad yn chwedl 'Culhwch ac Olwen' *kyhyt a'r prenn uchaf yn y coet uydei pann uei da ganthaw*, gw. CO<sup>3</sup> 14.



- 36 **clyps** ‘Diffyg ar yr haul’, gw. GPC 500, a cf. y ffurfiau *clips*, *clipys*, *clipsys*, *clipsi*.  
**Clâr** Gw. 2.22n.
- 39 **Dafydd Gam** Ar y cyswllt, gw. 8.20n.
- 42 **wyloedd** Y terfyniad *-odd* neu *-awdd* sy’n cynrychioli’r 3 un.grff. myn. yn llsgrau. Llywelyn Siôn bron yn ddieithriad ond gwelir yn achlysurol yn rhai o’r llsgrau. eraill, gan gynnwys Llst 164, y terfyniad *-oedd*. Terfyniad a arferir yn achlysurol yn y grb. yw hwn pan ychwanegir ef at ffurfiau gorffennol y f. megis *gwnathoedd*, *athoedd*, *dathoedd*, gw. GMW 127–8, 131, 132, 134, ond ymddengys mai cyfleu’r gorffennol yw ei swyddogaeth yng nghanu Lewys. Gwelir yr un terfyniad yn rhai o’r testunau rhyddiaith a gysylltir â Morgannwg, megis ‘Treigl y Marchog Crwydrad’ a gopiodd Ieuan ab Ieuan ap Madog tua 1585 a’r ‘Gesta Romanorum’ a ddiogelwyd yn llaw Llywelyn Siôn, e.e., TMC 1 a *draethoedd*, *ib.* 1 *ysgrifenoedd*, *ib.* 6 a *baroedd*, *ib.* 7 *archoedd*. Hefyd *Gesta Romanorum*, gol. Patricia Williams (Caerdydd, 2000), 5 *hapioedd* ... *ymladdoedd*. Mabwysiadwyd y ffurfiau hyn pan ddigwyddant er na wnaed ymdrech i’w cysoni.
- 47 **rhydain** Yr hyn a geir yn yr holl lsgrau. yw *drydain*, a chynigiwyd yn Lewys Morgannwg: Gw 823 mai ffurf ar *tridaint* ydoedd, ond tebycach mai canlyniad camddeall a chamgofnodi yr hyn a glywyd ar lafar sy’n cyfrif am y ffurf hon. Diau mai *rhydain* ‘carw ifanc’, gw. GPC 3126, yw’r ffurf ddilys (ac y mae hon hefyd yn cryfhau’r gynghanedd).
- 48 **Post Prydain** Gallai’r elfen gyntaf fod yn e.c. ond tebycach mai bwriad y bardd oedd dwyn i gof y cymeriad Pabo Post Prydain. Diogelwyd cof am y cymeriad hwn yn un o’r Trioedd, gw. TYP<sup>2</sup> 483–4. Enwir ei fab Dunawd yn y Brut ymhlith y tywysogion a oedd yn bresennol yn llys Arthur, gw. BD 158, a gwyddys bod Lewys yn gyfarwydd â’r testun hwn.
- 49 *r* berfeddgoll.
- 52 **Winsor ... Sainsion** Esbonnir y cyswllt rhwng teulu’r Sainsioniaid a’r goron yn nodyn brig cerdd 9.
- 54 Wyth sillaf yn y ll.
- 56 **Coety** Nid yw hyd y ll. yn caniatáu cynnwys y fannod sy’n digwydd mewn pum ffynhonnell, ond cf. 8.14 *gwledd Coety*, 9.3–4 *Arglwyddes ... Coety*.
- 58 **ei frawd** Enwir nifer o chwirydd yn WG2 746–7, ac un brawd, sef Robert Gamais a enwir mewn papurau swyddogol yn 1553 ac yn 1565, gw. ByCyAt 91.

- 60 **llef dreigiau** Disgrifir tair gormes yn y chwedl ‘Cyfranc Lludd a Llefelys’. *Yr eil ormes oed. diaspat adodit pob nos kalan mei. vch bob aelwyt yn ynys prydein. Ahono aaei trwy gallonneu ydynyon. ac ae hofnockaei yn gymeint ac y collei y gwyr eulliw ac eu nerth.* Esbonnir mai dreic yv honno adreic estravgenedyl arall yssydd yn ymlad a hi ac yn keissav ygoresgyn, a chynghorwyd Lludd fel a ganlyn: *ac yn y lle kadarnhaf ageffych yth gyfoeth y myvn kist uae clad vynt. a chud y myvn y daear. a hyt tra vont hvy yn y lle kadarn hvnv ny dav gormes y ynys prydein o le arall*, gw. RM 93–9 (tt. 94, 97). Croniclir rhai o ddiwyddiadau’r chwedl yn y Trioedd. Dyma gefndir y trydydd cymal yn y triawd *Tri Chud a Thri Dacud Enys Prydein*, gw. TYP<sup>2</sup> 88; hefyd WCD 416–18 d.e. *Lludd*, a chefnidir yr ymryson rhwng y ddraig goch a’r ddraig wen a ddisgrifiwyd gan Fyrddin, gw. BD 102–3. Priodol ydoedd cyfeirio at y chwedl mewn cerdd farwnad, a gwna’r bardd hynny ar achlysuron eraill, gw. 46.33–4 *Dreigiau oedd mewn daear gynt, / Anial ofn oedd pan lefynt* (Marwnad Harri, Iarll Caerwrangon), 63.5 *Llef o aelwyd Llefelys* (Marwnad Syr Rhys ap Tomas), 76.1–2 *Llef aruthr oll a fwriant / Y dreigiau ...* (Marwnad Syr Rhisiart Herbert).
- 66 **lleihawyd** Sylwer bod pump o’r llsgrau. yn cynnig y darlleniad *hen llewod*. Os felly, rhaid cywasgu’r ffurf *lleihawyd* yn ddeusill. Ond efallai mai ffurf ar y f. *lleia* sydd yma, gw. GPC 2144, 2147 (er y mynegir peth ansicrwydd ynghylch y ffurf), a cf. darlleniad llsgr. E, a rhoddai hynny l. reolaidd o ran ei hyd.
- 71–3 **Tewdwr ... / ... Iestyn ... / ... Lleision** Priododd Siôn ap Tomas (gw. ach y teulu yn nodyn brig cerdd 8) â Marged, merch Morgan o Radur, un o ddisgynyddion Iestyn, gw. WG1 560. Yr oedd Efa, gwraig Morgan, yn ferch i Ieuan Gethin ab Ieuan ap Lleision (ll. 73) ... Caradog ab Iestyn, gw. WG1 543, 547. Priododd y Caradog hwn â Gwladus, merch Gruffudd ap Rhys ap Tewdwr, gw. WG1 776.
- 72 **Bleddyn** Priododd Ieuan Gethin ag wyres Ifor Hael, a phriodasai Ifor yn ei dro ag un o ddisgynyddion Bleddyn ap Cynfyn, gw. WG1 202.
- 73 **Einion** Yr oedd Efa, gwraig Ieuan ap Lleision, yn un o ddisgynyddion Einion ap Collwyn, gw. WG1 307.
- 75–6 **Rhoseriaid ... / ... Denisiaid** Gw. 8.16n, 20n.
- 77 **Einion Sais** Un o gyndeidiau Dafydd Gam, gw. 10.39n ac WG1 104.
- 78 **Mathau** Nain Marged Sainsion (sef mam y gŵr a farwnedir) o du ei mam oedd Marged, merch Dafydd Mathau, gw. WG2 394.

- 79 **gwaedoliaeth** ‘Carenydd, ceraint, tylwyth, teulu’, gw. GPC 1547, ond fe’i trinnir yma fel pe bai yn e.ll. Y mae’r enghreifftiau cynharaf a ddyfynnir, o waith y beirdd Huw Arwystl a Siôn Brwynog, yn perthyn i ganol yr 16g.
- 82 Digwydd y ll. hon yn yr awdl farwnad a ganodd Iorwerth Fynglwyd i Rys ap Siôn o Lyn-nedd, cerdd yr oedd Lewys yn gyfarwydd â hi, gw. 21.51–2n.
- 83 **cronigl** Ffurfiau cyfochrog yw *cronicl*, *cronic* a *cronig*. ‘Cofrestr fanwl neu goflyfr o ddigwyddiadau yn eu trefn amseryddol, oeslyfr; llyfr hanes, brut’ yw’r ystyrion a gynigir yn GPC 611, a gellid aralleirio *ynys gronigl* yn ‘un sy’n peri sôn / hanesion amdano ef ei hun trwy’r holl ynys’. Ond efallai fod peth o ystyr y trosiad *print* ar y ddelwedd hefyd, sef ‘awdurdod, patrwm’.
- braens** ‘Cangen, yn ffig. disgynnydd’, o’r S. *branch*, gw. GPC 306; EEW 212. Fe’i trinnir yma yn e.ll.
- 93 **cwarelau** Ffurf l. *cwarel*<sup>2</sup> ‘saeth fer drom â phen ysgwâr a saethid o fwa croes’, gw. GPC 633. Cofnodir yr amrywiad *chwarel* yn GPC 844, a digwydd y ffurf honno yn 79.12 *Ŵyr Hywel*, wayw *chwarel chwyrn*.
- 94 **cwmplid** ‘Math o arfogaeth, gorchudd cyflawn’, gw. GPC 643, a cf. un o’r enghreifftiau a roddir d.g. *complete* yn OED<sup>2</sup> iii, 611–12: *Their shoulders broad for complete armour fit*. Diau mai’r un ystyr sydd i’r gair yn GGI<sup>2</sup> XXIX.4 *Cwmplid a welid o lâl* mewn cywydd i ofyn saeled, ond fe’i dosberthir ymysg yr ansoddeiriau yn GPC, a rhoddir iddo’r ystyr ‘cyflawn, twt’. Ni ddeallodd y copïwyr y gair ac y mae darlleniadau’r llsgrau. yn awgrymu mai o ffynhonnell lafar y codwyd yr awdl yn y lle cyntaf. Am enghraifft arall o’r gair (a chyfeiriad at enghraifft arall o fethu â’i ddeall), gw. GHS 3.18n.
- 97–8 **chwarae**, / ... **foddau** Y mae’n amlwg fod yr odl hon yn gymeradwy gan y bardd; fe’i hailadroddir yn 64.37, 76.51, 81.29, 88.39.
- 99 **canuau** Ffurf l. *canu*, gw. GPC 419. Am enghraifft o’r ffurf l. *canuoedd*, gw. GSC 45.59.
- 102 **hyd Dydd Brawd** Ar yr ymadrodd, gw. 7.44n.
- 104 Y mae’r ddau air, *gosawg* ac *oesog* (gw. yr Amrywiadau a’r Eirfa) yn gweddu yn y cyd-destun.
- 105 Enghraifft arall o odl gudd yn un o awdlau’r bardd.
- 109 **cynhyrfoedd** Fe’i dehonglir yma yn ffurf 3 un.grff.myn. *cynhyrfu*; ar y terfyniad *-oedd*, gw. 10.42n, ond gallai fod yn ffurf l. yr e. *cynnwrf*, gw. GPC 797.

- 112 **achwysol** Rhoddir i *achwysol* yr ystyr ‘achosion cyfreithiol’ yn GPC 11, a gallai *achwysol* yma ddisgrifio ‘un wedi dioddef [cam neu gosb] yn sgil achos cyfreithiol’ er na chynigir yr union ystyr honno d.g. *achwysol yn ib*.

## 11

Yr oedd Crystor Fflemin yn fab i Wiliam ap Tomas ap Ffyllib ap Rhisiart, gw. WG2 740–1; LPMG 383–5. Ymsefydlodd un gangen o’r Ffleminiaid, teulu o dras Normanaidd fel cynifer o deuluoedd eraill Morgannwg, yn Nhrefflemin yng nghantrf Gorfynydd. Canwyd y cywydd cyn 1 Gorffennaf 1541, sef dyddiad marw Crystor. Trosglwyddwyd ei faenor yn Nhrefflemin a thiroedd eraill a feddai ym Morgannwg i’w wŷr, Siôn Fflemin, yn 1545, gw. LPFD xx/ii, cofnod 1068.49. Priododd un o ferched Crystor â Rhys ap Meurig o’r Cotrel yn Sain Nicolas, awdur *A Booke of Glamorganshires Antiquities*, gw. GCH iv, 597–603; ByCy 591–2.

- 1 **bro Ddawon** Afon a’i tharddiad ger Llanhari ac sy’n llifo heibio Trefflemin cyn cyrraedd y môr yn Aberddawan. Ar yr e., gw. EANC 64–5. Fel y gellid disgwyl, fe’i henwir ar sawl achlysur yng ngherddi Iolo Morganwg, gw., e.e., *Blodeugerdd Barddas o Ganu Caeth y Ddeunawfed Ganrif*, gol. A. Cynfael Lake (Llandybie, 1993), 80.5.

- 3–4 **Iestyn, / ... cwncwest** Cyfosodir rheolwr traddodiadol Morgannwg, gw. 1.66n, a’r teuluoedd Normanaidd a feddiannodd y dalaith. Cf. 2.19 *Cainc o stad cwncwest ydych*.

- 4 **stil** Rhestrir y cwpled hwn yn GPC 3333 d.g. *stil*<sup>2</sup> ‘dur’, ond *stil*<sup>1</sup> ‘arddull, ffasiwn, (cyf)enw, bri’ sy’n gweddu orau. Yr oedd Lewys Morgannwg yn dra ymwybodol fod disgynyddion y teuluoedd Normanaidd a oresgynnodd Forgannwg ymhlith ei noddwyr a’u bod yn dal i arddel yr un cyfenwau, gw. 1.40n.

- 6 **Godwin** Merch Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas o Went, ... Godwin, oedd Olive, gwraig Tomas ap Ffyllib, gw. WG1 425.

- 10 **Almaen** Tybed ai’r ystyr ‘estron, cyfandirol’ sy’n gweddu yma? Am enghreifftiau eraill o ddefnyddio *Almaen* i ddisgrifio teuluoedd o dras Normanaidd, cf. 16.10, 43.30, 45.37; hefyd TA XXXII.29–30 *Deulwyth brenhinoedd oeddynt, / Deule mewn gwaed Almaen gynt*. Digwydd y cyfeiriad olaf mewn cywydd i Syr Wiliam Gruffudd o’r Penrhyn, a dywed y bardd ei fod yn perthyn trwy bridodas i deulu Sae—teulu a hanai o bosibl o Sai gerllaw Argentan yn Normandi, gw. CP xi, 464.

- 11 **ffoen** I Lewys Morgannwg y priodolir yr unig enghraifft yn GPC

1300. Fe'i hesbonnir yn fenthyciad o'r *S. foin*, 'gwth neu waniad â chleddyf', a gw. hefyd GPC 1331 d.g. *ffwyn*<sup>1</sup>. O gywydd o waith Rhisiart ap Rhys i Forgan Gamais y daw'r enghraifft gynharaf a ddyfynnir o'r gair hwnnw, a digwydd y cywydd (fel y cywydd o waith Lewys Morgannwg sydd dan sylw) yn Llst 164. Wrth olygu'r olaf, fodd bynnag, diwygiodd Eurys I. Rowlands *ffwyn* yn *ffrwyn*: *Ffrwyn Lloegr a phen a llygad*, gw. GRB 24.7. I ganol y 15g. y perthyn yr enghraifft gynharaf o'r ffurf *S. foen*, gw. OED<sup>2</sup> v, 1134.
- 14 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 26, 28, 30, 35, 47, 51, 60.
- 16 **Ieuan Gwyn** Merch Tomas ab Ieuan Gwyn o Bryscedwyn, Llandeilo Tal-y-bont, oedd gwraig gyntaf Wiliam ap Tomas, gw. WG1 118; WG2 254.
- 17–18 **Llywelyn ... / ... Foethus** Nid yw'r cyswllt yn amlwg. Priododd chwaer Tomas ab Ieuan Gwyn â Llywelyn ap Rhys ap Gruffudd ap Llywelyn Foethus o lwyth Elystan Glodrydd, gw. WG1 408.
- 22 **nith Syr Rhys** Yr oedd ail wraig Crystor, Elisabeth Mawnsel, yn chwaer i Syr Rhys Mawnsel, ond Syr Rhys ap Tomas sydd dan sylw yma. Priododd Ffyllib Mawnsel, taid Elisabeth, â Mari, ac yr oedd hi'n fodryb i Syr Rhys ap Tomas, chwaer ei dad, gw. WG1 330; WG2 643. Dyddir priodas Crystor ag Elisabeth Mawnsel i'r blynyddoedd 1550–70 yn LPMG, ond y mae'n amlwg fod y dyddiad hwn yn rhy ddiweddar (gw. y nodyn brig. *Ŵyr Crystor trwy ei fab o'i briodas gyntaf â Gwenllïan ferch Lewys yw'r Crystor a enwir yn LPMG*).
- 23 Anghyffredin braidd yw'r odl *Elsbedd fonedd* ond rhaid wrthi, ac fe'i ceir ar achlysur arall, yn safle'r brifodl y tro hwn mewn englyn, gw. 18.33–6 lle yr odli'r *bonedd / Elsbedd / dialedd / bedd*. Ar sail y darlleniadau hyn diwygiwyd 43.72 er mwyn sicrhau cynghanedd lusg reolaidd: *Iarlleswisg Elsbedd o'r ieirll gogleddog*.
- 28 **cant tai** Am enghraifft arall o e.ll. yn dilyn y rhif., gw. 7.59n. Ond nid annichon i'r copiwr, neu ei gynsail, gamddehongli yr hyn a glywyd ar lafar, sef *A'r gair uwch, yn rhagor, aeth, / No chant â'i berchentyaeth*. Atalnodwyd y cwpled yn y testun fel pe bai ynddo ddau osodiad, sef 'A'r gair i chwi a aeth; rhagorach yw ei berchentyaeth na chant o dai.'
- 30 **ni roed ryw bwys** Cadw'r gysefin yw'r arfer yn dilyn ffurfiau amhrs. y f. a rhan fynychaf y gysefin fydd yn dilyn *rhoed* yng nghanu'r bardd. Ond ceir enghreifftiau o dreiglo hefyd yn 20.80 *Rhoed dorch aur a'i artr i chwi*, 38.68 *A phwy y rhoed gorff a phryd gŵr*, 43.38 *A phle rhoed lwyth i fflŵr-dy-lis*, a diwygiwyd yma er mwyn sicrhau cyfatebiaeth reolaidd.

- 35 **bawair** ‘Gair dirmygus a salw, anghlod’. Ceir *r* heb ei hateb o dan yr acen yn safle’r brifodl, ond gellid goresgyn y bai trwy ddiwygio (a newid yr ystyr yn llwyr) > *fawrair*. Sylwer mai’r ardd. *o* sy’n dilyn y f. *arfer* ran fynychaf, gw. GPC 193–4.
- 37 **dros deg** Ni fydd y bardd yn treiglo’r e. sy’n dilyn yr ardd. *dros* bob tro. Ceir enghreifftiau o’r gytsain *d* yn caledu yn dilyn *-s* yn 29.45 *tros dŵr*, 44.24 *dros dau iarll*, a cf. TA XXIII.25 *dros dialwr*, LV.34 *dros Deuddwr*. Ymddŵg y gytsain *ll*, hithau, yn yr un modd, gw. 15.8 *tros Lloegr*, 16.11 *dros lladdiad*, ond gthg. 14.16 *Tros Dir Iarll fal môr tros draeth*. Trafodir y calediad yn Treigladau 191–2. Digwydd hefyd yn y canu yn dilyn y ffurf 2 un.grch. *aros*, gw. 6.5n.
- 39 **gwlad Ieuan** I’r flwyddyn 1145 y perthyn y cyfeiriad cyntaf at y cymeriad y daethpwyd i’w adnabod wrth yr enwau Cymraeg Ieuan Fendigaid, Ieuan Offeiriad, neu’r Preutur Siôn, ac ymhen rhyw ugain mlynedd ymddangosodd y testun Llad. a ddaeth yn boblogaidd dros nos ac a gyfieithwyd i sawl iaith Ewropeaidd, ‘Llythyr y Preutur Siôn’. Yn y llythyr hwnnw, fe’i darlunnir yn frenin ar wlad gyfoethog odiaeth, gw. YGIV lii-lix a’r drafodaeth ar gyfeiriadau’r beirdd ato.
- 53 **gilt** *Gild* yw’r unig ffurf a restrir yn GPC 1398, ond y mae’r gynghanedd groes o gyswllt yn tystio i ddilysrwydd y ffurf *gilt*.
- 58 **llywiwr** Y mae ‘rheolwr, arweinydd’ yn llawer mwy priodol na *lliwyr* ‘cyhuddwr, achwynwr’, gw. GPC 2195, 2289.
- 59 *r* berfeddgoll (neu *n* wreiddgoll).
- 70 **ych bôn** Gw. 93.16n.
- 73 Gwelir nad yw’r gytsain feddal *d* ar ddechrau ail ran y ll. yn cael ei chaledu gan y gytsain unrhyw ar ddiwedd y rhan gyntaf. Gellid diwygio *ydych* > *ytych*, ac y mae gan y bardd sawl ll. lle y cynganeddir *natur* / *ytwyd*, e.e., 37.69, 98.36. Ond gwelwyd yn y canu ryw hanner can ll. lle na ddigwydd caledu yn y safle hwn, e.e., 25.37 *Gwae hon orig gan hiraeth*, ac y mae’r llau. hyn yn llawer mwy cyffredin na’r llau. sy’n cynnwys cynghanedd groes o gyswllt ewinog; rhyw bymtheg o’r rheini a welwyd. Gan fod yr enghreifftiau mor niferus ni alwyd sylw atynt yn y nodiadau; nodwyd yn unig yr achosion lle y methwyd â chaledu mewn safleoedd eraill, gw. 8.9n.

Dwnrhefn) yn Sant-y-brid. Gellid tybio ei fod yn ŵr o bwys yn ei ddydd gan ei fod (ynghyd â Thomas Gamais, Tomas Stradling, Water Herbert, Syr Rhys Mawnsel ac eraill) yn un o'r comisiwn Gwrandao a Therfynu a benodwyd yn 1536, gw. LPFD x, cofnod 392.48. Ym mis Mai 1538, gorchmynnwyd iddo ef ac Edward Carn ac un arall holi ynghylch tiroedd Tomas Bawdrem, gw. LPFD xiii/i, cofnod 1115.59. Ond daethai i amlygrwydd cyn hynny. Y mae'n bosibl ei fod ymhlith cefnogwyr cynnar Harri Tudur pan laniodd hwnnw yn sir Benfro yn 1485, ac fe'i disgrifir ef (a gŵr arall, Richard Griffith) yn *two ancient captaines, verie famous in those partes for their skill in souldierie*, gw. R.A. Griffiths: RhT 186 a throednodyn 17, a disgrifiad Lewys yn llau. 45–8. Yr oedd yn bresennol yn y twrnaint a drefnodd Syr Rhys ap Tomas yng Nghaeryw i ddathlu ei urddo yn farchog o Urdd y Gardys, gw. *ib.* 247. Dywedir i Arnallt lunio ei ewyllys yn 1540 ac iddo farw yn 1541, gw. W.H. Wyndham Quin, *Dunraven Castle Glamorgan* (London, 1926), 29. Ceir rhyddgyfieithad i'r S. o ran o'r farwnad hon yn *ib.* 36.

- 3 **bro Iestyn** Morgannwg oedd *bro Iestyn*, gw. 1.66n. Ond priodasai mwy nag un o gyndeidiau Arnallt â theuluoedd a berthynai i dylwyth Iestyn ap Gwrgant.
- 8 Nid oes bwlech yn y llsg., ond ychwanegwyd *rhyw* yn safle'r orffwysfa er mwyn sicrhau bod y gynghanedd a'r mesur yn rheolaidd.
- 11 Gw. 12.40n.
- 17 **Mathau** I deulu'r Matheuaid y rhoddir y prif sylw yn y cywydd, ac nid i'r Bwtleriaid. Merch Syr Dafydd Mathau ... Gwaithfoed (ll. 22) oedd gwraig Tomas ap Siôn, gw. WG1 472–3. Priododd Dafydd ei hun ag un o ddisgynyddion Godwin (ll. 28), gw. WG1 421.
- 19 **Ilin Tewdwr** Ar y cyswllt rhwng y Matheuaid â Thewdwr, gw. 4.13n.
- 21 **Einion** Priododd un o gyndeidiau Dafydd Mathau, sef Gruffudd Gethin, ag un o ddisgynyddion Einion ab Owain, gw. WG1 82–3. Ond buasai gan y bardd fwy o achos i gyfeirio at Einion ap Collwyn. Ar y cyswllt rhyngddo a'r Matheuaid, (trwy Efa, merch Ieuan Gethin, a chwaer Gwenllïan a enwir yn 12.24n), gw. 4.49n.
- 22 **aeth fyd** Gellid y gair cyfansawdd *aeth* 'tristwch' + *byd* ond rhannwyd y ddwy elfen yn yr unig lsg. Yr arfer yw cadw cysefin y goddrych yn dilyn ffurfiau 3 un.grff.myn., a cf. *aeth gwaed* ym mraich gyntaf y cwpled, ond ceir sawl enghraifft yn y canu o dreiglo, gw. 4.37n.

- 24 **Based** Siân Based oedd mam Arnallt. Merch Siancyn ap Siôn ap Tomas oedd hi, gw. WG2 57. Priododd ei thaid â Gwenllïan, merch Ieuan Gethin o Faglan ab Ieuan ap Lleision, gw. WG1 547.  
Cyfatebiaeth s -d h- = st.
- 25 **rhychor bôn** ‘Ych neu geffyl sy’n cerdded y rhych (sef y gorau o’r pâr dan yr iau)’, gw. GPC 3125.
- 26 Diwygiwyd darlleniad y llsg. am mai’r arfer yw treiglo’r f. sy’n dilyn y geiryn *pan*. Diau na sylweddolai’r copiwr fod Lewys yn arfer y ffurfiau *Lleision* a *Leision*, gw. 1.64n, a diau iddo anwybyddu’r treigladau i’r f. er mwyn sicrhau ll. ac ynddi gynghanedd reolaidd.
- 27 **diwreiddiai goed** Cyffredin gynt oedd treiglo’r goddrych yn dilyn ffurfiau’r 3 un.amhff.myn., gw. Treigladau 214.
- 30 **gwaed Ifor Hael** Priododd Pirs Bwtler â nith Ifor Hael, sef merch ei frawd, Morgan ap Llywelyn, gw. WG1 200. Ond gallai Dafydd Mathau, yntau, arddel cyswllt trwy briodas ag Ifor Hael, gw. 4.16n.
- 32 **diwyrnawd** Gallai fod yn ffurf ar *diwrnod*, gw. GPC 1064 ac 18.3, 98.52, ond tebycach mai’r gair sy’n tarddu o *diwyr* + *nawd* sydd yma, gw. *ib*. Rhoddir iddo’r ystyron ‘cadernid; uniondeb’ ond ystyr negyddol sydd i’r gair yng nghanu’r bardd ac ystyr megis ‘caledi, cyni’ sy’n gweddu orau.
- 35 Gellid *Wylofain a wna-i lifoedd*.
- 37 **wedy ef** Am enghraifft arall o ragenw ôl yn dilyn *wedy*, gw. GGI<sup>2</sup> LXXXIII.20 ac ymhellach GPC 3730. Ni welwyd enghraifft arall yng nghanu Lewys.
- 38 **Ogwr** Y mae Afon Ogwr yn cyrraedd y môr ryw ddwy filltir o Sant-y-brid.
- 39 **Bryn-y-frân** Sef Dwnrhefn. William de Londres, un o oresgynwyr Morgannwg, a gafodd faenor Ogwr a chastell Dwnrhefn yn y lle cyntaf, ond fe’i cyflwynwyd i’r Bwtleriaid, gw. MArch 52; W.H. Wyndham Quin, *Dunraven Castle Glamorgan* (London, 1926), 27.
- 40 **Pen-bre** Awgrymir yn LPMG fod gan Siôn ap Tomas eiddo ym Mhen-bre. Gadawodd Arnallt fab anghyfreithlon (nas enwir o gwbl yn y cywydd), a’i chwaer, Ann, a etifeddodd Fryn-y-frân a Phen-bre, gw. ByCy 932. Gresyna Lewys yn llau. agoriadol y cywydd fod y llinach yn darfod, gw. 12.11 *Diffodd gwaed hoff oedd gadarn*.
- 43 **anambell** Cymerir mai’r a. ‘prin, anaml’ sydd yma megis yn 56.69 (sef yr enghraifft gynharaf a ddyfynnir yn GPC 107) er bod wyth sillaf yn y ll. o ganlyniad. Gellid ll. reolaidd o dderbyn y darlleniad *mae’n ambell*; rhoddir i *ambell* yr ystyr ‘annhebyg’ yn GPC 81 a cf.



5.70.

- 44 **seigiau well** Ar y treigladd, gw. 1.43n.  
Cyfatebiaeth sg g- = s..g.
- 50 **Satwrnys** Duw hau ac amaeth oedd y duw Rhufeinig, Sadwrn, er bod cryn ddryswch ynghylch ei darddiad. Cysylltid ei ŵyl, y *saturnalia*, â rhialtwch ac â rhyddid; câi caethweision eu rhyddid dros dro a byddai eu meistri yn gweini arnynt. O ganlyniad dechreuwyd cysylltu ei enw ag adeg pan fyddai'r byd ben i waered, megis, a'r drefn arferol wedi ei gwyrddroi, ac nid amhriodol, felly, y cyfeiriad at Sadwrn mewn cywydd marwnad, cf. 76.54 (mewn marwnad i Syr Rhisiart Herbert) a gw. OCD<sup>3</sup> 1360–1; OCCL 509; EncB xx, 7; NCE xii, 1099. Fel hyn y disgrifiodd Dafydd Nanmor blaned Sadwrn yn ei gywydd 'I Dduw a'r blaned Satwrnws', gw. DN.XXXVII.11–12, 35–6, 64 *Os planed blin dynged yw / A lithroedd marwolaethryw ... Mae enw marwolaeth mynych / Yn anfon gwreichion o'r gwrych ... Gweithred y blaned yw y bla*. Ac mewn rhestr fer *Naturie y saith planned* yn Card 3.4 [= RWM 5], 155, dywedir am y blaned, *Satwrnws y sydd sych ac ovr ac awnna y gwynt melancoli a marvolayth*.
- 55 **swrth** Cymerir mai'r ystyr 'sydyn, disyfyd' sydd i *swrth* yn y cyddestun, gw. GPC 3369, a cf. o bosibl 10.29, ond gellid cyfrif *swrth yn unawr* yn sangiad, a rhoi i'r a. yr ystyron mwy cyfarwydd 'disymud, difywyd, lluddiedig; trist'.
- 60 Cyfatebiaeth caled a meddal t = d. Digwydd y gytsain galed yng nghysgod *n*, a cheir yn y canu rai enghreifftiau eraill o *nt* yn ateb *n..d*, er mai rheolaidd yw'r gyfatebiaeth yn ll. 19 uchod fel yn ll. 59.
- 62 **Sysil** Gwraig Arnallt Bwtler, a merch Syr Thomas Monington.
- 63 **g'lygordd** Ffurf ar *gwelygordd* 'cyff, tras, bonedd', gw. GPC 1630.  
**Iarll Henffordd** Cysylltir Thomas Monington â Sarnesfield ('Syr Tomas Monnysheems off Sarnffyllld') yn swydd Henffordd yn L. Dwinn: HV: i, 76.
- 66 **bort tâl** Hwn oedd y bwrdd uchaf yn y neuadd ac eisteddle'r penteulu a'i berthnasau agosaf. Cf. yr ymadroddion *tâl baine* d.g. *tâl<sup>2</sup>*, gw. GPC 3425 a *talbarth*, gw. *ib.* 3427.
- 69 Cymerir mai Meistres Sysil, y weddw, yw goddrych y f. Gellid diwygio > *Ei gorff a roed ...*, ond ceid bai proest i'r odl o ganlyniad.  
**côr Ffraid** Diau mai yn eglwys Sant-y-brid yn hytrach nag yn Llansanffraid-ar-Ogwr y claddwyd Arnallt. Yn y flaenaf y claddwyd ei rieni, Siôn Bwtler a Siân Based, a chodwyd beddrod hardd i'w coffáu, gw. Geoffrey R. Orrin, *Medieval Churches in the Vale of Glamorgan* (Cowbridge, 1988), 335–42 (ceir llun o'r beddrod ar

d. 336). Yn y flwyddyn 1845, darganfuwyd caead arch un o gyndeidiau'r Bwtleriaid; claddwyd Johan le Boitiler ym mynwent yr eglwys, ac y mae'r ddelwedd ar y caead yn enghraifft nodedig o arfwisg o'r 13g.

## 13

Cywydd marwnad Watgyn Lochwr ap Rhisiart ap Gronwy ab Ieuan ap Lleision ... Iestyn, gw. WG1 547–8; WG2 1063–4; LPMG 93. Fferm yng nghantref y Castellnewydd ar Ogwr a berthynai i abaty Nedd oedd y Sgêr. Gwyddys bod Rhisiart Lochwr yn trigo yno erbyn 1467, a dengys y cywydd fod Watgyn, ei fab, wedi ei olynau. Cafodd Rhisiart, mab ac etifedd Watgyn, a'i fam, gweddw Watgyn, les am 99 mlynedd ar y fferm gan Leision, abad olaf Nedd, ym mis Ebrill 1536, ond pan feddiannodd y goron eiddo'r mynachlogydd, daeth y Sgêr yn eiddo i Grystor Twrbil, gw. A. Leslie Evans, *The Story of Sker House* (Neath, 1956); nodyn brig cerdd 16.

- 1 **cwyn mawr** Dosbarthwyd y gair o dan 'gwledd', gw. yr Eirfa, am mai eg. ydyw ond eb. yw *cwyn* 'achwyniad' ran fynychaf. Fodd bynnag, gan fod *cwyn* a *cwyno* yn cael eu hailadrodd cynifer o weithiau yn y llau. agoriadol, nid amhriodol yr ystyr 'galar, achwyniad'. Gellid 'cwyn [am wŷr] mawr oedd'.
- 5 **Watgyn o'r Tŵr** Watgyn Fychan (ll.10) ap Syr Rhosier Fychan ... Moreiddig Warwyn (ll. 11) oedd tad yng nghyfraith Rhisiart Lochwr, gw. WG1 243; WG2 451. Amgylchiadau marw Watgyn sy'n cyfrif am y cyfeiriad hwn. Fe'i lladdwyd â saeth yn Henffordd yn y flwyddyn 1456, a thalodd Wiliam Herbert, Iarll Penfro, y pwyth trwy grogi chwech o drigolion y dref. Disgrifiwyd y digwyddiad gan Hywel Swardwal yn ei farwnad i Watgyn, gw. GHS cerdd 23. Ond Syr Rhosier Fychan, brawd Watgyn Fychan, a drigai yn y Tŵr (neu Dretŵr), eiddo a gyflwynwyd iddo gan ei hanner brawd, Wiliam Herbert, gw. ByCy 940; D.M. Robinson, *Tretower Court and Castle* (Cadw, 1986). Ym Mrodordd yn y cartrefai Watgyn.
- 8 **campuster** Yn Llst 164 yn unig y digwydd y darlleniad hwn; *campustewr* sydd yn y lleill. Ni restrir *campuster*, e. a ffurfiwyd o'r a. *campus*, yn GPC 404.
- 11 Nid yw darlleniad Llst 164 yn gwbl foddhaol: disgwyliid *mawr ddoe gwymp* yn hytrach na *mawr ddoe cwymp*, ac felly dilynwyd darlleniad llsgrau. BCD: *mawr oedd cwymp*.
- 12 **Meilir** Yng Nghedewain yn fwyaf arbennig y trigai disgynyddion Meilir Gryg. Nid oes cyswllt agos rhwng Watgyn a'r tylwyth

hwnnw, ond sylwer ar y modd y llwydda'r bardd i dynnu i gylch y moliant enwau unigolion a llwythau a gysylltir â rhannau eraill o Gymru.

- 16 **plas gwyn** Rhestrir dau gartref o'r enw Plas Gwyn yn *Welsh Genealogies*, a'r ddau yn sir Gaerfyrddin, y naill yn Llangynnwr a'r llall yn Llangynheiddon. Disgynyddion Dafydd ab Ieuan a drigai yn y ddau gartref, gw. WG2 1497–8, ac y mae'n arwyddocaol fod merch y Dafydd hwnnw yn ordderch i Syr Rhosier Fychan, Tretŵr, gw. 13.5n. Fe'i deellir yma yn e.c., a cf. 30.31n y *dref wen*, 37.6n *tŷ gwyn*.
- 21 **lleision** Fe'i deellir yn ffurf l. *llais*, gw. GPC 2090, ond gellid tybio bod bai rhy debyg ar y ll. (*lleision ... Leision*) er bod yr enghreifftiau a ddyfynnir yn J. Morris-Jones: CD 303 yn digwydd mewn llau. o gynghanedd draws tra bod hon yn gynghanedd sain lefn. Ystyrion yw'r darlenniad yn llsgrau. BCD *Llai sôn am Leision a'i lwyth*.
- 23 *n wreiddgoll* a thrachefn yn ll. 69.
- 25 Disgwylid i wrthrych bf. 1 ll.pres.myn. dreiglo, gw. Treigladau 205. Y mae'n bosibl na threiglr y gwrthrych am ei fod yn digwydd ar ddechrau ail ran y ll. ac ar ôl yr orffwysfa, ac am enghraifft arall, gw. 7.10n. Ond efallai y dylid cysylltu *marwolaeth* yn enidol â *gŵr*, a'r rhediad wedyn fyddai 'Wylwn am farwolaeth gŵr'.
- 26 **ail Walchmai** Cadw'r gysefin oedd yr arfer gynt ar ôl y trefnol *ail*, 13.51, 68.9 *ail gŵr* ond cyfeirir yn Treigladau 43, 141–2 at yr arfer o dreiglo'r e.p. mewn ymadroddion genidol pan fydd *ail* yn gyfystyr â 'rhywun cyfartal (â)', ond gthg. 21.8 *Marw ail Gwalchmai a Rolant*, 22.11 *Ail Daniel o waed Einion*.
- 32 **oll-oll** Rhaid hollti'r ddwy elfen a'u hynganu yn annibynnol er mwyn osgoi'r bai crych a llyfn. Sylwer ar un o'r enghreifftiau a ddyfynnir yn GPC 2646 d.g. *oll* (er nad yw'r acen yn pennu'r ffurf yn yr enghraifft honno) *I'r llys hon mae'r holl synnwyr*, / *A llew Gwent oll oll a'i gŵyr*, gw. GGI<sup>2</sup> XLIX.45–6. Sylwer hefyd ar y bai crych a llyfn yn 11.41 o roi'r pwyslais yn y gair *wellwell* ar y goben, yn unol ag arfer y bardd, gw. yr Eirfa.
- 41 **oeswr** Gw. 3.40n.
- 46 Wrth ddilyn Llst 164, ceir ll. ac ynddi fai proest i'r odl. Ceir cynghanedd reolaidd o ddilyn y llsgrau. eraill gan mai *tai* sydd yn safle'r orffwysfa.
- 52 **Gwrgan** Tad yr Iestyn a roes ei enw i'r llwyth y perthynai Watgyn Lochwr iddo, gw. WG1 542.
- 58 **gorbwys** 'Baich eithafol' yma. Cynigir yr ystyrion 'pwys, dibyniaeth; gormod pwys' yn GPC 1462.

- 59 **Gwenllïan** Gwraig Watgyn, a merch Siôn Twrbil Gloff, gw. WG2 1733. Bu farw Gwenllïan yn 1558, gw. A. Leslie Evans, *The Story of Sker House* (Neath, 1956).
- 60 Cymerir mai *gwisg oerfraw* yw gwrthrych y f. *gwisg* yn ll. 59, ond ei fod yn gwrthsefyll treigladau am ei fod yn digwydd ar ddechrau'r ll. **Eurfron** Gw. y nodyn ar Degau, 9.26n.
- 67 **heta** Amrywiad ar (*e*)*heda*, ffurf 2 un.grch. y f. *ehedeg*, gw. GPC 1862, ond *ehedeg* ac *ehediad* yw'r ffurfiau sy'n digwydd yn 6.35–6. **Rhisiart** Etifedd Watgyn. Priododd ag Elisabeth, merch Syr Siors Mathau o Radur, gwrthrych cerdd 5. Yr oedd gan Risiart frawd, Tomas Lochwr, a ymsefydlodd yn Ninbych-y-pysgod.
- 69 **llai air** Ar y treigladau gw. 1.18n.  
**chwech wlad** Y gysefin fydd yn dilyn *chwe* fel arfer ond digwydd *chwech* pan fydd e. sy'n dechrau â llafariad yn dilyn y rhif., gw. Treigladau 134. Dyma arfer Lewys Morgannwg, gw. 2.9 *chwe llys* a 3.85, 24.64 *chwech oes*, ond y mae'r cyfuniad yma, *chwech* + e. sy'n treiglo yn feddal, yn bur anghyffredin.  
*n wreiddgoll.*
- 70 **rhandir** Yr ystyr 'rhan neu gyfran (yn enw. o dir, fel etifeddiaeth), treftadaeth', gw. GPC 3037, sy'n gweddu orau yn y cyd-destun.

## 14

Ceir ach Ieuan ap Dafydd yn WG1 302, 305; WG2 586, 588; LPMG 184: Ieuan Fychan ap Dafydd ap Siancyn ab Ieuan ap Hywel ap Gruffudd ap Rhys Fychan ap Rhys Foel ap Rhys Goch ... Einion ap Collwyn.

*Y mesurau*

- 1–32      7 englyn unodl union ac un englyn proest (llau. 17–20).  
 33–8      Pennill o chwe ll. yn proestio.  
 39–90     13 pennill ar fesur y gwawdodyn byr.

- 1 **Einion ... o Wynedd** Diau mai Einion ap Collwyn yw hwn. Olrheiniai nifer o deuluoedd Morgannwg eu hachau hyd ato, gan gynnwys Ieuan, ei wraig a'i fam. Yr oedd taid Einion, Tangno, yn arglwydd Eifionydd ac Ardudwy, a dygir i gof gyswllt Einion â'r rhan hon o Gymru yn yr englyn agoriadol, a gw. hefyd y disgrifiad yn L. Dwnn: HV ii, 63: *Einion ap Gollwyn goeg y gwr awleduchoedd y Morganwg ag a hanoedd o Wynedd*. Priododd Einion â merch Iestyn ap Gwrgant, gw. WG1 301.

- 5–8 Dwg y rhestru hwn ar feddau'r arwyr i gof y gyfres 'Englynion y

Beddau' yn Llyfr Du Caerfyrddin, gw. LIDC cerdd 18.

- 5 **Maelgwn Gwynedd** Brenin Gwynedd yn y 6g. a gorwyr Cunedda Wledig, gw. CLC<sup>2</sup> 485; WCD 438–42; TYP<sup>2</sup> 437–41.

**Cynan** Gan fod Lewys yn cyfosod marw Ieuan ap Dafydd a marwolaeth arwyr traddodiadol Gwynedd, cynigir mai tad Gruffudd ap Cynan, brenin Gwynedd, sydd dan sylw yn hytrach na Chynan Meiriadog, brawd Elen Luyddog yn chwedl 'Breuddwyd Maccsen', gw. TYP<sup>2</sup> 316–18; CLC<sup>2</sup> 145, neu Gynan Garwyn o Bowys, noddwr Taliesin, gw. TYP<sup>2</sup> 318–19; CLC<sup>2</sup> 145.

**durfael** *Dur* + *mael*, amrywiad ar *maels*, *maelys* 'arfwisg', gw. GPC 2305.

- 6 **Derfel** Sant a oedd yn enwog am ei wrhydri ar faes y gad, ac a adwaenid wrth yr enw Derfel Gadarn, gw. LBS ii, 333–6; WCD 192–3; GMRh 5.63n. Ar y traddodiad iddo gymryd rhan ym mrwydr Camlan, gw. GLGC 84.39–50. Iddo ef y cysegrwyd eglwys Llandderfel yn sir Feirionnydd.

**Brychan** Ar y sant a gysylltir â Brycheiniog ac a ymenwogodd ar gyfrif lluosogrwydd ei blant, a llawer o'r rheini yn saint, gw. LBS i, 303–21; WCD 64–7. Yn ôl traddodiad, fe'i ganed yng nghyffiniau Aberhonddu, yn fab i Marchell ac Anlach, y ddau o linach frenhinol. Agorir dau destun Llad. cynnar â'r datganiad mai Brychan a roes ei enw i'r ardal, gw. A.W. Wade-Evans, 'The Brychan Documents', Cy xix (1906), 18–50, a phriodol, felly, fod cywydd Siôn Cent i Frycheiniog yn agor trwy ei enwi, gw. IGE<sup>2</sup> LXXXIX.1–2.

- 9 **Cynfyn** Diau mai tad Bleddyn (ap Cynfyn), tywysog Powys, yw hwn, gw. HW 372, 378, ond nid oedd ganddo gyswllt â thywysogaeth y Deheubarth, ac nid oedd gan y cymeriadau eraill o'r un enw a enwir yn WCD 177–8 gyswllt â'r rhan hon o'r wlad ychwaith. Gellid goresgyn yr anhawster o aralleirio fel a ganlyn: 'Cwynfan Dyfed [oherwydd] marw Cynfyn.'

Bai dybryd sain, gw. J. Morris-Jones: CD 255–62.

- 13 **Garanir** Gwyddno Garanir y gorwedd ei diroedd yn ôl y gred draddodiadol dan donnau Bae Ceredigion, gw. TYP<sup>2</sup> 397–400; WCD 346–8. Cyfeiria Gwilym ab Ieuan Hen at hanes ei ryddhau gan Daliesin, gw. GDID XVI.27–38, a gwyddai Mathau Brwmffild am ei gyswllt â Cheredigion ac ag Elffin, gw. GMBR 20.21–2n.

- 16 **Tir Iarll** Yn Llangynwyd yng nghwmwd Tir Iarll yr oedd cartref Sioned, gwraig Ieuan.

17–18 Treiglir y gwrthrych yn dilyn ffurf 3 un.grff.myn. y f. yn ll. 17 (*a roes gwypm*) ond gwelir cystain flaen y gwrthrych yn caledu dan ddylanwad -s yn y ll. sy'n dilyn (*a dorres llwyn*). Am enghreifftiau

eraill o dreiglo ac o galedu yn y cyd-destun hwn, gw. 6.5n, 11.37n; Treigladau 216–17.

- 18 **Rhys llwyd** Yr oedd sawl Rhys ymhlith hynafiaid Ieuan, ond nid oedd yr un Rhys Llwyd yn eu plith. Diau, felly, mai a. yw *llwyd* yma, a cf. isod ll. 23 *ewythr llwyd*.
- 24 **ewythr** Disgynnai Lewys Morgannwg, fel Ieuan ap Dafydd, o Einion ap Collwyn. Yr oedd cyswllt arall rhwng y ddeuddyn. Priododd tad y bardd a thad Ieuan â gwraeged a hanai o Ddafydd ap Gronwy ab Owain Peldi.
- 28 **Llangewydd** Ym mhwyf Trelales yng nghantref y Castellnewydd ar Ogwr yr oedd cartref Ieuan, gw. WATU 166.
- 31 Chwe sillaf yn y ll. cyn ei diwygio. Darlleniad gwreiddiol Pen 99 oedd *bwrw ty hwnn oedd y brataav*.
- 32 **Bro a Blaenau** Ymranna Morgannwg yn ddwy ardal ac iddynt nodweddion daearyddol cyferbyniol, sef y gwastatir i'r de ar hyd yr arfordir (y Fro) a'r mynydd-dir i'r gogledd (y Blaenau), gw. GCH iii, 11–12.
- 36 **bodd** Gwrthodwyd darlleniad y llsgrau. gan fod yr odl broest *-udd* yn digwydd yn ll. 38, ond ni cheir yr odl broest *-odd* yn y pennill. Gwelir penillion eraill chwe ll. sy'n proestio yng nghanu'r bardd, gw. 1.13–18, 3.21–6, 10.33–8.
- 37 **parhaus** 'Dianwadal, dyfalbarhaus' os yw'r a. yn goleddfu *gŵr*, neu 'arhosol, bythol' o'i gysylltu â *cwyn galar*, gw. GPC 2690.
- 38 **Nudd** Y cymeriad a oedd yn enwog am ei haelioni, ac a restrid ymhlith y Tri Hael, gw. TYP<sup>2</sup> 476–7; CLC<sup>2</sup> 539–40. Ceisiais ddadansoddi'r dystiolaeth ynghylch y defnydd a wnaeth y beirdd o'r triawd yn 'Y Tri Hael: rhai ystadegau', *Dwned*, 8 (2002), 87–98. Nid enwir Rhydderch o gwbl yng nghanu Lewys Morgannwg ond digwydd 19 cyfeiriad at Nudd, Mordaf ac Ifor Hael o fewn cwmpas 95 cerdd ddefodol. Y mae'r cyfartaledd hwn (20%) yn cyfateb yn agos iawn i'r cyfartaledd yng nghanu cyfoeswyr megis Tudur Aled a Gruffudd Hiraethog (sef 19% a 23%). Unwaith yn unig yr enwir tri gŵr hael mewn un gerdd, ac mewn cywydd i Ddafydd Cemais y gwneir hynny, gw. cerdd 38. Yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed yn 'Y Tri Hael', y mae'n arwyddocaol fod dau o'r cyfeiriadau yn digwydd yn yr awdl farwnad i Robert ap Rhys a bod cyfeiriad pellach mewn cywydd i'w fab, gw. cerddi 80–1.
- 39 **cyniseifiad** Ffurf l. *cyfnesaf* 'perthynas agos, câr', gw. GPC 703–4. Am enghraifft arall o'r ffurf, gw. GSH 3.87.
- 41 **Sioned** Gweddw Ieuan, a merch Tomas ap Hywel o Langynwyd, gw. WG2 583.

- 49 **mudiaid** Sonnir yn y pennill am garedigrwydd Ieuan tuag at y sawl nad oedd yn iach, a chrybwyllir yr ynfydiaid, y deilliaid a'r efryddiaid. Diau mai ffurf l. *mud* 'dileferydd' yw *mudiaid*, gw. GPC 2499, ond nid amhriodol yr ystyr 'un sy'n mudo, teithiwr' (er mai 'symudiaid; ymfudiaid' yw ystyron y ffurf un. *mudiad* yn GPC 2500; perthyn yr enghraifft gynharaf i'r 17g.). Yr oedd rhoi llety i'r teithiwr yn un o saith weithred y drugaredd.
- 51 *n wreiddgoll*.
- 54 **pob dri** Treiglir y rhif. yn dilyn y geiryn *pob* i gyfleu'r ystyr 'pob yn dri', gw. Treigladau 145–6.
- 55 **mwy boen** Ar y treiglad gw. 1.18n, ond gthg. ll. 63 *llai gwaed*.
- 58 **moliannwr** I'r 16g. y perthyn yr enghreifftiau cynharaf a gofnodir yn GPC 2481.
- 60 **Brychandir** Diogelwyd enwau hynafiaid Ieuan wrth ddilyn yr ach o dad i dad, ond bylchog yw'r ach ar ochr y merched. Efallai i un o'i hynafiaid briodi â gwraig ac iddi gyswllt â sir Frycheiniog, gw. 14.6n.
- 61 **Llawir** Gellid cadw darlenniad y llsgrau. a rhannu'r ddwy elfen: 'aeth llonaid tŷ i'r bedd newydd', ond cynigir mai'r e.p. *Llawir* sydd yma, sef Cadwallon Lawir. Yn ôl yr achau, ef oedd wŷr Cunedda a thad Maelgwn Gwynedd, gw. TYP<sup>2</sup> 296–7; WCD 83–4; hefyd 55.17n isod.
- 65 **y Bach** Priododd Dafydd ap Siancyn â merch Dafydd Fychan ap Dafydd ... Ifor ap Gruffudd, gw. WG1 316–17, ac yr oedd gwraig Ifor yn un o ddisgynyddion Y Bach ap Gwaithfoed, gw. WG1 474.
- haid ar Ionawr** Byddai'r gwenyn yn cysgu dros y gaeaf, ac felly cyffelybir ceraint a chydabod Ieuan yn eu diymadferthedd i haid o wenyn. Byddai'r sawl a fyddai'n cadw gwenyn yn sicrhau eu bod yn ddiddos dros y gaeaf, gw. Eva Crane, *The Archaeology of Beekeeping* (London, 1983), 171–6. 'Symud dy wenyn' yw un o'r cyfarwyddiadau a gynigir i'r amaethwr yn yr adran ar fis Ionawr yn *Yny Lhyvyr Hwnn*, gw. *Yny Lhyvyr hwnn* gol. John H. Davies (Bangor, 1902). Rhoddid pris ar wenyn yn y cyfreithiau, gw. DrOC 163–5, a chyfrifid yr haid o wenyn ymhlith y naw helwriaeth, gw. Iorwerth C. Peate, 'Y naw helwriaeth', B vi (1931–3), 301–12.
- 69 **Llŷr** Gan fod Lewys Morgannwg yn gyfarwydd â'r hanes a adroddodd Sieffre o Fynwy, gellid tybio mai tad y merched, Goronilla, Ragaw a Cordeilla, a sefydlydd dinas Caer-lŷr, sydd dan sylw, gw. BD 26–7, yn hytrach na thad Manawydan, Brân a Branwen, gw. TYP<sup>2</sup> 427–9.
- 72 **Ysgotiaid** Ymddengys fod Ieuan a Syr Tomas Gamais, gwrthrych

cerdd 8, yn gyfoedion; priododd mab Ieuan â merch Tomas. Gwyddys i'r olaf ymuno â'r cyrch yn erbyn Ffrainc yn 1513, ac ar sail y cyfeiriad hwn, tybed a fu i Ieuan gymryd rhan yn y brwydro yn yr Alban yn wythdegau'r 15g. fel Syr Rhys ap Tomas a Hywel Penri, daw filwr arall a farwnadwyd gan Lewys Morgannwg, gw. nodyn brig cerdd 60?

- 73 **Gwrthefyr Fendigaid** Y brenin a fu'n ymladd yn erbyn y Saeson ac a wenwynwyd trwy ddichell Rhonwen, gw. BD 97–8; TYP<sup>2</sup> 386–8; WCD 321–2.
- 74 **tair ynys** *Teir Ynys Prydein: Lloegyr a Chymry a'r Alban*, gw. TYP<sup>2</sup> 228.
- 79 Y ll. sillaf yn fyr fel y'i ceir yn llsgrau. AB, a'r gynghanedd yn wallus gan fod *fry* yn ateb *Ffraid* yn safle'r acen. Ceisiwyd diwygio'r ll. yn C, ac eir gam ymhellach yma trwy gynnig y darlleniad *San Ffraid* er bod *n* berfeddgoll yn y ll. ar ei newydd wedd, ond tybed a fyddai *Sa' Ffraid* yn ddichonadwy? (Darlleniad arall y gellid ei ystyried fyddai *i gŵyr San Ffraid*). Nid nepell o Langewydd yr oedd dwy eglwys wedi eu cysegru i'r santes hon, sef Llansanffraid-ar-Ogwr a Saint-y-brid, gw. WATU 193, a dichon mai i'r naill neu'r llall y dycpwyd Ieuan i'w gladdu.
- 81 **duwoliaeth** Amrywiad ar *duwiolaeth*, *duwoliaeth* 'duwioledeb, crefyddoldeb', gw. GPC 1102.  
Ll. arall sy'n cynnwys odl gudd.
- 82 *n* berfeddgoll.
- 88 *n* wreiddgoll.

## 15

Mab Hywel ap Siôn ap Hywel ... Yn yr Gwent oedd Syr Edward Carn, gw. WG2 1765. Graddiodd yn ddoethur yn y gyfraith ganon yn 1524, ond daeth i amlygrwydd pan oedd Harri VIII yn ceisio profi bod ei briodas â Catherine o Aragon yn anghyfreithlon. Dechreuodd yr achos yn erbyn y frenhines ym mis Mehefin 1529, ond apeliodd Catherine at y pab Clement gan wneud cais am i'r achos gael ei drosglwyddo i Rufain. Yr oedd Edward Carn yn un o'r rhai a anfonwyd i Rufain y flwyddyn ganlynol i gynrychioli'r brenin. Ymddengys fod disgwyl iddo lesteirio'r proses cyfreithiol a sicrhau'r hawl i farnu'r achos yn Lloegr. Llwyddodd i gyflawni'r nod cyntaf; aeth misoedd heibio wrth i'r naill lys a'r llall ystyried statws cyfreithiol Edward Carn a'i hawl i gynrychioli'r brenin absennol Harri VIII, ond ni lwyddwyd i gyflawni'r ail amcan. Trafodir yr achos a'i gefndir (a'r cyfrifoldeb enfawr a roddwyd ar ysgwyddau Edward Carn) yn J.J. Scarisbrick, *Henry VIII* (Yale,



1997), penodau 8–9. Gw. hefyd ByCy 61–2; DNB ix, 134–5.

Barnai E.J. Saunders i Lewys ganu'r cywydd dan sylw yn ystod yr ymweliad hwn â Rhufain, gw. Lewys Morgannwg: Gw 842. Diau fod Lewys yn dwyn i gof ddigwyddiadau 1530 yn llau. 13–22, ond cynigir mai ar achlysur diweddarach y canwyd y cywydd. Yr oedd Edward Carn yn aelod o ddirprwyaeth a anfonodd y frenhines Mari i Rufain yn 1555 i gydnabod awdurdod y pab. Dychwelodd yr aelodau eraill ond arhosodd Edward yn Rhufain. Wedi marw Mari a dyrchafu Elisabeth yn frenhines, gwnaeth gais am gael dychwelyd i Brydain am ei fod yn heneiddio ac am y dymunai weld ei wraig a'i blant. Gwrthododd y pab ganiatáu iddo adael Rhufain—y mae lle i gredu ei fod yn gweithredu yn unol â dymuniad Edward ei hun—ac yn Rhufain y diweddodd ei ddyddiau.

Y mae sawl ystyriaeth yn peri tybio mai yn ystod teyrnasiad Mari (1553–8) y canwyd y cywydd. Yn gyntaf, nid oedd Edward wedi ei urddo yn farchog yn 1530. Yn ôl DNB, fe'i hurddwyd yn farchog gan yr ymherodr Siarl V tua 1540, ond ymddengys i'r brenin Harri VIII ei urddo tua 1538, gw. KE ii, 52, er mai i'r flwyddyn 1540 y perthyn y cyfeiriad cyntaf a welais at Syr Edward Carn ym mhapurau'r goron, gw. LPFD xv, cofnod 828; KWLC 522. Yn ail, yn 1536 y daeth priordy Ewenni yn eiddo iddo (gw. llau. 33, 54). Yn drydydd, gwelir isod (ll. 34) mai yn y flwyddyn 1537 y cafodd Edward hawl i briodi Ann, gweddw Syr Siôn Rhaglan. Yn olaf, crybwyllir y frenhines a'r prins yn llau. 9–11. Er bod Lewys ar brydiau yn arfer y gair *pryns* wrth gyfarch y goron, rhyfedd fuasai iddo alw Harri VIII yn brins a'r wraig yr oedd yn dymuno ei hysgaru yn frenhines. Ar y llaw arall, priodol fuasai galw Mari yn frenhines (a rhoi'r flaenoriaeth iddi hi) a'r gŵr a briododd ym mis Gorffennaf 1554, Ffyllib o Sbaen, yn brins.

Collwyd dechrau'r cywydd yn Card 2.630 [= Hafod 20] am fod dalen yn eisiau yn y llawysgrif Ni sylweddolodd copiwr BL Add 31090 fod dalen yn eisiau a chyplysodd ddiwedd y cywydd hwn wrth ddechrau cywydd arall o waith yr un bardd, sef y cywydd i Ann Bwlen, cerdd 96.

2 **legad** 'Gŵr eglwysig sy'n cynrychioli'r Pab y tu allan i Rufain, llysgennad (y Pab), dirprwy, cynrychiolydd swyddogol', gw. GPC 2058.

3–4 Nid yw'r gystrawen yn eglur. Gellid naill ai 'Aeth y marchog uwch gwŷr mawr eu parch tir Rhufain' neu 'Aeth y marchog [i] dir Rhufain [ac] uwch gwŷr mawr eu parch.'

7 *n* berfeddgoll.

8 **tros Lloegr** Y mae *troes Lloegr* a welir yn y rhan fwyaf o'r llsgrau, yn ramadegol gywir, er na rydd gystal synnwyr. Ond cedwir *tros Lloegr* gan fod y bardd yn cadw'r gysefin yn dilyn yr ardd. *tros* ar achlysuron eraill, gw. 11.37n.

- 17 **odidog** Amrywiad ar *godidog*, gw. GPC 1421. Gellid yr ail yma ond y cyntaf a welir yn 93.46. Rhestrwyd yr holl enghreifftiau yn yr Eirfa o dan *odidog*.
- 18 **cof** Diau mai'r ystyr sy'n ymhyg yn yr ymadrodd 'Tri Chof Ynys Prydain' a gyfleir yma, sef 'dysg [farddol], gwybodaeth, ffrwyth hyfforddiant'.
- 19 **araf** 'Pwylllog', gw. GPC 175 a'r dyfyniad yno (o *Oll Synnwyr Pen*) *Atteb araf can ddyscedic*.
- 23–4 **Saith ... doethion ... / ... Rhufain** Ceir yr un fformiwla gan Lewys Daron mewn marwnad i Faredudd ab Ieuan (a fu, yn ôl tystiolaeth y bardd, ar bererindod i Rufain), gw. GLD 21.81–2 *Saith rinwedd, Seithwyr, yno, / Ac yn wyth fyth y gwnaeth fo*, a chan Dudur Aled mewn cywydd i'r esgob Dafydd ab Owain, gw. TA XVI.41–6, a thrachefn wrth gyfarch Dafydd Llwyd, abad Glyn-y-groes, gw. TA XXVIII.67–70. O'r Dwyrain y tarddodd y chwedl am y Saith Doethion yn wreiddiol, ond buan y daeth yn adnabyddus yn holl wledydd y Gorllewin. Digwydd y testun Cymraeg mewn tair llsgr., y tair yn gysylltiedig â Morgannwg, a'r gynharaf yn perthyn i ganol y 14g., gw. *Chwedleu Seith Doethon Rufein* gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1967).
- 28 **yr Eidial** Dilynwyd darlenniad yr holl lsgrau. Am enghraifft arall o'r ffurf, gw. GPB 7.28.
- 30 *n wreiddgoll*.
- 33 **'Wenni** Priordy Benedictaidd a feddiannwyd gan y goron 28 Chwefror 1536. Cafodd Edward Carn les ar y priordy a'r tiroedd am ddeng mlynedd yn y lle cyntaf, ond llwyddodd i brynu'r cyfan yn 1545 am #727:6:4, gw. *Saints and Sailing Ships*, ed. Stewart Williams (Cowbridge, 1962), 64–77, 105. Diogelir y weithred sy'n tystio i'r cytundeb prynu yn Archifdy Morgannwg.
- 34 **Ann** Ei wraig, a merch Syr William Dennis o swydd Gaerloyw. Am rai ffeithiau amdano, gw. T.B. Pugh, *The Marcher Lordships of South Wales 1415–1536* (Cardiff, 1963), 290. Syr Siôn Rhaglan oedd gŵr cyntaf Ann, a chyferchir hi yn y farwnad a ganodd Lewys iddo, gw. 24.55–66. Bu farw Siôn tua 1531, ac estynnwyd hawl i Edward Carn briodi Ann ym mis Mawrth 1537, gw. KWL 292.
- 36 **Mair** Gwelir mai anghyson iawn yw darlenniad y llsgrau.
- 39–46 Trafodir 'gweddi' Lewys yn 17.51–68n.
- 44 *f led-lafarog*.
- 47–8 **Moesen / ... Pharo** Adroddir hanes Moses yn ffoi o'r Aifft trwy'r Môr Coch yn Ecs 14.

## 16

Ceir ach Crystor Twrbil yn WG1 922–3; WG2 1733; LPMG 452–8 fel a ganlyn: Crystor ap Siancyn ap Rhisiart ap Siancyn ap Gilbert ap Tomcyn. Ar sail y cwpled agoriadol a'r cynghorion a gynigir yn ail ran y gerdd, gellid tybio mai gŵr ifanc ydoedd pan gyfarchodd Lewys ef, a chan mai amser presennol y ferf a ddefnyddir yn ll. 59, dichon ddarfod llunio'r cywydd yn ystod oes ei rieni (ond rhaid derbyn hefyd y gallai *rhieni* gyfeirio at hynafiaid y gwrthrych).

Bu farw Siancyn Twrbil rywbryd cyn Chwefror 1531. Y mis hwnnw, rhoddwyd ei eiddo dan ofal James Hadley, brawd yng nghyfraith ei briod, gan nad oedd yr etifedd, Crystor, wedi cyrraedd oedran gŵr, gw. LPFD v, cofnod 119.42. (Alis, merch Crystor Mathau, oedd gwraig Siancyn. Priodasai ei chwaer hi â James Hadley. Trwy ryw amryfusedd, gelwir tad Crystor yn Siôn yn hytrach nag yn Siancyn yn y cofnod.)

Bu cryn gynnen rhwng dwy gangen o'r tylwyth yn ystod y dauddegau a'r tridegau, a daeth yr helyntion i glyw John Leland, gw. IWJL 32. Siôn Twrbil Gloff oedd mab hynaf Rhisiart Twrbil, ond nid oedd ganddo fab cyfreithlon i'w olyn, a'i ferch, Gwenllïan, a etifeddodd o ganlyniad. Wedi marw ei thad yn 1527, hawliodd Crystor gastell Pen-llin, gw. *Saints and Sailing Ships*, ed. Stewart Williams (Cowbridge, 1962), 90–8. Y mae'n amlwg i'r weithred hon godi gwrychyn Watgyn Llychwr, gŵr Gwenllïan (a gwrthrych cerdd 13). Yn 1535, cyffesodd Robert Stradling iddo ochri gyda Watgyn, ei dad yng nghyfraith, ddwy flynedd ynghynt, iddo ladd gŵr o'r enw Guto Siancyn wedi i'r ddau ohonynt ddechrau dadlau ynghylch tiroedd y Twrbiliaid, ac iddo ffoi i Iwerddon wedi hynny, gw. LPFD ix, cofnod 465.

Yn 1543, cafodd Thomas Cromwell sêl bendith y goron i werthu i Grystor dir y Sgêr a fuasai yn wreiddiol yn eiddo i abaty Nedd, gw. LPFD xviii/i, cofnod 474.11. Y mae lle i gredu mai Crystor a ddechreuodd godi'r tŷ yr erys ei adfeilion hyd heddiw, gw. GCH iv, 210; John Newman, *The Buildings of Wales: Glamorgan* (London, 1995), 571–2. Yn Ionawr 1545, penodwyd Crystor yn siedwr Morgannwg, gw. LPFD xx/i, cofnod 125.3, a chafodd siryfiaeth Morgannwg yn 1550 a 1569. Eisteddai ar y fainc yn 1543 ond âi ugain mlynedd heibio cyn y gwelid ei enw nesaf ymhlith ustusiaid ei sir, gw. JPWM 285–8.

- 1 **llawfaeth** Yn ogystal â'r ystyron 'a fwydir ac a fegir â'r llaw, dof', cynigir yn betrus yn GPC 2110 yr ystyron 'hydrin, addfwyn'. Gweddai'r ddwy olaf yn y cyd-destun gan fod y bardd yn cyfodod llarieidd-dra a ffyrnigrwydd y noddwr.
- 5 **tri Siancyn** Enwyd dau yn y nodyn brig uchod. Priododd Rhisiart ap Siancyn â Marged, merch Siôn ap Rhys ap Siancyn o Aberpergwm yng Nglyn-nedd ... Einion ap Collwyn, gw. WG1 311;

WG2 608.

- 6 **plât** ‘Arfbais’, gw. GPC 2820–1 ac OED<sup>2</sup> xi, 995 d.g. *plate*: ‘One of the thin pieces of steel or iron composing plate armour. Armour composed of these pieces fastened together’.

Cyfatebiaeth st = -st t-.

- 9 **eryr** Yr arwyddlun ar frig arfbais y teulu, gw. DWH ii, 559.

**a phaen** Cyffelybir Crystor i dri aderyn, i’r gwalch, y gosawg a’r eryr (llau. 7–9), a diwygiwyd *ffyhaen* y llsgrau. er mwyn ychwanegu un aderyn arall at y rhestr, er bod yr olaf yn bur wahanol o ran ei gyneddffau. Y mae’n bosibl hefyd fod y bardd yn chwarae ar yr e.p. Paen Twrbil, un o gyndeidiau enwog Crystor, arglwydd y Coety a siryf Morgannwg yn ystod gwrthryfel Llywelyn Bren, gw. GCH iii, 72–86. Fe’i henwir yn y canu i Syr Tomas Gamais a’i wraig, gw. 8.25n, 9.1. Gelwir Tomas Gamais hefyd yn *tarw Ffuen*, gw. 8.18n, ac awgrymwyd y gall mai ffurf ar Fitz Payne yw *Ffuen*. Gellid adfer darlleniad y llsgrau. yn y ll. hon o dderbyn bod *Ffyhaen* yn ffurf ar yr un enw.

- 10 **pryns yr Almaen** Gw. 11.10n.

- 11 **dros lladdiad** Yr oedd Siancyn ap Siancyn ap Gilbert, ewythr Siancyn ap Rhisiart, yn briod â Denys, merch Watgyn Fychan o Frodorrdyn a laddwyd â saeth yn Henffordd yn 1456. Am gyfeiriad arall at y digwyddiad, gw. 13.5n. Am enghraifft arall o gadw’r gysefin *ll* yn dilyn yr ardd. *dros*, gw. 15.8n.

- 14 **Penllin** Gw. y nodyn brig a 16.16n.

- 16 **Lleision** Catrin, merch Tomas ab Ieuan ap Lleision, oedd gwraig Gilbert Twrbil, gw. WG1 548.

**Aron** Gwraig gyntaf Siancyn ap Rhisiart oedd Alis, merch Crystor Mathau, gw. WG2 872 a’r nodyn brig. Yr oedd gwraig Crystor Mathau yn ferch i Wiliam Morgan ap Siancyn ... Bledri ap Cydifor Fawr, gw. WG1 187, 200–1. Yr oedd Syr Aron, wŷr i’r Bledri hwn, yn un o Farchogion y Bedd ac fe’i henwir drachefn yn 71.20. Gw. hefyd 4.52n lle yr enwir Aron arall ymhlith aelodau cangen arall o’r Matheuaid.

**Norres** Gwenllïan, merch Siôn Norris o Ben-llin, oedd gwraig Tomcyn Twrbil.

- 19–20 **Einion ... / ... Glyn-nedd** Einion ap Collwyn, gw. 16.5n.

- 21–2 **Gwilym ... / ... Einion Sais** Hynafiaid Cecily, gwraig Siancyn ap Gilbert, gw. WG1 102; WG2 207.

- 29 **ewythr** Diau mai Watgyn Fychan o Frodorrdyn sydd dan sylw, sef ewythr ei dad, gw. 16.11n.

- 30 Cynghanedd wallus, a chyfatebiaeth ch = th. Ceisiodd Llywelyn Siôn gywiro'r gynhanedd trwy gyfnewid ffurf 2 ll. y rh. am ffurf 2 un. mewn dau destun, ond diau mai'r darlleniad a gynigir sy'n gweddu orau o ran sain a synnwyr; wedi'r cwbl ailadroddir yn nau hanner y ll. yr un gyfres o gytseiniaid, sef b.ch.th (ond nid yn yr un drefn).  
*n wreiddgoll a thrachefn yn llau. 36, 52, 60.*
- 35 Dilynwyd y llsgrau. trwy gadw *bwy* yn hytrach na'i ddiwygio > *pwy*. Yr olaf sy'n digwydd fynychaf yn y canu, ond y mae'n arwyddocaol fod GPC 2947 yn galw sylw at enghreifftiau o *bwy* yng ngwaith dau o feirdd Morgannwg, sef Gwilym Tew a Dafydd Benwyn. Digwydd y gyfatebiaeth b = (m)p yn 27.54 *Ba gorff â mwy gampau gŵr*, ond gthg. y gyfatebiaeth p = (m)p yn 49.28 *Pai act, ar gamp, Ector Gwent*.
- 61 **rhannu'r tir** Siôn Twrbil Goch oedd etifedd Rhisiart ap Siancyn, gw. y nodyn brig, a chyfran fechan o'r eiddo teuluol a ddaeth i feddiant Siancyn, tad Crystor.
- 72 Sylwer mai *dyn odidawg* a geir yn yr holl lsgrau., a gallai hynny fod yn ymgais i gyfleu'r sain *dyn yn odidawg* (*Duw'n d'adael, dyn, yn odidawg*), ond tebycach mai'r darlleniad a fabwysiadwyd sy'n gywir, ac i hwnnw gael ei gamddeall, naill ai wrth gopïo testun ysgrifenedig neu wrth godi'r testun o ffynhonnell lafar am y waith gyntaf.

## 17

Cywydd moliant i Syr Rhys Mawnsel o Oxwich, a mab Siancyn ap Ffyllib ap Siôn ap Rhisiart, gw. WG2 1257. Yr oedd wedi ei urddo yn farchog erbyn 1526, gw. KWL 293. Pan hawliodd Harri VIII diroedd y mynachlogydd, prynodd Rhys abaty Margam ac ymsefydlu yno, gw. ByCy 575–6; Glanmor Williams, 'Rice Mansell of Oxwich and Margam (1487–1559)', *Morgannwg*, vi (1962), 33–51; *id.*, 'Diwedd a dechrau: Margam a'r Mawnseliaid', YB xxv (Dinbych, 1999), 41–60. Gwelir beddgist sy'n coffáu Rhys a'i drydedd wraig yn eglwys yr abaty, gw. John Newman, *The Buildings of Wales: Glamorgan* (London, 1995), 421–31.

Bu Syr Rhys yn brwydro yn yr Alban rhwng 1542–5, gw. J. Gwynfor Jones, 'Reflections on concepts of nobility in Glamorgan, c. 1540–1640', *Morgannwg*, xxv (1981), 11–12, ond rhaid gwrthod yr awgrym mai ei gampau yn y wlad honno yw deunydd y gerdd dan sylw. Canwyd y cywydd hwn rhwng mis Mawrth 1535 a diwedd y flwyddyn honno. Ym mis Hydref 1534 anfonwyd llu enfawr i Iwerddon o dan arweiniad Syr William Skeffington yn dilyn gwrthryfel mab Gearóid Óg, nawfed iarll Cildâr. Ar

gefndir y gwrthryfel, a rôl ieirll Cildâr ym mywyd cyhoeddus Iwerddon yn ail hanner y bymthegfed ganrif a degawdau cynnar yr unfed ganrif ar bymtheg, gw. Margaret MacCurtain, *Tudor and Stuart Ireland* (Dublin, 1972), pennod 1; Art Cosgrove, *Late Medieval Ireland, 1370–1541* (Dublin, 1981), penodau 6–7. Erbyn mis Mawrth 1535, llwyddasai'r fyddin Seisnig, gyda chymorth Syr Rhys Mawnsel (gw. llau. 29–30) i gipio castell Ma Nuad (Maynooth), canolfan y gwrthryfelwyr. Dychwelodd Syr Rhys i Gymru tua diwedd 1535 neu ddechrau 1536. Canodd Lewys i noddwr arall a fu'n brwydro yn Iwerddon tua'r un adeg, gw. cerdd 78.

Wrth ddeisyf gweld Syr Edward Carn yn dychwelyd yn ddiogel o Rufain (gw. cerdd 15), rhoes Lewys Morgannwg fynegiant i safbwynt y wraig hiraethus. Ni chyfeirir at wraig Syr Rhys yn y cywydd hwn, ond diogelwyd llythyron a ysgrifennodd hi at Thomas Cromwell yn ei annog i ganiatáu i'w gŵr gael dychwelyd i'w gartref ac at ei deulu yn ddiymdroi.

Cyhoeddwyd testun o'r cywydd yn GLIA cerdd XV.

- 1 **Dulyn** Yr oedd dwy eglwys gadeiriol yn Nulyn, a'r ddwy wedi eu sefydlu cyn dyfodiad y Normaniaid, gw. NCE iv, 1076–8. Cysegrwyd un i Sant Patrig, nawddsant Iwerddon. Gwyddai Iolo Goch am glochdy'r eglwys honno, a chyfeiria ato yn ei gywydd i lys Owain Glyndŵr yn Sycharth, gw. GIG X.29n. Gw. hefyd GLGC 41.9–10, 151.29–32.
- 2 **[y] Grog wyn** Digwydd yr un ymadrodd yn TA LXV.99 *Y grôg wyn, gwyarog wallt*, a cf. ymhellach 1.93n y *Grog gwyarog*.
- 3–4 Nid yw'r testun yn un dibynadwy a bu'n rhaid diwygio sawl ymadrodd. Nid yw rhediad y cwpled hwn yn eglur—diau mai camgopïo neu ddiffyg yn y gynsail sy'n esbonio'r ddau air *sef* a *saf* nad yw eu harwyddocâd yn amlwg yn y cyd-destun—ond anodd gweld hefyd sut y mae gwella'r ystyr. Un posibilrwydd fyddai diwygio > *Safaf, archaf dros farchog*.
- 8 **capten well** Ar y treigladd, gw. 1.43n.
- 13 **pil** Cynigir yr ystyr 'maen gwms' yn Lewys Morgannwg: Gw 973 gan farnu ei fod yn tarddu o'r S. *pill* 'cannon-ball', gw. OED<sup>2</sup> xi, 830–1 (ond perthyn yr enghraifft gynharaf i c. 1626). Tebycach mai 'haenen allanol; dilledyn' yw'r ystyr, gw. GPC 2802 a 2804–5 (d.g. *pil*<sup>1</sup>, *pilyn*<sup>1</sup>). Ar arwyddocâd y gair yn y cyd-destun arbennig hwn, gw. 17.31n. Ystyr arall bosibl yw 'ffos neu nant y daw'r llanw hyd-ddi', gw. GPC 2802 d.g. *pil*<sup>3</sup>.
- 15 **dyrys** Cynigir yr ystyron 'gwyllt (o foes neu ymarweddiad), anhydrin, afreolus, trofaus' yn GPC 1147–8, ac y mae hynny yn gyson â'r modd y darlunnir y Gwyddelod yn y gerdd, gw. 17.19n.
- 18 *n wreiddgoll*.

- 19 **tir gwyllt** A gw. ymhellach l. 37 *Ynfydion Iwerddon wyllt*. Cyfetyb y disgrifiad i'r modd y syniai'r goron am y Gwyddelod.
- 20 **ar foliau** 'Cod o ledr neu o groen' yw un o ystyron *bol*, gw. GPC 296. Tybed a oes yma awgrym o hanes y Gwyddelod arfog yn cuddio yn y codau yn ail gainc y Mabinogi ac Efnisien yn eu canfod ac yn eu lladd? Enwir Llŷr Llediaith a Branwen mewn cywydd i ŵr arall a anfonwyd i wastrodi'r Gwyddyl, gw. 78.43.
- 25–6 Yn ôl Syr William Skeffington, 'Sir Rice Mansel with his band ... has done right good exploits and acceptable service', gw. Glanmor Williams, 'Rice Mansell of Oxwich and Margam (1487–1559)', *Morgannwg*, vi (1962), 39.
- 28 **Gareth hen** Gellid tybio mai Gearóid Mór (1456–1513), wythfed Iarll Cildâr, a ffigwr canolog ym mywyd cyhoeddus Iwerddon yn ystod deng mlynedd ar hugain olaf ei oes, yw'r Gareth a enwir, ond gallai fod yn gyfeiriad at ei fab, Gearóid Óg, y nawfed iarll, gw. *The Oxford Companion to Irish History*, ed. S.J. Connolly (Oxford, 1998), 284–5. Ar un ystyr chwithig fyddai galw'r mab yn 'hen' gan mai ystyr *óg* yw 'ifanc', ond diau na ddeallai'r bardd arwyddocâd yr enwau Gwyddeleg. (Carwn gydnabod y cymorth a dderbynais gan yr Athro G.A. Williams wrth lunio'r nodyn hwn.)
- 30 **Minwth** Gw. y nodyn brig.
- 31 **gewri** Amrywiad ar *gawri*, *gowri* 'bloeddio, llefain', gw. GPC 1386. I ganol yr 16g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a ddyfynnir.
- gwŷr y mentyll** Gwisg draddodiadol y Gwyddyl. 'The cloaks which were worn by all classes of society, both men and women, were the traditional Irish mantles. The great lords favoured a hooded version of the cloak, covering a tunic which stretched as far as the knee and which was "very décolleté after the manner of women"', gw. Art Cosgrove, *Late Medieval Ireland, 1370–1541* (Dublin, 1981), 73.
- 33–5 **Cildâr ... / ... / Rhout Areth** Yr oedd Gearóid Óg yn Llundain pan ddechreuodd y gwrthryfel, ac ymddengys mai ei fab, Silken Thomas, arweinydd y gwrthryfel, a olygir yma. Fe'i daliwyd, a'i anfon i Lundain, ac fe'i dienyddiwyd, ynghyd â phump o'i ewythredd, ym mis bach 1537, gw. *The Oxford Companion to Irish History*, ed. S.J. Connolly (Oxford, 1998), 286.
- 37 **ynfydion Iwerddon wyllt** Yr oedd 'wild Irishmen' yn enw a ddefnyddid yn fynych gan y Saeson ac eraill wrth gyfeirio at drigolion yr Ynys Werdd, gw. Art Cosgrove, *op.cit.* 74.
- 42 **cwncwerwr** Cyfeiriad, o bosibl, at y Nawyr Teilwng, gw. 1.47n. Yr oedd Iwl Cesar (gw. ll. 48) a Siarls (gw. ll. 50) yn eu plith.

- 45 **Mercwrius** Duw masnach yng ngolwg y Rhufeiniaid, yn cyfateb i'r duw Groegaidd Hermes. Fe'i cysylltid hefyd â symudiad neu newid; ef a gyfathrebai rhwng y duwiau a'r meidrolion a rhwng y byw a'r marw, gw. OCD<sup>3</sup> 962; OCCL 356. Ailadroddir y disgrifiad ohono a'i darian asur yn 76.65–8 *Mercurius ... Fe ddôl y gŵr ... Ag arf las ... Ym mrwydr maes ...* Y mae'n amlwg fod Lewys yn tynnu ar draddodiadau am Fercher a oedd yn hysbys yn yr 16g.
- 48 **Angau Glas** Cleddyf Iwl Cesar. Fe'i hadwaenid hefyd wrth yr enw 'Angau Coch', gw. GIG XI.41–2n.
- 49 **llurug** Rhestrir y ffurfiau *llurug* a *llurig* yn GPC 2229–30. Mabwysiadwyd y flaenaf er mwyn yr odl. Gellid gwella'r ystyr, o bosibl, trwy ddiwygio > *Llurug, yr hug nis arhont* 'ni fydd gwŷr y mentyll yn aros [i wynebu] llurig [Syr Rhys]'.
- 50 **Siarls** Ffurf arall ar yr e. 'Siarlymaen', gw. 7.64n.
- 51–68 Cyffredin gynt oedd swynion rhag clefydau ac anhwylderau, a gweddïau yn deisyf nawdd ac amddiffyniad Duw a'r saint rhag peryglon o bob math, ac ymddengys fod Lewys yma yn adleisio yr un arfer fel y gwna ar ddau achlysur arall, cf. 15.39–46, 42.49–56. Trafodir rhai o'r swynion a'r gweddïau gan B.F. Roberts, 'Rhaid swynion Cymraeg', B xxi (1964–6), 198–213. Ymdrinnir yn *ib.* ag arwyddocâd y gair *llurig* yng nghyd-destun y swynion, a digwydd y gair hwnnw yn y ll. sy'n agor 'gweddi' Lewys. Dewisodd y bardd arfer dau air arall sy'n cyfleu'r un syniad yn y cerddi eraill, sef *maen mur*, gw. 15.39 *Bid Duw 'n ei flaen fal maen mur*, a *curas*, gw. 42.51 *A'n llef ar saint nefyt a wnaeth curas*.
- 51 **dail** Gellir ei ddehongli mewn dwy ffordd ar sail yr ystyron a gynigir yn GPC 879. Naill ai i. 'addurn o ddail' [ar yr arfwisg]; neu ii. 'metel wedi ei forthwyllo'n denau', ac yn ffigurol, 'arfwisg', cf. *plât* yn 16.6n, ond i ddechrau'r 17g. y perthyn yr enghraifft gyntaf sy'n cyfleu'r ystyr hon. Gellid hefyd 3 un.pres.myn. y f. *dal* 'deil [Duw was] irwych'.
- 54 **rhag geri ynn** Rhaid oedd diwygio darlenniad y llsg. gan fod y gynghanedd yn ddiffygiol—yr oedd galw am gytsain galed i ateb *c* y rhan gyntaf—ac am fod y ll. yn ymddangos yn llwgr. Cynigiwyd yn nhestun GLIA *rhag gori hyn*. Gweddai'r ystyr 'eistedd ar wyau (am aderyn), deor; crawni, madru', gw. GPC 1460, ond dewiswyd *geri* a'i ystyron ffigurol 'chwerwedd, surni', gw. GPC 1394.
- 56 **gwns** Ffurf l. *gwn*, gw. GPC 1687, a cf. hefyd ll. 62 *maen o wal* a ll. 63 *gwn llaw*. Am drafodaeth ar y defnydd a wnaed o'r gwn wrth ymladd, gw. Dylan F. Evans, '“Y carl a'i trawai o'r cudd”: ergyd y gwn ar y Cywyddwyr', *Dwned*, 4 (1998), 75–105.



69 *n wreiddgoll.*

18

Awdl farwnad Morys Sainsion a fu farw, fel Siôn Gamais, gwrthrych cerdd 10, yn Llundain. Ceir ach y Sainsioniaid yn WG2 1567; LPMG 429, ond ni restrir Morys ymhlith aelodau'r teulu. Yn ôl Howard J. Thomas, 'The manor and castle of Fonmon, near Barry', *Morgannwg*, xliii (1999), 63–82, yr oedd Morys yn frawd i Syr Siôn Sainsion a fu farw yn 1525, ac yn fab i Siôn ab Olifer ap Siôn. Y mae hyn yn gyson â'r hyn a ddywed John Leland yn IWJL 23–4: *On this bekke stondith the castelle of Barrey aboute a quarter of a mile beyond the west rige of it. This castelle stondith on a litle hil, and most of it is in ruine. Master S. John of Bedfordshir is lorde of it. Maurice S. John, uncle to Syr John S. John, was owner of it.* Ei fam, felly, oedd Elisabeth, merch Wiliam Mathau Fawr ap Syr Dafydd Mathau a Lleucu, merch Gruffudd ap Nicolas, gw. WG1 330, 473, ac y mae'r ychydig fanylion achyddol yn yr awdl yn cadarnhau hyn.

Enwir Morys Sainsion yn LPMG 8 ond nid enwir ei frawd. Yno fe'i gwneir yn fab i Elisabeth, merch Syr Dafydd Mathau, a Syr Siôn Sainsion, ond y mae'n sicr fod cenedlaeth wedi ei cholli yn yr ach; Elisabeth, merch *Wiliam* ap Syr Dafydd Mathau, fel y nodwyd, oedd gwraig Syr Siôn Sainsion. Nid enwir Syr Siôn, brawd Morys, yn yr awdl, a gallai hyn awgrymu darford ei llunio wedi ei ddyddiau ef.

Yn Bletsoe yn swydd Bedford yr oedd prif gartref y teulu, ond bu'r Sainsioniaid yn gysylltiedig â Morgannwg er tua 1200, er bod traddodiad yn mynnu i un o'r teulu dderbyn maenor Ffwl-y-mwn trwy law Robert Fitzhamon yn wobr am ei gefnogaeth pan goncrwyd Morgannwg gan y Normaniaid ganrif dda ynghynt. Bu Morys yng ngwasanaeth y tywysog Arthur (m. 1502), cyntafanedig Harri VII. Yn ôl dau o'r datganiadau a wnaed pan oeddid yn chwilio am dystiolaeth ynghylch dilysrwydd priodas Arthur a Catherine o Aragon, yr oedd Morys ymhlith dilynwyr y tywysog ym mhlas Esgob Llundain lle y treuliodd y pâr ifanc noson gyntaf eu priodas, a dywedir i'r tywysog ddatgan yn ei wŷydd, 'I have been this night in the midst of Spain', gw. LPFD iv/iii, cofnod 5774. Ymhlith y lliaws a gafodd bardwn swyddogol gan Harri VIII yn 1509, enwir Edward Stradling, mab ac etifedd Tomas Stradling (gwrthrych cerddi 1–2), a fu yn swyddog castell ac arglwyddiaeth Ogwr o dan Forys Sainsion, gw. LPFD i/i, td. 251.

*Y mesurau*

- 1–56      Cyfres o 14 englyn unodl union.  
56–104    12 pennill ar fesur y gwawdodyn byr.

3 *n wreiddgoll.* Digwydd hefyd yn llau. 4, 86, 88, 90, 92.

- 4 **hyd Dydd** Ar y calediad, gw. 7.44n.  
*n* berfeddgoll.
- 12 Twyll gynghanedd *b*; at hyn, y mae cytsain gyntaf y ll. yn torri ar y cymeriad llythrennol, addurn a gynhelir yn y rhan fwyaf o'r englynion yn y gyfres agoriadol.
- 13–14 Cyfatebiaeth anarferol rhwng y gair cyrch ac ail ran y paladr gan fod cynifer o gytseiniaid yn cael eu hateb.
- 17 **parfis** Dosberthir y gair yn GPC 2668 dan *pafais*, amrywiad ar *parfais*, *parfis* o'r S.C. *paueys*, 'tarian amgrom fawr a amddiffynnai'r holl gorff rhag saethau'.
- 20 **palis** Dichon mai ffurf ar *palas* ydyw *palis* yma, gw. GPC 2672, yn hytrach na'r gair sy'n golygu 'pared', gw. GPC 2674 a'r Eirfa am enghreifftiau o'r olaf yn y canu.
- 22 **gwaed Harri Seithfed** Gw. nodyn brig cerdd 9.
- 24 Barnwyd bod darlleniad y llsgrau. yn llwgr, ond wrth newid lleoliad dau air, cafwyd ll. ystyrion, ond bod ynddi bellach gamosodiad r.g = g.r yn union o flaen yr acen (neu *r* berfeddgoll a bai crych a llyfn). Ond gellid cwpled ystyrion o ddilyn yr hyn sydd yn y llsgrau. a derbyn mai ailadrodd *gair* a wneir yn yr ymadrodd *gair-air*, gw. yr Eirfa d.g. *gwellwell*, *gwaethwaeth*, *oll-oll*. Os felly gellid cwpled annibynnol; naill ai *E gâi'r un a goroned / Yn llai gair-air yn holl Gred* neu *A gâi'r un a goroned / Yn well gair-air yn holl Gred?*
- 25 **teyrnged** Y ll. yn mynnu gair trisill, ac yn hytrach na cheisio ychwanegu sillaf at y gair deusill cyfarwydd, *teyrnged*, perchir cyfansoddiad gwreiddiol y gair cyfansawdd, sef *tëyrn* + *ced* 'tâl, treth', gw. GPC 3495. Ymddengys mai ymgais Llywelyn Siôn i gyfleu gair trisill sy'n cyfrif am y sillafiad yn llsgrau. ACE.
- 26 **mab Emwnt** Edmwnd Tudur, tad y brenin Harri VII.
- 28 **rhygarw Mwnt** Gw. 98.1n.
- 30 **aur dilin** 'Aur pur, aur coeth', gw. GPC 237 a Job 28.17 *Nid aur a grisial a'i cystadla hi: na llestr o aur dilin fydd gydwerth iddi*.
- 33 **unbeniaeth** *Un + peniaeth*, amrywiad ar *pennaeth*, gw. GPC 2753.
- 34 **[yr] Arglwyddes Elsbedd** Mam Morys, gw. y nodyn brig. Am enghraifft arall sy'n cadarnhau bod y bardd yn arfer y ffurf *Elsbedd*, gw. 11.23n.
- 37 **bedd Cwlen** Cysylltid y tri Gŵr Doeth a ddug eu hanrhegion at y Crist newydd-anedig â dinas Cwlen yn yr Almaen, ond credid hefyd ddarfod claddu'r tri yn y ddinas honno, gw. GDGor 6.85–8 *I Gwlen drwy fawr gilwg / Oddi arnyn' mab y dyn a'i dwg; / Yno y'i cleddir, seinir sant, / Yn y trysor rhwng trisant*; GIG 178–9.

- 39 **Arthur** Y cymeriad chwedlonol yn ddiau, ond gw. y nodyn brig. Dechreuwyd trafod amodau priodas y tywysog Arthur a Catherine o Aragon pan oedd y blaenaf tua dwyflwydd oed. Priodwyd y ddau 14 Tachwedd 1501, a bu Arthur farw 2 Ebrill 1502, gw. DNB ii, 131.
- 41 Cyfatebiaeth p.r = -b r-.
- 48–56 **Mathau ... / ... / ... Llandaf** Gw. y nodyn brig.
- 50 **Nicolas** Gw. y nodyn brig.
- 51 **Adda Fras** Ffigur annelwig ddigon, ond synnid amdano fel bardd dysgedig ac fe'i henwir yn fynych yn y marwnadau a ganodd y beirdd i'w cyd-brydyddion. Fe'i huniaethid hefyd â'r canu darogan, gw. CLC<sup>2</sup> 8; 94.49n. Ai'r awgrym yw fod marwolaeth y noddwr yn ergyd i'r brudwyr a oedd wedi gosod eu ffydd ynddo?
- 57 Gw. 4.37, 6.21n.
- 59 **Harbart** Nid oes cyswllt amlwg â'r Herbertiaid hyd y gellir gweld. Priododd Siôn Sainsion, brawd Morys, â Marged, merch Morgan ap Siancyn, gw. WG2 394. Elisabeth, llyschwaer Wiliam Herbert, Iarll Penfro, oedd gwraig gyntaf Morgan, ond ei ail wraig oedd mam Marged.  
Ceir yma ryw fath o gyfatebiaeth gytseinol 'Wyddelig', sef r.b = r.g, o dan yr acen.
- 62 Gellid dehongli'r ll. yn wahanol: *Dwyn un ym maen bob dyn yn myned*.
- 86–9 Collwyd pedair ll.—tair mewn un pennill ac un yn y nesaf—yn yr holl lsgrau. ac eithrio testun A, ac y mae'n amlwg mai hwnnw yw'r testun cywir gan fod y llau. yn cydasio mewn modd ystyrlon.
- 87 *n* o dan yr acen heb ei hateb. Gellid cryfhau'r gyfatebiaeth o newid *glewed* > *glaned*, ond sylwer i'r bardd ddefnyddio'r ddau a. eisoes yn llau. 82–3.
- 94 **Pan gyrcher i'n hoes y Groes i Gred** Ar arwyddocâd y ll., gw. 1.37n.
- 104 Twyll gynghanedd *ch*.

Cywydd moliant i Edward, mab Lewys ap Rhisiart Gwyn ap Llywelyn ap Rhys ap Llywelyn Fychan ap Llywelyn ... Hywel Felyn ... Ifor Bach, gw. WG1 209–12; WG2 416; LPMG 46–7. Cartrefai Lewys, y tad, ym Mhont-rhun, Merthyr Tudful. Edward oedd y cyntaf i ymsefydlu yn y Fan ym Medwas, Gwynllŵg, ac ef hefyd oedd y cyntaf i fabwysiadu'r cyfenw

'Lewys'. Meddai ar diroedd helaeth yn Senghennydd a daliai faenorau ym Magor a'r Gwndy yn sir Fynwy. Penodwyd ef yn gwnstabl castell Caerffili o dan Harri, Iarll Caerwrangon, a daliai'r swydd hon rhwng 1530 a 1543. Yr oedd yn dal ar dir y byw yn 1564, gw. W.R.B. Robinson, 'The lands of Henry, Earl of Worcester in the 1530s', B xxv (1972-4), 208, troednodyn 7 (ac isod 19.49n).

- 4 **gwaywyr** Gw. 4.93n, a sylwer ar ddarlleniad llsgrau. AD-I.
- 7 **Sainhennydd** Un o gantrefi Morgannwg, a'i dir yn ymestyn o Gaerdydd hyd Ferthyr Tudful, gw. WATU 197, 321, neu, yng ngeiriau'r bardd, gw. ll. 12, *O fin y Mars i hafn môr*. Digwydd y ffurf *Senghennydd* hefyd mewn sawl llsgr. Ceir enghraifft o'r ffurf *Seinghennydd* yn y gyfres o englynion dychan a luniodd Trahaearn Brydydd Mawr i Gasnodyn, gw. GGDT 13.18.
- 9 **ail dyn** Gw. 13.26n.
- 11 **Ifor** Gw. y nodyn brig. Enwir Ifor Hael yn fynych yn y canu, a gallai Edward arddel cyswllt ag yntau. Sioned, merch Ieuan ap Trahaearn ap Meurig, oedd gwraig Rhisiart Gwyn. Priododd Trahaearn â nith i Ifor Hael, gw. WG1 200.
- 14 *r* berfeddgoll yng nghyfatebiaeth y gynghanedd sain.
- 16 **Einion Sais** Siân, merch Gruffudd ap Hywel Gam oedd gwraig Llywelyn ap Rhys. Sioned, merch Adam ap Rhys ab Einion Sais, oedd gwraig Hywel Gam, gw. WG1 107, 814.
- 18 Ceir cryn amrywio yn y llsgrau. yn achos y ll. hon. Cymerir mai *hap* oedd y gair y bwriadai copïwr Ll1st 164 ei gyfleu, ond i'w *ap* ef (neu eiddo ei gynsail) ddrysu'r copïwyr eraill, a pheri iddynt chwilio am e.p. i'w olynu. Ceisiwyd caboli'r ll. sy'n cynnwys twyll gynghanedd *s*, a chafwyd ganddynt *Rys* a *Rhisiart*. Lewys ap Rhisiart oedd tad Edward, ond enwyd y tad a'r taid eisoes, ac er bod Rhys ymhlith cyndeidiau'r gwrthrych, ni thycia'r enw hwnnw yn y fan hon. O gadw *hap*, gellid cryfhau rhywfaint ar y gynghanedd trwy ddiwygio > *Hap as ar imp Rhoser oedd*. Diau mai Lewys Hen ap Rhosier Hir sydd dan sylw yn y cwpled. Ei ferch, Marged, oedd gwraig gyntaf Lewys ap Rhisiart, ond ei ail wraig, Gwladus, merch Ieuan ap Siôn, oedd mam Edward, gw. WG1 865; WG2 408.
- 19 *n* wreiddgoll, ac eto yn llau. 20, 51, 55, 56, 65
- 19-20 **Rhonwen / ... o'r Garrai** Esbonnir y cyfeiriad yn y Brut lle y disgrifiwyd y modd y perswadiodd Hengist Wrtheyrn i ganiatáu iddo *guneuthur ar y tir a rodeist kymeint ac yd ymgyrhaedo carrei y damgylchynu o hundy ... A chymryt croen tarv a wnaeth ynteu, a holldi hwnn yn un garrei, ac odyna ethol y lle cadarnaf a allvs y*

*gaffael ar y tir a rodessyt idav, ac a'r garrei hono messurav lle castell a dechreu y adeilat yn diannot. A guedy daruot adeilat y gaer y gelwit yg Kymraec Caer y Garrei, gw. BD 94. Cysylltir yr enw, felly, â dyfodiad y Saeson i'r ynys hon, ac â dichell Hengist a'i ferch Rhonwen. Am gyfeiriad arall yn yr un cywair, gw. 96.1–2 a cf. GGI<sup>2</sup> LIII.1–4 *Dawns o Bowls, doe'n ysbeiliwyd, / Dwyn yr holl dynion i'r rhwyd. / Dawns gwŷr dinas y Garrai, / Dawns yr ieirll (daw'n nes i rai)*, ond cadarnhaol yw'r cyfeiriad yn GLGC 56.19–26. Ac yntau wedi clodfori cynifer o deuluoedd a hanai o gyff Normanaidd, caiff Lewys yma gyfle i fawrygu ach Cymro o waed coch cyfan.*

- 22 **tair talaith** Dilynir y cyfeiriad dychanol at y Saeson gan y cyfeiriad hwn sy'n pwysleisio cysylltiadau Cymreig Edward Lewys, gw. 3.27n.
- 26 **plas y Fan** Yn ôl John Leland, *There is within half a mile of Cairfilly by est a fair place caullid Vanne, wher Mr. Edward Lewys dwellith*, gw. IWJL 18.
- 28–9 **Coel ... / ... Elen ... Custennin** Gw. 3.34n, 27.44n.
- 31 **eurgainc** Am enghraifft arall o'r ffurf *cain* (am *cainc*, gw. yr Amrywiadau), gw. 21.32n.
- 32 **Meistres Ann** Gwraig Edward, a merch Syr Wiliam Morgan ap Tomas ap Morgan, gwrthrych cerdd 28, gw. WG2 395. Yr oedd Ann yn ferch i farchog (ll. 28) ac yr oedd o *egin marchogion* (ll. 35); ei thaid o du ei mam oedd Syr Giles Bridges.
- 48 **Trahaearn** Gw. 19.11n.
- 49 **iustus** Yr oedd Edward yn aelod o'r comisiwn Gwrando a Therfynu a benodwyd yn 1536 a digwydd ei enw yn gyson ymhlith ustusiaid Morgannwg hyd at 1573, gw. JPWM 285–8.
- Estas** Bernid bod marwolaeth yr Arglwydd Rhys yn y flwyddyn 1197 yn ddigwyddiad cyn aruthred *hyt na allei ystoriaeu Ystas ystoriawr na chathleu Feryll vard menegi y veint gwynuan a dolur a thrueni a doeth y holl genedyl y Brytanyeit*, gw. BT (RB) 178–9. Trosir Ystas yn Statius, sef awdur y gerdd epig 'Thebaid', a gŵr a ymenwogodd fel bardd megis ei dad o'i flaen, gw. OCD<sup>3</sup> 1439. Ar y llaw arall, cynigiodd E.J. Saunders mai Tacitus, yr hanesydd Llad. a aned c. 56 O.C., oedd Estas, gw. Lewys Morgannwg: Gw 816; OCD<sup>3</sup> 1469–71.
- 50 **mwy wybodau** Ar y treigladd, gw. 1.18n.
- 51–2 Awgrymir bod Edward wedi meistrolï'r ddysg farddol ond ni ddiogelwyd unrhyw gerddi o'r eiddo, a barnu wrth dystiolaeth MFGLI. Nid oes gan Ddafydd Benwyn a ganodd ei farwnad lawer i'w ddweud ar y pen hwn, ond traetha ei fod *mor ddysgedig* ac *yn*

*bvr brif awdvr, yn brwfedic*, gw. Dafydd Benwyn: Gw CIII.77, 87. Mwy arwyddocaol yw tystiolaeth Sils ap Siôn a gofnododd englyn a ganodd ef *pan oed[d] kwmpayni o prydyddyon yn kowrdd ... gerbron Mr william Evans shawnsler Llan[daf], a Mr Thomas Lewis o Landaf y pryd hyny*, gw. TLM 88–90; NBMM 27. Mab Edward oedd Tomas Lewys ac y mae lle i gredu bod y mab, fel ei dad, yn ymddiddori yn fawr yn y ddysg farddol. Digwydd yr un cwpled, i bob pwrpas, yn y cywydd i Syr Siôn ap Rhys, cf. 55.61–2 *Ni bu'r poet—ba eiriau pêr?— / Mor gymen ym mrig Omer*.

- 52 **Omer** Ffurf ar yr e. Homer, cf. GLM XCI.22; TA XVI.42. Homer oedd awdur y ddwy gerdd epig, yr 'Iliad' a'r 'Odyssey'; bernir mai hwy oedd gweithiau godidocaf y Groegwyr, gw. OCD<sup>3</sup> 718–20.
- 55 **Iorwerth** Nid oes yr un Iorwerth ymhlith hynafiaid agos Edward. Cymerir mai ffurf Gymraeg *Edward* yw *Iorwerth* yma, megis yn 65.55 lle y crybwyllir *Pryns Ierwerth* sef mab Harri VIII. Yn GDGor 1.25n awgrymir 'mai mewn cyfnod cymharol ddiweddar y dechreuwyd cysylltu'r enwau *Edward* ac *Iorwerth*' ond dangosodd E.D. Jones fod y ddau enw yn ymglyfnewid er canol y 15g., gw. '“Iorwerth” ac “Edward”', Cylchg LIGC ii (1941–2), 85–6. Neges y cwpled, yn syml, yw 'Ni fu'r un Iorwerth na fu'r Iorwerth hwn yn rhagori arnynt.'
- 58 **Ilew** Arwydd herodrol y teulu, gw. DWH ii, 320.
- 67 **awch** 'Miniogrwydd; bywiogrwydd; tanbeidrwydd' yw'r ystyrion arferol, gw. GPC 237. Fe'i defnyddir yma yn drosiadol, 'man lle ceir ymladd tanbaid'.
- cyndrychol** Ffurf ar *cynddrychol* 'yn y golwg', gw. GPC 780. 'Amlwg' yw'r ystyr orau yma.

## 20

Cywydd moliant i Siors Herbert, Abertawe *kynn i fynd yn farchog* (gw. Card 4.101) yw hwn, anrhydedd a ddaeth i'w ran yn 1543, yn unol â deisyfiad Lewys yng nghwpledi clo'r cywydd, gw. KWL 293 (ond awgrymodd J. Gwynfor Jones, 'Reflections on concepts of nobility in Glamorgan, c. 1540–1640', *Morgannwg*, xxv (1981), 20, ei fod wedi ei urddo yn farchog pan gyfarchodd Lewys ef). Yr oedd Siors yn fab i Risiart Herbert, ac yntau yn fab anghyfreithlon i Wiliam Herbert, Iarll Penfro, gw. WG2 780–1. Fe'i ganed tua 1495, a chan mai ef oedd y mab hynaf, ef a etifeddodd diroedd ei dad yng nghyffiniau'r Fenni, ac i'w ddwylo ef hefyd y daeth y tiroedd helaeth yng Ngŵyr a Morgannwg a oedd yn eiddo i Syr Mathau Cradog, ei daid o ochr ei fam. Yr oedd iddo ran amlwg ym mywyd cyhoeddus Morgannwg, ond ni fu cyn amlyced â'i frawd iau, Wiliam Herbert, a

ddyrchafwyd yn Iarll Penfro yn 1551, gw. ByCy 328–9 a cherdd 26. Am fywgraffiad byr ond tra manwl o Syr Siors Herbert, gw. W.R.B. Robinson, ‘Sir George Herbert of Swansea (d. 1570)’, B xxvii (1978), 303–9; hefyd GCH iii, 626 (troednodyn 279). Ar y swyddi a ddaliodd ef a’i daid, Syr Mathau Cradog, yn arglwyddiaeth Gŵyr a Chilfái, gw. GCH iii, 266. Yr oedd ei ymddygiad, yn ôl Glanmor Williams, yn ‘thoroughly deplorable’, gw. G. Williams: RRW 46.

Serch hynny, ymddengys fod croeso i’r beirdd ar ei aelwyd. Bu tri bardd yn ymryson am ei nawdd, sef Syr Rhisiart Lewis, Siôn ap Hywel Gwyn a Rhisiart Fynglwyd, gw. Rhisiart Fynglwyd, &c.: Gw cerddi XXII–XXIV. Cyfarchodd Tomas ab Ieuan ap Rhys Siors ar ddau achlysur, gw. HG cerddi 5–6; GLIA cerddi XX–XXI, yn dilyn ei urddo yn 1543. Yn 1544 yn ddiau y canwyd y gerdd gyntaf a disgrifir parodrwydd ei wŷr i ddilyn Siors i faes y gad, gw. llau. 31–6 *mae kapdenni, yn kael kodi / gwyr wrth blaked, harri wythfed / a phe gwypun, beth awnelun / nyd aent o dre, dros y trothe / kwnwchwi ych bys, bach syr siorys / llyna godi, pawb gyda chwi*. Cerdd i heddychu rhwng y bardd a’i noddwr yw’r ail *wedi yspaid deng mlynedd o ddiethrwch*. Canodd Lewys farwnad i Farged, mam Siors, gw. cerdd 7.

Diflannodd un ddalen o lawysgrif Llst 7, a cholliwyd 32 ll. o gorff y cywydd. Cyhoeddwyd testun o’r cywydd yn GLIA cerdd XVIII.

- 3 **maeth** Dilynwyd darlleniad y llsgrau. gan mai’r e. sy’n taro orau yn hytrach na’r ymadrodd *mae’th*, sef dehongliad GLIA, ond gthg. ll. 34 isod.
- 4 **hŷn** Yr e. sy’n cynnig yr ystyr orau, a thrachefn yn ll. 22, ond y mae’r rhan fwyaf o’r ffynonellau o blaid y rh. dangosol.
- 11 **Gefenni** Gŵr ifanc oedd Siors pan benodwyd ef yn 1516 yn stiward arglwyddiaeth y Fenni. Awgrymodd W.R.B. Robinson, ‘Sir George Herbert of Swansea (d. 1570)’, B xxvii (1978), 303–9, mai dylanwad George Nevill, arglwydd y Fenni, a sicrhodd iddo’r swydd hon, ac mai arwydd pellach o’i gefnogaeth ef oedd i Siors briodi â’i nith, Elisabeth Berkeley, a oedd yn gâr i’r brenin Harri VIII. Nid enwir y wraig yn y cywydd ac ni chrybwyllir cyswllt Siors â’r llys brenhinol (yr oedd wedi ei benodi yn un o wasanaethyddion bonheddig ystafelloedd y frenhines cyn mis Ionawr 1526) a gallai hyn awgrymu llunio’r cywydd oddeutu 1520. Rhoddir i lsgr. Llst 7 sy’n cynnwys y cywydd y dyddiad 1505–30 yn MWM 63.
- 17–18 Anodd darllen y cwpled hwn heb ddwyn i gof anogaeth Guto’r Glyn i Wiliam Herbert, taid Siors, gw. GGI<sup>2</sup> XLVIII.65–8 *Cymer wŷr Cymru’r awron, / Cwnstabl o Farnstabl i Fôn. / Dwg Forgannwg a Gwynedd, / Gwna’n un o Gonwy i Nedd*.
- 19 **cydroddaist** Gellid gwella ystyr y cwpled (heb amharu ar y

gynghanedd) o ddiwygio > *cydrodiaist*, ffurf nad yw'n digwydd yn yr un o'r llsgrau.

- 25 **yr iarll** Wiliam Herbert, Iarll Penfro, yw'r iarll dan sylw. Y mae'r gynghanedd yn galw am y cyfuniad hwn (er y gellid *Coed y iarll fu'n cadw iaith*), ond gwelir yn y canu hefyd sawl enghraifft o y *iarll*, gw., e.e., 27.1. Digwydd y ffurf hon ar y fannod yn fynych yn Llst 164 o flaen geiriau sy'n dechrau â'r gytsain *i*; fe'i harferir hefyd gan Lywelyn Siôn, gw., e.e., *Gesta Romanorum* gol. Patricia Williams (Caerdydd, 2000), y *jarll* (llau. 462, 874), hefyd y *justys* (llau. 175, 364). Gwelir y cyfuniadau y *iâ*, y *iad*, y *Iesu* yng ngwaith Dafydd Epynt drachefn, er nad yw ef, mwy na Lewys Morgannwg, yn gyson wrth eu defnyddio, gw. GDEp 9.30n.
- 31–2 **Syr Wiliam ... / ... y Marchog Cam** Syr Wiliam Tomas a Gwladus Gam oedd rhieni Iarll Penfro, gw. 8.20n.
- 34 **Syr Mathias** Marged, merch Syr Mathau Cradog, oedd mam Siors Herbert, gw. WG1 313. Canodd Lewys farwnad iddi, gw. cerdd 7.
- 35 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 67, 75.
- 36 **mwy orchest** Ar y treigladd, gw. 1.18n.
- 37 **rend** Derbyniwyd y ffurf hon sy'n digwydd yn y rhan fwyaf o'r llsgrau., ac y mae'r gynghanedd ar ei hennill o ganlyniad. Cf. 5.2 lle y diwygiwyd *rampant* y llsgr. > *rampand* er mwyn sicrhau cyfatebiaeth reolaidd. Ond ceir gan y bardd sawl ll. sy'n cynnwys cyfatebiaeth caled a meddal, a'r gyfatebiaeth  $t = d$  sy'n digwydd fwyaf aml. Yn fynych bydd y gytsain galed yn digwydd yng nghesail y gytsain *n*. Digwydd hynny yn achos y gair *Gwent* ond ceir llau. hefyd sy'n cynnwys y gair *rhent*, e.e. 83.33 *A pha rent o'r dyffryndir*, 85.54 *Eu rhent wedy'r hen dadau*. Sylwer hefyd ar y gynghanedd lusk yn 98.81 *Ym meddiant Alecsander*.
- 39 Ysgrifennwyd 'celwydd' wrth ochr y ll. yn CM 12!
- 42 **mort** Awgrymir mai ffurf ar *bort* yw *mort*, er na nodir yr amrywiad yn GPC 301, a bod yma gyfeiriad felly at Ford Gron Arthur. (Am enghreifftiau o *b* ac *m* yn ymglyfnwid, gw. 1.34n.) Dilewyd nodyn i'r perwyl hwn yn Lewys Morgannwg: Gw 766 ac mewn nodyn diwygiedig cynigiwyd mai e.p. ydoedd, sef enw un o farchogion y Greal. Am gyfeiriadau yng nghanu'r bardd at Syr Bwrdd, gw. 'Enwau personau'.
- 50 **o bai** O yw'r ffurf ar y cysylltair amodol sy'n digwydd yn y canu, a diwygiwyd *os* y llsgrau. (collwyd y rhan hon o'r cywydd yn y llsgr. gynharaf), er bod y ffurf honno yn cryfhau rhyw gymaint ar y gynghanedd draws.
- 66 **ffawd** Am ystyron arferol *ffawd* 'tynged, ffortun, hap', &c., gw.



GPC 1279. Yr ystyr ‘natur, cynneddf’ sy’n gweddu orau yma.

- 71 **ywch eu sôn** Gellid ‘amdanoch y mae eu sôn’ ond dichonadwy hefyd fyddai *uwch eu sôn* ‘y mae eu bostio hwy yn eithafol’.
- 72 **fain gwympau hirion** Tebyg mai ffurf l. yr a. *gwymp* ‘rhagorol, gwych, hardd’, gw. GPC 1769–70, sydd yma. Ceisiodd David Ellis wneud synnwyr o’r ll. a cheir ganddo’r darlleniad (ystyrlon ddigon) *campau hirion*. Dewis arall fyddai diwygio > *e gwympai hirion* ‘lladdai [Siors y] gwŷr hirion’.
- 76–8 **y North ... / ... / ... Loegr** Os ganed Siors tua 1495, gallai fod wedi cymryd rhan yn y cyrch i’r Alban yn 1513. Y mae’n bosibl hefyd mai cyfeirio y mae’r bardd at y brwydro a fu ar ddechrau’r pedwardegau. Arweiniodd Rhys Mawnsel lu o Gymry i’r Alban rhwng 1542 a 1545, gw. J. Gwynfor Jones, ‘Reflections on concepts of nobility in Glamorgan, c. 1540–1640’, *Morgannwg*, xxv (1981), 11, ac nid annichon fod Siors Herbert yn eu plith. Ond gthg. 20.11n a’r awgrym ynghylch dyddiad Llst 7.

## 21

Marwnad Rhys ap Siôn ap Rhys ap Siancyn ap Rhys ... Einion ap Collwyn, gw. WG1 311; WG2 607, 608, 610; LPMG 150–2; CLC<sup>2</sup> 3. Nid enwir hynafiaid Rhys yn y cywydd, ac eithrio Einion ap Collwyn (llau. 18, 28)—dïau y barnai Lewys Morgannwg nad oedd angen tystio i ach aruchel y Cymro hwn a ddisgynnai o *waed twysogion* (ll. 5). Ond y mae lle i gredu bod y gerdd hon ymhlith gweithiau cynharaf Lewys, ac efallai mai hynny sy’n cyfrif am brinder y cyfeiriadau achyddol. Y mae’n arwyddocaol nad yw Rhisiart ap Rhys, yntau, yn rhoi sylw i linach y teulu yn y farwnad a ganodd i dad Rhys, sef Siôn ap Rhys, gw. GRB cerdd 15.

Am beth o hanes y teulu a’r nawdd a gysylltir ag Aberpergwm, gw. NBMM 42–58, 231–3; George Eaton, ‘The Williams family of Aberpergwm: A study in cultural patronage’, *Neath Antiquarian Society Transactions*, 1979, 19–37; Peredur Lynch, ‘Aberpergwm a’r traddodiad nawdd’, *Nedd a Dulais*, gol. Hywel Teifi Edwards (Llandysul, 1994), 1–25. ‘Goroedd canu pedwar bardd ar ddeg—rhyw ugain o gerddi i gyd—i bedair cenhedlaeth o’r teulu hwn, a hynny o ddyddiau Rhys ap Siancyn (?m. cyn 1470) a’i fab, Siôn (m. c. 1480), hyd ddyddiau’r noddwr amlycaf, Rhys ap Siôn (c. 1460–1520), a’i fab yntau, Rhisiart ap Rhys’, gw. Peredur Lynch, *art.cit.* 4. Canodd pum bardd i Rys, sef Lewys Glyn Cothi, Iorwerth Fynglwyd, Dafydd Nant, Bedyn Sioch (ei gywydd i Rys yw’r unig ddarn a restrir wrth ei enw yn MFGLI 73) ynghyd ag un bardd anhysbys, a chanodd Lewys Morgannwg ei farwnad. Rhys ap Siôn oedd prif noddwr Iorwerth Fynglwyd; canodd y bardd hwnnw dri chywydd iddo a dwy awdl, un i’w

foli a'r llall i'w farwnadu, a bernir hefyd mai ymlyniad Iorwerth wrth Rys a'i gorfododd i erchi cymod Syr Mathau Cradog, gw. GIF cerddi 1–6 a tt. 5–6.

Dilynir y cywydd yn BL Add 15008 gan yr englyn dienw a ganlyn i ryw Rys; englyn a ganwyd o bosibl i wrthrych y cywydd:

nyd rys pob rys lle bo braw a chynw[rf]  
 a chanwr yn taraw  
 ych rys chwi oydd yn ciliaw  
 yn rys ni ath dwrdd i draw.

Er bod nifer o gopiâu o'r cywydd wedi eu diogelu, nid yw'r copiâu hynny yn gwahaniaethu yn ddirfawr, ond eto gwelir bod mân wahaniaethau rhwng y fersiwn a ddiogelwyd gan Lywelyn Siôn a'r fersiwn sy'n digwydd yn Pen 100. Collwyd rhannau o'r testun yn C oherwydd traul ar ochr y ddalen. Rhoddwyd y teitl *marwnod sion ap Rys o lynn nêdd* uwchben y cywydd yn LIGC 13062B ond ychwanegodd Iolo Morganwg ar ymyl y ddalen: *i Rys ap Sion ac nid i Sion ap Rys*.

1 *fled-lafarog*.

2 **a fu'n ben** Ystyrlon, o ystyried y trafferthion a ddaeth i ran Rhys ap Siôn, gw. Peredur Lynch, 'Aberpergwm a'r traddodiad nawdd', *Nedd a Dulais*, gol. Hywel Teifi Edwards (Llandysul, 1994), 11–14, yw'r darlleniad *fu 'n y boen* sy'n digwydd mewn rhai llsgrau.

8 **ail Gwalchmai** Ar gadw'r gysefin yn dilyn y rhif. *ail*, gw. 13.26n.

19 Rhaid cyfrif *bwrw* yn air deusill. Diwygiodd Iolo Morganwg y ll. yn LIGC 13062B trwy ychwanegu 'beirdd', *Bwrw sylfaen beirdd a blaenawr*. Pwysleisir diddordebau diwylliannol y teulu mewn cerdd nodedig a ganodd Guto'r Glyn i Rys ap Siancyn, gw. GGI<sup>2</sup> cerdd XCII.

21–2 **Aber ... / Bergwm** Plasty ym mhlwyf Nedd Uchaf, gw. RhELI 2.

31 Camosodiad f.n = n.f, ond ceir cynghanedd reolaidd o ddilyn Pen 100.

32 **garw ... garedicach** Ar y treigladd, gw. 1.43n.

**decainc** Y mae'r gynghanedd yn gywir, ond rhaid derbyn nad yw'r *c* ar ddiwedd *decainc* yn safle'r orffwysfa yn caledu'r gytsain feddal a'i dilyn. Byddai'r gynghanedd yn gryfach o dderbyn y ffurf *decain* sy'n digwydd yn nifer o'r llsgrau. Nodir y ffurfiau *cainc* a *caing* yn GPC 390 ond ni chofnodir y ffurf *cain* sy'n digwydd yma. Ceir enghraifft arall yn 19.31n, gw. yr Amrywiadau d.g. *eurgainc*.

37–8 Dyma'r unig gwpled o waith Lewys a ddyfynnir yn y casgliad *Flores Poetarum Britannicorum* a gynullodd Dr John Davies, Mallwyd, ac a gyhoeddwyd yn 1710, gw. td. 10 yn argraffiad Robert Jones (Llundain, 1864).

- 40 **sias** ‘Helfa, helwriaeth; byddin’, gw. GPC 3265. Digwydd *Sais* yn Pen 100. Crybwyllir casineb Rhys at y Saeson ar fwy nag un achlysur yn y canu iddo, gw. ll. 54 a’r sylwadau yn LGC 83.
- 41 **coedwig** Trosiad am waywffyn y gelyn, yn drwchus fel canghenau’r fforest.  
*n wreiddgoll. Ceir enghreifftiau pellach yn llau. 44, 45, 59, 61, 76.*
- 44 **Watgyn Llwyd** Mam Rhys (yn ôl LPMG 152) oedd Alis, merch Dafydd ap Watgyn Llwyd ab Ieuan ap Watgyn, gw. WG1 90. Urddwyd y Watgyn hwn yn farchog yn Agincourt yn 1415. Gwelodd Iolo Morganwg y ffurf *atgyn* yn LIGC 13062B, a chan ei fod yn barnu mai gair a ffurfiwyd o *cun* a’r rhagddodiad *at* ydoedd, rhoes iddo yr ystyr ‘*a sub prince*’.
- 51–2 Digwydd y cwpled *af i luniaw ddwy flynedd / ei lun o aur ar Lynnedd* yn yr awdl farwnad a ganodd Iorwerth Fynglwyd i Rys ap Siôn, gw. GIF 5.39–40, a gellid tybio i Lewys Morgannwg gydio yn y syniad a’i ymhelaethu yn ei farwnad ef. Ailadroddir ll. arall o awdl Iorwerth yn un o gerddi Lewys, gw. 10.82n. Nid yw’r cwpled fel y’i ceir gan Iorwerth yn ystyrllon iawn, ond y mae’n amlwg mai hanes marw a chladdu Gwerthefyr Fendigaid sydd dan sylw yn y fan hon. Y cyngor a roes Gwerthefyr i’w wŷr oedd *dineu delv euydeit tryv tanavl geluydyt a’e gossot yn y porthloed y gnotaei y Saesson disgynnu yndi. A guedy bei uarv ynteu ... gossot y gorff ar y delv honno yr aruthred y’r Saesson ... Ac eissyoës guedy y uarv ef, kyghor oed waeth a wnaethant vynteu, kymryt y gorff a’e cladu yn Llundein*, gw. BD 97–8. Dyma’r digwyddiad sydd wrth wraidd yr ail hanesyn a gofnodir yn *Tri Chud a Thri Dacud Enys Prydein*, gw. TYP<sup>2</sup> 88–96. Ni sonnir yn benodol am Ddofr yn y Brut nac yn y Trioedd, ond cysylltir Gwerthefyr â Dofr ar achlysur arall: GHD 5.59–60 *Wrthefyr lun wrth Ddofr las / A roed arno ryw dŷrnas*.  
 Y mae’n bur debyg mai hanes claddu Gwerthefyr yw cefndir y llau. a ganlyn ym marwnad Rhisiart ap Rhys i dad gwrthrych y farwnad hon, gw. GRB 15.29–34 *Yn Llundain—damwain ond af— / i’th ôl union y’th luniaf: / Deifr â chof dy farch efydd; / dy waith yn rhaid aeth yn rhydd. / Ar Inglond, pan fu’r angladd, / d’arf yn llym ar derfyn lladd*. Cf. GRB 12.29–32 yng ngwaith yr un bardd a gw. ymhellach 24.12n.
- 54 **hob i Sais** Rhoddir yr ystyrion ‘hercian, ysboncio, dawnsio; ?ceryddu, cystwyo, cosbi’ i’r f. *hopio* yn GPC 1898, a gweddaï’r ail ystyr yn y cyd-destun, er mai’r ystyr gyntaf a awgrymir gan yr enghreifftiau cynharaf a ddyfynnir. Er bod y llsgrau. yn gytûn, nid annichon mai gwall am *hwp*, *h«b* ‘gwthiad, hergwd’ sydd yma, gw. GPC 1932. Ar y gyfatebiaeth -b s- = -p s-, cf. ll. 6, a cf. hefyd b..s =

-p s- yn ll. 68.

- 58 **Dofr** Rhaid cyfrif y gair hwn yn un deusill, ond y mae'r darlleniad sydd yn rhai o'r llsgrau. yn trin *Dofr* fel pe bai yn air unsill.
- 59 Y rh. blaen yn hytrach na'r negydd sydd wrth ben y frawddeg. Ni ddymunai'r bardd wneud yr un camgymeriad â chyfoeswyr Gwerthefyr.
- 67 **Owain** Yr enw traddodiadol ar y mab darogan, gw. GDGor 6.63n. Cedwir cof am rai o'r cymeriadau a adwaenid wrth yr enw hwn yng nghywydd Lewys y Glyn i Owain ap Gruffudd ap Nicolas, gw. GLGC cerdd 17.
- 69 **bend** 'Ordinari a ffurfir gan ddwy l. gyfochrog o gwr uchaf deau'r darian hyd y gwaelod ar y chwith ac sy'n amgáu'r bumed ran ohoni', gw. GPC 271. Neu efallai mai ffurf dreigledig *ment* 'gorchudd' (?yn ffig. 'llawr, daear') sydd yma, gw. GPC 2430-1, ac i'r bardd, neu'r copïwyr a ddaeth ar ei ôl, newid y ffurf yn *mend* er mwyn sicrhau cynghanedd reolaidd. Y posibilrwydd arall yw fod yr hyn a ddiogelwyd ar lafar, sef *Ar fu'n dwyn arfē'n d'ynys*, wedi ei gamddeall ac wedi ei droi yn *arfend ynys*.
- 70 Collwyd pedair ll. am i lygaid copïwr Pen 100, wedi iddo gopïo ll. 69, daro ar yr e. *Rhys* sy'n digwydd ar ddiwedd ll. 74, a gwelir mai'r un odl sydd yn y ddau gwpled, sef *ynys / Rhys*. Y mae'r un llau. yn eisiau yn y testunau sy'n seiliedig ar y llsgr. hon. Digwyddodd peth tebyg i Robert Vaughan wrth iddo gopïo Pen 101; sylwer ar y bwlch o 14 ll. sy'n dilyn ll. 35.
- 74 **well gorff** Cyffredin yng nghanu Lewys, fel y nodwyd, yw treiglo'r e. sy'n dilyn y gystrawen gymharol *mwy / llai*, gw. 1.18n. Ymddengys mai dylanwad y gystrawen honno sy'n cyfrif am y ffurf *well gorff*, er nad ydyw yn rheolaidd.
- n wreiddgoll* ac *n berfeddgoll*. Unwaith eto, buasai'r gynghanedd yn gryfach o ddilyn darlleniad Pen 100.
- 77-80 Ni ddigwydd y ddau gwpled olaf gyda'i gilydd yn un o'r pedair llsgr. ar ddeg, ac nid yw llsgrau. Llywelyn Siôn yn gyson â'i gilydd: y mae'r cwpled olaf yn eisiau mewn tair llsgr. yn ei law (sef ACD) a'r cwpled olaf ond un yn eisiau mewn pedwerydd copi (sef B). Confensiwn cyffredin mewn cywyddau marwnad yw cloi â deisyfiad i'r ymadawedig gael lle yn y nefoedd, gw. cerddi 7, 12, 14, ac nid oes amheuaeth nad llau. 79-80 sy'n cynnig y diweddglo gorau. Yn adran olaf y cywydd (llau. 65-80), ailadroddir yr enw *Rhys* ym mhob cwpled. Gwelir, fodd bynnag, mai'r enw Siôn ap Rhys a enwir yn y cwpled olaf ond un. Gallai hwn fod yn gyfeiriad naill ai at dad gwrthrych y cywydd neu at un o'i feibion (yr oedd gan Rys

fab o'r enw Siôn ond mab arall, Rhisiart, yw'r unig noddwr a gysylltir ag Aberpergwm wedi dyddiau ei dad, gw. Peredur Lynch, *art.cit.* 4), a gallai awgrymu hefyd mai cwpled strae ydyw hwn.

78 *f*led-lafarog.

## 22

Dwy gerdd yn unig sydd ar glawr i abadau Nedd, sef awdl Llywelyn Goch y Dant i'r Abad Siôn a ganwyd yn ail hanner y bymthegfed ganrif, a'r awdl enghreifftiol hon o waith Lewys i Leision Tomas, abad olaf y sefydliad. Trafodir hanes yr abaty a hanes yr abadau a gyfarchodd y beirdd yn CTC, gw. yn benodol cerdd 92 a'r nodiadau 450–8; hefyd NBMM 13–22; Glanmor Williams, 'Neath Abbey', *The Welsh and their Religion* (Cardiff, 1991), 73–92. Ychydig sy'n hysbys am gefndir teuluol Lleision (gw. llau. 9–11 isod) ond gwyddys darfod ei urddo yn ddiagon Ledbury yn 1509 (fe'i disgrifir yn 'Cistercian monk of Neath') a chofnodir iddo raddio yn BA (1510), yn BCanL (1510) ac yn BD (1512). Fe'i penodasid yn abad Nedd erbyn Ionawr 1509/10.

Yr oedd J. Morris-Jones o'r farn 'mai un o'i weithiau cynnar oedd hi, a'i bod wedi ei chanu cyn 1523', gw. J. Morris-Jones: CD 365, ond bernir yn CTC mai yn ystod y blynyddoedd 1532–6 y canodd Lewys Morgannwg ei unig awdl enghreifftiol. Y mae'n bosibl fod ynddi gyfeiriadau at ymweliadau Lleision â rhai o dai ei urdd, ac y mae'n bosibl hefyd i Lewys fynegi ei ddymuniad am gael gweld dyrchafu'r abad yn esgob Tyddewi neu Lanelwy yn ystod y flwyddyn 1536 pan ddaeth y ddwy swydd hyn yn wag (llau. 3–4, 95). Llwyddodd Lleision i sicrhau na chaeid y tŷ yn Nedd yn 1536 ond buddugoliaeth dros dro oedd hon. Bu'n rhaid iddo ildio'r sefydliad i ddwylo cynrychiolwyr y goron ym mis Chwefror 1539.

*Odl a gant Lewys Morgannwg wrth Leision Abad Glynn Nedd a'r pedwar mesur ar hugain ynddi ar ddull yr oes honno* yw hon yn ôl llawysgrif A, ond er bod y llau. yn cael eu dosbarthu yn adrannau, a phob adran yn cael ei henwi yn y llawysgrif honno, fel yn y lleill, ni cheir yn un o'r llsgrau. y nifer disgwylidig o fesurau (ceir 22 yn A ond 26 yn D). At hyn, ymddengys fod rhai o'r mesurau unigol yn cael eu hailadrodd yng nghorff yr awdl. Fodd bynnag, o ddsbarthu'r llau. yn wahanol, a derbyn dynaid o fân ddiwygiadau, gwelir bod modd cyfiawnhau'r disgrifiad uchod, a bod modd sicrhau cyfanswm o bedwar mesur ar hugain heb fod un mesur unigol yn cael ei ailadrodd. Rhestrir y mesurau isod a nodir y modd y disgrifir pob un yn y llsgrau. (lle na chyfeirir at yr enw a roddwyd ar y mesur yn y llsgrau. unigol, dynoda hynny fod y pedair yn gytûn a bod y disgrifiad yn un cymwys). Ceir sylwadau J. Morris-Jones ar y mesurau yn J. Morris-Jones: CD 365–6, 373–4.

Argraffwyd copi o'r awdl yng ngramadeg Siôn Dafydd Rhys, *Cambro-*

*brytannicae Cymraecaeve Linguae Institutiones et Rudimenta* (1562), 239–42, a chyfetyb y testun i'r un yn llawysgrif A. Gwelir yng ngopi Iolo Morganwg, BL Add 15003, lau. nas ceir yn y llsgrau. eraill, ac ymddengys mai Iolo ei hun a'u lluniodd. Ambell dro ychwanegodd gwpled at y penillion a luniodd Lewys. Er enghraifft, ceir dau gwpled ar fesur y toddaid yn cloi'r awdl yng nghopi Iolo yn hytrach nag un cwpled fel sydd yn y llsgrau. eraill. Ond sylwodd Iolo fod sawl mesur cyfarwydd yn eisiau, a'i ymgais ef i wneud iawn am hynny sy'n cyfrif am y penillion ar fesurau megis y cyhydedd nawban, y cywydd deuair hirion a'r awdl gywydd a welir yn ei fersiwn ef. Ceir ail gopi yn llaw Iolo yn LIGC 13100B, ac y mae hwn yn cyfateb yn agos i'r cyntaf. Ar ddiwedd yr ail gopi, nodir mai o *Lyfr Lewys Hopkin* y codwyd y testun. Ymddangosodd fersiwn Iolo o'r awdl yn *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain*, gw., e.e., R. Ellis (Cynddelw), *Geiriadur y Bardd* (Caernarfon, d.d.), 115–17. Darnau o'r awdl yn unig a ddiogelwyd yn LIGC 436B, ac fe'u cyplyswyd wrth ran o awdl enghreifftiol Gwilym Tew i Fair o Ben-rhys.

Ym mis Ionawr 1811 ysgrifennodd Dafydd Dafis, Castellhywel, at Iolo yn gofyn iddo drosi'r awdl i'r Saesneg, gw. LIGC 21280E, rhif 111 (Diolchaf i Dr Andrew Davies am ddwyn y llythyr hwn i'm sylw). Ymddengys fod gan Dafydd Dafis gopi o ramadeg Siôn Dafydd Rhys ac yn y fan honno y gwelodd yr awdl.

Gelwir sylw at y teitl a roes Iolo Morganwg i'r awdl ac at yr olnod a luniodd. Nid yw'n destun syndod fod copi Iolo o awdl enghreifftiol Gwilym Tew i Fair yn cynnwys llau. nas ceir yn y testunau eraill ynghyd â rhagair ac olnod. Yn ôl y rhagair canwyd yr awdl honno *mewn eisteddf[od] ym Monachlog Pen Rhÿs Glyn Rhondde er dangos a dysgu hen fesurau Cerdd dafod gorchestolion Tir Iarll...*, gw. Gwilym Tew: Gw cerdd 1.

#### *Y mesurau*

1. 1–4 Englyn unodl union.
2. 5–8 Englyn proest cyfnewidiog.
3. 9–12 Englyn proest cadwynog.
4. 13–16 Englyn unodl crwca.
5. 17–20 Englyn unodl cyrch.
6. 21–3 Englyn milwr D. Rhoddwyd yr enw *Hen fessur* yn AC ar lau. 21–7, a'r un enw yn B ar lau. 21–3 ynghyd â deuair cyntaf ll. 24.
7. 24–7 Dyma'r adran anhawsaf i'w disgrifio. Fe'i gelwir yn *hen fessur* yn B ac yn *hen fessur Cyngog* yn D sy'n cynnwys llau. nas ceir yn y llsgrau. eraill. Dilynydd trefn D er mwyn sicrhau bod y llau. ac ynddynt odlau mewnlol yn digwydd am yn ail. Gellid cyfrif y ddwy l. hyn yn llau. ar fesur y cywydd deuair fyrion—mesur nad yw'n digwydd yn yr awdl—yn unol ag awgrym

- CTC. Posibilrwydd arall yw fod yma ymgais i greu mesur newydd trwy gyfuno nodweddion y rhupunt hir (ym mraich gyntaf y cwpled) a'r gyhydedd fer (yn yr ail fraich). Os felly, dyma'r unig 'fesur' yn yr awdl nad yw'n cydymffurfio â'r patrymau cydnabyddedig.
- 8-9. 28-31 Englyn unodl crwca ABC (a nodir hefyd fod y mesur wedi ei ddefnyddio eisoes); englyn unodl cyrch D. Llsg. D sy'n rhoi'r enw cywir fel y nodwyd yn Lewys Morgannwg: Gw a CTC. Ond defnyddiwyd yr englyn crwca a'r englyn cyrch eisoes. Cyfuniad o ddau fesur yw'r englyn cyrch, sef cwpled o gywydd deuair hirion a chwpled o awdl gywydd. Gan nad yw'r rhain yn digwydd yn yr awdl, cynigir mai bwriad y bardd oedd defnyddio'r ddau hyn (wrth reswm, gellid ystyried llau. 17-20 yn gyfuniad o'r cywydd deuair hirion a'r awdl gywydd a llau. 28-31 yn englyn cyrch).
10. 32-4 Hen fesur ABC; cywydd llosgwrn D. Iolo sy'n cynnig y disgrifiad cywir. Ychwanegwyd sillaf at y ll. olaf er mwyn sicrhau bod yr hyd yn rheolaidd, gw. J. Morris-Jones: CD 330, 380.
11. 35 Rhupunt byr ABC; ni roddwyd enw ar yr adran hon yn D (ond ceir y disgrifiad cywir yn LIGC 13100B).
12. 36-9 Y mae'r llau. hyn yn ffurfio pennill ar fesur clogyrnach, ond holltwyd y ddau gwpled yn y pedair llsg. Galwyd yr ail gwpled yn gyhydedd hir yn ACD a'r cyntaf yn gyhydedd fer yn AC ac yn englyn o'r hen ganiad yn D (unwaith eto gwelir yma lau. nas ceir yn y llsgrau. eraill); nid oes enw yn B.
13. 40-5 Hir-a-thoddaid.
14. 46-51 Gwawdodyn hir.
15. 52-5 Gwawdodyn byr.
- 16-17. 56-61 Clogyrnach ABC; *Mesur o Gysswllt Dull Casnodyn D*. Bernir bod yma ddau gwpled ar fesur y cyhydedd nawban (ychwanegwyd un sillaf at l. 57 i sicrhau bod yr hyd yn rheolaidd) a chwpled ar fesur y cyhydedd hir.
18. 62-9 Tawddgyrch cadwynog.
19. 70-3 Cadwynfyr. Amrywiad ar fesur y tawddgyrch cadwynog yw hwn, gw. J. Morris-Jones: CD 351-2; GP 115-16, ond sylwer nad yw'r patrwm odli yn awdl Lewys yn gyson â'r hyn a welir yn y pennill o waith Dafydd ab Edmwnd a ddyfynnir.
20. 74-7 Rhupunt hir ABC; rhupunt cyfochrog D. Ychwaneg-

wyd un sillaf at l. 75 er mwyn sicrhau bod wyth sillaf ym mhedair ll. y pennill.

21. 78–85 Cyrch-a-chwta.
22. 86–93 Byr-a-thoddaid.
23. 94–7 Cyhydedd fer. Nodwyd yn A–D fod y mesur wedi ei ddefnyddio eisoes, ond fel y gwelwyd, camlabelwyd llau. 36–9.
24. 98–9 Toddaid.

2 *Yn ei sedd enwason*’ yw darlleniad CTC.

7 **Sieron** Y sant Jerome (c. 345–420). Ei orchest fwyaf oedd cyfieithu’r rhan fwyaf o’r Beibl i’r Llad. o’r ieithoedd gwreiddiol, gw. ODCC<sup>3</sup> 867–8.

8 **Awstin** Yr oedd Awstin Sant neu Augustine o Hippo (354–430) yn un arall o’r Tadau Eglwysig a’i ddylanwad ar ddiwinyddiaeth hyd at yr Oesoedd Canol yn aruthrol, gw. ODCC<sup>3</sup> 128–30.

9–11 **Lleision / ... Iestyn / ... Einion** Gwelir ach yr abad yn WG2 1400, sef Lleision ap Tomas ap Siôn ap Llywelyn. Ei fam oedd Sioned, merch Wiliam ap Lleision, ac y mae’n bosibl mai cyfeiriad at daid ei fam sydd yn ll. 9, ond gan fod Iestyn ac Einion yn cael eu henwi, efallai y dylid ceisio esboniad arall. Nodir yn WG2 fod peth petruster yn yr achau gyda golwg ar hynafiaid Sioned, ond pa drywydd achyddol bynnag a ddilynir, deuir at Leision ab Ieuan ap Lleision ap Rhys ... Iestyn, gw. WG1 545, 547, a dichon mai un o’r ddau Leision hyn sydd dan sylw. Priodasai Lleision ab Ieuan ac Ieuan ap Lleision â merched a ddisgynnai o Einion ap Collwyn.

11 **ail Daniel** ‘Gŵr o ddoethineb ac uniondeb rhyfeddol’ oedd Daniel, gw. Geir Beibl 390–1. Ar y gysefin yn dilyn y rhif. *ail*, gw. 13.26n.

12 **Lleuddad** Yn ôl traddodiad, yr oedd yn fab i Ddingad ap Nudd Hael ac yn frawd i Faglan, Eleri, Tegwy a Thyfrïog, gw. LBS iii, 369–74 a chywydd Lewys Glyn Cothi iddo, GLGC cerdd 9 (ond Llawddog yw’r ffurf ar enw’r sant yn y cywydd hwnnw).

15 **Dunawd** Mab Pabo Post Prydain; dywedir iddo ef a’i feibion sefydlu’r fynachlog ym Mangor Is-coed, gw. LBS ii, 382–6; TYP<sup>2</sup> 334–5; WCD 207–8.

**Berned** Fe’i cyfrifid yn dad y Sistersiaid, a daeth y fynachlog a sefydlodd yn Clairvaux yn grud i’r mudiad a ledodd i bob cwr o Ewrob gan gynnwys Cymru, gw. ODCC<sup>3</sup> 192–3. Rhoddwyd Nedd o dan awdurdod abaty Savigny yn Normandi yn y lle cyntaf, ond daeth yr holl dai a berthynai i’r abaty hwnnw yn rhan o’r rhwydwaith Sistersaidd yn 1147, gw. Glanmor Williams, ‘Neath Abbey’,



*The Welsh and their Religion* (Cardiff, 1991), 73–4.

Cyfatebiaeth t..d = t.

- 18 **bugeilwriaeth** ‘Swydd neu ofal bugail’, gw. GPC 348 lle y dyfynnir y ll. hon.  
**Aron** Prif offeiriad yr Iddewon a brawd Moses, gw. Geir Beibl 1–2.
- 19 **plas Mair** Yn unol ag arfer y Sistersiaid, cysegrwyd eglwys yr abaty i’r Forwyn Fair, gw. John Newman, *The Buildings of Wales: Glamorgan* (London, 1995), 421–31.  
**balsamŵm** ‘Sudd persawrus y pren balm’, GPC 252. Rhaid wrth sillaf drom i odli â *swm* yn y ll. sy’n dilyn, ond sillaf derfynol ysgafn sydd i’r geiriau *balsamŵm*, *balsamŵn* a restrir yn *l.c.*
- 20 **Simon** Am ei hanes yn bendithio Crist, gw. Luc 2.25–35. Dygir yr hanes hwn i gof yng nghywydd Hywel Swrdwal i Anna fam Mair, gw. GHS 21.53–62. Er na chrybwyllir hynny gan yr Efenglydd, myn Hywel Swrdwal *Sawr a roes ar yr Iesu, / Sawr sinam neu falsam fu*, ac ymddengys fod Lewys Morgannwg yn adleisio traddodiad cyffelyb yn y fan hon.
- 24 **dysgydron** Ffurf l. *dysgawdwr* ‘athro, hyfforddwr, doethur’, gw. GPC 1149, lle y rhestrir y ffurfiau ll. *dysgawdwyr*, *dysgodron*.
- 28 **Ebron** Dinas a leolwyd mewn dyffryn cymharol ffrwythlon yn neheudir Canaan, a chanddi gyswllt â rhai o’r prif gymeriadau Beiblaidd ac Abraham yn eu plith, gw. Geir Beibl 678–9; ODCC<sup>3</sup> 744.
- 30 **trumio** ‘Toi, gorchuddio’, gw. GPC 3623.
- 33 **pa le** Ffurf ar *pe*, *pei* yw *pa* yma, gw. GPC 2704–5.
- 35 **emperial** Amrywiad ar *imperial* a restrir yn GPC 2018 (a’r unig enghraifft yn dod o waith Lewys Morgannwg), ond yma yn cyflawni swyddogaeth enwol.
- 37 Camosodiad s.r = r.s.
- 38–9 **fernygl**, / ... **pinygl** Ni nodir y ffurfiau *fernygl* a *pinygl* yn GPC 1269, 2806 (rhestrir *pinagl*, *pinagl*, *pinegl*) ond rhaid wrth ffurf sy’n odli â *cerygl* ll. 38 sy’n ffurf gydnabyddedig.
- 39 **tair ffynnon** Ceir goleuni ar y cyfeiriad hwn yng nghywydd Lewys Glyn Cothi i Ruffudd Derwas, gw. GLGC 234.23–6 *Tair ffynnon gwynion eu gwedd / draw a geir i’r drugaredd: / y bedd a Saint Siâm drwy’r byd, / a Rhufain a geir hefyd*. Cf. hefyd y cywydd a ganodd Llywelyn ap Hywel ‘i ddangos Dull a gwycheder Rhufain’, gw. LIGC 13071B, 116 *O awn dref a nef yn vn wedd / Ruvain a phethav Ruvedd / gorav hwnt ydiw r gaer honn / a phennaf or tair phynnonn*.
- 41 Y mae yma gynghanedd sain lefn ddiacen reolaidd, ond os cyfrifir

hon yn gynghanedd groes, ceir ynddi gamosodiad r.f = f.r.

- 44 **Harri** Iolo Morganwg sy'n barnu i Lewys ganu'r awdl yn ystod teyrnasiad Harri VII (gw. y pennawd a ddyfynnir ar ddiwedd y testun), ond y mae'n dra annhebygol fod y bardd yn canu cyn 1509, sef blwyddyn marw Harri VII. Yn y pennawd yn LIGC 13100B, ychwanegwyd y geiriau y *nawfed flwyddyn o'i goroned* [= 1494].
- 46 **gwreichion** Darlunnir mwg a gwreichion y canhwyllau yn codi fry, a cf. *Ochenaid am wreichionen / O'i fawr wyrth a'm pyrth i'm pen*, gw. GIBH 12.47–8n.
- 48–9 **Y llawr ... / ... â main brithion** Yr oedd teiliau prydfferth yn addurno llawr abaty Margam, a diau fod addurn cyffelyb ym mynachlog Nedd, gw. A. Leslie Evans, *Margam Abbey* (Neath, 1958), 30.
- 51 **mynych 'Ogoniant'** Yr oedd i'r emyn 'Gloria in Excelsis' le amlwg yn yr offeren, gw. ODCC<sup>3</sup> 682, a chynigir mai cyfeiriad at hynny sydd yma.  
Cf. y ll. o'r eiddo Rhisiart ap Rhys, gw. GRB 24.14 *mynych gân menyh gwynion*.
- 52 **teml Salmon** Yn ystod ei deyrnasiad ef y dechreuwyd codi yng Nghaersalem y deml a ddaeth yn ganolbwynt i grefydd yr Iddewon, gw. ODCC<sup>3</sup> 868–9.
- 56 **bywydolion** Ffurf l. *bywydol* 'bod meidrol'. Eiddo Lewys yw'r unig enghraifft a ddyfynnir yn GPC 371.  
*n wreiddgoll a thrachefn yn nwy fraich y cwpled sy'n dilyn.*
- 57 *n berfeddgoll* (ar ôl diwygio'r ll.).
- 62–9 Dyfynnir y llau. hyn (er nad ydynt yn cyfateb yn union i'r hyn sydd yn y llsgrau.) yn y drafodaeth ar fesur y tawddgyrch cadwynog yn Dafydd Morganwg, *Yr Ysgol Farddol* (Aberdar, 1869), 130.
- 63 **trallaw** Dichon mai'r gair sy'n digwydd yn yr ymadrodd *llaw drallaw* 'lawlaw' sydd yma, gw. GPC 2104 a cf. GLGC 124.23–4 *ef a wnâi a wnelai naw / wedy'r elhwng law drallaw*, ond ystyrllon hefyd fyddai'r f. *trullio* 'darparu, arllwys (gwin)'.  
*m berfeddgoll*, ond gellid cynghanedd reolaidd o dderbyn *trwn* llsgr. B.
- 70–3 Dyfynnir y pennill hwn yng ngramadeg Siôn Dafydd Rhys yn yr adran ar y cadwynfyr, ond nid yw'n cyfateb yn union i'r pennill yn yr awdl fel y diogelwyd hi yn y gramadeg, gw. *Cambrobrytannicae Cymraecaeve Linguae Institutiones et Rudimenta* (1562), 225.
- 72 Nid yw'r ll. yn gwbl foddhaol.
- 75 **gleinion** Ffurf l. *glân*, gw. GPC 1400.

- 76 **yfferennau** Ni chofnodir y ffurf hon yn GPC 2635 d.g. *offeren*.
- 85 Y mae darlleniad ABC yn torri ar y cymeriad llafarog, ac nid amhriodol fyddai mabwysiadu darlleniad D *O'r tiroedd a'r môr tirion*.
- 86–7 **Lloegr, / ... Ffrainc, Iwerddon** Bu Lleision yn ymweld â thai ei urdd yn y tair gwlad hyn. Yn 1532 fe'i penodwyd yn aelod o gomisiwn i atgyfnerthu Coleg Bened yn Rhydychen ac erys ar glawr lythyr a anfonodd o'r fan honno at Syr Edward Stradling, Sain Dunwyd.
- 92 **sofestr** 'Rhesymegwr cywrain', gw. GPC 3316. O waith Siôn Brwynog y daw'r enghraifft gynharaf a restrir.
- 95 **Asa** Y sant a gysylltir â Llanelwy, a mab Sawyl Benuchel ap Pabo Post Prydain, gw. LBS i, 177–85; WCD 30.
- 96 **Beuno** Fe'i crybwyllir yn fynych yn rhinwedd ei gyswllt â'r santes Gwenfrewy. Yn ôl ei fuchedd a gofnodwyd yn 1346, fe'i croesawyd yn gynnar yn ei yrfa gan Ynyr Gwent, gw. LBS i, 208–21; WCD 42–4.

## 23

Cywydd moliant i Water Herbert, mab Syr Siors Herbert, ac wŷr Wiliam Herbert, Iarll Penfro, gw. WG2 780; LPMG 282. Cysylltir Syr Siors â Sain Silian ym mhlwyf Eglwys y Drindod yn sir Fynwy, gw. WATU 42, 195, cartref a ddaethai i feddiant Iarll Penfro erbyn y bymthegfed ganrif, gw. Hist Mon iv/ii, 295. Er i Water ddal swyddi cyhoeddus yn y sir honno yr oedd a wnelai hefyd â bywyd cyhoeddus sir Forgannwg ac y mae'n arwyddocaol mai ei enw ef sydd ar frig y rhestr o noddwyr lleig yn y cywydd a ganodd Lewys i erchi gwartheg gan lawer o wŷr Morgannwg dros Lewys Gwyn, Trefesgob, gw. 75.29–30; hefyd nodyn brig cerdd 102.

Yn ôl y pennawd yn llsgrau. DE, yr oedd Water eisoes wedi ei urddo yn farchog pan ganwyd y cywydd. Fodd bynnag, fe'i gelwir yn *Mastr Water* yn ll. 4, teitl a roddir fel arfer yng nghanu'r bardd ar y sawl nad urddwyd mohono, a diau mai mynegi dymuniad a wna'r bardd yn y cwpled olaf pan ddywed y carai weld Water yn arddel *enw o dri darn*, h.y. Syr Water Herbert. Yn llau. 47–8 rhagwelir dyrchafu Water yn aelod o Urdd ddethol y Gardas a hyd yn oed yn Iarll Penfro, sef y teitl a fu i'w deidiau (llau. 49–50). Ni chanwyd y cywydd cyn 1542, gw. KE ii, 53 (ond yn KWLC 524 bernir mai rhwng Mawrth 1549 a Medi 1550 yr urddwyd ef).

Ni chrybwyllir y rhan a gymerodd Water yn y cyrch ar Fwlen yn 1544 ac ni sonnir am unrhyw swyddi a gafodd a gallai hyn awgrymu mai cywydd i wŷr ifanc sydd yma. Nid enwir ei wraig yn y cywydd ychwaith. Mari, merch Syr Wiliam Morgan, oedd hi. Canodd Lewys Morgannwg i'w thad ac i'w

brawd, gw. cerddi 28–9. Ail wraig Water oedd Sysil, gweddw Arnallt Bwtler a farwnadwyd gan Lewys, gw. cerdd 12. Trwyddi hi y daeth Bryn-y-frân yn eiddo i Water, gw. Hist Mon *l.c.*

Cafodd Water siryfiaeth Mynwy yn 1541. (Yr oedd yn un o dri a enwebwyd yn 1540 ond arall a bigwyd, gw. LPFD xvi, cofnod 305.80. Fe'i henwebwyd drachefn yn 1541 ac yr oedd ei enw hefyd ar restr sir Forgannwg, gw. *ib.* cofnod 1391.67). Daeth yr anrhydedd hwn i'w ran drachefn yn 1550 ond bu farw tra daliai'r swydd, a phenodwyd olynnydd iddo ym mis Chwefror 1551, gw. LSEW 83. Daliodd nifer o swyddi yn y De o dan Iarll Caerwrangon, gw. W.R.B. Robinson, 'The lands of Henry, Earl of Worcester in the 1530s', B xxv (1972–4), 227; *id.*, 'The Welsh lands of Henry, Earl of Worcester in the 1530's', *ib.* 329–30 (troednodiadau).

Yn BL Add 15038 y ceir y testun gorau, ond rhan yn unig o'r cywydd a ddiogelwyd yn hon, sef llau. 50–82. Cyfetyb rhai o ddarlleniadau'r llawysgrif i destun ABC, ond droeon eraill ategir darlleniadau DE. Wrth lunio testun o ran gyntaf y cywydd, felly, dilynwyd ABC, ond mabwysiadwyd rhai darlleniadau mwy ystyrion sy'n digwydd yn nhestunau diweddarach DE gan farnu y gallai'r rhain fod wedi bod yn rhan o destun BL Add 15038 pan oedd yn gyflawn.

- 3 **am dduw Llun** Yn llau. agoriadol y cywydd, dygir i gof frwydr Banbri (1469) a dienyddio Wiliam Herbert, Iarll Penfro, ac anogir Water, yr ŵyr, i dalu'r pwyth, thema sy'n dôn gron yng nghanu'r bardd i ddisgynyddion yr iarll; am enghreifftiau eraill, cf. 1.34n; 26.27. Trafodir dyddiad brwydr Banbri yn CH, gw. cerdd 20 a'r nodiadau ac ymhellach yn W.G. Lewis, 'The Exact Date of the Battle of Banbury, 1469', *The Bulletin of the Institute of Historical Research*, lv (1982), 194–6. Ystyrir yno yr hyn a ddywed y croniclau am y frwydr, yr hanes am ddienyddio Wiliam Herbert a thystiolaeth canu'r beirdd. Er bod rhai croniclau yn awgrymu mai ar 26 Gorffennaf 1469 y bu'r brwydro, y mae eraill yn crybwyll 24 Gorffennaf, a oedd yn ddydd Llun, a dengys W.G. Lewis mai'r diwrnod hwnnw a enwir yn ddieithriad yng ngherddi'r beirdd. Felly Lewis ar yr achlysur hwn.
- 5 **llew gwyn** Yr arwydd herodrol a fabwysiadodd disgynyddion Syr Wiliam Tomos, y Marchog Glas o Went, a Water Herbert yn eu plith, gw. DWH ii, 227. Gwelir yr arwyddlun hwn ar feddrod Water yn eglwys Casnewydd-ar-Wysg.
- 7 **terniaw** Cynigir yr ystyron 'niweidio, drygu, andwyo' yn GPC 3486, a dyfynnir cwpled o waith Lewys, sef 49.31–2, ond rhybuddir mai 'tywyll yw'r enghrau. isod a phetrus iawn yw'r ystyr a gynigir'. Y mae'r ystyron hynny yn taro yn y cyd-destun ac yn 49.31 *Aut arnynt wedy terniaw*. Ond y mae'n amlwg, a barnu wrth hyd y ll. a'r

modd y sillafwyd y gair, fod Pen 100, a'r llsgrau. a'i dilynodd, yn deall *teyrnio* 'rheoli, bod yn bennaeth', a gwedda'r ystyr honno drachefn. O dan *teyrnio* y dosbarthwyd y ll. hon yn GPC 3496. Os derbynnir yr ail ystyr, gellir dehongli'r cwpled mewn dwy ffordd: naill ai 'I'th law di [y perthyn] rhoi dyrnod i ddial [lladd] iarll am ei fod yn rheoli' (h.y. fe'i lladdwyd gan ei elynion am eu bod yn eiddigeddu wrth ei rym a'i ddylanwad) neu 'I'th law di [y perthyn] rhoi dyrnod i ddial [lladd] iarll am fod [eraill wedi bod] yn rheoli [= gormesu]'.

- 9 Y cytseiniaid *nt* yn y gair *Gwent* yn cyfateb i *n..d*, ond sylwer mai *Gwend* a geir yn DE. Digwydd y gynghanedd groes o hanner cyswllt yn achlysurol yng nghanu Lewys (ceir un enghraifft yn y cywydd hwn yn ll. 55), ond tra anghyffredin yw gweld y gyfatebiaeth *n.t = n.d* yng nghorff ll. o gynghanedd.
- 12 *n* wreiddgoll. Gw. hefyd lau. 29, 65.
- 13–14 **Iarll ... / Cernyw ... Owain Glyn** Priododd Syr Siors Herbert â Sybil, merch Rhisiart ap Wiliam ap Syr Siôn Crofft. Sioned, merch Owain Glyndŵr, oedd gwraig yr olaf. Priododd Rhisiart Crofft (o Gastell Crofft yn swydd Henffordd) â merch Syr Edmwnd Cornwall, gw. WG2 343.
- 21–2 **[y] ddau Wiliam, / ... gwaed Ddafydd Gam** Drwy ei daid, Wiliam Herbert, Iarll Penfro, a thrwy dad hwnnw, Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas, yr ymgysylltai Water â Dafydd Gam. Gwladus, merch Dafydd Gam, oedd mam Wiliam Herbert, gw. WG1 425; 8.20n.
- 28 Ll. anarferol yn gymaint â'i bod yn cynnwys *n* wreiddgoll ac *n* berfeddgoll, ond y mae lle i gredu ei bod yn llwgr. Gall *dywaid ti* y llsgrau. fod yn wall am *dy waed di* a mabwysiadwyd y darlleniad hwnnw, ond efallai mai ffurf ar y f. *dywedyd* sydd ei hangen, a bod y bardd yn annog y rhai nad oes ganddynt le i ymfalchïo yn eu tras i ymdawelu (ll. 27) ac ar yr un pryd yn pwysleisio pa mor briodol oedd cyhoeddi tras Walter Herbert (ll. 28).
- 30 **nai Syr Water** Ewythr Water (a brawd ei dad) oedd Syr Water Herbert, Caldicot, ac ymddengys mai ef, yn hytrach na'i frawd hŷn, Wiliam Herbert (a ddyrchafwyd yn Iarll Huntingdon maes o law) a etifeddodd alluoedd gweinyddol a milwrol Iarll Penfro. Elisabeth, merch Iarll Huntington, a etifeddodd Raglan wedi marw ei thad, ond ceisiodd Syr Water feddiannu'r castell, a bu'n byw yno yn ysbeidiol. Priododd â merch Hwmffre, Dug Buckingham, a daeth castell Caldicot i'w feddiant o ganlyniad. Bu farw yn 1507 a'i gladdu yn abaty Tindyrn, gw. CH ii, 166–8. Casglwyd a golygwyd y canu iddo yn *ib.* cerddi 41–6. Canodd tri bardd iddo: Guto'r Glyn,

Huw Cae Llwyd ac Iorwerth Fynglwyd a'i cyfarchodd mewn cywydd a thair awdl.

Ymhen yrhawg byddai'r Arglwydd Herbert o Cherbury yn dwyn i gof y modd y trawsfeddiannwyd Rhaglan pan briododd Elisabeth Herbert. *This Earle of Pembrook had a younger Son which had a Daughter which married the eldest Son of the Earle of Worcester, who carried away the fair Castle of Ragland with a many thousand pounds yearly from the Heir Male of that house, which was the second Son of the said Earle of Pembrook, and ancestor of the Family of St. Gillians*, gw. *The Life of Edward, First Lord Herbert of Cherbury* ed. J.M. Shuttleworth (London, 1976), 6–7.

- 40 **Syr Siors** Y tad, nid nawddsant y Saeson a enwir yn ll. 45. Enwir ef a'i ddau frawd, Wiliam Herbert a Syr Water Herbert, mewn cywydd a ganodd Huw Cae Llwyd i dri mab Iarll Penfro, gw. CH cerdd 52; HCL1 cerdd XXXIII.
- 41 **Dewras** Dilynwyd darlenniad DE sy'n cynnal y cymeriad llythrennol ac y mae'r ll. yn asio yn naturiol wrth gynnwys llau. 33–46. Ann Defras (Devereux) oedd gwraig Wiliam Herbert, Iarll Penfro.
- 42 **ail dyn** Ar gadw'r gysefin ar ôl y trefnol *ail*, gw. 13.26n.
- 48 **Syr Water** Diau mai'r ystyr yw 'Newid dy enw [yn] Syr Water', gw. y nodyn brig. Ond gallai fod yn gyfeiriad at yr ewythr a enwir yn ll. 30 uchod. Os felly dylid atalnodi'r cwpled fel a ganlyn, *swm at henaur / Syr Water ...*  
*m* berfeddgoll yn union o flaen yr acen. Gellid goresgyn hynny drwy ddilyn darlenniad DE *moes arter aur*. Rhaid fyddai derbyn wedyn fod cynghanedd sain yn y ll. a honno yn cynnwys odl lafar, a cf. 3.81n, 5.41n.
- 50 Rhaid cyfrif *titl* yn air deusill.
- 52 y **Marchog Glas** Gw. 23.21–2n.
- 55 Cynghanedd groes o hanner cyswllt, gw. 23.9n.
- 56 **dy wledydd** Sylwer ar y darlenniad *dwy wledydd* yn yr Amrywiadau. Am enghraifft arall o'r ll. yn dilyn y rhif., gw. 7.59n.
- 57 **Mawr yw gwenwyn 'Morgannwg** Anodd gwybod at ba anghydfod yn union y cyfeirir, ond bu ymddygiad Water yn destun gofid i'r awdurdodau ar fwy nag un achlysur. Yn Chwefror 1540, hysbyswyd Cromwell fod gweision Water wedi lladd gŵr o'r enw John Carne, gw. LPFD xv, cofnodion 129, 146. Cyflawnasai ei weision anfadwaith cyffelyb ryw saith mlynedd ynghynt; llofruddiesid gŵr yng Nghasnewydd a lladdwyd gŵr arall pan ymyrrodd Water a phan geisiodd ymosod ar y swyddog a fynnai gosbi'r llofrudd, gw. LPFD vi, cofnod 1656. Yr oedd Water yn ddirprwy

stiward arglwyddiaeth Magor o dan Iarll Caerwrangon, ‘a haven for murderers and thieves under the corrupt aegis of Water Herbert, Worcester’s deputy’, gw. GCH iv, 143.

- 67 Gwelir bod cryn anghysondeb yn y llsgrau. Gellid *Bw fawr oedd ... neu Bai fawr oedd ...*, ond eg. yw’r ddau hyn, gw. GPC 250, 350 d.g. a 23.1 uchod (*bw mawr*). Diwygiwyd felly > *Ba ferw ...* ond ni newidiwyd ergyd y cwpled hwn a’r un blaenorol. Awgrym y bardd yw na fyn yr awdurdodau weld y Cymry yn gytûn, ond mai dewis-ach ganddynt eu gweld benben â’i gilydd (cf. TA LXVI.77–8 *Cymru’n waeth, caem, o’r noethi, / Lloegr yn well o’n llygru ni!*). Pe llwyddai’r Cymry i ymgymodi, buan y gwelai’r Saeson fyd gwahanol.
- 68 Chwe sillaf yn y ll.
- 72 **ateb plaen** Cynigir dwy ystyr yn GPC 2814 er mai’r ail sy’n gweddu orau yn y cyd-destun, sef i. ‘egllur, amlwg, clir’, a digwydd *exempl plaen* ymhlith yr enghreifftiau a ddyfynnir; ii. ‘onest; heb flewyn ar ei dafod’, a dyfynnir cwpled o waith Dafydd Benwyn sy’n cynnwys yr ymadrodd *gair plaen*. Ond gellid cyfrif *Blaen* yn e.p. ac y mae’r modd y rhannwyd y geiriau yn Pen 100 yn ategu’r dehongliad hwn. Ni welais yr enw yng ngwaith un o’r Cywyddwyr, ond digwydd yn y Gododdin yn awdl XVI, a barnai’r golygydd ‘mai allwedd yr awdl anodd hon yw cymryd mai enw dyn yw Blaen, a’r gweddill yn chwarae ar ei enw’, gw. CA 113. Bu Llyfr Aneirin ym meddiant Gwilym Tew, ewythr Lewys (neu, o bosibl, ewythr ei dad), gw. CLC<sup>2</sup> 303.
- 79 Twyll gynganedd *d*. Gellid *Un wyt ti ...* gan ddilyn llsgrau. DE, ond collid y cymeriad llythrennol sy’n clymu ynghyd lau. 77–82 o ganlyniad.

## 24

Cywydd marwnad i Syr Siôn Rhaglan o’r Carn Llwyd yn Llancarfan yng nghantref Penychen. Yr oedd yn fab i Robert ap Siôn ap Robert ab Ieuan ap Tomas ap Gwilym ... Godwin, gw. WG1 422, 426; WG2 791; LPMG 274–5. Daeth y Carn Llwyd yn eiddo i’r teulu pan briododd Siôn ap Robert ab Ieuan â Chatrin, merch Lewys Mathau ap Mathau ab Ieuan ap Gruffudd Gethin, gw. WG1 473. Canodd Iorwerth Fynglwyd gywydd moliant i Syr Siôn, gw. GIF cerdd 16.

Yn ôl tystiolaeth y cywydd, bu Syr Siôn Rhaglan *ar filioedd yn rhyfelu*. Dywed Iorwerth Fynglwyd yn ei gywydd i Siôn, gw. GIF 16.39–40 *Torraist oblegid taraw / Terwyn neu dre Twrnai draw*. Fe’i hurddwyd yn farchog yn Nhwrnai ar 25 Medi 1513, gw. LPDF i/ii, cofnod 2301. Bu farw yn 1531

neu 1532, gw. KWL 292.

- 2 **Iarll** Rhoddwyd prif lythyren i'r gair ac awgrymir bod Lewys yn cyfodod marwolaeth Syr Siôn a marwolaeth Wiliam Herbert, Iarll Penfro. Ond gellid yr e.c. *iarll*. Ar y cyswllt â'r Herbertiaid, trwy Wladus Gam, gw. llau. 21–2n.
- 5 **Emrys** Emrys Wledig, yr arweinydd milwrol a ddaeth i'r amlwg wedi ymadawiad y Rhufeiniaid, a mab Custennin Fendigaid yn ôl Sieffre. Enwir yr olaf yn ll. 9, gw. TYP<sup>2</sup> 314, 345–6; WCD 248–9.
- 11 **Caerddydd** *Caerdyf* yw'r ffurf arferol, gw. ll. 40 a'r rhestr 'Enwau lleoedd', ond defnyddia'r bardd y ffurf *Caerddydd* yma er mwyn sicrhau cynghanedd groes. Digwydd *Caerdydd* a *Caerdyf* yn safle'r odl yng nghanu Rhisiart ap Rhys, gw. GRB 32.41, 33.28.
- 12 **Rhufain milwr efydd** Cyfleu doethineb a wna'r cyfeiriadau yng nghanu'r beirdd at y *pen pres* ac at y *gŵr efydd*, a cf. 67.13 *pen bràs*, 93.2 *brawd y pen pres*. Gwelodd Andrew Breeze, 'Roger Bacon's head of brass', *Trivium*, xxiii (1988) 35–50, gyfeiriadau o'r fath yng ngwaith cynifer â phedwar bardd ar ddeg; am enghreifftiau pellach gw. GSC 1.5; GLD 20.60. Cyfeiriodd Lewys ar achlysur arall at y ddelw efydd y gorchmynnodd Gwerthefyr i'w wŷr ei chodi er dychryn i'r gelyn, gw. 21.51–2n, ond dangosodd Andrew Breeze mai at draddodiad arall y cyfeiriodd Dafydd Nanmor pan soniodd ef am *Da vodd y llwniwyd o fain / Gŵr efydd i Gaer Rufain*, gw. DN XV.17–18, a cf. hefyd GLGC 55.23–4 *a'i lun ef ar farch efydd / yng Nghetheiniog farchog fydd*. Y marchog efydd a ddefnyddiai'r Rhufeiniaid i ganfod brad oedd hwn a dichon fod Lewys Morgannwg yma yn adleisio'r un traddodiad. Yn ôl mytholeg y Groegiaid, Talos, y gŵr o efydd, a warchodai Ynys Creta, gw. OCCL 549 a'r drafodaeth yn GLM 394; TA 555–6.
- 20 **Mathau** Gw. y nodyn brig.
- 21–2 **Syr Rhoser ... / Fychan** Mam Syr Siôn Rhaglan oedd Gwenllïan, merch Syr Rhosier Fychan ap Syr Rhosier Fychan. Gwladus, merch Dafydd Gam, oedd ei nain hi, gw. WG1 243; WG2 461. Gwladus hefyd oedd mam Wiliam Herbert, Iarll Penfro, gw. 8.20n.
- 23 **arnam** Ffurf l ll. yr ardd. *ar*, gw. G 34. Dyma'r unig enghraifft o'r ffurf yn y canu. Digwydd *arnom* yn safle'r odl yn 12.68, 76.54, 94.23 (yn odli â *trom* bob tro).
- 24 **difaodd gweilch** Nid anghyffredin oedd cadw cysefin y gwrthrych yn dilyn ffurfiau 3 un.grff.myn. sy'n diweddu ag *-odd*, gw. Treigladau 218–19.
- 26 **Iestyn ac Einion** Priododd Ieuan ap Gruffudd Gethin (gw. y nodyn



brig) ag un o ddisgynyddion Iestyn ap Gwrgant, rheolwr annibynnol olaf Morgannwg. Gallai Dafydd Gam olrhain ei ach hyd at Einion Sais, gw. WG1 101, 104.

- 28 *n wreiddgoll*, ac felly yn ll. 34.
- 30 **Lleon Gawr** Mab Brutus Darian Las yn ôl Brut Sieffre, a'r gŵr a adeiladodd ddinas Caer(lleon), gw. BD 25; WCD 407. Nid awgrymir yn y Brut ei fod yn gawr, ac ni sonnir amdano yn nhraethawd Siôn Dafydd Rhys ar y cewri er ei fod yn crybwyll dinas Caer(lleon), gw. Hugh Owen, 'Peniarth MS 118, fos. 829–837', *Cy* xxvii (1917), 115–52, ond yr oedd traddodiad ymhlith y beirdd ei fod yn gawr fel y tystia'r cwpled hwn o'r eiddo Lewys, a cf. GIF 22.1–2 *Y llên addfwyn llunieiddfawr / llawen gwych, ail Lleon Gawr*; GSC 6.3–4 *Mae hwp arfau mab hirfawr, / Mae llun gwych mal Lleon gawr*. Canodd Wiliam Egwad awdl foliant i dref Caer a'i thrigolion ond ni chrybwyllodd unrhyw draddodiadau am y sawl a'i sefydlodd.
- 41 **hiraethynt** Gallai fod yn e. cyfansawdd *hiraeth* + *hynt*, neu yn ffurf 3 ll.amhff.myn. y f. *hiraethu*.
- 42 **llanw ... Noe** Y dilyw a ddisgrifir yn Gen 7.
- 50 **marw bron Gwalchmai'r brenin** Gallai gyfeirio at ddyletswyddau Syr Siôn Rhaglan pan oedd yn gwasanaethu yn y llys brenhinol, gw. W.R.B. Robinson, 'Henry VIII's household in the fifteen-twenties: the Welsh connection', *The Bulletin of the Institute of Historical Research*, lxxviii (1995), 173–90 (td. 190).
- 54 **mwy golled** Ar y treigladd, gw. 1.18n, a cf. isod ll. 68 *mwy obaith* ond gthg. ll. 10 *llai meirch*.
- 58 **Ann** Eleanor, merch Syr William Courtenay o Ddyfnaint, oedd gwraig gyntaf Syr Siôn Rhaglan, ond ei ail wraig oedd Ann, merch Syr William Dennis. Wedi marw ei gŵr, ailbriododd Ann â Syr Edward Carn, gwrthrych cerdd 15. Yn Hydref 1546 pwrzasodd Edward Carn yr hawl ar diroedd a dwy felin ddŵr ym mhlwyf Llanfeuthin (a oedd gynt yn rhan o blwyf Llancarfan, gw. WATU 119) y bu Siôn yn eu dal, gw. LPFD xxi/ii, cofnod 332.83.
- 60 Cymerir bod *marchog* y ll. hon i'w gysylltu â'r geiriau *am wych unoed* ym mraich gyntaf y cwpled. Yr oedd yr Arglwyddes Ann nid yn unig yn ferch i farchog ond yn wraig i farchog hefyd, a gallai ll. 60 ar ei hyd fod yn ymadrodd genidol, *Ferch a gwraig farchog erioed*. Diwygiwyd y ll. am ei bod sillaf yn brin.
- 64 **chwech oes** Ar y cyfuniad, gw. 3.85, 13.69n a cf. 27.44.
- 65 **bron o bres** Mynegir yr un syniad gan Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 188.49–54. Disgwyliid i'r e. *bron* dreiglo, ond y mae'r gyng-

hanedd sain yn hawlio'r gysefin.

71–80 Gwelir bod Lewys yn cloi ei gywydd gyda dilyniant o lau. sy'n dechrau â'r un gair—*hwyr* yn yr achos hwn, a manteisiodd ar y ddyfais hon ar achlysuron eraill. Tâl nodi i Iorwerth Fynglwyd ddewis cloi ei gywydd yntau i Siôn yn yr un modd, gw. GIF 16.47–62.

80 *r wreiddgoll.*

## 25

Ceir ach Dafydd Cemais yn WG2 1125, 1128; LPMG 407 fel a ganlyn: Dafydd ap Morgan ap Hywel ab Ieuan ap Siancyn ap Siôn. Cartrefai'r teulu yng nghantref Gwynllŵg, yn Llaneirwg gerllaw aber Afon Rhymini. Yr oedd *David Morgan Kemeys* ar dir y byw yn 1543 a 1544; fe'i rhestrir ymhlith comisiynwyr heddwch sir Fynwy ar gyfer y blynyddoedd hynny, gw. LPFD xviii/i, cofnod 226.28 ac *ib.* xx/i, cofnod 622 (td. 319); JPWM 344. Cyfeiria Lewys yn y farwnad at *fwlch er doe 'n ei fainc.*

9 **Morda'** Un o'r Tri Hael traddodiadol, gw. TYP<sup>2</sup> 5–6, 463; WCD 483.

10 **Ifor Hael** Gallai Dafydd arddel cyswllt ag Ifor Hael trwy ei wraig gyntaf, Catrin, merch Siôn ap Morgan ap Siancyn ap Ffyllib ap Morgan ap Llywelyn. Yr oedd Morgan ap Llywelyn yn frawd i Ifor Hael, gw. WG1 201; WG2 394. Ond nid hwn oedd yr unig gyswllt. Priododd un o hynafiaid Dafydd hefyd, sef Siancyn ap Siôn, ag un o ferched Morgan ap Llywelyn, gw. WG1 200.

Newidiwyd trefn y ddau air, *mawr a marw*, er mwyn gwella'r ystyr.

13 **Einion Sais** Priododd Hywel ab Ieuan ag un o'i ddisgynyddion.

17 **Grant** Gwraig Morgan ap Hywel oedd Alswyn, merch Siôn Gwyn ap Gwilym. Nid enwir gwraig Siôn yn yr achau ond dywedir ei bod yn ferch i Domas Grant, gw. WG2 163. At hyn, gw. 25.33n isod.

**dan llawr** Ar y caledu sy'n digwydd i'r gytsain *ll* pan ragflaenir hi gan yr ardd. *dan*, gw. Treigladau 385–6.

20 **Llanfileirwg** Y gynghanedd yn mynnu'r ffurf hon. Cofnodir y ffurfiau *Llaneirwg* a *Llan(l)irwg* yn WATU 114.

22 **Bledri** Bledri Latimer, mab Cydifor Fawr o Flaen Cuch, gw. WG1 187, ac un o gyndeidiau Ifor Hael. Yn Lewys Morgannwg: Gw 925, awgrymir mai'r gŵr a fu'n esgob Llandaf ac a fu farw yn 1022 (a'r gŵr a ddisgrifiwyd gan Iolo Morganwg yn Bledri Ddoeth), sydd dan sylw, gw. WCD 44–5.

- 27 **iustusaeth** Gw. y nodyn brig.
- 29 Twyll gynghanedd g.
- 31 *r* berfeddggoll, ond gellid diwygio *Da i wŷr bro Wysg dir a braint ...*
- 33 **ei briod** Nis enwir yn y rhan hon o'r cywydd, ond crybwyllir ei hynafiaid. Ail wraig Dafydd oedd hon, sef Eleanor, merch Robert Rhaglan ap Lewys ap Robert ab Ieuan ap Tomas o blwyf Llyswyrny ym Morgannwg, gw. WG2 792. Yr oedd ganddi hithau gyswllt â'r Grantiaid; priodasai Ieuan ap Tomas â merch Gwilym ap Siancyn Grant, gw. WG1 442.
- gobrwyol** 'Teilwng, clodwiw, canmoladwy', gw. GPC 1419.
- 41 **Rhymi** Afon Rhymni yw'r ffin draddodiadol rhwng siroedd Morgannwg a Mynwy. Ar y ffurf lafar *R(h)ymi*, gw. EANC 164–5, ac am enghraifft arall ohoni, gw. GHS 11.51–2 *Duw dan ordd a'n dodai ni / Drom o Dawy i Rymi*. Sylwer bod y gynghanedd yn galw am y ffurf *Rhymi* yn y naill achos a'r llall, ond byddai'r odl derfynol yn gryfach yng nghwpled Hywel Swardwal o fabwysiadu'r ffurf *Rhymni*.
- 45 **trafael** Awgryma'r cyd-destun mai enghraifft o *trafael*<sup>2</sup> sydd yma 'taith, siwrnai' yn hytrach na *trafael*<sup>1</sup> 'ymdrech boenus neu lafurus', er mai i ddiwedd yr 16g. y perthyn yr enghraifft gynharaf yn GPC 3546.
- 47 **medyddiaeth** Rhoddir i *bedyddiaeth* yr ystyr 'bedydd' yn GPC 267, a chwpled Lewys yw'r unig enghraifft a ddyfynnir. Gallai'r bardd fod yn defnyddio'r ymadrodd mewn ystyr drosiadol 'yn gynnar yn y dydd', ond nid yw hynny yn debygol. Gwell derbyn mai ffurf ar *meddyd*, *meddydu* 'meddwl, myfyrio' sydd yma, gw. GPC 2400, ac *ib.* 2394 lle y cofnodir yr amrywiad *medyddu*. Yr ystyr felly fyddai 'Yr amod [a wnaeth] â Duw yn ei feddwl, fe'i cadwodd.'
- 49 Dwy *d* yn ateb un.
- 51–2 'Y mae dihiryn yn taro dyn i lawr mewn teirawr ond a Duw [o blaid y dyn hwnnw] ni thorrid [ef] i lawr o gwbl.'
- 53 Ar gadw cysefin y gwrthrych ar ôl y ffurf 3 un.grff.myn. *dug*, gw. Treigladau 222–3. Sylwer bod y gysefin yn digwydd ar ddechrau ail ran y ll.
- Chwe sillaf yn y ll.
- 55 **Wiliam** Ei fab a'i etifedd.
- 64 **clod** Anodd esbonio'r treigladau. Y mae'n bosibl mai ymgais y bardd i sicrhau cymeriad llythrennol yn y cwpled sy'n cyfrif am y ffurf.

Nid enwir gwrthrych y cywydd ym mhennawd y pedwar testun llawysgrifol, a chynigiwyd yn Lewys Morgannwg: Gw 759 mai (Syr, maes o law) Wiliam Herbert, yr Iarll Penfro cyntaf o'r ail greadigaeth, a roes y fantell i'r bardd. Hwn oedd y gŵr y cyflwynodd Gruffudd Robert ei Ramadeg iddo, gan ddweud amdano *Canys e wyr holl gymru, a lloegr faint ych serch i'r fruttaniaith, pryd na ddoedech wrth gymro, ond cymraeg, ie, ymysg penaduriaid y deyrnas*, gw. *Gramadeg Cymraeg*, gol. G.J. Williams (Caerdydd, 1939). Yr oedd Wiliam Herbert (c. 1501–70) yn fab i Risiart Herbert ac yn ŵyr i Wiliam Herbert, Iarll Penfro, gw. WG2 780–1; ByCy 328–9; CLC<sup>2</sup> 329–30; S.J. Gunn & W.R.B. Robinson, 'The early life of William Herbert, Earl of Pembroke (d. 1570)', *Cylchg HC xviii* (1997), 509–19, ac ar sail y cyfeiriadau achyddol yn y cywydd, gellir derbyn yn ddibetrus mai cywydd iddo ef yw hwn. Fe'i canwyd cyn 1543 pan urddwyd Wiliam yn farchog. Yn fuan wedyn, ym mis Rhagfyr 1549, fe'i dyrchafwyd yn farchog o Urdd y Gardys, gw. KE i, 24; ii, 54. Ymddengys mai ar ei gais ef y lluniodd Lewys ei awdl i'r brenin Harri VIII, gw. cerdd 97 a'r nodyn brig. Brawd iddo oedd Syr Siors Herbert, gwrthrych cerdd 20. Canodd Lewys farwnad i fam y brodyr, gw. cerdd 7.

Golygwyd y cywydd gan Bleddyn O. Huws a'i gyhoeddi yn DGGD cerdd 21.

- 6 **Mastr Rhisiart** Yn ôl y cofnod yn ByCy, yr oedd tad Wiliam yn farchog, ond *Mastr Rhisiart* ydyw yn ôl y bardd, a *Mab ... Meistr Rhisiart* oedd Siors Herbert, gw. 20.5–6. Yr un yw'r teitl yn y farwnad a ganodd Iorwerth Fynglwyd i'r tad (bu farw yn 1510), gw. GIF 11.55–6 *Mair o nef, lle mae'r un wart, / moes di ras i'r Mastr Rhisiart*.
- 11–12 **Ŵyr i iarll ... / A'i nai ... â'i enw** Wiliam Herbert, Iarll Penfro, oedd taid gwrthrych y cywydd, ac yr oedd mab ac etifedd yr iarll, Wiliam Herbert, Iarll Huntingdon, yn ewythr iddo, gw. WG2 780.
- 13 **euro'ch aerwy** Gw. y nodyn brig.
- 15 **aros dydd** Disgwyliid i wrthrych bf.orch. dreiglo, a cf. *ty'n gledd* ll. 29, ond y mae'r gynghanedd yn hawlio'r gysefin. Am enghraifft gyffelyb, gw. 6.5n (ac y mae'n arwyddocaol mai'r un f. sy'n digwydd yn y fan honno).
- 17 **Urien** Gw. 26.21n isod.
- 18 **glin aur** Gw. 2.3n.
- 20–2 **[y] Marchog Cam; / ... / ... Marchog Glas** Gw. 8.20n.
- 21 **Syr Mathias** Marged, merch Syr Mathau Cradog, oedd mam Wiliam Herbert, gw. WG2 781; ByCy 78–9. Ar y cyswllt rhwng

Mathau a disgynyddion Urien, gw. 7.16n.

- 22 **marchocliw** Er bod sawl enghraifft yn y canu o'r bai caled a meddal, diwygiwyd *marchowgliw* y llsgrau. am fod y ddwy gytsain feddal yn yr e. *Marchog Glas* yn caledu ac yn ateb *c* ar dri achlysur, gw. 23.52, 34.20, 71.11. Diwygiwyd yn 69.18 drachefn.
- 26 **wat** Ysgrifennwyd *Wat Tyler* ar ochr y ddalen yn llsgr. D. Yr oedd hwnnw yn un o arweinwyr Gwrthryfel y Taeogion yn 1381, gw. DNB lvii, 420–1. Digwydd yr enw yng ngwaith Gutun Owain a Lewys Môn drachefn (a gw. hefyd y cwpled a ddyfynnir yn DGDG 161) ac awgrymir yn GO XXXIX.12n mai un o frenhinoedd cynnar y Saeson ydoedd y Wat hwn, ond nis enwir yn Bren Saes. Gall fod yn gyfeiriad at Glawdd Wat, clawdd sydd i'r dwyrain o Glawdd Offa ac sydd yn ymestyn o ffiniau sir Drefaldwyn hyd at Ddinas Basi ar lannau Afon Dyfrdwy, gw. H.L.J., 'Offa's Dyke and Wat's Dyke', Arch Camb, 1856, 1–23; HW 199–200; Helen Burnham, *Clwyd and Powys* (London, 1995), 104–8. Y mae'r fannod, fodd bynnag, yn peri credu mai e.c. sydd yma. Tybed ai benthyciad o'r S. *wat* 'a person' ydyw, gw. OED<sup>2</sup> xix, 965? Digwydd ran fynyachaf yn yr ymadrodd a *great wat* megis yn yr enghraifft hon a ddyfynnir: *thys ys some great wat* (fe'i dyddir c. 1500).
- 27 **maes Manbri** Gw. 23.3n. Ar y gysefin *m* yn *Manbri*, cf. 1.34n.
- 36 **Troea** Ymsefydlodd Wiliam Herbert, un o blant anghyfreithlon Iarll Penfro, ac ewythr gwrthrych y cywydd hwn, yn Llanfihangel Troddi (Troya Parva) yng Ngwent Is Coed, gw. WG2 780, 783, ond nid ymddengys mai cyfeirio at y cartref hwnnw y mae'r bardd. Ysgrifennwyd *Llundain* ar ochr y ddalen yn llsgr. C a cf. BD 20 *Ac y doeth [Brutus] hyt ar auon Temys ... Ac yna yd adeyllys dynas ac y gelwis ef Tro Newyd*.
- 37 **waetwyr** Bu Wiliam Herbert yn un o wasanaethwyr personol y brenin Edward VI, ond awgrymir yma iddo wasanaethu'r brenin Harri VIII yn ogystal. Gellid tybio ei fod ef a'i frawd yng ngwasanaeth y brenin cyn 1510 pan fu farw eu tad; geilw Iorwerth Fynglwyd y ddau fab, yn y farwnad i'w tad, yn *waetwyr*, gw. GIF 11.53 ond ni welir eu henwau yn rhestr W.R.B. Robinson, 'Henry VIII's household in the fifteen-twenties: the Welsh connection', *The Bulletin of the Institute of Historical Research*, lxviii (1995), 173–90 (td. 190).
- 40 **mab y dyn** Dilynwyd darlleniad llsgr. C. O dderbyn yr hyn sydd yn y lleill, *at mab*, ceid enghraifft arall o beidio â threiglo'r e. yn dilyn ardd. Ymadrodd a ddefnyddir wrth gyfeirio at y mab darogan yw *mab y dyn* fel arfer, gw. GPC 2293; GDL1 2.4n, ond fe'i defnyddiwyd hefyd wrth gyfeirio at y Tuduriaid coronog. O dderbyn y

darlleniad *âi mab y dyn*, ymddengys mai Wiliam Herbert ei hun a ddisgrifir.

- 41 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 42, 52, 53, 62.
- 43–4 ‘Rhydd Duw yt ddigon o dda y ddaear hon at ddegoes.’
- 50 **Herber** Digwydd y ffurf hon (sy’n caniatáu i’r bardd anwybyddu’r gytsain *t* arferol ar ddiwedd y gair) ar achlysuron eraill yn y canu, cf. 29.34. Digwydd yn safle’r odl mewn awdl o waith Iorwerth Fynglwyd, gw. GIF 13.6.
- 55 **ffelwed** Defnyddir y ffurf hon a *felwed* yn y cywydd, gw. ll. 67, ac y mae’r gynghanedd yn cadarnhau dilysrwydd y ddwy ffurf. Yr ail yn unig a restrir yn GPC 1268 yn amrywiad ar *felwed*. Am enghraifft arall o’r ffurf, gw. Gwilym Tew: Gw 11.51 *Dur a ffelwed ar Phylib*.
- 56 **pryd y mab** Traethawd ar y bywyd ysbrydol yw ‘Ymborth yr Enaid’, a hwnnw yn ei dro yn rhan o waith ehangach (a gollwyd bellach) a adwaenid wrth yr enw ‘Cysegrian Fuchedd’. Yn yr adran ‘Pryd y Mab’ disgrifir Crist yn blentyn deuddeng mlwydd oed, gw. *Ymborth yr Enaid*, gol. R. Iestyn Daniel (Caerdydd, 1995), xxxix–xli, 17–22. Y mae’n bosibl fod y bardd yn dwyn y gwaith hwnnw i gof yn y fan hon ac yn 98.29 *Mae pryd y mab? Hir ydwyd*.
- 59 **gafael** Rhoddir iddo yr ystyr ffigurol ‘meistrolaeth’ yn GPC 1368–9, a gweddaï hynny, ond defnyddir y gair mewn cyd-destun cyfreithiol i olygu ‘gwarant’ a dyna’r ystyr orau yn ddiamau: ‘[un] y mae’r beirdd mawl / y beirdd swyddogol yn gwarantu [ei statws]’.
- 58–61 **Paredur ... / ... / ... Gwalchmai ... / ... Galath** Ei gyffelybu ei hun i’r arwyr chwedlonol a wna’r bardd yn y llau. hyn.
- 64 **brwydau** Rhoddir i *brwyd*<sup>1</sup> yr ystyron ‘harnais gwÿdd sy’n symud edafedd yr ystof neu’r ddylif, ffrâm i frodio arni; brodwaith’ yn GPC 335 d.g *brwyd*<sup>1</sup>.
- [y] **Ford Gron** Geilw Bleddyn O. Huws sylw yn DGGD 136–7 at yr achlysur pan drwsiwyd bwrdd honedig Arthur tua 1513, a’i beintio maes o law, ar gais Harri VIII, ac awgryma y gall fod y bardd yn cyfeirio at y digwyddiad hwnnw.
- 69 **wybren ddu** Cyffelybir lliw’r bais i’r tywyllwch a ddisgynnodd ar y ddaear wedi croeshoelio Crist, gw. Marc 15.33 *A phan ddaeth y chweched awr, y bu tywyllwch ar yr holl ddaear hyd y nawfed awr*, a hefyd Math 27.45; Luc 23.44–5. Mewn cywydd i ofyn pais, dengys Huw ap Dafydd ei fod yn gyfarwydd â’r hanes am y modd y bu’r milwyr yn bwrw coelbren i weld pwy a gâi wisg Crist, gw. GHD 10.57–60.
- 72 **lliniau** Un maes o ystyron a gynigir i *llin* yn GPC 2180–1 yw ‘lliny, cortyn, lein; edefyn, ffibr’. Yma defnyddir y gair i ddisgrifio

‘llinell frodiedig’.

- 77–8 **Ail Padarn ... / ... Peisrudd** Taid Cunedda Wledig oedd Padarn. Awgryma'r epithet *Peisrudd* iddo wasanaethu o dan y Rhufeiniaid. Yr oedd ei bais yn un o'r tri thlws ar ddeg, a'i chynneddf oedd *I vonheddic y gweddai yn dda, ac i anvonheddic ni weddai*, gw. TYP<sup>2</sup> 484; WCD 524; P.C. Bartrum, 'Tri thlws ar ddeg Ynys Brydain', *Études* x (1963), 434–77. Ar y cyfuniad *ail Padarn*, gw. 13.26n.

## 27

Olrheinir ach Wiliam ap Siôn o dad i dad yn rhan gyntaf y cywydd: Wiliam ap Siôn ap Tomas ap Dafydd ap Siancyn ap Hywel ap Gwilym ap Siancyn, gw. WG1 419–20; WG2 763–4. Yn L. Dwnn: HV i, 178, disgrifir gwrthrych y cywydd fel hyn: *Wiliam Johns o Dreowen Ystandard berer Hari 7*. Dywed LPMG 259–60 i rieni Wiliam briodi yn y flwyddyn 1482 a nodir bod y ddau yn fyw yn 1516. Cymysgwyd rhwng Wiliam ap Siôn, Treowain, a Wiliam ap Siôn, Caerllion, mewn un ymdriniaeth bwysig; gw. nodyn brig cerdd 38.

1 **y ieirll** Gw. 20.25n.

2 **Iarll Efrog** Efrog Iarll oedd tad Peredur, gw. TYP<sup>2</sup> 488–91.

5–6 ‘Syr Gwalchmai wyt [ac] un bortreiad [â] Siôn y tad sydd [yn hanu] o Went.’

13–14 **dau waed ... / ... Wilym** Ceid un Gwilym ymhlith hynafiaid Wiliam (gw. yr ach uchod) ac un arall ymhlith hynafiaid ei fam. Merch Dafydd ap Gwilym o Landdewi Ysgyryd oedd hi, gw. WG2 768.

14 **Cadwaladr** Daw cronicl Sieffre o Fynwy i ben gyda marwolaeth Cadwaladr Fendigaid, sef Cadwaladr ap Cadwallon, y brenin olaf o blith y Brytaniaid i deyrnasu dros Brydain, gw. WCD 80–1; BD 208 *Ac o hynny allan y colles priavt genedyl yr enys eu henv ac eu dylyet, ac ny allasant y chaffael o hynny allan, namyn yn uynych neu ynteu yn wastat godef keithiwet Saesson arnadunt*. Yn ôl un traddodiad, ef a adeiladodd dref y Fenni.

15 **henwent** Gellid 3 ll.amhff.myn. y f. (*h*)*enwi* fel yn 44.19 ond dichonadwy hefyd yw'r e.p. cyfansawdd < *hen* + *Gwent*, a cf. 36.46 *Gwent hen*, 38.2 *Gwentoedd*.

16 **Ynyr Gwent** O ran yr enw, cf. Maelgwn *Gwynedd* ac Emyr *Llydaw*, gw. TYP<sup>2</sup> 412. Fe'i henwir mewn sawl cyd-destun; fe'i gelwir yn frenin Gwent ym Muchedd Beuno, gw. WCD 643; DWH ii, 620, a chyfeiria Lewys ym mraich gyntaf y cwpled at ei

*frenhinwaed*, a gw. ymhellach 28.21–2. Olrheiniai nifer o deuluoedd Gwent eu hachau ato, gw. WG1 936–43. Priododd Gwilym ap Siancyn ag un o'i ddisgynyddion.

- 17 **Ifor** Unwaith eto, gwelir bod cyswllt achyddol rhwng Wiliam ap Siôn ac Ifor Hael. Gwraig gyntaf Tomas ap Dafydd oedd Marged, merch Morgan Cemaïs ab Ieuan ap Siancyn ap Siôn, gw. WG2 1125. Priododd Siancyn ap Siôn â Christi, merch Morgan ap Llywelyn ab Ifor ap Llywelyn ap Bledri ap Cydifor, gw. WG1 200. Yr oedd Morgan yn frawd i Ifor Hael.
- 18 **Aron** Y cymeriad beiblaidd o bosibl, ond yr oedd gan Rys, brawd Llywelyn ap Bledri (gw. uchod), fab o'r enw Aron a oedd yn un o Farchogion y Bedd, gw. WG1 187. Yn Lewys Morgannwg: Gw 789, bernir mai'r gŵr a gysylltir â llys Arthur yw'r Aron hwn, gw. P.C. Bartrum, 'Arthuriana from the genealogical manuscripts', Cylchg LIGC xiv (1965–6), 242.
- 19 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 20, 33.
- 20 **Gwaithfoed** Priododd Hywel ap Gwilym ag un o'i ddisgynyddion, gw. WG1 475.
- 22 **Tewdwr Mawr** Gw. 1.65n. Cyplysir Gwaithfoed a Thewdwr yn rheolaidd pan fydd y bardd yn enwi hynafiaid cynnar y gwŷr y canai eu clodydd.
- 24 **mw y air** Ar y treiglad, gw. 1.18n.
- 26 Cyfatebiaeth sg g- = -s g-.
- 29 **iustus** Digwydd enw Wiliam ap Siôn yn gyson ymhlith yr ustusiaid a fu'n gwasanaethu yn sir Fynwy rhwng 1542 a 1561, gw. JPWM 344–6. Ni ddigwydd ei enw yn rhestr 1564 a gellid tybio iddo farw rhwng 1561 a 1564.  
Cyfatebiaeth -s t- = st.
- 37 Gellid atalnodi'r ll. hon yn wahanol: *Tre tad 'y nhad, tridyn hael*. Ni ddiogelwyd unrhyw ganu o waith Rhisiart ap Rhys i deulu Treowain, ond rhybuddiodd E.I. Rowlands, 'Gellir bod yn siŵr na chadwyd holl gerddi Rhisiart ap Rhys. Cadwyd 36 ohonynt, ond o'r rhain buasai 30 wedi colli oni bai am y casgliad yn llsgr. Llansteffan 164', gw. GRB ix. At hyn, ni welwyd unrhyw gyfeiriad gan Lewys at ei dad.
- 38 **Treowain** Mewn troednodyn yn L. Dwinn: HV i, 196, esbonnir *Tre Owen is in Monmouthshire, about three miles from Monmouth, and was built by Inigo Jones, upon the site of the house mentioned in this Pedigree*. Yn ystod oes William Jones, ŵyr gwrthrych y cywydd moliant, y digwyddodd hynny.



**trial** Gw. 14.38n.

- 44 **Constans a Chwnstans** Cofnodir yn y Brut hanes Constans a briododd ag Elen ferch Coel, sef Elen Luyddog y traddodiad Cymraeg. Eu mab hwy oedd Constans Fawr neu Gustennin Fendigaid, gw. 3.34n; BD 69; TYP<sup>2</sup> 314–15. Constans yw'r ffurf arferol ar yr e. a rhaid, felly, mai ffurf ar enw gwraig Wiliam ap Siôn yw Cwnstans. Elisabeth, merch Syr Water Herbert, Caldicot, ap Wiliam Herbert, Iarll Penfro, oedd ei wraig gyntaf, gw. WG2 780. Ei ail wraig (ond y gyntaf yn ôl LPMG 260) oedd Constans, merch Tomas Morgan ap Syr Siôn Morgan ... Morgan [brawd Ifor] ... Bledri ap Cydifor Fawr, gw. WG1 200.

**chwech oes** Ar y cyfuniad, gw. 13.69n, 24.64n.

- 48 **Morgan a'r Fychan** Gwraig Tomas Morgan (tad Constans) oedd Elisabeth, merch Rhosier Fychan, Porthaml, gw. WG2 392.
- 54 **mwy gampau** Cyffredin yw treiglo'r e.un. sy'n dilyn y ffurfiau cmhr. *mwy* a *llai*, a cf. uchod ll. 24 *mwy air*, ond nid yw'r bardd mor gyson pan fydd e.ll. yn dilyn; fe'i gwelir yn cadw'r gysefin ar dro ac yn treiglo dro arall, gw. 1.18n.

Ar y gyfatebiaeth b = mp, gw. 16.35n.

- 58 *r* wreiddgoll.

- 59 **iarll** Bu Wiliam yn gwasanaethu Harri, Iarll Caerwrangon, yn nhridegau'r ganrif. Cafodd stiwardiaeth Rhaglan a bu hefyd yn stiward ac yn rysyfwr dwy faenor yng nghanol swydd Henffordd, gw. Rhys Robinson, 'The Welsh lands of Henry, Earl of Worcester in the 1530s', B xxv (1972–4), 460–1.

**Lludd** Yr oedd Lludd a Chaswallon ei frawd (a enwir yn ll. 64) yn feibion i Feli Mawr, mab Manogan (gw. ll. 62), un o frenhinoedd cynnar Ynys Brydain, gw. BD 44. Rhoddir sylw i'r tri yn y testun *Henwav y pedwar brenin ar hvgain or Brytaniaid a varnwyd yn gydarnaf ac yn wrolaf*, gw. Études xii (1968–71), 171. Cyfeiria Dafydd Nanmor at y wledd a baratoes Caswallon i ddathlu ei fuddugoliaeth yn erbyn y Rhufeiniaid, gw. DN I.17–20; TYP<sup>2</sup> 424–7.

- 61 **brodyr** Enwir saith o feibion Siôn ap Tomas yn WG2 763–4.

- 63 **lludd** Diau mai ffurf 3 un.pres.myn. y f. *lluddio* sydd yma yn hytrach na'r cymeriad Lludd y cyffelybir Wiliam iddo yn ll. 59.

**broder** Un o ffurfiau ll. *brawd*, gw. GPC 311.

**bredech** Cynigir yr ystyron i. 'brad, annheyrngarwch' a ii. 'ofn, dychryn' yn GPC 314; gallai hefyd fod yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *bradychu*: *lluoedd* [a] *fredych*.

- 64 **Caswallon** Gw. ll. 59n; ond gallai fod yn ffurf ar yr e. Cadwallon ap Cadfan, tad Cadwaladr Fendigaid a grybwyllwyd yn ll. 14, gw. WCD 81–3.
- 65 **gennywch** Digwydd yn safle'r odl drachefn yn 51.7 (yn odli ag *ywch*).

## 28

Yr oedd Syr Wiliam Morgan [= Wiliam ap Tomas] yn fab i Domas [= Tomas Morgan] ap Morgan ap Siancyn ap Ffyllib ap Morgan ap Llywelyn ab Ifor ap Llywelyn ap Bledri ap Cydifor Fawr, gw. WG1 200–1; WG2 394–5. Ffyllib ab Morgan a sefydlodd y gangen o dylwyth y Morganiaid a gysylltir â Phen-coed ym mhlwyf Llanfarthin a Langstone yng nghwmwd Llebenydd. Ar y gangen hon, gw. LPMG 320–1. Trigai disgynyddion ei frawd, Llywelyn ap Morgan, yn Nhredegar. Canodd Lewys i dri o aelodau'r gangen honno (gw. cerddi 31–3) yn ogystal ag i Syr Wiliam Morgan, Pen-coed, i'w fab, ac i'w frawd (gw. cerddi 29–30). Yn Langstone yr ymsefydlodd y gangen hon yn gyntaf ond erbyn y bymthegfed ganrif daethai Pen-coed yn brif gartref i'r teulu.

Penodwyd Syr Wiliam Morgan yn stiward arglwyddiaethau Casnewydd, Gwaunllŵg a Machen ym mis Ionawr 1522 yn dilyn cwmp Edward Stafford, gw. LPDF iii/ii, cofnod 2016.12, a gw. hefyd 28.68n isod. Cyn hynny fe'i penodasid yn stiward arglwyddiaethau Brynbuga, Caerllion a Thryleg. Bu farw 6 Medi 1542, gw. KWL 296. Orlheinir ei yrfa a chrynohir yr hyn sy'n hysbys amdano yn W.R.B. Robinson, 'Syr William Morgan of Pencoed (d 1542) and the Morgans of Tredegar and Machen in Henry VIII's reign', *Cylchg LIGC* xxvii (1991–2), 405–29. Tawedog yw'r bardd gyda golwg ar ddyletswyddau cyhoeddus Syr Wiliam Morgan. Nodir bod iddo feibion (ll. 74) ond ni chrybwyllir ei wraig, Fflorens, a fu farw ryw dair blynedd ar ôl ei gŵr. Ychwanegwyd y teitl (camarweiniol) *I Sr William Sain Sior* mewn llaw ddiweddarach yn Llst 164, ar sail ll. 6 *Syr Wiliam, Sain Siôr alawnt* yn ddiaw.

- 2 **Galâth** Y gynghanedd yn galw am air acennog, a cf. 57.63, 67.11, 70.52, &c., ond rhaid wrth air diacen yn 1.45, 6.9, 26.61, &c.

**aur i'ch glin** Gw. 2.3n.

- 5 **Mawnt** Tref Mantes ar lannau Afon Seine rhwng Paris a Rouen, gw. 98.1n. Cynrychiola drigolion Ffrainc yn gyffredinol. Cymerodd Wiliam ran yng nghyrch Harri VIII yn erbyn Ffrainc yn 1513 ac yr oedd yn un o'r Cymry amlwg a urddwyd yn farchogion yn Nhwrnai ym mis Hydref 1513 (ynghyd â Wiliam Mathau a Thomas Gamais, gw. cerddi 4, 8), gw. KE ii, 41; KWL 296.

- 7 **Syr Tomas** Yr oedd tad Wiliam wedi ei urddo erbyn 1484 a bu farw ym mis Medi 1501, gw. KWL 294–5.
- 8 **Sulien** Enwir dau Sulien yn Llyfr Llandaf: y naill yn abad Llandochau a'r llall yn abad Llancarfan, gw. WCD 592. Ond diau mai'r tywysog a fu'n arwain ei wŷr yn erbyn y Rhufeiniaid ym Mrut Sieffre yw'r un y cyfeirir ato yma, gw. BD 64.
- Syr Gawen** Y cymeriad sy'n cyfateb i Walchmai yn y rhamantau Ffrengig, gw. WCD 303–5.
- 11 **bwmpa** Nodir yn GPC 354 fod *bwmpa* yn amrywiad ar *pwmpa*, ond y ffurf gyntaf sy'n digwydd yng ngwaith Lewys Morgannwg, gw. yr Eirfa.
- n wreiddgoll*, ac eto yn ll. 81.
- 13–14 **Wiliam / ... Dafydd Gam** Enwir y ddau hyn ar sawl achlysur yn y canu i'r Morganiaid. Siân, merch Siôn Herbert ap Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas o Went, oedd gwraig Syr Tomas Morgan, a hi oedd mam Syr Wiliam. Gwladus, merch Dafydd Gam, oedd gwraig y Marchog Glas ond nid hi oedd mam Siôn Herbert. Hanner brawd oedd hwnnw, felly, i Wiliam Herbert, Iarll Penfro, gw. WG1 425; WG2 790. Gwladus a'i gŵr cyntaf, Syr Rhosier Fychan, oedd rhieni yr Elisabeth a briododd â Morgan ap Siancyn, taid gwrthrych y cywydd o ochr ei dad, gw. WG1 243.
- 16 **Gwilym** Sioned, merch Gwilym ap Llywelyn o Beintun, oedd gwraig Siancyn ap Ffyllib, gw. WG1 102. Yr oedd Gwilym yn frawd i Ddafydd Gam.
- 17 **ar hed** Amrywiad ar *hyd*, gw. GPC 1949, a'r odl yn mynnu'r ffurf ar yr achlysur hwn.
- 18 **nai Ifor** Ni ddylid dehongli *nai* yn llythrennol, gw. yr ach uchod. Yr oedd Morgan ap Llywelyn o Dredegar yn frawd i Ifor Hael.
- 'Dnyfed** Anodd esbonio'r cyfeiriad hwn. Nid oes cyswllt amlwg rhwng disgynyddion Cydifor Fawr a thylwyth Ednyfed Fychan, un o gyndeidiau'r Tuduriaid, a gŵr yr olrheiniai teulu'r Penrhyn eu hachau hyd ato, gw. cerddi 87–90. Priododd Ednyfed ag un o ferched yr Arglwydd Rhys a phriododd chwaer iddi â Moreiddig Warwyn, gw. WG1 242, 671. Gwyddai Lewys am y cysylltiadau hyn, gw. isod llau. 20, 25. Gwyddai hefyd am Syr Aron, sef un o ddisgynyddion Cydifor, gw. 27.18n. Priododd hwnnw â Gwenllïan, merch Ednyfed Fychan, gw. WG1 187.
- 19 **gwaed Llywelyn** Cyffredin yn y canu yw treiglo'r e.p. mewn ymadroddion genidol er na ddigwydd hynny bob tro ychwaith. Sylwer mai *gwaed Lywelyn* yw'r darlleniad yn llsgrau. CDE.
- 20 **Rhys ap Tewdwr** Yr oedd gwragedd Llywelyn ab Ifor ac Ifor ap

Llywelyn yn ddisgynyddion i'r Arglwydd Rhys ... Rhys ap Tewdwr, gw. WG1 779–80.

- 21 **Ynyr Gwent** Gallai Angharad, gwraig Llywelyn ab Ifor ap Llywelyn, olrhain ei hach hyd ato trwy ei mam, gw. WG1 939. Cf. 27.15–16 *brenhinwaed ... / ... Ynyr Gwent* a'r nodyn.
- 22 **Gwent Is Coed** Gw. 30.15n.
- 23 **Godwin** Ei ddisgynyddion ef oedd yr Herbertiaid, gw. WG1 425.
- 24 **Salmon ... mewn barn** Y mae'n bosibl fod yma gyfeiriad at ddyletswyddau Syr Wiliam Morgan yn rhinwedd y swyddi y cyfeiriwyd atynt yn y nodyn brig.  
**Sawl** Brenin Israel ond er ei fod yn cael ei enwi gyda Solomon, yr oedd yn hynod am ei fyrbwylltra, ei genfigen a'i dymer afrywiog, gw. Geir Beibl 1269–70.
- 25 **Moreiddig Warwyn** Yr oedd Moreiddig Warwyn yn un o gyndeidiau'r Fychaniaid, gw. WG1 243.
- 30 **henwog** Cadwyd y ffurf am ei bod yn digwydd yn yr holl Isgrau. ac am ei bod yn cryfhau'r gynghanedd. Nis rhestrir yn GPC 1223 d.g. *enwog*, ond nodir bod *enw* a *henw* yn ffurfiau cyfochrog, gw. *ib.* 1220.
- 32 **naw cedyrn** Gw. 1.47n.
- 33 **tŵr Ieuan** Gw. 11.39n.
- 40 **plât** 'Llestri, offer bwrdd, &c., o aur neu arian; metel gwerthfawr', gw. GPC 2820–1, ond gan fod Lewys yn crybwyll arfau'r noddwr yn y cwpled nesaf, gellid *plât* 'arfbais', gw. 16.6n.
- 44 **mor wych gradd** Dyma'r patrwm a ddisgwyliid am na threiglir yr e. o'i ragflaenu gan ffurf gfrt. yr a., gw. Treigladau 53–4 a 35.48 *Mor wych cawr â'r Marchog Cam*, 92.68 *Mor lân gwalch â'r merliwn gwyn*, ond digwydd yr un cyfuniad yn union yn y cwpled nesaf (*mor hardd waed*). Y tro hwn treiglir yr e., a cf. 98.24 *Mor wych bryns ym mraich a bron*.
- 54 **tra gerddych** Ar y treiglad, gw. 1.97n.
- 57 **rhoi cyngor** Un arwydd o'r parch a oedd i Syr Wiliam Morgan oedd ei benodi yn aelod o Gyngor Cymru a'r Gororau yn 1525. Pwysleisiodd W.R.B. Robinson, 'Syr William Morgan of Pencoed (d 1542) and the Morgans of Tredegar and Machen in Henry VIII's reign', *Cylchg LIGC* xxvii (1991–2), 412, mai pum Cymro arall yn unig a gafodd yr anrhydedd hwn yn ystod teyrnasiad Harri VIII.
- 59 **cenud y gainc** Ailadroddir y cwpled yn 55.47–8 (er nad yw yn cyfateb yn union) a digwydd yr ymadrodd *canu'r gainc* drachefn yn 78.49 *Canech chwi gainc yna i'ch gwŷr*. Diau mai priod-ddull sy'n

cyfleu'r ystyr 'arwain' yw *canu'r gainc* ond nis cofnodir yn GPC ac ni ddiwydd yr ymadrodd S. *play the tune* yn OED<sup>2</sup> ychwaith.

- 63–4 Dylid ystyried y cwpled hwn yng nghyd-destun 1.37n *I'ch oes y daw'r Groes i Gred*. Tâl nodi hefyd fod yr un cwpled i bob pwrpas i'w weld mewn cywydd a ganodd Tudur Aled i Ddafydd ab Owain, abad Maenan, rywbryd rhwng mis Rhagfyr 1503 pan ddyrchafwyd ef yn esgob Llanelwy a 1512, blwyddyn ei farw, gw. ByCy 90; TA XVII.59–60 *Yr oedd ffydd ar ddiffoddi, / Enynnwch hon ynoch chwi*. Eto, ni ddylid gollwng dros gof y sylw a roddwyd i Syr Wiliam Morgan yn 1535; ei enw ef sy'n dilyn esgob Llandaf ar restr aelodau'r comisiwn y disgwyliid iddo ystyried adnoddau tai crefydd yr esgobaeth, gw. LPFD viii, cofnod 149.69.
- 68 **iarll** Y mae'n bur debyg mai Harri, Iarll Caerwrangon, yw hwn (ond diau mai'r brenin yw'r Harri a enwir yn y cwpled sy'n dilyn). Trwy ewylllys da'r goron y daeth Syr Wiliam Morgan i amlygrwydd ac er y buasai ei lwybrau ef a'r eiddo Harri a'i dad, Charles Somerset, wedi croesi, nid enwir ef ymhlith y swyddogion a fu'n gweithredu ar ran yr iarll, gw. Rhys Robinson, 'Early Tudor policy towards Wales part 2: The Welsh offices held by Henry Earl of Worcester (1526–1549)', B xxi (1964–6), 43–74; *id.*, 'Sir William Morgan of Pencoed (d 1542)' 410. Er pwysiced oedd Iarll Caerwrangon, yr oedd Syr Wiliam, yntau, yn ŵr o gryn ddylanwad yn ei ddydd; bu'n stiwart arglwyddiaethau Brynbuga, Caerllion a Thryleg ac yn gwnstabl castell Brynbuga, a daeth y swyddi hyn oll i feddiant yr iarll wedi ei farw yn 1542. Mynnai'r bardd a fynnai hyrwyddo buddiannau Harri weld Syr Wiliam a'r iarll yn cydweithredu er lles y deyrnas.
- 76 **Brenin Pelaur** Yn y fersiwn Cymraeg o'r rhamant Ffrangeg 'La Queste del Saint Graal', rhoddir yr enw *Brenin Pelaur* ar y cymeriad 'le Roi Mehaignié' (Y Brenin Cloff). Yn y chwedl, dywed Gwalchmai ... *kanyt oes yma neb y wassanaethu o bop kyfryw vwydeu mawrweirthyawc o'r a rybuchi ehun. Ac ny chiglef i eirmoet y ryw ras hwinn y lys brenhin o'r byt namyn y lys brenhin Peleur*, gw. YSG 9. Enwir y Brenin Pelaur ymhlith marchogion y Ford Gron hefyd, gw. P.C. Bartrum, 'Arthuriana from the genealogical manuscripts', Cylchg LIGC xiv (1965–6), 242.
- Rhaid cyfrif hon yn ll. ac ynddi gynghanedd drychben. Am enghreifftiau eraill lle y ceir geiriau a fenthyciwyd o'r S. yn safle'r orffwysfa, cf. 29.30, 35.47.
- 82 **dyn well** Ar y treigladd, gw. 1.43n.

Cywydd moliant i Syr Tomas Morgan o Ben-coed (ganed tua 1512), mab Syr Wiliam Morgan a gyfarchwyd yng ngherdd 28. Ceir goleuni ar y cyfeiriadau achyddol sydd yn y cywydd yn nodiadau brig y gerdd honno. Fe'i hurddwyd yn farchog yn dilyn y gwarchae ar dref Bwlen yn 1544, gw. KWL 296, a chrybwyllir ei ran yn y brwydro yn Ffrainc yn rhan olaf y cywydd. Lluniodd ei ewyllys yn 1546 ac fe'i profwyd ugain mlynedd yn ddiweddarach, yn 1566, gw. LPMG 320.

- 1 **Bwlen** Gw. y nodyn brig. Rhestrir Tomas Morgan ymhlith y gwŷr o sir Fynwy a ymunodd â chyrch 1544, gw. LPFD xix/i, cofnod 273.
- 2 Diwygiwyd y ll. er mwyn cynnal y cymeriad llythrennol yn llau. 1–6. Yn achlysurol, fel y gwelwyd, anwybyddir y treigladd rheolaidd naill ai ar ddechrau ail fraich y cwpled neu yn dilyn yr orffwysfa.
- 6 **ail Syr Tomas** Taid gwrthrych y moliant.
- 7 **huc** Y gynghanedd yn mynnu'r ffurf hon. Ysgrifennwyd *hvg* yn gyntaf, ond ychwanegwyd *k* uwchben llythyren olaf y gair. Eto, tâl nodi bod sawl ll. yn y canu sy'n cynnwys cyfatebiaeth caled a meddal.  
**torchog Cam** Cymerir mai cyfeiriad sydd yma at Syr Dafydd Gam, a cheir trawiad nid annhebyg yn 69.14.
- 8 Ychwanegwyd y fannod, ond cafwyd ll. ac ynddi wyth sillaf o ganlyniad.
- 10 Twyll gynghanedd *d* neu t..d = t.
- 15 **ail Alath** Ar y treiglo yn dilyn *ail*, gw. 13.26n.
- 15–16 **Galath ... / ... Lawnslod** Yr oedd Galath yn fab i Lawnslod.
- 16 Camosodiad s.n = n.s.
- 17 **iustus** Bu Syr Tomas yn eistedd ar y fainc rhwng 1543 a 1564, gw. JPWM 544–6.
- 17–18 **Ystiwart ... / Ar Waunllŵg** Fel ei dad o'i flaen, penodwyd Syr Tomas Morgan yn stiwart Gwaunllŵg, a hynny yn 1545 yn ôl LPMG 320. Ar darddiad yr enw Gwaunllŵg, gw. 31.27n.
- 19 Darlleniad y llsg. yw *oes penn is hapen dros wy*. Tybed ai gwall am *os hapien' yw is hapen* y llsg.?
- 24 **naill gwreiddyn** Treiglo'r eg. a'r eb. sy'n dilyn *naill* yw'r arfer yn ôl Treigladau 43–4, a gwrthodir yr awgrym fod *ll* yn achosi calediad i rai cytseiniaid (ond gw. yr ymadroddion *neill tu a neill peth* a ddyfynnir yn GMW 86–7), ond y mae'r gynghanedd yn y ll. hon yn

mynnu'r gysefin.

- 25 Rhaid cyfrif *aml* yn air deusill yn y ll. hon.
- 26 **Brydys** Fflorens, merch Syr Giles Bridges o Cubberley yn swydd Gaerloyw, oedd mam Syr Tomas Morgan. Y mae *brvdssys* y llsg. yn cyfleu sain yr enw yn ffyddlon, ond diwygiwyd y ffurf er mwyn sicrhau bod yr enw yn cynganeddu â *Prydain*. Ann, chwaer Fflorens, oedd ail wraig Syr Rhys Mawnsel, gwrthrych cerdd 17.
- 28 **Dâm Sysil** Priododd gwrthrych y cywydd â Sysil, merch Syr Siors Herbert o Abertawe, gwrthrych cerdd 20. Yr oedd Siors yn wŷr i Wiliam Herbert, Iarll Penfro, gw. WG2 781. Ond gallai Tomas Morgan, yntau, arddel cyswllt â Iarll Penfro trwy ei nain, Siân Herbert, a oedd yn nith i Wiliam Herbert, gw. WG1 425; WG2 790. Yn unol â dymuniad y bardd, cafodd Sysil fyw i oedran teg; bu farw yn bedwar ugain oed yn 1599.
- 30 Cymharer y gynghanedd drychben hon â'r un yn 28.76 lle y digwydd y gair *Powls* yn safle'r orffwysfa.
- 31–2 **nith iarll ... / ... a'i orwyr yw** Yr oedd Sysil yn orwyrres i Iarll Penfro ac yn nith (a defnyddio'r ymadrodd yn llac) i fab hwnnw, Wiliam, Iarll Huntingdon.
- 34 **Herber** Am enghreifftiau eraill o'r ffurf hon, gw. 26.50n.
- 35–6 Gellir dehongli'r cwpled yn llythrennol: 'Ni fyddai tair rhent [hyd yn oed] yn gwneud y tro i'r ferch hon [neu i'w mab]'. Posibilrwydd arall fyddai diwygio *orwyr* (sy'n digwydd yn ll. 32) > *Nid âi oerwyr ...*
- 35 *n wreiddgoll*.
- 36 **Syr Mathias** Priododd Rhisiart Herbert, tad Syr Siors Herbert, â Marged, merch Syr Mathau Cradog, gw. WG1 313.
- 39 Efallai y dylid diwygio *gwinllys* > *gwenllys* gan fod *gwin* yn elfen yn yr ail air cyfansawdd sy'n digwydd yn y ll., a cf. GGDT 4.30.
- 40 **Iwda** Tylwyth Iwda oedd y mwyaf nerthol o blith deuddeg llwyth Israel, a ffurfiai Iwda deyrnas annibynnol. Erbyn dyddiau Crist yr oedd Palesteina Rufeinig wedi ei rhannu yn dair talaith, sef Galilea, Samaria a Iwdea, gw. Geir Beibl 878; ODCC<sup>3</sup> 905.
- 43 Ceir yr ystyr orau o ddiwygio *ymport* y llsg. > *unport*. Ar y gyfatebiaeth mp = np, gw. J. Morris-Jones: CD 224–5.
- 45 **tros dŵr** Gw. 11.37n.  
Cyfatebiaeth -s d- = -st t-.
- 54 **Arglwydd Rhys** Gw. 28.20n.
- 57 Wyth sillaf yn y ll.

- 65 **Godfred** Godfrey de Bouillon. Tystia ei enw i'w gyswllt â rhanbarth Ardennes yn Ffrainc. Bu iddo ran flaenllaw yn y groesgad gyntaf ym mlynnyddoedd olaf yr 11g. Cymerodd ran yn y gwarchae ar Gaersalem yn 1099, ac wedi i'r Croesgadwyr feddiannu'r ddinas, fe'i hamddiffynnodd rhag byddin o Eifftiaid. Daeth yn arwr cerddi a rhamantau ac fe'i cyfrifid yn un o'r Nawyr Teilwng, gw. 1.47n; MEnc.
- 68 *n* berfeddgoll.
- 69 *f*led-lafarog.
- 72 Cyfatebiaeth -s c- = sg os dilynir y llsg., ond diau mai gwall am *esgair* yw *is kaer*, a cf. 16.7 *Esgair gwalech i wisgo'r gart*.

## 30

Yr oedd Siôn [Morgan] o Gaerllion yn fab i Syr Tomas [Morgan] ap Morgan o Ben-coed, ac yn frawd i Wiliam, gwrthrych cerdd 28. Yr oedd yn 56 oed yn y flwyddyn 1533 pan wasanaethai yn faer Caerllion, gw. W.R.B. Robinson, 'Sir William Morgan of Pencoed (d 1542) and the Morgans of Tredegar and Machen in Henry VIII's reign', *Cylchg LIGC* xxvii (1991–2), 408, ac yr oedd yn dal ar dir y byw yn 1535 pan benodwyd ef ('John Morgan of Carlen'), fel ei frawd, yn aelod o'r comisiwn y disgwyliid iddo ystyried adnoddau ariannol tai crefydd esgobaeth Llandaf, gw. LPFD viii, cofnod 149.69. Dyma'r cofnod swyddogol olaf am Siôn ac ymddengys iddo farw yn fuan wedyn.

Cynigir peth o'i hanes yn G.B. Morgan, *Historical and Genealogical Memoirs of the Morgan Family* (London, d.d.), i, 6–14, ond dangosodd W.R.B. Robinson fod cymysgu wedi digwydd rhyngddo ef a Siôn Morgan, nai'r Tomas a gyferchir yng ngherdd 31, a mab Syr Morgan Siôn ap Syr Siôn Morgan. Bu gwrthrych cerdd 30 yn geidwad parc brenhinol Caerllion rhwng 1502 a 1532. Y Siôn Morgan arall a apwyntiwyd yn gwnstabl a cheidwad y porth yng nghastell Casnewydd yn 1522, a chyn hynny buasai yn 'gentleman usher of the chamber' yn y llys brenhinol. Bu farw tua diwedd 1524 / dechrau 1525.

- 1 **holl Dwywent** Ar y calediad cyffredin hwn, gw. Treigladau 93. Digwydd y cyfuniad yn 45.59 drachefn.
- 4 Diau mai rhyw lygriad sy'n cyfrif am *am Meistr Siôn* ac y dylid darllen naill ai y *Meistr Siôn* neu *am feistr Siôn*, ond sylwer bod teitl yn gwrthsefyll treiglad yn 29.28 *Oesoesoedd, i Dâm Sysil*. Y mae'r ll. fel y'i ceir yn Lewys Morgannwg: Gw yn ramadegol gywir, *oes dair oes ochain meistr sion*, ond camddarllenwyd *och am* y llsgrau.
- 6 **teml** Dichon mai trosiad am 'bedd, beddrod' yw *teml* yn y fan hon.



- 9 **traethen** Ymddengys fod *traeth* yn gyfystyr â 'phridd' i un bardd, gw. GDLIM 1.5–6 *Un Duw, rowndwal y Drindawd, / O'r traeth ti a'n gnwaeth yn gnawd*, a gweddaï'r un ystyr yma i *traethen*.
- 15 **Teirgwent** Rhennid Gwent yn ddwy ran, Gwent Is Coed a Gwent Uwch Coed, gw. WATU 81. Cyfeiria'r beirdd yn achlysurol at Dair Gwent, gw. HCLI XXI.17, XXXIII.32. Cynigir yn betrus yn *ib.* 153 mai Caerwent a gynrychiolai'r trydydd rhaniad, ond Gwent Ganol yw'r trydydd rhaniad, yn ôl y cywydd a ganodd Tomas Derlllys i Dair Gwent: *Da i ddyn tlawd oedd Went lydan / Uwch-coed, lle rhoed llawer rhan. / Gwisgoedd aur im oedd er mawl, / Gwin, teganau Gwent ganawl. / Gair a drig ar adwy'r oedd, / Gwent isaf gant o oesoedd*, gw. CH 40.7–12; Cy xi (1890–1), 41. Sylwer hefyd ar y pennill rhydd *I went ganol yr af heb dario / tv ar dehav ir af i geissio / mi a ro ar yr hawl ar llevad / ymofyn ffeind i law ai lygad*, gw. CRC 21.5. Sylwer hefyd ar y disgrifiad sydd gan Iolo Morganwg o dywysogaeth Iestyn ap Gwrgant, gw. Iolo MSS 23: *Yn ail Gwent, a than yr enw hynny yr holl wlad rhwng wysg ag Wy, ar parthau uchaf o went a elwir Ergain ag Eäs, ag ystrad yw, a elwir Tair Llawes Gwent*.
- 19 **Syr Wiliam** Brawd hynaf Siôn Morgan; ef a etifeddodd Ben-coed.
- 23–4 **Wiliam, / ... Dafydd Gam** Gw. 8.20n, 28.13–14n.
- 25 *r* berfeddgoll. Rhaid cyfrif *meirw* yn air deusill.
- 28 Cyfatebiaeth -s t- = st.
- 31 **y dref wen** Bernir mai e.c. yn hytrach nag e.p. ydyw, cf. 37.6n. Disgrifir Caerllion yn y Brut, gw. BD 157 *Canys teccaf lle oed hvmv yn enys Prydein a chyuoethocaf o eur ac aryant a goludoed ereill.*
- 36 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 58.
- 43 **dyledog** *Deiliedog* yw'r ffurf sy'n digwydd yn Pen 99 a digwydd drachefn yn yr un llsgr. yn 43.76. Fe'i rhestrir yn GPC 922 ymhlith amryfal ffurfiau *dyledog*.
- 50 Mentrwyd diwygio *yr hwn dy* y llsgrau. a rhoddwyd *arhown dy* yn ei le.
- 56 **mw y obaith** Ar y treigladd, gw. 1.18n.
- 57 **Wiliam** Mab ac etifedd Siôn Morgan. Priododd ag Elisabeth, merch Syr Rhys Mawnsel, gwrthrych cerdd 17.
- 58 **wrth wyn ei fam** Gwelir yr ymadrodd hwn ar achlysuron eraill yn 36.60, 47.20, 50.33, 88.47. Digwydd y ll. *yno fyth wrth wyn ei fam* yn un o gywyddau Rhisiart ap Rhys, gw. GRB 36.46.
- ei fam** Gwraig Siôn Morgan oedd Elisabeth, merch Lewys ap Rhisiart Gwyn o'r Fan, a chwaer Edward, gwrthrych cerdd 19.
- 72 nai Ifor Hael Gw. 28.18n.

Yr oedd Tomas yn fab i Syr Siôn Morgan ab Ieuan ap Llywelyn ap Morgan ap Llywelyn ab Ifor ap Llywelyn ap Bledri, gw. WG1 200; WG2 392; LPMG 310–11; ByCy 598–9 (yno gwneir Tomas yn frawd i Syr John Morgan yn hytrach nag yn fab iddo). Trigai disgynyddion Ffyllib ap Morgan ap Llywelyn ym Mhen-coed, gw. cerddi 28–30; cysylltir y gangen a sefydlodd Llywelyn ap Morgan ap Llywelyn â Thredegar. Am beth o hanes y gangen hon, gw. J. Gwynfor Jones, *Gradd, grym a gwehelyth teulu uchelwrol y Morganiaid o Dredegryr* (Darlith a draddodwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd, 1988), [10–12]. Gwrthrych y cywydd hwn a sefydlodd gangen Machen o'r teulu; ei frawd a'i ddisgynyddion a drigai yn Nhrefegar. Canodd Lewys i Domas ac i ddau o'i feibion, gw. cerddi 32–3. Bu Tomas (ganed tua 1465) yn gweinyddu ystadau Edward Dug Buckingham yng Ngwynllŵg a Machen a bu farw ym mis Gorffennaf 1538, gw. W.R.B. Robinson, 'Sir William Morgan of Pencoed (d 1542) and the Morgans of Tredegar and Machen in Henry VIII's reign', *Cylchg LIGC* xxvii (1991–2), 421–3.

- 3 **rheir** Amrywiad ar *rhyhir*, gw. GPC 3140. Daw'r enghraifft gynharaf o ganol yr 16g.
- 6 **mab marchog cryf** Urddwyd Syr Siôn Morgan, tad Tomas, yn un o Farchogion y Bedd yng Nghaersalem tua 1455 a bu farw tua 1492, gw. LPMG 310–11; KWL 294; R.A. Griffiths: PW i, 188–9. Cyfarchodd Gwilym Tew ef a chyfeiriodd at ei bererindod i'r dwyrain, gw. LIGC 970E [= Merthyr Tudful] 226: [Y] *marchog arfog i gyd / a droes aur dros i wryd ... sant Rial kaer ysalem / a sydd ar aur js i ddrem*.
- 10 **meibion Syr Siôn** Yn 1538 y bu farw Tomas, gwrthrych y cywydd hwn, ond bu farw ei frawd, Syr Morgan, y *dug o Dredegryr*, a chynrychiolydd prif linach y teulu, tua 1499 / 1500, gw. W.R.B. Robinson, 'Sir William Morgan of Pencoed (d 1542) and the Morgans of Tredegar and Machen in Henry VIII's reign', *Cylchg LIGC* xxvii (1991–2), 419–20. Yr oedd y Syr Morgan hwn yn frawd yng nghyfraith i Syr Wiliam Morgan, Pen-coed, gwrthrych cerdd 28.
- 12 **Tredegyr** Rhaid cadw'r ffurf am ei bod yn digwydd yn safle'r odl. Am enghraifft arall, cf. 32.22.
- 14 **Llywelyn** Un o gyndeidiau Tomas oedd hwn, ac fe'i henwir drachefn yn ll. 73. Yn y cwpled nesaf, crybwyllir digwyddiad arswydus o fyd y chwedlau, a rhaid holi, felly, tybed ai cyfeiriad at ladd Llywelyn ap Gruffudd sydd yma er i Eurys Rolant ddangos

nad yn fymptyol y dygai'r beirdd i gof farwolaeth y Llyw Olaf: cyfeirid ato pan ddigwyddai trychineb neu ddigwyddiad ang-hyffredin megis dienyddio Iarll Penfro yn dilyn brwydr Banbri, 1469, gw. LlyB 105–7. Am gyfeiriadau pellach ato, gw. Dafydd Johnston, 'Tri chyfeiriad at Lywelyn ap Gruffudd', B xxxvi (1989), 97–101; A. Cynfael Lake, 'Marwnad Goronwy ap Tudur o Fôn', B xxxix (1992), 80–8. Ond y mae'n bosibl fod Lewys yn crybwyll marwolaeth Llywelyn mewn marwnad arall o'r eiddo, gw. 36.1–2n.

- 15 **mwyr orllanw** Am y treigladd, gw. 1.18n.
- 16 **Dyfed** Cyfeiriad at yr hud a ddisgynnodd ar Ddyfed yn nhrydedd gainc y Mabinogi, a fformiwla gyfarwydd yn y marwnadau ac yn y cerddi hynny a ymdriniai â rhyw ddigwyddiad ysgeler, cf. GSH 7.1–2 *Oer oedd ofal ar Ddyfed, / Hud tywyll oedd at ei lled*. Nid amhriodol crybwyll Dyfed mewn marwnad i un o ddisgynyddion Cydifyfor Fawr, arglwydd Blaen-cuch.
- gwlad Ifor** Gallai fod yn gyfeiriad at Ifor ap Llywelyn, un o gyndeidiau Tomas, neu at Ifor Hael. Yr oedd hwnnw yn frawd i Forgan ap Llywelyn. Enwir Ifor ac Ifor Hael yn y canu i gangen Pen-coed, gw. 28.18n, 30.72.
- 18 **Maredudd** Priododd Llywelyn ab Ifor ap Llywelyn ag Angharad, merch Morgan ap Maredudd ap Gruffudd ap Maredudd Gethin ap yr Arglwydd Rhys, gw. WG1 779. Ond efallai mai cyfeiriad trosiadol sydd yma; os felly, anodd gwybod at ba Faredudd y dymunai'r bardd gyfeirio. Gallai fod yn gyfeiriad at Faredudd ab Owain ap Hywel Dda a fu'n rheoli rhwng 986 a 999. Pan fu farw, fe'i disgrifiwyd ym Mrut y Tywysogion fel *clotuorussaf brenhin y Bryttannyeit*, gw. Bren Saes 48; HW 345–6.
- 20 Tybed ai gwall am (*l*)*lad Machen lys yw (g)wlad Machen lys?*
- 24 **Mathau** Priododd Syr Siôn Morgan â Sioned, merch Siôn ap Syr Dafydd Mathau, gw. WG1 473.
- 26 **Einion Sais** Yr oedd Denis, gwraig Ieuan ap Llywelyn, yn un o ddisgynyddion Einion Sais, gw. WG1 101, 103. Tomas, brawd Dafydd Gam, oedd ei thad.
- 27 **Gwaunllŷwg** Gair deusill acennog yw *Gwaunllŷwg* ran fynychaf, ond rhaid wrth ffurf deirsill ddiacen yma. Am enghraifft arall, cf. 32.70. Gwynlliw mab Glywys a roes ei enw i'r ardal. 'Tir Gwynlliw' felly yw Gwynlliwog, sef tarddiad y ffurfiau Gwynllŷwg a Gwaunllŷwg, gw. G.O. Pierce, 'The Evidence of Place-names', GCH ii, 456–92 (td. 482).
- 30 **Castellnewydd** Bu Tomas yn rysyfwr arglwyddiaeth Casnewydd ac yn gwnstabl castell Casnewydd ym mlynnyddoedd cynnar yr 16g.

- ac yn y tridegau yr oedd yn ddirprwy-rysyfwr Casnewydd o dan James Whitney, gw. W.R.B. Robinson, *art.cit.* 421–2.
- 47 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 49, 62.
- 51 **aeth ddwywlad** Am enghreifftiau eraill o dreiglo'r goddrych yn dilyn 3 un.grff.myn. y f. *mynd*, gw. 4.37n.
- 53 **dardiau** Ffurf l. *dard*, amrywiad ar *dart*, gw. GPC 899. Cyffelybir y canhwyllau yn yr eglwys i waywffyn.
- 55 **trent** Daw o'r Ffr. *trente* 'deg ar hugain', a chyfetyb i'r S. *trental* 'A set of thirty requiem masses, said on the same day or on different days; also, the payment made for this'. Ystyr arall, ond i ddiwedd yr 17g. y perthyn yr enghraifft gynharaf, yw 'the commemoration service on the thirtieth day after burial', gw. OED<sup>2</sup> xviii, 485.
- 61–2 'Peth anghyffredin [fyddai i neb] daro ar un dyn mor ddymunol [o ran ei] ddoethineb nac o ran ei burdeb.'
- 62 **glendid** Lle y ceir *glendid* yn Llist 164 ac yn llsgrau. Llywelyn Siôn, ceir *gleindid* yn y llsgrau. a gysylltir â Dr John Davies, Mallwyd. Rhestrir y ddwy ffurf yn GPC 1407. Digwydd y ffurf *gleindyd* yn 68.26.
- 63 **pedwar** Enwir pum mab yn WG2 392, sef Rolant, Rheinallt, Siôn, Edmwnd a Syr Harri, ond wrth farwnadu'r olaf, gw. cerdd 33.41n, nodir mai tri brawd a oedd yn galaru ar ei ôl.
- 67 **Syr Dafydd** Syr Dafydd Mathau o Radur, neu, o ystyried y trywydd a ddilynr yn ail fraich y cwpled, Syr Dafydd Gam (er bod ansicrwydd a gafodd ei urddo yn farchog ai peidio; gw. ymhellach 43.21n).
- 68 **Fychan** Elisabeth, merch Rhosier Fychan, Porthaml, ap Rhosier Fychan, Tretŵr, oedd gwraig Tomas ap Syr Siôn Morgan. Gwladus, merch Dafydd Gam, oedd mam Rhosier Fychan, Tretŵr. Gw. ymhellach 8.20n.
- 71 **pedwar broder** E.un. sy'n dilyn y rhif. yn y gyfres a ailadroddir yn llau. clo'r cywydd, ond ceir y ll. yn yr ymadrodd *pedwar broder* a cf. 33.41 *tri brodyr* a 35.45 *dau frodyr*. Am enghreifftiau eraill lle y dilynr y rhif. gan e.ll., gw. 7.59n.

Rolant, mab Tomas [= Tomas Morgan] ap Syr Siôn Morgan, gwrthrych cerdd 31, a gyferchir yn y cywydd hwn. Cyfeirir yn y nodiadau isod at hynafiaid nad enwyd mohonynt yn y cywydd i Domas Morgan.

- 2 **cynnyrch** Yr ystyron 'twf, cynnydd, llwyddiant; prifant' sy'n taro

yn y cyd-destun hwn, gw. GPC 798.

- 9 Diwygiwyd *tad* y llsgr. > *taid* am fod yr enw *tad* yn digwydd yn ll. 7. Taid Rolant, a thad Tomas Morgan, oedd Syr Siôn Morgan.
- 10 **Syr Rhys Hen** Un o hynafiaid Syr Rhys ap Tomas oedd ef. Mam Syr Rhys oedd Elisabeth, ac yr oedd hi yn ferch i Syr Siôn Gruffudd ap Syr Tomas Gruffudd ap Syr Rhys Ieuanc ap Syr Rhys Hen, gw. WG1 681–2; DWH ii, 490–1; 65.3n. Fodd bynnag, nid ymddengys fod cyswllt amlwg rhwng y Morganiaid a thylwyth Syr Rhys. Gwyddys i Syr Siôn Morgan, taid Rolant, briodi â Sioned Mathau; priododd ei chyfnither hi, gweddw Tomas Stradling, â Syr Rhys ap Tomas, gw. WG2 873. Priododd Syr Rhisiart Herbert wedyn â chwaer Syr Rhys ap Tomas, gw. 34.8n, a chan fod cyswllt mor agos rhwng yr Herbertiaid a'r Fychaniaid (priododd Tomas, tad Rolant, ag un o'r Fychaniaid) efallai mai'r ddolen-gyswllt hon sy'n galluogi'r bardd i gyfeirio at Syr Rhys Hen.
- 12 **llewlin** Gallai fod yn air cyfansawdd o *llew* + *glin* 'un â chymalau fel llew' neu *llew* + *llin* 'un â llinach llew'.
- 13–14 **Rhosier Fawr ... / ... Rhosier Fychan** Hynafiaid Elisabeth, gwraig Tomas ap Syr Siôn Morgan, gw. WG1 243; WG2 462–3. Disgynyddion Moreiddig (ll. 16) oedd y Fychaniaid.
- 15–16 **Dafydd ... / Gam** Mab o briodas gyntaf Gwladus, merch Dafydd Gam, â Syr Rhosier Fychan, oedd Syr Rhosier Fychan, Tretŵr, gw. WG1 243.
- 17 Ceir wyth sillaf yn y ll. sydd yn y llsgr. a diwygiwyd felly trwy hepgor y gair cyntaf. Rhaid derbyn nad yw'r ddwy gytsain feddal sy'n digwydd nesaf at ei gilydd o boptu'r orffwysfa yn caledu.  
**deau** Bernir mai'r a. 'deheuig, celfydd; cyfiawn' sydd yma yn hytrach na'r e. 'tiroedd y de' er y gweddai'r ail ystyr hefyd o'i gysylltu ag *arglwydd* yn ail fraich y cwpled, gw. GPC 909.
- 18 **dau Rys** Rhys ap Tewdwr a'r Arglwydd Rhys, gw. 28.20n. Ond gallai fod yn gyfeiriad at Syr Rhys Ieuanc a'i dad, Syr Rhys Hen, gw. 32.10n uchod. Cyfeirir hefyd at *dau Syr Rhys* gan Ddafydd Epynt, gw. GDEp 10.15n, a chan Ieuan Deulwyn, gw. CH i, 205.
- 21 **ffiodd** Rhoddir iddo'r ystyr 'diflannu' yn GPC 1286, a nodir ei fod yn air ar dafoddeferydd yn ardal Nantgarw.  
*n wreiddgoll.*
- 22 **Tredegyr** Am enghraifft arall o'r ffurf, yn safle'r odl y tro hwn, cf. 31.12n.
- 23 Chwe sillaf yn y ll. Ystyrion yw *gwŷd*, 3 un.pres.myn. y f. *gwydio* 'niweidio, anafu, llygru', gw. GPC 1750, ond gellid diwygio > *nid*

*ysgwyd darn*. Ond ceir yn y testun yn Pen 96 lau. eraill sydd sillaf yn fyr, gw. llau. 26, 49, 70 (cyn eu diwygio).

- 25 Anodd gwybod beth yn union i'w wneud â'r ll. Y mae yma wyth sillaf (nid yw hi'n amlwg a ddilewyd y llythyren sy'n rhagflaenu *ddoeth*, ac sy'n edrych yn debyg i *o*, ai peidio: gallai gynrychioli ffurf dreigledig *goddooth* neu, o bosibl, *goddaith* 'coelcerth'). Nid oes achos i dreiglo'r adf. ar ddechrau'r frawddeg ac felly diwygiwyd *ddwywaith* > *dwywaith* a *ddoeth* > *doeth* er mwyn sicrhau'r gyfatebiaeth gytseiniol, a chymerwyd mai'r e.c. *doe* a'r rh. 2 un. a roddai'r ystyr orau i'r olaf yn hytrach na'r a. 'synhwyl' neu ffurf 3 un.grff.myn. y f. *dod*.
- 27–8 **gŵr ... / well** Ar y treiglad, gw. 1.43n.
- 34 **art** 'Dysg yr ysgolion, yn enw. y saith gelfyddyd freiniol a ddysgid yn ysgolion yr Oesoedd Canol', gw. GPC 211.  
*r* berfeddgoll.
- 39 **iustus** Bu Rolant yn gwasanaethu ar y fainc dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain, rhwng y pedwardegau a diwedd y saithdegau. Bu farw yn 1577 yn ôl LPMG 311, a gwelir mai enw ei fab, Tomas, sy'n digwydd yn rhestr ustusiaid 1578, gw. JPWM 344–7. Yn 1557 cafodd Rolant dymor yn siryf sir Fynwy, gw. LSEW 83.
- 49 Chwe sillaf yn y ll.
- 50 **llyn ddwfn** Eg. yw *llyn* 'diod', ond bydd *llyn* 'cronfa ddŵr' yn eg. ac yn eb., gw. GPC 2272–3 d.g. *llyn*<sup>1,2</sup> a cf. 70.58 *Tri llyn, nortr a llawenydd*.
- 54 **creulondid** 'Creulondeb'. I Lewys Morgannwg y priodolir yr enghraifft gynharaf a restrir yn GPC 593.
- 60 **Blaens** Merch Wiliam ap Siôn ap Tomas, Treowain (gwrthrych cerdd 27), oedd Blanche, gwraig Rolant Morgan, gw. WG2 764. Yr oedd ei mam yn ferch i Syr Water Herbert, a hwnnw yn fab i Wiliam Herbert, Iarll Penfro, gw. WG2 780.
- 62 **tri** Blaens a'i rhieni. Ceir yma *r* berfeddgoll y gellid ei hosgoi o ddiwygio > *Däed merch* ...
- 68 **plant** Enwir tri mab a phedair merch yn WG2 392.

Yr oedd Harri Morgan yn fab i Domas Morgan (gwrthrych cerdd 31) ac yn frawd i Rolant Morgan (gwrthrych cerdd 32), ond nid enwir ef ymhlith plant Tomas Morgan yn LPMG 310–11. Rhestrir yr ach o dad i dad yn nodyn brig cerdd 31. Disgrifir Harri yn y cywydd hwn yn ganon yn Llandaf a dywedir

amdano yn Pen 178, 40 (llsgr. sydd yn llaw Gruffudd Hiraethog) *mastr hari morgan, kynhonwr o lan da siaplen ir brenhin kynhonwr saint awstin ymrysto person y drenewydd yn otes a pherson gelli gaer*. Ni restrir ei enw ymhlith canoniaid Llandaf yn John Le Neve, *Fasti Ecclesiae Anglicanae 1300–1541: XI The Welsh Dioceses*, compiled by B. Jones (London, 1965), 33–4, ond hysbysir bod Henry Morgan, a oedd yn ddoctor yn y gyfraith sifil, yn brebend St Cross yn 1535. Fe'i henwir ar sawl achlysur ym mhapurau'r goron, gw., er enghraifft, LPDF xii/i, cofnod 1008.8 lle y nodir penodi 'Hen. Morgan, LL.D., the King's chaplain' yn offeiriad eglwys Mells yn esgobaeth Caerfaddon a Wells ym mis Hydref 1537. Cynrychiolodd *Henry Morgan* guradiaid esgobaeth Llandaf yn y confocasiwn a gynhaliwyd yn y flwyddyn 1529, gw. LPDF iv/iii, cofnod 1607. Fodd bynnag, y mae'n rhyfedd, o gofio'r pwyslais a roes Lewys Morgannwg ar wasanaeth Blaens Herbert yn y llys brenhinol, gw. cerdd 35, na ddewisodd grybwyll cyswllt Harri Morgan â'r brenin, ac ni soniodd ychwaith am y swyddi eglwysig a fu iddo yn esgobaeth newydd Bryste, gw. LPDF xvii, cofnodion 443.9 a 1154.60. Y mae'n bosibl fod dau Harri Morgan, er mai un gŵr eglwysig a enwir yn *Welsh Genealogies*. Ar y llaw arall, tâl cofio mai yn llaw Gruffudd Hiraethog y diogelwyd ach Harri Morgan a'r nodyn a ddyfynnwyd uchod a diau mai Lewys ei hun a roes yr wybodaeth honno i Ruffudd. Digwydd ach Lewys yn yr un llawysgrif—ar y ddalen nesaf, yn wir. *Maestr Harri* yw gwrthrych y farwnad yn ôl llau. 5 a 48 ond cymharer y modd y geilw Lewys Daron y Doctor Wiliam Glyn yn *Mastyr Wiliam*, gw. GLD 6.5.

- 1–2 Y mae cwpled agoriadol y gerdd yn cyfateb bron yn union i agoriad y farwnad i Domas Morgan, tad Harri, gw. 31.1–2.
- 5 **traw** Gall fod yn amrywiad ar *draw* neu o bosibl yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *taraf, taro*, gw. GPC 3447.
- 7–8 **Ŵyr Syr Siôn ... / ... ar fedd Iesu** Yr oedd Siôn, y taid, yn un o Farchogion y Bedd, gw. 31.10n.
- 9 Cyfatebiaeth t = (s)t.
- 11 **Maredudd** Gw. 31.18n.
- 13 **tri Llywelyn** Gw. nodyn brig cerdd 31.
- 19 Deusill yw *marw* yn y ll. hon.
- 20 **Meurig** Bu Meurig ab Arthfael a Meurig ap Tewdrig ill dau yn frenhinoedd ar Went, gw. WCD 477–9, ond diau mai *Meuryc urenhin Dyuet* a enwir ym Mrut Sieffre sydd dan sylw. Yr oedd ymhlith y brenhinoedd a'r tywysogion a ddaeth ynghyd yng Nghaerllion i ddathlu'r fuddugoliaeth a gafodd Arthur yn Ffrainc, gw. BD 158–9.
- pendefig Dyfed** Gan fod Lewys yn cyfeirio at drydedd cainc y

Mabinogi yn y farwnad i'w dad, gw. 31.15–16, nid annichon ei fod yn dwyn i gof yma enw Pwyll Pendefig Dyfed.

29–30 Cf. y cwpled 36.53–4.

33 *n wreiddgoll*.

34 **boliau** Disgwyliid i'r e. sy'n dilyn *heb* dreiglo a disgwyliid i'r ddwy gytsain feddal galedu, ond cf. GIG XIII.8 *A bod dy breseb heb bwyd*. Cofnodir y ffurfiau *bowl* a *powl* 'cawg, cwpan' yn GPC 303, 2866, ac efallai y gellid ystyried *bôl* a *pôl* yn ffurfiau cyfochrog er mai'r blaenaf yn unig a gofnodir yn GPC 296. *Bôl* yw'r ffurf unigol a arferir yn 28.38.

35 **hafog** Rhoddir iddo'r ystyron 'cyflawnder, digonedd; dibrin, helaeth; toreithiog' yn GPC 1810.

**caen** Ffurf 1 ll.amhff.myn. y f. *cael*. Y mae'r gynghanedd yn mynnu'r ffurf hon yn hytrach na'r ffurf reolaidd *caem*. Fe'i gwelir drachefn yn 48.31 ac yn 71.49–50 lle yr ailadroddir y cwpled hwn. Am enghreifftiau cyffelyb, gw. GMBr 4.33n.

38 **chwioredd** Rhestrir enwau chwe chwaer yn WG2 392.

39 **llefaint** Gallai fod yn e.c. 'llef, cwyn' er nas rhestrir yn GPC 2141, neu yn e. cyfansawdd *llef* + *haint*.

41 **tri brodyr** Yn y farwnad i'w dad, myn y bardd fod pedwar mab yn galaru ar ei ôl, gw. 31.63n, a gadawyd tri brawd i alaru ar ôl Harri, ond dengys WG2 392 fod i Domas Morgan bum mab.

43 **canonfainc** Yn ll. 3, ystyr *canon* yw 'aelod o gabidwl eglwys gadeiriol; un o nifer o glerigwyr sy'n cyd-fyw mewn clawstrdy neu yng nghyffiniau eglwys gadeiriol neu golegol' ond 'cyfraith neu ddeddf eglwysig' yw'r ystyr yn y gair cyfansawdd *canonfainc*, gw. GPC 416–17.

46 **ych bannog** Un o'r anoethau yn chwedl 'Culhwch ac Olwen' oedd cydieuo'r ddau ych bannog, gw. CO<sup>3</sup> 22 *Deu ychen bannawc, y lleill yssyd o'r parth hwnt y'r Mynyd Bannawc a'r llall o'r parth hwnn, ac eu dwyn y gyt y dan yr un aradyr*. Gan fod aredig yn faes a oedd yn cynnig cyfoeth o ddelweddu i'r beirdd a fynnai glodfori eu noddwyr, gellid disgwyl i'r dryll hanes yn y chwedl apelio atynt. Am gyfeiriadau atynt yng nghanu'r Cywyddwyr, gw. GLM 447 a cf. GLM XLII.75–6 *Chwi yw'r Ých—ni'ch eiriachwn— / Bannawg i'w roi ar ben grwn* ac ymhellach Ffransis Payne, *Yr Aradr Gymreig* (Caerdydd, 1975), 160–1.

49 **holl ddioddef** Sylwer ar y calediad yn 30.1n *holl Dwywent*.

52 Yr un ll. yn cloi marwnad i aelod o gangen arall o'r teulu, gw. 30.72n.



Yr oedd Syr Wiliam Herbert yn frawd i Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn, gwrthrych cerdd 76, a'r ddau yn neiaint i Wiliam Herbert, Iarll Penfro, ac yn feibion i Syr Rhisiart Herbert, Colbrwg, ap Syr Wiliam Tomas ap Tomas ap Gwilym, gw. WG1 422, 425; WG2 785; Hist Mon ii, 185–9. Dienyddiwyd Syr Rhisiart Herbert a'i frawd, Iarll Penfro, yn dilyn brwydr Banbri (1469). Yr oedd Wiliam, gwrthrych y cywydd hwn, wedi ei urddo yn farchog erbyn 1499. Bu farw rhwng 5 Rhagfyr 1534 a dygwyl Fihangel 1535, gw. KWL 295–6, ac fe'i claddwyd yn eglwys y Fenni.

Ymwelodd sawl bardd â'i gartref yng Ngholbrwg, a Lewys Môn, Rhys Degannwy, Ieuan Deulwyn a Dafydd Epynt yn eu plith, gw. CH cerddi 53–61 (golygiad o gerdd farwnad Lewys Morgannwg yw cerdd 61) a GDEp cerddi 9–10. Bu farw Siân Gruffudd, ei wraig gyntaf (a chwaer Syr Wiliam Gruffudd, y Penrhyn) tua 1505, gw. nodyn brig cerdd 88, ac yr oedd yn briod â'i ail wraig erbyn mis Tachwedd 1525, gw. W.R.B. Robinson, 'The lands of Henry, Earl of Worcester in the 1530s', B xxv (1972–4), 479–80, troednodyn 11. Goroesodd hi ei gŵr ond ni chrybwyllir hi o gwbl yn y cywydd na'r etifedd, Rhys Herbert, mab Syr Wiliam o'i briodas gyntaf.

- 2 Gthg. CH *Marw-och o gwymp marchog Gwent*, a'r cynnig petrus mai 'ochenaid am farwolaeth' yw ystyr y gair cyfansawdd *marw-och*.

Ni chaledir y ddwy gytsain feddal sy'n dilyn ei gilydd, g = -g g-. Gellid diwygio *och o gwymp* > *och y cwymp*.

- 4 **maen corbol** 'Ysgwydd neu obennydd o garreg yn taflu allan o fur i gynnal rhyw adeiladwaith', gw. GPC 556 d.g. *corbel*, *corbed*. Y cwpled hwn yw'r enghraifft gynharaf a ddyfynnir (ond darllenwyd *korbel* yn hytrach na *korbol*).

- 5 **Dafydd Gam** Gw. 8.20n.

*f*led-lafarog.

- 8 **tri** Atalnodwyd yn wahanol yn CH, sef *Tri Syr Rhys ...*, ac esbonnir mai'r tri oedd Syr Rhys Hen (sef Syr Rhys ap Gruffudd), ei fab Syr Rhys Ieuan, a Syr Rhys ap Tomas, gw. 32.10n. Dehonglir y ll. yn wahanol yma, a chymerir mai'r rhediad yw 'Dug Teyrn [sef Duw], dri, [nid amgen], Syr Rhys [ap Tomas], tarw Syr Rhisiart [sef Wiliam Herbert, gwrthrych y farwnad], a Dafydd Gam' (a enwir yn y cwpled blaenorol). Ystyrllon hefyd fyddai 'Dug Teyrn Dri [sef Teyrn sy'n un ac yn dri] Syr Rhys [a] tharw Syr Rhisiart' neu hyd yn oed 'Dug teyrn [un o] dri mab Syr Rhisiart'. Yr oedd gan Syr Rhisiart Herbert nifer o feibion ond tri mab cyfreithlon a oedd iddo yn ôl WG2 785.

**Syr Rhys** Priododd Syr Rhisiart Herbert, y tad, â chwaer Syr Rhys

ap Tomas, sef Marged, merch Tomas ap Gruffudd ap Nicolas, gw. WG2 643.

- 9 Dweud y mae'r bardd na roddwyd corff marchog cystal mewn arch o dderw (posibilrwydd arall fyddai cymryd mai ffurf ar *daear* 'pridd' yw *dâr*). Diau fod y ffurf [g]ŵr yn rhan gyntaf y ll. yn llwgr, a hyn sy'n cyfrif am yr *r* nad atebir mohoni o dan yr acen a'r gyfatebiaeth r.d = d.r.d, a'r treigladd i'r e.c. yn dilyn bf.amhrs. At hyn disgwyliid *gŵr* ... *well* yn hytrach na *gwŷr* ... *well* yn ail fraich y cwpled.
- tywell** 'A spurious form' yn ôl J. Morris-Jones, gw. WG 240, ond cydnebydd fod y beirdd yn arfer y ffurf, yn enwedig pan fyddent yn cyfeirio at Fôn, 'yr ynys dywell'.
- 10 **gwŷr ... well** Ar y treigladd, gw. 1.43n.
- 11 **gweddu** Cynigir amryfal ystyrion i'r f. yn GPC 1609–10. 'Gostwng, darostwng; cuddio, claddu' sy'n taro orau yma ond 'ymddarostwng, talu gwrogaeth' yn 35.29n (neu 'gwasanaethu' er na nodir yr ystyr honno yn GPC). 'Cynnwys' yw'r ystyr yn 14.52 a 'bod yn gymwys' yn 72.14.
- 16 **tŷ Dardar** Diwygiwyd y ll. yn CH > *Tŷ daear maint* ... am fod yr hyn sydd yn yr unig lsg. yn ymddangos yn llwgr (posibilrwydd arall fyddai *Tŷ dâr â maint* ...), ond efallai mai ffurf ar yr e. *Dardanus* sydd yma, sef un o feibion y duw Zeus ac un o hynafiaid brenhinoedd Tro, gw. OCD<sup>3</sup> 430. Disgwyliid *Dardan* yn y Gymraeg ond gan fod yr enw yn un anghyfarwydd, fe'i camddeallwyd a'i lurgunio wrth ei drosglwyddo. Digwydd *Dardanus* yn IGE<sup>2</sup> CII.71. Cyfatebiaeth dr.dr. = dr.
- 17 **Urien** Gw. 7.23n.
- 18 Ceir trawiad nid annhebyg yn 7.24.
- 19 **llid twym** Gellid ystyried y darlleniad '*lli* twym [o ddagrau]'.  
**aerllew** 'Llew mewn brwydr', gw. GPC 39 a'r Eirfa lle y gwelir yr elfen gyntaf mewn geiriau cyfansawdd megis *aerfawr*, *aerfeirch*, *aergainc*, ond ystyrllon hefyd yw'r ffurf ddiwygiedig *eurllew* yn CH.
- 20 **marwach** Chwithig yw *marw ach* y llsgr., a cf. CH, ond ystyrllon fyddai *marwach*, sef ffurf gmhr. yr a. *marw*, cf. 7.6 *Marwach drem,—och!—Bawdrem, oedd*. Am enghreifftiau o ffurfiau cfrt. a cmhr. yr a., gw. GPC 2364.
- 21 **brân** Syr Rhys ap Tomas, gw. 34.8n a 7.23n.
- 24 **iarll** Harri, Iarll Caerwrangon, ond odid; gw. nodyn brig cerdd 42.
- 27 **haul** Fe'i defnyddir yn drosiadol yma, a *lamp* yn yr un modd yn ail fraich y cwpled; nid oedd yr haul yn un o'r symbolau ar arfbais yr

Herbertiaid, gw. DWH iii, 127; GDEp 9.29n.

Cyfatebiaeth -d h- = d.h.

- 32 **Herber** Diwygiwyd *herbart* y llsg. er mwyn osgoi twyll gynghanedd *t*. Am enghreifftiau eraill o'r ffurf, gw. 26.50n.
- 34 Gellid *Diwedd brud gwŷr* ...
- 36 **Ednyfed** Gan fod Dinefwr ac Ednyfed yn cael eu henwi ar yr un gwynt, rhaid mai tylwyth gwraig Syr Rhisiart Herbert sydd dan sylw. Priododd Tomas ap Gruffudd ap Nicolas ag Elisabeth, merch Siôn Gruffudd ... Ednyfed Fychan, gw. WG1 682; WG2 643. Ond disgynyddion Ednyfed oedd teulu'r Penrhyn yn sir Gaernarfon hefyd; gwraig gyntaf Syr Wiliam Herbert, Colbrwg, oedd Siân, merch Wiliam Gruffudd Hen o'r Penrhyn, a chwaer Syr Wiliam Gruffudd a briododd â Siân Stradling, gw. WG2 1267.
- 40 **Troe ... Ector** Wedi i Achilles ladd Ector, llusgodd ei gorff y tu ôl i'w gerbyd o gylch dinas Tro, gw. OCD<sup>3</sup> 673. Gwelir cyfeiriad nid annhebyg yn GHS 23.27–30 *O bu drist, wyneb ei dranc, / Troea am Ector ieuanc, / Beirdd yn ubain druain draw, / Bid tristach y byd trostaw*.
- 41 *n wreiddgoll*. Ceir enghreifftiau eraill yn llau. 46, 47, 62.
- 48 *n berfeddgoll*.
- 49 *f led-lafarog*.
- 50 **Iarll y Cawg** Gw. 65.14n.
- 52 **tra fu ddyn** 'Tra ydoedd yn fyw'.
- 54 **y naw gorau** Y Nawyr Teilwng, gw. 1.47n.
- 63 Digwydd y ll. yn y cywydd moliant a ganodd Lewys Môn i'r un gŵr, gw. GLM LXXXVII.44. Nid yw hi'n amlwg at bwy y cyfeiria'r rh. blaen yn ll. 64 ac efallai i'r copïwr neu ei gysail gamddeall *Wiliam oes* a'i droi yn *Wiliam moes* yn ll. 63. Nid annichon fod y cwpled wedi ei gamleoli, ac y dylid ei gysylltu naill ai â'r cwpled sy'n cyfeirio at *fyddinoedd* (ll. 52) neu â'r cwpled lle y crybwyllir yr *aliwns* (ll. 76).
- 65–8 Byddai'r ddau gwpled yn fwy ystyrllon o newid eu trefn ond mewn gwirionedd ymddengys fod sawl cwpled yn yr adran olaf wedi eu camleoli.
- 65 **â i fedd** Diau fod yr ardd. *i* wedi ei golli o dan ddylanwad yr *-i* yn y terfyniad berfol pan gofnodwyd y cywydd yn y lle cyntaf ar sail deunydd llafar. Y mae'n bosibl hefyd fod yma olion y gystrawen 'cyrchu lle' a oedd yn gyffredin yng nghanu'r 14 g., gw. Treigladau 227–8. Yn y gystrawen hon, hepgorid yr ardd. ond treigid yr e. Ymddengys fod Lewys yn arfer y gystrawen honno yn 88.1 *Y ferch*

*âi*, 'r *Gras*, *freichiau*'r *Grog* ac yn 99.72 *Cwmp Iorc lew ffôi leng*, *cwmp Ercwlff*, *longau* ond y mae'r mesur yn galw am yr ardd. yn 17.1 *Awn at ddelw hwnt i Ddilyn*, 45.61 *Dy faner aed i Fynyw*, 51.66 *Talgarth ânt i Loegr i' th ôl*, 87.15 *Aeth i fro Wynedd heddiw*. Er bod y cywydd i Illtud Sant yn digwydd mewn deg llsgr., ychwanegwyd yr ardd. yn 100.23 *Ef âi i dŷ o feudwyaeth*, ond gwelir bod y ll. honno yn debyg iawn i'r un sydd dan sylw.

- 69 **Afarwy** Mab Lludd ap Beli. Ef yw'r cyntaf o'r *Trywyr Gvarth a uu yn Ynys Prydein*, gw. TYP<sup>2</sup> 131–9, 269–70, ond canmoliaethus yw'r cyfeiriadau ato yng nghanu'r beirdd, gw., e.e., GLM XXXVII.83; GLGC 158.35.
- 70 Cyfatebiaeth s.g.s.g = s.g; r berfeddgoll.
- 72 Wyth sillaf yn y ll.
- 74 **Blac-heth** Un o'r bygythiadau mwyaf yn ystod teyrnasiad Harri VII oedd protest gwŷr Cernyw yn erbyn y trethi a godwyd er mwyn ariannu cyrch yn erbyn Iago IV o'r Alban am i hwnnw yn ei dro gefnogi achos yr ymhonnwr, Perkin Warbeck. Gorymdeithiodd rhyw bymtheg mil i Lundain a daethant wyneb yn wyneb â chefnogwyr y goron yn Blackheath, tir uchel ac agored ryw chwe milltir i'r dwyrain o ganol Llundain ar 17 Mehefin 1497, gw. John Guy, *Tudor England* (Oxford, 1989), 58. (Yno hefyd yr ymgynullodd gwerinwyr Caint o dan arweiniad Wat Tyler yn 1381, ac i'r un fangre yr arweiniodd Jack Cade ei gefnogwyr yntau yn 1450 mewn protest yn erbyn gormes swyddogion y goron, gw. EncB iii, 682). Y mae'n bosibl i Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn, brawd gwrthrych y cywydd hwn, gymryd rhan yn y frwydr. Cymry eraill y gwyddys iddynt gynnal breichiau Harri VII a *dryllio Corneuwr*, chwedl Tudur Aled, oedd Syr Rhys ap Tomas, gw. TA VII.53–6, ac Owain ap Meurig o Fodeon ym Môn, gw. GLM VIII.7–8. Yn ei gywydd i Syr Wiliam Herbert, awgryma Lewys Môn i Wiliam ymladd ym Mlac-heth yn gyfysgwydd â Syr Rhys ap Tomas, gw. GLM LXXXVII.37–48, ac nid annichon ddarfod ei urddo yn farchog yn dilyn ei ran yn y frwydr, gw. KWL 295–6.
- 76 Diwygiwyd *kwnn* y llsgr. > *can*. Mentrus yw diwygiad CH > *cŵn* gan fod y llsgr. yn awgrymu mai sillaf drom yn hytrach na sillaf ysgafn sydd yma.

Cywydd marwnad i Blaens Herbert, gwraig Syr Wiliam Herbert, Llanfihangel Troddi (Troy Parva), sir Fynwy. Mab anghyfreithlon i Wiliam Herbert, Iarll Penfro, oedd Syr Wiliam Herbert, ac ef oedd ail ŵr Blaens,

gw. WG2 780, 783. Ei gŵr cyntaf oedd Syr James Chwitnai, mab Syr Robert Chwitnai o swydd Henffordd, a bu ef farw yn 1500. Bu farw ei hail ŵr yn 1524 a phrofwyd ei ewyllys yr un flwyddyn, gw. Helen Chandler, 'The Will in Medieval Wales to 1540' (M.Phil. Cymru [Aberystwyth], 1991), 245; KWL 296. Mynegodd ei ddymuniad yn ei ewyllys i gael 'a tomb of marble to be made over my grave with images of me, Margery my first wife and Blanch my now wife', gw. David H. Williams, 'Medieval Monmouthshire wills in the National Library of Wales', *The Monmouthshire Antiquary*, xix (2003), 113–28 (td. 124). Amlinellir gyrfu Wiliam Herbert yn W.R.B. Robinson, 'The administration of the lordship of Monmouth under Henry VII', *ib.* xviii (2002), 23–40 a tt. 37–9 yn benodol. Bu Blaens fyw am ryw ddeng mlynedd ar hugain wedi marw ei gŵr; canwyd y cywydd, yn ôl tystiolaeth llau. 29–30, yn ystod teyrnasiad y frenhines Mari. Erbyn canu'r cywydd yr oedd un o'i meibion, Siarl (a enwir yn ll. 47), wedi ei urddo yn farchog. Fe'i hurddwyd rhwng 19 Mai 1549 a 22 Tachwedd 1550, gw. KWL 296, a chan iddo farw ym mis Ionawr 1557, cesglir i Blaens farw o'i flaen, ryw bryd rhwng 1553 a 1557.

Dengys llinellau 15–24 i Blaens wasanaethu yn y llys brenhinol, ac iddi fod â gofal am blant Harri VIII. Ymddengys mai wedi marwolaeth ei hail ŵr yn 1524 yr ymgwymerodd â'r dyletswyddau hyn oblegid cofnodir iddi dderbyn taliadau am ei gwasanaeth yn 1538, yn 1540 ac yn 1541, gw. LPFD xiii/ii, cofnod 1280 (td. 538); *ib.* xv, cofnod 21; *ib.* xvi, cofnodion 380, 1489 (tt. 179, 699). Erbyn 1540 yr oedd yng ngwasanaeth y frenhines Anne o Cleves, ond fe'i henwir yn 1538 ymhlith y gwagedd bonheddig a oedd yn gweini ar y dywysoges Mari. Dechreuasai ei chyswllt â Mari flwyddyn ynghynt os nad cyn hynny; yr oedd yn bresennol pan fedyddiwyd y tywysog Edward ar 12 Hydref 1537, a hi a hebryngodd y ddwy dywysoges, Mari ac Elisabeth, allan o'r eglwys, gw. LPFD xii/ii, cofnod 911. Ar sail y dystiolaeth hon, â Mari yn unig o blith y plant y cysylltir Blaens. Awgryma Lewys, fodd bynnag, iddi weini ar y tywysog Edward yn ogystal. Os felly, tybed ai yn ystod blynyddoedd olaf Harri VIII y bu hynny, ac yntau erbyn hynny yn briod â'i chweched wraig, Catherine Parr? Dwy ar hugain ydoedd Catherine pan gollodd ei gŵr cyntaf. Rhoes gryn sylw i addysg ei phlant, ac wedi iddi briodi â Harri yn 1543 (ei thrydydd gŵr), cymerodd gryn ddiddordeb yn addysg ei blant yntau, gw. DNB ix, 308–12; Anthony Martienssen, *Queen Katherine Parr* (London, 1973), 161–6. Yr oedd dau o blant Harri yn dal yn ifanc yn 1543—Edward yn chwech ac Elisabeth yn ddeg (byddai Mari dipyn yn hŷn; ganed hi yn 1516)—ac efallai i Blaens fod yn gysylltiedig â'r llys yn ystod y blynyddoedd hyn hefyd. At hyn, tâl cofio bod câr Blaens, Wiliam Herbert (Iarll Penfro o'r ail greadigaeth maes o law), yn frawd yng nghyfraith i'r frenhines.

Golygwyd y cywydd yn CH cerdd 51.

- 1 *r wreiddgoll*, a thrachefn yn ll. 25.
- 2 **glan Gwy** Y mae Afon Gwy yn llifo trwy Drefynwy, a saif Llanfihangel Troddi ryw ddwy filltir o'r dref i gyfeiriad y gorllewin.
- 3 *r berfeddgoll*.
- 4 **marwgoel** Llsgr. *marw goel* a ddehonglwyd yn CH fel pe bai yn fe. ac e.p. *marw Goel*, ond gan fod Coel wedi ei enwi eisoes yn y cwpled agoriadol, tebycach mai'r e. cyfansawdd *marwgoel* '(rhag)-argoel marwolaeth, arwydd o farwolaeth', GPC 2367, sydd yma.
- 6 Ll. ac ynddi gamosodiad anghyffredin b.l.n.s = s.b.l.n, ond cf. ll. 50.
- 7 **teyrnes** Rhaid cywasgu *arghwyddes* er mwyn sicrhau ll. reolaidd.
- 10 **Syr Wiliam** Gŵr Blaens, gw. y nodyn brig. Ond gall fod yma gyfeiriad at Wladus Gam (*Marsia*) a'i hail ŵr, Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas, gw. 8.20n, 88.4n.
- 12 **Mylbwrn** Merch Simon Milbourne o Tillington yn swydd Henffordd oedd Blaens.
- 14 **hanffont** Ffurf 3 ll.pres.dib. y f. *hanwyf*, gw. G 765.
- 16 **gofrner** Dyma'r enghraifft gynharaf a restrir yn GPC 1430. Yr ystyron a roddir i *governor* yn OED<sup>2</sup> vi, 713 yw '*One who has charge of a young man's education and occupations; a tutor, esp. of a prince or young noble*' ond i'r flwyddyn 1577 y perthyn yr enghraifft gynharaf. Tebyg yw'r ystyron a gynigir i *governess*, sef '*A woman who has charge or control of a person, esp. of a young one*' (enghraifft gynharaf 1587) ac '*A female teacher; an instructress; now chiefly one so employed in a private household*' (enghraifft gynharaf 1712), gw. OED<sup>2</sup> vi, 711. A barnu wrth y llau. sy'n dilyn, lles y plant yn gyffredinol yn hytrach na'u haddysg oedd cyfrifoldeb Blaens.
- 19 **gorcheidwad** Fe'i rhestrir yn GPC 1580 yn un o amryfal ffurfiau *gwarcheidwad* 'ceidwad, gwarchodwr'.
- 26 Y ll. hon yn rhy hir o sillaf. Gthg. CH *Troe a'i llew, lletyai'r iarll hen*.
- 27–8 **Bu i frenin ... / Roeso** Arhosodd Harri VII a'i wraig, y frenhines Elisabeth, yn y cartref yn 1502 pan oedd y ddau ar eu ffordd i Raglan, gw. W.R.B. Robinson, 'The administration of the lordship of Monmouth under Henry VII', *The Monmouthshire Antiquary*, xviii (2002), 30; Horatia Durant, *Raglan Castle* (Risca, 1980), 44 (ond awgrymir yno mai'r frenhines yn unig a arhosodd ar aelwyd yr Herbertiaid).
- 29 Diwygiwyd y ll. er mwyn yr ystyr—nid yw *gweddio* yn taro o gwbl—ac er mwyn sicrhau bod yr hyd yn rheolaidd. Cynigir i *gweddu* yn GPC 1609 yr ystyron 'mynd dan yr iau, plygu,

ymostwng, ymddarostwng, talu gwrogaeth'; 'gwasanaethu' yw'r ystyr orau yn y cyd-destun (gw. y nodyn brig), ac y mae'r ystyr honno ymhlyg yn yr ystyron a gynigir yn GPC, a gw. ymhellach 34.11n. Ymddengys fod y cwpled hwn (llau. 29–30) wedi ei gamleoli; diau y dylai ddilyn ll. 24. (Nid yw'r cymeriad llythrennol yn amlwg gan fod yma gynifer o lau. sy'n dechrau â llafariad, ond y mae'r cymeriad hefyd yn gryfach o ail-leoli'r cwpled.)

- 30 **brenhines** Nid enwir y frenhines, ond gan fod Edward yn cael ei grybwyll yn ll. 21, a chan fod y berfau yn llau. 21–2 yn peri tybio bod ei ddyddiau wedi dirwyn i ben, nid oes amheuaeth nad yn ystod teyrnasiad Mari y canwyd y cywydd. Bu farw ei hanner brawd, Edward VI, yn 16 oed ac yn ddibriod ar 6 Gorffennaf 1553, a bu Mari ar yr orsedd nes ei marw hithau yn 1558. Fe'i holynwyd gan Elisabeth I.
- 32 *f*led-lafarog.
- 33 **llywiau** Y f. *llywio* 'rheoli, arwain' sy'n gweddu yma yn hytrach na *lliwio*<sup>1</sup> 'rhoi lliw ar' neu *lliwio*<sup>2</sup> 'edliw, cyhuddo', gw. GPC 2288–9, 2194–5, a diau mai cyfleu'r sain yn hytrach na'r synnwyr a wnaeth copïwr Llst 164 yma ac yn 37.52, 47.43, 52.51.
- 34 **lle da** Gellid cryfhau'r ystyr o ddiwygio > *lle doen*' ond rhaid fyddai derbyn ll. ac ynddi *n* berfeddgoll.
- 34–5 **rhoes dillad ... / ... rhoes da** Ar y caledu, gw. 14.17–18n.
- 35 Y ll. wedi ei diwygio yn cynnwys cynghanedd reolaidd.
- 37 Gthg. CH *Gwely Constans ac Elen*.
- 41 **aeth wraig** Ni ddisgwyliid treiglaid i oddrych y f. *aeth*, ond ceir enghreifftiau eraill yn y canu, gw. 4.37n.
- 45 **dau frodyr** Fe'u henwir yn y llau. sy'n dilyn, sef Siarl a Tomas, gw. Hist Mon i, 38, ac enwir dau frawd arall yn WG2 783. Nid oedd yr ail frawd wedi ei urddo yn farchog pan ganodd Lewys y farwnad hon i'w mam. Priododd Siarl ag Elisabeth, merch Syr Gruffudd ap Rhys ap Tomas, Caerfyrddin. Am enghreifftiau o'r e.ll. yn dilyn y rhif., gw. 7.59n.
- difredych** Gw. 27.63n. Cynganeddir *brodyr a bredych* yn y naill l. fel y llall.
- 46 **dau feirch** Diau fod y darlenniad hwn yn rhagori ar *dau fraich*. Gall *braich* fod yn eg. neu yn eb. Am enghraifft o'r ffurf wrywaidd mewn e. cyfansawdd, gw. GPC 938 d.g. *deuфраich*.
- 47 **Siarls** Rhaid cyfrif hon yn ll. o gynghanedd drychben, a digwydd yr un enw yn safle'r orffwysfa yn 17.50 *Arfau Siarls ar faes Irlont*. Am enghraifft arall lle y ceir gair a fenthyciwyd o'r S. mewn

cynghanedd drychben, gw. 28.76n. Ond y mae'r ll. hon yn fwy anghyffredin. Gellid *Siaryls* a gellid *Siarlys*, ond rywsut rhaid wrth ffurf megis *Siarylys* er mwyn hollti'r cytseiniaid sy'n digwydd o dan yr acen, ac felly hefyd yn GDEp 13.26 *On'd Siarls nid oes wr haelach*.

48 [y] **Marchog Cam** Gw. 8.20n.

49–50 Seiliwyd darlleniad CH ar y modd y rhannwyd y geiriau yn y llsg., ond ceir gwell ystyr o lawer o dderbyn mai *arhowch* yn hytrach nag *a rhowch* yw'r darlleniad cywir. Y mae'r gyfatebiaeth gynganeddol yn gywir o dderbyn nad yw'r be. sy'n dilyn ffurf 2 ll.grch. y f. yn treiglo (*arhowch cloi*) ond ceir cyfatebiaeth caled a meddal fel arall.

49 **Marchog Glas** Gw. 8.20n

50 Camosodiad t.r.s = s.t.r ac *r* berfeddggoll.

### 36

Cywydd marwnad i Wiliam ap Watgyn ap Trahaearn ab Ieuan ap Meurig ap Hywel Gam ... Rhys Goch Ystrad Yw, gw. WG1 815; WG2 1548. Anodd dyddio'r gerdd hon na'r cywydd moliant sy'n dilyn i Domas, mab yr ymadawedig. Canodd Guto'r Glyn a Lewys Glyn Cothi i Drahaearn ab Ieuan, gw. 37.15n, a gwyddys ei fod yn dal yn fyw yn 1481. O ystyried bod gwraig Wiliam yn ferch i Forgan ap Siancyn o Ben-coed a Langstone, gw. 36.64n, a bod ei brawd, Syr Tomas Morgan, yn cael ei enwi mewn papurau swyddogol cyn gynhared â 1467, gallai'r cywydd fod yn perthyn i ugeiniau'r unfed ganrif ar bymtheg, gw. W.R.B. Robinson, 'Sir William Morgan of Pencoed (d 1542) and the Morgans of Tredegar and Machen in Henry VIII's reign', *Cylchg LIGC* xxvii (1991–2), 405–6. Urddwyd Rhosier, wŷr Wiliam, yn farchog tua 1586, gw. ByCy 1004–5.

1–2 Ceir yma gyfeiriad amwys at drychineb a ddaeth i ran Brytaniaid Gwynedd. Tybed ai marwolaeth y tywysog Llywelyn ap Gruffudd yn 1282 sydd dan sylw? Am gyfeiriad arall, o bosibl, ato yng nghanu Lewys Morgannwg, gw. 31.14n.

3 **Mawddwy** Ar yr olwg gyntaf, ymddengys mai enw lle yw Mawddwy, ond efallai fod cymeriad o'r enw Mawddwy a bod rhyw chwedlau amdano yn hysbys gynt. Yn Elisa R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Bury St. Edmunds, 1987), 215, dyfynnir y pennill telyn *Os hir y nos i Dydecho / Mae nos ny hwy no honno / os hir y nos i Vowddwy / Duw a wnelo heno yn hwy!* Yng ngoleuni'r cyfeiriadau hyn, rhaid ystyried o'r newydd arwyddocâd y cwpled o waith Siôn ap Hywel sy'n digwydd yn un o'i gywyddau serch, gw. GSH 20.13–14 *Hudo dyn, un hediad wy', / Hyn oedd feddwl hen*



*Fawddwy.* Awgryma'r cwpled fod a wnelo helyntion Mawddwy â rhyw garwriaeth.

- 6 **Pen-rhos** Adeiladwyd y cartref ym Mhenrhos Fwrddios yng nghyffiniau Caerllion ar safle fila Rhufeinig.
- 10 **atgwyn** Ffurfiwyd o'r rhagddodiad *ad-* + *cwyn* a dichon mai'r ystyr yw 'ail-gŵyn'. Nis rhestrir yn GPC 229 ond digwydd yn 52.14 *Atgwyn dydd Watgyn ei dad* ac o bosibl yn 33.2 *Atgwyn holl Went a Gwaunllŵg*.
- 16 **Meurig** Un o hynafiaid Wiliam, gw. y nodyn brig. Ond bu mwy nag un Meurig yn frenin ar Went, gw. 33.20n.
- 20 Gellid cynganedd sain reolaidd o adfer y gytsain goll yn *dygen*'. Fel y saif rhaid ei chyfrif yn gynghanedd groes o hanner cyswllt, a *d* yn ateb *-(n)t*, a cheir enghraifft arall yn yr un cywydd yn ll. 61. Ond y mae'r gyfatebiaeth yn rheolaidd yn llau. 13, 14, 50 lle y ceir cynganeddion croes o gyswllt a'r cyfuniad *-nt* yn safle'r orffwysfa.
- 22 **Barri** Gwraig gyntaf Watgyn ap Trahaearn oedd Elisabeth, merch Lewys Barri, gw. WG2 53.
- Godwin** Gwraig Meurig ap Hywel Gam oedd Gwenllïan, merch Gwilym (ai ef a enwir yn ll. 24?) ap Siancyn ... Godwin, gw. WG1 419.
- 26 **Ynyr Gwent** Priododd un o gyndeidiau Wiliam, sef Cynfyn ap Genillin, ag un o'i ddisgynyddion, gw. WG1 938; hefyd 27.16n.
- 33 **llai ofyn** Ar y treigladd, gw. 1.18n. a cf. 36.35 *llai roi*, 36.37 *llai ddefod* ond gthg. 36.31 *llai doethder*, 36.36 *llai berw*.
- 36 **aeth ddeall** Ar y treigladd i'r goddrych yn dilyn 3 un.grff.myn. y f. *mynd*, gw. 4.37n.
- 38 **colles** Gallai'r terfyniad gynrychioli ffurf lafar 1 un.grff.myn. *-ais* neu gallai fod yn ffurf 3 un.grff.myn., gw. GMW 122. Os yr ail gellid atalnodi yn wahanol a chyplysu *llai ddefod ... llys a'i moes a lluoedd ofwy ... a golles mwy*.
- 39 **oerllef** Ar y caledu, gw. 10.5n. Dengys yr Amrywiadau y llygru sy'n gallu digwydd wrth gopïo o'r naill ffynhonnell i'r llall. Diweddarodd Robert Vaughan v Pen 99 yn *u*, a chafwyd ganddo yn Pen 101 *lleuwch ... oerlleu*. Ni olygai'r geiriau hynny ddim i David Ellis a newidiodd ef hwy yn ei dro yn *llenwch ... oerllen*.
- 43 *n wreiddgoll*.
- 45 Cf. y ll. *Gyrrwyd doe i ôl gŵr y tŷ* yn GLM LIX.93.
- 53–4 Ailadroddir y cwpled yn 33.29–30.
- 55 Y terfyniad llafar yn cynnal yr odl yn y gynghanedd sain.

- 58 **ar ei brawd** Nid oedd i Wiliam ap Watgyn na brawd na chwaer yn ôl WG2 1548. Rhaid felly mai sôn am y weddw sydd yn y cwpled (er nas enwir), a bod y bardd yn defnyddio *brawd* yn yr ystyr ‘câr, cyfaill’, gw. GPC 311. Gellid hefyd *brawd* ‘barn’, gw. GPC 311–12.
- 59 *f*led-lafarog.
- 60 *n* wreiddgoll. Cadw’r gysefin yw arfer y bardd yn dilyn y negydd *ni*, gw. 6.19, 47.30, ac felly gwrthodwyd darlenniad AB a dilynwyd C sy’n cryfhau’r gynghanedd.
- 62 **Tomas ... Siôn** Canodd Lewys gywydd moliant i’r etifedd, Tomas Wiliam, gw. cerdd 37. Nid enwir Siôn, nac unrhyw blant eraill, yn WG 1548.
- 64 **Morgan** Catrin, merch Morgan ap Siancyn o Ben-coed, oedd mam y brodyr, gw. WG2 394.
- 70 *n* wreiddgoll.
- 72 **breua’** Gan fod *v* yn nhestun Pen 99 yn cynrychioli *f* ac *u*, cymerwyd mai *breua’* a gynrychiolidd gan *v*rava y llsgr. (a digwydd gradd eithaf yr a. yn 20.12), ond *frafa* a gafwyd yn Pen 101. Benthyciwyd *braf* o’r S. neu o’r Ffr. *brave*, gw. GPC 306, ‘ond fel petai’n air Cymraeg y cafodd y De y gair gan mai oddi ar y Gogledd y benthycwyd ef. Hynny, a’r ffaith fod y De yn barotach i dreiglo geiriau benthycy sy’n esbonio ei fod yn treiglo’n rheolaidd yn iaith y De’, gw. Treigladau 443.

## 37

Olrheinir ach Tomas ap Wiliam ap Watgyn yn llinellau agoriadol y cywydd fel y gwneir yn y cywydd a ganodd Lewys Morgannwg i’w dad, gw. cerdd 36 a’r nodiadau achyddol yn y fan honno. Cywydd i *Thomas watkin* yw hwn yn ôl yr unig lawysgrif, ond Williams oedd y cyfenw a arddelid gan ddisgynyddion Tomas ap Wiliam. Daeth ei fab, Syr Roger Williams, i’r amlwg ar gyfrif ei orchestion milwrol yn yr Iseldiroedd, gw. ByCy 1004–5; Dylan Foster Evans, ‘“Gwlad y gwn”?: Cymru, y canon a’r dryll hyd at ddiwedd oes Elisabeth I’, *Cof Cenedl*, xvii (Llandysul, 2002), 1–32 (a tt. 24–6 yn benodol).

- 2–3 **Beli ... / ... Caerllion** Yr oedd Beli a Brân yn feibion i Ddyfnwal. Yn ôl y Brut, Beli a adeiladodd y ddinas a enwyd yn gyntaf yn Gaer-wysg ond a ailenwyd yn Gaerllion ar Wysg wedi dyfodiad y Rhufeiniaid, gw. BD 39. Yno y lleolir llys Arthur yn chwedlau ‘Geraint’, ‘Peredur’ ac ‘Iarlles y Ffynnon’, a phriodol, felly, fod y bardd yn ail ran y cywydd yn enwi rhai o farchogion y Ford Gron,

ac yn canmol ei noddwr a'i *foliannu* / *Wrth wŷr o ford Arthur* (llau. 37–8). Yng Nghelliwig y lleolir llys Arthur yn chwedl 'Culhwch ac Olwen'. Gw. ymhellach 63.20n.

- 4 **pwyn** Cywasgiad o *pw* + *un* 'pw ysydd hafal iddo', gw. GPC 2947. Am enghreifftiau eraill, gw. 44.29 *Pwy ni edwyn pwyn ydwyd*, 54.2 *Pwyn i ennill pan aned*; GSC 19.1–2n (a'r awgrym fod y ffurf yn hyfyw ym Morgannwg); GIF 8.13–14 *Pen holl Went, pwy'n well a wedd / pwy'n bynnag fo pen bonedd?*
- 6 **tŷ gwyn** Cymerir mai e.c. yn hytrach nag e.p. yw hwn gan mai'r arfer gynt oedd gwyngalchu cartrefi, eglwysi a chestyll. Cyfeiria Lewys Glyn Cothi at *lys galchaid* Trahaearn ab Ieuan, gw. GLGC 117.46, a phwysleisia Siâms Tomas pa mor ddisglair oedd cartref Wiliam Mathau yng Nghaerdydd, gw. LIGC 13062B, 583<sup>v</sup> *tegan i wlad vorgan vydd / teg jawn yw ty gwynn newydd ... tegan nod ty gwynn ydyw / a thwr abl i emprwr yw*. Cf. hefyd y modd y geilw Lewys Morgannwg Siôn ap Tomas, Caerllion, yn *unben y dref wen* yn 30.31n, a'r sôn am yr hiraeth ar ôl Watgyn Lochwr ym *mhlas gwyn*, gw. 13.16n.
- 12 **Ifor** Nid oedd yr un Ifor ymhlith hynafiaid Tomas, o ddilyn yr ach o dad i dad. Priododd Trahaearn ab Ieuan ag un o ddisgynyddion Ifor Bach, gw. WG1 215, ond nid mab o'r briodas hon oedd Watgyn. Catrin, merch Morgan ap Siancyn, oedd mam Tomas ap Wiliam, ac yr oedd ei thad yn un o ddisgynyddion Morgan ap Llywelyn, brawd Ifor Hael. Ond yr oedd Ifor yn ei dro yn un o ddisgynyddion Ifor ap Llywelyn ... Cydifor, gw. WG1 200–1.
- 13 **mwy rym** Ar y treigladd, gw. 1.18n.
- 15 **Rhirid Flaidd** Nid yw'r cyswllt hwn yn glir, a cf. y modd yr enwir Llywelyn Foethus a Meilir Gryg mewn cerddi eraill, gw. 11.17–18n, 13.12n. Ond enwir y Blaidd a Rhirid Flaidd yn y cerddi a ganwyd i aelodau eraill o'r teulu yn y 15g. Cyfeiria Guto'r Glyn ato yn y cywydd a ganodd ar ran yr abad Dafydd, Glyn-y-groes, i erchi llyfr y Greal gan Drahaearn ab Ieuan, gw. GGI<sup>2</sup> CXVIII.8, a Lewys Glyn Cothi yn yr un modd pan ymwelodd â'i gartref a'i gyfarch mewn awdl, gw. GLGC 117.10, 56, a'r nodyn ar d. 581. Am gyfeiriadau eraill, gw. GHS 8.15–16n. Priododd un o hynafiaid y teulu, sef Gruffudd ap Hywel, â merch a ddisgynnai o Ririd Flaidd yn ôl Hist Mon iii, 217–21, ond awgryma Dylan Foster Evans, GHS 8.15–16n, mai 'cyfeiliornus yw'r cyfeiriad hwn at Ririd Flaidd'. Yn ôl WG1 27, un o ddisgynyddion Blaidd ab Elfach o Benrhos Fwrddios oedd gwraig Gruffudd ap Hywel.

**neidr Moreiddig** Priododd Morgan ap Siancyn ag Elisabeth, merch Syr Rhosier Fychan ... Moreiddig Warwyn. Y neidr oedd

arwyddlun yr olaf, gw. DWH ii, 386–7.

- 18 **Hael** Y mae'n amlwg mai swyddogaeth enwol sydd i *hael* yn y ll. hon, ond ai rhy fentrus ei ddehongli yn e.p. ac yn dalfyriad ar enw Ifor Hael? Y mae'n bosibl mai e.p. yw *Hael* yn 57.56 *Ti yw, Hael, gŵr y tŷ hwn* ac yn 61.5–6 *Mynd o'i lliw ... / Mae'r haul loyw marw Hael, Lewys* drachefn.
- 20 **Elnor** Merch Syr Wiliam Fychan, Porthaml, ap Watgyn ap Rhosier Fychan oedd Eleanor, gwraig Tomas ap Wiliam, gw. WG2 463; LPMG 241.
- 28 **tŷ well** Ar y treigladd, gw. 1.43n, a cf. isod *gŵr lanach* (ll. 54), *dyn wellwell* (ll. 59), *fertyw well* (ll. 60).  
*n wreiddgoll.*
- 32 **llawender** 'Llawenydd, hapusrwydd, llonder'. I Lewys y priodolir yr enghraifft gynharaf a ddyfynnir yn GPC 2107.
- 35 **Tydai ... Tad Awen** Ffigwr digon annelwig ydyw, fel Edym Dafod Aur ac Adda Fras, ond syniai'r Cywyddwyr amdano fel pe bai yn fardd o fri ac yn athro. Am rai cyfeiriadau ato, gw. GHD 15.27n; WCD 625. Y mae'n un o'r cymeriadau a enwir yn y gyfres 'Englynion y Beddau' yn Llyfr Du Caerfyrddin, gw. LIDC 18.10–11 *Bet tedei tad awen. / yg godir brin aren.* Awgryma'r disgrifiad *ewythr* fod Lewys yn synio amdano'i hun yn ddisgynydd i Dydai.
- 40 **tŵr Briant** Un o elynion Arthur oedd Briant o'r Ynysedd (*Ynysedd y Gogledd*, ll. 44). Yn ail ran 'Chwedl y Greal', adroddir am y modd y parodd Briant i Arthur garcharu Lawnslod, a hynny ar gam, gw. *Y Seint Greal*, ed. Robert Williams (Llandudno, 1987), 365 *et passim*. Er bod rhan nesaf y chwedl yn dilyn anturiaethau Peredur, ni ddywedir (yn wahanol i'r hyn a ddywed y bardd yn llau. 39–44) iddo ddial cam Lawnslod a lladd Briant. Yr hyn sy'n ddiddorol yw bod Perlesvaus [Peredur] yn rhan olaf y rhamant Ffrangeg yn lladd marchog o'r enw Brudans. Nid oes cyswllt yn y naratif rhwng Brudans a Briant ac ymddengys felly i rywun uniaethu'r ddau gymeriad. Ni chrybwyllir y digwyddiad hwn yn y fersiwn Cymraeg sy'n fyrrach o lawer na'r gwreiddiol Ffrangeg. Y mae'n dilyn, felly, mai ar sail y fersiwn Ffr. yr uniaethwyd y ddau gymeriad (yn Hen Ffrangeg byddai'r ddau enw, Brudans a Briens, yn diweddu ag -s), ac y mae'n hysbys fod copi o'r rhamant Ffrangeg ym Morgannwg c. 1400, ganrif dda cyn dyddiau Lewys. Y mae'n arwyddocaol hefyd fod y llau. hyn yn digwydd mewn cywydd moliant i ddisgynydd Trahaearn ab Ieuan. Bu llawysgrif a oedd yn cynnwys 'Chwedl y Greal' ym meddiant yr olaf, a chanodd Guto'r Glyn iddo i erchi'r llawysgrif honno ar ran Dafydd, abad Glyn-y-groes, gw. GGI<sup>2</sup> cerdd CXVIII a'r disgrifiad o'r cynnwys yn llau. 49–50 *Llyfr enwog o*

*farchogion*, / *Llyfr at grefft yr holl Ford Gron*. Crybwyllir ei lyfrau drachefn yn yr awdl a ganodd Lewys Glyn Cothi iddo, gw. GLGC 117.51. Rhaid tybio bod Tomas ap Wiliam, yntau, yn gyfarwydd â ‘Chwedl y Greal’ ac na fuasai’r cyfeiriad manwl yn y llau. hyn wedi peri dryswch iddo. (Cefais gyngor ac arweiniad gan Dr Ceridwen Lloyd Morgan wrth lunio’r nodyn hwn).

- 46 [y] **mab hir** Cyfeiriad, fe ddichon, at y brenin, Harri VIII.
- 49 Cyfatebiaeth -s d- = -st d- a thwyll gynghanedd *t*. Gellid cryfhau’r gynghanedd o ddiwygio *rhoist* > *troist* ond y darlleniad gwreiddiol yw’r un gorau yn ddiau.
- 50 *r* berfeddgoll.
- 51 **Bwlen** Nid enwir Tomas ap Wiliam ymhlith y gwŷr o sir Fynwy a gymerodd ran yng nghyrch 1544 yn LPFD xix/i, cofnod 273.
- 59 *n* wreiddgoll.
- 70 Ymddengys fod y ll. hon yn llwgr.

## 38

Ceir ach gwrthrych y cywydd hwn a’r cywydd marwnad sy’n dilyn yn WG1 439–40; WG2 817 fel a ganlyn: Wiliam ap Siôn ap Llywelyn ap Gwilym ap Hywel Hen, ac yn ôl hyd Guyon Grant. Er bod modd dilyn yr ach o dad i dad, nid oes unrhyw gofnod am y gwragedd, ac nid oes modd, felly, esbonio’r cyfeiriadau at Iestyn, Tewdwr, Gwaithfoed, Hywel Caerllion a Hywel Felyn (llau. 15–20).

Digwydd ei enw ar fwy nag un achlysur ym mhapurau’r goron. Mewn grant ym mis Gorffennaf 1540 a oedd yn rhoi iddo les ar ddwy felin ym maenor Caerllion, fe’i gelwir yn ‘sewer of the chamber’, gw. LPFD xv, cofnod 942.101 a llau. 43–4 isod, ac y mae’n bosibl mai ef yw’r *Wm. Jhonys* a oedd yn un o wasanaethyddion y llys brenhinol yn 1516; gwelir yr enw ymhlith y ‘Sewers for the Chamber extraordinary’, gw. LPFD ii/i, cofnod 2735. Ym mhedwardegau’r ganrif, fe’i penodwyd yn siedwr sir Fynwy ac yn ustus heddwch, gw. LPFD xx/i, cofnod 622 (td. 319); *ib.* xx/ii, cofnod 910.13.

Gelwir sylw yn Lewys Morgannwg: Gw 943–4 at lwyddiannau eraill. Yn 1527, cafodd drwydded i feddiannu pysgodfeydd yng Nghaerllion; yn 1532, fe’i penodwyd yn geidwad parc brenhinol Caerllion, swydd a fu ym meddiant Siôn ap Tomas [Siôn Morgan] (gwrthrych cerdd 30). Codwyd y manylion yn Lewys Morgannwg: Gw 943–4 o waith G.B. Morgan, *Historical and Genealogical Memoirs of the Morgan Family* (London, 1890), i, 15–19. Yno, bernir mai Wiliam ap Siôn, Treowain (gwrthrych cerdd 27) a gafodd y drwydded a’r swydd a grybwyllwyd, ond fel y dadleuir yn Lewys Morgannwg: Gw, nid oes awgrym iddo ef wasanaethu yn y llys brenhinol,

yn wahanol i Wiliam Siôn, Caerllion, a diogelach tybio mai gwrthrych y cywydd moliant a'r farwnad sy'n dilyn a ddisgrifir ym mhapurau'r goron.

- 11–12 **Caer ... / Wysg** Yr hen enw ar Gaerllion, gw. 37.2–3n.
- 18 **Hywel Caerllion** Enwir Hywel yn yr ach uchod, ond gŵr gwahanol oedd Hywel Caerllion, gw. WG1 758. Un o ddisgynyddion Rhydderch ab Iestyn oedd yr Hywel hwn; yr oedd ar dir y byw yn ystod y blynyddoedd 1173–84, a phriododd â Gwerful, merch Owain Cyfeiliog.
- 23 **gwŷr** Cymerir mai ffurf l. *gŵr* sydd yn safle'r brifodl, a hynny sy'n cynnig yr ystyr orau, ond rhaid derbyn wedyn mai sillaf dalgron yw *awyr* yn ail fraich y cwpled, cf. 51.62 a 67.65–6 lle yr ailadroddir yr odl *awyr / gwŷr*, ond sillaf leddf sydd yn 7.37 (yn odli â *cwyr*). Posibilrwydd arall fyddai diwygio > *adeilaist ti wŷr*, a chymryd mai benthyciad o'r S. *weir* 'cored' sydd yma, ond ni nodir y posibilrwydd hwnnw yn GPC 1781. Ar arwyddocâd hynny, gw. y nodyn brig.
- 25 **Arthur** Ar ei gyswllt â Chaerllion, gw. 37.2–3n.
- 30 **anodd** Mwy ystyrion yn y cyd-destun fyddai *annawd* 'anghyffredin; dieithr, rhyfeddol', gw. GPC 134. Ni fyddai'r darlleniad hwnnw yn mennu ar y gynghanedd.
- 39 Cynghanedd groes o gyswllt gymhleth a chamosodiad n.f = f.n o dan yr acen. Am enghreifftiau eraill, gw. GSC 16.
- 41 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 47.
- 43–4 **waetia ... / Waetia** Y bardd yn chwarae ar ddau air o'r S. (*to*) *wait*, sef 'gwasanaethu' yn ll. 43, ac 'aros' yn ail fraich y cwpled. Gwneir hyn ar achlysur arall, gw. 73.35–6n.
- 48 **Lionel** Gall mai cyfeiriad sydd yma at Lionel, Dug Clarens, a mab y brenin Edward III. Ei ddisgynyddion ef oedd Rhosier Mortimer y canodd Iolo Goch iddo (*Ŵyr Syr Lewnel, angel Eingl*, gw. GIG XX.52), Edward IV a Rhisiart III. Ond yr oedd Lewys Morgannwg yn gyfarwydd â 'Chwedl y Greal'. Bwrw oedd un o brif arwyr y cylch hwnnw, a brawd iddo oedd Lionel. Yn un o gywyddau Guto'r Glyn, fe'i henwir ynghyd â Syr Ffwg, Syr Gai, Syr Gawen ac eraill, gw. GG1<sup>2</sup> XLV.37; hefyd TYP<sup>2</sup> 283–4.
- 50 **topasiwn** Disgrifir nodweddiad y topas yn y lapidari *yr hwnn sydd yn traethv o rinweddav xxxvi o amrafaelion vain gwrthfawr o aml dernassoedd*. Dywedir am y maen hwn: *Y Topas a ddaw allan o afon yn y dwyrain a dav ryw sydd o honynt a thebic ynt J avr pvr onid bod vn yn olevach nor llall ac yn ddrvdach hefyd o lawer*, gw. Pen 155, 101. Gw. hefyd David Greene, 'A Welsh Lapidary',

*Celtica*, ii (1954), 96–116.

- 52 **murog** ‘Caerog; amddiffynnol’, ond yma â swyddogaeth enwol. O waith Llywelyn Siôn y daw’r enghraifft gynharaf a gofnodir yn GPC 2503. Ond efallai mai ymgais i gyfleu *Myrr ac aur yw mvrnac avr* y llsgrau., cf. 55.53 *Myrr, tus, mae aur hyd d’asen*.
- 68 **rhoed gorff** Disgwyliid y gysefin yn dilyn ffurf amhrs. y f., gw. Treigladau 229 (ffurf orch. yw *rhoed* yn 20.80 ac y mae’r treiglo yn yr achos hwn yn rheolaidd), a cf. 29.37 *Os rhoed diemwnt, Syr Tomas*, 78.13 *Rhoed bonedd Gwynedd i’th garn*. Ond treigilir ar achlysur arall, gw. 43.38 *A phle rhoed lwyth i fflŵr-dy-lis?*, ac yn y naill achos a’r llall tystia’r gynghanedd i ddilysrwydd y gystrawen. Cf. hefyd 77.53 *Cweryl Duw, cair alw dy win*, 99.59 *Cwynir lew Efrog can ei wŷr lifrai*.
- 74 **na phyth** Ar y treiglad llaes anghyffredin, gw. Treigladau 262–3.

## 39

Yn unol â’r arfer, crybwyllir yn y farwnad y sawl a adawyd ar dir y byw. Sonnir am fam Wiliam Siôn a adawyd i alaru am ddau o’i meibion, a chrybwyllir hefyd y weddw a’i phlant. Cofnodir yn WG2 817 enwau Alecsander, brawd Wiliam (dywedir ei fod mewn urddau eglwysig) a Robert, mab Wiliam.

- 13 **iustus** Rhestrir *W. Jones of Caerleon* ymhlith ustusiaid 1543, a thrachefn yn 1544 a 1547, gw. JPWM 344–5.
- 14 Diwygiwyd darlleniad yr unig lsg., ond o ganlyniad ceir cyfatebiaeth -d d- = d. Gellid *Waithfóed hŷn* ‘[un o ddisgynyddion] Gwaithfoed a’i hynafiaid’.
- 16 *n wreiddgoll*, ac felly hefyd yn llau. 20, 34, 40, 60.
- 20 **penisel** Prin yw’r enghreifftiau a ddyfynnir yn GPC 2750 ac sy’n sail i’r ystyron a awgrymir, sef ‘digalon, pruddglwyfus; ?gostyngedig’. Yma ymddengys mai ‘wedi ei drechu’ yw ystyr *penisel*. Dewis arall fyddai deall hwn yn e.p., sef [Sawyl] Benisel. Enwir Sawyl ar achlysur arall, gw. 76.34n.
- 29 **oeraiis** Yr e. cyfansawdd *oer* + *ais* sy’n gweddu orau yma yn hytrach na ffurf l un.grff.myn. y f. *oeri*.
- 39 **engyn** Dyfynnir y cwpled yn GPC 1182 a rhoddir i *engyn* yr ystyron ‘cnaf, adyn’.
- 47–8 **Duw a yrr pawb ... / ... i dywarchen** Yn y gyfres o drioedd arbennig a dadogir ar Dalies yn Card 2.68 [= RWM 19], 539, nodir o dan y rhif ‘un’: *vn tri arbennig / yr vn duw / ag ange / ar vn*

*dywarchen ir a pawb iddi. Cf. hefyd 52.55–6 Adre', pob dihaereb hen, / Dôï i warchad i dywarchen.*

- 49 **medrawd** Gall mai *bedrod*, amrywiad ar *beddrod*, gw. GPC 268, yw'r ffurf gysefin, ond *medrod* yw'r ffurf gysefin yn 7.43 a 34.12, ac fe'i rhestrwyd, felly, gyda'r enghreifftiau hyn.

## 40

Cywydd moliant i Siâms Gwnter, mab Watgyn ap Wiliam ap Lewys ap Tomas ap Gwilym Gwnter Hen, gw. WG2 863, 867; Hist Mon ii, 160. Enwir y rhan fwyaf o'r hynafiaid hyn yn y cywydd, ond rhybuddir yn WG2 fod cryn ansicrwydd yn y ffynonellau achyddol. Methwyd ag esbonio'r cyfeiriadau at Roeser (ll. 15), Genillin [? ap Gwaithfoed] (ll. 38) a Thewdwr (ll. 41), ond dylid nodi hefyd nad yw WG yn datgelu llawer am du cogail yr ach. Nid enwir ei wraig yn y cywydd, a gellid tybio mai gŵr ifanc dibriod oedd Siâms pan gyfarchodd y bardd ef. Cartrefai Watgyn Gwnter ym Mhorth-parc. Prynodd Siâms briordy'r Fenni wedi i'r goron hawlio'r sefydliad hwnnw yn 1536, a bu'n Aelod Seneddol dros sir Fynwy yn 1554, ond nid enwir y cartref na'r priordy yn y cywydd hwn.

- 4 **pen y ffynnon** Yr oedd i'r ffynnon, ac i'r sawl a'i hamddiffynnai, le canolog yn chwedl 'Iarlles y Ffynnon', ac nid annichon mai cyfeiriad at hynny sydd yma, gw. 65.14n.
- 5 **cwncwerwyr** Enwir y Gwnteriaid ymhlith y teuluoedd a ddilynodd Bernard Newmarch, y gŵr a oresgynnodd Frycheiniog ym mlynnydoedd olaf yr 11g., gw. DWH i, 267; L. Dwnn: HV ii, 20.
- 6 **sŷr** Ffurf l. ar *sêr*, gw. GPC 3226–7, ac fe'i defnyddir i ddisgrifio'r dorch aur a ddynodai radd marchog. Ond dichonadwy fyddai *syr* < S. *sir*. Ar yr ynganiad, gw. GMBr 4.78n.
- 7 **torchog eich taid** Gallai fod yma gyfeiriad at Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas o Went; priododd ei chwaer â Thomas ap Gwilym Gwnter Hen, gw. WG1 422. Ond rhyfedd na ddewisodd Lewys ei enwi fel y gwnaeth ar sawl achlysur arall yn y canu, a diogelach tybio mai un o gyndeidiau Siâms Gwnter sydd dan sylw.
- 17 **nawgant** Ni restrir y ffurf yn GPC 2556, ac yn wahanol i *saith* ac *wyth*, ni threiglid yr e. a ddilynai *naw* yn feddal, gw. Treigladau 134–5 (ond treiglid g-, gw. GPC 2559 d.g. *nawradd*). Fodd bynnag, y mae'r gynghanedd yn rheolaidd, a chadwyd y ffurf heb ei newid.
- 19 **[y] Fâl** Y Dyffryn Aur yn swydd Henffordd. Ar darddiad yr enw Cymraeg, gw. LGCD 15.10n.
- 20 Gadawyd bwlch yn yr unig lsg., ac felly hefyd yn ll. 39–40.



**Syr Hu** Hu Gadarn, ymherodr Caergustennin, o bosibl, gw. WCD 367–8; LIGC 13100B, 377–8 (un o Isgrau. Iolo Morganwg) lle yr uniaethir ef â Brutus mewn adran ar ach Gwaithfoed: ... *o Hu Gadarn a elwir Brytys ap Syllys yn Jaith Caerdroia*. Mewn cywydd o waith Mathau Brwmffild, cyffelybir y noddwr, Rhys Rhyd o'r Castell Moel, i dri marchog o fri, gw. GMBr 17.35–40n. Y mae'r ddau gyntaf, sef Syr Rhys ap Tomas a Hywel y Fwyall, yn ddigon adnabyddus, ond erys peth dirgelwch ynghylch y trydydd a enwir, sef Syr Huw. Awgrymir mai Syr Huw Johnys o Abertawe yw hwn, ac efallai fod cyfeiriad arall ato yn y cywydd hwn o waith Lewys Morgannwg. Posibilrwydd arall yw fod y bardd yn enwi un o hynafiaid Siâms.

- 21 **henllew ... frenhinllu** Gw. hefyd *winllan brenhinllwyth* yn ll. 31. Ar y ffurfiau, gw. 10.5n.
- 23–30 Dyfynnir yr wyth ll. yn DWH i, 161. 'Maes o sabl a thair maneg o ryfel' yw'r disgrifiad o'r arfbais a gynigir yn L. Dwnn: HV i, 20. Awgrymir yno hefyd mai o *gaunt d'or* y tarddodd enw'r teulu.
- 24 **Siâms** Cynghanedd drychben. Am enghreifftiau o gynganeddion trychben sy'n cynnwys yr enw benthg *Siarls*, gw. 35.47n.
- 30 **maes** Nid 'maes y frwydr' megis yn ll. 24 ond 'cefindir tarian neu un rhan o darian chwarterog', gw. GPC 2313.
- 34 **hynaif** 'Cyndadau, hynafiaid'. Am y ffurfiau un., gw. GPC 1974.
- 35 **bro hen Gadell** Gw. 3.39n.
- 36 **Blywed** Priododd Lewys Gwnter â Mawd, merch Siancyn Blewet. **gwaed well** Ar y treigladd, gw. 1.43n.
- 48 *n* wreiddgoll, ac isod yn ll. 65.
- 49 Cyfatebiaeth -sg g- = sg.
- 56 **cynnwys** Ymhlith yr ystyron a gynigir yn GPC 788–9 ceir 'cwmpasu (yn aml â'r deall), amgyffred'. Pwysleisir bod y gŵr hwn yn un hirben ond ni chyfeirir yn benodol at ei ymwneud â byd y gyfraith. Yr oedd gŵr o'r enw *J. Gunter* yn aelod o'r fainc yn ystod y blynyddoedd 1543–4, gw. JPWM 344.
- 62 **Bwlen** Nid yw dyddiadau Siâms yn hysbys, ac nid oes modd gwybod, felly, ai cyfeirio at gyrch 1513 a wneir ynteu at gyrch 1544 er mai'r ail sydd debycaf o ystyried y nodyn blaenorol. Ni chynhwysir ei enw ymhlith y boneddigion a ymunodd â chyrch 1544, gw. LPFD xix/i, cofnod 273. Yn 1544 y bu'r gwarchae ar Fwlen, ond enwir y dref yn y canu i'r gwŷr a aeth i Ffrainc yn 1513, gw. y mynegai yn GLM. Yng Nghalais y glaniwyd yn 1513—bu'r dref honno ym meddiant y Saeson rhwng 1347 a 1558—a gorymdeith-

iodd y fyddin o'r fan honno i Thérouanne lle y cafwyd buddugoliaeth ysgubol, gw. J.D. Mackie, *The Earlier Tudors* (Oxford, 1957), 277–80.

- 66 **gŵr well** Ar y treigladd, gw. 1.43n a cf. uchod ll. 36 *gwaed well*.  
68 **mwyr ras** Ar y treigladd, gw. 1.18n.

## 41

Ceir ach Rheinallt o'r Berth Hir yn Llanoronwy (Rockfield) yng nghwmwd Mynwy yn WG1 423; WG2 770; LPMG 264–5 fel a ganlyn: Rheinallt ap Wiliam ap Wiliam ap Hywel ap Tomas ap Gwilym ap Siancyn ... Godwin. Adwaenid ei dad wrth yr enw *Wiliam Powel*, a diau mai gwrthrych y cywydd yw'r Rheinallt ap Hywel a ddewiswyd yn siryf sir Fynwy yn 1544, gw. LSEW 83. Yr oedd *Reg. ap Howell* yn un o'r tri a enwebwyd ar gyfer yr un swydd ym mis Tachwedd 1546 drachefn, gw. LPFD xxi/ii, cofnod 472. Gan nad yw'r bardd yn crybwyll y siryfiaeth, gellir bod yn bur sicr ddarfod llunio'r cywydd cyn 1544, ac y mae'r ffaith na chrybwyllir y brwydro ym Mwlen yn ddadlennol hefyd. Yr oedd *Raignald ap Hoell* ymhlith boneddigion sir Fynwy a gymerodd ran yn y cyrch yn 1544, gw. LPFD xix/i, cofnod 273.

- 1 **pump henwaed** Cyfeiriad, o bosibl, at bum brenhinllwyth Cymru, gw. 4.48n. Digwydd y ffurf *pump* o flaen e. ar achlysuron eraill yn y canu, cf. 43.28 *Pumprhan henw pump brenhiniaeth*, 54.14 *Impren hen pump brenhinwaed*.  
2–4 **Henffordd ... / ... Erging ... / ... Euas** Ffinia cwmwd Mynwy ag Erging a ddaeth yn rhan o swydd Henffordd, gw. WATU 66–7. Saif cwmwd Euas rai milltiroedd i'r gogledd.  
7 **iustus** Rhestrir *Reg. ap Howel* ymhlith ustusiaid sir Fynwy yn ystod y blynyddoedd 1543–61, gw. JPWM 344–5.

**eiste** Tybed a gamddeallwyd yr e.p. *Estas: Iustus sir, Estas, â sêl / Y sy draw ... ?*

- 10 Naill ai *n* wreiddgoll neu *m* berfeddgoll os cyfrifir hon yn gynghanedd groes o gyswllt.  
12 **ail gŵr** Ar y cyfuniad, gw. 13.26n.  
13 Camosodiad l.m = m.l.  
14 **Manbri** Yn ôl LPMG lladdwyd Wiliam ap Hywel, taid Rheinallt, ym mrwydr Banbri yn 1469. Rhestrir y gwŷr amlycaf a laddwyd naill ai yn y frwydr neu ar ei hôl yn WWR<sup>2</sup> 108, ond nid enwir Wiliam yn eu plith.

Rhaid cyfrif *bwrw* yn air deusill.

- 18 **taid** Defnydd llac sydd i'r gair *taid* yma, gw. yr ach uchod. Rhestrwyd enwau ei dad a'i daid yn llau. 11–13.
- 21 **Gronwy** Catrin, merch Gronwy ab Ifor Hir, oedd gwraig Hywel ap Tomas, gw. WG1 423.
- 24 **at dawn** Ar y calediad hwn, gw. Treigladau 386.
- 28 **Catrin** Yr oedd gwraig Rheinallt yn ferch i Forgan Gamais ac yn chwaer i Syr Tomas Gamais, gwrthrych cerdd 8, gw. WG2 746. Ei mam oedd Marged, merch Syr Rhosier Fychan ap Syr Rhosier Fychan, Tretŵr, a phriododd yr olaf â Gwladus, merch Dafydd Gam, gw. 8.20n; WG1 243. Priododd Wiliam, mab Rheinallt a Chatrin, â merch Wiliam ap Siôn ap Tomas, Treowain (gwrthrych cerdd 27).
- 33 **ŵyr marchawg** Priododd Wiliam ap Hywel â merch Syr Edmwnd Cornwall, ond gan mai ach y wraig sydd dan sylw yn y llau. hyn, tebyg mai 'wyres' yw ystyr 'ŵyr'. Yr oedd taid a hendaidd Catrin yn farchogion.
- 36 **Berth Hir** Nodir yn Hist Mon i, 29–31 yn y nodiadau ar y teulu mai Plas-yn-y-berth-hir oedd enw gwreiddiol y cartref.
- 37 **tŷ d'aelwyd** Digwydd yr ymadrodd *tŷ aelwyd* yn un o gywyddau Ieuan Deulwyn, gw. ID XXIII.4 *ai dy aelwyd y dalaiith*.
- 42 **tai naw** Trafodir arwyddocâd y rhif. *naw* yn y cyswllt hwn yn GIG X.37n.
- 43 **tai maner** Dyfynnir y cwpled yn GPC 2340, a rhoddir i *maner* yr ystyr 'maenor'. Digwydd yr un ffurf yn *ib*. mewn cwpled o waith Llawdden, a hynny yn safle'r odl, a thystia hynny i'w dilysrwydd, ond *maenor* yw'r ffurf arferol yng nghanu Lewys, gw. yr Eirfa.  
**Mynwy** Afon Mynwy sy'n llifo heibio Llanoronwy. Ymuna ag Afon Gwy yn Nhrefynwy.
- 44 **trylwyn** Rhoddir i'r a. hwn yn GPC 3641 yr ystyron 'disglair, ysblennydd; cadarn'.  
**o i ar lan Gwy** Am enghreifftiau o'r ardd. cyfansawdd hwn, gw. GPC 2611 a cf. GLGC 197.61–2 *llu o frenhinedd gorllewin—gerllaw / a erbyn ei law o i ar ben ei lin*. Digwydd drachefn yn 66.15 a gwelir y ffurfiau *o i wrth* ac *o i wrthynt* yn 67.47 ac 88.16.
- 47 **tir pae wrth dai** Cymerir bod *tir pae* yn gyfystyr â *tir pryn* 'tir a brynwyd', gw. GPC 3504. Dichon mai'r ystyr yw bod sawl un yn gwerthu tir er mwyn cael arian parod i'w wario ar eu cartrefi ond bod Rheinallt yn ymddwyn yn ddoeth trwy fuddsoddi mewn tiroedd.
- 49–50 **Ynyr / ... [G]went** Priododd nifer o hynafiaid Rheinallt â gwrag-

edd a ddisgynnai o Ynyr Gwent.

## 42

Canodd Lewys Morgannwg i dair cenhedlaeth o ieirll Caerwrangon. Cyfarchodd Harri Somerset (c. 1499–1549) ar bedwar achlysur—lluniodd ddwy awdl fawl a dau gywydd mawl iddo—a chanodd ei farwnad, gw. cerddi 42–6. Diogelwyd tri chywydd i'w fab a'i etifedd, Wiliam Somerset (1526–89), gw. cerddi 47–9, ynghyd â chywydd i fab hwnnw, Edward Somerset (1553–1628), gw. cerdd 50. Yr un yw'r cysylltiadau achyddol a bwysleisir yn y naw cerdd hyn, a digon tebyg yw'r cerddi o ran eu cynnwys hefyd fel mai anodd pennu union drefn eu cyfansoddi.

Yn un o'i gywyddau i Wiliam, datgan y bardd *Mawr yn Lloegr mae'r naill egin, / Mwy'r llall yng Nghymru a'i llin*, gw. 47.31–2. Elisabeth, mam Harri, a gynrychiolai'r cyswllt Cymreig. Hi oedd unig blentyn Wiliam Herbert, Iarll Huntingdon, sef mab hynaf Wiliam Herbert, Iarll Penfro (m. 1469), gw. ByCy 333–4. Yn unol â'r disgwyl, enwir yr iarll a'i hynafiaid, Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas, Dafydd Gam a Godwin ar sawl achlysur yn y cerddi dan sylw, gw. ymhellach 8.20n. Priododd Elisabeth â Charles Somerset, mab anghyfreithlon Henry Beaufort, trydydd Dug Somerset, a dyma ochr Seisnig yr ach. Trwy Henry, gallai'r teulu arddel cyswllt â'r brenin Edward III ac â'r Tuduriaid coronog, ac yn unol â'r disgwyl, y mae'r cysylltiadau hyn yn destun balchder, gw. 43.13n.

Erbyn 1509 yr oedd Charles (?1460–1526) yn arfer y teitl Arglwydd Somerset ac Arglwydd Herbert, ac fe'i dyrchafwyd yn Iarll Caerwrangon ar 1 Chwefror 1513/14, gw. ByCy 860; DNB liii, 230–1; CP vi, 440–1; CP xii/ii, 846–50. Dyrchafwyd ei fab, Harri, a aned tua 1499, yn Iarll Caerwrangon yn dilyn marwolaeth ei dad yn 1526, gw. DNB liii, 247–8 (y cofnod ar ei fab, Wiliam); CP xx/ii, 851–2, a rhoddwyd y teitl i'w fab yntau, Wiliam, wedi marw'r ail Iarll Caerwrangon ym mis Tachwedd 1549. Rhaid fod Edward, etifedd Wiliam (ganed 1553), yn bur ifanc pan gyfarchodd Lewys ef.

Ymdrinnir â gyrffâu Charles Somerset a'i fab, Harri, yn erthyglau Rhys Robinson, 'Early Tudor policy towards Wales: the acquisition of lands and offices in Wales by Charles Somerset, Earl of Worcester', B xx (1962–4), 421–38; *id.*, 'Early Tudor Policy towards Wales Part 2: The Welsh offices held by Henry, Earl of Worcester (1526–1549)', B xxi (1964–6), 43–74; *id.*, 'Early Tudor policy towards Wales, Part 3: Henry, Earl of Worcester and Henry VIII's legislation for Wales', *ib.* 334–61; *id.*, 'The lands of Henry, Earl of Worcester in the 1530s', B xxv (1972–4), 188–242, 298–337, 454–500. Pwysleisir mai trwy ffafwr y goron y daeth Charles Somerset i amlygrwydd ym mywyd cyhoeddus Cymru yn y lle cyntaf: '... the Crown gradually increased the possessions and influence of the Somerset family so

that it came to occupy a predominant position in the Marches of Wales in the early decades of the sixteenth century', gw. Rhys Robinson, B xx (1962–4), 422. Un arwydd o gefnogaeth y goron oedd y swyddi niferus ddaeth i'w ran, nid yn unig ym Morgannwg a Gwent ond hefyd yn arglwyddiaethau Brycheiniog, Trefaldwyn, Elfael, Ceri, Cedewain a Dyffryn Clwyd, gw. y rhestr yn *ib.* 429–38. Arwydd arall o'r awydd i hyrwyddo ei yrfa oedd ei briodas ag Elisabeth o fewn blwyddyn i farwolaeth ei thad, Wiliam Herbert, Iarll Huntingdon (m. 1491), a hithau namyn 17 oed. O ganlyniad i'r briodas, rheolai Charles Somerset y tiroedd helaeth hynny yng Ngŵyr, Cilfâi, Crucywel, Tretŵr a Thalgarth a fuasai ym meddiant yr Herbertiaid. Maes o law, daeth y tiroedd hyn i feddiant ei fab a'i etifedd, Harri, ynghyd â llawer o'r swyddi y penodwyd Charles ei hun iddynt. Er mai bychan oedd cyfoeth Harri o'i gymharu ag aelodau'r dosbarth cyfatebol yn Lloegr, meddai ar statws digymar yng Nghymru ar gyfrif ei gyfoeth a'i eiddo ac ar gyfrif ei swyddi cyhoeddus. Serch hynny, '... there is ample evidence to show that Worcester failed to maintain a proper standard of administration in the lordships under his control', gw. Rhys Robinson, 'Early Tudor policy towards Wales, Part 3' 339, ac awgrymir bod ei fethiant i gadw trefn yn ei arglwyddiaethau, a'i anallu, neu ei amharodrydd, i reoli'r sawl a ddewisodd i weithredu ar ei ran yn ei amryfal swyddi, wedi prysuro'r ddeddfwriaeth a newidiodd y drefn gyfreithiol yng Nghymru, ac a ffurfiai ran o'r hyn a ddisgrifid maes o law yn Ddeddfau Uno.

Canodd Iorwerth Fynglwyd un cywydd moliant i Harri, gw. GIF cerdd 8. Er mai 'I Harri, Iarll Caerwrangon' yw'r teitl a roddwyd i'r gerdd, tebyg i'r bardd ei chanu cyn marw Charles Somerset; sylwer mai *Arglwydd ... Harri* a gyferchir ar ddechrau'r cywydd. 'Arglwydd Herbert' oedd y teitl a arddelai Harri yn ystod y blynyddoedd 1514–26, gw. CP xii, 851. Wedi marw ei dad y dyrchafwyd ef yn Iarll Caerwrangon. Eto, gwelir bod Lewys yn arfer y teitl 'iarll' wrth gyfarch Harri yn y gerdd dan sylw, gw. 42.1, 13, 29, &c. Rhaid ei fod yn arfer y teitl mewn modd canmoliaethus a'i fod yn rhagweld yr adeg pan fyddai meddiannau ac awdurdod y tad yn cael eu trosglwyddo i ddwylo ei fab a'i etifedd. A barnu wrth amser y ferf yn yr awdl gyntaf hon o waith Lewys Morgannwg, gw. 42.21 *Dy dad sy geidwad ...*, yr oedd Charles Somerset ar dir y byw, ac fe'i canwyd, felly, cyn 1526, ac o bosibl tua 1523, gw. 42.49n.

Nid yw'n destun syndod fod y bardd yn dewis annerch Harri a'i dad eto'n fyw. Bu i Charles Somerset ran flaenllaw ym mywyd y llys brenhinol a bu'n cynrychioli'r ddau frenin, Harri VII a Harri VIII, ar deithiau llysgenhadol. O ganlyniad, ychydig o'i amser a dreuliai yng Nghymru. Enwir Harri yn olynydd i'w dad yn nifer o'r apwyntiadau a gafodd hwnnw wedi 1510, ac er iddo fyw hyd 1526 ni chafodd Charles Somerset unrhyw swydd yng Nghymru wedi 1515. Ar y llaw arall, daeth sawl swydd bwysig i ran y mab yn ystod y blynyddoedd hyn.

Barnai J. Gwenogvryn Evans mai'r bardd ei hun a gofnododd y copi o'r awdl (cerdd 42) a ddiogelwyd yn Pen 60, gw. RWM i, 437–8. Gelwir y bardd yn *ll ap Rysiert* yn y llawysgrif hon; *Lewys Morgannwg* yw'r ffurf ar yr enw bron yn ddieithriad yn y llsgrau. a ddiogelodd ei waith, gw. ymhellach y Rhagymadrodd, td. 1. Un nodwedd ar orgraff y copi hwn yw'r defnydd helaeth o'r gytsain galed *c* yn hytrach na'r feddal *g* mewn geiriau megis *dug*, *dugiaid*, *dugiaeth*, *Rhaglan*, *Lloegr*, *agos* (ond sylwer ar y gynghanedd yn ll. 28 lle y mae'n rhaid wrth gytsain feddal yn *Lloegr* i ateb yr *g* yn yr ymadrodd *holl Gred*).

*Y mesurau*

- 1–44 Cyfres o 11 englyn unodl union.
- 45–80 Naw pennill ar fesur y gwawdodyn byr.
- 3–4 Nid yw'r ystyr yn amlwg ond digwydd yr ymadrodd *aros dug* yn y cerddi eraill a ganodd Lewys i'r teulu, gw. 44.3–4 *Iarll Harri*, *iarll a eurwyd*, / (*Am aros dug*) *Swmrsed wyd*, 50.7–8 *Y mae gennym eginyn / Am aros Dug Swmrsed ynn*, ac yng ngoleuni'r cwpledi hyn gellid tybio mai ystyr esgyll englyn agoriadol yr awdl yw '[Arwydd] ymbaratoi yw'r seren wrth aros [dyrchafu] Harri [yn] ddug Swmrsed.'
- 5 **banred** 'Gŵr o radd ac urdd marchog', o'r S. *banneret*, gw. GPC 255.
- 8 **y llew gwyn** Arwydd herodrol yr Herbertiaid, gw. DWH ii, 226.
- 9–12 Cyfeiriad arall at drychineb Banbri pan laddwyd Wiliam Herbert, Iarll Penfro o'r greadigaeth gyntaf, gw. 23.3n.
- 13 **iôr llwyd** Gellir dehongli *iôr llwyd* mewn dwy ffordd; naill ai i. hanai Harri o waed *iôr llwyd* (= 'anrhydeddus'); neu ii. gŵr ifanc oedd Harri er bod ei wallt wedi dechrau britho neu lwydo. Ailadroddir yr un syniad yn un o gywyddau Siôn Ceri, gw. GSC 3.17–18 *Er llwydo'r gwallt, llew dewr gwych*, / *Am yr oedran mae'r edrych*.  
Bai crych a llyfn.
- 15–16 Byddai'r cwpled yn fwy ystyrlon o dderbyn darlenniad Pen 113, sef *heniarll ... Penfro*.
- 16 *r* berfeddgoll.
- 17 **iarll fych Penfro** Dyma'r teitl a gafodd Wiliam Herbert (m. 1469) a'i fab, Wiliam, ar ei ôl, ond ar gais Edward IV cymerodd yr ail Wiliam iarllaeth Huntingdon yn gyfnewid am iarllaeth Penfro, gw. ByCy 333–4. Y mae'n amlwg mai dymuniad y bardd yn y cylch o gerddi i'r teulu—a diau ei fod yn adleisio safbwynt ei noddwyr—oedd gweld adfer y teitl gwreiddiol. Gw. ymhellach 48.15–16n.
- awchiad** 'Min, naws', gw. GPC 238. Daw'r enghraifft gynharaf a

ddyfynnir o waith Tomas Prys o Blasiolyn.

- 25 **tref Rhufain** Disgwyliid treigladau i'r e.p., gw. Treigladau 111–12, ond parchwyd darlleniad Pen 60.
- 30 **beddysawd** Cofnodir yr amrywiad *beddysawd* yn GPC 362, ond ni chofnodir y ffurf *beddysawd* sy'n digwydd yn Pen 113. Darlleniad Pen 60 yw *feddydau*. Am enghraifft arall o'r ffurf *beddysawd*, gw. 104.55.
- 32 **hyd Dydd Brawd** Ar y calediad, gw. 7.44n.
- 42 **Castell Gwent** Cas-gwent. Yno yr oedd prif gartref Harri, gw. Rhys Robinson, 'Early Tudor policy towards Wales, Part 3: Henry, Earl of Worcester and Henry VIII's legislation for Wales', B xxi (1964–6), 338. Cafodd Charles Somerset y teitl 'Barwn Herbert o Raglan, Cas-gwent a Gŵyr'.
- 43 Y mae'r ll. yn ystyrlon fel y saif, ond efallai y dylid holli *ddauar* Pen 60, fel y gwnaed yn Pen 113, a darllen *Iarll oedd (ddau) ar holl Ddwywent*. Y ddau iarll hynny oedd Wiliam Herbert, Iarll Penfro, a'i fab, Wiliam Herbert, Iarll Huntingdon. Fe'u henwir yn llau. 45–6.

**holl Ddwywent** Y gynghanedd yn mynnu'r treigladau, ond cyffredin yw caledu'r gytsain feddal sy'n dilyn *holl*, gw. 45.59n.

- 49–56 Tâl cymharu'r llau. hyn â'r llau. cyfatebol yn y cywydd a ganwyd i Rys Mawnsel, gw. 17.51–68n. Yno, deisyfir ar i Dduw a Mair amddiffyn Rhys, a oedd yn brwydro yn Iwerddon ar y pryd, rhag peryglon megis *brîw dur ... bradwriaeth ... gwns ... gwayw na saeth*. Yn yr un modd, cf. GLM XXXV.47–60 a ganwyd pan oedd Wiliam Gruffudd, y Penrhyn, yn brwydro yn Ffrainc (a chyn ei urddo yn farchog, felly, er gwaethaf y teitl yn *ib.*). Perthyn naws filwrol i'r llau. hyn drachefn. Gwyddys i Harri gymryd rhan yn y cyrch digon aflwyddiannus o dan Charles Brandon, Dug Suffolk, yn Ffrainc yn 1523 (ar Ddug Suffolk, gw. CP xii/i, 454–60; DNB vi, 218–22), a chyfeirir yn ll. 59 at *arfaeth holl Normant*. Tybed a ganwyd yr awdl y flwyddyn honno ar drothwy'r cyrch? Cymerodd Charles Somerset ran amlwg yng nghyrc'h 1513, gw. LPFD i/ii, cofnod 2051. Rhyw bedair ar ddeg fyddai Harri ar y pryd ac nid yw'n debygol y byddai Lewys wedi rhoi'r flaenoriaeth iddo ef yn hytrach nag i'w dad yn 1513, er y byddai dyddio'r awdl i'r flwyddyn honno yn gyson ag awgrym Daniel Huws ddarfod llunio Pen 60 tua 1510–15, gw. MWM 63; Rhagymadrodd td. 9.
- 49 **arglwyddiaeth** Rhaid wrth y ffurf bedair sillaf *arglwyddiaeth* er mwyn sicrhau cynghanedd lusk, ac o ganlyniad rhaid ceseilio er mwyn sicrhau ll. nawsill yn unol â'r patrwm yn y penillion eraill.

- 52 **sias** Gwrthodwyd *sais* Pen 60 a dilynwyd darlleniad Pen 113 sy'n rhoi odl reolaidd â'r gair cyrch *curas* yn y ll. flaenorol. Bu'n rhaid dewis rhwng y ddau air *Sais* a *sias* ar achlysur arall, gw. 21.40n.
- 60 **rhiolaeth** Fe'i rhestrir ymhlith yr amrywiadau ar *rheolaeth* yn GPC 3056.
- 63 **'Nwywent** Diwygiwyd *nwyfwent* y llsgrau. a barnwyd mai'r e.p. a oedd yn gweddu yn y cyd-destun. Nid annichon i'r ddau gopiwr ychwanegu'r *f* at yr e.p. er mwyn sicrhau bod y gynghanedd yn rheolaidd. Ceir *f*led-lafarog yn y ll. ar ôl ei diwygio.
- 67 **gwaeth** Ychwanegwyd *d* uwchben *th* yn Pen 60, ond er bod y diwygiad yn gwella'r ystyr, difethir y brifodl.
- 68 Cyfatebiaeth caled a meddal  $g = c$ .
- 78 **twysogaeth** Dilynwyd darlleniad Pen 113 sy'n rhoi cynghanedd reolaidd.

## 43

Tybiodd David Ellis mai *Awdl i Harri Iarll Somerset sef Henry Fitz Roy mâb ordderch Brenin Harri 8* oedd hon. Ganed Henry Fitzroy yn 1519, ac yr oedd yn blentyn i Harri VIII ac Elisabeth Blount, un o wasanaethwagedd y frenhines, Catherine o Aragon. Fe'i dyrchafwyd yn Iarll Nottingham, yn Ddug Rhismwnt ac yn Ddug Somerset a'i osod uwchlaw pob dug arall yn y deyrnas ac eithrio etifeddion cyfreithlon y goron, gw. DNB xix, 204–5, *ib.* xxvi, 82. Ar sail y cyfeiriadau achyddol, gellir datgan yn hyderus mai Harri Somerset, Iarll Caerwrangon, yn hytrach na Henry Fitzroy, Dug Somerset, a glodforir yn yr awdl.

*Y mesurau*

- 1–36 Cyfres o naw englyn unodl union.  
 37–40 Englyn proest cadwynog.  
 41–4 Englyn proest cyfnewidiog.  
 45–9 Cyfres o wyth hir a thoddaid.

- 1 Rhaid derbyn bod yma gynghanedd draws fantach a honno'n ddibynnol ar gyfatebiaeth lafarog.
- 4 **bort** Fe'i deallir yn e.p. yn Lewys Morgannwg: Gw 748, sef ffurf ar *Bwrt*, ond gan fod sôn am *wledd Dwywent* yn ll. 3, mwy ystyrion yw'r e.c. 'bwrdd'.
- 6 **glan Clwyd** Penodwyd Charles Somerset, a'i fab ar ei ôl, yn stiward arglwyddiaethau Rhuthun a Dyffryn Clwyd, gw. Rhys Robinson, 'Early Tudor policy towards Wales: the acquisition of



lands and offices in Wales by Charles Somerset, Earl of Worcester', B xx (1962–4), 431; *id.*, 'Early Tudor Policy towards Wales Part 2: The Welsh offices held by Henry Earl of Worcester (1526–1549)', B xxi (1964–6), 58–9.

- 9–10 Cynganeddir y ddeuair *penfras* a *Penfro* gan Uto'r Glyn mewn cywydd i Wiliam Herbert, yr Iarll Penfro cyntaf, gw. GGI<sup>2</sup> XLVIII.18 lle y'i gelwir yn *Benfras Arglwydd o Benfro*.
- 11–12 **Dug Harri ... / ... Siarls Iarll ... Yrl Siôn** Yr oedd Charles Somerset yn fab anghyfreithlon i Henry, Dug Somerset (m. 1464), ac yr oedd hwnnw yn ei dro yn wŷr i John Beaufort, Iarll Somerset (m. 1410), gw. DNB liii, 230–1; CP xii/ii, 846–50.
- 13 **twysogion** John Beaufort, Iarll Somerset, oedd taid Henry, Dug Somerset, a thaid Margaret Beaufort, mam Harri VII.
- tri Siôn** Yr oedd dau Siôn ymhlith hynafiaid Harri, Iarll Caerwrangon, o ddilyn ei ach o dad i dad, sef John Beaufort, Iarll Somerset (m. 1410), a'i dad yntau, John o Gaunt, trydydd mab y brenin Edward III (o blith y meibion a orosodd), gw. DNB xxix, 417–27. John Beaufort oedd yr hynaf o blant anghyfreithlon John o Gaunt gan Catherine Swynford. Diau mai John Beaufort, tad Margaret Beaufort, yw'r trydydd Siôn dan sylw.
- dau Emwnt** Y ddau oedd Edmwnd, tad Henry, Dug Somerset, a thaid Charles Somerset ac Edmwnd Tudur, Iarll Rhismwnt, mab Owain Tudur a Catherine o Valois.
- 14 **tri Iarll Herbart** Sef i. Wiliam Herbert, yr iarll cyntaf; ii. Wiliam Herbert, Iarll Huntingdon, ei fab a'i etifedd; iii. Charles Somerset, mab yng nghyfraith yr olaf, a thad gwrthrych yr awdl.
- 15 **Siôn o Gawnt** Gw. 43.13n.
- 16 **[y] Tri Edwart** Edward III, gw. 43.13n.
- 17 **tri Wiliam** Sef y ddau a enwir yn 43.14n ynghyd â Syr Wiliam Tomas, y Marchog Glas o Went.
- 18 **tair cyfraith** Ailadroddir y rhif. *tri* yn yr englyn, a diau mai *tair cyfraith* sy'n gweddu yma yn hytrach na *tai'r cyfraith*, ac am gyfeiriad pellach yn y canu at y *tair cyfraith*, gw. 67.29. Cyfeirid yn fynych at y gyfraith sifil a'r gyfraith eglwysig neu'r ganon. Gallai'r drydedd gyfeirio naill at y gyfraith gyffredin '*common law*' neu at gyfraith Hywel. Ymfalchïai Mathau Brwmffild fod y Doctor Elis Prys wedi meistrolï'r tair cyfraith (er nad enwir y tair yn unigol), gw. GMBr 9.16n, a chyfeiria Lewys at gyfraith Hywel ar achlysur arall, gw. 60.36 *Aeth ddeall cyfraith Hywel*. Ond tybed ai cyfraith Cymru, Lloegr a Ffrainc a olygir yma, a bod *cyfraith*, felly, yn gyfystyr â 'cenedl'? Esboniwyd y cyswllt â Chymru a Lloegr

eisoes. Catherine o Valois oedd mam Edmwnd Tudur, gw. isod 43.35n a 45.31–2n, a hi, felly, oedd y cyswllt Ffrengig.

- 21 **Marchog Cam** Gw. 8.20n. Credid darfod urddo Dafydd Gam yn farchog yn Agincourt yn 1415, ac yntau ar ymadael â'r fuchedd hon, gw. CLC<sup>2</sup> 159; WWR<sup>2</sup> 28; GHS 4.22n. Felly yn sicr y barnai Lewys Morgannwg a chyfeiria at y traddodiad ar sawl achlysur wrth enwi Dafydd Gam, cf. 29.7, 52.11, 53.35–6.
- 25–7 **Pum plaid o ddugiaid ... / ... pum iarllaeth, / Pum brenin** Ailadroddwyd y rhif. *tri* yn y pumed englyn ac ailadroddir *pump* y tro hwn. Gallai'r bardd ymfalchïo bod gwrthrych yr awdl yn perthyn o hirbell i bum brenin a hanoedd o Edward III, ac o John o Gaunt, Dug Lancaster, (a phob un, fel gwrthrych yr awdl hon, yn dwyn yr enw Harri), sef Harri IV, Harri V, Harri VI, Harri VII a Harri VIII. Anodd gwybod pa mor llythrennol y dylid dehongli'r cyfeiriad at bum plaid o ddugiaid (a sylwer bod Lewys yn sôn am *dri dug* yn 44.11 ac *wyth ddugiaeth* yn 42.7) ac at bum iarllaeth. Yn ôl CP xii/i, 39–58, Henry, Dug Somerset, tad Charles Somerset, oedd y trydydd Dug Somerset a'r chweched Iarll Somerset, ond tebycach fod y bardd yn meddwl am bum dugiaeth a phum iarllaeth annibynnol. Crybwyllwyd pedair iarllaeth eisoes, sef Caerwrangon, Somerset, Penfro a Rhismwnt a diau mai iarllaeth Dorset yw'r bumed—teitl a gafodd Henry, Dug Somerset, yn 1442. Fel hyn y disgrifir Edmwnd, tad Henry, yn LIGC 4710B, 341 *Edmwnd Beufford oedd 4udd Mab. J Sion Beufford. Hwn oedd Jarll o wlad yr Hâf Ag Jarll Dorsett. Ag Arglwydd y Wayn yn Swydd Ddimbech. Ag Jarll Merton, Neu Meriwn yn Frainc, o Rodd Harri y Pymed ... Fô A wnaed yn Ddûg o wlad yr Hâf, Ag yn Farquest o Dorset, Ag Ef oedd yr Ail Dûg o wlad yr Hâf or Beufforts*. Dwy ddugiaeth a oedd yn gysylltiedig â hynafiaid uniongyrchol Harri, sef Lancaster (a ddaeth i ran John o Gaunt) a dugiaeth Somerset.
- 28 Rhaid wrth *pump brenhiniaeth* er mwyn sicrhau bod yma gynghanedd reolaidd. Digwydd y cyfuniad ar achlysuron eraill yn y canu, gw. 41.1n, 54.14.
- 29–32 **Ysbaen ... / Castil ... Almaen; / ... Siarl-y-maen** Siarlymaen oedd yr enwocaf a'r mwyaf dylanwadol o holl frenhinoedd yr Oesoedd Canol, a bu'r rhan fwyaf o diroedd gorllewin a chanol-barth Ewrob o dan ei reolaeth. Ond helaethach na hynny oedd y tiroedd a reolid gan Siarl V (1500–58), yr Ymheroddr Rhufeinig Sanctaidd (sef Siarl I o Sbaen, a mab Ffyllib I, Brenin Castil), gw. MEnc. Fe'i coronwyd yn frenin yr Almaen yn 1520, ac efallai fod Lewys yn yr englyn hwn yn cyffelybu Harri Somerset iddo ef.
- 29 **ynys ban** Rhoddir i *ban*, pan fydd yn cyflawni swyddogaeth

ansoddeiriol, yr ystyron 'uchel, dyrchafedig, aruchel, ardderchog' yn GPC 253 (ond disgwyliid treiglad i'r a. yn dilyn eb.). Ond gellid *Ynys Ban*, sef ffurf ar *Ynys Man*, sef Ynys Manaw (am enghreifftiau o *m a b* yn ymgynffwrdd, cf. *Banbri / Manbri* a gw. y drafodaeth yn 1.34n).

- 30 **Castil** Enw ar yr ardal i'r de o brifddinas Sbaen, Madrid. Rhaid ei gyfrif yn air diacen at ddiben y gyfatebiaeth, ond diacen ydyw hefyd gan Uto'r Glyn a Lewys Glyn Cothi, gw. GGI<sup>2</sup> LIX.11; GLGC 105.36.
- 31 **Brytaen** Prydain yma ac yn 97.2, ond Llydaw yn 66.21, 67.48, 100.4.
- 35 **ffrwyth blodau Ffrainc** Ni allai Harri ei hun arddel cyswllt â brenhinoedd Ffrainc, ond gallai ei blaid, neu ei dylwyth, wneuthur hynny yn sgil priodas Catherine o Valois, merch Siarl VI, Brenin Ffrainc, ag Owain Tudur. Plant o'r briodas honno oedd Siasbar Tudur ac Edmwnd, tad Harri VII.
- 37–9 **Iachau Ffrainc ... / ... / Arfau Lloegr** Dygai Charles Somerset arfau Lloegr a Ffrainc yn chwarterog. Tri llew a ddarlunnid yn draddodiadol ar arfbais brenhinoedd Lloegr ('three lions passant guardant in pale or') ond pan hawliodd Edward III goron Ffrainc yn dilyn marwolaeth Siarl IV yn 1328, mabwysiadodd arwydd traddodiadol brenhinoedd Ffrainc, sef y fflwr-dy-lis, gw. A.C. Fox-Davies, *A Complete Guide to Heraldry* (London, 1909), 205–7, 471.
- 37 **y rhos** Rhosyn coch y Lancastriaid.
- 38 **rhoed lwyth** Ar y treiglad yn dilyn ffurf amhrs. y f., gw. 38.68n.
- 40 **porthcwlis** Yr oedd hwn drachefn yn un o symbolau herodrol y teulu. Addurnwyd pedair cornel beddrod Charles Somerset â'r arwydd hwn, gw. DWH ii, 526–7.
- 42 **llew gwyn** Gw. 42.8n.
- 45–92 Diwedda pob gair yn safle'r brifodl yn Pen 99, ac eithrio *rywiog* yn ll. 70 â'r gytsain galed *c*, ond ni restrwyd y ffurfiau hyn yn yr Amrywiadau.
- 45 **untuog** Ar sail yr enghreifftiau a ddyfynnir yn GPC 3716, cynigir yr ystyron 'unochrog, rhagfarnllyd', ond 'cýtûn, unfryd' yw'r ystyr sy'n gweddu yma.
- 46 **Cynan Meriadog** Mab Eudaf Hen yn chwedl 'Breuddwyd Maccsen'. Cynorthwyodd yr ymherodr Maccsen i adennill ei deyrnas, a chafodd Lydaw yn wobwr am ei wasanaeth, gw. TYP<sup>2</sup> 316–18; WCD 164–6.
- 49 **iarll canswydd** Ni ellir cyhuddo'r bardd o ormodiaeth. Rhestrir

rhyw ddeg swydd a thrigain a ddaliai Harri yn Rhys Robinson, 'Early Tudor policy towards Wales Part 2: The Welsh offices held by Henry Earl of Worcester (1526–1549)', B xxi (1964–6), 56–60. Crybwyllir swyddi niferus Harri yng nghywydd Iorwerth Fynglwyd drachefn, gw. GIF 8.5 *Swyddau rifwch sydd ryfawr*.

- 55 **Caradog Freichfras** Cysylltid pob math o chwedlau â'i enw. Daw i'r amlwg yn 'Breuddwyd Rhonabwy' ac yn y Trioedd. Ar sail ei garwriaeth â Thegau Eurfron, gw. 9.26n, fe'i cysylltwyd â'r *Tri rhagorawl rwym serch trigiedig* (rhif 71 yn TYP<sup>2</sup>). Fe'i henwir hefyd yn y triawd *Teir Lleithichyith Ynys Prydein* (rhif 1 yn TYP<sup>2</sup>). Fodd bynnag, gwrthodir y gred fod ei fam yn un o ferched Brychan, gw. WCD 102–4; LBS i, 319; IGE<sup>2</sup> LXXXIX.29–30. Fe'i hystyrid yn gyndaid nifer o deuluoedd siroedd Brycheiniog a Morgannwg, a Rhys Goch, Ystrad Yw, a Drymbenog ap Maenyrch yn eu plith, gw. HW 90; DWH ii, 63–4. Tybed ai bwriad y bardd oedd cyfleu cyswllt Harri â Brycheiniog. Fe'i penodwyd yn stiward tref, maenor ac arglwyddiaeth Brycheiniog, gw. Rhys Robinson, 'Early Tudor policy towards Wales: the acquisition of lands and offices in Wales by Charles Somerset, Earl of Worcester', B xx (1962–4), 437; *id.*, 'Early Tudor Policy towards Wales Part 2: The Welsh offices held by Henry Earl of Worcester (1526–1549)', B xxi (1964–6), 57.
- 56 **Iarll y Porth a'r Og** Cyfeiriad at helyntion Owain ab Urien yn chwedl 'Iarlls y Ffynnon'. Priodol oedd crybwyll yr arwr hwnnw gan fod porthcwllis yn un o arwyddion herodrol y teulu, gw. 43.40n; 65.14n. Yn y chwedl lladdodd Owain sarff a oedd yn bygwth llew a daeth y creadur hwnnw yn gydymaith ffyddlon iddo, ac efallai fod disgwyl i'r cyfeiriad at y llew yn yr un ll. ddwyn i gof y digwyddiad hwnnw. Cafodd y bardd achlysur i gyfeirio at ddigwyddiad arall a groniclir yn y chwedl wrth gyfarch aelod arall o'r teulu, gw. 48.30n.
- 72 **Elsbedd** Am enghraifft arall o'r ffurf hon ar yr e.p., a hynny mewn cynghanedd sain ac yn safle'r odl, gw. 11.23n. Margaret, merch Syr William Courtenay, Iarll Dyfnaint, a Catherine, merch ieuengaf Edward IV, oedd gwraig gyntaf Harri. Bu hi farw cyn 15 Ebrill 1526, ac o fewn dim o dro yr oedd Harri yn briod â'i ail wraig, Elisabeth, gw. CP xii/ii, 851–2; DNB xii, 336–7.
- 73 **marcwes** Cynigir mai ymgais y copiŵyr i gyfleu'r gair *marcwes* sydd yma, gw. yr Amrywiadau. Ar y ffurf hon a'r ffurfiau eraill *marcwys*, *marcwis*, gw. GPC 2353. Merch Syr Anthony Brown a Lucy, merch John Neville, Marcwis Montagu ac Iarll Northumberland (sef *ieirll gogleddog* ll. 72), oedd ail wraig Harri. Amlinellir hanes John Neville yn DNB xl, 265–9.
- 74 **llyyddog** 'A chanddi lu mawr o ymladdwyr', gw. GPC 2233.

Cysylltir y disgrifiad â'r Elen y mae iddi ran amlwg yn chwedl 'Breuddwyd Macsen'.

78 *n wreiddgoll.*

80 **Gras** Arferir y gair hwn yn y canu wrth gyfeirio at y goron, cf. 49.23–4 *Cyda Gras y'ch ceidw y Grog, / Y carw annwyl coronog.*

82 **trychan aurdorhog** Diau fod yma adlais o'r Gododdin, a cf. yn fwyaf arbennig CA 10 (ll. 235) *trywyr a thri ugeint a thrychant eur dorchawc.* Cf. y cyfeiriadau posibl at un o arwyr y gerdd yn 23.72n, 97.12n.

86 **Rhodri Molwynog** Perthynai i linach tywysogion Gwynedd. Yr oedd yn fab i Idwal ap Cadwaladr ac yn dad i Gynan Dindaethwy, gw. HW 231; WCD 559.

Cyfatebiaeth caled a meddal t = d. Rhaid cadw *tair* ar ddechrau'r ll. gan fod y gair hwn yn cynnal y cymeriad llythrennol. Gellid adfer darlleniad llsgrau. AC, sef *Rhotri*, ond purion nodi bod llau. eraill yn y canu sy'n cynnwys y bai caled a meddal.

## 44

Tybed a oes yn llau. 2 a 41 awgrym mai yn fuan wedi marwolaeth Charles Somerset, yr Iarll Caerwrangon cyntaf, yn 1526, y canwyd y cywydd?

Cyhoeddwyd testun o'r cywydd hwn (yn seiliedig ar lawysgrif B) yn GLIA cerdd XXXII.

1 **eurllew** Un o'r arwyddion ar arfbais Charles Somerset, a symbol a welid ar arfbais brenhinoedd Lloegr, gw. 43.37–9n a cf. 44.31 isod *eurllew aesawr.*

3–4 Cf. cwpled 42.3–4 mewn awdl i'r un gŵr.

5–6 **Ŵyr iarll ... / ... gorwyr iarll** Wiliam Herbert, Iarll Huntingdon, a'i dad, Wiliam Herbert, Iarll Penfro.

9 **o dri iarll** Cyfeiriodd y bardd at hynafiaid mam Harri yn llau. 5–8, a diau mai tri iarll ar ochr Charles Somerset, tad Harri, sydd dan sylw y tro hwn, gw. 43.14n, 17n, 25–7n. Ar achlysur arall, dywedwyd am Wiliam, mab Harri *Iarll o dad i dad ydywch, / Sy o dri iarll Wsedr ywch,* gw. 49.5–6, ond arwyddocâd y cwpled hwnnw oedd mai Wiliam oedd y trydydd Iarll Wsedr.

10 **gwaed Harri Wyth** Gw. 43.13n.

*r wreiddgoll.*

11 **tri dug** Gallai'r cyfeiriad awgrymu bod Harri yn disgyn o'r trydydd Dug Somerset (ond gelwir ei daid, Henry, yn ail ddug yn

CP xii/ii, 846; DWH ii, 526–7; Lewys Morgannwg: Gw 740), ond gallai olygu hefyd fod tri dug ymhlith ei hynafiaid, gw. ymhellach 43.25–7n.

- 12 **[y] trydydd o'r Tri Edwart** Gw. 43.13n.
- 13 **y rhos** Gw. 43.37–9n.
- 17 **oen Colcas** I Colchis yr anfonwyd Iason i geisio'r cnu aur, gw. OCD<sup>3</sup> 154, 361. Am gyfeiriadau eraill at yr antur, cf. TA XXVI.53–4 *Oen Colcos, yno celciwyd, / A'r gwlan aur i'r glynnau wyd, ib.* L.93–4 *Cael acw sens, Colcos oedd, / Cnu'n ifanc, Oen y nefoedd.* Am gyfeiriadau eraill gan Lewys, gw. 1.47n.
- 19 **henwent** Y ffurf ferfol sy'n taro yma ond gellid yr e.p. *Henwent*, cf. 27.15n.
- 24 **dros dau** Am enghreifftiau eraill o galedu dan ddylanwad -s yn yr ardd. *dros*, gw. 11.37n.
- 26 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn ll. 68.
- 28 Cyfatebiaeth caled a meddal c = g. Diwygiwyd y ll. yn GLIA *P'le caent dy well? Plyg cant ywch.* Gellid seinio'r gytsain feddal yn *plygent* yn galed, a cf. y ffurf *neitio* sy'n digwydd yn y canu. Ystyr-lon hefyd fyddai'r f. *plycio* 'seinio [mawl] â'r bysedd', gw. GPC 2831.
- 34 **yr hen iarll** Diau mai Wiliam Herbert, yr Iarll Penfro cyntaf, sydd dan sylw.
- 35–6 **Gwna wledd ... / ... yn Rhaglan** Yng Nghas-gwent y cartrefai Harri, fel y nodwyd yn 42.42n, ond lluosog yw'r cyfeiriadau at Raglan yng nghanu'r bardd i ieirll Caerwrangon. Mewn gwirionedd, yr oedd hon yn un o arglwyddiaethau lleiaf De Cymru o ran ei maint, ac ni chynhwysai namyn pedair maenor, ond perthynai iddi statws digymar. 'The importance of the lordship of Raglan derived mainly from the fact that Raglan castle had been the principal residence of the earl of Worcester's Herbert ancestors for the greater part of the fifteenth century', gw. W.R.B. Robinson, 'The lands of Henry, Earl of Worcester in the 1530s', B xxv (1972–4), 456.
- 49 **Myrddin** Fe'i cyffelyba Lewys ei hun i'r Cynfeirdd ar achlysuron eraill, cf. 37.35 lle yr enwir Tydai Tad Awen. Enwir dau Fyrddin yn un o'r Trioedd, sef Myrddin mab Morfryn a Myrddin Emrys, gw. TYP<sup>2</sup> 214. Synnid am Fyrddin Wyllt neu Fyrddin ap Morfryn yn fardd ac yn broffwyd, ond meddai Myrddin Emrys, yntau, ar y ddawn i broffwydo, a chofnodwyd ei broffwydoliaethau ym Mrut Sieffre, gw. TYP<sup>2</sup> 469–74; WCD 492–500.
- 53 Cyfatebiaeth c = -s g-.

- 55–6 **Beli ... / Arthur ... Rufain** Yn y Brut, adroddir i Beli a'i frawd, Brân, meibion Dyfnwal, oresgyn Rhufain, gw. BD 37, a disgrifir cyrch Arthur yn erbyn Rhufain yn BD 166 *et seq.*
- 58 **[y] tair coron** Cysylltid y brenin Arthur â thair coron, gw. DWH i, 159, a cf. GG<sup>12</sup> LXIII.17–18 *Wrth roi sawd, Arthur yw Siôn, / I dir Caer a'i dair coron.*
- 59 **yr emprwr hen** Ai'r ymherodr Siarlymaen a fu'n gyfrifol am ddyrchafu Cwlen yn archesgobaeth, gw. MEnc?
- 62 **nawnyn** Gw. 1.47n.
- 65–8 Nodwyd bod dau gwpled yn eisiau yn llsgr. B, ond y mae'r brifodl yn y cwpled ychwanegol sydd yn y llsgr. honno yn cyfateb i brifodl llau. 67–8 yn y testun er bod sylwedd y ddau gwpled hynny yn dra gwahanol i'w gilydd.

## 45

Dyma'r gerdd y bu iddi'r cylchrediad helaethaf o blith y darnau a luniodd Lewys Morgannwg i ieirll Caerwrangon, ac fe'i ceir mewn un llawysgrif ar ddeg. Ceir mân wahaniaethau rhwng y testun a ddiogelwyd yn Pen 99 (ac yn Pen 101 sy'n gopi ffyddlon) a'r hyn sydd yn y llsgrau. eraill, ond ni ellir honni bod un fersiwn yn tra-rhagori. Yn y blaenaf yn unig y digwydd *nort* (ll. 58), gair a ddefnyddiodd y bardd ar sawl achlysur. Y mae ll. 26 fel y'i ceir yn yr un llawysgrif hefyd yn dwyn i gof linellau o eiddo'r bardd sy'n cynnwys trawiad cyffelyb.

Camgopiwyd y teitl yn BL Add 31090 (seiliwyd y testun hwn ar BL Add 31056) a gwelir y geiriau *Moliant Iarll Caernarvon* uwchben y cywydd.

- 8 **rôbs** 'Gwisg seremonïol' yw ystyr *rôb*, gw. GPC 2987. Efallai fod y ffurf l. yn fwy ystyrion yn y cyd-destun, a dilynwyd darlleniad y mwyafrif o'r llsgrau. yn y fan hon.
- 12 *r* wreiddgoll.
- 14 **a roed** Diau mai darlleniad llsgr. H yw'r un mwyaf ystyrion.
- 15 **grownd** Fe'i dosberthir yn GPC 1536 d.g. *grownd* 'gwaelod, sail, sylfaen' yn hytrach nag o dan *rownd*, gw. GPC 2989. Am enghraifft arall o'r blaenaf, gw. 49.33.
- 16 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 51, 52, 53.
- 18 **gardas** Ni chyfeirir o gwbl yn KE at urddo Harri yn farchog o Urdd y Gardys.
- 23–4 **O dri dug ... / ... o dri iarll** Gw. 43.25–7n.
- 24 **gwaed y rhos** Gw. 43.37n.

- 25–6 Ailgopiwyd y cwpled ar ochr y ddalen yn Pen 99, er nad yw'n cyfateb yn union; at hyn newidiwyd trefn y ddwy l. (sef y drefn a ddilynir yn y rhan fwyaf o'r llsgrau.): *deved fyth hyd at dy fam / ti ar ol y tri wiliam*. Ailadroddir y syniad sydd yn ll. 26 yn 49.21, 41 ac yn 50.20.
- 25 **y tri Wiliam** Gw. 43.17n.
- 28 **Dafydd** Dafydd Gam, gw. 8.20n a nodyn brig cerdd 42.
- 29–30 **bardd ... / ... herod** Gellir cymharu'r adran hon â'r darn a geir yn y cywydd a ganodd Iolo Goch i Rosier Mortimer, gw. GIG cerdd XX. Diddorol bod y ddau fardd yn agor eu disgrifiadau trwy ddatgan *mi sy herod* (Iolo Goch) a *dy fardd ydwyf fi / ... a herod* (Lewys Morgannwg), ac â'r ddau ati wedyn i ddisgrifio yn fanwl arfbais gwrthrych y moliant. Am drafodaeth ar gywydd Iolo Goch, gw. Gruffydd Aled Williams, 'Cywydd Iolo Goch i Rosier Mortimer: cefndir a chyd-destun', LICy xxii (1999), 57–79.
- 31–2 **Pedwar gwaed ... / Pedwar lliw** Dygai Charles Somerset arfau Lloegr a Ffrainc wedi eu chwarteru, sef tri llew aur Lloegr a thri fflŵr-dy-lis arian Ffrainc, gw. DWH ii, 526–7; 43.37–9n. Ond yma uniaethir Harri, Iarll Caerwrangon, â phedair cenedl a chysylltir pob un yn ei thro â lliw penodol, sef aur ac arian (Lloegr a Ffrainc), sinobl (Cymru) ac asur (yr Almaen), ond sylwer mai yn Pen 99 yn unig y digwydd yr ymadrodd *pedwar lliw*. Yng nghywydd Iolo Goch, mynnir bod Rhosier Mortimer, yntau, yn perthyn i bedair cenedl, sef Cymru, Lloegr, Ffrainc ac Iwerddon, ac uniaethir pob cenedl â lliw, gw. GIG XX.69–112. Arian yw'r lliw a gysylltir â Lloegr tra uniaethir Ffrainc â'r lliw aur, ond sinobl sy'n cynrychioli Cymru megis yn y gerdd dan sylw.
- 33 Ceir bai twyll gynghanedd *s* o ddilyn darlleniad Pen 99, sef (*g*)*wynllys*. Derbyniwyd y darlleniad *unlliw*, ond dichonadwy hefyd fyddai (*g*)*winlliw*.
- 37 **Almaen** Catherine o Valois oedd merch ieuengaf Siarl VI, brenin Ffrainc. Priodasai Siarl yn 1385 ag Isabella, merch Stephen II o Bafaria, gw. EncB v, 273–4. Olrheinir ach Catherine yn y testun 'Bonedd Henri Saithved', gw. Cylchg LIGC xiv (1965–6), 330–4: *Y vrenhines Katrin verch brenin Frank, o verch amherodr yr Almaen, o verch amherodr Ruvain y mam, o verch amherodr Konstainobl Vawr, o verch Ssawden o Babilon*. Priododd Catherine â Harri V o Loegr, gw. DNB ix, 289–90. Plentyn o'i hail briodas ag Owain Tudur oedd Edmwnd, tad Harri VII. Enwir Siarl drachefn yn 46.12, a diau mai trwyddo ef yr arddelir cyswllt â'r bedwaredd wlad yng ngerdd Lewys, sef yr Almaen.
- 39–42 Dyfynnir y llau. hyn, a chynigir rhyddgyfieithiad ohonynt, yn DWH



- i, 159. Gw. ymhellach 43.37–9n.
- 41 Cyfatebiaeth *th = dd* (ond sylwer ar ddarlleniad llsgrau. AB).
- 42 [y] **llew gwyn** Gw. 42.8n.
- 43–6 Anodd gwybod sut y dylid atalnodi'r ddau gwpled. Cymerir mai'r rhediad yw *aros ... i'w ddyfrlle* yn hytrach nag *aros dwfr ...* Tra oedd yr ieirll eraill ar dir sych, a'u gobeithion ar chwâl, yr oedd Harri yn barod i hwylio ac i hawlio ei wobr. Mynegir syniad nid annhebyg mewn cywydd o waith Ieuan Deulwyn, gw. ID XXXV.9–10 *er syrthio n aros wrthych / dy aros aeth yn dir sych*. Tybed a oes yma atgof am y chwedl am Faelgwn Gwynedd a'r beirdd a'r cerddorion, gw. WCD 440?
- 45 **dros Dyfi** Ar y calediad yn dilyn yr ardd., gw. 11.37n.
- 52 **ni bu 'rioed dŷ** Am enghreifftiau o dreiglo ac o gadw'r gysefin yn dilyn *erioed*, gw. 1.43n.  
**Herbar** Rhaid wrth y ffurf hon os disgyn yr acen ar '*rioed*, a cf. 26.50n, ond gallai'r acen fod ar *dŷ*. Galwai hynny am *Herbart*.
- 58 Anodd iawn oedd dewis rhwng *wŷr tŷ* a (g)*wŷr tŷ* yn y ll. hon.
- 59 **holl Dwywent** Ar y calediad cyffredin hwn a welir mewn ymadroddion megis *holl dawn, holl Deau, &c.*, gw. Treigladau 93, ond gthg. 42.43 *Iarll oedd ddaear holl Ddwywent*.
- 67–8 **Harri ... / ... fab** Canwyd y cywydd rhwng geni Edward [VI] ym mis Hydref 1537 a marw Harri VIII yn 1547. Ond efallai fod y bardd yn cyfeirio at Harri Tudur a'i fab Harri VIII.
- 71 **dryll** Rhoddir iddo yr ystyr 'wedi ei ddryllio' pan fydd yn cyflawni swyddogaeth a., gw. GPC 1095, ond efallai mai 'anghyflawn, diurddas' sy'n gweddu orau yn y cyd-destun.
- 72 **cyntaid** 'Yr haid gyntaf o wenyn a edy'r cwch (ystyrid 'mêl cyntaid' yn well ac yn fwy blasus na mêl heidiau diweddarach)', gw. GPC 800.
- 77 **bid dug** Gw. 45.79n.  
**d'eginyn** Mab ac etifedd Harri, sef Wiliam, gw. cerddi 47–9
- 79 **bid teiroes** Trafodir y treiglad a ysgogir gan *bid* yn Treigladau 315–16. Awgrymir bod treiglo'r dibeniad pan fydd ystyr orch. yn cael ei chyfleu yn gyffredin ond mai cadw'r gysefin a wneir pan fydd *bid* yn gyfystyr â *bydd*. Anodd cymhwyso'r patrwm hwnnw at yr enghreifftiau sy'n digwydd yng nghanu Lewys Morgannwg. Gellid *bid deiroes* yma heb amharu ar y gynghanedd ond digwydd y gysefin drachefn yn 45.77 er bod yr ystyr orch. yn amlwg. Ar y llaw arall, treigilir yn unol â'r disgwyl yn 22.95 *Bid le Asa, 'r Abad Leision*, a chedwir y gysefin yn 24.68 *Bid mwy obaith bod meibion*;

yr ystyr *bydd* a gyfleir yn yr olaf.

## 46

Bu farw Harri, yr ail Iarll Caerwrangon, 26 Tachwedd 1549, a'i gladdu yng Nghas-gwent, gw. ByCy 860.

Ceir testun golygedig o'r cywydd yn GLIA cerdd XXXIII.

- 2 **Duw fyw ddoeth** Diau fod yr ymadrodd hwn yn dwyn i gof y delwau y credid gynt eu bod yn fyw, gw. GDG<sup>3</sup> 511–12 (86.24n) ar y *grog fyw*.
- 3 **yr Wyth** Bu farw Harri VIII ryw dair blynedd ynghynt, ar 28 Ionawr 1547.
- 8 **dau Wiliam** Wiliam Herbert, Iarll Penfro, a'i fab, Wiliam, Iarll Huntingdon.
- 12 **Siarls ... Siarls** Diau mai Siarl VI o Ffrainc yw'r ail Siarls a enwir yn y cwpled (Charles Somerset, tad Harri, yw'r cyntaf), gw. 45.31–2n. Ond gallai fod yn ffurf ar yr e. Siarlymaen megis yn GGI<sup>2</sup> LXIII.19. Enwir yntau yn y canu i Harri, Iarll Caerwrangon, gw. 45.38, ac ymhellach 7.64n, 17.50n.
- 13 **y Duwc Harri** Henry Somerset, Dug Somerset, taid Harri o du ei dad.
- 23–4 **caer ... / ... aber môr Môn** Tybed ai Caernarfon yw'r gaer dan sylw megis o bosibl yn 48.13? Gan fod y bardd yn crybwyll y Mars yn yr un cwpled, awgryma hynny fod y golled i'w themlo ym mhob rhan o Gymru.
- 29 Camosodiad t.r = r.t.
- 32 **Cledd** *Cledd* yn hytrach na *Cleddau* yw'r ffurf a ddefnyddia Lewys Morgannwg, gw. y rhestr 'Enwau lleoedd', ac am enghraifft arall o'r ffurf, cf. ID XLVII.38. Daw dwy gainc o'r un afon ynghyd yn aber Afon Cleddau, sef Cleddau Ddu a Chleddau Wen (S. 'Eastern and Western Cleddau'). Am afonydd eraill sydd wedi eu henwi ar ôl arfau, gw. EANC 99.
- 33 **dreigiau** Y drydedd ormes yn chwedl 'Lludd a Llefelys'. Am gyfeiriad arall ati yn y canu, gw. 10.60n.
- 40 Twyll gynghanedd *th*.
- 43 **tra gerddwyf** Ar y treigladd, gw. 1.97n.
- 45 *r* berfeddgoll neu *f* led-lafarog.
- 50 **gwelas** Ar y ffurf 3 un.grff.myn. hon, gw. WG 325; GMW 122; G 653. Disodlwyd *gwelas* gan *gweles*, ond y flaenaf sy'n digwydd yn

- y canu, gw., e.e., 47.37 (yn safle'r odl) a 100.75.
- 54 **darffai** Rhestrir yn G 299 y ffurfiau *darffo* (3 un.pres.dib. *darfod*) a *darffai* (3 un.amhff.dib. yr un f.).
- 57 **torrer** Diau mai gwall am *dorrer* yw *dorres* y llsg. er bod enghraifft arall o'r terfyniad *-es* yn cynrychioli'r 3 un.grff.myn., gw. ll. 51. O gadw *torres* ceir cynganedd lusg sy'n cynnwys yr odl *-er / -eir*.
- 58 Cyfatebiaeth caled a meddal p = b, cf. d = t yn ll. 60.
- 61 **mab Elen** Gw. 3.34n, 27.44n.
- 63 **pum mab** Nid enwir plant Harri (ac eithrio ei etifedd, Wiliam) yn CP xii/ii, 851–2.
- pa mwy obaith** Ffurf ar y cysylltair *pe* yw *pa*, gw. GPC 2704. Ar y treigladd yn dilyn yr a.cmhr., gw. 1.18n.
- 65 **y fam** Am gyfeiriad arall at Elisabeth, gweddw Harri a mam Wiliam, gw. isod 47.20n.
- 66 **tri Wiliam** Wiliam yr etifedd ynghyd â Iarll Penfro a'i fab, gw. 43.14n.
- 69 **gadel** Digwydd y ffurf lafar hon yn safle'r odl ar achlysuron eraill yn y canu, gw. 84.37–8n.

## 47

Yn y cywydd hwn a'r ddau sy'n dilyn, cyferchir Wiliam Somerset (1526–89), trydydd Iarll Caerwrangon, a mab Harri, yr ail iarll, gwrthrych cerddi 42–6. Arno, gw. DNB liii, 247–8; CP xii/ii, 852–4. Enwir y brenin Harri VIII (m. 1547) yn llau. 3–4 a thrachefn yn llau. 35–6, ac yng nghwpled clo'r cywydd dymunir gweld dyrchafu Harri, tad Wiliam, yn ddug (dymuniad a leisir ym mhob un o'r cerddi iddo). Rhaid derbyn bod y cywydd wedi ei ganu cyn Ionawr 1547 pan fu farw Harri VIII, ac o ran trefn rhagflaena gerdd 46 uchod. Gelwir Wiliam yn ll. 6 yn *Arglwydd Harbard*. Dyma'r teitl a arddelai hyd pan fu farw ei dad.

- 1 **parlment** Ym mis Ionawr 1549/50, yn dilyn marw ei dad, y gwyswyd Wiliam i'r senedd; cymharu Wiliam yn ffafriol â'r pwysigion yn y senedd a wneir yn hytrach nag awgrymu bod iddo ran yng ngweithrediadau'r lle hwnnw.
- 3 **braich i Wyth** Gallai'r ymadrodd ddisgrifio'r mab neu'r tad.  
Cyfatebiaeth b = -b h-.
- 5 **'mredeg** Ystyron megis 'ymosod, cyrchu, rhuthro' sy'n gweddu i *ymredeg*, gw. GPC 3043–4 d.g. *rhedeg*.

- 8 **eilmab Elen** Gw. 3.34n, 27.44n.
- 9 *r wreiddgoll.*
- 12 Y mae'r ll. hon yn debyg iawn i 46.10.
- 13–14 **ieirll ... / ... ddugiaid** Gw. 43.25–7n.
- 15–16 Gellir diwygio > *ydywch / ywch* os Wiliam ei hun a gyferchir, ond diau mai Harri, ei dad, sydd dan sylw, ac ef yw *pen-meistr* y bardd.
- 16 Cyfatebiaeth *n* = -*n* *m*- neu *m* berfeddgoll neu *n* wreiddgoll.
- 19 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 29, 30.
- 20 **dy fam** Gw. 43.72n. Bu farw Elisabeth, ail wraig Harri, yn 1565 ac y mae'r sylw hwn a'r un yn y cywydd blaenorol yn cadarnhau iddi orosi ei gŵr. Yn DNB liii, 247, mynnir mai gwraig gyntaf Harri oedd mam Wiliam, ond yr ail wraig oedd ei fam yn ôl CP xii/ii, 852, ac ategir hynny gan y cyfeiriad hwn yng nghywydd Lewys Morgannwg (a cf. 46.65).
- 35 **waetio** Penodwyd Wiliam ym mis Gorffennaf 1544 yn un o wasanaethyddion bonheddig siambr gyfrin y brenin. Dichon i Lewys ganu'r cywydd hwn rhwng 1544 a 1547.
- 38 **Mynnai gledd fu 'n y maen glas** Ar ddechrau cylch 'Chwedl y Greal', gwêl Arthur a'i farchogion *vaen marmor coch wedy y wneuthur ar weith allawr. Ac yn y maen yd oed ... cledyf anrydedus*, gw. YSG 4. Lle y methodd Gwalchmai a Pheredur, llwyddodd Galath i dynnu'r cledyf o'r maen. Crybwyllir yr hanes ar achlysur arall, gw. 64.27n.
- 41–2 **Arstotlys ... / Alecsander** Bu i gerdd Walter de Châtillon, *Alexandreis*, gylchrediad helaeth yng ngwledydd Cred yn yr Oesoedd Canol. Diogelwyd pedwar fersiwn Cymraeg o'r testun rhyddiaith 'Cyngor Aristotlys at Alecsander' a seiliwyd ar ran o'r gerdd honno. Cyngor oedd hwn yr honnir i Aristotlys ei gynnig i Alecsander, gw. Telfryn Pritchard, 'Aristotle's advice to Alexander: Welsh versions of an Alexandreis passage', Cylchg LIGC xxiv (1985–6), 295–308; Rhyddiaith Gymraeg i, 86–90. Perthyn dau fersiwn i Forgannwg, y naill (L1st 171) yn llaw Ieuan ab Ieuan ap Madog a'r llall (LIGC 13075B) yn llaw Llywelyn Siôn. Gwyddai Ieuan Deulwyn am y traddodiad a leisir yn y cwpled hwn o waith Lewys Morgannwg, gw. ID XXXVIII.19–22 *alys dodlys gonffessawr / ir mwyn alygssandyr mawr / geirie r awdyr a gredwn / gwna dithav gynghorav hwn.*
- 41 **gwaetlawr** Nid oes enghreifftiau cyfoes o *llawr* 'arwr, ceimiad' yn GPC 2118 a gwell cymryd mai *llawr* 'daear' yw'r ail elfen yn y cyfansoddair.

- 45 **ewythr** Defnyddid yr ymadrodd yn ddigon llac, a gallai olygu ‘perthynas, cyswllt gwaed’. Nid annichon mai perthynas i fam Wiliam ar ochr Seisnig yr ach oedd yr ewythr y cymeradwyid ei ofal a’i arweiniad, ond yn ochr Gymreig yr ach y mae gwir ddiddordeb Lewys. Y ffigwr amlycaf y gallai Wiliam arddel cyswllt gwaed ag ef oedd Wiliam Herbert, wŷr yr Iarll Penfro cyntaf, a mab Syr Rhisiart Herbert Ddu o Ewias. Trwy wasanaethu Charles Somerset, taid gwrthrych y cywydd, y daeth i amlygrwydd yn y lle cyntaf, ond yn ystod y pedwardegau, sef yr adeg y bernir i Lewys ganu’r cywydd hwn, yr oedd yn derbyn ffafrau yn y llys brenhinol, gw. ByCy 328–9 a cherdd 26.
- 61–2 **Cadw i’th gof .../ Cymraeg iaith** Awgrym fod Wiliam (fel ei dad o’i flaen, o bosibl) yn medru’r iaith.
- 67 **’rofynd** Dilynwyd sillafiad y llsg. Be. yn unig yw *arofyn* ‘ceisio, hawlio’, gw. GPC 209, ond rhestrir *arofun* yn *ib.* 208–9 yn e. ‘cais, bwriad’ ac yn fe. ‘cyrchu; ceisio’.
- 69 **dau** Wiliam Herbert, Iarll Penfro, a’i fab, gw. 43.14n.

## 48

Dosberthir y cywydd yn Lewys Morgannwg: Gw ymhlith y cerddi a ganodd Lewys Morgannwg i Harri, Iarll Caerwrangon, ond y mae’n bur amlwg mai ei fab a’i etifedd, Wiliam, a gyferchir. Crybwyllir dau Wiliam, sef Wiliam Herbert, Iarll Penfro, a’i fab Wiliam Herbert, Iarll Huntingdon, a gelwir gwrthrych y cywydd yn drydydd Wiliam (llau. 3–8) ac yn fab i Harri. Fe’i canwyd yn fuan ar ôl marw Harri, Iarll Caerwrangon, yn 1549, ac yn ystod teyrnasiad Edward VI (1547–53).

- 3–4 **dau Wiliam ... / ... trydydd** Gw. y nodyn brig a 43.14n.
- 9 **pêr** Rhaid oedd diwygio *pv* y llsg. Byddai *pêr* ‘gellygen’, gw. GPC 2766–7, yn taro neu’r e.p. *Pŷr* sy’n digwydd yn y cywydd uchod, gw. 47.55.
- 10 **Swmrséd** Rhaid cyfrif y gair hwn yn un acennog. Ond sylwer bod tair sillaf yn *Symerset* y llsg. (nid oedd hyd y ll. yn caniatáu mabwysiadu’r ffurf hon) ac y mae tair sillaf yn *Swmrséd* 43.76 ac y mae’r gynghanedd yn galw am ffurf acennog yma drachefn.
- 13 **Caer ... Custennin** Crybwyllir Caernarfon, o bosibl, yn y cywydd marwnad i Harri, Iarll Caerwrangon, gw. 46.23–4n, a gallai fod yma gyfeiriad pellach at yr un lle. Gw. ymhellach 3.34n lle y gelwir sylw at y cymysgu a fu rhwng Elen gwraig Maccsen Wledig ac Elen ferch Goel.

14 [y] llew gwyn Gw. 42.8n.

15–16 **trydydd ... / ... Penfro** Mynegir y dymuniad y bydd i un o'r teulu dderbyn teitl Iarll Penfro ym mhob un o'r cerddi uchod. Efallai fod yma awgrym i'r cywydd hwn gael ei lunio cyn diwedd 1551 pan ddyrchafwyd Wiliam Herbert, câr gwrthrych y cywydd (a'r gŵr a enwir, fe ddichon, yn 47.45n), yn Iarll Penfro. Ef hefyd, yn hytrach na Wiliam, etifedd Harri, a gafodd y rhan fwyaf o'r swyddi a ddaethai i ran ail Iarll Caerwrangon, gw. ByCy 328–9; Rhys Robinson, 'Early Tudor policy towards Wales, Part 3: Henry, Earl of Worcester and Henry VIII's legislation for Wales', B xxi (1964–6), 356–7. Y mae'n arwyddocaol na chrybwyllir iarllaeth Penfro yn y cywydd sy'n dilyn.

18 **goglais** Deellir hon yn ffurf 3 un.pres.myn. *gogleisio* 'taro, cythruddo; cleisio', gw. GPC 1437, yn hytrach nag yn e.c.

19 **coronig** 'Coron fechan i'w gwisgo gan bendefigion o radd is na'r brenin', gw. GPC 565. Daw'r cofnod cynharaf yn *ib.* o eiriadur Dr John Davies, Mallwyd.

22 **ieirll a dugiaid** Gw. 43.25–7n.

28 Y mae *braich* y llsg. yn fwy ystyrllon na *baich*, ac yn drosiad y mae'r bardd yn hoff o'i arfer, ond ni ddisgwylid *r* berfeddgoll o dan yr acen. Un posibilrwydd fyddai mabwysiadu ffurf 2 un.pres.dib. *bod: iarll gorau fych ...*

30 **maen, modrwy** Cynigir mai *Maen a Modrwy Eluned ddedwyd, a roes i dynnu Ywain ap Urien (a) oedd rhwng yr ôg a'r porth yw'r rhain*. Fe'u rhestrir ymhlith y tri thlws ar ddeg, gw. TYP<sup>2</sup> 240–1; At. i. 25. Esbonnir arwyddocâd y cyfeiriadau at chwedl 'Iarlles y Ffynnon' yn y canu i'r teulu hwn yn 43.56n. Cyfeirir at faen a modrwy Arthur yn chwedl 'Breuddwyd Rhonabwy' hefyd: *Vn o rinwedeu y maen yw, dyuot cof yti a weleist yma heno; a phei na welut ti y maen ny doei gof ytti dim o hynn o dro*, gw. BRh 7.

31 **caen** Ffurf 1 ll.amhff.myn. y f. *cael*. Gw. 33.35–6n.

32 Camosodiad t.r = r.t.

36 **dylûd** Y mae'r gynghanedd yn mynnu gair acennog sydd hefyd yn ddeusill. Cymerir mai cywasgiad o'r ffurf 2 un.amhff.myn. *dylyud* sydd yma, gw. GMW 151–2, a cf. 83.12 *Y dylûd ddwyn dôl o aur*, 91.56 *Draw dylâwd euraw dy lin*; TA XIV.27 *Aur a ddlaûd, wraidd Elidir*.

Cyfatebiaeth caled a meddal t = d.

37 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 42, 58, 67.

43 **pechont** Cyffredin yw'r ffurf *pucho* 'dymuno, dyheu (am), ewyllys-

io, chwennyech', gw. GPC 2926, ond er bod GPC 2706 yn rhestru'r amrywiad *pechu*, ni ddyfynnir unrhyw enghreifftiau cynnar, a nodir yn unig mai ffurf ydyw sy'n fyw ar lafar yng Ngheredigion ac ym Morgannwg.

- 45 Bai crych a llyfn.
- 46 **ag ost** Ceir ll. nid annhebyg yn 46.48 *Cost llu ac ost Castell Gwent*.
- 50 **d'orhen-daïd** Y mae'r gynghanedd yn mynnu cyfrif yr elfen olaf yn y gair cyfansawdd yn acennog.
- 58 **o'th waed eich bath** Gwelwyd cyfodod 2 brs.un. a ll. y rh. ar achlysuron eraill, cf. *ydych* (ll. 53) ac *ytwyd* (ll. 55).
- 59–60 Dwy odl acennog yn y cwpled. Y dewis arall fyddai derbyn bod *dydd-daed* yn ddiacen. Digwydd *dydd daed* ar sawl achlysur yn y canu, gw. yr Eirfa, ond ymddengys mai acennog yw *daed* yn ddiethriad.
- 61 *n* berfeddgoll.
- 68 Twyll gynghanedd *b*.

## 49

Synhwyrir bod y bardd yn llai hyderus ac yn fwy gochelgar wrth ystyried rhagolygon Wiliam yn y cywydd hwn, a diau fod a wnelo hynny â'r siom a deimlwyd pan ddyrchafwyd ei gâr, Wiliam Herbert, yn Iarll Penfro yn 1551. Ond sylwer ar y cysur a gynigir i Wiliam yn llau. 53–4 pan ddywed y bardd na all na brenin na meidrol arall lwyddo heb ei gefnogaeth.

- 9–10 **Ni bu ... / W'r well** Ar y gystrawen, gw. 1.43n.
- 11 **dug Harri** Gellid dehongli'r ymadrodd mewn dwy ffordd. Gallai *dug* fod yn e.c. neu yn ffurf 3 un.grff.myn. y f. *dwyn*. Os yr ail, cyfeiria'r e.p. at dad Wiliam; os y blaenaf, at ei hendaïd, Henry, Dug Somerset.
- 18–20 **Twysog Gawnd ... / ... / ... o'r Tri Edwart** Disgynyddion trydydd mab Edward III oedd ieirll Caerwrangon, gw. 43.13n. Gallai Wiliam arddel cyswllt â Lionel, ail fab Edward III, trwy Margaret Courtenay, gwraig gyntaf Harri, gw. 43.72n, 47.20n. Ei mam hi oedd Catherine, merch ieuengaf y brenin Edward IV a ddisgynnai o Lionel, Dug Clarens, gw. DNB xii, 336–7. Ond ni roes y bardd unrhyw sylw i ochr agnatig, ac ochr Seisnig, ach y teulu yn y canu i ieirll Caerwrangon.
- 30 **Ffrainc** Bu Wiliam ar daith lysgenhadol i Baris ym mis Mai 1551, gw. DNB liii, 247–8. Tebyg i Lewys ganu'r cywydd rhwng Mai y flwyddyn honno a Gorffennaf 1553 pan fu farw'r brenin Edward

## VI.

32 *r* berfeddgoll.

42 **llew gwyn** Gw. 42.8n.

Cyfatebiaeth *t* = (*s*)*t*.

45 *r* berfeddgoll; cyfatebiaeth caled a meddal *p* = *b*.

47 **y trydydd** Wiliam oedd trydydd Iarll Caerwrangon. Ef hefyd, fel y pwysleisiwyd yn y ddau gywydd blaenorol, oedd y trydydd Wiliam o blith y teulu i'w ddyrchafu yn iarll, yn dilyn Wiliam Herbert, Iarll Penfro (m. 1469) a'i fab yntau, Wiliam Herbert.

50 **mwy wraidd** Ar y treigladd, gw. 1.18n.

58 *r* wreiddgoll.

## 50

Ymddengys i Lewys ganu'r cywydd hwn i Edward, mab Wiliam, trydydd Iarll Caerwrangon, yn fuan wedi ei eni yn 1553.

10 [**y**] **gwlân aur** Gw. 1.47n.

18 *n* wreiddgoll.

19 **gwaed newydd godi** Ailadroddir y cwpled mewn cywydd arall, gw. 89.21–2. Dilornus iawn yw Tudur Aled, yntau, wrth ddisgrifio'r dosbarth hwn, gw. TA LX.71–2 *Ni ddaw gwaed newydd godi, / A'th laned, iarll, i'th lin di.*

21 **tri dug** Gw. 43.25–7n.

22 **chwech** Edward fyddai'r chweched iarll gan ei fod yn dilyn y ddau Wiliam Herbert, ieirll Penfro, a thair cenhedlaeth o ieirll Caerwrangon.

31 *r* berfeddgoll.

32 **llythyrawl** Disgwylid i'r a. sy'n dilyn yr eb. *teiriaith* dreiglo yn feddal.

33 **dy fam** Cristian, merch hynaf Edward, Arglwydd North, oedd gwraig gyntaf Wiliam, ac Edward oedd eu hunig fab. Nid yw Lewys yn ei henwi yma, ac ni chrybwyllodd hi o gwbl yn y tri chywydd a ganodd i'w gŵr, gw. cerddi 47–9.

41–2 Cyfeiriad arall at drychineb Banbri, gw. 23.3n.

45 **garmwyn** 'Marchog, marchfilwr', gw. GPC 1383. Y mae'n amlwg nad oedd y copïwr yn gyfarwydd â'r ffurf.

47 Digwydd ll. debyg iawn i hon mewn cywydd arall o waith y bardd, gw. 67.55.



- 51–2 **gwŷr / Cainc** Gan mai un o ystyron *cainc* yw ‘cân, cerdd’, gw. GPC 390, tybed ai’r beirdd yw’r *gwŷr cainc* yr anogir Edward i’w cefnogi?
- 52 Cyfatebiaeth *nc* = *ng*, ond gellid *caing* sy’n amrywiad ar *cainc*, gw. GPC 390. Ceir yr un gyfatebiaeth yn 76.36 *Cainc hirwych y cynghoriaid*.
- 54 Cyfatebiaeth caled a meddal *t* = *d*.



